Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH ARBENNIG** | **EXTRAORDINARY EXECUTIVE** |
| **DYDD IAU 17 RHAGFYR 2020 5.00 o'r gloch** | **THURSDAY 17 DECEMBER 2020 5.00 pm** |
| **CYFARFOD RHITHIOL** | **VIRTUAL MEETING** |

| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |
|---|---|---|

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/Party of Wales**

Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Robin Wyn Williams

**Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Ar hyn o bryd nid yw'r Pwyllgor hwn yn cael ei wê-ddarlledu'n fyw.**
**Bydd recordiad o'r cyfarfod ar wefan y Cyngor cyn gynted â phosibl.**

# R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDI**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

**3** **MODERNEIDDIO YSGOLION - ARDAL LLANGEFNI (YSGOL TALWRN A YSGOL Y GRAIG)** (Tudalennau 1 - 130)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc mewn perthynas â'r ysgolion canlynol:-

- Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig

**4** **MODERNEIDDIO YSGOLION - ARDAL LLANGEFNI (YSGOL BODFFORDD AC YSGOL CORN HIR)** (Tudalennau 131 - 312)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc mewn perthynas â'r ysgolion canlynol:-

- Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir

**5** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 313 - 314)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol –

"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeëdig."

**6** **YN AMODOL AR Y PENDERFYNIAD AR EITEM 4 ITEM -YSGOL BODFFORDD A CORN HIR, I OFYN AM AWDURDOD Y PWYLLGOR GWAITH I BRYNU TIR AR GYFER DATBLYGIAD YSGOL GYNRADD CORN HIR NEWYDD YN LLANGEFNI** (Tudalennau 315 - 320)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **17 Rhagfyr 2020** |
| **Pwnc:** | **Adroddiad ar yr Ymgynghori – Moderneiddio Ysgolion Ardal Llangefni**<br>**Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd R. Meirion Jones** |
| **Cyfarwyddwr:** | **Rhys H Hughes**<br>**Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn<br>E-bost: | **Emrys Bebb**<br>2919<br>emrysbebb@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **Cynghorydd Bob Parry**<br>**Cynghorydd Dylan Rees**<br>**Cynghorydd Nicola Roberts** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Rhesymau:**
Mae swyddogion wedi ystyried dewisiadau amgen rhesymol ar gyfer y ddarpariaeth addysg yn ardal Llangefni yn ei chyfanrwydd, ac ar gyfer dalgylchoedd Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig yn benodol. Mae swyddogion wedi dod i'r casgliad mai ehangu Ysgol Y Graig drwy brosiect gwerth £6 miliwn a gynigir, er mwyn sicrhau cynaliadwyedd presennol a hirdymor addysg, a sicrhau bod digon o leoedd ysgol i gwrdd â'r galw ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

**Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn:**

- **Cymerdwyo'r cynnig sef "Cynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion o Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn"**
- Awdurdodi swyddogion i symud i ran nesa'r broses sy'n cael ei nodi yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion (2018) a chyhoeddi rhybudd statudol am gyfnod o 28 diwrnod yn gynnar yn y flwyddyn newydd.
- Awdurdodi swyddogion i ymgymryd ag ymatebion i'r rhybudd statudol gan lunio adroddiad gwrthwynebu (os oes gwrthwynebiadau) i bwrpas ystyriaeth pellach gan y Pwyllgor Gwaith yn y flwyddyn newydd.
- Awdurdodi swyddogion i ail gyhoeddi'r Asesiad Effaith ar y cynnig fel rhan o asesu effaith parhaus y cynnig ar gydraddoldeb, yr iaith Gymraeg a'r gymuned.

**Cefndir**
Rhwng 6 Chwefror 2020 a 20 Mawrth 2020, cynhaliwyd ymgynghoriad statudol gan swyddogion y Cyngor ar ddyfodol y ddwy ysgol dan sylw. Awdurdodwyd swyddogion i gynnal yr ymgynghoriad ar ôl i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith ystyried y 'papur cynnig' ym mis Ionawr 2020. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar ddiwrnod olaf yr ysgol cyn y cyfnod clo cyntaf, o ganlyniad i'r pandemig byd-eang a drawsnewidiodd y ddarpariaeth addysg am gyfnod.

Mae'n bwysig nodi bod y Cyngor wedi derbyn llythyr gan Lywodraeth Cymru (Y Gangen Trefniadaeth a Derbyniadau Ysgolion) yn datgan bod Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn rhoi estyniad i'r Cyngor tan 19 Mawrth 2021 i gyhoeddi unrhyw gynnig. Mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 drwy gydol y cyfnod pandemig.

Fel rhan o'r ymgynghoriad hwnnw, ystyriwyd cynnig gwreiddiol y Cyngor a nifer o gynigion eraill yn fanwl. e.e.

- Sefydlu ysgol aml-safle, Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn
- Ymgymryd â gwaith cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol yn Ysgol Talwrn
- Ehangu'r holl ysgolion cynradd (Ysgol y Graig, Ysgol Talwrn, Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir)

Cafwyd 57 o ymatebion ar-lein a 10 ymateb ar ffurf llythyrau a negeseuon e-bost i'r ymgynghoriad. Cafwyd ymatebion gan unigolion a sefydliadau cymunedol fel Merched y Wawr ac eraill.

O'r 57 o ymatebwyr ar-lein, roedd 52 (91%) yn anghytuno â'r cynnig, tra bod 5 (9%) cytuno â'r cynnig. O'r 52 a ddywedodd eu bod yn anghytuno â'r cynnig, roedd 48 o'r rhain yn gysylltiedig ag Ysgol Talwrn.
Roedd 7 ymatebydd yn gysylltiedig ag Ysgol y Graig. Roedd 4 o'r 7 (57%) hyn yn anghytuno â'r cynnig, tra bod 3 allan o 7 (43%) a oedd yn cytuno â'r cynnig.

Fel rhan o'r broses, derbyniwyd modelau addysgol eraill hefyd ac fe'u haseswyd gan swyddogion yn erbyn meini prawf a gyrwyr y strategaeth moderneiddio ysgolion bresennol (a nodir isod) wrth baratoi'r adroddiad ymgynghoriad. Dyma enghreifftiau o'r math o fodelau a gyflwynwyd:

- Adeiladu ysgol gynradd newydd yr 21ain Ganrif ar gyfer Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig a chau'r ddwy ysgol.
- Ffedereiddio Ysgol Talwrn gydag Ysgol y Graig
- Cynnwys dosbarthiadau Meithrin a Derbyn yn Ysgol Talwrn a blynyddoedd 1-6 yn Ysgol y Graig

Ar ôl ystyried yr holl ymatebion ac yn dilyn dadansoddiad cynhwysfawr o'u gwendidau a'u cryfderau yn erbyn gyrwyr y strategaeth moderneiddio ysgolion, ystyrir mai'r cynnig gwreiddiol yw'r ffordd fwyaf priodol ymlaen.

Daethpwyd i'r casgliad hwn gan fod y cynnig yn cwrdd â'r heriau allweddol (a nodir yn fras isod) a wynebir gan Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig ac mae'n cwrdd â gofynion y gyrwyr newid allweddol a nodir yn Strategaeth Moderneiddio Ysgolion 2018. Mae'r rhain yn cynnwys:

- gwella safonau addysgol;
- gwella arweinyddiaeth a rheolaeth;
- sicrhau bod adeiladau ysgol yn addas i'r diben;
- lleihau nifer y lleoedd gweigion;
- lleihau cost addysg yn gyffredinol a'r amrywiaeth yn y gost fesul disgybl;
- cynnal a gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg a
- chynyddu defnydd cymunedol o adeiladau ysgolion.

Yn ogystal, byddai'r cynnig yn sicrhau digon o lefydd yn yr ysgol i'r dyfodol.

Mae'r cynnig yn cwrdd â gofynion y gyrwyr allweddol fel a ganlyn:

- Mae angen i **safonau** ar draws pob ysgol fod o leiaf yn dda neu'n rhagorol. Yn ogystal â hyn, byddai disgwyl i ysgolion yn yr ardal fod yn y categori gwyrdd, h.y. ysgolion sy'n perfformio'n dda ac angen y lefel isaf o gefnogaeth. **Byddai'r ysgol ehangedig newydd mewn sefyllfa i gynnal gradd Estyn ac i gadw'r categoreiddiad gwyrdd yn y tymor canolig i dymor hir.**
- Mae'n rhaid i **arweinyddiaeth a rheolaeth** fod yn dda neu'n well ym mhob ysgol. Yn y cyd-destun hwn, mae penaethiaid angen digon o amser digyswllt i gydbwyso heriau arweinyddiaeth a rheolaeth ag ymrwymiad addysgu - yn yr Ysgol y Graig ehangedig newydd, rhagwelir na fyddai gan y pennaeth unrhyw ymrwymiad addysgu. **Byddai'n bosibl adeiladu a datblygu uwch dîm rheoli ymhellach, a allai wella arweinyddiaeth a rheolaeth.**
- Mae angen i'r **adeilad ysgol** ddarparu amgylchedd dysgu ysbrydoledig a fydd yn annog pob disgybl i gyflawni eu potensial ar draws pob maes dysgu. Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid i bob ysgol gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran hygyrchedd i blant ag anableddau – dylunnir adeilad 21ain ganrif newydd a chanddo gostau cynnal a chadw isel ynghyd â graddiad BREEAM rhagorol. **Byddai costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol y ddwy ysgol o £408,500 yn cael eu dileu. Bydd yr ysgol ehangedig yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010.**
- Mae angen i **leoedd ysgol** digonol fod ar gael yn yr ardal er mwyn cwrdd â galw presennol, rhagolygon niferoedd y dyfodol yn ogystal â lleihau lleoedd gweigion. Yn ogystal â hyn, mae angen lleihau symudiad disgyblion o'r tu mewn ac o du allan i'r dalgylch os oes modd - **mae'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn Ysgol y Graig. Yn ogystal, bydd disgyblion o Dalwrn yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau lle mae'r ystod oedran yn llai. Bydd llai o ddisgyblion yn symud rhwng dalgylchoedd**.
- Bydd angen i unrhyw ddarpariaeth ysgol ddiwygiedig yn yr ardal fod yn **gost effeithlon** h.y. mae angen lleihau'r costau refeniw ac unrhyw gostau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol. Yn ogystal â hyn, mae angen lleihau'r amrywiad yn y gost fesul disgybl ar draws ysgolion unigol - byddai gostyngiad yn y gost gyfartalog fesul disgybl yn yr ysgol ehangedig. Byddai'r gost rhagamcanol fesul disgybl yn yr ysgol ehangedig newydd ua £3,436 (ar sail cyllideb 2019/20). Mae hyn yn is na chyfartaledd Ysgolion Cynradd Ynys Môn - £3,988 (2019/20). Mae hefyd yn dileu'r amrywiaeth yng nghost y disgybl rhwng y ddwy ysgol – Ysgol Talwrn - £4,553 (2019/20), Ysgol y Graig - £3,429 (2019/20). Mae'r cynnig yn arwain at gost refeniw ychwanegol o tua £33,000 y flwyddyn (rhoddir mwy o wybodaeth yn rhan 7), fodd bynnag mae'n dileu costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol o £408,500. Pe byddai'r cyngor yn ariannu'r gwaith hwn drwy fenthyciad digefnogaeth dros gyfnod o 20 mlynedd, byddai hynny yn costio tua £32,000 y flwyddyn i'w gyllido. **Gellir dod i'r casgliad felly bod y cynnig yn agos at fod yn gost niwtral.**
- **Darpariaeth cyfrwng Cymraeg** - fan leiaf, byddai'r ddarpariaeth dda bresennol yn **cael ei chynnal**.
- Mae angen cynnal **defnydd cymunedol** o adeiladau ysgolion a chyfleusterau cysylltiedig, a'i gynyddu lle bo'n bosibl – **byddai'r gymuned ehangach yn parhau i gael budd trwy gael defnyddio'r adeilad ysgol newydd ehangedig.**

**I grynhoi felly, y cynnig sy'n cael ei argymell yw "Cynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion o Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn"**

| B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Ystyriwyd nifer o opsiynau (neu y cyfeirir atynt fel opsiynau amgen rhesymol yn yr adroddiad) fel rhan o'r adroddiad hwn. Mae'r holl opsiynau wedi'u hystyried yn erbyn yr heriau allweddol a nodwyd ar gyfer ardal Llangefni a'r ysgolion sy'n cael eu hystyried. |

| C – Pam bod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Y Pwyllgor Gwaith sy'n gyfrifol am faterion trefniadaeth ysgolion. |

| CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi. Mae'n cyd-fynd â'r strategaeth Moderneiddio Ysgolion Ynys Môn (a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Gwaith) a Dogfen Gyflawni Blynyddol 2019/20 (a fabwysiadwyd gan y Cyngor Llawn). |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi – mae'n rhan o'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion<br><br>Rhagwelir y bydd y ddarpariaeth newydd yn costio tua £6 miliwn i'w hadeiladu. Os bydd y cynnig yn cael ei gymeradwyo, bydd yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a fydd yn cyfrannu 65% drwy raglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif, a Chyngor Sir Ynys Môn yn cyfrannu 35%.<br><br>Os bydd adeilad presennol Ysgol Talwrn yn cael ei werthu, rhagdybir gallai hyn gyfrannu tua £150,000 tuag at gyfraniad y Cyngor.<br><br>Fe fydd cyfraniad y Cyngor tuag at y prosiect yn cael ei ariannu trwy fenthyca digefnogaeth. Rhagdybir y byddai'r ad-daliadau blynyddol yn costio tua £94,000.<br><br>Fe fydd costau cynnal adeilad Ysgol y Graig yn cynyddu, er enghraifft, costau trethi, ynni a glanhau. Fodd bynnag, bydd yr arbedion a wneir trwy gau Ysgol Talwrn yn gwrthbwyso'r rhain yn fwy. Mae arbediad yn erbyn costau cynnal a chadw adeilad Ysgol Talwrn, yn ogystal â'r elfennau sefydlog mae pob ysgol yn eu derbyn trwy'r fformiwla cyllido ysgolion (h.y. bydd un ysgol yn llai yn derbyn yr elfennau sefydlog). Rhagdybir y bydd hyn yn arwain at arbediad o £31,000 y flwyddyn wedi ystyried popeth.<br><br>Pe byddai'r Cyngor yn gwneud dim, rhagdybir y byddai Ysgol y Graig yn sylweddol dros ei chapasiti yn y dyfodol, ac felly byddai'n rhaid i'r Cyngor dalu i gludo disgyblion i ysgolion lle mae llefydd gweigion. Mae'r cynnig hwn yn creu capasiti ychwanegol yn yr ardal, felly ni fydd rhaid cludo disgyblion o'r ardal, ac yn sgîl hyn bydd y Cyngor yn osgoi tua £60,000 o gostau cludiant y byddai wedi gorfod eu talu yn y dyfodol pe bai'n gwneud dim. Byddai costau o tua £30,000 y flwyddyn i gludo disgyblion o ddalgylch Ysgol Talwrn i Ysgol y Graig, gan nad oes llwybr cerdded diogel, felly byddai'r arbediad yn erbyn y pennawd cludiant tua £30,000 y flwyddyn.<br><br>Felly y gost net blynyddol i'r Cyngor fyddai tua £33,000 (£94,000 - £31,000 – £30,000)<br><br>Bydd y cynnig hefyd yn dileu gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol i'r dyfodol o £408,500 rhwng Ysgol Talwrn (£360,000) ac Ysgol y Graig (£48,500).<br><br>Mae balansau ysgolion wedi gostwng yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, o £2,089,338 ym mis Mawrth 31 2017 i £197,315 ym mis Mawrth 31 2020. Ym mis Mawrth 31 2017, roedd 4 ysgol gynradd ac 1 ysgol uwchradd mewn diffyg. Erbyn 31 Mawrth 2020, roedd 9 ysgol gynradd, 3 ysgol uwchradd ac 1 ysgol arbennig mewn diffyg. |

| DD – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein anghenion tymor hir fel Ynys** | Mae'r penderfyniad hwn yn sicrhau cynaliadwyedd tymor hir addysg yn ardal Llangefni ac yn sicrhau bod digon o leoedd ysgol i ddiwallu'r anghenion nawr ac i'r dyfodol. Bydd hefyd yn sicrhau bod adeiladau ysgol newydd yn addas at y diben ac yn cwrdd â safonau BREEAM a safonau Ysgolion 21ain Ganrif. |
| 2 | **A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-** | Bydd y cynnig yn datblygu adeilad ysgol newydd fydd yn cyfrannu at yr ysgol yn mynd yn "Gyfundrefn Dysgu" (Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth Ein Cenedl 2017-2021).<br><br>Yn eu tro, dylai disgyblion gael budd o brofiadau yn yr ysgol fydd yn eu helpu nhw i fod yn oedolion ifanc sydd yn:<br>• ddysgwyr uchelgeisiol a medrus, fydd yn barod i ddysgu drwy eu bywydau<br>• gyfranwyr anturus, creadigol, yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith<br>• unigolion iach, hyderus, yn barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr cymdeithas.<br><br>Bydd y cynnig yn cael ei ariannu 65:35 gan Lywodraeth Cymru drwy'r rhaglen Band 'B' Ysgolion 21ain Ganrif a'r Cyngor. Bydd buddsoddiad y Cyngor trwy fenthyciad 50 mlynedd, wedi'i ariannu'n rhannol trwy'r derbyniadau cyfalaf. |
| 3 | **A ydym wedi bod yn cyd-gweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda pwy-** | Mae'r cydweithrediad sydd wedi digwydd a'r wybodaeth a gafwyd gan Estyn, GwE, Cynghorau Cymuned a'r ysgolion wedi ffurfio rhan o'r cynnig hwn.<br><br>Mae'r rhanddeiliaid canlynol wedi cael cyfle i gyfrannu yn ystod y broses ymgynghori statudol:<br>• Aelodau Etholedig Lleol<br>• Aelod Seneddol lleol<br>• Aelod lleol y Senedd<br>• Aelodau Rhanbarthol o'r Senedd<br>• GwE<br>• Estyn<br>• Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd<br>• Llywodraeth Cymru<br>• Y Comisiynydd Iaith<br>• Awdurdod Lleol cyfagos<br>• Cynghorau Cymuned a Thref lleol<br>• Undebau dysgu a staff sy'n cynrychioli athrawon a staff eraill yn Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig<br>• Cylch Meithrin Talwrn a Dechrau'n Deg<br>• Pennaeth Ysgol Gyfun Llangefni<br>• Uwch swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn<br>• Prif swyddog Ieuenctid Cyngor Sir Ynys Môn<br>• Partïon eraill â diddordeb |

| | | |
|---|---|---|
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'i rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Do. Mae rhanddeiliaid (Rhieni / Gwarcheidwaid, aelodau staff, Llywodraethwyr ac eraill sydd a diddordeb) wedi cael cyfle yn ystod y broses ymgynghori statudol i gyfrannu'n rhagweithiol ac i chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd ymlaen fydd yn cael ei gytuno. |
| **5** | **Pa effaith, os o gwbl, y mae'r penderfyniad hwn yn ei chael ar yr agenda cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg** | Bydd yr Awdurdod yn sicrhau cyfle cyfartal i'r holl ddisgyblion a staff beth bynnag yw eu gallu a'u cefndir. Mae gan y cynnig gyfle i gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg yn Ysgol Y Graig fydd wedi ei hehangu. |

| **E – Gyda phwy a ymgynghoroch chi?** | | **Beth oedd eu harsylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arwain (UDA)** (gorfodol) | Wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad hwn. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad hwn. |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro**(gorfodol) | Wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad hwn. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Dylid ymdrin ag unrhyw fater Adnoddau Dynol sy'n codi o'r argymhellion yn unol â phrosesau ymgynghori ac AD eraill cydnabyddedig. |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Mae safon yr offer TGCh megis taflunyddion a byrddau gwyn rhyngweithiol yn isel yn Ysgol Talwrn ac yn amrywio yn Ysgol y Graig. Byddai estyniad yn manteisio ar is-adeiledd TGCh o safon, ynghyd ag offer clyweled modern. Argymhellir cynnwys adnewyddu'r offer clyweled drwy'r ysgol i gyrraedd y safonau digidol. https://hwb.gov.wales/canolfan-cymorth/safonau-digidol-addysg<br><br>Mae'r offer rhwydwaith yn yr ysgolion hyn wedi ei leoli mewn storfa, felly nid yw'n amharu ar staff na disgyblion o ran sŵn. Byddai angen gofod mewn unrhyw estyniad ar gyfer offer rhwydwaith ychwanegol.<br><br>Mae'r ceblau ethernet yn yr ysgolion hyn i safon Cat5e. Argymhellir un ai ail-geblo Ysgol y Graig i CAT6A neu o leiaf ychwanegu pwyntiau CAT6A ym mhob dosbarth ar gyfer y pwyntiau di-wifr oherwydd capasiti ychwanegol.<br><br>Byddai rhaid plethu unrhyw ddatblygiad neu newid yng nghyfansoddiad / strwythur ysgolion i mewn i'r cynllun HWB sydd yn grant Llywodraeth Cymru i drawsnewid TGCh mewn ysgolion.<br><br>Mae moderneiddio technoleg ysgolion yn gostus oherwydd yr angen i ychwanegu ceblau ar gyfer systemau (mynediad drysau, CCTV, ffonau VOIP), argymhellir ystyried yr angen am dechnolegau moderneiddio fel hyn yn rhan o unrhyw gynllun. |

| | | |
|---|---|---|
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Bydd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2020 yn dilyn. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad 1 – Adroddiad Ymgynghoriad - Canlyniad yr ymgynghoriad a gynhaliwyd o 6 Chwefror 2020 hyd at 20 Mawrth 2020 Ar y cynnig i: "Gynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn"<br>ac<br>Asesiad Effaith gan gynnwys Cydraddoldeb, Iaith, Cymuned a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |

| **FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):** |
|---|
| Cod Trefniadaeth Ysgolion (11/2018)<br><br>Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Môn (diwygiedig) – Hydref 2018<br><br>Dogfen Cyflawni'r Cyngor Sir - 2019/20<br><br>Llythyr gan Lywodraeth Cymru i Gyngor Sir Ynys Môn dyddiedig 7 Mai 2020 yn rhoi estyniad tan 19 Mawrth 2021 i gyhoeddi unrhyw gynnig.<br><br>Dogfen gan Lywodraeth Cymru - Diweddariad Addysg Covid-19 - **Newidiadau i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion mewn ymateb i argyfwng y coronafeirws** (oedd yn rhoi arweiniad ar ymgynghori ar gynigion trefniadaeth ysgolion yn ystod argyfwng y coronafeirws (COVID-19)). |

# ADRODDIAD YMGYNGHORIAD

## MODERNEIDDIO YSGOLION – ARDAL LLANGEFNI

## Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig

**Canlyniad yr ymgynghoriad a gynhaliwyd o**

**6 Chwefror 2020 hyd at 20 Mawrth 2020**

**Ar y cynnig i:**

**“Gynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn”**

| | |
|---|---|
| **Protocol ar gyfer Siarad cyhoeddus mewn cyfarfodydd Rhithiol o’r Pwyllgorau Sgriwtini** | **Gall y cyhoedd gofrestru eu diddordeb ymlaen llaw gan ddefnyddio'r ffurflen berthnasol, i siarad mewn Cyfarodydd Pwyllgorau Sgriwtini.** <br> **Gweler y Protocol ar gyfer siarad cyhoeddus yng nghyfarfodydd rhithiol y Pwyllgorau Sgriwtini :** <br> **Protocol ar gyfer Siarad Cyhoeddus mewn Cyfarfodydd Rhithiol o’r Pwyllgorau Sgriwtini** |

**Rhagfyr 2020**

**Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English**

**Mae copïau caled o'r adroddiad hwn ar gael ar gais trwy anfon e-bost at ysgolionmon@ynysmon.gov.uk**

**CYNNWYS**

**1. CYFLWYNIAD** ........ 3
**2. DOSBARTHIAD YR ADRODDIAD YMGYNGHORI** ........ 3
**3. Y CYNNIG** ........ 4
3.1 Manylion arfaethedig yr Ysgol y Graig ehangedig ........ 4
**4. TREFNIADAU YMGYNGHORI** ........ 6
4.1 Methodoleg ........ 6
4.2 Cyfarfodydd Ymgynghori ........ 7
4.3 Ymgynghori â Phlant a Phobl Ifanc ........ 7
**5. YMATEBION A SYLWADAU** ........ 8
5.1 Crynodeb o'r Ymatebion ........ 8
5.2 Crynodeb o'r Sylwadau ........ 9
5.3 Sylwadau penodol gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg ........ 21
5.4 Ymateb gan Lywodraethwyr Ysgol Y Graig ........ 25
5.5 Ymateb gan Lywodraethwr o Ysgol Talwrn ........ 29
5.6 Llythyr gan staff Ysgol Talwrn ........ 37
5.7 Barnau plant a phobl ifanc ........ 38
5.8 Ymateb Estyn ........ 42
**6. SYLWADAU A DDERBYNIWYD MEWN PERTHYNAS Â'R OPSIYNAU AMGEN A YSTYRIWYD** ........ 47
6.1 Opsiynau Amgen Rhesymol i'r cynnig. ........ 47
6.2 Opsiynau Amgen Rhesymol Eraill A Gynigwyd Gan Randdeiliaid ........ 63
6.3 Opsiynau Amgen Rhesymol eraill a awgrymwyd gan Randdeiliaid y mae angen eu gwerthuso ymhellach ........ 71
**7. CASGLIAD** ........ 80

## 1. CYFLWYNIAD

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn ddyletswydd statudol i ddiogelu digon o leoedd addas i blant o fewn ysgolion y sir.

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) i ymgynghori â rhanddeiliaid wrth ystyried cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgolion sy'n cyflawni meini prawf penodol.

Rhwng 6 Chwefror 2020 a 20 Mawrth 2020 cynhaliodd y Cyngor broses ymgynghori statudol mewn perthynas â'r cynnig a ganlyn:

"Cynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn"

Diben cynnal ymgynghoriad statudol oedd ceisio barnau rhanddeiliaid/partïon â diddordeb am y cynnig.

Bellach mae'r adroddiad hwn ar yr ymgynghoriad yn cynrychioli cyfrifoldebau'r Cyngor yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) i lunio adroddiad i hysbysu rhanddeiliaid/partïon â diddordeb am ganlyniad yr ymgynghoriad statudol trwy:

- Grynhoi pob un o'r materion a godwyd gan randdeiliaid/partïon â diddordeb.
- Ymateb i'r materion drwy roi eglurhad, diwygio'r cynnig neu wrthod y pryderon gyda rhesymau i gefnogi hynny.
- Cyflwyno barn Estyn ar y cynnig, gydag ymateb y Cyngor.
- Mynegi barnau plant a phobl ifanc a effeithir gan y cynnig.

## 2. DOSBARTHIAD YR ADRODDIAD YMGYNGHORI

Cyhoeddwyd yr adroddiad ymgynghori ar wefan y Cyngor www.ynysmon.gov.uk ac fe gafodd y rhanddeiliaid/partïon â diddordeb a ganlyn wybod yn uniongyrchol am gyhoeddiad yr adroddiad ymgynghori.

- Staff (Addysgu ac Atodol) Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig
- Llywodraethwyr a Rhieni/Gwarcheidwaid Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig
- Aelodau Etholedig Lleol
- Yr Aelod Seneddol lleol
- Aelod lleol Senedd Cymru
- Aelodau Rhanbarthol Senedd Cymru
- GwE
- Estyn
- Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
- Llywodraeth Cymru
- Comisiynydd yr Iaith Gymraeg
- Awdurdod Lleol Cyfagos
- Cynghorau Tref a Chymuned Lleol
- Undebau addysg a staff sy'n cynrychioli Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn
- Cylch Meithrin Talwrn
- Dechrau'n Deg
- Mudiad Meithrin
- Meithrinfa Medra
- Meithrinfa Sêr Bach

- Cylch Meithrin Stryd Y Bont
- Pennaeth Ysgol Gyfun Llangefni
- Canolfan Addysg Y Bont
- Coleg Menai
- Cyngor Sir Ynys Môn – Uwch Swyddogion
- Cyngor Sir Ynys Môn – Prif Swyddog Ieuenctid
- Barnados

## 3. Y CYNNIG

Ymgynghorodd y Cyngor ar y cynnig i "Gynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn"

Byddai'r adeilad ysgol newydd yn cymryd holl ddisgyblion presennol Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn ac yn cwrdd ag amcangyfrif galw'r dyfodol, gan gynnwys darpariaeth feithrin. Byddai Ysgol Talwrn yn cau.

At ddibenion yr adroddiad hwn, bydd yr adeilad ysgol ehangedig yn parhau i gael ei alw'n Ysgol Y Graig.

### 3.1 Manylion arfaethedig yr Ysgol y Graig ehangedig

Nodir manylion arfaethedig yr Ysgol y Graig ehangedig isod:

| Manylion arfaethedig yr Ysgol y Graig ehangedig | |
|---|---|
| Ystod Oedran | 3-11 oed |
| Lleoedd Disgyblion | 480 (4-11 oed) |
| Lleoedd Meithrin | 68 |
| Rhif Mynediad | 68 |
| Lleoliad | Tir ger adeilad presennol Ysgol y Graig, Llangefni. |
| Categori | Cymunedol |
| Categori Iaith | Cyfrwng Cymraeg |
| Cyfleusterau Arfaethedig | Cyfleuster Ysgol 21ain Ganrif i wireddu'r Cwricwlwm i Gymru (CIG) newydd, gan gynnwys darpariaeth feithrin a chymunedol. |
| Y Gost a Ragwelir ar gyfer y Prosiect | Tua £6m, wedi ei ariannu 65/35 drwy Raglen Ysgolion 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru a chyfalaf y Cyngor. |

Cynigir y gallai'r estyniad i Ysgol Y Graig, a fyddai'n cynnwys bloc Cyfnod Sylfaen (CS) newydd, gynnwys y canlynol:

- Ystafelloedd Dosbarth Cyfnod Sylfaen (CS)
- Toiledau ac Ystafelloedd Cotiau gyferbyn ag Ystafelloedd Dosbarth CS
- Dosbarthiadau Derbyn
- Toiledau ac Ystafelloedd Cotiau ger Ystafelloedd Dosbarth Derbyn

- Ystafell Ddosbarth Meithrin
- Toiledau ac Ystafelloedd Cotiau ger yr Ystafelloedd Dosbarth Meithrin
- Prif neuadd (ar gyfer darpariaeth cinio ac i'w defnyddio fel campfa);
- Ystafell adnoddau
- Ystafell Grŵp Anogaeth
- Ystafell Gelf/Grŵp hyblyg
- Cegin gyda storfa, swyddfa a thoiled staff; man gweinydd; storfa neuadd
- Swyddfa'r Dderbynfa a llungopïwr
- Swyddfa
- Ystafell hylendid
- Ystafell Cefnogaeth i Ddisgyblion / Archwiliad Meddygol / Cyfweliad
- Ystafell staff gydag ardal waith ar wahân ar gyfer staff
- Toiledau ymwelwyr/staff
- Ystafell Gweinydd TG
- Ardal cleifion
- Mynedfa / Ardal Derbynfa
- Storfa'r Glanhawr
- 1 Ystafell Grŵp Bach

Byddai ardaloedd allanol yn cynnwys mannau chwarae caled, mannau chwarae meddal a gardd. Byddai mannau chwarae ar gyfer plant meithrin a phlant meithrin cyn ysgol ar wahân. Byddai cae chwarae'r Ysgol y Graig bresennol yn cael ei ddefnyddio gan blant y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. O ganlyniad i gynnwys yr uchod cynigir -

- Byddai gan Ysgol Y Graig ehangedig ddigon o leoedd i gwrdd â'r galw.
- Byddai Ysgol Y Graig ehangedig wedi ei hadeiladu'n bwrpasol i ddarparu'r Cwricwlwm i Gymru (CIG) newydd.
- Byddai Ysgol Y Graig ehangedig mewn sefyllfa i gynnal ei graddfeydd Estyn Rhagorol a Da a disgwylir iddi gadw ei statws categoreiddio Gwyrdd (A).
- Byddai Ysgol Y Graig ehangedig yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010
- Byddai'r gost fesul disgybl yn yr Ysgol Y Graig ehangedig yn is na'r gost gyfartalog fesul disgybl ar gyfer ysgolion cynradd Ynys Môn.
- Yn yr Ysgol Y Graig ehangedig, rhagwelir na fydd gan y Pennaeth ymrwymiad addysgu penodol.
- Byddai adeilad yr Ysgol Y Graig ehangedig yn adeilad 21ain ganrif wedi'i ddylunio i fod â chostau cynnal a chadw isel ac i gael gradd BREEAM rhagorol.

Mae'r Cyngor yn cynnig darparu trafnidiaeth am ddim i ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Talwrn ar hyn o bryd i'r Ysgol Y Graig ehangedig, ar gyfer plant sy'n gymwys yn unol â pholisi cludiant y Cyngor i ysgolion.

Byddai'r Cyngor yn darparu cymorth priodol i ddisgyblion ADY. Pe bai gan rieni sydd â phlant sy'n ddisgyblion ADY cofrestredig unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r gefnogaeth a gynigir, gellir trefnu cyfarfodydd unigol â Dr Einir Thomas (Rheolwraig Anghenion Dysgu Ychwanegol), E-bost: einirthomas@gwynedd.llyw.cymru, rhif ffôn 01286 679007.

## 4. TREFNIADAU YMGYNGHORI

Ar 20 Ionawr 2020, rhoddodd Pwyllgor Gwaith y Cyngor awdurdod i swyddogion gynnal ymgynghoriad statudol yn unol â'r gofynion a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) ar y cynnig isod:

### 4.1 Methodoleg

Cynhaliwyd yr Ymgynghoriad rhwng 6 Chwefror 2020 a 20 Mawrth 2020. Yn ystod y cyfnod hwn, gwahoddwyd rhanddeiliaid/partïon â diddordeb i fynegi eu barnau ar y cynnig i:

**"Gynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn"**

Roedd dolen i'r ddogfen ymgynghori ar gael i'r holl randdeiliaid/partïon â diddordeb yn adran 2, ac fe gyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori ar wefan y Cyngor www.ynysmon.gov.uk.

Roedd y Cyngor wedi codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad drwy rwydweithiau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor hefyd. Rhoddwyd gwybod i'r ymgyngoreion am y cyfleoedd a ganlyn i ymateb i gynnig yr ymgynghoriad, neu i ofyn cwestiynau, drwy:

- Anfon e-bost at ysgolionmon@ynysmon.gov.uk neu
- Cwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein neu
- Cwblhau'r ffurflen ymateb drwy e-bost at ysgolionmon@ynysmon.gov.uk

Neu ei phostio at:
Rheolwr Rhaglen (Moderneiddio Ysgolion)
Gwasanaeth Adnoddau Dynol a Thrawsnewid
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
LL77 7TW

Roedd copïau caled o'r ddogfen ymgynghori, neu fformatau amgen, ar gael ar gais.

**4.2 Cyfarfodydd Ymgynghori**

Cynhaliwyd y cyfarfodydd/sesiynau a ganlyn i gyflwyno'r dogfennau ymgynghori ac i egluro'r broses ymgynghori i Staff, Llywodraethwyr, Rhieni/Gwarcheidwaid a'r holl bartïon eraill sydd â diddordeb a oedd yn bresennol. Rhoddwyd gwybod i'r mynychwyr am bwysigrwydd ymateb i'r ymgynghoriad fel y disgrifiwyd yn adran 4.1, gan na chymerwyd unrhyw gofnodion ffurfiol yn y cyfarfodydd ymgynghori.

| Dyddiad | Lleoliad / Ysgol | Rhanddeiliaid | Amser |
|---|---|---|---|
| 10 Chwefror 2020 | Ysgol Talwrn | Staff | 4:00 yh – 5:00 yh |
| | Ysgol Talwrn | Llywodraethwyr | 5:15 yh - 6:15 yh |
| | Ysgol Talwrn | Rhieni/ Gwarcheidwaid | 6:30 yh - 7:30 yh |
| | | | |
| 13 Chwefror 2020 | Ysgol Y Graig | Staff | 4:00 yh – 5:00 yh |
| | Ysgol Y Graig | Llywodraethwyr | 5:15 yh - 6:15 yh |
| | Ysgol Y Graig | Rhieni/ Gwarcheidwaid | 6:30 yh - 7:30 yh |

**4.3 Ymgynghori â Phlant a Phobl Ifanc**

Cynhaliwyd y broses ymgynghori gyda Phlant a Phobl Ifanc yn unol ag Adran 3.5 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.

Roedd disgyblion o Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig wedi cymryd rhan yn y broses ymgynghori. Bu swyddogion o'r Cyngor yn cyfarfod â'r ddau Gyngor Ysgol a disgyblion eraill yn ystod y cyfnod ymgynghori. Cyflwynwyd y wybodaeth a ddarparwyd i'r cyfranogwyr mewn modd perthnasol i'w hoedran a'u lefel o ddealltwriaeth, ac yn unol â'r arfer a gytunwyd â'r ddau Bennaeth ymlaen llaw.

Datblygodd y Cyngor ffurflen ymateb A3 a oedd yn hawdd i'r plant ei chwblhau. Cwblhaodd y disgyblion y ffurflen ymateb mewn grwpiau a rhoddwyd y cyfle iddynt siarad yn rhydd a gofyn cwestiynau.

Gellir gweld crynodeb o'r adborth a dderbyniwyd gan y plant a'r bobl ifanc yn adran 5.7 o'r adroddiad hwn.

## 5. YMATEBION A SYLWADAU

Mae'r adran a ganlyn yn crynhoi pob un o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion yn ystod yr ymgynghoriad.

### 5.1 Crynodeb o'r Ymatebion

Derbyniodd y Cyngor 57 o ymatebion o'r arolwg 'smart survey' a 10 ymateb ar ffurf llythyrau a negeseuon e-bost. Cafodd y 57 ymateb ar-lein eu categoreiddio fel a ganlyn:

| Categorïau'r Ymatebwyr | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Llywodraethwr Ysgol | 2 |
| Staff | 5 |
| Rhiant / Gwarcheidwad | 38 |
| Aelod Etholedig | 0 |
| Cynghorydd Tref / Cymuned | 0 |
| Preswylydd Lleol | 5 |
| Arall | 7 |
| **Cyfanswm** | **57** |

| Ymatebwyr yn gysylltiedig ag | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Ysgol Talwrn | 49 (86%) |
| Ysgol Y Graig | 7 (12%) |
| Heb nodi | 1 (2%) |

| Ymateb i'r cwestiwn "A ydych yn cytuno â'r cynnig i "Gynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn?" | |
|---|---|
| Ydw – 5 | Nac ydw – 52 |

| Nifer y sylwadau ynghylch y cynnig i: "Gynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn". |
|---|
| 48 (arolwg 'smart survey') – mae'r rhain wedi'u crynhoi yn rhan 5.2 isod. |

| Nifer yr opsiynau amgen rhesymol eraill a dderbyniwyd i barhau gydag Ysgol Talwrn sy'n mynd i'r afael â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn? |
|---|
| Darparodd 34 o ymatebwyr sylwadau o ran ymateb i'r cyfle i gynnig opsiwn amgen rhesymol newydd drwy'r arolwg 'smart survey'. Ar ôl dadansoddi'r ymatebion, deuwn i'r casgliad bod 14 opsiwn amgen rhesymol wedi'u hawgrymu, **fodd bynnag, roedd rhai** |

| |
|---|
| **o'r rhain wedi'u hystyried eisoes o fewn y Ddogfen Ymgynghori a'r Papur Cynnig.** Cynhwyswyd crynodeb llawn yn adran 6 isod. |

| Nifer y materion eraill y dylai'r Cygor eu hystyried fel rhan o'r Asesiad Effaith |
|---|
| Darparodd cyfanswm o 40 o ymatebwyr sylwadau o ran ymateb i'r cyfle i awgrymu materion eraill y dylai'r Cyngor eu hystyried fel rhan o'r asesiad effaith. Mae Tabl 5.2 isod yn crynhoi'r sylwadau hyn ac yn amlinellu ymateb y Cyngor. |
| Aethpwyd i'r afael â'r materion hyn yn yr Asesiad Effaith – Atodiad 1 |

**5.2 Crynodeb o'r Sylwadau**

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos crynodeb o'r sylwadau (a goladwyd yn ôl themâu) a dderbyniwyd drwy'r arolwg ar-lein yn ystod y cyfnod ymgynghori, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

| Rhif | Thema | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 5.2.1 | **Wedi cytuno neu anghytuno gyda'r cynnig**<br>Roedd 57 o ymatebwyr – roedd 52 (91%) yn anghytuno â'r cynnig, tra bo 5 (9%) yn cytuno â'r cynnig. | Mae nifer yr ymatebwyr yn isel iawn.<br><br>Ceir 336 o ddisgyblion yn Ysgol Y Graig a 38 o ddisgyblion yn Ysgol Talwrn, sy'n dod i gyfanswm o 374 ar draws y ddwy ysgol. Rhoddwyd gwybod i'r holl rieni, staff a llywodraethwyr am y Ddogfen Ymgynghori. Gwahoddwyd rhieni'r ddwy ysgol i fynychu cyflwyniad ar ei chynnwys ynghyd â'r broses ymgynghori. Felly rhoddwyd gwybod i o leiaf 374 o unigolion am yr arolwg.<br><br>Gellir tybio felly mai uchafswm o tua 15% o randdeiliaid Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn wedi'i cyfuno oedd yn teimlo'n ddigon cryf i fynegi eu teimladau drwy'r arolwg. |
| | O'r 52 oedd yn dweud eu bod yn anghytuno â'r cynnig, roedd 48 o'r rhain yn gysylltiedig ag Ysgol Talwrn. | Ym Medi 2019, roedd 38 o ddisgyblion ac 18 o staff neu lywodraethwyr yn Ysgol Talwrn. Gan fod yr holl staff, rhieni ac eraill wedi cael gwybod am yr arolwg, mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o randdeiliaid Ysgol Talwrn yn teimlo'n ddigon cryf i fynegi eu teimladau drwy'r arolwg.<br><br>Er bod 91% o'r ymatebwyr yn anghytuno, dywedodd un rhiant o Ysgol Talwrn:<br>"Dwi'n cytuno'n llwyr gyda'r cynnig i gau ysgol fechan sy'n hen, yn ddifflach ac yn gostus er mwyn cael ysgol fwy sy'n costio llai fesul disgybl.<br>Dwi'n credu y gwnaiff hyn roi mwy o gyfleoedd i'm plant ac y bydd yn eu paratoi'n well ar gyfer mynd i'r ysgol uwchradd" |

| Rhif | Thema | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| | O'r 52 o ymatebwyr oedd yn anghytuno â'r cynnig, ni wnaeth 9 (17%) ohonynt unrhyw sylwadau pellach ar y cynnig. | Gellir dehongli hyn mewn sawl modd gwahanol, h.y. –<br>• nid oedd yr unigolion hyn eisiau newid y sefyllfa bresennol<br>• nid oedd yr unigolion eisiau anfon eu plant i Ysgol Y Graig<br>• nid oedd yr unigolion yn teimlo bod angen moderneiddio |
| | Un o'r rhesymau o ran pam nad oedd 15 (26%) o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig oedd oherwydd bod Ysgol Talwrn yn perfformio'n dda, ac maent yn teimlo y gall yr ysgol ddarparu gwasanaeth personol, gyda phob disgybl yn cael y sylw a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. | Er bod Ysgol Talwrn yn perfformio'n dda ar hyn o bryd, mae risg y gallai hyn fod yn anodd i'w gynnal yn y tymor hir. Po fwyaf o ysgolion sydd ar yr ynys, y mwyaf anodd y bydd i benodi penaethiaid effeithiol, yn enwedig mewn ysgolion llai, lle efallai nad oes cymaint yn cystadlu am swyddi. Pe bai tîm rheoli Ysgol Talwrn yn newid yn y dyfodol, byddai hyn yn risg sylweddol.<br><br>Bydd hefyd yn her i Ysgol Talwrn allu diwallu anghenion y cwricwlwm newydd i Gymru, oherwydd adeilad yr ysgol a'r ychydig gyfleusterau sydd yno ar gyfer dysgu yn yr awyr agored.<br><br>Mae nifer gyfyngedig o staff mewn ysgol fechan yn golygu bod diffyg amrywiaeth o ran y cwricwlwm, ynghyd â llai o gyfleoedd i gael amrywiaeth o brofiadau allgyrsiol.<br>Gall oedrannau cymysg mewn ysgolion llai fod yn her o ran darparu ar eu cyfer.<br>Mae'n anochel y bydd gan arweinyddion ysgolion lai o amser i arwain oherwydd eu cyfrifoldebau dysgu.<br>Gall fod yn anodd i ysgolion bach drefnu dosbarthiadau o feintiau sy'n gost effeithiol (h.y. meintiau dosbarthiadau sy'n agos i 30).<br>Os yw dosbarthiadau'n aneffeithlon, bydd hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar gyllidebau ysgolion, sy'n golygu nad oes digon o gyllid yn weddill i ariannu agweddau eraill, fel penodi staff arbenigol ym maes anogaeth a gofal bugeiliol. |
| | Un o'r rhesymau pam nad oedd 14 (25%) o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig oedd eu bod o'r farn y dylai disgyblion lleol gael eu haddysg yn lleol, a chredant y byddai'r cynnig i gau Ysgol Talwrn yn cael effaith niweidiol ar y gymuned. | Ceir sawl enghraifft o gymunedau cryf o fewn pentrefi nad ydynt yn cynnwys ysgol.<br><br>Byddai'r cyfleusterau yn Ysgol Y Graig (o fewn 2 filltir o Ysgol Talwrn) ar gael i'w defnyddio gan gymuned Talwrn. |

| Rhif | Thema | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| | | Yn ogystal, ceir Neuadd Bentref yn Nhalwrn a ddefnyddir ar hyn o bryd i hwyluso llawer o weithgareddau lleol, a gellid ei defnyddio ar gyfer rhagor o weithgareddau.<br><br>Mae effaith penderfyniad o'r fath yn cael ei fynegi'n glir yn yr asesiadau effaith sydd ynghlwm (**Atodiad 1**) |
| | Un o'r rhesymau o ran pam nad oedd 9 (16%) o'r holl ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig oedd eu bod yn ofni efallai y bydd ysgolion yn Llangefni dros eu capasiti yn y dyfodol o ganlyniad i nifer o ddatblygiadau tai o fewn ardal Llangefni. | Datblygwyd y cynnig nid yn unig i gymryd disgyblion ychwanegol o ddatblygiadau tai y cyflwynwyd ceisiadau cynllunio ar eu cyfer, ond mae hefyd wedi ystyried data sy'n cael ei ddal gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, fel dyraniadau tai ar gyfer ardal Llangefni. Roedd adran 5.4 o'r Ddogfen Ymgynghori'n rhoi disgrifiad manwl o effeithiau posibl y datblygiadau tai hyn yn Llangefni ar yr Ysgol Y Graig ehangedig arfaethedig. Roedd y Ddogfen Ymgynghori'n amlinellu y byddai nifer ragamcanol y disgyblion yn Ysgol y Graig yn 383 ym Medi 2023 ac y byddai uchafswm o 419 ym Medi 2027. Daethpwyd i'r casgliad y byddai digon o leoedd yn yr ysgol ar gyfer disgyblion ychwanegol.<br><br>Rhoddodd y cynnig sylw hefyd i nifer y plant 3-11 oed fesul aelwyd ym mhob ward unigol ar ddyddiad y cyfrifiad diwethaf.<br><br>Fodd bynnag, bydd bob amser yn anodd penderfynu nifer ragamcanol gywir y disgyblion mewn ysgol, oherwydd dewis rhieni o ran pa ysgol y bydd eu plentyn yn ei mynychu. Fodd bynnag, mae'r cynnig yn debygol o leihau nifer y disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch sydd yn ardal y Graig / Talwrn.<br>Os cymeradwyir y cynnig, dylunnir yr Uned Cyfnod Sylfaen newydd ar gyfer Ysgol y Graig i ganiatáu estyniad pellach yn y dyfodol ar gyfer 2 ystafell ddosbarth, a fydd yn diogelu datblygiad yr ysgol ar gyfer y cyfnod i ddod. |
| | Un o'r rhesymau o ran pam nad oedd 9 (16%) o'r holl ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig oedd eu bod yn pryderu fod traffig eisoes yn broblem yng nghyffiniau Ysgol Y Graig, ac y byddai'r cynnig yn gwaethygu'r broblem hon. Dywedodd rhai o'r ymatebwyr eu bod yn pryderu bod | Os cymeradwyir y cynnig gan y Pwyllgor Gwaith, bydd datblygu'r Uned Cyfnod Sylfaen ar safle newydd yn caniatáu datrys y problemau parcio presennol fel rhan o'r cynllun newydd. Ni ellir ond cyflawni hyn trwy gynyddu arwynebedd y safle i gynnwys darpariaeth barcio ychwanegol. Bydd angen i'r Cais Cynllunio ddangos sut y gellir datrys y problemau parcio presennol er mwyn cael |

| Rhif | Thema | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| | damweiniau'n debygol, ac awgrymwyd y dylai swyddogion o'r Cyngor fynd i arsylwi'r traffig yn yr ardal rhwng 8.30 a 9 o'r gloch y bore ac wedyn tua 3 o'r gloch y prynhawn i sylweddoli pa mor ddrwg oedd y broblem. | cefnogaeth yr Adran Priffyrdd. Os gweithredir y cynnig hwn, mae'n gyfle i liniaru'r pryderon hyn o ganlyniad i'r gwaith gwella arfaethedig.<br><br>Cynhelir Asesiad Effaith Traffig a bydd yn ffurfio rhan o'r Cais Cynllunio. Datblygir y cynigion gyda staff y Cyngor, Ymgynghorydd Effaith Traffig, Pensaer Tirwedd a Pheiriannydd Sifil. Datblygir y cynllun hefyd mewn ymgynghoriad â swyddogion o'r Adran Priffyrdd, cyn cyflwyno'r cais.<br><br>Bydd datblygu'r Uned ar safle newydd yn caniatáu datrys y problemau parcio presennol fel rhan o'r cynllun newydd. Ni ellir ond cyflawni hyn trwy gynyddu arwynebedd y safle i gynnwys darpariaeth barcio ychwanegol. Bydd angen i'r Cais Cynllunio ddangos sut y gellir datrys y problemau parcio presennol er mwyn cael cefnogaeth yr Adran Priffyrdd. |
| | Un o'r rhesymau o ran pam nad oedd 5 (9%) o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig oedd eu bod yn pryderu y byddai'r cynnig yn cael effaith niweidiol ar y Gymraeg. | Mae data CYBLD 2019 yn amlygu bod canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn rhugl adref yn uwch yn Ysgol Y Graig (59%) nag yn Ysgol Talwrn (40%).<br><br>Nid oes unrhyw wahaniaeth clir o ran cyflawniadau disgyblion Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig yn y Gymraeg rhwng 2015 a 2017.<br><br>Ar dudalen 21 o'r Asesiad Effaith oedd ynghlwm i'r Ddogfen Ymgynghori, roedd adran 3.5.6 yn nodi:<br>*"Bydd yr ysgol ehanedig arfaethedig yn ysgol gymunedol, cyfrwng Cymraeg. Bydd yn flaenoriaeth i'r Awdurdod gryfhau a diogelu'r iaith Gymraeg ac addysg ddwyieithog."*<br><br>Felly, os gweithredir y cynnig, cyfrifoldeb tîm arweinyddol yr Ysgol Y Graig ehangedig arfaethedig fydd hybu defnydd anffurfiol o'r Gymraeg gan y disgyblion yn ystod oriau ysgol. Byddai'r Ysgol y Graig ehangedig arfaethedig yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth ac ar iard yr ysgol, |

| Rhif | Thema | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| | | yn unol â Siarter Iaith Gymraeg yr Awdurdod. |
| 5.2.2 | **Ymatebwyr o Ysgol Y Graig**<br>Cafwyd 7 ymatebwr oedd yn gysylltiedig ag Ysgol Y Graig. Roedd 4/7 (57%) o'r ymatebwyr oedd yn gysylltiedig ag Ysgol y Graig yn anghytuno â'r cynnig, tra bo 3/7 (43%) o'r ymatebwyr oedd yn gysylltiedig ag Ysgol y Graig yn cytuno â'r cynnig. | Dylid nodi bod canran yr ymatebwyr o Ysgol Y Graig yn eithriadol o isel. Gellid dod i gasgliad felly nad oedd y mwyafrif o unigolion sy'n gysylltiedig ag Ysgol Y Graig y rhoddwyd gwybod iddynt am yr arolwg, yn teimlo'n ddigon cryf i nodi eu bod yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig trwy'r arolwg 'smart survey'. |
| 5.2.3 | **Adeilad Ysgol Talwrn**<br>Dywedodd rhai o'r ymatebwyr nad oeddynt yn cytuno â'r cynnig eu bod yn meddwl nad oedd yr adeilad presennol yn addas i'r diben. | Mae pob adeilad ysgol yn cael ei arolygu'n rheolaidd gan syrfewyr cymwys. Mae gan Ysgol Talwrn radd cyflwr o B – Boddhaol (Perfformio fel y dylai ond yn arddangos ychydig o ddirywiad). |
| 5.2.4 | **"Mae cael ymgynghoriad arall yn annheg"**<br>Dywedodd sawl un o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo ei fod yn annheg i Ysgol Talwrn orfod mynd trwy ymgynghoriad arall eto. | Er ei fod yn derbyn y bu Ysgol Talwrn yn destun 4 ymgynghoriad statudol, mae'r Cyngor yn ymroddedig i wrando ar farnau rhanddeiliaid wrth weithredu newid sylweddol a fydd yn effeithio ein preswylwyr. Mae moderneiddio ein stoc ysgolion yn newid o'r fath, ac mae'n bwysig nodi barnau rhieni, staff a phreswylwyr a gallant newid dros gyfnod o amser. Felly mae'r angen i gynnal ymgynghoriadau amserol yn angenrheidiol.<br><br>Mae hefyd yn ofynnol gan y Cod Trefniadaeth Ysgolion i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus cyn rhoi camau ar waith i ad-drefnu ysgolion, fel yn achos y cynnig sydd dan ystyriaeth. |
| 5.2.5 | **"Mae arian yn bwysicach"**<br>Dywedodd rhai eu bod yn credu bod arbed arian yn bwysicach i'r Cyngor na safonau addysgol. | Mae'r Cyngor wedi adnabod saith gyrrwr ar gyfer y rhaglen moderneiddio ysgolion, y mae 'cyllidol' yn un ohonynt. Mae'r gyrwyr eraill yn cynnwys –<br>• Safonau<br>• Arweinyddiaeth a Rheolaeth<br>• Lleoedd Ysgol<br>• Adeilad yr Ysgol<br>• Defnydd Cymunedol a<br>• Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg<br><br>Mae'r Cyngor o'r farn bod y cynnig yn perfformio'n dda yn erbyn pob un o'r gyrwyr hyn, wrth fynd i'r afael hefyd â'r heriau |

| Rhif | Thema | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| | | allweddol sy'n wynebu Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig. |
| 5.2.6 | **"Mae ysgolion gwledig yn cael eu cosbi"**<br>Roedd dyrnaid o'r ymatebwyr yn teimlo bod ysgolion gwledig yn cael eu cosbi o ganlyniad i broblemau sy'n bodoli o fewn y trefi, h.y. bod Ysgol Talwrn yn cael ei chau er mwyn helpu i gyllido estyniad i Ysgol Y Graig, gan fod Ysgol Y Graig dros ei chapasiti. | Mae'r cynnig yn mynd i'r afael â heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Talwrn yn ogystal ag Ysgol y Graig, megis:<br>- Mae'n sicrhau bod disgyblion yn cael eu dysgu mewn dosbarthiadau ag ystod oedran o ddim mwy na 2 flynedd.<br>- Mae'n darparu cyfleusterau ar gyfer disgyblion sy'n addas i ddiben cyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru.<br>- Mae'n sicrhau nad oes gan y pennaeth ymrwymiad addysgu penodol sylweddol.<br><br>Mae'r strategaeth Moderneiddio Ysgolion yn darparu cyfeiriad o ran dyfodol ein stoc ysgolion. Bu hwn yn destun ymgynghori gyda'r ysgolion a'r llywodraethwyr cyfredol ac, yn sicr, fe'i hystyrir yn gyfle i wneud gwelliannau y bydd y genhedlaeth bresennol o blant, yn ogystal â rhai'r dyfodol, yn manteisio arnynt. |
| 5.2.7 | **"Mae'r Ysgol y Graig arfaethedig yn rhy fawr"**<br>Gwnaeth 17 (30%) o'r holl ymatebwyr sylwadau oedd yn awgrymu y byddant yn ystyried y byddai'r Ysgol y Graig arfaethedig (gyda chapasiti o 480) yn rhy fawr i ddisgyblion gael y sylw a'r cymorth sydd eu hangen arnynt, neu eu bod yn teimlo y byddai rhai disgyblion yn cael trafferth dygymod ag ysgol o'r maint hwn. | Bydd gan ysgol o'r maint hwn yr adnoddau i sicrhau bod yr addysgu yn cael ei deilwra i ddiwallu anghenion pob disgybl, gan gynnwys y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol, a'r disgyblion hynny yr ystyrir eu bod y mwyaf abl a thalentog.<br>Mae tystiolaeth yn awgrymu bod ysgolion llai yn cael trafferth diwallu anghenion y ddau grŵp hyn (adroddiad Estyn – Maint Ysgolion ac Effeithiolrwydd Addysgol – Rhagfyr 2013)<br>Bydd ysgol o'r maint hwn yn rhoi mwy o amrywiaeth cwricwlaidd oherwydd adnoddau ac addysgu arbenigol h.y. TG, cerddoriaeth.<br>Byddai mwy o gyfle i wneud gweithgareddau allgyrsiol i ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion a'u teuluoedd.<br>Oherwydd adnoddau ychwanegol a'r gallu i benodi staff arbenigol, gall ysgolion mwy ddarparu gofal bugeiliol a grwpiau anogaeth. |
| 5.2.8 | **"Mae'r cynnig yn tarfu ar y disgyblion"**<br>Gwnaeth 7 (12%) o'r ymatebwyr sylwadau o ran nad yw'r Cyngor yn poeni am les y disgyblion presennol, bod y disgyblion yn | Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall y newid fod yn anodd i rai disgyblion, yn enwedig disgyblion o Dalwrn. Os yw'r cynnig yn cael ei gymeradwo, gwneir pob ymdrech i wneud |

| Rhif | Thema | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| | hapus yn lle maent, ac y byddai'r cynnig yn tarfu ar y disgyblion. Gwnaed y mwyafrif o'r sylwadau hyn gan rieni / gwarcheidwaid sy'n gysylltiedig ag Ysgol Talwrn. | y trosglwyddiad mor ddi-dor ag y bo modd, drwy gynnal gweithgareddau ar y cyd rhwng disgyblion Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn er mwyn i ddisgyblion wneud ffrindiau â phlant o Ysgol Y Graig cyn iddynt drosglwyddo.<br><br>Yn wir, mae'r rhaglen moderneiddio ysgolion eisoes wedi gweld 10 ysgol gynradd yn uno i greu 3 ysgol gynradd newydd. Dysgwyd gwersi o ran sut i reoli'r broses a sicrhau trosglwyddiad di-dor o un ysgol i'r llall. Codwyd pryderon tebyg cyn i'r ysgolion cynradd hyn uno a chymerwyd y rhain o ddifrif. I liniaru'r pryderon hyn, cynhaliwyd gweithgareddau ar y cyd rhwng disgyblion yr ysgolion oedd yn uno er mwyn i'r disgyblion gael dod i adnabod ei gilydd. Roedd y gweithgareddau hyn yn llwyddiannus cyn ffurfio Ysgol Cybi, Ysgol Rhyd y Llan ac Ysgol Santes Dwynwen. Mae profiad yn dangos hefyd bod plant, ar y cyfan, yn addasu'n rhwydd i newid ysgol.<br><br>Rhaid i'r Cyngor ystyried yr effaith ar genedlaethau'r dyfodol yn ogystal â disgyblion presennol wrth lunio cynigion ar gyfer yr ardal. |
| 5.2.9 | **Ffedereiddio**<br>Gwnaeth 5 (8%) o'r ymatebwyr sylwadau oedd yn awgrymu y byddai'n well ganddynt yr opsiwn o ffedereiddio. | Ychydig iawn o resymau a gafwyd o ran pam roedd ymatebwyr yn ffafrio'r opsiwn o ffedereiddio, ar wahân i hynny a ystyriwyd eisoes o fewn y ddogfen ymgynghori.<br>Roedd sawl opsiwn yn adran 6.3 o'r Ddogfen Ymgynghori yn cynnwys y posibilrwydd o ffedereiddio ysgolion. Fodd bynnag, roedd anfanteision y rhain yn gorbwyso'r manteision. Mae manteision ac anfanteision ffedereiddio ysgolion yn cael eu crynhoi yn nhabl 5.2.11 isod.<br>Fodd bynnag, nid yw'r Awdurdod yn rhagfarnu yn erbyn ffedereiddio, mae ganddo ffederasiwn ar waith yn Ysgol Goronwy Owen ac Ysgol Moelfre. Dechreuodd y ffederasiwn hwn weithredu yn Ionawr 2020. Mae hyn yn dangos parodrwydd yr Awdurdod i ffurfio ffederasiynau, sef yn yr achos hwn, ffederasiwn Gwêl y Glannau. |

| Rhif | Thema | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 5.2.10 | **Amrywiol**<br>Nododd llai na 5 (9%) o'r ymatebwyr un neu ragor o'r canlynol fel rhesymau pam nad oeddent yn cytuno â'r cynnig: | |
| | ▪ Nid yw'r cynnig yn mynd i'r afael â'r heriau a wynebir gan Ysgol Gyfun Llangefni. | Ystyriwyd yr heriau a'r dewisiadau amgen rhesymol gan gynnwys Ysgol Gyfun Llangefni yn y papur cynnig. Daeth y Cyngor i'r casgliad nad oedd unrhyw opsiwn amgen rhesymol oedd yn mynd i'r afael ag anghenion Ysgol Gyfun Llangefni a'r ysgolion cynradd o fewn yr ardal. Yr unig her sylweddol sy'n wynebu Ysgol Gyfun Llangefni yw cyflwr yr adeilad presennol. Bydd hyn felly'n cael ei ailystyried pan fydd Cyngor Ynys Môn yn dynodi ei gynlluniau ar gyfer Bandiau C a D o'r rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif. |
| | ▪ Mae cost amcangyfrifiedig mynd i'r afael â chostau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol Ysgol Talwrn wedi'i gorbwysleisio. | Os rhywbeth, roedd y costau yn y Ddogfen Ymgynghori yn rhy isel. Gellir dadansoddi'r costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol o £360,000 fel a ganlyn:<br>Gwaith mewnol £29,500<br>Gwaith allanol £80,500<br>Ystafell ddosbarth newydd dros dro £250,000<br>Derbyniwyd pris ar gyfer ystafell ddosbarth dros dro o faint tebyg gan y Cyngor yn Awst 2019 ac roedd yr amcanbris yn dod i gyfanswm o £308,000 (£185k ar gyfer yr ystafell ddosbarth symudol, £11k ar gyfer offer ychwanegol a £112k ar gyfer gwaith sylfaen a chysylltu'r ystafell ddosbarth symudol â'r gwasanaethau cyfleustodau). |
| | • Mae disgyblion Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn yn dod o wahanol gefndiroedd cymdeithasol. Byddai'n haws uno ag ysgolion o gefndir tebyg, neu ag ysgolion o faint tebyg, e.e. Llanbedrgoch a / neu Bentraeth. | Mae disgyblion yn mynychu ysgolion yn ôl dalgylchoedd ac nid cefndiroedd cymdeithasol. Mae Ysgol Pentraeth mewn dalgylch ysgol uwchradd wahanol i Ysgol Llanbedrgoch ac Ysgol Talwrn – gallai hyn olygu y byddai disgyblion o'r un ysgol gynradd yn mynd i ysgol uwchradd wahanol, fyddai yn ei dro'n ei gwneud hi'n anoddach i ddisgyblion Blwyddyn 6 pan fyddant yn symud i'r ysgol uwchradd. Nid yw Ysgol Llanbedrgoch ac Ysgol Pentraeth yn rhan o'r ymgynghoriad presennol ond mae'n debygol y byddant yn cael eu hystyried yn y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn y dyfodol. Felly ni roddir unrhyw ystyriaeth bellach i'r opsiwn hwn. |

| Rhif | Thema | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| | ▪ Risg pe byddai Ysgol Y Graig yn gweithredu o ddau adeilad ar wahân, y gellir gweld yr ysgol fel dwy ysgol ar wahân. Roedd pryder hefyd y gallai dau adeilad ar wahân greu problemau logistaidd i rieni sydd angen codi disgyblion o fwy nag un safle. Gwnaed y sylwadau hyn gan staff o Ysgol Y Graig. | Bydd yr uwch dîm arweinyddiaeth yn Ysgol Y Graig yn gyfrifol am oruchwylio'r dulliau addysgu, ac am sicrhau bod gan athrawon Cyfnod Allweddol 2 ddealltwriaeth dda o lefelau datblygiad disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Gallai'r uwch dîm arweinyddol hefyd drefnu gweithgareddau sy'n dod ag athrawon a phlant y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 ynghyd i wneud y trosglwyddiad o'r Cyfnod Sylfaen mor ddi-dor ag mewn unrhyw ysgol arall. Byddai'r bloc Cyfnod Sylfaen newydd yn cael ei leoli o fewn tua 90 metr o'r adeilad Cyfnod Allweddol 2, a fydd yn ei gwneud yn haws rheoli 2 adeilad ar wahân, a bydd yn lleihau'r problemau logistaidd i rieni. Byddai monitro a chymorth gan Wasanaeth Addysg y Cyngor yn parhau, a byddai'r gwasanaeth addysg rhanbarthol, GwE hefyd yn parhau i fonitro'r safonau yn yr ysgol. |
| | ▪ Ni fydd disgyblion o Dalwrn yn gallu cerdded neu feicio i Ysgol Y Graig. | Mae'r Cyngor wedi cydnabod yr anfantais hon o fewn y papur cynnig, y ddogfen ymgynghori a'r asesiad effaith. Bydd effeithiau hyn yn cael eu lliniaru gymaint ag y bo modd, drwy ddarparu gwasanaeth bws am ddim i ddisgyblion cymwys, yn unol â'r polisi cludiant ysgol. |
| | ▪ Nid yw'r cynnig yn darparu gwerth am arian. | Ceir diffyg capasiti yn yr ysgolion o fewn ardal Llangefni, y mae'n rhaid mynd i'r afael ag ef. Bydd ar unrhyw gynllun i greu capasiti ychwanegol angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol gan yr Awdurdod. Mae'r buddsoddiad sydd ei angen gan yr Awdurdod wedi'i leihau'n sylweddol, gan y bydd cyfraniad Llywodraeth Cymru trwy'r rhaglen Ysgolion 21$^{ain}$ Ganrif yn ariannu 65% o'r costau cyfalaf. Mae costau'r cynnig hwn yn unol â'r costau a awgrymwyd yn nogfen 'Safonau o Ran Cost a Maint' Llywodraeth Cymru, ar ôl ystyried costau anarferol, fel costau prynu tir ychwanegol, a chostau datrys problemau parcio ar y safle presennol. Rhagwelir y byddai cost net y cynnig yn tua £33,000 y flwyddyn i'r Awdurdod, am 50 mlynedd. Os na wnaiff yr Awdurdod elwa ar y cyfle sydd ar gael ar hyn o bryd trwy'r Rhaglen Ysgolion 21$^{ain}$ Ganrif, byddai'r gost flynyddol net yn llawer uwch mewn blynyddoedd i ddod. |

<table>
<tr><th>Rhif</th><th>Thema</th><th>Ymateb y Cyngor</th></tr>
<tr><td></td><td>▪ Dywedodd staff Ysgol Y Graig nad oeddent eisiau i Ysgol Talwrn gau er mwyn i Ysgol Y Graig gael estyniad.</td><td>Nid yw’r penderfyniad i gau Ysgol Talwrn yn ganlyniad uniongyrchol i’r ffaith bod Ysgol Y Graig dros ei chapasiti. Byddai’r manteision o gau Ysgol Talwrn a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Y Graig yn cynnwys (ond nid wedi’u cyfyngu i):<br>- Sicrhau bod pob disgybl yn cael ei addysgu mewn dosbarthiadau ag ystod oedran o ddim mwy na 2 flynedd.<br>- Sicrhau bod anghenion pob disgybl yn cael eu diwallu, gan gynnwys y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol, a’r disgyblion mwyaf abl a thalentog.<br>- Mae’n darparu cyfleuster dysgu ar gyfer disgyblion cyfredol o Dalwrn, a rhai yn y dyfodol, sy’n addas i’r diben ar gyfer y 21ain Ganrif, gan gynnwys cyflwyno’r cwricwlwm newydd i Gymru.<br>- Mae’n lleihau’r amrywiad yn y gost fesul disgybl ac yn cyflawni arbedion refeniw.</td></tr>
<tr><td></td><td>▪ Mewn ymgynghoriadau blaenorol, gofynnodd rhieni am ddadansoddiad o gostau cynnal a chadw Ysgol Talwrn, na chawsant eu darparu erioed.</td><td>Mae’r Cyngor wedi darparu dadansoddiad i lywodraethwr yn Ysgol Talwrn o gostau cynnal a chadw Ysgol Talwrn, gan gynnwys cost caffael a gosod ystafell ddosbarth symudol newydd ar y safle.<br>I osod ystafell ddosbarth symudol newydd, byddai angen caniatâd i gael mynediad gan y tirfeddiannwr wrth ymyl yr ysgol. Ar ôl cael hyn, byddai angen cwblhau’r camau a ganlyn:<br>▪ Dymchwel yr uned bresennol<br>▪ Gwaith dan y ddaear (sylfeini, ceblau trydan, dŵr, ceblau ffôn a chyfathrebu a phibellau carthion ac ati)<br>▪ Uned ddosbarth newydd (gan gynnwys toiledau i’r plant yn ogystal â thoiled staff / anabl)<br>▪ Caniatad cynllunio a rheoli adeiladu<br>▪ Gwaith logisteg (dymchwel ac ailgodi wal derfyn lydan rhwng yr ysgol a’r cae drws nesaf, dymchwel ac ailgodi terfyn cae wrth ymyl y lôn), defnyddio’r system ‘Trackway’ ar y cae drws nesaf, cryfhau’r iard o dan y craen ac ati<br>▪ Ramp a stepiau haearn i’r caban newydd<br>▪ Gwaith atgyweirio / gwella’r iard<br>▪ Ffi ar gyfer trefnu a chynnal y gwaith<br>Fel y soniwyd uchod, derbyniwyd pris am ystafell ddosbarth dros dro o faint tebyg yn</td></tr>
</table>

| Rhif | Thema | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| | | Awst 2019 gan y Cyngor, a'r pris amcangyfrifiedig oedd cyfanswm o £308,000 (£185k ar gyfer yr ystafell ddosbarth symudol, £11k ar gyfer offer ychwanegol a £112k ar gyfer gwaith ar y sylfeini a chysylltu'r ystafell ddosbarth symudol â'r gwasanaethau cyfleustodau) |
| | Cafodd tri chadeirydd llywodraethwyr Ysgol Bodffordd, Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn gyfarfod a'r Aelod Senedd lleol, ac ysgrifennodd y tri chadeirydd lythyr ar y cyd.<br><br>Ymateb ar y cyd yw hwn gan gadeiryddion y tair ysgol:<br>• Bod taer angen ysgol newydd ar gyfer Corn Hir<br>• Yr egwyddor nad oes rhaid cau ysgolion eraill er mwyn i hyn ddigwydd<br>• Roedd angen ymgynghoriad gwirioneddol dryloyw wrth fynd ati i geisio ymateb amgen<br>• Rydym yn barod i helpu i ddatblygu syniadau all olygu bod cau ysgolion yn anochel.<br>Roeddynt yn cydymdeimlo â sefyllfa'r Cyngor yn nhermau cyllid a chyfeiriad polisi cenedlaethol. | Ystyrir yr ymateb fel rhan o'r ymgynghoriad. |

**Tabl 5.2.11**
Mae manteision ac anfanteision ffedereiddio ysgolion yn cael eu crynhoi yn y tabl isod (parhad o adran 5.2.9 uchod):

| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
|---|---|---|
| 1.Safonau | ▪ Ehangu'r cyfleoedd am weithgareddau i ddisgyblion<br>▪ Cyfleoedd i rannu arbenigedd staff ac arfer da<br>▪ Yn fwy posibl i sicrhau cysondeb o ran addysgu | ▪ Ni fyddai unrhyw newid yn amrywiad meintiau'r dosbarthiadau na'r nifer o ystodau oedran a addysgir yn nosbarthiadau Ysgol Talwrn. |
| ▪ 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Opsiynau i ddewis uwch strwythur arweinyddiaeth i weddu i strwythur y ffederasiwn gan gynnwys rheolwyr safle ysgolion.<br>▪ Byddai'r pennaeth yn cael mwy o amser digyswllt ynghyd â'r cyfle i ddatblygu | ▪ Gall gostio mwy i'w redeg gan fod angen rheolwyr safle yn y ddwy ysgol ac mae angen ôl lenwi rhai swyddi. |

| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
|---|---|---|
| | uwch dîm rheoli ymhellach i rannu'r baich arweinyddol. | |
| 3.Adeilad Ysgol | ▪ Byddai Ysgol y Graig yn parhau i gydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran mynediad i ddisgyblion ag anableddau. | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella adeilad Ysgol Talwrn i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol ar safle Ysgol Talwrn<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol yn yr ysgol (£360k yn 2019).<br>▪ Nid yw Ysgol Talwrn ond yn cydymffurfio'n rhannol â Deddf Cydraddoldeb 2010. |
| 4.Lleoedd Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn Ysgol y Graig. |
| 5.Cyllidol | ▪ Byddai bob ysgol yn cadw ei chyllideb ei hun.<br>▪ Rhagwelir arbedion o tua £2k y flwyddyn mewn costau addysgu. | ▪ Colli cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost fesul disgybl a chydraddoldeb darpariaeth.<br>▪ Nid yw'n lleihau'r swm a ddirprwyir i ysgolion drwy'r fformiwla cyllido ysgolion.<br>▪ Nid yw'n dileu'r costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol.<br>▪ Mae'n debygol y bydd costau refeniw yn cynyddu yn y dyfodol. |
| 6. Darpariaeth cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth dda. | |
| 7. Defnydd cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd cymunedol presennol yn parhau. | |
| 8. Materion cyffredinol | ▪ Byddai darpariaeth addysg yn parhau ar bob safle ysgol.<br>▪ Yn tarfu cyn lleied â phosibl | ▪ Byddai angen cludo disgyblion i ysgolion y tu allan i'r dalgylch (sydd â lleoedd gweigion), gan nad oes capasiti digonol i gymryd yr holl ddisgyblion o fewn y dalgylch. |

Nid yw ffedereiddio Ysgol Talwrn ag unrhyw ysgol arall ond yn cwrdd â'r heriau a wynebir gan Ysgol Talwrn yn rhannol, sef:

1. Niferoedd disgyblion – **nid yw'n mynd i'r afael** â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn Ysgol Y Graig
2. Dim digon o le i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (CiG) yn y tymor canolig/hir – byddai'n parhau **heb newid** o ganlyniad i ffedereiddio
3. Cost fesul disgybl - byddai arbedion bach iawn yn golygu y byddai'r gost fesul disgybl yn **parhau i fod yn uwch** na chyfartaledd ysgolion cynradd Ynys Môn
4. Adeilad ysgol – mae ganddi gostau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol o £360,000 (2019) ynghyd â gradd cyflwr B (Boddhaol – Perfformio fel y dylai ond yn arddangos ychydig o ddirywiad). Nid yw adeilad Ysgol Talwrn ond yn cydymffurfio'n rhannol â'r gofynion a ddisgwylir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 – **byddai'r rhain yn parhau heb newid**

5. Safonau – gallai'r safonau cyfredol a welir yn Ysgol Talwrn fod yn anodd i'w cynnal yn y tymor hir – byddai hyn yn parhau i fod yn wir
6. Ymrwymiad Addysgu'r Pennaeth – ymrwymiad addysgu o 70% ar hyn o bryd – yn debygol o newid.
7. Cyllid - mae'n annhebygol y byddai unrhyw fân arbedion o ganlyniad i ffedereiddio yn ddigonol i gyfrannu at y gostyngiad y mae ar y Cyngor angen ei wneud i'w gyllideb

Oherwydd y ffaith nad yw ffedereiddio Ysgol Talwrn gydag unrhyw ysgol arall yn cwrdd â'r heriau a wynebir gan Ysgol Talwrn, mae'n cael ei ddiystyru.

**5.3 Sylwadau penodol gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg**

Codwyd y pwyntiau a ganlyn gan Gymdeithas yr Iaith:

- **Yr Ymgynghoriad "ddim yn deg a dilys"**

  Mae Cymdeithas yr Iaith yn honni bod y cynnig sydd dan ystyriaeth yn "ailwampiad" o'r "cynnig gwreiddiol" blaenorol a bod hyn "yn profi nad oedd gan y Cyngor feddwl agored wrth ffurfio ei gynnig". Mae'n mynd ymlaen: "Mae bron pob un o'r dadleuon a ddefnyddir gan y Cyngor pan ddaw i'r "heriau" a wynebir gan Ysgol Talwrn ac "anfanteision" yr holl opsiynau, gan gynnwys, cadw Ysgol Talwrn, yn ddadleuon generig yn erbyn POB ysgol wledig neu gymharol fach – nid dadleuon penodol i Ysgol Talwrn ydyw'r rhain, e.e. bydd gan BOB ysgol cymharol fach ddosbarthiadau oedran cymysg ac wrth gwrs bydd y gost fesul disgybl o ddarparu addysg, neu unrhyw wasanaeth, yn uwch mewn ardal wledig. Ond nid yw hyn yn annheg gan fod llai o lawer o wasanaethau mewn ardaloedd gwledig ac felly mae cyfanswm y gwariant y pen yn llai. Mae'n amlwg fod pennaeth yn addysgu ym MHOB ysgol fechan. Mae'r ddogfen felly'n dangos yn glir bod rhagdybiaeth YN ERBYN ysgolion llai oherwydd y dadleuon generig, ac mae hyn yn groes i ofynion y Cod".

  **Gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion**

  Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn gwneud trefniadau arbennig ar gyfer ysgolion gwledig gan sefydlu rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn eu cau. Mae'r Cod yn nodi "mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gynigwyr ddilyn cyfres fanylach o weithdrefnau a gofynion wrth lunio cynnig i gau ysgol wledig, ac wrth ymgynghori ar benderfyniad ynghylch a ddylid gweithredu cynnig i gau ysgol wledig ac wrth wneud y penderfyniad."

  **Rhaid** i'r rhai sy'n cyflwyno cynigion statudol gyhoeddi dogfen ymgynghori ar ffurf copi caled ac ar ffurf electronig ar eu gwefan neu wefan yr awdurdod lleol perthnasol. **Rhaid** i gopïau caled fod ar gael ar gais. **Dylid** ystyried cyhoeddi mewn fformatau eraill os bydd hygyrchedd yn peri pryder.
  **Rhaid** cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori ar un o ddiwrnodau ysgol yr ysgol neu'r ysgolion y mae'r cynnig yn ymwneud â hi/nhw, a **rhaid** rhoi o leiaf 42 o ddiwrnodau i bobl ymateb i'r ddogfen, gydag 20 o'r rhain yn ddiwrnodau ysgol. Ni ddylid cyhoeddi dogfennau ymgynghori ar ddiwrnod ysgol sy'n cynnwys sesiwn ysgol sydd wedi'i neilltuo (yn llwyr neu'n bennaf) i wella safonau addysgu neu arferion rheoli staff yr ysgol (diwrnodau hyfforddiant mewn swydd).
  **Rhaid** rhoi gwybod i'r canlynol (a restrir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018) drwy lythyr neu e-bost bod y ddogfen ymgynghori ar gael (Anfonwyd yr e-bost i'w hysbysu ar 6 Chwefror 2020 am 12:04yp)

  **Ymateb y Cyngor i'r honiad gan Gymdeithas yr Iaith nad oedd ei ymgynghoriad yn 'deg a dilys'**

Rhagdybiaeth weithdrefnol yw'r rhagdybiaeth y cyfeirir ati yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Yn ogystal, nid yw Ysgol Talwrn yn cael ei hystyried yn ysgol wledig yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Cynhaliwyd y broses ymgynghori yn unol â'r canllawiau statudol yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018, fel y disgrifir yn y tabl isod:

| **Gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018** | **Camau a gymerwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn** |
|---|---|
| Cyhoeddi dogfen ymgynghori ar ffurf copi called ac ar ffurf electronig ar eu gwefan | Cyhoeddwyd ar wefan Cyngor Sir Ynys Môn ar 6 Chwefror 2020 ac mae ar gael ar ffurf copi caled |
| **Rhaid** cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori ar ddiwrnod ysgol | Fe'i cyhoeddwyd ar 6 Chwefror 2020, **diwrnod ysgol** yn Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig |
| **Rhaid** rhoi o leiaf 42 o ddiwrnodau i bobl ymateb i'r ddogfen | Rhoddwyd o 6 Chwefror 2020 tan 20 Mawrth 2020 i'r ymgyngoreion ymateb i'r ddogfen - **o leiaf 42 diwrnod** |
| Rhaid rhoi gwybod i ymgyngoreion drwy lythyr neu e-bost bod y ddogfen ymgynghori ar gael | **Rhoddwyd gwybod** i'r ymgyngoreion a restrir yn adran 3.1 o'r Ddogfen Ymgynghori **drwy e-bost** bod y ddogfen ymgynghori ar gael |

Mae'r tabl uchod yn dangos sut y mae'r Awdurdod wedi dilyn y Cod Trefniadaeth Ysgolion ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, sy'n ei wneud yn ddilys. Asesir yr holl opsiynau amgen rhesymol yn erbyn gyrwyr allweddol y rhaglen moderneiddio. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl opsiynau'n cael eu hasesu mewn modd cyson a theg. Wrth asesu pob opsiwn, rydym yn edrych ar sefyllfa benodol pob ysgol yn unigol gan wneud hynny'n fanwl.

- **Fe aeth y Cyngor ymlaen i gynnal ymgynghoriad statudol yn syth**

Mae Cymdeithas yr Iaith yn credu na ddylai Cyngor Sir Ynys Môn fod wedi mynd ymlaen heb "ymgynghoriad anffurfiol" yn gyntaf. Nid oedd Cymdeithas yr Iaith yn cytuno gyda "chyhoeddi cynnig oedd bron yn derfynol ac adroddiad ar gyfer Pwyllgor Sgriwtini dim ond 4 diwrnod cyn y bleidlais gan y Pwyllgor Gwaith." Teimlant nad oedd hyn "gyfystyr ag ymgynghoriad anstatudol neu anffurfiol cychwynnol yn unol â gofynion y Cod".

**Ymateb y Cyngor**
Yn ôl Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018, nid oes unrhyw ofyn statudol i gynigwyr gynnal ymgynghoriadau anffurfiol. Dilynwyd canllawiau statudol a chyfansoddiadol ar gyfer trafod y papur cynnig yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 14 Ionawr 2020 a gan y Pwyllgor Gwaith ar 20 Ionawr 2020.

Mae'r Côd Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn nodi "O bryd i'w gilydd, bydd cynigwyr wedi cynnal ymgynghoriad 'anffurfiol' gyda rhai rhanddeiliaid penodol ynghynt yn y broses o ddatblygu cynigion. **Rhaid peidio ag** ystyried bod ymgynghoriad o'r fath yn disodli unrhyw ran o'r prosesau ymgynghori ffurfiol a amlinellir isod."

Yn adran 3.3. o'r Cod, mae'n nodi: "Nid yw'n ofynnol i gynigwyr gynnal cyfarfodydd ymgynghori er y bydd amgylchiadau lle y bydd cynigwyr o'r farn y

bydd cyfarfod â grwpiau penodol o ymgyngoreion o gymorth mawr wrth ledaenu gwybodaeth ac yn rhoi llwyfan addas i ymgyngoreion leisio eu barn."

Felly, creda Cyngor Sir Ynys Môn nad oes angen iddo gynnal "ymgynghoriad anffurfiol" cyn cynnal ymgynghoriad "ffurfiol" neu statudol. Ac nid oes angen ychwaith i'r Awdurdod "gynnal cyfarfodydd ymgynghori" ond gwnaed hyn yn y ddwy ysgol i hwyluso lledaenu gwybodaeth a rhoi llwyfan addas i ymgynoreion gael lleisio eu barn.

- **Gwerthuso opsiynau amgen rhesymol**
  Yr honiad yn yr achos hwn yw "nad yw'r gwerthusiad o'r opsiynau yn cwrdd â gofynion y Cod". Cynigiodd Cymdeithas yr Iaith opsiwn arall: "trefniant gydag ysgol(ion) i'r dwyrain o Dalwrn …. Ceir dau opsiwn (6.3.10 / 11) y gallai elfennau ohonynt ffurfio rhan o ddatrysiad cynaliadwy sy'n cynnwys creu ffederasiwn - ar ffurf rhyw fodel - a fyddai'n diogelu cefnogaeth y gymuned drwy gadw ysgol yn eu cymuned wrth hefyd greu uned addysgol gref, rhesymoli costau gweinyddol, a darparu llwybr effeithiol o'r sector cynradd i'r sector uwchradd". Roedd Cymdeithas yr Iaith yn honni hefyd bod y Cyngor yn "rhagfarnu yn erbyn ffederasiynau". (Gweler y pwynt isod - Ffederasiwn Cefni)

  **Ymateb y Cyngor**
  - Cynhaliwyd y broses ymgynghori yn unol â'r canllawiau statudol yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Rhoddwyd cyfle i'r holl randdeiliaid ymateb i'r cynnig. Fe gafodd bob opsiwn a drafodwyd yn y ddogfen ymgynghori eu gwerthuso'n gyson a thrylwyr yn erbyn y gyrwyr allweddol sef:
  - Mae angen i **safonau** ar draws pob ysgol fod o leiaf yn dda neu'n rhagorol. Yn ogystal â hyn, byddai disgwyl i ysgolion yn yr ardal fod yn y categori gwyrdd, h.y. ysgolion sy'n perfformio'n dda ac angen y lefel isaf o gefnogaeth.
  - Mae'n rhaid i **arweinyddiaeth a rheolaeth** fod yn dda neu'n well ym mhob ysgol. Yn y cyd-destun hwn, mae ar benaethiaid angen digon o amser digyswllt i gydbwyso heriau arweinyddiaeth a rheolaeth ag ymrwymiad addysgu.
  - Mae angen i'r **adeilad ysgol** ddarparu amgylchedd dysgu ysbrydoledig a fydd yn annog bob disgybl i gyflawni eu potensial ar draws pob maes dysgu. Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid i bob ysgol gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran hygyrchedd i blant ag anableddau.
  - Mae angen i **leoedd ysgol digonol** fod ar gael yn yr ardal i gwrdd â galw presennol, rhagolygon niferoedd y dyfodol yn ogystal â lleihau lleoedd gweigion. Yn ogystal â hyn, mae angen lleihau symudiad disgyblion o'r tu mewn a thu allan i'r dalgylch os oes modd.
  - Bydd angen i unrhyw ddarpariaeth ysgol ddiwygiedig yn yr ardal fod yn **gost effeithlon** h.y. mae angen lleihau'r costau refeniw ac unrhyw gostau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol. Yn ogystal â hyn, mae angen lleihau'r amrywiad yn y gost fesul disgybl ar draws ysgolion unigol.
  - Bydd angen o leiaf cynnal **darpariaeth cyfrwng Cymraeg** a'i gwella.
  - Mae angen cynnal **defnydd cymunedol** o adeiladau ysgol a chyfleusterau cysylltiedig, a'i gynyddu lle bo'n bosibl.

Ar 25 Tachwedd 2019, penderfynodd Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn i: "gadarnhau'n derfynol y cynnig i ffedereiddio Ysgol Goronwy Owen ac Ysgol Moelfre". Felly mae gan yr Awdurdod ar hyn o bryd ffederasiwn o ysgolion ar waith, sef Ysgol Goronwy Owen ac Ysgol Moelfre. Dechreuodd y ffederasiwn hwn weithredu yn Ionawr 2020. Nid yw'r Awdurdod yn rhagfarnu yn erbyn ffederasiynau. Yn wir, mae'r enghraifft uchod yn dangos ei barodrwydd i ffurfio ffederasiynau, yn yr achos hwn, ffederasiwn Gwêl y Glannau.

- **Ffederasiwn Cefni**
  Cynigiodd Cymdeithas yr Iaith opsiwn arall: "Byddai creu Ffederasiwn Cefni yn cynnwys yr ysgol uwchradd, ysgol(ion) cynradd y dref ac ysgolion Bodffordd a Thalwrn yn creu uned addysgol gref ac arloesol a allai fod yn gynllun peilot ar gyfer Cymru wledig, a fyddai'n ticio holl flychau strategol y llywodraeth ganolog yn nhermau denu cymorth ariannol."

  **Ymateb y Cyngor**
  Trafodwyd yr opsiwn hwn yn fanwl yn adran 6.3.10 o'r Ddogfen Ymgynghori ac fe'i dadansoddir ymhellach yn yr Adroddiad ar yr Ymgynghoriad. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi datgan yn gyson na fyddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r:
  - angen am ragor o leoedd ysgol yn Llangefni – dengys rhagamcanion disgyblion sy'n cynnwys disgyblion o ddatblygiadau tai newydd ei bod yn debygol y bydd 764 o ddisgyblion yn y 4 ysgol gynradd (Bodffordd, Corn Hir, Talwrn a'r Graig) tra bo capasiti presennol y pedair ysgol gynradd yn darparu 646 o leoedd, **sy'n golygu diffyg o 118 o leoedd**.
  - gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol ar bob un o'r ysgolion - y gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol ar bob un o'r 4 ysgol gynradd ac Ysgol Gyfun Llangefni yw £4,385,500. **Ni fyddai** cynnig Cymdeithas yr Iaith **yn arwain at leihau'r costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol.**
  - safon yr adeiladau ysgol – mae gan Ysgol Y Graig radd cyflwr o A, mae gan Ysgol Talwrn radd cyflwr o B, mae gan Ysgol Bodffordd radd cyflwr o B, mae gan Ysgol Corn Hir radd cyflwr o C, ac mae gan Ysgol Gyfun Llangefni radd cyflwr o C. **Ni fyddai** cynnig Cymdeithas yr Iaith **yn arwain at welliannau yn safon yr adeiladau ysgol heb becyn cyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru i wireddu'r gwelliannau hyn.**
  - amrywiad yn y gost fesul disgybl a chydraddoldeb darpariaeth – **ni fyddai'n mynd i'r afael â'r gost fesul disgybl a byddai'n aros yr un fath ag ydyw ar hyn o bryd, lle mae rhai plant yn derbyn tua £1,000 y pen yn fwy na phlant cyfatebol mewn ysgolion eraill** h.y:
    - Ysgol Bodffordd 2019/20=£4,274
    - Ysgol Corn Hir 2019/20=£3,587
    - Ysgol Y Graig 2019/20 = £3,429
    - Ysgol Talwrn 2019/20 = £4,553
    - Ysgol Gyfun Llangefni 2019/20= £5,039

    Byddai Ysgol y Graig yn parhau i gwrdd â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, tra na fyddai'r 3 ysgol gynradd arall yn cwrdd â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010

  Mae'r Cyngor felly'n gwrthod y cynnig hwn fel opsiwn amgen rhesymol.

## 5.4 Ymateb gan Lywodraethwyr Ysgol Y Graig

### 5.4.1 Pryder y gallai'r ysgol ddod yn 2 ysgol

**Ymateb y Cyngor**

Trafodir hyn ymhellach yn adran 5.2.10. Byddai'r uwch dîm arweinyddiaeth yn Ysgol Y Graig yn gyfrifol am oruchwylio'r dulliau addysgu, ac am sicrhau bod gan athrawon Cyfnod Allweddol 2 ddealltwriaeth dda o lefelau datblygiad disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Gallai'r uwch dîm arweinyddiaeth hefyd drefnu gweithgareddau sy'n dod ag athrawon a disgyblion y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 ynghyd, i wneud y trosglwyddiad o'r Cyfnod Sylfaen mor ddi-dor ag y byddai mewn unrhyw ysgol arall. Byddai'r bloc Cyfnod Sylfaen newydd wedi'i leoli o fewn tua 90 metr o adeilad Cyfnod Allweddol 2, a fydd yn ei gwneud yn haws rheoli 2 adeilad ar wahân, a bydd yn lleihau'r problemau logistaidd i rieni. Byddai monitro a chymorth gan Wasanaeth Addysg y Cyngor yn parhau, a byddai'r gwasanaeth addysg rhanbarthol, GwE, hefyd yn parhau i fonitro safonau yn yr ysgol.

Rhaid nodi, os yw'n destun pryder i ysgol gael 2 floc gwahanol o fewn 90 metr i'w gilydd, byddai'n creu hyd yn oed mwy o bryder mewn ffederasiwn o 4 neu 5 ysgol, gydag un pennaeth, fel y cynigir gan rai rhanddeiliaid.

### 5.4.2 Y sefyllfa o ran traffig a pharcio

**Ymateb y Cyngor**

Trafodir hyn ymhellach yn adran 5.2.1. Os cymeradwyir y cynnig gan y Pwyllgor Gwaith, bydd creu Uned Cyfnod Sylfaen ar safle newydd yn creu **cyfle** i ddatrys y problemau parcio presennol fel rhan o'r cynllun newydd. Dim ond trwy trwy gynyddu arwynebedd y safle i gynnwys darpariaeth barcio ychwanegol gellir gwneud hyn. Bydd angen i'r Cais Cynllunio ar gyfer yr Uned Cyfnod Sylfaen newydd ddangos sut y gellir datrys y problemau parcio presennol er mwyn cael cefnogaeth yr Adran Priffyrdd. Os gweithredir y cynnig hwn, mae'n gyfle i liniaru'r pryderon hyn o ganlyniad i'r gwaith gwella arfaethedig.

Cynhelir Asesiad Effaith Traffig a bydd yn ffurfio rhan o'r Cais Cynllunio. Datblygir y cynigion gyda staff y Cyngor, Ymgynghorydd Effaith Traffig, Pensaer Tirwedd a Pheiriannydd Sifil. Datblygir y cynllun hefyd mewn ymgynghoriad â swyddogion o'r Adran Priffyrdd, cyn cyflwyno'r cais.

Bydd datblygu'r Uned ar safle newydd yn caniatáu datrys y problemau parcio presennol fel rhan o'r cynllun newydd. Ni ellir ond cyflawni hyn trwy gynyddu arwynebedd y safle i gynnwys darpariaeth barcio ychwanegol. Bydd angen i'r Cais Cynllunio ddangos sut y gellir datrys y problemau parcio presennol er mwyn cael cefnogaeth yr Adran Priffyrdd.

### 5.4.3 Mae rhai disgyblion yn gwneud yn well mewn ysgol lai – pryder na fydd disgyblion o ysgolion bach yn dygymod ag Ysgol Y Graig

**Ymateb y Cyngor**

Yn achos bod disgybl yn ei chael yn anodd dygymod yn yr Ysgol y Graig ehangedig, byddai'r uwch dîm arweinyddiaeth yn Ysgol Y Graig, o dan oruchwyliaeth y Corff Llywodraethu, yn gyfrifol am oruchwylio'r dulliau addysgu ac am sicrhau bod an yr holl athrawon ddealltwriaeth dda o'r mater ynghyd â lefelau datblygiad y disgyblion, i alluogi pob disgybl i ddygymod â'i amgylchedd newydd.

Mae'r Cyngor wedi agor tair ysgol gynradd newydd yn Môn ers 2017, sef Ysgol Cybi, Ysgol Rhyd y Llan ac Ysgol Santes Dwynwen. Mynegodd penaethiaid yr

ysgolion cynradd newydd hyn, o'u profiad hwy, bod y disgyblion wedi dygymod yn dda â'r trefniadau newydd.

**5.4.4 Effaith y cynnig ar y Gymraeg a'r Eisteddfod leol**

**Ymateb y Cyngor**
Mae data CYBLD 2019 yn amlygu bod canran y disgyblion sy'n siarad y Gymraeg yn rhugl yn y cartref yn uwch yn Ysgol Y Graig (59%) nag ydyw yn Ysgol Talwrn (40%).

O ran y Gymraeg, nid oes gwahaniaeth clir rhwng cyflawniadau disgyblion Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig rhwng 2015 a 2017.

Ar dudalen 21 o'r Asesiad Effaith oedd ynghlwm i'r Ddogfen Ymgynghori, nodwyd yn adran 3.5.6:
*"Bydd yr ysgol ehangedig arfaethedig yn ysgol gymunedol, cyfrwng Cymraeg. Bydd yn flaenoriaeth i'r Awdurdod gryfhau a diogelu'r iaith Gymraeg ac addysg ddwyieithog."*

Felly, os gweithredir y cynnig, cyfrifoldeb y tîm arweinyddiaeth yn yr Ysgol Y Graig ehangedig arfaethedig fydd hybu defnydd anffurfiol o'r Gymraeg gan y disgyblion yn ystod oriau'r ysgol. Byddai'r Ysgol Y Graig ehangedig arfaethedig yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth ac ar iard yr ysgol, yn unol â Siarter Iaith Gymraeg yr Awdurdod.

Dealla'r Cyngor fod eisteddfod y pentref yn cael ei chynnal yn neuadd y pentref. Os gweithredir y cynnig, gellid parhau i gynnal yr eisteddfod y pentref yno.

**5.4.5 Byddem yn hoffi pe bai'r Awdurdod yn rhannu ei weledigaeth ar gyfer y dyfodol o ran moderneiddio ysgolion**

**Ymateb y Cyngor**
Roedd Strategaeth Moderneiddio Ysgolion yr Awdurdod yn destun ymgynghoriad â phenaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr pob un o'r 49 ysgol oedd yn bodoli ar y pryd. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad dros gyfnod o 5 mis, o 30 Ebrill 2018 i 30 Medi 2018. Yn dilyn craffu ar y strategaeth ym Mhwyllgor Sgriwtini Corfforaethol y Cyngor, fe'i cymeradwywyd gan Bwyllgor Gwaith yr Cyngor ar 15 Hydref 2018. Cyhoeddwyd Strategaeth Moderneiddio Ysgolion yr Awdurdod ar ôl ei chymeradwyo ac mae'r Strategaeth yn parhau i fod yn ddogfen gyhoeddus.

**5.4.6 Pam edrych ar 2 ysgol wledig gyda nifer fechan o leoedd gweigion yn hytrach nag ysgol gynradd gyda nifer uwch o lawer o leoedd gweigion?**

**Ymateb y Cyngor**
Mae'r cynnig hwn yn rhan o Raglen Moderneiddio Ysgolion ehangach. Yn wir, gall ysgolion cynradd eraill ym Môn, a chanddynt fwy o leoedd gweigion, fod yn rhan o'r rhaglen yn y dyfodol. Rhoddwyd blaenoriaeth i'r ddarpariaeth yn Llangefni oherwydd y diffyg lleoedd yn yr ysgolion.

**5.4.7 Opsiwn amgen rhesymol – adeiladu trydedd ysgol gynradd yn Llangefni**

**Ymateb y Cyngor**
Dyma fanteision ac anfanteision yr opsiwn amgen rhesymol hwn:

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| ▪ Gallai osod safonau da o'r cychwyn cyntaf. Gall fod yn bosibl sicrhau na fydd ystod oedran y dosbarthiadau'n ddim mwy na dwy flynedd. | |
| ▪ Mae'r ysgol yn debygol o fod â mwy o arbenigedd a chapasiti i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion mwy bregus a'r disgyblion mwy abl a thalentog.<br>▪ Posibilrwydd o ddatblygu cysondeb o ran methodoleg addysgu a dysgu o'r cychwyn cyntaf.<br>▪ Ni fydd unrhyw lywodraethwyr a phenaethiaid profiadol yn cael eu colli. | |
| ▪ Byddai'r ysgol yn cwrdd â safonau 21ain ganrif a byddai'n amgylchedd dysgu ysbrydoledig i ddisgyblion.<br>▪ Byddai dyluniad yr ysgol yn creu amgylcheddau dysgu addas y tu allan, a byddai'n cael ei dylunio i gyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru (CiG). | |
| ▪ Byddai'n debygol o ddarparu 150 o leoedd ysgol gynradd, sef yr un cyfanswm o leoedd ysgol ag y byddai'r cynnig yn ei ddarparu pe'i gweithredir. Byddai'n darparu lleoedd digonol i ddiwallu'r galw cyfredol a rhagamcanion y dyfodol. | ▪ Byddai'n anodd iawn canfod safle 5 erw ar gyfer ysgol gynradd newydd nad oedd yn rhy agos i Ysgol Y Graig ond a fyddai o fewn ffiniau datblygu Llangefni.<br>▪ Gallai hyn hefyd greu gormod o leoedd gweigion. |
| ▪ Ni ragwelir unrhyw gostau cludiant ychwanegol. | ▪ Cost cyfalaf uchel i'r awdurdod, y byddai cyfran sylweddol ohoni'n cael ei hariannu trwy fenthyca digymorth.<br>▪ Mae'n debygol y byddai'r gyllideb a ddirprwyir i ysgolion yn cynyddu.<br>▪ Byddai'r ôl-groniad costau cynnal a chadw o £360,000 yn Ysgol Talwrn a £48,500 yn Ysgol y Graig yn parhau.<br>▪ Byddai'r gost fesul disgybl yn tua £4,610 y pen, sy'n uwch na chyfartaledd Ynys Môn o £3,988. |
| ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth. | |
| ▪ Cyfleuster newydd posibl er budd y gymuned.<br>▪ Ni fyddai unrhyw adeiladau cymunedol yn cael eu colli. | |

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| | ▪ Gallai brofi'n anodd i'w orfodi gan fod Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1988 yn caniatáu i rieni ddewis pa ysgol y bydd eu plentyn yn ei mynychu. |

Byddai'r opsiwn amgen rhesymol hwn yn golygu:

- Byddai angen newid y dalgylchoedd er mwyn i'r nifer ofynnol o ddisgyblion fynychu'r ysgol newydd bosibl yn Llangefni, tra bo gan rieni hawl cyfreithiol i benderfynu pa ysgol y gall eu plentyn/plant ei mynychu.
- Ar y cychwyn, gallai'r opsiwn amgen hwn greu gormodedd o leoedd gweigion.
- Byddai'n anodd iawn canfod safle 5 erw i ysgol gynradd newydd nad oedd yn rhy agos i Ysgol Y Graig ond a fyddai o fewn ffiniau datblygu Llangefni.

Mae'r Cyngor felly'n gwrthod y cynnig hwn fel opsiwn amgen rhesymol.

**5.4.8 Byddai'r ysgol gynradd newydd arfaethedig yn llenwi'n gyflym?**

**Ymateb y Cyngor**

Trafodir y pwynt hwn yn adran 5.4 o'r Ddogfen Ymgynghori. Mae'r Awdurdod o'r farn y byddai'r cynnig sydd dan ystyriaeth yn darparu lleoedd digonol ar gyfer uchafbwynt niferoedd y disgyblion yn yr ysgol yn yr ychydig flynyddoedd nesaf, h.y. 419. Mae'r rhif hwn yn tarddu o'r ystyriaethau a ganlyn:

Rhwng 2019 a 2024, rhagwelir y bydd nifer y disgyblion yn Ysgol Talwrn yn gostwng o 40 i 37 sy'n ostyngiad o 8%. Yn ystod yr un cyfnod amser, rhagwelir y bydd nifer y disgyblion yn Ysgol y Graig yn cynyddu o 324 i 334 sy'n gynnydd o 3%. Mae'r rhagolygon yn cadarnhau y bydd nifer y disgyblion yn cynyddu i gyfanswm o 371 yn y ddwy ysgol erbyn 2024.

Hefyd, mae angen ystyried datblygiadau tai newydd yn y dalgylch a'r plant oed ysgol gynradd a fydd yn codi o'r rhain. Dangosir nifer y plant oed ysgol gynradd sy'n deillio o'r datblygiadau tai newydd yn y tabl isod:

| Ysgol | Datblygiadau tai arfaethedig yn y dalgylch hyd at 2026 | Nifer gyfatebol y plant* |
|---|---|---|
| Y Graig | 397 | 67 - 143 |
| Talwrn | 6 | 1 - 2 |

* Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gan bob tŷ yn Ynys Môn 0.17 o blant o oedran ysgol gynradd ar gyfartaledd. Mae lluosi nifer y datblygiadau tai â 0.17, yn rhoi amcangyfrif o nifer y plant ychwanegol y bydd angen eu haddysgu yn yr ysgol benodol honno. Fodd bynnag, yn ward Tudur, mae 0.36 o blant oed ysgol gynradd ar gyfartaledd ym mhob tŷ a gall hyn arwain at gyfanswm o 145 o ddisgyblion yn deillio o'r datblygiadau tai newydd.

Er bod y datblygiadau tai arfaethedig yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, mae yna nifer o ffactorau sy'n effeithio p'un a fydd y datblygiadau arfaethedig hyn yn symud ymlaen yn y broses gynllunio fel a ganlyn. Yn gyntaf, byddai angen eu hasesu i benderfynu a fyddai'r datblygiad(au) arfaethedig yn cwrdd â'r gofynion er mwyn gallu ceisio caniatâd cynllunio ac yna a fyddai caniatâd cynllunio (sy'n ddilys am 5 mlynedd) yn cael ei roi. Hynny yw, amcangyfrif yw

nifer y tai yn y tabl uchod ac nid yw'n sicrwydd y bydd yr holl dai hyn yn cael eu hadeiladu erbyn 2027. Pe bai'r datblygiadau tai arfaethedig hyn yn cael eu hadeiladu, byddai'r datblygwr yn debygol iawn o'u hadeiladu fesul cam. Byddai hyn yn golygu y byddai nifer y disgyblion yn cynyddu'n raddol ac NI fyddai'n golygu y byddai'r nifer uchaf o ddisgyblion h.y. 145 (143 + 2 = 145, o'r tabl uchod) yn dechrau mynychu'r ysgol ar yr un pryd.

Mae'r tabl isod yn dangos y niferoedd disgwyliedig o ddisgyblion yn Ysgol ehangedig arfaethedig y Graig hyd at Fedi 2027, gan ystyried uchafswm y datblygiadau tai arfaethedig a grybwyllir uchod.

| | **Nifer ragamcanol ar y gofrestr ym mis Medi** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2023** | **2024** | **2025** | **2026** | **2027** |
| Ysgol Y Graig ehangedig | 383 | 404 | 407 | 418 | 419 |

Mae'n bwysig nodi bod rhagamcanion yn anodd gan fod nifer o ddisgyblion yn mynychu'r ysgolion o ddalgylchoedd eraill. Ym mis Hydref 2019, roedd gan Ysgol Talwrn 14% o leoedd dros ben, er bod 17% (7 disgybl) o'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Talwrn yn dod o ddalgylch Corn Hir, ac mae 31% o'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Talwrn (13 disgybl) yn dod o ddalgylch Ysgol Y Graig.

Gall rhieni hefyd ddewis anfon eu plentyn / plant i ba ysgol bynnag y maent yn dymuno.

### 5.5 Ymateb gan Lywodraethwr o Ysgol Talwrn

**5.5.1 Yn gyntaf, dywedodd y Llywodraethwr bod y Cyngor yn cymryd arno ei fod yn ymgynghori**

**Nodir isod ymateb y Cyngor i ddatganiad o'r fath:**
Cynhaliwyd y broses ymgynghori'n unol â chanllawiau statudol Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018, fel y disgrifir yn y tabl isod:

| **Gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018** | **Camau a gymerwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn** |
|---|---|
| Cyhoeddi dogfen ymgynghori ar ffurf copi caled ac ar ffurf electronig ar eu gwefan | Cyhoeddwyd ar wefan Cyngor Sir Ynys Môn ar 6 Chwefror 2020 ac mae ar gael ar ffurf copi caled |
| **Rhaid** cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori ar ddiwrnod ysgol | Fe'i cyhoeddwyd ar 6 Chwefror 2020, **diwrnod ysgol** yn Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig |
| **Rhaid** rhoi o leiaf 42 o ddiwrnodau i bobl ymateb i'r ddogfen | Rhoddwyd o 6 Chwefror 2020 tan 20 Mawrth 2020 i'r ymgyngoreion ymateb i'r ddogfen – **o leiaf 42 diwrnod** |
| Rhaid rhoi gwybod i ymgyngoreion drwy lythyr neu e-bost bod y ddogfen ymgynghori ar gael | **Rhoddwyd gwybod** i'r ymgyngoreion a restrir yn adran 3.1 o'r Ddogfen Ymgynghori **drwy e-bost** bod y ddogfen ymgynghori ar gael |

Mae'r tabl uchod yn dangos sut mae'r Awdurdod wedi dilyn y Cod Trefniadaeth Ysgolion ac nad "cymryd arno" ei fod yn ymgynghori oedd o. Mae'r Awdurdod wedi cyflawni gwerthusiad cynhwysfawr o gymaint o opsiynau amgen rhesymol ag y bo modd yn erbyn y gyrwyr allweddol a nodwyd o fewn y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion. Cynhaliodd y Cyngor gyfarfodydd cyhoeddus gyda rhanddeiliaid o'r holl ysgolion a effeithir, nad yw'n un o ofynion y cod. Cafodd unrhyw sylwadau eu hystyried yn ofalus a darparwyd ymateb iddynt o fewn y ddogfen hon, ynghyd â gwerthusiad llawn o unrhyw opsiynau amgen newydd a awgrymwyd gan randdeiliaid.
Byddir yn parhau i ddilyn y gweithdrefnau a amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion fel y mae'r broses yn parhau.

**5.5.2 Yn ail, dywedodd y Llywodraethwr "Ni ellir ymddiried yn ffigurau'r Awdurdod ar gyfer datblygiadau tai"**

**Mewn ymateb i hyn, mae'r Cyngor yn datgan -**
Datblygwyd y cynnig nid yn unig i gymryd disgyblion ychwanegol o ddatblygiadau tai y cyflwynwyd ceisiadau cynllunio ar eu cyfer, ond mae hefyd wedi ystyried data sy'n cael ei ddal gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, fel dyraniadau tai ar gyfer ardal Llangefni. Roedd adran 5.4 o'r Ddogfen Ymgynghori'n rhoi disgrifiad manwl o effeithiau posibl y datblygiadau tai hyn yn Llangefni ar yr Ysgol Y Graig ehangedig arfaethedig. Roedd y Ddogfen Ymgynghori'n amlinellu y byddai nifer ragamcanol y disgyblion yn Ysgol y Graig yn 383 ym Medi 2023 ac y byddai uchafswm o 419 ym Medi 2027. Daethpwyd i'r casgliad y byddai digon o leoedd yn yr ysgol i ddisgyblion ychwanegol ac y byddai'n caniatau cynnydd o 13% yn nifer ragamcanol bresennol y disgyblion.

Rhoddodd y cynnig sylw hefyd i nifer y plant 3-11 oed fesul aelwyd ym mhob ward unigol ar ddyddiad y cyfrifiad diwethaf.

Fodd bynnag, bydd bob amser yn anodd penderfynu nifer ragamcanol gywir y disgyblion mewn ysgol, oherwydd dewis rhieni o ran pa ysgol y bydd eu plentyn yn ei mynychu. Fodd bynnag, mae'r cynnig yn debygol o leihau nifer y disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch sydd yn ardal y Graig / Talwrn.
Os cymeradwyir y cynnig, dylunnir yr Uned Cyfnod Sylfaen newydd yn Ysgol y Graig i ganiatáu estyniad pellach yn y dyfodol ar gyfer 2 ystafell ddosbarth, a fydd yn diogelu datblygiad yr ysgol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**5.5.3 Yn drydydd, roedd y Llywodraethwr yn honni mai ar y Cyngor y mae'r bai am beidio â chynnal a chadw adeilad Talwrn**

**Mewn ymateb i'r honiad hwn, mae'r Cyngor yn nodi -**

Nid oes gan y Cyngor yr adnoddau ariannol i gynnal 40 ysgol gynradd, 5 ysgol uwchradd ac 1 ysgol arbennig i'r lefel a fynnir yn yr hinsawdd bresennol, ac yn dilyn blynyddoedd o gyni ariannol.

Mae'r Cyngor yn cynnal arolwg blynyddol o gyflwr bob ysgol, ac mae'r gwaith a fynnir ym mhob ysgol yn cael ei gategoreiddio (A-D) yn ôl blaenoriaeth am y gwaith, gan ystyried agweddau fel cyflwr yr ased, ac ystyriaethau iechyd a diogelwch. Bydd

gwaith a nodwyd ar gyfer categori D a C yn cael ei flaenoriaethu, tra na fydd gwaith a nodwyd, sy'n dod o fewn categorïau B ac A ond yn cael ei wneud os oes arian yn weddill ar ôl cwblhau'r holl waith yng nghategorïau D a C.

Cyfanswm gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol yr holl ysgolion yw tua £22m. Cyfanswm cost cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol Ysgol Talwrn yw £360,000 – sef tua 1.6% o'r cyfanswm.

Mae'r tabl isod yn amlygu'r gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol ar gyfer yr 8 adeilad ym Môn sydd ag arwynebedd o lai na 600m$^2$ (at ddibenion y tabl hwn, nid yw'r gost sy'n gysylltiedig â'r 'Portacabin' yn Ysgol Talwrn wedi'i gynnwys):

| **<u>Ysgol</u>** | **Niferoedd Disgyblion CYBLD 2019** | **Arwynebedd (m$^2$)** | **Gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol** |
|---|---|---|---|
| Bodffordd | 70 | 470 | £134,000 |
| Talwrn | 45 | 302 | £110,000 |
| Carreglefn | 23 | 224 | £46,500 |
| Llanbedrgoch | 24 | 320 | £168,500 |
| Llangoed | 69 | 572 | £114,000 |
| Henblas | 86 | 533 | £138,000 |
| Pencarnisiog | 69 | 575 | £98,000 |
| Rhosybol | 58 | 551 | £96,500 |
| **Cyfartaledd** | **56** | **443** | **£113,250** |

Mae'r ffigurau ar gyfer 'Gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol' a gynhwysir o fewn y tabl hwn yn cynnwys gwariant fel a ganlyn, ond nid yw wedi'i gyfyngu i hyn:

- Ailwynebu iardiau ysgol / meysydd parcio
- Gwaith ailbaentio mewnol ac allanol
- Gosod drysau a ffenestri newydd
- Adnewyddu ceginau, ystafelloedd dosbarth, toiledau ac ati
- Ffensys, giatiau a systemau mynediad newydd eraill
- Gosod goleuadau newydd
- Ailweirio
- Gosod toeau newydd

Dengys y tabl hwn bod y gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol yn Ysgol Talwrn yn cymharu ag adeiladau ysgol eraill o faint tebyg. Dengys hyn na chafodd Ysgol Talwrn ei thrin yn llai ffafriol nag ysgolion eraill.

**5.5.4 Yn bedwerydd, honnodd y Llywodraethwr bod cyllid ar gael i addasu ac ehangu'r ysgol**

**Mae ymateb y Cyngor yn nodi -**

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, byddai'n rhaid i unrhyw brosiect moderneiddio posibl ar gyfer Ysgol Talwrn gyflawni'r heriau allweddol ar gyfer Ysgol Talwrn. Y rhain yw:

- Niferoedd disgyblion
- Cyfwyno'r cwricwlwm
- Y gost fesul disgybl
- Adeilad yr ysgol
- Safonau
- Ymrwymiad addysgu'r pennaeth **YNGHYD Â**
- Cyllid

Tra gallai'r opsiwn amgen rhesymol hwn gael effaith gadarnhaol ar rai o'r heriau allweddol a nodir uchod, gallai waethygu'r sefyllfa o ran niferoedd disgyblion a lleoedd gweigion. Gallai'r modd y cyflwynir y cwricwlwm wella ond byddai safonau addysgol ac ymrwymiad addysgu'r pennaeth yn debygol o barhau'r un fath o ganlyniad i'r opsiwn amgen hwn. Byddai'r rhan o Ysgol Talwrn lle mae'r estyniad yn cyflawni safonau adeiladu presennol, ond byddai'r gost fesul disgybl yn debygol o gynyddu.

Nid yw'r cyllid ar gyfer Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru'n cynnwys cyllid ar gyfer "gwaith atgyweirio a chynnal a chadw arferol", ac mae cyllid y Rhaglen Ysgolion ac Addysg 21ain Ganrif wedi'i dargedu i gefnogi gwaith "ailfodelu ac ailadeiladu".

**5.5.5 Yn ogystal, honnwyd nad oedd unrhyw fanylion i gefnogi'r £100k o waith cynnal a chadw a fynnir er mwyn cael ystafell ddosbarth newydd dros dro**

**Mae ymateb y Cyngor fel a ganlyn -**

Mae adran 5.2.10 o'r adroddiad yn ymhelaethu ar y pwynt hwn. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y Cyngor wedi darparu dadansoddiad i lywodraethwr yn Ysgol Talwrn o gostau cynnal a chadw Ysgol Talwrn, gan gynnwys cost caffael a gosod ystafell ddosbarth symudol newydd ar y safle.

Gellir dadansoddi'r costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol o £360,000 a nodir o fewn y Ddogfen Ymgynghori fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Gwaith mewnol | £29,500 |
| Gwaith allanol | £80,500 |
| Ystafell ddosbarth newydd dros dro | £250,000 |

Derbyniwyd pris ar gyfer ystafell ddosbarth dros dro o faint tebyg gan y Cyngor yn Awst 2019 ac roedd y pris amcangyfrifiedig yn dod i gyfanswm o £308,000. Roedd hyn yn cynnwys £185k ar gyfer yr ystafell ddosbarth symudol, £11k ar gyfer offer ychwanegol a £112k ar gyfer gwaith sylfaen a chysylltu'r ystafell ddosbarth symudol â'r gwasanaethau cyfleustodau. Darparwyd copi o'r pris hwn i'r Llywodraethwr ar ei gais ef, a hynny drwy e-bost ar 24 Chwefror 2020 am 14:21.

Gellir dadansoddi'r cyfanswm o £29,500 ar gyfer gwaith mewnol ymhellach, fel yr amlinellir isod:

| Gwaith mewnol | Cost (£) |
|---|---|
| Gosod uned drws a ffenestr newydd i'r neuadd | 4,500 |
| Adnewyddu'r gegin yn rhannol | 25,000 |

Gellir dadansoddi'r cyfanswm o £80,500 ar gyfer gwaith allanol ymhellach, fel yr amlinellir isod:

| **Gwaith allanol** | **Cost (£)** |
|---|---|
| Ailwynebu iard yr ysgol | 24,400 |
| Ailbwyntio'r gwaith cerrig ar wedd flaen (yr adeilad) | 10,000 |
| Ailbaentio'r tu allan i gyd | 4,000 |
| Ailwynebu maes parcio'r staff | 5,100 |
| Gosod rheiliau dur galfanedig newydd ar wedd flaen yr adeilad yn lle'r rhai dur sydd wedi pydru | 3,000 |
| Tynnu'r cerrig crynion sydd wedi'u gosod mewn concrid o amgylch perimedr cefn yr adeilad a gosod tarmac yn eu lle | 15,000 |
| Darparu ffens, giât a system drws mynediad newydd ar ochr yr ysgol | 2,500 |
| Gosod estyll talcen newydd yn lle'r rhai sydd wedi pydru ar wedd flaen yr adeilad | 1,500 |
| Gosod cladin tafod a rhigol (T & G) pren newydd | 15,000 |

**5.5.6 Roedd y llywodraethwr hefyd yn cwestiynu p'un a yw benthyca dros gyfnod o 50 mlynedd yn benderfyniad call ar gyfer adeilad sy'n dirywio dros gyfnod 30 mlynedd?**

**Yn yr ymateb, mae'r Cyngor yn datgan:**

Mae'r Cyngor yn ystyried mai oes economaidd ddefnyddiol adeiladau ysgol yw 50 mlynedd. Felly, mae'r cyfrifiadau o ran benthyca yn seiliedig ar y cyfnod 50 mlynedd hwn. Roedd cyfrifiadau a ddefnyddir mewn achosion busnes ar gyfer adeiladau ysgol newydd fel Ysgol Cybi, Ysgol Rhyd y Llan ac Ysgol Santes Dwynwen yn seiliedig ar y cyfnod 50 mlynedd hwn o ran oes economaidd ddefnyddiol adeiladau. Mae'r dull hwn yn gyfarwydd iawn ac mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r dull hwn o gyfrifo costau benthyca.

**5.5.7 Roedd y llywodraethwr yn honni y byddai cau Ysgol Talwrn yn golygu y byddai eisteddfod y pentref yn dod i ben**

**Ymateb y Cyngor**

Yn seiliedig ar wybodaeth a dderbyniwyd ganddo, mae'r Cyngor yn deall y cynhelir yr eisteddfod yn neuadd y pentref. Os gweithredir y cynnig, gellid parhau i gynnal yr eisteddfod yno.

**5.5.8 Dewis amgen – ffedereiddio ag Ysgol Llanbedrgoch**

**Ymateb y Cyngor**

Ceir gwerthusiad o'r opsiwn amgen rhesymol hwn yn adran 6.2 o'r ddogfen hon. Fodd bynnag, nid yw Ysgol Llanbedrgoch yn rhan o'r ymgynghoriad ond efallai y bydd yn cael ei hystyried o fewn y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn y dyfodol. Nid oedd yr opsiwn yn cyflawni gyrwyr allweddol y rhaglen moderneiddio ysgolion ar gyfer ardal Llangefni, ac fel y cyfryw ni fydd yn cael ei hystyried ymhellach.

**5.5.9 Nododd y llywodraethwr hefyd "nad oedd disgyblion yn cael llais mewn unrhyw fater arall oedd yn eu heffeithio"**

**Mae'r Cyngor yn dadlau'n gryf yn erbyn yr honiad hwn, ac yn amlygu -**

Adran 5.7 o'r adroddiad hwn sy'n amlinellu'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gan swyddogion y Cyngor gyda disgyblion yr ysgolion a effeithir, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion ac mewn partneriaeth o dan arweiniad y pennaeth perthnasol.

Amlinellir y gofynion hyn yn y tabl isod:

| **Gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018** | **Camau a gymerwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn** |
|---|---|
| Gwneud trefniadau addas hefyd i ymgynghori â disgyblion unrhyw ysgol y bydd y cynigion yn effeithio arni a, lle y bo'n bosibl, blant a phobl ifanc sy'n debygol o fynychu'r ysgolion hynny | Yn ystod y cyfnod ymgynghori, ymwelodd swyddogion y Cyngor ag Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig i ganfod barnau'r disgyblion am y cynnig |
| **Rhaid** i hyn gynnwys, man lleiaf, ymgynghoriad â chynghorau ysgol yr ysgolion y mae'r cynigion yn effeithio arnynt, a **dylai** hefyd gynnwys ymgynghoriad â dysgwyr unigol pan fydd hyn yn briodol ac yn ymarferol | Bu swyddogion o'r Cyngor yn cyfarfod gyda'r ddau gyngor ysgol a disgyblion eraill yn ystod y cyfnod ymgynghori |
| **Rhaid** i'r wybodaeth a roddir i blant a phobl ifanc gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n berthnasol i'w hoedran a'u lefel ddealltwriaeth debygol a'u galluogi i lunio barn ddeallus | Roedd y wybodaeth a gyflwynwyd yn fersiwn y plant o'r ddogfen ymgynghori yn briodol ac yn berthnasol i'w hoedran a'u lefel ddealltwriaeth debygol, ac mae'n eu galluogi i lunio barn ddeallus. Ymgynghorwyd yn ei chylch gyda'r penaethiaid perthnasol mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 23 a 24 Ionawr 2020. |
| **Dylai** cynigwyr gyfeirio at Y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc a gweithredu'n unol â hwy | Cyfeiriodd swyddogion y Cyngor at y safonau yn Y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc a gweithredodd yn unol â hwy. Dyma'r safonau a amlinellir yn y ddogfen:<br>• Gwybodaeth<br>• Chi biau'r dewis<br>• Dim gwahaniaethu<br>• Parch<br>• Bod ar eich ennill<br>• Adborth<br>• Gweithio'n well drosoch chi |
| Cynhyrchu a dosbarthu fersiwn neu fersiynau o'r ddogfen ymgynghori sy'n briodol i oed/oedrannau'r plant a phobl ifanc yr effeithir arnynt | Cynhyrchwyd a dosbarthwyd fersiwn o'r ddogfen ymgynghori oedd yn briodol i oedran/oedrannau'r plant a phobl ifanc yr effeithir arnynt. |

**5.5.10 Cyfansoddiad y Pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith – a oes gan aelodau gymwysterau mewn addysg ac agweddau ariannol? A oes ganddynt arbenigedd yn y meysydd hyn?**

**Mae ymateb y Cyngor yn nodi:**

Mae Cyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn yn gwneud darpariaeth ar lefel leol i gyflawni'r gofyn statudol i sicrhau bod buddiannau penodol yn cael eu cynrychioli ar ei bwyllgorau sgriwtini wrth ystyried materion addysg/dysgu. Y rhain yw:

- Yr Eglwys yng Nghymru
- Yr Eglwys Gatholig yng Nghymru
- Rhiant Lywodraethwyr ysgol gynradd
- Rhiant Lywodraethwyr ysgol uwchradd/anghenion dysgu ychwanegol

Gall y pwynt a wneir uchod fod yn cyfeirio at y ffaith y bu 2 o'r 4 sedd yn wag am gyfnod estynedig (y 2 sedd ar gyfer y rhiant lywodraethwyr). Aethpwyd ati i geisio llenwi'r seddi gwag hyn ddwywaith. Fe gafodd y sedd ar gyfer rhiant lywodraethwr ysgol gynradd ei llenwi yn Rhagfyr 2018, a'r sedd ysgol uwchradd/anghenion dysgu ychwanegol ym Medi 2019.

Diwygiodd y Cyngor Sir reolau sgriwtini y weithdrefn yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror 2019, a gwnaeth y penderfyniad a ganlyn mewn perthynas â'r bumed sedd addysg a oedd yn rhan o aelodaeth y ddau bwyllgor sgriwtini blaenorol:

"PENDERFYNWYD bod y Cyngor:

- yn cytuno i dynnu'r gofyniad i gael 'un cynrychiolydd o gredoau neu enwadau eraill' ar Bwyllgor Sgriwtini pan fydd yn delio â materion Addysg (h.y. pan fydd yn cyfarfod fel Pwyllgor Sgriwtini Awdurdod Addysg Lleol) fel sydd wedi'i gynnwys ar hyn o bryd ym mharagraff 4.5.4.4 y Cyfansoddiad;
- yn awdurdodi Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro'r Cyngor i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r ffaith fod y gofyniad a nodir uchod wedi'i dynnu."

**5.5.11 Pryderon Amgylcheddol**

**Ymateb y Cyngor**

Pryder gan rai rhanddeiliaid oedd y byddai cau Ysgol Talwrn yn arwain at gynnydd mewn allyriadau carbon. Dengys cyfrifiadau na fyddai hyn yn digwydd gan fod dros hanner y disgyblion yn Ysgol Talwrn yn dod i mewn o'r tu allan i'w dalgylch.

**5.5.12 Dyluniad y bloc newydd arfaethedig ar gyfer y Cyfnod Sylfaen**

Gwnaeth dau randdeiliad sylwadau ar yr hyn yr oeddynt yn meddwl y dylid eu cynnwys yn nyluniad y bloc newydd arfaethedig ar gyfer y Cyfnod Sylfaen sef:

i. Y dylid cael cegin yn y bloc newydd a
ii. Dylai'r rhan bresennol o Ysgol y Graig a ddefnyddir gan y Cyfnod Sylfaen gael ei haddasu fel rhan o'r prosiect arfaethedig.

**Ymateb y Cyngor**

Gwneir penderfyniad ar y ffordd ymlaen gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Tachwedd 2020. Os cymeradwyir y cynnig gan y Pwyllgor Gwaith, bydd manylion fel y rhai a nodir yn i a ii uchod ond yn cael eu hystyried bryd hynny.

**5.5.13 Meintiau Dosbarthiadau**

Roedd un rhanddeiliad yn pryderu bod meintiau dosbarthiadau Ysgol Y Graig dros 30 yn nosbarthiadau Cyfnod Allweddol 2. Dywedodd rhai o rieni disgyblion yn Ysgol Talwrn "nid ydi pob disgybl yn gallu ymdopi mewn ystafelloedd dosbarth o 30+".

**Ymateb y Cyngor**

Tra bo meintiau dosbarthiadau yn Ysgol Y Graig weithiau ychydig dros 30, nid oes terfyn statudol ar faint unrhyw ddosbarth yng Nghyfnod Allweddol 2. Fel arfer, y

prif reswm am ddosbarthiadau o 30+ yw oherwydd cyllidebau ysgol cyfyngedig. Defnyddir cyfran o'r gyllideb ysgol i gynnal adeiladau ysgol (trethi, ynni, glanhau, gwaith atgyweirio a chynnal a chadw ac ati). Po fwyaf yr adeiladau sydd angen eu cynnal, y lleiaf o gyllideb sydd ar gael i'w wario ar adnoddau eraill fel athrawon. Hefyd, mae'r gost fesul disgybl mewn ysgolion bach yn fwy na hynny mewn ysgolion mwy. Gellir dadlau bod yr ysgolion llai yn derbyn yr hyn sy'n gyfwerth â chyllid ychwanegol i gynnal lleiafswm o lefelau staffio, a bod yr ysgolion mwyaf yn colli allan oherwydd hynny. Gellir dadlau felly y bydd y cynnig yn helpu i leihau nifer y dosbarthiadau sy'n cynnwys mwy na 30 o ddysgwyr.

**5.5.14 Cludiant**

Dywedodd rhai o rieni plant yn Ysgol Talwrn "nad ydynt eisiau plant 4 oed yn mynd i Ysgol Y Graig ar fws" pe bai Ysgol Talwrn yn cau.

**Ymateb y Cyngor**

Er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau niweidiol o ganlyniad i'r cynnig, mae'r Awdurdod yn ymrwymo i ddarparu cludiant i ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Talwrn ar hyn o bryd i'r Ysgol Y Graig ehangedig, yn unol â pholisi cludiant y Cyngor ar gyfer ysgolion. Os cymeradwyir y cynnig gan y Pwyllgor Gwaith, yna gwneid trefniadau cludiant maes o law. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau cludiant hyn o reidrwydd yn golygu y darperir gwasanaeth bws, gan y gellid darparu gwasanaeth tacsi.

**5.5.15 Ymgynghori**

Dywedodd un rhanddeiliad, "o ganlyniad i'r sefyllfa o ran coronafeirws, bydd angen i'r Cyngor ddechrau'r ymgynghoriad eto".

**Ymateb y Cyngor**

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn unol â'r canllawiau statudol yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018, fel y disgrifir yn y tabl isod:

| **Gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018** | **Camau a gymerwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn** |
|---|---|
| Cyhoeddi dogfen ymgynghori ar ffurf copi caled ac ar ffurf electronig ar eu gwefan | Cyhoeddwyd ar wefan Cyngor Sir Ynys Môn ar 6 Chwefror 2020 ac mae ar gael ar ffurf copi caled |
| **Rhaid** cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori ar ddiwrnod ysgol | Fe'i cyhoeddwyd ar 6 Chwefror 2020, **diwrnod ysgol** yn Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig |
| **Rhaid** rhoi o leiaf 42 o ddiwrnodau i bobl ymateb i'r ddogfen | Rhoddwyd o 6 Chwefror 2020 tan 20 Mawrth 2020 i'r ymgyngoreion ymateb i'r ddogfen – **o leiaf 42 diwrnod** |
| Rhaid rhoi gwybod i ymgyngoreion drwy lythyr neu e-bost bod y ddogfen ymgynghori ar gael | **Rhoddwyd gwybod** i'r ymgyngoreion a restrir yn adran 3.1 o'r Ddogfen Ymgynghori **drwy e-bost** bod y ddogfen ymgynghori ar gael |

Dengys y tabl uchod sut y mae'r Awdurdod wedi dilyn y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Fe gaeodd ysgolion ledled Cymru ar ddiwedd y diwrnod ysgol ar 20 Mawrth 2020, ond diwrnod ysgol llawn oedd hwn (fel y diffinnir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018 - "Diffinnir diwrnod ysgol yn adran 579 o Ddeddf Addysg 1996 fel unrhyw ddiwrnod pan fydd sesiwn ysgol yn yr ysgol honno. Gall sesiwn ysgol fod yn sesiwn bore neu'n sesiwn prynhawn, felly mae diwrnod ysgol yn golygu unrhyw ddiwrnod pan fydd yr ysgol yn cyfarfod am y diwrnod cyfan neu am ran o'r diwrnod".) Felly, roedd y cyfnod ymgynghori yn o leiaf 42 diwrnod o hyd, ac mae'n cwrdd â gofynion y Cod.

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn nodi bod rhaid cyhoeddi cynigion cyn pen 26 wythnos o ddiwedd y cyfnod a ganiateir ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad, fel arall bydd y cynigion yn methu a **rhaid** cyhoeddi dogfen ymgynghori newydd er mwyn eu hatgyfodi. O ganlyniad i'r pandemig COVID-19, ni fu hyn yn bosibl. Yn yr achos hwnnw, mae'r Cod yn nodi "**Rhaid** gwneud cais ysgrifenedig i Weinidogion Cymru am estyniad amser cyn i'r cyfnod 26 wythnos ddod i ben a **rhaid** iddo nodi'r rhesymau pam yr ystyrir bod angen estyniad."

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi gwneud cais am yr estyniad amser hwn, ac mae Gweinidogion Cymru wedi caniatáu estyniad o 6 mis i gyhoeddi'r cynnig. Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn bellach hyd at 19 Mawrth 2021 i gyhoeddi cynnig heb fod angen ymgymryd ag ymgynghoriad arall.

### 5.6 Llythyr gan staff Ysgol Talwrn

Derbyniwyd llythyr gan staff Ysgol Talwrn oedd yn trafod gwahanol agweddau ar yr ysgol:

1. "Mae'n anodd derbyn y gwnaiff cau Ysgol Talwrn arwain yn uniongyrchol at safonau uwch, gan y barnwyd fod y ddwy ysgol yn Dda".
2. Nid yw'n briodol dweud nad yw athrawon yn yr ysgol yn cael yr un cyfle i ddatblygu'n broffesiynol oherwydd maint yr ysgol.
3. Ni wnaeth yr un o'r ymgynghoriadau blaenorol roi gwir ystyriaeth i ddatrys y sefyllfa, e.e. prynu tir cyfagos i ddatblygu cae chwarae i'r ysgol. Ni roddwyd ystyriaeth i gael gwared â'r ystafell ddosbarth symudol ac ymestyn yr ysgol negyddu'r hawl i groesi'r iard (y tu allan i oriau ysgol) sydd gan ein cymdogion ar hyn o bryd. Mae'r ymgynghoriad neu'r cynnig yn gwbl seiliedig ar y ddadl y dylid cau Ysgol Talwrn a chynyddu capasiti Ysgol y Graig."
4. "Nid yw'r niferoedd a nodir yn yr adroddiad yn gwir adlewyrchu nifer y teuluoedd ifanc yn y pentref".
5. "Nid yw cymharu'r gost y pen o reidrwydd yn darparu darlun llawn a theg o'r sefyllfa"
6. "Byddai'r cynnig yn cael cryn effaith ar y pentref"
7. Roedd y staff yn galw ar y Cyngor i ystyried y canlynol:
    - Moderneiddio Ysgol Talwrn drwy Grant Ysgolion 21$^{ain}$ Ganrif
    - Ffedereiddio Ysgol Talwrn ag Ysgol Llanbedrgoch
    - Newid ffiniau dalgylchoedd Llangefni

**Ymateb y Cyngor**

Bydd y Cyngor yn ymateb i bob pwynt yn y drefn y'u codwyd uchod:

1. Safonau addysgol yw un ffactor o'r saith her allweddol sy'n wynebu Ysgol Talwrn yr asesir pob opsiwn yn eu herbyn. Hefyd, safonau addysgol yw un ffactor o'r saith gyrrwr a ddisgrifir yn Strategaeth Moderneiddio Ysgolion yr Awdurdod.
2. Yr hyn a olygir yw nad oes cymaint o staff mewn ysgol gynradd fechan i ddatblygu arbenigeddau.

3. Mae'r holl ymgynghoriadau wedi cyfeirio at gost prynu tir cyfagos yn ogystal â'r gost o gaffael ystafell ddosbarth symudol newydd. Pwyllgor Gwaith y Cyngor fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.
4. Nodwyd yn y Ddogfen Ymgynghori fod canran y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Talwrn o'r tu allan i'r dalgylch yn 67%. I'r gwrthwyneb, mae llawer o ddisgyblion o bentref Talwrn yn mynychu ysgolion cynradd eraill ym Môn.

5. Cyllid neu'r gost y pen yw un ffactor o'r saith her allweddol sy'n wynebu Ysgol Talwrn yr asesir pob opsiwn yn eu herbyn. Hefyd, mae'r gost y pen yn un o'r ffactorau o'r saith gyrrwr a ddisgrifir yn Strategaeth Moderneiddio Ysgolion yr Awdurdod.
6. Mae effaith bosibl y cynnig, y cyfeirir ati gan y rhanddeiliad yn 5.6.6 uchod, yn cael ei hasesu yn yr Asesiad Effaith ar y Gymuned.
7. Asesir yr opsiynau a gyflwynir yn 5.6.7 uchod yn yr adroddiad hwn.

**5.7 Barnau plant a phobl ifanc**

Ymwelodd swyddogion y Cyngor â'r ddwy ysgol i ganfod eu barnau ar y cynnig. Eglurodd y swyddogion bod y Cyngor yn gyfrifol am ysgolion ym Môn a'u bod yn gweithio fel rhan o dîm i roi cymorth i ysgolion, gyda'r nodau a ganlyn:

- Rhoi'r cyfle gorau i bob plentyn ddysgu mewn ysgolion rhagorol ar yr ynys.
- Sicrhau adeiladau ysgol diogel a chryf.
- Sicrhau bod arian ar gyfer plant ac ysgolion ym Môn yn cael ei wario'n deg.
- Rhoi'r cyfle i bawb gael llais mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, a sicrhau bod y lleisiau hynny'n cael eu clywed.

Atgoffwyd y plant am Erthygl 12: Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. 'Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried'.
Eglurwyd y bydd yr wybodaeth a gyflwynir ganddynt yn cael ei throsglwyddo i adroddiad a'i chyflwyno i Gynghorwyr fel rhan o'r Ymgynghoriad Statudol, a fydd wedyn yn gwneud penderfyniad.

Gofynnwyd y cwestiynau a ganlyn i'r plant:

- Beth fyddai'n newid?
- Beth ydych yn ei hoffi am eich ysgol bresennol?
- Oes yna unrhyw beth yr hoffech ei newid / wella yma yn eich ysgol bresennol?
- Sut ydych yn cyrraedd eich ysgol bresennol?
- Sut ydych chi'n teimlo am y cynnig?
- Beth fyddech chi'n ei hoffi am y cynnig?
- Beth fyddech chi ddim yn ei hoffi am y cynnig?
- Oes gennych chi rywbeth arall yr hoffech ei ddweud?

Nodir eu hymatebion isod. Yn ystod rhai sesiynau, ysgrifennodd rhai plant eu sylwadau ar bapur, ac fe'u cyflwynir yn iaith y plant.

**Ysgol Talwrn, Mawrth 5 2020**

| Ysgol Talwrn 05.03.2020 | Y Cyngor Ysgol ac eraill |
|---|---|
| Faint o blant? | 12 plentyn (5-10 oed) 7 Geneth / 5 Bachgen |
| Beth fyddai'n newid? | Efallai y bydd Ysgol Talwrn yn cau ac y bydd disgyblion o Ysgol Talwrn yn symud i Ysgol Y Graig. |
| **Cwestiwn** | **Ateb** |
| Beth ydych yn ei hoffi am Ysgol Talwrn? | • Ysgol fechan – mae pawb yn adnabod ei gilydd / ffrindiau / fel teulu.<br>• Ysgol fechan – ddim yn mynd ar goll. Gwybod o ffordd o gwmpas yr ysgol / lle mae pob dim yn cael ei gadw. |

| Ysgol Talwrn 05.03.2020 | Y Cyngor Ysgol ac eraill |
|---|---|
| | • Yn adnabod yr athrawon yn iawn ac yn gallu mynd at [redacted] i siarad am unrhyw broblemau.<br>• Mae'r athrawon yn ein helpu gyda gwaith ac rydym yn hoffi'r ffordd maen nhw'n dysgu - mae'n hwyl.<br>• Sgiliau garddio.<br>• Llywodraethwr – mae dyn o'r gymuned yn dod i ddarllen efo'r plant.<br>• Mae gan y plant bach ardd i chwarae ynddi hi ac mae gan y rhai hŷn un ar wahân.<br>• Yn hoffi – Bl.4, Bl.5, Bl.6 yn yr un dosbarth i helpu ein gilydd.<br>• Tripiau (e.e. Plas Menai ac ati) – Mae pawb yn cael mynd oherwydd nad oes llawer o blant yn yr ysgol.<br>• Rydym yn cael gwneud llawer o bethau sy'n hwyl. Yn cael gweithio ar wahanol brosiectau (technoleg / animeiddio / y gorffennol a'r presennol).<br>• Gwahanol weithgareddau (e.e. coginio, chwarae Knex, chwaraeon, celf, tyfu llysiau iach eu hunain).<br>• Clwb ar ôl ysgol (e.e. chwarae Nintendo Wii, noson ffilmiau, noson gemau, gweu, pethau neis fel paentio eich ewinedd).<br>• Mae gwaith cartref yn hwyl.<br>• Does dim bwlio.<br>• Mae pawb yn byw'n agos. |
| Oes yna unrhyw beth yr hoffech ei newid / wella yma yn Ysgol Talwrn? | • Cael mwy o le i chwarae (lle glaswellt i chwarae pêl-droed).<br>• Gardd i dyfu rhagor o lysiau.<br>• Ychydig mwy o waith cartref.<br>• Plant i rannu pethau efo fi.<br>• Lle glaswellt i chwarae yn lle chwarae ar yr iard.<br>• Wedi arfer efo'r lle. |
| Sut ydych yn cyrraedd Ysgol Talwrn? | • Car<br>• Cerdded (y rheiny sy'n byw'n agos)<br>• Beic<br>• Tacsi |
| Sut fyddech chi'n teimlo am gau Ysgol Talwrn a symud i Ysgol y Graig? | • Yn drist – cau'r ysgol. Mae'r ysgol wedi bod yma ers 100 mlynedd, mae hi wedi bod yma mor hir.<br>• Yn drist nad ydi rhywun a enwyd gan ddisgybl yn gallu dod i'r ysgol.<br>• Mae'r teulu wedi bod i'r ysgol ac wedi tyfu i fyny yma.<br>• Yn gorfod cystadlu yn erbyn ysgol fawr - pêl-droed.<br>• Ofn – ffrindiau'n cael eu gwahanu.<br>• Ofn – mynd ar goll.<br>• Ddim yn siŵr.<br>• Ddim yn edrych ymlaen am fy mod i'n hoffi Ysgol Talwrn. |
| Beth fyddech chi'n ei hoffi am symud i Ysgol y Graig? | • Dim byd.<br>• Yn adnabod ffrindiau yna'n barod.<br>• Gwneud mwy o ffrindiau.<br>• Mwy o le i chwarae (cae chwarae).<br>• Yn dal i fod efo'r un ffrindiau. |
| Beth fyddech chi ddim yn ei hoffi am symud i Ysgol y Graig? | • Eisteddfod Talwrn – yn colli hwn.<br>• Gormod o blant yn Ysgol Y Graig. |

| Ysgol Talwrn 05.03.2020 | Y Cyngor Ysgol ac eraill |
|---|---|
| | • Mae damweiniau'n digwydd y tu allan a dydyn ni ddim yn teimlo'n saff – ceir / croesi'r ffordd y tu allan i'r ysgol.<br>• Lot o fwlio yno (athrawon ddim yn delio efo'r peth) – wedi symud i'r ysgol yma oherwydd bwlio.<br>• Cael ein gwahanu o ffrindiau.<br>• Ddim yn mynd i adnabod pawb.<br>• Ddim yn gwybod y ffordd o gwmpas yr ysgol – yr ysgol yn rhy fawr.<br>• Teithio yn bellach i'r ysgol.<br>• Tydi'r rheiny sy'n cerdded i Ysgol Talwrn ddim yn gallu cerdded yr holl ffordd i Ysgol Y Graig.<br>• Lot o blant / ofn mynd ar goll.<br>• Ysgol efo lot o blant – a tydi pawb ddim yn gallu mynd ar dripiau.<br>• Bwlio yn Ysgol Y Graig. |
| Oes gennych chi rywbeth arall yr hoffech ei ddweud? | • Dwi'n hoffi'r ysgol yma oherwydd eich bod chi'n adnabod pawb ac yn teimlo'n saff – dwi ddim eisiau iddi gau.<br>• Yn mynd i effeithio'r plant bach sydd dal yma a'r plant sydd i ddod eto.<br>• Triwch beidio â chau'r ysgol - triwch ei chadw ar agor.<br>• Mae rhieni wedi bod yn casglu pres i gadw'r ysgol yn fyw ac maen nhw'n poeni am ein dyfodol – i le wneith y pres fynd?<br>• Eisiau gorffen yn yr ysgol ym Mlwyddyn 6 a ddim eisiau symud.<br>• Mae'n bwysig bod yma am mai ein hysgol ni ydi hi.<br>• Plant ac athrawon a ffrindiau sy'n gwneud ysgol.<br>• Gall ffrindiau gael eu gwahanu.<br>• Efallai na fyddan ni yn yr un dosbarth â'n ffrindiau mewn ysgol arall (oherwydd bod plant o wahanol oedrannau yn yr un dosbarth yn Ysgol Talwrn). |

**Ysgol Y Graig – 27 Chwefror 2020**

| Ysgol Y Graig 27.02.2020 | Y Cyngor Ysgol |
|---|---|
| Faint o blant? | 6 plentyn (9-11 oed) 3 Geneth / 3 Bachgen |
| Beth fyddai'n newid? | Efallai y bydd Ysgol Y Graig yn ehangu.<br><br>Bydd bloc newydd yn cael ei adeiladu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen (plant 4-7 oed).<br><br>Bydd plant y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Y Graig yn symud i'r bloc newydd<br><br>A bydd yr holl blant o Ysgol Talwrn yn symud i Ysgol Y Graig a bydd Ysgol Talwrn yn cau. |
| **Cwestiwn** | **Atebion** |
| Beth ydych yn ei hoffi am Ysgol Y Graig? | • Lle chwarae mawr - lle ar gyfer chwaraeon, safle pêl-droed, chwarae cuddio. |

| Ysgol Y Graig 27.02.2020 | Y Cyngor Ysgol |
|---|---|
| | • Dosbarthiadau lliwgar - mae waliau gyda mathemateg a gwahanol themâu yn ein helpu efo'n gwaith.<br>• Mae athrawon da yn gwneud y gwaith yn ddiddorol.<br>• Mae athrawon yn gofalu amdanom ni ac yn ein hadnabod - gallwn siarad efo pawb.<br>• Yn gyfeillgar i blant – yn saff i ni.<br>• Gwahanol weithgareddau (e.e. Gala Nofio, Tîm Pêl-droed, Tripiau i Gaerdydd / Y Gelli Gyffwrdd, coginio ar ôl ysgol (Urdd).<br>• Cyfleoedd i bawb e.e. Eisteddfod, cystadlaethau o bob math.<br>• Mae cael pawb yn chwarae yn helpu'r cyfnod sylfaen.<br>• Gweld ein ffrindiau.<br>• Lot o le – yn teimlo'n gyfforddus.<br>• Mae pawb yn adnabod ei gilydd. |
| Pa bethau nad ydych yn eu hoffi am Ysgol Y Graig? | • Y maes parcio – rhy fach, mae damweiniau'n digwydd am nad oes digon o le i barcio – angen stopio ar ganol y lôn, ar y 'zig zags' neu'r gylchfan.<br>• Dim dyn lolipop - mwy o ddamweiniau ac mae hyn yn gwneud fi'n nerfus i groesi'r ffordd.<br>• Yr iard chwarae'n wlyb.<br>• Wedi colli 2 ystafell gerdd - wedi eu troi'n ystafelloedd dosbarth blwyddyn 2 a 3.<br>• Y toiledau'n fach yng Nghyfnod Allweddol 2.<br>• Y cadeiriau'n fach yng Nghyfnod Allweddol 2. |
| Sut ydych chi'n cyrraedd Ysgol Y Graig? | • Sgwter<br>• Beics<br>• Cerdded<br>• Car |
| Sut fyddech chi'n teimlo am floc newydd (ar gyfer y Cyfnod Sylfaen) yn cael ei adeiladu a disgyblion Ysgol Talwrn yn symud i Ysgol Y Graig? | • Plant bach yn methu eu brawd / chwaer fawr (Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn) – ddim yn eu gweld mor aml.<br>• Yn hapus – mwy o ffrindiau / newydd.<br>• Plant Talwrn yn cael eu gwahanu.<br>• Yn anodd i blant Talwrn setlo – bydd plant Ysgol Y Graig yn eu croesawu.<br>• Yn drist / ofnus – mwy o sŵn. |
| Beth fyddech chi'n ei hoffi am floc newydd (i'r Cyfnod Sylfaen) yn cael ei adeiladu a disgyblion Ysgol Talwrn yn symud i Ysgol Y Graig? | • Bl. 4, Bl. 5, Bl. 6 yn cael drysau i'w ystafelloedd dosbarth.<br>• Mwy o blant – mwy o siarad.<br>• Medru canolbwyntio'n well.<br>• Mwy o le i fwy o blant gael addysg dda.<br>• Mwy o ffrindiau – llai o blant unig. |
| Beth fyddech chi ddim yn ei hoffi am floc newydd (ar gyfer y Cyfnod Sylfaen) yn | • Ddim llawer o le i chwarae.<br>• Colli cyfle i wneud ffrindiau newydd – ddim am weld y plant mor aml mwyach. |

| Ysgol Y Graig 27.02.2020 | Y Cyngor Ysgol |
|---|---|
| cael ei adeiladu a disgyblion Ysgol Talwrn yn symud i Ysgol Y Graig? | • Ddim yn gwybod yn lle fydd y bloc – efallai am golli'r cae, iard – diwrnod mabolgampau, cystadleuaeth chwaraeon.<br>• Uno'r ysgolion - a bydd y plant yn teimlo'n gyfforddus yn dysgu mewn lle hollol wahanol - sut fydd y plant yn dod i'r ysgol<br>• Ddim eisiau i blant Talwrn ymuno.<br>• Ddim yn cael gweld brawd / chwaer fach – mewn adeilad gwahanol.<br>• Ddim digon o le i chwarae – yn dibynnu yn lle fydd yr adeilad newydd.<br>• Bydd rhaid i bobl gael tŷ newydd. |
| Oes gennych chi rywbeth arall yr hoffech ei ddweud? | • Mwy o blant felly angen prynu mwy o fwyd.<br>• Yn lle fyddai'r Cyfnod Sylfaen yn cael cinio?<br>• Iechyd a diogelwch plant – niferoedd uwch.<br>• Ni fyddai plant Talwrn yn gallu cerdded i'r ysgol.<br>• Mwy o draffig – plant yn gorfod teithio'n bellach mewn ceir.<br>• Y lle chwarae ar wahân i blant hŷn? - Bydd ar blant yn y bloc newydd angen lle chwarae ar wahân?<br>• Os oes mwy o athrawon – angen mwy o le – ystafelloedd cyfarfod, ystafelloedd staff.<br>• Plant yn gwneud ffrindiau newydd – clwb ffrindiau / gwneud ffrindiau newydd wrth chwarae.<br>• Gormod o blant mewn clybiau gydag un athro – plant yn colli allan.<br>• Efallai bod plant Ysgol Talwrn yn nerfus.<br>• Cael profiad efo pawb.<br>• Efallai y bydd yr adeiladau'n bell o'i gilydd – mae amser gorffen yr Ysgol yn wahanol i'r Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 – bydd rhaid i rieni gasglu plant o'r adeilad newydd a'r ysgol bresennol.<br>• Bydd angen ailddylunio iard Cyfnod Allweddol 2 ar y safle presennol. |

**5.8 Ymateb Estyn (cynhwyswyd y llythrennau mewn print trwm gan y Cyngor)**

Mae Estyn, yr arolygiaeth addysg yng Nghymru, yn ymgynghorai ym mhob cynnig i ad-drefnu ysgolion. Dyma ymateb Estyn yn llawn: "Darparodd y cynigiwr **wybodaeth ddefnyddiol a manwl** sy'n egluro'r rhesymeg y tu ôl i'w gynnig. Mae Estyn o'r farn bod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau presennol o leiaf yn nhermau addysg, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth ar gyfer plant yn yr ardal."

Aeth ymateb Estyn ymlaen gan ystyried buddion y cynnig:

**Disgrifiad a buddion**

"Mae'r **rhesymeg o ran y cynnig hwn yn drefnus** a nodwyd y materion yn glir. **Mae'r dystiolaeth yn seiliedig ar ffeithiau ac ystyriaethau dilys**.

Mae'r cynigiwr wedi nodi'r manteision a'r anfanteision disgwyliedig mewn cymhariaeth â'r sefyllfa bresennol. **Amlinellir nifer fawr o gynigion mewn perthynas â chadw Ysgol Talwrn ar agor,** sy'n ystyried nid yn unig safonau, ac arweinyddiaeth a rheolaeth, ond hefyd defnydd y gymuned o'r ysgol, er enghraifft, er mwyn darparu darpariaeth ar gyfer plant cyn ysgol. Cydnabyddir bod Ysgol Talwrn yn gwneud cyfraniad helaeth i'r gymuned a'i bod yn rhan allweddol o'r ardal leol. Fodd bynnag, mae'r cynigiwr yn ystyried nifer o gynigion sy'n cyflawni canlyniadau sy'n cefnogi'r cynnig hwn i gau Ysgol Talwrn.

**Mae opsiynau amgen rhesymol yn cael ystyriaeth lawn**, yn ogystal â barnau'r holl bartneriaid o fewn cymuned yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at ddilysrwydd y broses ymgynghori ac, yn gyffredinol, mae'r ystyriaethau'n gadarn o blaid gweithredu'r cynnig hwn.

Nodir yr heriau'n glir, sy'n ymgorffori materion, er enghraifft, o ran nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ddwy ysgol, lleoedd gweigion, y gost fesul disgybl ac ansawdd ac addasrwydd y ddau adeilad ysgol. **Mae'r heriau hyn yn cael eu hystyried yn effeithiol o fewn y cynigion.**

Amlinellir agweddau pwysig o fewn Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, sy'n nodi tystiolaeth fuddiol fel rhan o'r broses ymgynghori, er enghraifft, yr effaith ar fechgyn a genethod, disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac ati. **Daw'r asesiad risg i'r casgliad y byddai derbyn y cynnig yn ffafrio'r cynllun hwn yn nhermau cydraddoldeb.**

**Mae'r cynnig hwn yn cydymffurfio â'r Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg**. Ni fyddai unrhyw newid yng nghyfrwng iaith y disgyblion wrth adleoli i'r ysgol ehangedig arfaethedig, sef Ysgol Y Graig. Nodir y bydd darpariaeth feithrin, yn ogystal ag uned gofal plant i blant cyn ysgol, yn cael eu darparu yn Ysgol Y Graig i'r holl ddisgyblion. Bydd hyn yn fanteisiol fel y mae'r plant yn trosglwyddo i'r ysgol gynradd. Amlinellir hefyd, o ran disgyblion yr ysgol yn ystod oriau ysgol, yn ogystal â'r gymuned ehangach y tu allan i oriau ysgol, bydd cyfleusterau'n annog cyfathrebu naturiol trwy gyfrwng y Gymraeg. **Mae'r asesiad hwn yn awgrymu y caiff y cynnig effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.**

**Ni fyddai unrhyw effeithiau negyddol neu gadarnhaol ar gymuned Ysgol Talwrn yn dilyn gweithdrefnau asesu risg o ran lles**. Byddai derbyn y cynnig hwn yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at y saith nod llesiant, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r cynigiwr yn amlinellu gwybodaeth am drefniadau teithio, yn unol â pholisi cludiant ysgol Ynys Môn. Canlyniad yr asesiad hwn yw y bydd 67% o'r disgyblion yn teithio yn bellach. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion i Ysgol Y Graig os ydynt yn byw 2 filltir neu ragor o'r ysgol. Amcangyfrifir y bydd hyn yn costio £30k y flwyddyn. Mae asesiad effaith ar draffig wedi'i ddarparu eisoes er mwyn blaengynllunio i liniaru effaith cludiant ychwanegol ar staff a disgyblion yn Ysgol Y Graig."

Dywedodd Estyn y canlynol mewn perthynas ag agweddau addysgol y cynnig:

**Agweddau addysgol y cynnig**

"Mae'r cynigiwr wedi ystyried y cynnig hwn yn ôl ansawdd canlyniadau, darpariaeth, arweinyddiaeth a rheolaeth. Yn dilyn penderfyniad Gweithgor y Cyngor yn Mai 2019, mewn perthynas â moderneiddio ysgolion yn ardal Llangefni, cyfarwyddwyd swyddogion i edrych ar y cynigion o'r newydd, ac ystyried y Cod Trefniadaeth Ysgolion

(011/2018) newydd. Gan ystyried yr opsiynau amgen rhesymol, daeth y cynigiwr i'r casgliad bod angen moderneiddio'r ddarpariaeth addysg yn ardal Llangefni i ddarparu model mwy cynaliadwy, effeithiol ac effeithlon i'r dyfodol.
Mae'r cynigiwr yn nodi y bydd disgyblion ledled yr ysgol yn cael profiad addysgol wedi'i gyfoethogi ag adnoddau perthnasol er mwyn darparu cwricwlwm llawn i bob disgybl, yn ddieithriad. Nid yw'r cynigiwr yn cyfeirio'n benodol at ddarpariaeth Cyfnod Sylfaen.
Mae gan Ysgol Y Graig ar hyn o bryd ddeng dosbarth un oedran a thri dosbarth oedran cymysg, tra rhennir disgyblion yn Ysgol Talwrn yn dri dosbarth oedran cymysg yn y bore, a dau yn y prynhawn. Byddai darparu cwricwlwm mewn amgylchedd dysgu newydd yn Ysgol Y Graig yn debygol o gyfoethogi profiad cynradd y disgyblion.
Cyfanswm nifer y plant yn y dosbarth meithrin fyddai 68, gyda chapasiti ar gyfer 480 o ddisgyblion (4 - 11 oed) yn yr ysgol. Mae safle Ysgol Y Graig yn ddigon helaeth i gymryd rhagor o ddisgyblion i fynychu'r ysgol.
Byddai cytuno'r cynnig presennol yn golygu newid o ran amgylchedd dysgu'r holl ddisgyblion. Fodd bynnag, cydnabyddir y byddai'r newid efallai'n profi i fod yn fwy heriol i rai disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Bydd y Cyngor yn cymryd pob cam ymarferol i sicrhau y bydd hyn yn tarfu cyn lleied ag y bo modd er mwyn sicrhau trefniadau trosglwyddo rhwydd. Bydd disgyblion ADY sy'n mynychu Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig ar hyn o bryd yn parhau i dderbyn y lefel o gymorth sydd ei angen i gwrdd a'u anghenion dysgu unigol. Bydd trefniadau ychwanegol sydd eisoes yn eu lle ar gyfer disgyblion, fel mynediad i gymorth, hefyd yn cael eu hadolygu a'u darparu lle bo angen.
Mae'r cynnig hefyd yn crybwyll y posibilrwydd efallai y bydd angen i staff Ysgol Y Graig ddatblygu ystod ehangach o arbenigedd er mwyn diwallu anghenion disgyblion unigol. Fel rhan o'r broses drosglwyddo, cynigir y dylai'r Cyngor ddarparu cefnogaeth a chymorth priodol i ddisgyblion ADY.
Rhagwelir na fydd gan y pennaeth unrhyw ymrwymiadau addysgu penodol yn Ysgol Y Graig, mewn cymhariaeth ag ymrwymiad addysgu presennol pennaeth Ysgol Talwrn, sef 70% o'r amserlen. **Hefyd bydd datblygu capasiti arweinyddiaeth, drwy beidio â chael unrhyw gyfrifoldebau dysgu, yn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at fynd i'r afael â'r heriau o ran rheoli, a'r rhai strategol sy'n rhan o redeg ysgol lwyddiannus**. Nid yw'r cynnig yn mynd i fanylion uniongyrchol am broses statudol adleoli neu ddiswyddo staff, yn unol â'r gweithdrefnau perthnasol. Fodd bynnag, bydd angen i'r Cyngor rannu gwybodaeth bellach ag aelodau staff yn Ysgol Talwrn i sicrhau tegwch a chydweithrediad statudol yn unol â Pholisi Ailstrwythuro a Diswyddo'r Cyngor ar gyfer ysgolion, ynghyd â'i Bolisi Adleoli ar gyfer ysgolion.
Mae'r ddwy ysgol yn y categori 'A' gwyrdd yn nhermau capasiti o ran cymorth, yn unol â'r diffiniadau o'r model cenedlaethol ar gyfer categoreiddio ysgolion. Bu Ysgol Y Graig yn y categori hwn yn gyson ers Medi 2015, ac Ysgol Talwrn ers Medi 2019.
Barnwyd fod gan y ddwy ysgol ddeilliannau 'da' ym mhob maes arolygu gan Estyn:

Ysgol Talwrn – Hydref 2018

Ysgol y Graig – Ionawr 2019

Ar y cyfan, mae safonau'r disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol, yn gyson, yn dda. Wrth ystyried nifer o ffynonellau, mae perfformiad y ddwy ysgol yn gyson, yn gyffredinol."

Ni chafodd unrhyw faterion eu nodi yn ymateb Estyn yr oedd angen i'r Cyngor ymateb iddynt neu eu hegluro.

**5.9** Derbyniwyd llythyr gan **Ysgrifennydd Capel Siloam, Talwrn** (Capel Annibynnol) yn mynegi “gwrthwynebiad aelodau’r Capel i gau Ysgol Gynradd Talwrn".

- Yr ysgol yw “calon y gymuned” ac “mae calon y gymuned yn curo gyflymaf yma”.
- Mae aelodau presennol y capel “wedi cael budd mawr o fod yn Ysgol Talwrn”.
- Mae’r iaith a thraddodiadau’n bwysig iawn, a chredwn y trosglwyddir y rhain orau mewn ysgol fel Talwrn.
- Mae’r ysgol hon yn gymuned glos sydd wedi cyfrannu llawer i’r gymuned ehangach.

**Ymateb y Cyngor**
Aethpwyd i’r afael â’r materion hyn yn adran 4 o’r Asesiad Effaith – Atodiad 1.

**5.10** Derbyniwyd llythyr gan **Arolygwr Ysgol Sul Siloam, Talwrn** (Capel Cynulleidfaol)

- Cafwyd cydweithrediad hapus rhwng yr Ysgol Sul ac Ysgol Talwrn dros flynyddoedd lawer.
- Heb Ysgol Talwrn, ni fyddai Ysgol Sul.
- Byddai cau Ysgol Talwrn yn “rhwygo’r enaid o’r gymuned”.

**Ymateb y Cyngor**
Aethpwyd i’r afael â’r materion hyn yn adran 4 o’r Asesiad Effaith – Atodiad 1.

**5.11** Derbyniwyd llythyr gan breswylydd lleol o gyffiniau Ysgol Talwrn. Crybwyllwyd bod cael nifer o ymgynghoriadau ar ddyfodol Ysgol Talwrn wedi gadael cwmwl dros yr ysgol. Teimlwyd y gallai hyn arwain at leihau cymunedau gwledig.

**Ymateb y Cyngor**
Dyma’r ffigurau a gyflwynwyd yn y Ddogfen Ymgynghori o ran nifer y disgyblion sy’n mynychu Ysgol Talwrn:

| Ysgol | Capasiti (ac eithrio’r Meithrin) | Niferoedd Disgyblion yn Ionawr: | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 |
| Talwrn | 49 | 44 | 47 | 47 | 43 | 45 |

Dengys y ffigurau bod nifer y disgyblion yn Ysgol Talwrn wedi parhau i fod yn weddol gyson mewn blynyddoedd diweddar, er gwaethaf cynnal rhai cyfnodau ymgynghori ar ddyfodol yr ysgol gynradd yn ystod y cyfnod hwn.

**5.12** Mewn llythyr gan breswylydd arall o gyffiniau Ysgol Talwrn, disgrifiwyd sut yr oedd yn meddwl nad oedd y cynnig yn cyflawni’r gyrwyr allweddol, ac roedd o’r farn nad oedd y cynnig “yn ddigon cryf”.

**Ymateb y Cyngor**
Yn y Ddogfen Ymgynghori, darparodd yr Awdurdod werthusiad cynhwysfawr o’r cynnig yn erbyn y gyrwyr allweddol a nodwyd o fewn y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion ac yn erbyn yr heriau allweddol sy’n wynebu Ysgol Talwrn.

**5.13** Dywedodd un o randdeiliaid eraill Ysgol Talwrn: “Tra bo gan adeiladau ac adnoddau rôl bwysig iawn o ran darparu’r addysg orau i’n plant, y ffactor pwysicaf mewn unrhyw ddarpariaeth addysgol yw athrawon cydwybodol ac effeithiol i’n disgyblion.” Roedd y rhanddeiliad yn honni ymhellach “bod Cyngor Sir Ynys Môn, ers gormod o flynyddoedd bellach, wedi taflu cysgod dros Ysgol Talwrn drwy ddychwelyd, dro ar ôl tro, i ail-ymgynghori ar ei dyfodol. Mae’r ysgol bellach yn haeddu cael llonydd i ddal ati i ddarparu’r addysg orau i’w disgyblion ac i barhau i fod yn rhan annatod a phwysig o’r gymuned wledig hon yng nghanol yr ynys.” Roeddynt hefyd yn galw ar y Cyngor i “ddiddymu’r cynnig hwn, ac yna rhoi llonydd i Ysgol Talwrn er mwyn rhoi’r gorau i daflu cysgod parhaol dros ei dyfodol.”

**Ymateb y Cyngor**

Nid yw’r Cyngor yn amau bod athrawon ysgol yn rhan bwysig o unrhyw ddarpariaeth ysgol. Pwyllgor Gwaith y Cyngor fydd y penderfynu p’un ai i weithredu’r cynnig dros yr ychydig fisoedd nesaf.

**5.14** Mewn llythyr byr gan **Gangen Talwrn o Ferched y Wawr**, mynegodd yr Ysgrifennydd wrthwynebiad y Gangen i’r "bwriad i gau Ysgol Talwrn". Gan gyfeirio at brosiect y bu aelodau o’r Gangen yn gweithio arni gyda disgyblion o Ysgol Talwrn, dywedwyd bod Ysgol Talwrn yn “ysgol naturiol Gymraeg mewn tref brysur”. Dywedodd Ysgrifennydd y Gangen hefyd y byddai cau’r ysgol yn gwneud targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn “fwy anghyraeddadwy”.

**Ymateb y Cyngor**

Os gweithredir y cynnig, gallai Cangen Talwrn o Ferched y Wawr ddal i weithio gyda phlant o bentref Talwrn. Mae adran 4.8 o’r Asesiad Effaith yn nodi: “Gellir ymgymryd â chyfleusterau cymunedol a ddarperir gan yr ysgol yn Nhalwrn yn yr Ysgol y Graig ehangedig, neu o safleoedd eraill yn Nhalwrn megis neuadd y pentref neu eglwys Talwrn.” Byddai hyn yn wir yn yr achos hwn.

Disgrifir effaith bosibl y cynnig ar y Gymraeg yn adran 3 o’r Asesiad Effaith – Atodiad 1.

**5.15** Ni fyddai’r pennaeth yn adnabod y disgyblion oherwydd maint yr ysgol gyfan.

**Ymateb y Cyngor**

Byddai pob athro’n adnabod ei ddisgyblion. Mae’n debygol y byddai strwythur tîm arweinyddiaeth yr ysgol ehangedig yn cynnwys pennaeth y Cyfnod Sylfaen a phennaeth Cyfnod Allweddol 2. Byddai’r athrawon hyn, yn ogystal â’r pennaeth, yn adnabod y disgyblion.

**5.16** Anghytuno â’r sylw y caiff disgyblion o Dalwrn fwy o gyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. Mewn ysgol fechan, rhaid i bob disgybl gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. Mewn ysgol fawr, dim ond y rhai mwyaf hyderus neu dalentog sy’n cymryd rhan mewn gweithgareddau o’r fath.

**Ymateb y Cyngor**

Nid oes unrhyw reidrwydd ar ddisgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. Fodd bynnag, mae gweithgareddau allgyrsiol yn cynnwys amryw weithgareddau fel clybiau amser cinio neu ar ôl ysgol, ynghyd â chwarae i dîm pêl-droed neu rygbi yn yr ysgol. Yr hyn a olygwyd yma oedd y bydd mwy o gyfle mewn ysgol gynradd fwy i gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn oherwydd y bydd mwy o ddisgyblion yn bresennol ynghyd â staff ychwanegol a chanddynt amrywiaeth ehangach o arbenigeddau.

**5.17** Effaith negyddol ar yr amgylchedd – bydd y cynnig yn arwain at gynnydd yn y defnydd o gerbydau.

**Ymateb y Cyngor**
Pryder i rai rhanddeiliaid oedd y byddai cau Ysgol Talwrn yn creu cynnydd mewn allyriadau carbon. Dengys cyfrifiadau na fyddai hyn yn digwydd oherwydd bod hanner y disgyblion yn Ysgol Talwrn yn dod i mewn o'r tu allan i'w dalgylch.

**5.18** Os yw 2 ysgol yn uno, dylai fod yn broses gystadleuol.

**Ymateb y Cyngor**
Roedd adran 12 o'r Ddogfen Ymgynghori'n nodi: "Os cymeradwyir y cynnig, ni fydd unrhyw newidiadau i staff Ysgol Y Graig, ond bydd staff Ysgol Talwrn mewn perygl o gael eu diswyddo a byddai'r Polisi Ailstrwythuro a Diswyddo ar gyfer ysgolion a Pholisi Adleoli ysgolion yn cael ei ddefnyddio."

## 6. SYLWADAU A DDERBYNIWYD MEWN PERTHYNAS Â'R OPSIYNAU AMGEN A YSTYRIWYD

**6.1 Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 mae'n ofyniad i'r cynigiwr ddarparu opsiynau amgen rhesymol i'r cynnig os yw'n cynnwys cau unrhyw ysgol - mae'r adran a ganlyn yn trafod yr opsiynau amgen rhesymol a gyflwynwyd gan y Cyngor yn y ddogfen ymgynghori, ynghyd ag ymatebion rhanddeiliaid.**

Yn adran 4 o'r Ddogfen Ymgynghori, nodwyd y gyrwyr allweddol fel yr amlinellwyd yn y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion. Byddai angen i bob opsiwn amgen rhesymol a gyflwynwyd gwrdd â gofynion y gyrwyr allweddol:

- Mae angen i **safonau** ar draws pob ysgol fod o leiaf yn dda neu'n rhagorol. Yn ogystal â hyn, byddai disgwyl i ysgolion yn yr ardal fod yn y categori gwyrdd, h.y. ysgolion sy'n perfformio'n dda ac angen y lefel isaf o gefnogaeth.
- Mae'n rhaid i **arweinyddiaeth a rheolaeth** fod yn dda neu'n well ym mhob ysgol. Yn y cyd-destun hwn, mae ar benaethiaid angen digon o amser digyswllt i gydbwyso heriau arweinyddiaeth a rheolaeth ag ymrwymiad addysgu.
- Mae angen i'r **adeilad ysgol** ddarparu amgylchedd dysgu ysbrydoledig a fydd yn annog bob disgybl i gyflawni eu potensial ar draws pob maes dysgu. Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid i bob ysgol gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran hygyrchedd i blant ag anableddau.
- Mae angen i **leoedd ysgol digonol** fod ar gael yn yr ardal i gwrdd â galw presennol, rhagolygon niferoedd y dyfodol yn ogystal â lleihau lleoedd gweigion. Yn ogystal â hyn, mae angen lleihau symudiad disgyblion o'r tu mewn a thu allan i'r dalgylch os oes modd.
- Bydd rhaid i unrhyw ddarpariaeth ysgol ddiwygiedig yn yr ardal fod yn **gost effeithlon** h.y. mae angen lleihau'r costau refeniw ac unrhyw gostau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol. Yn ogystal â hyn, mae angen lleihau'r amrywiad yn y gost fesul disgybl ar draws ysgolion unigol.
- Bydd angen o leiaf cynnal **darpariaeth cyfrwng Cymraeg** a'i gwella.
- Mae angen cynnal **defnydd cymunedol** o adeiladau ysgol a chyfleusterau cysylltiedig, a'i gynyddu lle bo'n bosibl.

Isod ceir rhestr o'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn y dymuna'r Cyngor fynd i'r afael â hwy drwy'r cynnig i gau'r ysgol:

1. Niferoedd disgyblion.
2. Diffyg lle i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (CiG) yn y tymor canolig i dymor hir.
3. Y gost fesul disgybl – sydd 14% yn uwch na chyfartaledd ysgolion cynradd Ynys Môn.

4. Adeilad yr ysgol - mae ganddi gostau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol o £360,000 (2019) a gradd cyflwr B (Boddhaol – Perfformio fel y dylai ond yn arddangos ychydig o ddirywiad). Nid yw Ysgol Talwrn ond yn cydymffurfio'n rhannol â'r gofynion a ddisgwylir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
5. Safonau - gallai'r safonau presennol a welir yn Ysgol Talwrn fod yn anodd i'w cynnal yn y tymor canolig i dymor hir.
6. Ymrwymiad Addysgu'r Pennaeth – mae'r ymrwymiad addysgu penodol yn 70% ar hyn o bryd.
7. Cyllid – mae'r gost fesul disgybl yn Ysgol Talwrn (£4,553) yn uwch na Chyfartaledd Ysgolion Cynradd Ynys Môn (£3,988), a cheir amrywiaeth eang yn y gost fesul disgybl rhwng Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig (£3,429). Mae'n debygol y bydd gofyn i'r awdurdod wneud arbedion sylweddol dros y 3 blynedd nesaf.

Yn y tabl isod, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), mae'r Cyngor yn ystyried sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad ac yn rhoi ei ymateb drwy ddarparu eglurhad, diwygio'r cynnig neu wrthod pryderon gyda rhesymau i gefnogi hynny.

| Dewisiadau amgen rhesymol a gyflwynir gan y Cyngor | Sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb y Cyngor – eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i gefnogi hynny |
|---|---|---|
| **6.1.1 Adeiladu ysgol gynradd 21ain ganrif newydd i Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig a chau'r ddwy ysgol.**<br><br>Yn seiliedig ar gost o tua £11.4m. | Darparodd 19 o ymatebwyr (allan o 57 neu 33%) sylwadau i awgrymu y byddai'n well ganddynt yr opsiwn hwn yn lle'r cynnig. | Byddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn:<br>▪ Cost refeniw uwch i'r Awdurdod.<br>▪ Mae'r buddsoddiad cyfalaf yn tua £5.5m yn uwch na hynny a glustnodwyd o fewn amlen gyllid Band B Ynys Môn. Felly mae risg y byddai rhaid i'r Awdurdod ariannu'r rhan fwyaf o waith adeiladu o'r fath ac na fyddai'n gallu gwneud y gorau o'r cyfleoedd a ddarperir o dan y rhaglen moderneiddio 21ain ganrif.<br>▪ Mae Ysgol y Graig ychydig dros 10 oed, a byddai unrhyw benderfyniad i gau'r ysgol yn bwrw amheuaeth ar y safbwynt gwerth am arian (GAA) o ran bod gan ysgolion oes o 50 mlynedd.<br>**Am y rhesymau ariannol a restrir uchod, gwrthodir yr opsiwn amgen rhesymol hwn a awgrymwyd gan randdeiliaid ac ni chaiff ei ystyried ymhellach.** |
| **6.1.2 Parhau â'r trefniadau presennol – Gadael Ysgol Talwrn fel y mae hi** | Darparodd 14 o ymatebwyr (25%) sylwadau i awgrymu y byddai'n well ganddynt yr opsiwn hwn yn lle'r cynnig. | Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cwrdd â'r holl heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn. |

| Dewisiadau amgen rhesymol a gyflwynir gan y Cyngor | Sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb y Cyngor – eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i gefnogi hynny |
|---|---|---|
| Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf. | | ▪ Byddai adeilad Ysgol Talwrn yn ei gwneud hi'n anodd cynnal safonau cyfredol yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Ni fydd unrhyw newid yn yr amrywiad ym maint dosbarthiadau na nifer yr ystodau oedran a addysgir mewn dosbarthiadau yn Ysgol Talwrn.<br>▪ Ni fydd y cyfle i'r Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r baich arweinyddiaeth yn cael ei wireddu.<br>▪ Mae ymrwymiad addysgu Pennaeth Ysgol Talwrn yn 70%.<br>▪ Dim ond yn rhannol mae adeilad Ysgol Talwrn yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 mewn perthynas â mynediad i ddisgyblion anabl.<br>▪ Nid yw adeilad Ysgol Talwrn yn cwrdd â safonau Ysgol yr 21ain Ganrif er mwyn creu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig i blant yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Nid yw adeilad Ysgol Talwrn yn darparu amgylcheddau dysgu allanol i hyrwyddo dysgu annibynnol disgyblion ac felly'n sefydlu'r amodau ar gyfer darparu Cwricwlwm i Gymru (CIG) yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r lleoedd gweigion yn Ysgol Talwrn.<br>▪ Colli'r cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o gyfyngiad cyllidol.<br>▪ Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol |

| **Dewisiadau amgen rhesymol a gyflwynir gan y Cyngor** | **Sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad** | **Ymateb y Cyngor – eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i gefnogi hynny** |
|---|---|---|
| | | ▪ Ni fyddai'n hyfyw yn ariannol yn y dyfodol oherwydd y costau cynnal a chadw cyfredol uchel fyddai ar ystâd yr adeiladau ysgol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost fesul disgybl na chydraddoldeb darpariaeth gan fod ysgolion llai yn derbyn canran uwch o arian fesul disgybl.<br>▪ Nid yw'n lleihau costau refeniw cyffredinol addysg yn yr ardal. Mae costau refeniw yn debygol o gynyddu yn y dyfodol gan y disgwylir i boblogaeth y disgyblion gynyddu. Byddai hyn yn arwain at ddisgyblion yn cael eu cludo i ysgolion y tu allan i'r dalgylch oherwydd diffyg capasiti. Disgwylir y byddai angen 2 gytundeb bws ychwanegol yn y dyfodol am gost o tua £60k y flwyddyn.<br>**Gan nad yw'r opsiwn hwn yn cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn, gwrthodir yr opsiwn amgen rhesymol hwn ac ni chaiff ei ystyried ymhellach.** |
| **6.1.3 Ffedereiddio Ysgol Talwrn gydag Ysgol y Graig**<br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf. | Awgrymodd cyfanswm o 5 (9%) o ymatebwyr y byddai'n well ganddynt yr opsiwn o ffedereiddio yn lle'r cynnig. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif yn awyddus i ffedereiddio ag ysgol debyg arall yn hytrach nag Ysgol Y Graig, fel Ysgol Llanbedrgoch neu Ysgol Pentraeth. | Fe gafodd yr opsiwn o ffedereiddio ei werthuso o fewn y ddogfen ymgynghori (adran 6.3.3). Ni fyddai newid y trefniant ffedereiddio o Ysgol Y Graig i Ysgol Llanbedrgoch neu Ysgol Pentraeth yn cael llawer o effaith ar ba mor dda mae'r opsiwn yn perfformio yn erbyn y gyrwyr allweddol.<br>• Ni fyddai unrhyw newid yn amrywiad meintiau'r dosbarthiadau na'r nifer o ystodau oedran a addysgir |

| **Dewisiadau amgen rhesymol a gyflwynir gan y Cyngor** | **Sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad** | **Ymateb y Cyngor – eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i gefnogi hynny** |
|---|---|---|
| | | yn nosbarthiadau Ysgol Talwrn.<br>▪ Dim newid yng nghapasiti'r Arweinyddiaeth a Rheolaeth.<br>▪ Byddai'r patrwm presennol o gydbwyso ymrwymiad addysgu â'r angen i ganfod amser i arwain a rheoli'r ysgol yn parhau.Yn ogystal â hyn, ni wireddir y cyfle i'r Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli ymhellach i rannu'r baich Arweinyddol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella adeilad Ysgol Talwrn i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol ar safle Ysgol Talwrn i hybu dysgu annibynnol disgyblion ac felly i ddosbarthu'r Cwricwlwm i Gymru (CIG).<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol adeiladau'r ysgol (costau cynnal a chadw £360k yn 2019).<br>▪ Dim ond yn rhannol y mae adeilad Ysgol Talwrn yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran mynediad i ddisgyblion ag anableddau. Nid yw'n mynd i'r afael â hyn.<br>▪ Colli cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o gyfyngiad cyllidol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost fesul disgybl a chydraddoldeb darpariaeth gan fod ysgolion llai yn derbyn canran uwch o arian fesul disgybl.<br>▪ Nid yw'n lleihau'r swm a ddirprwyir i ysgolion drwy'r fformiwla cyllido ysgolion. |

| Dewisiadau amgen rhesymol a gyflwynir gan y Cyngor | Sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb y Cyngor – eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i gefnogi hynny |
|---|---|---|
| | | ▪ Nid yw'n dileu'r costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol.<br>▪ Mae'n debygol bydd costau refeniw yn cynyddu yn y dyfodol oherwydd disgwylir i nifer y disgyblion gynyddu, fyddai'n arwain at ddisgyblion yn cael eu cludo i ysgolion y tu allan i'r dalgylch oherwydd diffyg capasiti. Rhagwelir y byddai angen 2 gytundeb bws ychwanegol am gost o tua £60k y flwyddyn.<br>**Gan nad yw'r opsiwn hwn ond yn cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn yn rhannol, gwrthodir yr opsiwn amgen rhesymol hwn ac ni chaiff ei ystyried ymhellach.** |
| **6.1.4 Trefniant clwstwr / cydweithredu - Ysgol Talwrn gydag Ysgol Y Graig**<br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf. | Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion ar gyfer yr awgrym hwn. | **Mae'r trefniant clwstwr / cydweithredu - Ysgol Talwrn gydag Ysgol y Graig - yn cael ei wrthod gan y Cyngor gan nad yw'n cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn, fel y nodir yn 6.1 uchod.** |
| **6.1.5 Cynnal dosbarthiadau Meithrin a Derbyn yn Ysgol Talwrn a Blwyddyn 1-6 yn Ysgol Y Graig**<br>Yn seiliedig ar gost o tua £3.4m i ymestyn y ddwy ysgol. | Ni ddarparwyd unrhyw sylwadau, fodd bynnag, awgrymwyd dewis amgen tebyg, sef ysgol pob oedran ar fwy nag un safle. | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael ag ansawdd ystâd yr ysgolion.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella'r ystâd adeiladau ysgolion cynradd i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif a darparu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hybu dysgu annibynnol disgyblion ac felly i ddosbarthu'r Cwricwlwm i Gymru (CIG) yn y tymor byr i'r tymor canolig. |

| Dewisiadau amgen rhesymol a gyflwynir gan y Cyngor | Sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb y Cyngor – eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i gefnogi hynny |
|---|---|---|
| | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael a chostau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol adeiladau'r ysgolion unigol – nid yw'n hyfyw yn ariannol ar gyfer y dyfodol. Nid yw'n mynd i'r afael ag ansawdd ystâd yr adeiladau ysgol.<br>▪ Dim ond yn rhannol y mae adeilad Ysgol Talwrn yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran mynediad i ddisgyblion ag anableddau, tra bod Ysgol Y Graig yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010.<br>▪ Ni fyddai o reidrwydd yn mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn Ysgol y Graig, sydd dros ei chapasiti. Byddai'n rhaid rhoi estyniad ar Ysgol Talwrn ar gyfer y tua 90 o ddisgyblion Meithrin a Derbyn yn Ysgol Talwrn; ei chapasiti yw 49. Byddai hyn yn codi materion o ran mynediad i'r safle ac nid yw'n debygol y byddai digon o ofod ar y safle. Byddai hyn yn golygu bod tua 320 o ddisgyblion yn Ysgol y Graig o flwyddyn 1 i 6<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol<br>▪ Ni fyddai'n lleihau'r gost y disgybl.<br>▪ Ni fyddai'n hyfyw yn y dyfodol yn y dyfodol oherwydd costau cynnal a chadw cyfredol uchel ystâd yr adeiladau ysgol.<br>▪ Nid yw'n debygol y byddai unrhyw ostyngiad yng nghost gyffredinol addysg yn yr ardal - byddai cynnydd o tua £39k yng nghostau'r adeiladau. Rhagwelir y byddai costau cludiant o dan y ddarpariaeth bresennol yn debyg i gostau'r opsiwn hwn. O dan y ddarpariaeth bresennol, |

| Dewisiadau amgen rhesymol a gyflwynir gan y Cyngor | Sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb y Cyngor – eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i gefnogi hynny |
|---|---|---|
| | | byddai angen 2 gytundeb bws ychwanegol i gludo disgyblion i ysgolion y tu allan i'w dalgylch, gan nad oes digon o lefydd yn y dalgylch. O dan yr opsiwn yma, byddai angen 2 gytundeb bws ychwanegol i gludo disgyblion rhwng dalgylch Ysgol Y Graig a dalgylch Ysgol Talwrn.<br>▪ Byddai 35% o'r gost gyfalaf yn cael ei hariannu drwy fenthyca digymorth gyda chost o tua £58k y flwyddyn.<br>▪ Mae'n debyg na fyddai ysgolion yn cadw eu hunaniaeth wreiddiol a byddent yn cael enw newydd.<br>▪ Dim ond yn rhannol mae Ysgol Talwrn yn cydymffurfio'n â'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010.<br>▪ Logisteg - anodd i rieni nôl a danfon plant os ydynt yn mynychu gwahanol safleoedd.<br>▪ Nid yw'r lôn i Ysgol Talwrn yn addas i gerbydau ychwanegol o ganlyniad i'r newid hwn. **Gan nad yw'r opsiwn hwn yn cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn, gwrthodir yr opsiwn amgen rhesymol hwn ac ni chaiff ei ystyried ymhellach.** |
| **6.1.6 Defnyddio Ysgol Talwrn fel hwb cymunedol i letya/cefnogi gwasanaethau cymunedol**<br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf. | Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion ar gyfer yr awgrym hwn. | **Trafodwyd yr opsiwn amgen rhesymol hwn yn adran 6.3.6 o'r Ddogfen Ymgynghori ac roedd sawl anfantais iddo. Fel mesur moderneiddio ysgol, nid yw'r opsiwn yn cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn ac fe'i gwrthodir ac ni chaiff ei ystyried ymhellach.** |
| **6.1.7 Cyd-leoli gwasanaethau lleol yn Ysgol Talwrn** | Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion ar gyfer yr awgrym hwn. | Ychydig iawn o le sydd ar gael yn Ysgol Talwrn, os o gwbl, er mwyn galluogi hyn. **Fel mesur** |

| Dewisiadau amgen rhesymol a gyflwynir gan y Cyngor | Sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb y Cyngor – eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i gefnogi hynny |
|---|---|---|
| Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf. | | **moderneiddio ysgol, gan nad yw'r opsiwn hwn yn cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn, gwrthodir yr opsiwn amgen rhesymol hwn ac ni chaiff ei ystyried ymhellach.** |
| **6.1.8 Sefydlu ysgol aml-safle, Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig**<br>Yn seiliedig ar gost o tua £3.4m i ymestyn y ddwy ysgol. (Byddai angen ymestyn y ddwy ysgol i ddarparu capasiti digonol) | Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion ar gyfer yr awgrym hwn. | **Trafodwyd yr opsiwn amgen rhesymol hwn yn adran 6.3.8 o'r Ddogfen Ymgynghori ac roedd sawl anfantais iddo. Gan nad yw'r opsiwn amgen rhesymol hwn yn cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn fe'i gwrthodir ac, ni chaiff ei ystyried ymhellach.** |
| **6.1.9 Mynd i'r afael â gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol yn Ysgol Talwrn**<br><br>Yn seiliedig ar fenthyca £360k dros 20 mlynedd.<br><br>Gellir dadansoddi'r costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol o £360,000 fel a ganlyn:<br>Gwaith mewnol £29,500<br>Gwaith allanol £80,500<br>Ystafell ddosbarth newydd dros dro £250,000<br>Derbyniwyd pris ar gyfer ystafell ddosbarth dros dro o faint tebyg gan y Cyngor yn Awst 2019 ac roedd y pris amcangyfrifiedig yn dod i gyfanswm o £308,000 (£185k ar gyfer yr ystafell ddosbarth symudol, £11k ar gyfer offer ychwanegol a £112k ar gyfer gwaith sylfaen a chysylltu'r | Darparodd 15 o ymatebwyr sylwadau a oedd yn awgrymu y byddai'n well ganddynt yr opsiwn hwn yn lle'r cynnig. | Nid yw'r opsiwn hyn yn mynd i'r afael â'r canlynol:<br>• Ceir ystodau oedran o fwy na 2 flynedd yn Ysgol Talwrn.<br>• Mae gan bennaeth Ysgol Talwrn ymrwymiad addysgu penodol sylweddol.<br>• Mae'n anodd teilwra'r dysgu mewn ysgol o faint Talwrn i dargedu anghenion pob disgybl, gan gynnwys disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r disgyblion Mwyaf Abl a Thalentog.<br>• Nid yw'n darparu amgylchedd addas i gyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru.<br>• Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn yr ysgol.<br>▪ Os ariennir y gwaith cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol drwy fenthyca digymorth, y gost ad-dalu flynyddol fyddai tua £28k.<br>▪ Colli cyfle am fuddsoddiad cyfalaf arwyddocaol mewn amser o gyfyngiad cyllidol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost fesul |

| **Dewisiadau amgen rhesymol a gyflwynir gan y Cyngor** | **Sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad** | **Ymateb y Cyngor – eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i gefnogi hynny** |
|---|---|---|
| ystafell ddosbarth symudol â'r gwasanaethau cyfleustodau) | | disgybl a chydraddoldeb darpariaeth gan fod ysgolion llai yn derbyn canran uwch o arian fesul disgybl.<br>▪ Nid yw'n lleihau costau refeniw cyffredinol addysg yn yr ardal.<br>▪ Mae costau refeniw yn debygol o gynyddu yn y dyfodol wrth i nifer y disgyblion gynyddu, byddai hyn yn arwain at ddisgyblion yn cael cludo y tu allan i'w dalgylch, oherwydd diffyg capasiti. Rhagwelir y byddai angen 2 gytundeb bws ychwanegol am gost cludiant ychwanegol o £60k y flwyddyn.<br>▪ Dim arbedion refeniw.<br>**Gan nad yw'r opsiwn hwn yn cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn, gwrthodir yr opsiwn amgen rhesymol hwn ac ni chaiff ei ystyried ymhellach.** |
| **6.1.10 Ffedereiddio Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir, Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn gydag Ysgol Gyfun Llangefni (Ysgol Uwchradd).**<br><br>**Yn seiliedig ar ddim gwariant cyfalaf** | Oni bai am ymateb Cymdeithas yr Iaith, ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion ar gyfer yr awgrym hwn. | Trafodwyd yr opsiwn hwn yn adran 5.3 uchod. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r:<br>• angen am ragor o leoedd ysgol yn Llangefni – dengys rhagamcanion disgyblion sy'n cynnwys disgyblion o ddatblygiadau tai newydd ei bod yn debygol y bydd 764 o ddisgyblion yn y 4 ysgol gynradd (Bodffordd, Corn Hir, Talwrn a'r Graig) tra bo capasiti presennol y pedair ysgol gynradd yn darparu 646 o leoedd, **sy'n golygu diffyg o 118 o leoedd**.<br>• gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol ar bob un o'r ysgolion - y gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol ar bob un o'r 4 ysgol gynradd |

| Dewisiadau amgen rhesymol a gyflwynir gan y Cyngor | Sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb y Cyngor – eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i gefnogi hynny |
|---|---|---|
| | | ac Ysgol Gyfun Llangefni yw £4,385,500. **Ni fyddai** cynnig Cymdeithas yr Iaith **yn arwain at leihau'r costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol.**<br>• safon yr adeiladau ysgol – mae gan Ysgol Y Graig radd cyflwr o A, mae gan Ysgol Talwrn radd cyflwr o B, mae gan Ysgol Bodffordd radd cyflwr o B, mae gan Ysgol Corn Hir radd cyflwr o C, ac mae gan Ysgol Gyfun Llangefni radd cyflwr o C. **Ni fyddai** cynnig Cymdeithas yr Iaith **yn arwain at welliannau yn safon yr adeiladau ysgol.**<br>**Gan nad yw'r opsiwn hwn yn cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn, gwrthodir yr opsiwn amgen rhesymol hwn ac ni chaiff ei ystyried ymhellach.** |
| **6.1.11 Adeiladu llawr arall ar Ysgol Talwrn**<br>Yn seiliedig ar gost adeiladu o tua £1.7m. Ni chynhwyswyd y gost bosibl o symud disgyblion i ysgol arall o fewn y gost uchod. | Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion ar gyfer yr awgrym hwn. | Gan dybio y gellid gwneud hyn, er diogelwch y plant, golyga'r opsiwn hyn y byddai rhaid symud i ysgol gynradd arall yn ystod cynnal gwaith adeiladu sylweddol yn yr ysgol.<br>Roedd adran 5.4 o'r Ddogfen Ymgynghori'n amlinellu y byddai nifer ragamcanol y disgyblion yn Ysgol y Graig yn 383 ym Medi 2023 ac y byddai uchafswm o 419 ym Medi 2027. Gan dybio y byddai'r cynnig hwn yn dyblu capasiti Ysgol Talwrn i 98, byddai 330 + 98 = 428 o leoedd ysgol gynradd rhwng Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn. Byddai hyn yn agos iawn i'r uchafswm rhagamcanol o 419 o ddisgyblion.<br>**Byddai'r opsiwn hwn yn cwrdd â mwyafrif yr heriau a wynebir gan Ysgol Talwrn ac** |

| Dewisiadau amgen rhesymol a gyflwynir gan y Cyngor | Sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb y Cyngor – eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i gefnogi hynny |
|---|---|---|
| | | **eithrio'r gost y pen a chyllid. Fodd bynnag, byddai'n tarfu cryn dipyn ar ddisgyblion Ysgol Talwrn. Felly gwrthodir yr opsiwn hwn ac ni chaiff ei ystyried ymhellach.** |
| **6.1.12 Gosod ystafelloedd dosbarth dros dro yn Ysgol Talwrn**<br><br>Yn seiliedig ar fenthyca £550k dros 10 mlynedd.<br><br>Y costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol ar gyfer Ysgol Talwrn yw £360,000. Byddai Ystafell ddosbarth newydd dros dro bosibl yn costio £250,000.<br>Fodd bynnag, derbyniwyd pris ar gyfer ystafell ddosbarth dros dro o faint tebyg gan y Cyngor yn Awst 2019 ac roedd y pris amcangyfrifiedig yn dod i gyfanswm o £308,000 (£185k ar gyfer yr ystafell ddosbarth symudol, £11k ar gyfer offer ychwanegol a £112k ar gyfer gwaith sylfaen a chysylltu'r ystafell ddosbarth symudol â'r gwasanaethau cyfleustodau) | Nododd un ymatebwr yr ymddengys fod y gost o osod ystafell dros dro newydd yn ormodol, ac y byddai gosod ystafell ddosbarth dros dro newydd yn datrys y diffyg cydymffurfiaeth â Deddf Cydraddoldeb 2010. | Mae'r amcangyfrif a ddarperir o fewn y ddogfen hon yn seiliedig ar bris a dderbyniwyd ar gyfer ystafell ddosbarth dros dro newydd. Ni fyddai cael adeilad newydd yn lle'r adeilad dros dro ond yn datrys y materion o ran diffyg cydymffurfiaeth â Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhannol.<br><br>▪ Mae'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael ag ychydig iawn o'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn, ynghyd â'r gyrwyr allweddol a nodwyd ar gyfer y rhaglen:<br>▪ Ni fyddai prif adeilad Ysgol Talwrn yn cael ei wella.<br>▪ Ni fydd unrhyw newid yn yr amrywiad ym maint dosbarthiadau na nifer yr ystodau oedran a addysgir mewn dosbarthiadau yn Ysgol Talwrn. .<br>▪ Ni fydd y cyfle i'r Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r baich arweinyddiaeth yn cael ei wireddu.<br>▪ Mae ymrwymiad addysgu Pennaeth Ysgol Talwrn yn 70%.<br>▪ Dim ond yn rhannol mae adeilad Ysgol Talwrn yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 mewn perthynas â mynediad i ddisgyblion anabl. |

| **Dewisiadau amgen rhesymol a gyflwynir gan y Cyngor** | **Sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad** | **Ymateb y Cyngor – eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i gefnogi hynny** |
|---|---|---|
| | | ▪ Nid yw adeilad Ysgol Talwrn yn cwrdd â safonau Ysgol yr 21ain Ganrif er mwyn creu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig i blant yn y tymor canolig / hir.<br>▪ Nid yw adeilad Ysgol Talwrn yn darparu amgylcheddau dysgu allanol i hyrwyddo dysgu annibynnol disgyblion ac felly'n sefydlu'r amodau i ddarparu Cwricwlwm i Gymru (CIG) yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r lleoedd gweigion yn Ysgol Talwrn.<br>▪ Colli'r cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o gyfyngiad cyllidol.<br>▪ Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol<br>▪ Ni fyddai'n hyfyw yn ariannol yn y dyfodol oherwydd y costau cynnal a chadw cyfredol uchel fyddai ar ystâd yr adeiladau ysgol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost fesul disgybl na chydraddoldeb darpariaeth gan fod ysgolion llai yn derbyn canran uwch o arian fesul disgybl.<br>Nid yw'n lleihau costau refeniw cyffredinol addysg yn yr ardal. Mae costau refeniw yn debygol o gynyddu yn y dyfodol gan y disgwylir i boblogaeth y disgyblion gynyddu. Byddai hyn yn arwain at ddisgyblion yn cael eu cludo i ysgolion y tu allan i'r dalgylch oherwydd diffyg capasiti. Rhagwelir y |

| Dewisiadau amgen rhesymol a gyflwynir gan y Cyngor | Sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb y Cyngor – eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i gefnogi hynny |
|---|---|---|
| | | byddai angen 2 gytundeb bws ychwanegol yn y dyfodol am gost o tua £60k y flwyddyn.<br>Nid yw ychwaith yn mynd i'r afael â rhai o'r teimladau a nodwyd gan blant yr ysgol o ran y dymuniad i Ysgol Talwrn gael man chwarae allanol ar laswellt yn lle iard.<br>**Gan nad yw'r opsiwn hwn yn cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn, gwrthodir yr opsiwn amgen rhesymol hwn ac ni chaiff ei ystyried ymhellach.** |
| **6.1.13 Ffedereiddio Ysgol Talwrn, Ysgol Y Graig, Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd gydag Ysgol Gyfun Llangefni (Ysgol Uwchradd).**<br>Yn seiliedig ar ddim gwariant cyfalaf. | Oni bai am sylwadau Cymdeithas yr Iaith, ni chafwyd unrhyw sylwadau uniongyrchol yn erbyn yr opsiwn hwn, fodd bynnag, awgrymodd 3 ymatebwr y byddai'n well ganddynt gadw pob un o ysgolion Llangefni ar agor, gan ddod â hwy i safon 21ain Ganrif ac ystyried trefniadau ffedereiddio yn ddiweddarach. | ▪ Nid oedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn awgrymu unrhyw fuddion ychwanegol o ran ffedereiddio yn fwy na'r hyn a gynhwyswyd eisoes yn y ddogfen ymgynghori.<br>▪ Ni fyddai dod â'r holl adeiladau i Safon 21ain Ganrif yn darparu'r capasiti ychwanegol a fynnir o fewn ardal Llangefni, oni chynhwyswyd estyniadau hefyd. Byddai hyn yn costio mwy na'r hyn a glustnodwyd o fewn amlen Band B ar gyfer ardal Llangefni.<br>**Gan nad yw'r opsiwn hwn ond yn cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn yn rhannol, fe'i gwrthodir ac ni chaiff ei ystyried ymhellach.** |
| **6.1.14 Ffedereiddio Ysgol y Graig (YYG) ac Ysgol Corn Hir (Symud Ysgol Corn Hir (YCH) i ysgol newydd a chynyddu capasiti Corn Hir) Ehangu'r ffederasiwn ymhellach ymlaen i gynnwys Ysgol Bodffordd, Ysgol Talwrn ac Ysgol Gyfun Llangefni dan un corff llywodraethu.** | Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion ar gyfer yr awgrym hwn. | Byddai'r opsiwn hwn yn golygu gadael Ysgol y Graig, Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn fel y maent. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r:<br>• angen am ragor o leoedd ysgol yn Llangefni – dengys rhagamcanion disgyblion sy'n cynnwys disgyblion o ddatblygiadau tai newydd ei bod yn debygol y bydd 764 o ddisgyblion yn y 4 ysgol gynradd (Bodffordd, y Corn |

| **Dewisiadau amgen rhesymol a gyflwynir gan y Cyngor** | **Sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad** | **Ymateb y Cyngor – eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i gefnogi hynny** |
|---|---|---|
| Yn seiliedig ar gost o tua £9.5m. | | Hir **newydd**, Talwrn a'r Graig) tra byddai'r capasiti yn y bedair ysgol gynradd, gan gynnwys Ysgol Corn Hir newydd, yn darparu 745 o leoedd, **sy'n golygu diffyg o 19 o leoedd.**<br>• byddai'r gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol y 4 ysgol gynradd ac Ysgol Gyfun Llangefni yn cael ei leihau i £4,151,500.<br>• safon yr adeiladau ysgol – mae gan Ysgol Y Graig radd cyflwr o A, mae gan Ysgol Talwrn radd cyflwr o B, mae gan Ysgol Bodffordd radd cyflwr o B, mae gan Ysgol Corn Hir radd cyflwr o C, ac mae gan Ysgol Gyfun Llangefni radd cyflwr o C. **Ni fyddai yn arwain at welliannau yn safon yr adeiladau ysgol heblaw am Ysgol Corn Hir.**<br>**Gan nad yw'r opsiwn hwn yn cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn, gwrthodir yr opsiwn amgen rhesymol hwn ac ni chaiff ei ystyried ymhellach.** |
| **6.1.15 Ysgol pob oed newydd yn Llangefni i gynnwys Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol Talwrn, Ysgol Y Graig, Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir.**<br>Ysgol Pob Oed yw ysgol sy'n cyfuno addysg gynradd ac uwchradd mewn un sefydliad. Yn seiliedig ar gost o tua £22.46m. | Ni chafwyd sylw uniongyrchol yn erbyn yr opsiwn hwn, fodd bynnag, awgrymodd 1 ymatebwr ysgol pob oed (aml-safle) i gymryd disgyblion o Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol Corn Hir ac Ysgol Y Graig. | **Ystyrir bod yr opsiwn a gynigir yn opsiwn amgen rhesymol ac fe'i hystyrir ymhellach yn adran 6.3.3 o'r ddogfen hon.** |

| Dewisiadau amgen rhesymol a gyflwynir gan y Cyngor | Sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb y Cyngor – eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i gefnogi hynny |
|---|---|---|
| **6.1.16 Ehangu'r holl ysgolion cynradd.**<br>Yn seiliedig ar amcan o fenthyca £7m dros 50 mlynedd. | Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion ar gyfer yr awgrym hwn. | ▪ Nid yw safle Ysgol Bodffordd yn ddigon mawr i gymryd estyniad ar gyfer 1 neu 2 ystafell ddosbarth, ynghyd â digon o le i barcio a man chwarae addysgiadol digonol sy'n ofynnol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru ac er mwyn dod â'r ysgol yn agos i safon Ysgol 21ain Ganrif.<br>▪ Byddai angen caffael tir ychwanegol o amgylch safle Ysgol Talwrn er mwyn i'r ysgol gynradd gael digon o le i barcio a man chwarae addysgiadol digonol sy'n ofynnol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru ac er mwyn dod â'r ysgol yn agos i safon Ysgol 21ain Ganrif.<br>▪ Nid oes digon o dir o amgylch Ysgol Corn Hir i'w ymestyn.<br>▪ Ni fyddai ymestyn Ysgol Y Graig i ddarparu 60 o leoedd ychwanegol yn creu digon o gapasiti yn ysgolion cynradd ardal Llangefni.<br>**Gan nad yw'r opsiwn hwn yn darparu capasiti digonol i'r dyfodol, fe'i gwrthodir ac ni chaiff ei ystyried ymhellach.** |
| **6.1.17 Clystyru, cydweithrediad rhwng ysgolion yn ardal Llangefni.**<br>Yn seiliedig ar ddim gwariant cyfalaf. | Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion ar gyfer yr awgrym hwn. | **Cafwyd awgrym bod cydweithrediad da yn digwydd rhwng ysgolion yn ardal Llangefni ar hyn o bryd. Fodd bynnag, fel mesur moderneiddio ysgolion, nid yw'r opsiwn hwn yn cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn, felly fe'i gwrthodir ac ni chaiff ei ystyried ymhellach.** |

O'r adran uchod, opsiwn amgen rhesymol:

6.1.15 Ysgol pob oed newydd yn Llangefni i gynnwys Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol Talwrn, Ysgol Y Graig, Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir.

sy'n cael ei ystyried ymhellach yn adran 6.3

## 6.2 OPSIYNAU AMGEN RHESYMOL ERAILL A GYNIGWYD GAN RANDDEILIAID YN YSTOD Y CYFNOD YMGYNGHORI

Mae adran 3.6 o God Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn nodi: "Yn ei adroddiad ymgynghori, bydd gofyn i'r cynigiwr esbonio ei asesiad o'r cynnig a'r opsiynau rhesymol eraill a nodwyd, sut mae'r asesiad hwn yn wahanol i'w asesiad cynharach (os o gwbl) a'i asesiad o unrhyw opsiynau rhesymol pellach. Yn olaf, bydd gofyn i'r cynigiwr gadarnhau a yw o'r farn mai gweithredu'r cynnig (yn llawn neu'n rhannol) yw'r ymateb mwyaf priodol i'r rhesymau a nodwyd dros y cynnig a rhoi rhesymau dros ei gasgliad." Mae'r adran hon o'r adroddiad yn egluro asesiad Cyngor Sir Ynys Môn o'r opsiynau amgen rhesymol a awgrymwyd yn ystod y broses ymgynghori.

Gofynnwyd i'r rhanddeiliaid awgrymu opsiynau amgen rhesymol eraill yn lle cau Ysgol Talwrn, sy'n mynd i'r afael â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn. Amlygir yr opsiynau amgen rhesymol a awgrymwyd gan randdeiliaid yn y tabl isod, ac fe'u hasesir yn erbyn yr heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn, a chynhwysir ymateb y Cyngor hefyd.

Isod ceir rhestr o'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn:

1. Niferoedd disgyblion.
2. Diffyg lle i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (CiG) yn y tymor canolig i dymor hir.
3. Y gost fesul disgybl – sydd 14% yn uwch na chyfartaledd ysgolion cynradd Ynys Môn.
4. Adeilad yr ysgol - mae gan yr adeilad gostau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol o £360,000 (2019) a gradd cyflwr B (Boddhaol – Perfformio fel y dylai ond yn arddangos ychydig o ddirywiad). Nid yw Ysgol Talwrn ond yn cydymffurfio'n rhannol â'r gofynion a ddisgwylir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
5. Safonau - gallai'r safonau presennol a welir yn Ysgol Talwrn fod yn anodd i'w cynnal yn y tymor canolig/hir.
6. Ymrwymiad Addysgu'r Pennaeth – mae'r ymrwymiad addysgu penodol yn 70% ar hyn o bryd.
7. Cyllid – mae'r gost fesul disgybl yn Ysgol Talwrn (£4,553) yn uwch na Chyfartaledd Ysgolion Cynradd Ynys Môn (£3,988), a cheir amrywiaeth eang yn y gost fesul disgybl rhwng Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig (£3,429). Mae'n debygol y bydd gofyn i'r awdurdod wneud arbedion sylweddol dros y 3 blynedd nesaf.

Yn adran 4 o'r Ddogfen Ymgynghori, nodwyd y gyrwyr newid allweddol yn y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion. Asesir pob cynnig a gyflwynir yn erbyn y gyrwyr hyn:

- Mae angen i **safonau** ar draws pob ysgol fod o leiaf yn dda neu'n rhagorol. Yn ogystal â hyn, byddai disgwyl i ysgolion yn yr ardal fod yn y categori gwyrdd, h.y. ysgolion sy'n perfformio'n dda ac angen y lefel isaf o gefnogaeth.
- Mae'n rhaid i **arweinyddiaeth a rheolaeth** fod yn dda neu'n well ym mhob ysgol. Yn y cyd-destun hwn, mae ar benaethiaid angen digon o amser digyswllt i gydbwyso heriau arweinyddiaeth a rheolaeth ag ymrwymiad addysgu.
- Mae angen i'r **adeilad ysgol** ddarparu amgylchedd dysgu ysbrydoledig a fydd yn annog bob disgybl i gyflawni eu potensial ar draws pob maes dysgu. Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid i bob ysgol gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran hygyrchedd i blant ag anableddau.
- Mae angen i **leoedd ysgol digonol** fod ar gael yn yr ardal i gwrdd â galw presennol, rhagolygon niferoedd y dyfodol yn ogystal â lleihau lleoedd gweigion. Yn ogystal â hyn, mae angen lleihau symudiad disgyblion oddi fewn ac o du allan i'r dalgylch os oes modd.

- Bydd angen i unrhyw ddarpariaeth ysgol ddiwygiedig yn yr ardal fod yn **gost effeithlon** h.y. mae angen lleihau'r costau refeniw ac unrhyw gostau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol. Yn ogystal â hyn, mae angen lleihau'r amrywiad yn y gost fesul disgybl ar draws ysgolion unigol.
- Bydd angen o leiaf cynnal **darpariaeth cyfrwng Cymraeg** a'i gwella.
- Mae angen cynnal **defnydd cymunedol** o adeiladau ysgol a chyfleusterau cysylltiedig, a'i gynyddu lle bo'n bosibl.

**Opsiynau amgen rhesymol a gynigiwyd gan randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori fel opsiynau amgen yn lle cau Ysgol Talwrn, ynghyd ag ymateb y Cyngor.**

| Rhif | Opsiynau amgen rhesymol a gynigiwyd gan randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori | A ydyw'n cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn? | Ymateb y Cyngor - Eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i'w cefnogi |
|---|---|---|---|
| 1. | **Buddsoddi yn Ysgol Talwrn i ddod â hi i safon 21ain Ganrif** | Byddai'n mynd i'r afael ag ansawdd yr adeilad yn Ysgol Talwrn, gan sicrhau digon o le ac adnoddau digonol i gyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru. Byddai'n sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Cydraddoldeb 2010.<br><br>Byddai'n cynnal lefelau presennol o ddefnydd cymunedol, darpariaeth cyfrwng Cymraeg.<br><br>Gall safonau fod yn anodd i'w cynnal yn y tymor canolig/hirdymor (ni fyddai'n sicrhau dosbarthiadau gydag ystod oedran o ddim mwy na 2 flynedd).<br><br>Ni fyddai'n mynd i'r afael ag ymrwymiad addysgu penodol y pennaeth.<br><br>Byddai'n arwain at gostau refeniw uwch i'r awdurdod, ac ni fyddai'n mynd i'r afael â'r gost fesul disgybl.<br><br>I ddod ag Ysgol Talwrn mor agos i safon 21ain Ganrif â phosibl, byddai angen gwneud y gwaith a ganlyn:<br>• Estyniad a phrynu tir<br>• Ffioedd contractwyr<br>• Cae pêl-droed a gwaith draenio<br>• Parcio ar gyfer rhieni<br>Byddai hyn oll yn costio tua **£1.4 miliwn.** | Nid yw'r opsiwn ond yn cwrdd â'r heriau a wynebir gan Ysgol Talwrn yn rhannol.<br><br>Nid yw'r opsiwn ei hun yn mynd i'r afael â'r diffyg capasiti yn Ysgol y Graig.<br><br>Byddai'r gost o gynyddu capasiti Ysgol Y Graig a darparu cyfleuster 21ain Ganrif ar gyfer Ysgol Talwrn tua £1.4m yn uwch na hynny a glustnodwyd o fewn amlen gyllid Band B. Felly gellid cwestiynu gwerth am arian gwario £1.4m ar gyfer llai na 1% o ddisgyblion ysgol gynradd ym Môn.<br><br>**Gan nad yw'r opsiwn hwn ond yn cwrdd â'r heriau a wynebir gan Ysgol Talwrn yn rhannol, gwrthodir yr opsiwn amgen rhesymol hwn a awgrymwyd gan randdeiliaid ac ni chaiff ei ystyried ymhellach.** |

| Rhif | Opsiynau amgen rhesymol a gynigiwyd gan randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori | A ydyw'n cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn? | Ymateb y Cyngor - Eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i'w cefnogi |
|---|---|---|---|
| 2. | **Agor ysgol ardal newydd i Ysgol Talwrn, Ysgol Llanbedrgoch ac Ysgol Pentraeth** | Gallai fynd i'r afael â'r heriau a wynebir gan Ysgol Talwrn. | Byddai'r angen am floc newydd i gynyddu capasiti Ysgol Y Graig yn parhau.<br><br>Gallai fod yn fforddiadwy trwy ailfodelu a chynyddu capasiti Ysgol Pentraeth er mwyn iddi gyflawni Safonau Ysgolion 21ain Ganrif.<br><br>Byddai hefyd yn mynd i'r afael â'r heriau allweddol a wynebir yn ardal Lligwy.<br><br>**Nid yw Ysgol Pentraeth yn rhan o'r ymgynghoriad presennol ond gellid ei hystyried o fewn y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion i'r dyfodol. Felly ni chaiff yr opsiwn hwn ei ystyried ymhellach.** |
| 3. | **Adolygu dalgylchoedd Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir i liniaru'r pwysau yn Ysgol Y Graig. Adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir, ac ymestyn yr adeilad presennol yn Ysgol Y Graig (nid bloc newydd)** | Byddai'n cwrdd â'r heriau a wynebir gan Ysgol Talwrn yn rhannol pe bai'r Cyngor yn buddsoddi yn adeilad Ysgol Talwrn trwy'r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif i ddod ag ysgolion yn agos i safonau Ysgolion 21ain Ganrif, fel y nodir yn y senario uchod. | Er tegwch, byddai angen i'r Awdurdod fuddsoddi i ddod ag Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn mor agos i Safonau Ysgolion 21ain Ganrif â phosibl. Mae gadael Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn fel y maent wedi'i ddiystyru eisoes.<br><br>**Ceir gwerthusiad pellach o'r opsiwn hwn fel opsiwn amgen rhesymol – gweler opsiwn 6.3.1 isod.** |
| 4. | **Gadael Ysgol Talwrn fel y mae** | Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Talwrn. | Cafodd yr opsiwn hwn ei werthuso eisoes yn adran 6.3.2 o'r ddogfen ymgynghori. |

| Rhif | Opsiynau amgen rhesymol a gynigiwyd gan randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori | A ydyw'n cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn? | Ymateb y Cyngor - Eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i'w cefnogi |
|---|---|---|---|
| | | | **Nid oedd yr opsiwn hwn yn cwrdd â'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Talwrn. Felly ni chaiff yr opsiwn hwn ei ystyried ymhellach.** |
| 5. | **Uno Ysgol Llanbedrgoch ac Ysgol Talwrn**<br><br>**Yn seiliedig ar y dybiaeth y byddai disgyblion o Lanbedrgoch yn trosglwyddo i Ysgol Talwrn. Byddai capasiti Ysgol Talwrn yn cynyddu, a byddai'r adeilad yn cael ei wella i safon 21ain Ganrif** | Gallai fynd i'r afael â'r angen i ddarparu cyfleuster dysgu addas i gyflwyno'r cwricwlwm newydd a darparu capasiti digonol.<br><br>Ni fyddai o reidrwydd yn sicrhau safonau da yn y tymor canolig/hir (ni fyddai'n sicrhau dosbarthiadau ag ystod oedran o ddim mwy na 2 flynedd).<br><br>Mae ymrwymiad addysgu penodol y pennaeth yn debygol o barhau i fod yn sylweddol mewn ysgol o'r maint hwn.<br><br>Posibilrwydd o golli ased cymunedol o un ardal o leiaf.<br><br>Byddai'r opsiwn hwn yn cynnwys dod ag Ysgol Talwrn mor agos i safon 21ain Ganrif â phosibl, a byddai angen y gwaith a ganlyn:<br>• Estyniad a phrynu tir<br>• Ffioedd contractwyr<br>• Cae pêl-droed a gwaith draenio<br>• Parcio ar gyfer rhieni<br>• Ymestyn mannau chwarae<br>• Ymestyn y neuadd<br>Byddai hyn oll yn costio tua £2.0m – gallai hyn arwain at gwestiynau o ran gwerth am arian.<br><br>**Nid yw Ysgol Llanbedrgoch yn rhan o'r ymgynghoriad presennol ond mae'n bosibl y caiff ei hystyried o fewn y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion i'r dyfodol.** | Byddai angen buddsoddiad sylweddol o tua £2m a fyddai ond yn mynd i'r afael ag anghenion yr ysgolion dan sylw yn rhannol. Canran fechan iawn o ddisgyblion yr ynys (tua 70 disgybl neu tua 1.4% o ddisgyblion ysgolion cynradd Môn) fyddai'n manteisio ar fuddsoddiad o'r fath.<br><br>Byddai'r angen am fuddsoddiad sylweddol i fynd i'r afael â diffyg capasiti o fewn Llangefni yn parhau.<br><br>**Nid yw Ysgol Llanbedrgoch yn rhan o'r ymgynghoriad presennol ond gellid ei hystyried o fewn y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion i'r dyfodol. Felly ni chaiff yr opsiwn hwn ei ystyried ymhellach.**<br>**Nid oedd yr opsiwn yn cwrdd â gyrwyr allweddol y rhaglen moderneiddio ysgolion ac felly ni chaiff ei ystyried ymhellach.** |

| Rhif | Opsiynau amgen rhesymol a gynigiwyd gan randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori | A ydyw'n cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn? | Ymateb y Cyngor - Eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i'w cefnogi |
|---|---|---|---|
| 6. | **Uno Ysgol Talwrn ac Ysgol Pentraeth** | Gallai'r opsiwn hwn fod yn fforddiadwy trwy ailfodelu a chynyddu capasiti Ysgol Pentraeth er mwyn iddi gyflawni Safonau Ysgolion 21ain Ganrif.<br><br>Gallai'r opsiwn hwn fynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Talwrn ond nid yw'n mynd i'r afael â chapasiti Ysgol y Graig. | **Nid yw Ysgol Pentraeth yn rhan o'r ymgynghoriad presennol ond gellid ei hystyried o fewn y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion i'r dyfodol. Felly ni chaiff yr opsiwn hwn ei ystyried ymhellach.** |
| 7. | **Adleoli Ysgol Talwrn (gan gynyddu capasiti) i adeilad newydd ar gyrion Llangefni er mwyn lliniaru'r pwysau o ran bod ysgolion Llangefni dros eu capasiti** | Gallai'r opsiwn hwn fynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Talwrn sef:<br>1. Niferoedd disgyblion.<br>2. Diffyg lle i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (CiG) yn y tymor canolig i dymor hir.<br>3. Y gost fesul disgybl – sydd 14% yn uwch na chyfartaledd ysgolion cynradd Ynys Môn.<br>4. Adeilad yr ysgol - mae ganddi gostau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol o £360,000 (2019) a gradd cyflwr B (Boddhaol – Perfformio fel y dylai ond yn arddangos ychydig o ddirywiad). Nid yw Ysgol Talwrn ond yn cydymffurfio'n rhannol â'r gofynion a ddisgwylir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.<br>5. Safonau - gallai'r safonau presennol a welir yn Ysgol Talwrn fod yn anodd i'w cynnal yn y tymor canolig/hirdymor.<br>6. Ymrwymiad Addysgu'r Pennaeth – mae'r ymrwymiad addysgu penodol yn 70% ar hyn o bryd.<br>7. Cyllid – mae ar y Cyngor angen gwneud arbedion. | **Mae'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig felly fe'i gwerthusir ymhellach yn adran 6.3.2 isod.** |
| 8. | **Mynd i'r afael â'r gost cynnal a chadw gyfredol a rhagamcanol yn Ysgol Talwrn** | Nid yw'r opsiwn hwn ond yn mynd i'r afael â rhai o'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Talwrn (fel y disgrifir o fewn rhan 6.3.9 o'r ddogfen ymgynghori). | **Cafodd yr opsiwn hwn ei werthuso eisoes yn adran 6.3.9 o'r ddogfen ymgynghori ac nid yw'n llwyddo i gwrdd â gyrwyr y strategaeth moderneiddio neu yn** |

| Rhif | Opsiynau amgen rhesymol a gynigiwyd gan randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori | A ydyw'n cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn? | Ymateb y Cyngor - Eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i'w cefnogi |
|---|---|---|---|
| | | | **wir yr heriau cyfredol a wynebir gan yr ysgol.** |
| 9. | **Ffedereiddio Ysgol Talwrn ac Ysgol Llanbedrgoch ac ymestyn Ysgol Y Graig.** | Nid yw'r opsiwn hwn ond yn mynd i'r afael â rhai o'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Talwrn:<br>• Ni fyddai o reidrwydd yn sicrhau safonau da yn y tymor canolig/hir (ni fyddai'n sicrhau dosbarthiadau ag ystod oedran o ddim mwy na 2 flynedd).<br>• Ni fyddai'n mynd i'r afael ag ansawdd ac addasrwydd yr adeiladau ysgol presennol.<br>• Mae ymrwymiad addysgu penodol y pennaeth yn debygol o barhau mewn ysgol o'r maint hwn (70 o ddisgyblion).<br>• Ni fyddai'n golygu colli ased cymunedol.<br>• Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r 56% o leoedd gweigion yn Ysgol Llanbedrgoch a'r 8% o leoedd gweigion yn Ysgol Talwrn. | Byddai'r angen am floc newydd i gynyddu capasiti Ysgol Y Graig yn parhau.<br><br>**Nid yw Ysgol Llanbedrgoch yn rhan o'r ymgynghoriad presennol ond gellid ei hystyried o fewn y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion i'r dyfodol. Felly ni chaiff yr opsiwn hwn ei ystyried ymhellach.** |
| 10. | **Dod ag Ysgol Talwrn i Safon 21ain Ganrif, a ffedereiddio gydag Ysgol Llanbedrgoch ac Ysgol Bodffordd** | Mae'n mynd i'r afael â'r mwyafrif o'r heriau sy'n wynebu Ysgol Talwrn.<br><br>Ni fyddai o reidrwydd yn sicrhau safonau da yn y tymor canolig/hir (ni fyddai'n sicrhau dosbarthiadau ag ystod oedran o ddim mwy na 2 flynedd).<br><br>Nid yw'n mynd i'r afael â'r diffyg capasiti yn Ysgol Bodffordd. | Byddai'r angen am floc ychwanegol i fynd i'r afael â'r diffyg capasiti o fewn ardal Llangefni yn parhau.<br>Pe datblygwyd Ysgol Talwrn i Safon 21ain Ganrif, er tegwch i bob ysgol, byddai rhaid dod ag Ysgol Bodffordd ac Ysgol Llanbedrgoch i safon debyg hefyd. Byddai'r gost o gyflawni'r pedwar prosiect dros £2.7m yn fwy na hynny a glustnodwyd ar gyfer yr ardal hon o fewn amlen gyllid Band B.<br><br>Byddai angen buddsoddiad sylweddol o tua £2.9m rhwng Ysgol Bodffordd, Ysgol Llanbedrgoch ac Ysgol Talwrn, lle na fyddai ond |

| Rhif | Opsiynau amgen rhesymol a gynigiwyd gan randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori | A ydyw'n cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn? | Ymateb y Cyngor - Eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i'w cefnogi |
|---|---|---|---|
| | | | nifer gymharol fach o ddisgyblion (tua 3% o ddisgyblion ysgol gynradd Môn) yn manteisio ar fuddsoddiad o'r fath.<br><br>**Nid yw Ysgol Llanbedrgoch yn rhan o'r ymgynghoriad presennol ond gellid ei hystyried o fewn y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion i'r dyfodol. Felly ni chaiff yr opsiwn hwn ei ystyried ymhellach.** |
| 11. | **Cadw pob ysgol yn Llangefni ar agor, a buddsoddi i ddod â hwy i Safon 21ain Ganrif. Ystyried opsiynau o ran ffedereiddio yn nes ymlaen** | Nid yw'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Talwrn:<br><br>Ni fyddai o reidrwydd yn sicrhau safonau da yn y tymor canolig/hir (ni fyddai'n sicrhau dosbarthiadau ag ystod oedran o ddim mwy na 2 flynedd).<br><br>Ni fyddai'n mynd i'r afael ag ymrwymiad addysgu penodol y penaethiaid.<br><br>Nid yw'n darparu'r capasiti a fynnir o fewn ardal Llangefni.<br><br>Byddai'r opsiwn hwn yn arwain at amrywiadau hyd yn oed uwch yn y gost fesul disgybl. | Pe bai'r cynnig yn cynnwys adeilad newydd i Ysgol Corn Hir, ynghyd â bloc newydd yn Ysgol Y Graig i ddarparu'r capasiti ychwanegol a fynnir, a gwaith yn cael ei wneud i ddod ag Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn i safon ysgolion 21ain Ganrif, byddai'r gost yn tua £2.6m yn uwch na hynny a glustnodwyd o fewn amlen Band B ar gyfer yr ardal hon.<br><br>**Nid yw'r opsiwn hwn yn cwrdd â'r heriau sy'n wynebu Ysgol Talwrn. Felly ni chaiff yr opsiwn hwn ei ystyried ymhellach.** |
| 12. | **Agor ysgol pob oed (aml-safle) yn** | Byddai'n mynd i'r afael â llawer o'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol | Mae hwn yn wahanol i 6.3.12 yn y Ddogfen |

| Rhif | Opsiynau amgen rhesymol a gynigiwyd gan randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori | A ydyw'n cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn? | Ymateb y Cyngor - Eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i'w cefnogi |
|---|---|---|---|
| | **Llangefni i gymryd disgyblion o Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir.**<br><br>**Defnyddio Ysgol Y Graig i gymryd disgyblion Cyfnod Sylfaen o Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir.**<br><br>**Adeilad newydd ar gyfer Corn Hir i gymryd disgyblion CA2 o Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir.**<br><br>**Ysgol Gyfun i gymryd blynyddoedd 7-13.**<br><br>**Ailfodelu Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn i ddod â hwy i Safon Ysgolion 21ain Ganrif.** | Talwrn ac ysgolion eraill o fewn ardal Llangefni. | Ymgynghori oedd yn ystyried darparu addysg gynradd ac uwchradd o fewn un sefydliad. Mae'r opsiwn hwn yn crybwyll ymagwedd aml-safle.<br>Er tegwch, byddai angen i'r Awdurdod fuddsoddi i ddod ag Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn yn agos i Safonau Ysgolion 21ain Ganrif. Mae gadael Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn fel y maent wedi'i ddiystyru eisoes.<br><br>**Gwerthusir yr opsiwn hwn ymhellach yn adran 6.3.3 isod.** |

Mae'r Cyngor yn ystyried bod angen cynnal gwerthusiad pellach o'r opsiynau amgen rhesymol a ganlyn, a amlinellir yn 6.2 uchod:

6.2.3 Adolygu dalgylchoedd Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir i liniaru'r pwysau yn Ysgol Y Graig. Adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir, ac ymestyn yr adeilad presennol yn Ysgol Y Graig (nid bloc newydd),
6.2.7 Adleoli Ysgol Talwrn (gan gynyddu capasiti) i adeilad newydd ar gyrion Llangefni er mwyn lliniaru'r pwysau o ran bod ysgolion Llangefni dros eu capasiti ac
6.1.15 a 6.2.12 Agor ysgol pob oed (aml-safle) yn Llangefni i gymryd disgyblion o Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir.

Ystyrir y rhain ymhellach yn adran 6.3 isod.

**6.3 Opsiynau Amgen Rhesymol eraill a awgrymwyd gan Randdeiliaid y mae angen eu gwerthuso ymhellach**

Yn yr adran hon, mae'r opsiynau amgen rhesymol pellach a awgrymwyd gan randdeiliaid, fel y nodir uchod, yn cael eu gwerthuso yn erbyn y gyrwyr allweddol a nodwyd ar gyfer y rhaglen moderneiddio ysgolion.

| **6.3.1 Adolygu dalgylchoedd Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir i liniaru'r pwysau yn Ysgol Y Graig. Adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir gyda chapasiti ar gyfer 420 o ddisgyblion, gadael Ysgol Y Graig fel y mae.**<br>Yn seiliedig ar gost o tua £11m dros 50 mlynedd<br>A<br>**Gwella'r adeilad a'r safle yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn i gyflawni safon Ysgolion 21ain Ganrif gan gadw eu capasiti presennol.**<br>Yn seiliedig ar gost o tua £2.6m dros 35 mlynedd<br>Cyfanswm cost o £13.6 m | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1. Safonau | ▪ Gellid cynnal y safonau cyfredol a welwyd (Mae pob ysgol wedi derbyn Categori gwyrdd / melyn gan GwE dros y 2 flynedd ddiwethaf) yn y tymor byr.<br>▪ Byddai gan bob ysgol amgylchedd dysgu addas i sicrhau bod pob disgybl yn cael y cyfle i lwyddo. | ▪ Ni fyddai'n sicrhau na fyddai gan ddosbarthiadau yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn ystod oedran o fwy na 2 flynedd. |
| 2.Arweinydd-iaeth a Rheolaeth | ▪ Gellid cynnal yr arfer da a welwyd ar hyn o bryd yn y tymor byr.<br>▪ Dywed Pennaeth Ysgol Bodffordd "'Does dim gwadu'r ffaith bod llawer o bwysau yn nhermau arweinyddiaeth a dysgu ar ysgolion bach pentref / gwledig, ond mae yna lawer o ffactorau cadarnhaol pwysig sy'n ei gwneud yn swydd ddiddorol, sy'n hogi'r meddwl – ceir amrywiaeth yng ngwaith y staff, mae'r gofynion a'r disgwyliadau'n heriol ac yn amrywiol, caiff pob aelod staff ei ddatblygu yn nhermau rolau arweinyddol a rheoli mewn ysgol fechan" | ▪ Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r ymrwymiad addysgu penodol yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn.<br>▪ Pe bai newid o ran yr uwch dîm rheoli yn y dyfodol, byddai hyn yn creu risg sylweddol o ran na fyddai modd penodi olynydd addas, oherwydd y diffyg cystadleuaeth am swyddi o fewn ysgolion llai. |
| 3. Adeilad Ysgol | ▪ Byddai pob ysgol yn cwrdd â safonau 21ain ganrif gan ddarparu amgylchedd dysgu ysbrydoledig i ddisgyblion.<br>▪ Byddai arwynebedd safle newydd Ysgol Corn Hir yn ddigon mawr i gymryd ysgol â chapasiti ar gyfer 450 o ddisgyblion. | ▪ Nid yw safle Ysgol Bodffordd yn ddigon mawr i gymryd estyniad ar gyfer 1 neu 2 ystafell ddosbarth, ynghyd â digon o le i barcio a man chwarae addysgiadol digonol sy'n ofynnol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru ac er mwyn dod â'r ysgol yn agos i safon Ysgol 21ain Ganrif.<br>▪ Byddai angen caffael tir ychwanegol o amgylch safle Ysgol Talwrn er mwyn i'r ysgol gynradd |

| **6.3.1 Adolygu dalgylchoedd Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir i liniaru'r pwysau yn Ysgol Y Graig. Adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir gyda chapasiti ar gyfer 420 o ddisgyblion, gadael Ysgol Y Graig fel y mae.**<br>Yn seiliedig ar gost o tua £11m dros 50 mlynedd<br>A<br>**Gwella'r adeilad a'r safle yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn i gyflawni safon Ysgolion 21ain Ganrif gan gadw eu capasiti presennol.**<br>Yn seiliedig ar gost o tua £2.6m dros 35 mlynedd<br>Cyfanswm cost o £13.6 m | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | | gael digon o le i barcio a man chwarae addysgiadol digonol sy'n ofynnol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru ac er mwyn dod â'r ysgol yn agos i safon Ysgol 21ain Ganrif. |
| 4. Lleoedd Ysgol | ▪ Byddai'n darparu lleoedd digonol (862 o leoedd i 763 disgybl) yn yr ysgolion i gwrdd â'r galw presennol a'r dyfodol. | |
| 5. Ariannol | ▪ Gallai'r opsiwn hwn arwain at osgoi cost cludiant o tua £120k yn y dyfodol. Mae'r costau cludiant yn debygol o gynyddu o dan y ddarpariaeth bresennol, oherwydd y rhagamcanion y byddai nifer y disgyblion gryn dipyn yn uwch na chapasiti'r ysgolion fyddai'n golygu gorfod eu cludo i ysgolion y tu allan i'r dalgylch, i'r ysgolion sydd â lleoedd gweigion. O dan y ddarpariaeth bresennol, os bydd y tueddiadau'n parhau, amcangyfrifir y bydd angen 5 cytundeb bws ychwanegol yn y dyfodol. O dan yr opsiwn amgen hwn, ni fyddai ond angen 1 bws ychwanegol.<br>▪ Byddai costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol yn gostwng o £728,000 i'r dyfodol. | ▪ Amcangyfrifir y byddai cynnydd o £31k yn y cyllid a ddyrannir i ysgolion trwy'r fformiwla cyllido ysgolion.<br>▪ Cost cyfalaf uchel i'r awdurdod, y byddai cyfran sylweddol ohoni'n cael ei hariannu trwy fenthyca digymorth. Amcangyfrifir y byddai'r gost ar gyfer benthyca yn tua £243k y flwyddyn am y 35 mlynedd cyntaf, a £188k y flwyddyn am 15 mlynedd arall. |
| 6. Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Byddai'n cynnal y ddarpariaeth dda sydd yn ei lle ar hyn o bryd. | |
| 7. Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'n gwella'r ddarpariaeth bresennol. | |
| 8. Materion Cyffredinol | | ▪ Gallai brofi'n anodd newid y dalgylchoedd er mwyn i'r nifer gofynnol o ddisgyblion drosglwyddo o Ysgol Y Graig i Ysgol Corn Hir. Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1988 yn caniatáu i rieni ddewis pa |

| **6.3.1 Adolygu dalgylchoedd Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir i liniaru'r pwysau yn Ysgol Y Graig. Adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir gyda chapasiti ar gyfer 420 o ddisgyblion, gadael Ysgol Y Graig fel y mae.**<br>Yn seiliedig ar gost o tua £11m dros 50 mlynedd<br>A<br>**Gwella'r adeilad a'r safle yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn i gyflawni safon Ysgolion 21ain Ganrif gan gadw eu capasiti presennol.**<br>Yn seiliedig ar gost o tua £2.6m dros 35 mlynedd<br>Cyfanswm cost o £13.6 m | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | | ysgol bydd eu plentyn yn ei mynychu.<br>Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r sefyllfa o ran parcio yn Ysgol Y Graig. |

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â:

- bod gan ddosbarthiadau yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn ystod oedran o ddim mwy na 2 flynedd.
- Ymrwymiad addysgu penodol sylweddol y pennaeth yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn. Fodd bynnag, fel y nodwyd ym mhwynt 2 uchod: "Dywed Pennaeth Ysgol Bodffordd ''Does dim gwadu'r ffaith bod llawer o bwysau yn nhermau arweinyddiaeth a dysgu ar ysgolion bach pentref / gwledig, ond mae yna lawer o ffactorau cadarnhaol pwysig sy'n ei gwneud yn swydd ddiddorol, sy'n hogi'r meddwl – ceir amrywiaeth yng ngwaith y staff, mae'r gofynion a'r disgwyliadau'n heriol ac yn amrywiol, caiff pob aelod staff ei ddatblygu yn nhermau rolau arweinyddol a rheoli mewn ysgol fechan".
- Gallai'r opsiwn hwn fod yn anodd i'w weithredu gan y gallai addasu'r dalgylchoedd er mwyn i'r nifer ofynnol o ddisgyblion drosglwyddo i un ysgol neu'i gilydd fod yn broblem. Byddai angen i'r Awdurdod ystyried pa ysgol yw'r agosaf yn ddaearyddol i gartref disgybl wrth adolygu'r dalgylchoedd. Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1988 yn caniatáu i rieni ddewis pa ysgol y bydd eu plentyn yn ei mynychu.

Am y rhesymau a restrir uchod, gwrthodir yr opsiwn amgen rhesymol hwn.

| **6.3.2 Adleoli Ysgol Talwrn (gyda chynnydd mewn capasiti i 150) i adeilad newydd ar gyrion Llangefni er mwyn lliniaru'r pwysau o ran bod ysgolion Llangefni dros eu capasiti**<br>**A**<br>**Gadael Ysgol Y Graig fel y mae. Adolygu dalgylchoedd Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig.**<br><br>Yn seiliedig ar gost o tua £4.163m dros 50 mlynedd. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1. Safonau | ▪ Y safonau cyfredol a welwyd (Mae'r ddwy ysgol wedi derbyn categori cymorth gwyrdd , a dyfarnwyd A am y gallu i wella yn ôl gweithdrefn gategoreiddio ysgolion GwE).<br>▪ Byddai gan Ysgol Y Graig ynghyd ag Ysgol Talwrn, fyddai wedi'i hadleoli, amgylcheddau dysgu addas i sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfle i lwyddo. | ▪ . |

| **6.3.2 Adleoli Ysgol Talwrn (gyda chynnydd mewn capasiti i 150) i adeilad newydd ar gyrion Llangefni er mwyn lliniaru'r pwysau o ran bod ysgolion Llangefni dros eu capasiti**<br>**A**<br>**Gadael Ysgol Y Graig fel y mae. Adolygu dalgylchoedd Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig.**<br><br>Yn seiliedig ar gost o tua £4.163m dros 50 mlynedd. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | ▪ Byddai'n sicrhau na fyddai gan y dosbarthiadau yn Ysgol Talwrn, fyddai wedi'i hadleoli, ystod oedran o fwy na 2 flynedd. | |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Mae'n debygol y byddai mwy o arbenigedd yn yr ysgol, ynghyd â'r capasiti i fynd i'r afael ag anghenion plant mwy bregus a phlant mwy abl a thalentog.<br>▪ Posibilrwydd o ddatblygu cysondeb o ran methodoleg addysgu a dysgu.<br>▪ Gan dybio y byddai'r llywodraethwyr a'r pennaeth yn trosglwyddo i'r ysgol fyddai wedi'i hadleoli, ni fyddai unrhyw lywodraethwyr a phennaeth profiadol yn cael eu colli. | ▪ Diffyg cyfle i rannu arfer da gyda staff o ysgolion eraill.<br>▪ Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r ymrwymiad addysgu penodol sylweddol yn Ysgol Talwrn. |
| 3. Adeilad Ysgol | ▪ Byddai'r ddwy ysgol yn cwrdd â safonau 21ain Ganrif ac yn amgylchedd dysgu ysbrydoledig i ddisgyblion.<br>▪ Byddai dyluniad yr ysgol newydd yn sicrhau amgylcheddau dysgu addas yn yr awyr agored ac wedi'u dylunio i gyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru (CiG). | |
| 4. Lleoedd Ysgol | ▪ Bydd yn darparu 480 o leoedd ysgol gynradd, sef yr un nifer o leoedd ysgol a ddarperid gan y cynnig pe'i gweithredid. Byddai'n darparu digon o leoedd yn yr ysgolion i gwrdd â'r galw cyfredol a rhagamcanion i'r dyfodol. | ▪ Byddai'n anodd iawn canfod safle 5 erw ar gyfer ysgol gynradd newydd nad oedd yn rhy agos i Ysgol Y Graig ond a fyddai o fewn ffiniau datblygu Llangefni. |
| 5. Cyllidol | ▪ Byddai'r costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol o £360,000 yn cael eu dileu.<br>▪ Mae'n debygol y bydd llai o amrywiad yn y gost fesul disgybl o (Ysgol Talwrn £4,553, i Ysgol Y Graig £3,429). | ▪ Cost cyfalaf uchel i'r awdurdod, y byddai cyfran sylweddol ohoni'n cael ei hariannu trwy fenthyca digymorth. Amcangyfrifir y byddai'r gost ar gyfer benthyca yn tua £64k y flwyddyn dros gyfnod o 50 mlynedd. |

| **6.3.2 Adleoli Ysgol Talwrn (gyda chynnydd mewn capasiti i 150) i adeilad newydd ar gyrion Llangefni er mwyn lliniaru'r pwysau o ran bod ysgolion Llangefni dros eu capasiti**<br>**A**<br>**Gadael Ysgol Y Graig fel y mae. Adolygu dalgylchoedd Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig.**<br><br>Yn seiliedig ar gost o tua £4.163m dros 50 mlynedd. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | ▪ Ni ragwelir unrhyw gostau cludiant ychwanegol. Mae'r costau cludiant yn debygol o gynyddu o dan y ddarpariaeth bresennol, oherwydd y rhagamcanion y byddai nifer y disgyblion gryn dipyn yn uwch na chapasiti'r ysgolion fyddai'n golygu gorfod eu cludo i ysgolion y tu allan i'r dalgylch, i'r ysgolion sydd â lleoedd gweigion. O dan y ddarpariaeth bresennol, os bydd y tueddiadau'n parhau, amcangyfrifir y bydd angen 2 gytundeb bws ychwanegol yn y dyfodol. O dan yr opsiwn amgen hwn, byddai angen 2 fws ychwanegol. yn y dyfodol. | ▪ Amcangyfrifir y bydd cynnydd o tua £5k yn y gyllideb a ddyrannir i ysgolion.<br>▪ Byddai'r costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol o £48,500 yn parhau ar gyfer Ysgol Y Graig. |
| 6. Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Byddai'n debygol o gynnal y ddarpariaeth dda sydd yn ei lle ar hyn o bryd. | |
| 7. Defnydd Cymunedol | ▪ Cyfleuster gwell fyddai o fudd i'r gymuned. | ▪ Posibilrwydd o golli adeilad cymunedol o bentref Talwrn. |
| 8. Materion Cyffredinol | | ▪ Gallai fod yn anodd addasu'r dalgylchoedd er mwyn i'r nifer ofynnol o ddisgyblion drosglwyddo o Ysgol Y Graig i'r Ysgol Talwrn Newydd. Byddai angen i'r Awdurdod ystyried pa ysgol yw'r agosaf yn ddaearyddol i gartref disgybl wrth adolygu'r dalgylchoedd. Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn caniatáu i rieni ddewis pa ysgol y bydd eu plentyn yn ei mynychu. |

- Ni fyddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r **gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol** o £48,500 o ran Ysgol Y Graig.
- Amcangyfrifir y byddai **cynnydd** o tua £5k yn y gyllideb a ddyrannir i ysgolion pe cymeradwyir yr opsiwn hwn.

Gallai fod yn anodd gweithredu'r opsiwn hwn – yn arbennig, addasu'r dalgylchoedd er mwyn i'r nifer ofynnol o ddisgyblion drosglwyddo i'r Ysgol Talwrn newydd. Byddai angen i'r

Awdurdod ystyried pa ysgol yw'r agosaf yn ddaearyddol i gartref disgybl wrth adolygu'r dalgylchoedd. Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1988 yn caniatáu i rieni ddewis pa ysgol y bydd eu plentyn yn ei mynychu. Gallai hefyd fod yn anodd iawn canfod safle 5 erw ar gyfer ysgol gynradd newydd nad oedd yn rhy agos i Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir ond a fyddai o fewn ffiniau datblygu Llangefni.

Am y rhesymau a restrir uchod, gwrthodir yr opsiwn amgen rhesymol hwn.

**6.3.3 Agor ysgol pob oed (aml-safle) yn Llangefni i gymryd disgyblion o Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir.**

**Defnyddio Ysgol Y Graig i gymryd disgyblion Cyfnod Sylfaen o Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir.**

**Adeilad newydd i gymryd disgyblion CA2 o Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir (Capasiti – 450).**

**Ysgol Gyfun i gymryd blynyddoedd 7-13.**

**Yn cynnwys gwaith gwella yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn i ddod â hwy i Safon Ysgolion 21ain Ganrif.**

Yn seiliedig ar gost o tua:

- tua £11.2m (dros 50 mlynedd) i adeiladu safle newydd i gymryd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yr ysgol pob oed
- tua £650k dros 50 mlynedd i ddatrys problemau parcio yn Ysgol Y Graig.
- tua £2.6m dros 35 mlynedd i ailfodelu adeiladau Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn.

| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
|---|---|---|
| 1.Safonau | ▪ Mae ganddo'r potensial i ddylanwadu ar safonau'r ystafell ddosbarth gan y gallai staff yn yr ysgol pob oed weithio gyda'i gilydd a rhannu arfer da a datblygu arbenigedd mewn meysydd penodol o'r cwricwlwm, ynghyd â mynd i'r afael ag anghenion disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a rhai mwy abl a thalentog (MAT).<br>▪ Mae ysgolion mwy (fel yr ysgol pob oed) yn dueddol o fod â mwy o arbenigedd a chapasiti i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion mwy bregus a'r disgyblion mwy abl a thalentog.<br>▪ Posibilrwydd o ddatblygu cysondeb o ran methodoleg addysgu a dysgu mewn ysgol pob oed.<br>▪ Gall ysgolion pob oed wella'r trosglwyddiad o addysg gynradd i uwchradd. | ▪ Gall fod yn anoddach datblygu cysondeb o ran methodoleg dysgu ac addysgu mewn ysgol pob oed aml-safle – na phe byddai ar un safle.<br>▪ Gall fod yn anodd gwella'r trosglwyddiad o addysg gynradd i uwchradd na phe byddai ar un safle.<br>▪ Gall fod yn anoddach cynnig cwricwlwm ehangach na phe byddai ar un safle.<br>▪ Gall fod yn anoddach i staff sydd â phrofiad o ddysgu plant o oedran cynradd ac uwchradd weithio gyda'i gilydd i rannu arferion da a datblygu syniadau ar gyfer ffurfio a darparu cwricwlwm effeithiol yn yr ysgol pob oed na phe byddai ar un safle.<br>▪ Gall fod llai o gyfleoedd i ddisgyblion gael eu dysgu yn ôl pynciau penodol o gyfnod cynnar |

**6.3.3 Agor ysgol pob oed (aml-safle) yn Llangefni i gymryd disgyblion o Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir.**

**Defnyddio Ysgol Y Graig i gymryd disgyblion Cyfnod Sylfaen o Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir.**

**Adeilad newydd i gymryd disgyblion CA2 o Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir (Capasiti – 450).**

**Ysgol Gyfun i gymryd blynyddoedd 7-13.**

**Yn cynnwys gwaith gwella yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn i ddod â hwy i Safon Ysgolion 21ain Ganrif.**

Yn seiliedig ar gost o tua:

- tua £11.2m (dros 50 mlynedd) i adeiladu safle newydd i gymryd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yr ysgol pob oed
- tua £650k dros 50 mlynedd i ddatrys problemau parcio yn Ysgol Y Graig.
- tua £2.6m dros 35 mlynedd i ailfodelu adeiladau Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn.

| | | |
|---|---|---|
| | ▪ Gall ysgolion pob oed gynnig cwricwlwm ehangach a mwy effeithlon.<br>▪ Gall staff sydd â phrofiad o addysgu plant o oedran cynradd ac uwchradd weithio gyda'i gilydd i rannu arferion da a datblygu syniadau ar gyfer ffurfio a darparu cwricwlwm effeithiol yn yr ysgol pob oed.<br>▪ Cyfleoedd i ddisgyblion gael eu haddysgu yn ôl pynciau penodol o gyfnod cynnar yn eu dysgu yn yr ysgol pob oed, gan roi cyfle i'r disgyblion mwy abl a thalentog ddatblygu'n gynt. Gallai adeiladu ar y safonau da a welir yn yr ysgolion ar hyn o bryd.<br>▪ O ran y perfformiad da a welir ar hyn o bryd yn yr ysgolion, byddai'n haws cynnal hyn yn y tymor canolig/hir o ganlyniad i wella adeiladau a chyfleusterau'r ysgolion. | yn eu dysgu yn yr ysgol pob oed, na phe byddai ar yn safle.<br>▪ Ni allai Ysgol Talwrn ac Ysgol Bodffordd sicrhau nad yw'r ystod oedran mewn dosbarthiadau yn fwy na 2 flynedd. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Bydd yn bosibl datblygu ymhellach yr uwch dîm rheoli yn yr ysgol pob oedran a fyddai'n gwella arweinyddiaeth a rheolaeth.<br>▪ Fodd bynnag, dywed Pennaeth Ysgol Bodffordd: ''Does dim gwadu'r ffaith bod llawer o bwysau yn nhermau arweinyddiaeth a dysgu ar ysgolion bach pentref / gwledig, ond mae yna lawer o ffactorau cadarnhaol pwysig sy'n ei | ▪ Posibilrwydd o golli llywodraethwyr a phenaethiaid profiadol.<br>▪ Gall fod yn anodd arwain a rheoli 3 safle ar wahân.<br>▪ Ni fyddai ymrwymiadau addysgu penodol y pennaeth yn cael eu lleihau yn Ysgol Bodffordd neu Ysgol Talwrn. |

| |
|---|
| **6.3.3 Agor ysgol pob oed (aml-safle) yn Llangefni i gymryd disgyblion o Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir.**<br><br>**Defnyddio Ysgol Y Graig i gymryd disgyblion Cyfnod Sylfaen o Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir.**<br><br>**Adeilad newydd i gymryd disgyblion CA2 o Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir (Capasiti – 450).**<br><br>**Ysgol Gyfun i gymryd blynyddoedd 7-13.**<br><br>**Yn cynnwys gwaith gwella yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn i ddod â hwy i Safon Ysgolion 21ain Ganrif.**<br><br>Yn seiliedig ar gost o tua:<br>▪ tua £11.2m (dros 50 mlynedd) i adeiladu safle newydd i gymryd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yr ysgol pob oed<br>▪ tua £650k dros 50 mlynedd i ddatrys problemau parcio yn Ysgol Y Graig.<br>▪ tua £2.6m dros 35 mlynedd i ailfodelu adeiladau Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn. |

| | | |
|---|---|---|
| | gwneud yn swydd ddiddorol, sy'n hogi'r meddwl – ceir amrywiaeth yng ngwaith y staff, mae'r gofynion a'r disgwyliadau'n heriol ac yn amrywiol, caiff pob aelod staff ei ddatblygu yn nhermau rolau arweinyddol a rheoli mewn ysgol fechan' ". | |
| 3.Adeilad Ysgol | ▪ Byddai gostyngiad o £777k yn y gost cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol.<br>▪ Byddai Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn yn agos at gwrdd â safonau 21ain ganrif a byddai'n amgylchedd dysgu ysbrydoledig i'r disgyblion.<br>▪ Byddai'r ysgolion yn cynnwys amgylcheddau dysgu addas yn yr awyr agored ac wedi'u cynllunio i gyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru (CiG), cymaint ag y bo'n bosibl ar gyfer y tymor canolig/hir. | ▪ Ni fyddai'n mynd i'r afael â chyflwr adeilad cyfredol Ysgol Gyfun Llangefni, gan na chafodd digon o gyllid ei glustnodi o fewn amlen Band B ar gyfer cyflawni'r gwaith hwn. |
| 4.Lleoedd Ysgol | ▪ Yn cyflawni'r gofynion cyfredol ac i'r dyfodol o ran capasiti<br>▪ Yn lleihau symudiadau rhwng dalgylchoedd. | ▪ Byddai gan yr ysgol pob oed tua 1,500 o ddisgyblion, y gellir ei hystyried yn rhy fawr gan yr awdurdod. |
| 5.Cyllidol | ▪ Byddai gostyngiad o £777k yn y gost cynnal a chadw gyfredol a rhagamcanol. | ▪ Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r annhegwch o ran cyllid. Ni fyddai'n lleihau'r amrywiaeth yn y gost y pen.<br>▪ Byddai angen ariannu cyfran o'r gost gyfalaf gan y Cyngor trwy fenthyca digymorth, yr amcangyfrifir y byddai'n costio £288k y flwyddyn am 35 mlynedd, |

<table>
<tr><td colspan="3">

**6.3.3 Agor ysgol pob oed (aml-safle) yn Llangefni i gymryd disgyblion o Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir.**

**Defnyddio Ysgol Y Graig i gymryd disgyblion Cyfnod Sylfaen o Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir.**

**Adeilad newydd i gymryd disgyblion CA2 o Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir (Capasiti – 450).**

**Ysgol Gyfun i gymryd blynyddoedd 7-13.**

**Yn cynnwys gwaith gwella yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn i ddod â hwy i Safon Ysgolion 21ain Ganrif.**

Yn seiliedig ar gost o tua:

- tua £11.2m (dros 50 mlynedd) i adeiladu safle newydd i gymryd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yr ysgol pob oed
- tua £650k dros 50 mlynedd i ddatrys problemau parcio yn Ysgol Y Graig.
- tua £2.6m dros 35 mlynedd i ailfodelu adeiladau Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn.

</td></tr>
<tr><td></td><td></td><td>ynghyd â £228k y flwyddyn am 15 mlynedd arall.<br>▪ Yn arwain at gynnydd o £43k mewn costau refeniw trwy fformiwla ddirprwyedig yr ysgolion.</td></tr>
<tr><td>6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg</td><td>▪ Byddai'n cynnal y ddarpariaeth dda a geir ar hyn o bryd.</td><td></td></tr>
<tr><td>7.Defnydd Cymunedol</td><td>▪ Byddai'r asedau cymunedol yn cael eu cadw, a'u cyflwr yn cael ei wella.</td><td></td></tr>
<tr><td>8.Materion Cyffredinol</td><td></td><td>▪ Problemau logistaidd i rieni sy'n gorfod codi plant o fwy nag un safle.</td></tr>
</table>

Gallai'r opsiwn hwn ei wneud yn anoddach:

- datblygu cysondeb o ran methodoleg dysgu ac addysgu mewn ysgol pob oed aml-safle – na phe byddai ar un safle.
- gwella'r trosglwyddiad o addysg gynradd i uwchradd na phe byddai ar un safle.
- cynnig cwricwlwm ehangach na phe byddai ar un safle.
- i staff sydd â phrofiad o ddysgu plant o oedran cynradd ac uwchradd weithio gyda'i gilydd i rannu arferion da a datblygu syniadau ar gyfer ffurfio a darparu cwricwlwm effeithiol yn yr ysgol pob oed na phe byddai ar un safle.

Hefyd, gallai'r opsiwn hwn olygu:

- bod llai o gyfleoedd i ddisgyblion gael eu dysgu yn ôl pynciau penodol o gyfnod cynnar yn eu dysgu yn yr ysgol pob oed, na phe byddai ar yn safle.
- na allai Ysgol Talwrn ac Ysgol Bodffordd sicrhau nad yw'r ystod oedran mewn dosbarthiadau yn fwy na 2 flynedd.
- y posibilrwydd o golli llywodraethwyr a phenaethiaid profiadol.
- gall fod yn anodd arwain a rheoli 3 safle ar wahân.

- na fyddai ymrwymiadau addysgu penodol y pennaeth yn cael eu lleihau yn Ysgol Bodffordd neu Ysgol Talwrn.
- na fyddai'n mynd i'r afael â chyflwr adeilad cyfredol Ysgol Gyfun Llangefni, gan na chafodd digon o gyllid ei glustnodi o fewn amlen Band B ar gyfer cyflawni'r gwaith hwn.
- byddai gan yr ysgol pob oed tua 1,500 o ddisgyblion, y gellir ei hystyried yn rhy fawr gan yr awdurdod
- ni fyddai'n mynd i'r afael â'r annhegwch o ran cyllid. Ni fyddai'n lleihau'r amrywiaeth yn y gost y pen.
- byddai angen ariannu cyfran o'r gost gyfalaf gan y Cyngor trwy fenthyca digymorth, yr amcangyfrifir y byddai'n costio £288k y flwyddyn am 35 mlynedd, ynghyd â £228k y flwyddyn am 15 mlynedd arall.
- arwain at gynnydd o £43k mewn costau refeniw trwy fformiwla ddirprwyedig yr ysgolion.
- problemau logistaidd i rieni sy'n gorfod codi plant o fwy nag un safle.

Am y rhesymau a restrir uchod, gwrthodir yr opsiwn amgen rhesymol hwn.

## 7. CASGLIAD

Ar ôl ystyried yr holl opsiynau a gyflwynwyd ynghyd â'r opsiynau amgen rhesymol (yn adran 6.3 uchod) a'r cryfderau a'r gwendidau a briodolir i bob un, y cynnig a argymhellir i'r Pwyllgor Gwaith yw:

**"Cynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn"**

Er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau niweidiol o ganlyniad i'r cynnig, mae'r Awdurdod yn ymrwymo i:

- ddarparu cludiant i ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Talwrn ar hyn o bryd i'r Ysgol Y Graig ehangedig, yn unol â pholisi cludiant y Cyngor ar gyfer ysgolion.

Mae'r cynnig yn cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig, sef:

1. Niferoedd disgyblion - mae'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn Ysgol Y Graig. Hefyd bydd disgyblion o Dalwrn yn cael eu dysgu mewn dosbarthiadau lle mae'r ystod oedran yn llai. Bydd llai o ddisgyblion yn symud rhwng dalgylchoedd.
2. Byddai digon o le i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (CiG) yn y tymor canolig i'r tymor hir. Bydd yr Ysgol Y Graig ehangedig wedi'i hadeiladu'n bwrpasol i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (CiG). Bydd ganddi adnoddau a chyfleusterau gwell i gyflwyno'r cwricwlwm cyfan mewn modd priodol, gwahaniaethol, eang ac amrywiol, a fydd yn fanteisiol i bob disgybl.
3. Y gost fesul disgybl – byddai gostyngiad yn y gost gyfartalog fesul disgybl yn yr ysgol ehangedig. Byddai'r gost ragamcanol fesul disgybl yn yr ysgol ehangedig newydd yn tua £3,436. Byddai hyn yn arwain at arbedion refeniw i'r Cyngor.
4. Adeilad Ysgol – dylunnir adeilad 21ain ganrif newydd a chanddo gostau cynnal a chadw isel ynghyd â graddiad BREEAM Rhagorol. Byddai costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol y ddwy ysgol o £408,500 yn cael eu dileu. Bydd yr ysgol ehangedig yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010.

5. Safonau – bydd yr ysgol ehangedig newydd mewn sefyllfa i gynnal graddiad Estyn ac i gadw'r categoreiddiad gwyrdd yn y tymor canolig i dymor hir.
6. Ymrwymiad Addysgu'r Pennaeth - yn yr Ysgol y Graig ehangedig newydd, rhagwelir y bydd y pennaeth yn parhau i fod heb unrhyw ymrwymiad addysgu penodol. Mae'n bosibl adeiladu a datblygu uwch dîm rheoli ymhellach, a allai wella arweinyddiaeth a rheolaeth.
7. Cyllid – mae ysgolion mwy mewn sefyllfa well i gyflawni dosbarthiadau effeithlon o ran maint sy'n nes at y gymhareb ddisgybl-athro orau bosibl. Mae hyn yn ei wneud yn haws i ysgolion mawr gyfrannu tuag at arbedion a fynnir gan yr Awdurdod Lleol yn y dyfodol.

Byddai'r cynnig hefyd yn cwrdd â gofynion y gyrwyr newid allweddol a nodir yn Strategaeth Moderneiddio Ysgolion 2018. Mae'r rhain yn cynnwys gwella safonau addysgol; gwella arweinyddiaeth a rheolaeth; sicrhau bod adeiladau ysgol yn addas i'r diben; lleihau nifer y lleoedd gweigion; lleihau cost addysg yn gyffredinol a'r amrywiaeth yn y gost fesul disgybl; cynnal a gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chynyddu defnydd cymunedol adeiladau ysgol. Mae'r cynnig yn cwrdd â gofynion y gyrwyr allweddol fel a ganlyn:

- Mae angen i **safonau** ar draws pob ysgol fod o leiaf yn dda neu'n rhagorol. Yn ogystal â hyn, byddai disgwyl i ysgolion yn yr ardal fod yn y categori gwyrdd, h.y. ysgolion sy'n perfformio'n dda ac angen y lefel isaf o gefnogaeth. – bydd yr ysgol ehangedig newydd mewn sefyllfa i gynnal graddiad Estyn ac i gadw'r categoreiddiad gwyrdd yn y tymor canolig i dymor hir.
- Mae'n rhaid i **arweinyddiaeth a rheolaeth** fod yn dda neu'n well ym mhob ysgol. Yn y cyd-destun hwn, mae ar benaethiaid angen digon o amser digyswllt i gydbwyso heriau arweinyddiaeth a rheolaeth ag ymrwymiad addysgu - yn yr Ysgol y Graig ehangedig newydd, rhagwelir y bydd y pennaeth yn parhau i fod heb unrhyw ymrwymiad addysgu penodol. Mae'n bosibl adeiladu a datblygu uwch dîm rheoli ymhellach, a allai wella arweinyddiaeth a rheolaeth.
- Mae angen i'r **adeilad ysgol** ddarparu amgylchedd dysgu ysbrydoledig a fydd yn annog bob disgybl i gyflawni eu potensial ar draws pob maes dysgu. Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid i bob ysgol gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran hygyrchedd i blant ag anableddau – dylunnir adeilad 21ain ganrif newydd a chanddo gostau cynnal a chadw isel ynghyd â graddiad BREEAM rhagorol. Byddai costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol y ddwy ysgol o £408,500 yn cael eu dileu. Bydd yr ysgol ehangedig yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010.
- Mae angen i **leoedd ysgol** digonol fod ar gael yn yr ardal i gwrdd â galw presennol, rhagolygon niferoedd y dyfodol yn ogystal â lleihau lleoedd gweigion. Yn ogystal â hyn, mae angen lleihau symudiad disgyblion o'r tu mewn a thu allan i'r dalgylch os oes modd - mae'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn Ysgol Y Graig. Hefyd bydd disgyblion o Dalwrn yn cael eu dysgu mewn dosbarthiadau lle mae'r ystod oedran yn llai. Bydd llai o ddisgyblion yn symud rhwng dalgylchoedd.
- Bydd angen i unrhyw ddarpariaeth ysgol ddiwygiedig yn yr ardal fod yn **gost effeithlon** h.y. mae angen lleihau'r costau refeniw ac unrhyw gostau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol. Yn ogystal â hyn, mae angen lleihau'r amrywiad yn y gost fesul disgybl ar draws ysgolion unigol - byddai gostyngiad yn y gost gyfartalog fesul disgybl yn yr ysgol ehangedig. Byddai'r gost ragamcanol fesul disgybl yn yr ysgol ehangedig newydd yn tua £3,436. Byddai hyn yn arwain at arbedion refeniw i'r Cyngor.
- **Darpariaeth cyfrwng Cymraeg** - fan leiaf, byddai'r ddarpariaeth dda bresennol yn cael ei chynnal.
- Mae angen cynnal **defnydd cymunedol** o adeiladau ysgol a chyfleusterau cysylltiedig, a'i gynyddu lle bo'n bosibl – byddai'r gymuned yn parhau i gael budd trwy gael defnyddio'r adeilad ysgol newydd ehangedig.

CYNGOR SIR YNYS MÔN

ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

GWASANAETH DYSGU / LEARNING SERVICE

**Cynnig i:**

# "Gynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn"

## ASESIAD EFFAITH

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cychwyn yr asesiad** | 12 Gorffennaf 2019 |
| **Y swyddog sy'n gyfrifol am yr asesiad** | Rhys H. Hughes, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc. |
| **Dyddiad** | Rhagfyr 2020<br>Diweddarwyd y ddogfen hon yn dilyn adborth o'r ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd ar y<br>6 Chwefror 2020-20 Mawrth 2020.<br>Mae'r ddogfen hon wedi'i diwygio i adlewyrchu'r adborth a gafwyd. Mae hon yn ddogfen weithio ac fe'i hadolygir yn rheolaidd. |

| | |
|---|---|
| **Protocol ar gyfer Siarad cyhoeddus mewn cyfarfodydd Rhithiol o'r Pwyllgorau Sgriwtini** | **Gall y cyhoedd gofrestru eu diddordeb ymlaen llaw gan ddefnyddio'r ffurflen berthnasol, i siarad mewn Cyfarodydd Pwyllgorau Sgriwtini.**<br>**Gweler y Protocol ar gyfer siarad cyhoeddus yng nghyfarfodydd rhithiol y Pwyllgorau Sgriwtini :**<br>**Protocol ar gyfer Siarad Cyhoeddus mewn Cyfarfodydd Rhithiol o'r Pwyllgorau Sgriwtini** |

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| **Hanes adolygu**: | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **Crynodeb o'r newidiadau** |
| 12 Gorffennaf 2019 | Drafft cyntaf |
| 19 Awst 2019 | Ail ddrafft |
| 29 Awst 2019 | Trydydd ddrafft |
| 13 Tachwedd 2019 | Diweddaru data |
| 18 Rhagfyr 2019 | Wedi'i adolygu a'i ddiweddaru |
| 3 Chwefror 2020 | Wedi'i adolygu a'i ddiweddaru |
| 16 Hydref 2020 | Wedi'i adolygu a'i ddiweddaru |

*Mae ychwanegiadau i'r Asesiad Effaith sydd wedi eu cynnwys ar ôl y cyfnod ymgynghori mewn llythrennau italaidd*

**CYNNWYS**

1. CYFLWYNIAD ........ 4
2. ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB ........ 5
3. ASESIAD EFFAITH IAITH GYMRAEG ........ 15
4. ASESIAD EFFAITH CYMUNEDOL ........ 26
5. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015 ........ 37
6. CASGLIAD ........ 40
7 – Hawliau Dynol ........ 41
8 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ........ 41

## 1. CYFLWYNIAD

Wrth gynnig unrhyw newidiadau i drefniadaeth eu hysgolion, mae gofyn i Awdurdodau Lleol, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) Llywodraeth Cymru, ymgymryd ag asesiadau o'r effaith a gânt ar gydraddoldeb, yr iaith Gymraeg ac ar y gymuned.

Y cynnig dan sylw yw i:

**"Gynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn".**

Cynhaliwyd cyfnod ymgynghori statudol ar y cynnig uchod o 6 Chwefror 2020 hyd at 20 Mawrth 2020. Gwahoddwyd y Penaethiaid a'r Cynghorau Cymuned i gwblhau holiadur er mwyn asesu defnydd cymunedol yn yr ysgolion ac i gael manylion am unrhyw gyfleusterau sydd ar gael yn y gymuned leol neu yn y gymuned ehangach.

Allan o'r holl ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad rhwng 6 Chwefror a 20 Mawrth 2020, rhoddodd 70% o'r ymatebwyr sylwadau ar gynnwys yr Asesiad Effaith. Allan o'r 70% hynny, noder fod 23% ohonynt wedi cynnig sylwadau yn benodol ar yr effaith gallai'r cynnig ei gael ar yr iaith Gymraeg. Amlygwyd y themau canlynol yn y sylwadau hynny:

- Mae Talwrn yn ardal ble mae'r Gymraeg yn iaith naturiol. Er fod Y Graig yn gwneud gwaith da i hyrwyddo ac annog defnyddio'r Gymraeg, rwy'n pryderu bydd disgyblion yn troi at y Saesneg ar fuarth yr ysgol, yn ystod gweithgareddau all-gwriciwlaidd ac ymysg plant tu allan i oriau ysgol.
- Mae [Ysgol Talwrn] yn bwysig i Eisteddfod Talwrn a'r diwylliant Cymraeg.
- Os gwireddir y cynnig, bydd llai o siaradwyr Cymraeg, gan fydd ysgolion yn mynd yn fwy gyda mwy o siaradwyr Saesneg.
- Staff Cymraeg yn colli swyddi

Mae'r Cyngor Sir yn derbyn y sylwadau yma ac yn falch iawn o fedru deall safbwyntiau lleol am yr effaith posib ar yr iaith Gymraeg. Yn sgil y sylwadau a dderbyniwyd, mae'r Cyngor wedi diweddaru'r Asesiad Effaith i gynnwys y pwyntiau uchod ac yn amlygu'r mesurau lliniaru sydd ar waith i oresgyn y pryderon a nodir.

Seiliwyd y dystiolaeth a gasglwyd er pwrpas yr asesiadau ar Gyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), Cyfrifiad 2011, data gan y Pennaeth, Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (rhwng Gwynedd a Môn), Cynghorau Cymuned ac uwch swyddogion yn y Gwasanaeth Dysgu

## 2. ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

Ymgymerwyd â'r asesiad effaith cydraddoldeb hwn i gwrdd â gofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) Llywodraeth Cymru.

### 2.1 Deddf Cydraddoldeb 2010

Rho Ddeddf Cydraddoldeb 2010 Ddyletswydd Gyffredinol ar gyrff cyhoeddus wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau i ystyried:

- Dileu anffafriaeth, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf.
- Gwella cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a'r rhai nad ydynt.
- Meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a'r rhai nad ydynt.

Mae'r Ddeddf yn ymwneud â sicrhau tegwch ac mae'n amddiffyn y naw nodwedd ganlynol (a adnabyddir hefyd fel 'grwpiau gwarchodedig):

- Oed
- Anabledd
- Rhyw
- Newid rhywedd
- Priodas neu bartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred, gan gynnwys diffyg cred
- Cyfeiriadedd rhywiol

### 2.2 Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r Rheoliadau uchod i gynorthwyo cyrff cyhoeddus yng Nghymru i gwrdd â'r ddyletswydd gyffredinol. Mae dyletswyddau cyffredinol yn cynnwys gofyniad i asesu effaith polisïau ac arferion ar grwpiau gaiff eu gwarchod gan y Ddeddf. Golyga hyn bod rhaid i'r awdurdod ystyried tystiolaeth berthnasol er mwyn deall effaith debygol ei bolisïau a'i ymarferion ar grwpiau gwarchodedig a rhoi 'ystyriaeth ddyledus' (*h.y. rhoi pwysau priodol*) i ganlyniadau'r fath asesiadau.

Bydd cydraddoldeb yn cael ei ystyried wrth ffurfio'r achosion busnes moderneiddio ysgolion yn ystod proses datblygu'r prosiect ac os caiff ei wireddu, bydd y gwir effaith yn cael ei fonitro. Bydd yr asesiad effaith cydraddoldeb yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth deg i bawb.

***Pwynt a godwyd gan randdeiliad***
*Codwyd y pwynt canlynol gan randdeiliad yn ystod y cyfnod ymgynghori: "Dylid comisiynu'r Asesiad Effaith i arbenigwyr er mwyn sicrhau eu bod yn asesu effaith y cynnig yn gynhwysfawr"*
***Ymateb y Cyngor***
*Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cadw at y canllawiau yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Mae Atodiad C o'r Cod yn nodi:*
***"Asesiadau effaith cymunedol ac effaith cyfrwng Cymraeg***
*Mae Llywodraeth Cymru o'r farn na ddylai'r gofyniad am asesiadau fod yn rhy feichus ac nad yw o'r farn bod angen comisiynu gwaith o'r fath gan ymgynghorwyr allanol. Mae dyletswydd eisoes ar awdurdodau lleol i gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb a allai fod yn sail i'r asesiadau effaith a nodir yn y canllawiau hyn."*
*Yn unol â'r canllawiau hyn ac o ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol, cwblhawyd yr Asesiad Effaith gan swyddogion y Cyngor.*

## 2.3 Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

| **2.3.1 Cefndir** | |
|---|---|
| **Beth sy'n cael ei asesu?** | Y cynnig a asesir yw i **"Gynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn."** |
| **Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sy'n bodoli eisoes?** | Mae'r Awdurdod wedi cynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig o 6 Chwefror 2020 hyd at 20 Mawrth 2020. |
| **Beth yw nodau a phwrpas y cynnig yma?** | I newid a gwella darpariaeth addysg gynradd yn y rhan hon o Ynys Môn. Nodir y gyrwyr allweddol perthnasol ar gyfer ardal Llangefni isod:<br>▪ Sicrhau fod safonau addysg yn cael eu cynnal a'u gwella ar draws bob ysgol i sicrhau bod bob plentyn yn cyrraedd eu potensial.<br>▪ Sicrhau fod gan ysgolion leoedd digonol ar gyfer y nifer presennol o ddisgyblion ac ar gyfer rhagolygon niferoedd y dyfodol.<br>▪ Sicrhau fod yr amrywiadau yn y gwariant fesul disgybl yn cael eu gwneud yn unol ac yn fwy cyson ar draws yr ysgolion.<br>▪ Sicrhau bod ansawdd ystâd yr ysgolion ar sylfaen gadarn ar gyfer y nifer presennol o ddisgyblion ac ar gyfer y cynnydd yn nifer y disgyblion a ragwelir ar gyfer y dyfodol.<br>▪ Sicrhau bod strwythur arweinyddiaeth a rheolaeth ein hysgolion yn darparu sail gadarn ar gyfer arweinyddiaeth a chynllunio olyniaeth strategol ein hysgolion i'r dyfodol. |
| **Pwy sydd yn gyfrifol am y cynnig sy'n cael ei asesu?** | Rhys H. Hughes, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| **Pwy yw'r swyddog arweiniol ar gyfer cynnal yr asesiad yma?** | Emrys Bebb, Rheolwr Rhaglen |
| **Oes yna gyswllt rhwng y cynnig yma a meysydd gwaith eraill?** | Oes – mae'r cynnig yn rhan o strategaeth moderneiddio ysgolion Cyngor Sir Ynys Môn. Fodd bynnag, asesir bob cynnig ar ei rinweddau ei hun. |

| 2.3.1 Cefndir | |
|---|---|
| **Pwy fyddai'n cael ei effeithio gan y cynnig/ion (yn negyddol neu'n gadarnhaol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol)?** | Ar gyfer y ddwy ysgol sy'n rhan o'r cynnig, h.y. Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig, byddai'r canlynol yn cael eu heffeithio:<br>Staff, disgyblion, llywodraethwyr, rhieni disgyblion yr ysgol, aelodau o'r gymuned sy'n defnyddio'r ddwy ysgol. |

| 2.3.2 Casglu gwybodaeth | |
|---|---|
| **A yw'r cynnig yma'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor Sir?** | Ydyw – fe'i hasesir ar wahân yn yr adran Asesiad Effaith Iaith Gymraeg o'r ddogfen hon (Adran 3). |
| **Oes cyfle yma i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a / neu ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd?** | Os gwireddir y cynnig, bydd darn o'r ysgol gynradd ehangedig ar gael i'w ddefnyddio gan y gymuned ar gyfer gwersi Cymraeg. Bydd yr Asesiad Effaith Iaith Gymraeg yn penderfynu a fydd mwy o gyfleoedd i ddefnyddio Cymraeg o ddydd i ddydd. |
| **A fydd y maes gwaith hwn yn gwneud cynnig rhagweithiol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i ddefnyddwyr?** | Bydd – asesir hwn ar wahân yn adran Asesiad Effaith Iaith y ddogfen hon (Adran 3). |
| **A fydd y cynnig hwn yn debygol o warchod a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gymuned?** | Bydd gwireddu'r cynnig yn gwarchod ac yn hybu'r iaith Gymraeg yn yr ysgol arfaethedig ehangedig ac yn yr ardal dan sylw h.y. Llangefni a Thalwrn. *Gellid cynnal digwyddiadau a gynhelir yn Gymraeg fel Eisteddfod y pentref mewn lleoliadau fel neuadd y pentref ac ni fyddai'r posibilrwydd o weithredu'r cynnig yn effeithio ar wasanaethau crefyddol lleol. Bydd addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn helpu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned.*<br><br>*Bydd y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn cydweithio â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned, ac yn cyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.*<br><br>*Mae'r Gwasanaeth Addysg yn adrodd bob chwarter i Fforwm Iaith y Cyngor Sir ar y defnydd o'r Gymraeg yn ysgolion yr Awdurdod. Mae Fforwm Iaith y Cyngor Sir yn monitro Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) yr Awdurdod bob chwarter.*<br><br>*Bydd yr ysgol ehangedig arfaethedig yn parhau i hyrwyddo ac annog y defnydd o'r Gymraeg a bydd yn hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r iaith gan y disgyblion yn ystod oriau ysgol ac mewn gweithgareddau ar ôl ysgol ar y safle* |

| | | |
|---|---|---|
| **Oes yna unrhyw faterion Hawliau Dynol? Os oes, beth yw'r materion yma? (**Mae'r 16 hawl sylfaenol wedi'u rhestru yn rhan 7). | Nid oes materion Hawliau Dynol wedi eu hadnabod. | |
| **Ydi'r cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?**<br><br>(Mae disgrifiadau o'r nodau llesiant wedi'u rhestru yn rhan 8) | Cymru lewyrchus | Ydyw |
| | Cymru gydnerth | Ydyw |
| | Cymru iachach | Ydyw |
| | Cymru sy'n fwy cyfartal | Ydyw |
| | Cymru o gymunedau cydlynus | Ydyw |
| | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Ydyw |
| | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Ydyw |
| | Asesir hwn hefyd ar wahân yn adran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) y ddogfen hon (Adran 5). | |
| **Beth sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn o ran cyfranogiad ac ymgynghoriad mewn perthynas â'r cynnig yma?** | Mae'r Awdurdod wedi cynnal ymgynghoriadau statudol ac anstatudol gyda rhanddeiliaid Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig ar dri achlysur gwahanol sef Hydref – Tachwedd 2016; Ionawr – Mawrth 2017 a Mai – Mehefin 2018.<br>Cynhwyswyd adborth o'r ymgynghoriadau hyn mewn adroddiadau i'r Pwyllgor Gwaith ar 19 Rhagfyr 2016, 17 Gorffennaf 2017 a 16 Gorffennaf 2018.<br>Paratôdd yr Awdurdod asesiadau effaith cydraddoldeb, cymunedol ac iaith ar gyfer yr ymgynghoriadau statudol. | |
| **Ydych chi wedi defnyddio unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i'r cynnig fel rhan o'ch asesiad? Os hynny, rhowch y manylion yma ogydda.** | Do – mae'r wybodaeth ganlynol ynglŷn â'r ysgolion wedi'i chynnwys:<br>Cydbwysedd rhywedd, data Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), ethnigrwydd, iaith a phrydau ysgol am ddim.<br>Gyrrwyd holiaduron i Benaethiaid Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig a chynhwyswyd yr hyn a gyflenwyd ganddynt yn yr asesiad hwn. | |
| **Oes yna unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd hyd yma?<br>Os oes, sut fydd y rhain yn cael sylw?** | Nid oes unrhyw fylchau wedi eu hadnabod hyd yma. | |

| **A yw'r cynnig yn berthnasol i sut y cydymffurfia'r Awdurdod â dyletswydd gyffredinol y sector cyhoeddus ynglŷn â phwy sydd wedi eu hamddiffyn dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?** | **Ydyw** | **Nac ydyw** |
|---|---|---|
| **Dileu anffafriaeth ac aflonyddu** | √ | |
| **Gwella cyfleoedd cyfartal** | √ | |
| **Meithrin perthnasoedd da** | √ | |
| **Amddiffyn a hyrwyddo hawliau dynol** | √ | |

**2.3.3 Asesu’r effaith debygol ac adnabod camau lliniaru**

Wrth ymgymryd â’r Asesiad Effaith Cydraddoldeb hwn, mae’r Awdurdod wedi ystyried effeithiau negyddol, niwtral a chadarnhaol y cynnig ac wedi adnabod beth y gellir ei wneud i leihau neu i wella’r effaith.

<table>
<tr><th>Y grŵp a warchodir</th><th>*Yr effaith debygol</th><th>Manylion am yr effaith</th><th>Camau i liniaru effaith negyddol</th></tr>
<tr><td>Oed</td><td>Cadarnhaol</td><td>Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd statudol i ddarparu addysg lawn amser i blant a phobl ifanc 5-16 oed. Bydd yr ysgol ehangedig yn derbyn disgyblion yn 3 oed yn rhan amser.</td><td>Bydd disgyblion sy’n trosglwyddo i’r ysgol gynradd ehangedig yn cymryd rhan mewn gweithgareddau uno a fydd yn cael eu trefnu ar y cyd. Bydd yn darparu cyfleoedd i’r plant ddod yn gyfarwydd â’i gilydd cyn y newid.</td></tr>
<tr><td>Anabledd</td><td>Cadarnhaol</td><td>Os gwireddir y cynnig:<ul><li>Bydd yr ysgol arfaethedig ehangedig yn cydymffurfio’n llawn â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac yn gwbl hygyrch i bob disgybl.</li><li>Bydd disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn parhau i dderbyn cefnogaeth ychwanegol i gwrdd â’u hanghenion addysgol unigol. Fodd bynnag, mewn ysgol fwy, bydd mwy o staff yn arbenigo mewn Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae’n bosib y bydd cynnydd yn nifer y staff yn arwain at ystod fwy o arbenigeddau i allu ymdrin â sbectrwm fwy eang o ADY.</li></ul></td><td>Bydd yr Awdurdod yn darparu cymorth a chefnogaeth priodol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol disgyblion. Asesir anghenion unigol wrth drosglwyddo i unrhyw ysgol.<br>Bydd yr Awdurdod hefyd yn darparu cymorth a chefnogaeth priodol ar gyfer anghenion aelodau o staff.</td></tr>
<tr><td>Rhyw</td><td>Dim effaith</td><td>Mae’r tabl isod yn dangos y rhaniad rhyw cyfredol a’r rhaniad os gwireddir y cynnig.<table><tr><th>Rhyw</th><th>Y Graig</th><th>Talwrn</th><th>Ysgol gynradd ehangedig</th></tr><tr><td>Bechgyn</td><td>53%</td><td>38%</td><td>51%</td></tr><tr><td>Merched</td><td>47%</td><td>62%</td><td>49%</td></tr></table>Data CYBLD Ionawr 2020</td><td>Caiff perfformiad bob disgybl ei asesu a’i fonitro gan gynnwys grwpiau penodol megis bechgyn a merched, prydau ysgol am ddim, disgyblion ADY, lleiafrifoedd ethnig, Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY), plant mewn gofal a’r mwy galluog a thalentog. Caiff perfformiad addysgol bechgyn a merched ei fonitro’n gyson i sicrhau nad oes gwahaniaethau mawr rhwng bechgyn a merched a’r grwpiau amrywiol cysylltiedig.</td></tr>
</table>

| Y grŵp a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| **Newid Rhywedd** | Dim effaith | Nid yw Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) Ionawr 2020 yn cadw data ar yr agwedd hon. Nid oes tystiolaeth weladwy bod gwahaniaethu ar sail newid rhyw yn digwydd. | Os oes problemau yn codi, ymdrinnir â hwynt yn sensitif. |
| **Priodas neu Bartneriaeth Sifil** | Dim effaith | Nid yw'n berthnasol i ddisgyblion yr ysgol. | Nid oes unrhyw dystiolaeth o unrhyw wahaniaethu ar sail priodas / partneriaeth sifil ymysg staff yr ysgol. Os oes problemau'n codi, ymdrinnir â nhw yn sensitif. |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | Dim effaith | Nid yw'n berthnasol i ddisgyblion yr ysgol. | Mae gan staff benywaidd sy'n dod yn feichiog hawl i gyfnod mamolaeth yn unol â Chynllun Cyfnod Mamolaeth Cyngor Sir Ynys Môn. Mae gan staff gwrywaidd hawl i gyfnod tadolaeth yn unol â'r Polisi Cyfnod Tadolaeth. Nid oes tystiolaeth bod unrhyw wahaniaethu ar sail beichiogrwydd neu gymryd cyfnod tadolaeth yn digwydd ymysg staff yr ysgolion. |
| **Hil** | Dim effaith | Data CYBLD Ionawr 2020<br>**Ysgol Y Graig**: Gwyn Prydeinig 82%<br>**Ysgol Talwrn**: Gwyn Prydeinig 77% | Pe byddai disgyblion o gefndiroedd ethnig eraill yn mynychu'r ysgolion, ni fyddant yn cael eu trin yn wahanol ar sail eu tarddiad ethnig. Pe byddai aelodau o staff o gefndiroedd ethnig gwahanol yn yr ysgol arfaethedig ehangedig, ni fyddant yn cael eu trin yn wahanol ar sail eu tarddiad ethnig. |
| **Crefydd neu Gred** | Dim effaith | Nid yw CYBLD Ionawr 2020 yn cadw data ar yr agwedd hon. | Gall y cynnig ddarparu'r cyfle i wella dealltwriaeth disgyblion o grefydd neu gred o ganlyniad i gynnydd yn niferoedd disgyblion wrth i ddisgyblion gymysgu â disgyblion eraill o gefndiroedd mwy amrywiol.<br>Dewis rhieni yw rhannu gwybodaeth ynglŷn â chrefydd neu gred eu plentyn â'r ysgol. Os oes problemau'n codi, ymdrinnir â nhw yn sensitif. |

| Y grŵp a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | Dim effaith | Nid yw CYBLD Ionawr 2020 yn cadw data ar yr agwedd hon. | Nid oes tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail cyfeiriadedd rhywiol. Dewis rhieniol yw rhannu gwybodaeth ynglŷn â chyfeiriadedd rhywiol eu plentyn â'r ysgol. Os oes problemau'n codi, ymdrinnir â nhw yn sensitif. |
| **Hawliau Dynol** | Dim effaith | Nid yw CYBLD Ionawr 2020 yn cadw data ar yr agwedd hon. | Nid oes tystiolaeth o unrhyw wahaniaethu ar sail hawliau dynol yn digwydd ymysg staff na disgyblion yr ysgol. Os oes problemau'n codi, ymdrinnir â nhw yn sensitif. |
| **Cymdeithasol-economaidd arall**<br><br>**Ysgolion Bach a Gwledig**<br><br>Ystyrir ffactorau cymdeithasol-economaidd a gwledig yn yr 'Asesiad Effaith Cymunedol' isod. | Negyddol | Ysgol fach yw Ysgol Talwrn. Mae'r adroddiad thematig "Ysgolion Bach yng Nghymru (2006)" gan Estyn yn nodi nad oes gwir wahaniaeth rhwng safonau addysg mewn ysgolion bach a mawr, ond "gall fod yn anoddach i athrawon mewn ysgolion llai i gydweddu'r gwaith gydag anghenion y disgyblion gan y gall disgyblion mewn dosbarth amrywio'n fawr o ran oedran a chamau datblygiad". Mae hyn yn berthnasol i ysgolion bychain. Mae gwytnwch o ran staffio wedi gwella yn yr ysgolion mwy ym Môn.<br><br>Os gwireddir y cynnig, ac os caeir Ysgol Talwrn, efallai y collir ei chyfraniad tuag at y gymuned, yr iaith Gymraeg a'r ffordd o fyw. | Mae'r Awdurdod yn cydnabod fod gan ysgolion gwledig ran allweddol i'w chwarae mewn cyfrannu at y gymuned, defnydd o'r iaith Gymraeg a ffordd o fyw.<br><br>Mewn ysgol gynradd fwy fel yr un a gynigir, mae mwy o staff yn debygol o arbenigo mewn meysydd ar draws y cwricwlwm.<br><br>Wrth ystyried ei opsiynau moderneiddio ysgolion, bydd yr Awdurdod yn ystyried y cydbwysedd rhwng anghenion addysgol ac anghenion hirdymor ein cymunedau drwy gydweithrediad. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i weithio â chymunedau i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a all godi pe byddai'r ysgol yn cau. |
| | *Pwynt godwyd gan randdeiliad "Efallai bydd yn effeithio ar gymuned glos Talwrn"* | *Fel nodwyd uchod:*<br><br>*Os gwireddir y cynnig, a bod Ysgol Talwrn yn cael ei chau, gellid colli ei chyfraniad tuag at y gymuned, yr iaith Gymraeg a'r ffordd o fyw.* | *Wrth ystyried ei opsiynau ar gyfer moderneiddio ysgolion, bydd yr Awdurdod yn ystyried y cydbwysedd rhwng anghenion addysgol ac anghenion tymor hir ein cymunedau, drwy gydweithio. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i weithio gyda chymunedau er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw faterion a allai godi pe byddai ysgol yn cau"* |

<table>
<tr><th>Y grŵp a warchodir</th><th>*Yr effaith debygol</th><th>Manylion am yr effaith</th><th>Camau i liniaru effaith negyddol</th></tr>
<tr>
<td>Cymdeithasol-economaidd arall<br>Y nifer o ddisgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim</td>
<td>Cadarnhaol</td>
<td>Byddai’n darparu cyfleoedd cynyddol i ddisgyblion y ddwy ysgol i fanteisio ar yr adnoddau a’r ddarpariaeth yn yr ysgol gynradd arfaethedig ehangedig.
<table>
<tr><th colspan="2">Ffigyrau Prydau Ysgol am Ddim CYBLD 2020</th></tr>
<tr><th>Y Graig</th><th>Talwrn</th></tr>
<tr><td>96 disgybl neu 30%</td><td>6 disgybl neu 15%</td></tr>
</table>
Ar hyn o bryd, mae 19.4% o ddisgyblion yn ysgolion cynradd Môn â hawl i brydau ysgol am ddim.</td>
<td>Yn yr ysgol arfaethedig ehangedig, byddai’r Awdurdod yn darparu system ddi-arian parod ar gyfer prydau ysgol am ddim, a fyddai’n atal unrhyw stigma sy’n gysylltiedig â disgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim.<br>Yn ôl niferoedd presennol, tua 26% fyddai’r nifer o blant â hawl i brydau ysgol am ddim pe byddai’r cynnig yn cael ei wireddu.<br>Mae perfformiad y disgyblion sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim (PYD) yn y ddwy ysgol yn rhagorol, a disgwylir i hyn barhau yn yr ysgol ehangedig.</td>
</tr>
<tr>
<td>Cymdeithasol-economaidd arall<br>Rhan plant llai breintiedig mewn gweithgareddau ar ôl ysgol</td>
<td>Cadarnhaol</td>
<td>Mae potensial i ddarparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion y ddwy ysgol fanteisio ar weithgareddau ar ôl ysgol yn yr Ysgol Y Graig estynedig arfaethedig.</td>
<td>Bydd disgwyl i Ysgol y Graig ehangedig wneud darpariaeth addas a fydd o leiaf yn cyfateb i'r ddarpariaeth bresennol mewn perthynas â chlybiau. Yng nghyd-destun <u>gweithgareddau allgwriciwlaidd</u>, anogir pob disgybl, beth bynnag fo’i gefndir, i gymryd rhan gyda'r disgwyliad ar yr ysgol i wneud trefniadau addas i ddisgyblion llai breintiedig allu cymryd rhan. Bydd y trefniadau hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig, i glybiau sy'n cael eu cynnal yn ystod yr egwyl ginio, trefniadau gyda rhieni ar gyfer codi a chludo a darparu cludiant ar ôl ysgol.</td>
</tr>
</table>

| Effaith gyfunol ar gydraddoldeb | ***+3 Cadarnhaol*** |
|---|---|

**Casgliad – Byddai’r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb.**

Asesir yr effaith bosib a gaiff y cynnig ar yr iaith Gymraeg ar wahân yn yr Asesiad Effaith Iaith Gymraeg (Adran 3).

| 2.3.4 Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| **Nodwch sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol yr amlygir yn 2.3.3** | Y cynnig yw **"Ehangu Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, a chau Ysgol Talwrn".** Gellid lliniaru'r effaith negyddol posib o gau Ysgol Talwrn drwy ymgymryd â gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yn Ysgol Talwrn ar hyn o bryd mewn adeilad arall yn y gymuned, megis Neuadd y Dref neu Gapel Talwrn. |
| **A oes strategaeth ar gyfer ymdrin ag unrhyw effeithiau negyddol na ellir eu hosgoi ond nad ydynt yn anghyfreithlon na ellir eu lliniaru?** | Nid oes effeithiau negyddol o'r asesiad hwn na ellir eu lliniaru. |
| **Disgrifiwch unrhyw weithredu a wnaed i wneud y mwyaf o'r cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb a/neu nodau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (cynaliadwyedd).**<br>(Rhestrir y saith nod llesiant yn rhan 8)<br><br>Asesir sut y bydd y cynnig yn cyfrannu at y 7 Nod Llesiant ymhellach ymlaen yn y ddogfen (Adran 5). | **Cymru lewyrchus** – Pe gwireddid y cynnig, byddai'n arwain at leihad mewn defnydd o ynni a lleihad mewn allyriadau carbon deuocsid o'r adeilad, fyddai'n fwy effeithlon o ran defnydd ynni. Bydd yr addysg a dderbynnir gan y disgyblion yn cynorthwyo i ddatblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig ar gyfer y dyfodol.<br>**Cymru sy'n fwy cyfartal** – Bydd y prosiect yn sicrhau bod yr ysgol arfaethedig ehangedig yn addas i bwrpas a bydd yn sicrhau bod gallu a photensial bob disgybl i lwyddo'n cael ei wireddu.<br>**Cymru o gymunedau cydlynus** – Mae gan y cynnig y potensial i ffurfio cymuned newydd wedi'i lleoli o amgylch Talwrn a dalgylch Ysgol y Graig.<br>**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** – Bydd yr ysgol ehangedig yn cael ei hadeiladu i safonau BREAAM ac yn cynnwys nifer o fentrau arbed ynni. Defnyddir hwn a rhannau penodol o'r cwricwlwm i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o fyw a thyfu mewn Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.<br>**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** – Gweler yr Asesiad Effaith Iaith Gymraeg yn Adran 3. Bydd yr ysgol gynradd arfaethedig ehangedig yn ysgol gyfrwng Cymraeg a bydd y cynnig o leiaf yn cynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal.<br>Bydd y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn cydweithredu â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn i hybu defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned ac i gyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.<br>Mae'r Adran Addysg yn adrodd yn chwarterol i Fforwm Iaith y Cyngor Sir ar ddefnydd o'r Gymraeg yn ysgolion yr Awdurdod a caiff Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (wesp) ei fonitro'n chwarterol gan Fforwm Iaith y Cyngor Sir.<br>Bydd gan yr ysgol ehangedig Ardal Gemau Amlbwrpas (MUGA) a fydd yn annog cymryd rhan mewn chwaraeon a hamdden. |

| | |
|---|---|
| **A oes angen ail-ystyried y cynnig o ganlyniad i gynnal yr asesiad yma?** | Na. Cafodd nifer o opsiynau amgen eu hasesu yn yr adroddiad ond y cynnig gwreiddiol yw'r un sy'n cael ei ffafrio. |
| **A fydd y cynnig yn cael ei fabwysiadu / anfon ymlaen am gymeradwyaeth? Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad?** | Cafodd papur cynnig ei drafod gan y Pwyllgor Gwaith ar 20 Ionawr 2020 i roi awdurdod i swyddogion i symud ymlaen ag ymgynghoriad statudol. *Cynhaliwyd yr ymgynghoriad statudol o 6 Chwefror 2020 at 20 Mawrth 2020. Bydd adroddiad ar yr ymgynghori'n cael ei drafod gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Tachwedd 2020 a bydd y Pwyllgor Gwaith yn trafod a ddylid mynd ymlaen â'r cynnig neu beidio.* |
| **Oes yna drefniadau monitro mewn lle? Beth yw'r trefniadau hynny?** | Oes – bydd y paramedrau canlynol yn parhau i gael eu monitro:<br>Oedran disgyblion; cydbwysedd rhyw'r disgyblion; data hil/ethnigrwydd/ cenedligrwydd; yr iaith a siaredir gan ddisgyblion; canran o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim.<br><br>Rhoddir ystyriaeth hefyd i fonitro'r data canlynol:<br>Canran o ddisgyblion sydd ar Ddatganiad Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).<br>Canran o ddisgyblion sydd wedi nodi anawsterau corfforol.<br>Canran o staff sydd wedi datgan anabledd.<br><br>*Bydd y cynnig yn parhau i gael ei asesu o ran ei effaith wrth iddo gael ei ddatblygu. Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, defnyddir prosesau monitro i sicrhau bod yr effaith wirioneddol yn cyd-fynd â'r effaith a ragwelwyd a bod camau gweithredu perthnasol wedi'u rhoi ar waith. Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, bydd grŵp monitro yn cael ei sefydlu i fonitro ac asesu effaith y cynnig gan ddefnyddio'r paramedrau a restrir uchod, bob 6 mis o bosibl. Yna caiff y pwyntiau hyn eu 'bwydo i mewn' i ddata monitro'r Gwasanaeth Dysgu.* |

## 3. ASESIAD EFFAITH IAITH GYMRAEG

*Nid yw'r gwaith o hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg wedi'i gynnwys yn Neddf Cydraddoldeb 2010 gan fod yr agwedd hon yn dod o dan y gofynion a nodir ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. O dan y Mesur, rhaid i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Egwyddorion sylfaenol y Safonau yw na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ac y dylid hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, gan ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd.*

*Mae'r Safonau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus "sicrhau bod craffu mewnol yn digwydd yn ystod y broses gyda phwyntiau her cyson ar lefel rheoli". Mae uwch swyddogion, gan gynnwys swyddogion cyfreithiol, yn craffu ar ddogfennau fel yr Asesiad hwn a'r holl ddogfennau a gyflwynir i'r Pwyllgor Gwaith. Fodd bynnag, trafodir yr Adroddiad Ymgynghoriad a'r Asesiad Effaith gan Bwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yr Awdurdod cyn i'r penderfyniad terfynol gael ei wneud gan y Pwyllgor Gwaith. Prif Weithredwr yr Awdurdod yw arweinydd strategol yr Awdurdod ar y Gymraeg.*

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu'r egwyddor na ddylai'r iaith Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylai trigolion yr ynys allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os dymunant wneud hynny. Mae'r un disgwyliad yn wir o ran y Gymraeg ym mhob ysgol, sy'n darparu cyfle i bob disgybl yn y Sir i ennill sgiliau priodol i fod yn hyderus yn ddwyieithog. Yng ngoleuni hyn, bydd unrhyw raglen newydd a gyflwynir – megis prosiectau'n deillio o'r rhaglen Ysgolion 21ain ganrif - yn amodol ar ofynion y polisi iaith.

Mae Polisi Iaith Gwasanaeth Dysgu Cyngor Sir Ynys Môn yn destun i'r nod a'r amcanion canlynol:

### 3.1 Nod:

Bod yr holl ddisgyblion sy'n mynd drwy system addysg Môn yn ddwyieithog erbyn diwedd eu gyrfa addysgol ac yn hyderus i gyfathrebu'n gyfartal yn y ddwy iaith ym myd gwaith, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol.

### 3.2 Amcan Cyffredinol:

1. Datblygu capasiti bob disgybl a myfyriwr yn y Sir i fod yn hyderus yn ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau llawn o'r gymuned ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.
2. Cynyddu defnydd cymdeithasol o'r iaith ymysg y gweithlu addysg a phlant ifanc sy'n mynychu sefydliadau addysg yn yr awdurdod ac fel cyfrwng dysgu.
3. Bod holl sefydliadau addysgol y Sir yn adlewyrchu ac yn atgyfnerthu'r polisi iaith yn eu gweinyddiaeth, yn eu bywydau cymdeithasol ac yn eu trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd.

### 3.3 Amcanion Penodol:

- **Blynyddoedd cynnar** - Sicrhau darpariaeth a threfniadaeth bwrpasol ac effeithlon gan gynnwys trochi, ar gyfer pob disgybl beth bynnag fo'u cefndir, er mwyn sicrhau sylfaen gadarn yn yr iaith i'w galluogi i gyflawni'r nod o ddwyieithrwydd llawn cyn gynted a bo modd.

- **Cyfnod sylfaen** - Adeiladu ar y sylfaeni a osodir yn y blynyddoedd cynnar drwy ddatblygu'r gafael sydd gan y disgyblion ar yr iaith, a dechrau ar y broses o ddatblygu eu sgiliau Saesneg cyn diwedd y cyfnod.

- **Cyfnod Allweddol 2** - Parhau i ddatblygu medrau Cymraeg a Saesneg y plant gan roi sylw i ddatblygu eu medrau yn y ddwy iaith drwy sicrhau lefel gyfartal o ddwyieithrwydd erbyn diwedd y cyfnod gyda chynllunio pwrpasol.

Ar gyfer disgyblion sy'n ddysgwyr Cymraeg yn CA2, sicrhau eu bod yn dysgu'r iaith cyn gynted â phosib drwy ganolfannau iaith cynradd.

**Addysg arbennig:** O ran disgyblion sydd ag anawsterau dysgu dwys, mae gan Bennaeth yr hawl i ystyried bob achos yn unigol drwy ymgynghori â'r gwasanaeth addysg, gan sicrhau fod gan ddisgyblion y medrau ieithyddol angenrheidiol i ymdopi fel oedolion yn eu cymunedau.

### 3.4 Defnydd o'r iaith Gymraeg mewn ysgolion

Cymraeg yw categori iaith Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig. Categori iaith yr ysgol arfaethedig ehangedig fydd Cymraeg.
Asesir effaith bosib y cynnig ar yr iaith Gymraeg isod (3.5).

#### *3.4a Defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned*

*Mae'r tabl isod yn rhoi data am yr iaith Gymraeg ar gyfer poblogaeth wardiau Llangefni a Llanddyfnan:*

***Tabl 2***

| | ***Canran y boblogaeth 3 oed a throsodd:*** | | |
|---|---|---|---|
| ***Ardal*** | ***Sydd ond yn deall Cymraeg llafar*** | ***Sydd yn gallu siarad Cymraeg*** | ***Sydd yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg*** |
| *Cefni* | *5.8%* | *80.5%* | *70.0%* |
| *Cyngar* | *5.6%* | *80.8%* | *69.1%* |
| *Llanddyfnan* | *6.8%* | *64.7%* | *55.9%* |
| *Tudur* | *6.5%* | *75.8%* | *64.3%* |
| *Ynys Môn* | *10.9%* | *56.1%* | *44.2%* |
| *Cymru* | *5.3%* | *18.6%* | *14.1%* |

***Ffigurau Cyfrifiad 2011***

*Gwelir bod canran uchel o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg yn y 4 ward.*

### 3.5 Asesiad Effaith Iaith Gymraeg

| | |
|---|---|
| **Beth sy'n cael ei asesu?** | Y cynnig sy'n cael ei asesu yw **"Cynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn".** |
| **Dyddiad cwblhau'r asesiad** | Mae hon yn ddogfen waith a fe'i hadolygir yn rheolaidd. |

| **3.5.1 – Cydymffurfio â'r Polisi Iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| A yw'r cynnig arfaethedig yn ddylanwadol o ran delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg?<br>• A fydd gweithgareddau megis gohebu drwy lythyr, cyfathrebu dros y ffôn, cyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd eraill yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br>• A fydd unrhyw ddatblygiad TG newydd yn cydymffurfio â'r polisi? | Ydyw, effaith gadarnhaol - gweler isod.<br><br>Bydd – bydd yr holl ohebiaeth a chyfathrebiadau yn parhau i gydymffurfio â'r Polisi Iaith Gymraeg.<br><br>Bydd – bydd unrhyw ddatblygiadau TG newydd yn parhau i gydymffurfio â'r Polisi Iaith Gymraeg. |
| A yw'r cynnig yn debygol o effeithio ar wyneb cyhoeddus y sefydliad?<br><br>• A fydd pob arwydd yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br>• A fydd gyhoeddiadau a ffurflenni yn cydymffurfio?<br>• A fydd unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ymgyrchoedd marchnata yn cydymffurfio?<br>• A fydd hysbysebion recriwtio staff yn cydymffurfio? | Gweler isod.<br><br>Bydd – bydd pob arwydd yn parhau i gydymffurfio â'r polisi iaith.<br>Bydd – bydd cyhoeddiadau a ffurflenni'n cydymffurfio.<br>Bydd – bydd unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd ac ymgyrchoedd marchnata yn cydymffurfio.<br>Bydd – bydd hysbysebion recriwtio staff yn cydymffurfio. |
| A yw'r cynnig yn debygol o gael effaith ar weithrediad y polisi iaith?<br><br>• A fydd y cynnig yn creu swyddi newydd? | Gweler isod.<br><br>Bydd – bydd unrhyw swyddi dysgu newydd yn cael eu creu yn ôl y strwythur staffio a ddatblygir gan y corff llywodraethu cysgodol. *Cynigir y bydd Ysgol y Graig yn cynyddu ei chapasiti o 150 ac felly bydd angen cynnydd cyfatebol yn nifer yr athrawon. Yn unol â Pholisi Iaith yr Awdurdod, bydd angen i'r deiliaid swyddi hyn fod yn siaradwyr Cymraeg.* |

| **3.5.1 – Cydymffurfio â'r Polisi Iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| • A fydd y trefniadau staffio yn hwyluso gweithrediad y polisi iaith?<br><br>• A fydd unrhyw hyfforddiant yn cael ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg?<br>• A fydd unrhyw drefniadau gyda thrydydd parti yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br>• A fydd y cynnig yn cynnwys unrhyw dargedau neu ddangosyddion ynglŷn â'r Gymraeg?<br><br>• Sut caiff perfformiad ei fonitro a'i fesur? | Bydd – bydd unrhyw staff newydd a benodir yn siaradwyr Cymraeg yn unol â'r polisi iaith a byddent yn parhau i roi'r polisi ar waith.<br>Bydd – bydd staff newydd yn cael eu hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg.<br>Bydd – bydd trefniadau â thrydydd partïon yn cydymffurfio â'r polisi iaith.<br>Bydd – y ganran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn y Gymraeg ar ddiwedd cyfnodau allweddol a'r ganran o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg adref.<br>Gyda data a gesglir gan y Gwasanaeth Addysg megis y ganran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. Cesglir data arall megis y ganran o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref fel rhan o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a gynhelir bob mis Ionawr.<br><br>*Yn ogystal, bydd monitro 6 misol gan y gwasanaeth trawsnewid a bydd data yn cael ei fwydo i'r Fforwm Iaith Sirol yn unol â gwaith monitro'r Awdurdod o'r polisi iaith Gymraeg.* |

| **3.5.2 - Effaith ar ddefnyddwyr iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| A fydd y maes gwaith yma'n cynnig dewis iaith i ddefnyddwyr?<br><br>• A fydd modd i ddefnyddwyr ddewis unrhyw elfen o'r gwasanaeth yn Gymraeg? | Bydd Ysgol Y Graig estynedig yn ysgol cyfrwng Cymraeg. *Fodd bynnag, ni fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg*<br>*Bydd – bydd y gwasanaeth cyfan ar gael yn Gymraeg – fodd bynnag, fel sy'n digwydd yn Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig, bydd rhai disgyblion yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Saesneg e.e. ar gyfer gwersi Saesneg.* |
| Oes perygl i'r cynnig gam wahaniaethu defnyddwyr Cymraeg?<br><br>• A yw anghenion siaradwyr Cymraeg wedi'u ystyried mewn i'r cynnig? | Na- bydd Ysgol Y Graig estynedig yn cydymffurfio â Pholisi Iaith Gymraeg yr Awdurdod. *Er hynny, ni fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.*<br>Ydyw – anghenion disgyblion sy'n siarad Cymraeg yw un o'r gyrwyr allweddol ar gyfer y cynnig hwn. |

| **3.5.2 - Effaith ar ddefnyddwyr iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| • A yw siaradwyr Cymraeg yn debygol o dderbyn yr un safon o wasanaeth a'r hyn a dderbynnir yn Saesneg?<br>• A yw trefniadau iaith Gymraeg yn debygol o arwain at oedi yn y gwasanaeth? | Ydyw – darperir yr un safon o wasanaeth i bob disgybl.<br><br>Na – ni fydd trefniadau iaith Gymraeg yn arwain at oediad yn y gwasanaeth. |
| A fydd y cynnig yn debygol o wneud y Gymraeg yn fwy gweledol?<br><br>• A yw'n debygol o gynyddu defnydd drwy gynhyrchu deunyddiau ac arwyddion Cymraeg?<br><br>• A yw'n debygol o ddylanwadu ar eraill i wneud mwy o ddefnydd gweledol o'r Gymraeg, er enghraifft busnesau? | Bydd – gweler isod.<br><br>Ydyw – bydd arwyddion yn yr adeilad ysgol arfaethedig ac ar dir yr ysgol yn cydymffurfio â'r polisi iaith. Bydd yr ysgol arfaethedig ehangedig yn parhau i hyrwyddo ac annog defnydd o'r iaith Gymraeg ac yn defnyddio deunydd iaith Gymraeg.<br><br>Ydyw – bydd gwireddu'r polisi yn sicrhau y gwelir arwyddion dwyieithog gan lawer yn yr ardal. |
| A fydd y gwasanaeth Cymraeg ynghlwm â'r cynnig yn hygyrch?<br>• A fydd gwasanaeth yr un mor hawdd i'w gael yn Gymraeg nag ydyw yn Saesneg?<br><br>• A fydd gwasanaethau ar gael yr un pryd? | Bydd – gweler isod.<br>Bydd – bydd disgyblion yn derbyn addysg mewn Cymraeg a Saesneg. Bydd gwasanaethau eraill sy'n ymwneud â'r cynnig ar gael yn ddwyieithog e.e. darpariaeth cludiant a gofal plant.<br>Byddant – bydd plant yn derbyn addysg gan staff dwyieithog. |

| **3.5.3 – Effaith ar Gymunedau Cymraeg** | |
|---|---|
| A yw'r cynnig yn debygol o gyfrannu at ddiogelu'r Gymraeg mewn cymunedau?<br><br>• A yw'n debygol o gyfrannu tuag at ymdrechion i fynd i'r afael gyda heriau newid demograffeg a mudo - fel cynnig cyfleoedd i bobl ifanc aros yn eu cymunedau?<br><br>• A yw'n debygol o gyfrannu tuag at yr economi leol mewn cymunedau Cymraeg?<br>• A fydd yn darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg – megis gwarchod plant? | Gweler isod.<br><br>Ydyw – bydd y cynnig yn darparu lleoedd digonol ar gyfer disgyblion presennol yn Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig a hefyd yn darparu lleoedd digonol ar gyfer disgyblion sy'n dod o ddatblygiadau tai newydd yn y dalgylch.<br>Ydyw – gallai ddarparu mwy o swyddi yn yr ardal ysgol ehangedig arfaethedig o Langefni.<br>Bydd – mae'r cynnig hefyd yn cynnwys uned Feithrin ar gyfer plant cyn-ysgol. |

| **3.5.3 – Effaith ar Gymunedau Cymraeg** | |
|---|---|
| A yw'r cynnig yn cymryd camau i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg? | Ydyw – gweler isod. |
| • A yw'r cynnig yn cyfrannu at fywyd cymdeithasol cyfrwng Cymraeg? | Ydyw – os gwireddir y cynnig, bydd gweithgareddau cymunedol cyfrwng Cymraeg yn parhau yn yr ysgol ehangedig. |
| • A yw'n cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i oriau'r ysgol? | *Ydyw – bydd yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio Cymraeg mewn clybiau ar ôl ysgol. Fel y soniwyd yn rhan 8 o'r ddogfen ymgynghori: "Mae Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn hefyd wedi llwyddo i weithredu Siarter y Gymraeg; disgwylir y bydd yr ysgol newydd ehehangedig yn adeiladu ar y sylfaen gadarn hon i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Disgwylir hefyd y byddai disgyblion yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol - a gynhelir drwy gyfrwng y Gymraeg"* |
| • A yw'n darparu gwasanaeth newydd fydd hefyd ar gael yn Gymraeg? er enghraifft darpariaeth neu weithgaredd hamdden neu chwaraeon? | Ydyw – bydd gwireddu'r cynnig hwn yn darparu Ardal Gemau Aml-ddefnydd (MUGA) i'w defnyddio gan ddisgyblion a'r gymuned. |
| • A yw'n cyfrannu neu'n ychwanegu gwerth at weithgareddau eraill yn y maes iaith – fel gwaith y Fenter Iaith Leol, yr Urdd ayyb? | Ydyw – os gwireddir y cynnig, bydd gweithgareddau Urdd yn parhau yn yr ysgol ehangedig. |

| **3.5.4 - Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisïau iaith, strategaethau a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| Polisïau iaith mudiadau partner neu gyrff cyhoeddus cyfagos:<br>• A yw'r awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth ar y cynnig?<br>• Pa sefydliadau eraill sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y datblygiad?<br>• Oes gan y sefydliadau hynny safonau iaith neu bolisïau iaith?<br>• A yw'r cynnig yn cyfrannu at y cynlluniau hyn? | Ydyw – Llywodraeth Cymru a fydd yn cyllido'r prosiect yn rhannol.<br>Oes – Llywodraeth Cymru<br>Oes – mae gan Lywodraeth Cymru ei safonau neu bolisïau iaith Gymraeg ei hun.<br>Ydyw – bydd y cynnig hefyd yn cydymffurfio â gofynion Llywodraeth Cymru. |
| Strategaethau iaith Gymraeg perthnasol:<br>• A fydd y cynnig yn cyfrannu tuag at Strategaeth Iaith Gymraeg 2016 – 2021 Fforwm Strategol Iaith Ynys Môn a fabwysiadwyd gan y Cyngor hwn ym mis Medi 2016? | Mae'r cynnig yn cyfrannu at yr adrannau canlynol o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Ynys Môn 2017-2020 yn y ffyrdd canlynol: |

| **3.5.4 - Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisïau iaith, strategaethau a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| • Sut mae'r cynnig yn cyfrannu tuag at weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050? | **Deilliant 1** – Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.<br>**Deilliant 2** – Sicrhau bod cynigion Ysgolion 21ain Ganrif yn cryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg.<br>Drwy gael Uned Gofal Plant a fydd yn darparu gofal cofleidiol i blant cyn-ysgol, byddai'n darparu sylfaen gadarn i'r plant yno cyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol gynradd ehangedig. Felly byddai'n cyfrannu at gynyddu'r nifer o blant saith oed yr addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai'n cyfrannu at gyflawni Deilliant 1 uchod.<br>Drwy weithredu'r strategaeth Blynyddoedd Cynnar a thrwy ddosbarthu cynllun moderneiddio ysgolion y Sir, bydd yn helpu i sicrhau bod cynigion Ysgolion 21ain Ganrif yn rhoi ystyriaeth lawn i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant hyd at 11 oed.<br>Mae polisi iaith newydd yr Awdurdod yn cyfeirio at yr amcan i gynyddu'r gyfran o ddisgyblion sy'n cwrdd â thargedau Cymraeg fel Iaith Gyntaf o'r Cyfnod Sylfaen hyd at ddiwedd eu hamser yn yr ysgol. Bwriedir defnyddio model gofal plant fel yr un dan ystyriaeth yn y prosiect hwn i gynyddu capasiti gofal plant cyfrwng Cymraeg ym Môn. Mae gan y model partneriaeth gofal plant y potensial i gyfrannu'n allweddol at uchelgais Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. |

Mae'r ddwy ysgol ar hyn o bryd yn darparu gweithgareddau drwy'r Urdd (gweler Asesiad Effaith Cymunedol – Adran 4) a byddai hyn yn parhau yn yr ysgol gynradd arfaethedig ehangedig.

**NODER** – Nid yw unrhyw un o'r ysgolion yn cynnig gwersi Cymraeg i'r gymuned – mae'n debyg iawn bod hyn oherwydd nad oes llawer o alw am wersi Cymraeg yn yr ardal gan fod dros 75% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag, mae gan y ddwy ysgol gyfleuster i gynnig gwersi Cymraeg a byddai gan yr ysgol gynradd ehangedig ystafell gymunedol y gellir ei defnyddio ar gyfer gwersi Cymraeg neu ar gyfer unrhyw weithgaredd arall a gynhelir drwy gyfrwng y Gymraeg.

### 3.5.5 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Ysgolion cyfrwng Cymraeg yw Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig ac ysgol cyfrwng Cymraeg fydd yr Ysgol y Graig ehangedig hefyd. Felly ni fydd newid yn y categori iaith os bydd y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r cynnig.

Byddai gwireddu'r cynnig yn cefnogi Deilliannau 1, 2 a 5 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020 yr Awdurdod (a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ym Mawrth 2018):

**Deilliant 1:** Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Deilliant 2:** Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

**Deilliant 5:** Mwy o ddisgyblion a myfyrwyr gyda sgiliau uwch yn y Gymraeg.

Mae'r Gwasanaeth Addysg yn adrodd yn chwarterol i Fforwm Iaith y Cyngor Sir ar ddefnydd o'r iaith Gymraeg yn ysgolion yr Awdurdod. Mae Fforwm Iaith y Cyngor Sir yn monitro Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) yr Awdurdod yn chwarterol.

### 3.5.6 Effaith bosib y cynnig ar yr iaith Gymraeg

| Meini Prawf Iaith | Arsylwadau | Effaith | Mesurau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| Yr iaith a siaredir yn y cartref | Siaradwyr Cymraeg rhugl yn y cartref (pob oedran):<br>• Ysgol Talwrn – 20 disgybl neu 50%<br>• Ysgol y Graig – 253 disgybl neu 68%<br>Data (CYBLD Ion 2020) | Niwtral | Pe gwireddid y cynnig, ar sail ffigyrau cyfredol, byddai 57% neu 242 o'r disgyblion yn yr ysgol gynradd ehangedig yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Byddai gwireddu'r cynnig yn rhoi cyfle i ddisgyblion wella eu sgiliau dwyieithog drwy gyfathrebu â chanran uwch o ddisgyblion (mewn cymhariaeth â'r nifer presennol o ddisgyblion yn y ddwy ysgol). |
| Categori iaith yr ysgolion presennol | Talwrn – Cymraeg<br>Y Graig – Cymraeg | Cadarnhaol | Addysgir disgyblion y ddwy ysgol yn Gymraeg. Fodd bynnag, bydd datblygu disgyblion dwyieithog yn ffocws parhaol ac arwyddocaol yn y Cynllun Datblygu Ysgol.<br>• Gall trefniadau dosbarth dargedu datblygiad anghenion iaith penodol y garfan.<br>• Wrth dracio disgyblion, bydd eu cynnydd wrth ddatblygu dwyieithrwydd yn cael ei ystyried.<br>• Bydd adroddiad y Pennaeth i'r llywodraethwyr yn cynnwys canrannau'r disgyblion ym mhob carfan iaith.<br>• Cynnydd ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol.<br>• Cynnydd o ran y Siarter Iaith.<br>Bydd yr ysgol arfaethedig ehangedig yn ysgol gymunedol, cyfrwng Cymraeg. Bydd yn flaenoriaeth i'r |

| Meini Prawf Iaith | Arsylwadau | Effaith | Mesurau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| | | | Awdurdod gryfhau a diogelu'r iaith Gymraeg ac addysg ddwyieithog.<br><br>*Cyn y cyfnod clo, un o'r prosiectau a ddatblygwyd oedd sefydlu cynllun i hyrwyddo'r iaith lafar Gymraeg yn siopau tref Llangefni. Gwnaethpwyd hyn drwy annog gweithwyr y siopau a busnesau lleol i gyfarch, gofyn ac ateb cwestiynau trwy gyfrwng y Gymraeg. Crëwyd cardiau'n rhoi arweiniad i'r gweithwyr ar sut i ynganu'r geiriau yn y Gymraeg. Cafwyd cefnogaeth i'r cynllun gan Gomisiynydd y Gymraeg a fu'n sgwrsio gyda'r Cyngor Siarter Iaith yn ogystal â pherchnogion siopa, ynglyn â'r gwaith. Oherwydd sefyllfa'r pandemig, nid oes data meintiol yn crynhoi beth oedd effaith ieithyddol y prosiect yma ar drigolion y dref ac nid oedd yn bosibl casglu'r straeon ansoddol chwaith am yr un rheswm.* |
| Defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned | Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae 57% o bobl Môn yn siarad Cymraeg. Mae'r canran wedi lleihau dros y degawdau diwethaf – roedd 62% o bobl Môn yn gallu siarad Cymraeg yn 1981. | Cadarnhaol | Angen hybu defnydd o'r Gymraeg (Asesiad Lles Ynys Môn 2017). Bydd addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn cynorthwyo i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned.<br><br>Bydd y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn cydweithio â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn i hybu defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned, ac i gyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.<br><br>Mae'r Adran Addysg yn adrodd yn chwarterol i Fforwm Iaith y Cyngor Sir ar ddefnydd o'r Gymraeg yn ysgolion yr Awdurdod a chaiff Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) ei fonitro'n chwarterol gan Fforwm Iaith y Cyngor Sir.<br><br>Bydd yr ysgol arfaethedig ehangedig yn parhau i hyrwyddo ac annog defnydd o'r Gymraeg a bydd yn hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r Gymraeg gan |

<table>
<tr><th>Meini Prawf Iaith</th><th>Arsylwadau</th><th>Effaith</th><th>Mesurau Lliniaru</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td><td>ddisgyblion yn ystod oriau ysgol ac mewn gweithgareddau ar ôl ysgol ar y safle.</td></tr>
<tr><td>Cyfrwng iaith disgyblion ar yr iard, yn y clwb brecwast ac mewn clybiau ar ôl ysgol</td><td>Cyfrwng iaith disgyblion ar yr iard, yn y clwb brecwast ac mewn clybiau ar ôl ysgol yw dwyieithog.</td><td>Niwtral</td><td>Ni fydd hyn yn newid yn yr ysgol arfaethedig ehangedig. Gellid gwella hyn drwy ddarparu mwy o le i chwarae a thrwy gynllunio chwarae strwythuredig ar yr iard.<br><br>Bydd yr ysgol arfaethedig ehangedig yn parhau i hyrwyddo ac annog defnydd o’r Gymraeg ac yn hyrwyddo defnydd anffurfiol o’r iaith gan ddisgyblion.</td></tr>
<tr><td>Ymglymiad yr ysgol mewn gweithgareddau cyfrwng Cymraeg</td><td>Mae’r ddwy ysgol wedi’u hymrwymo mewn gweithgareddau cyfrwng Cymraeg.</td><td>Niwtral</td><td>Ni fydd hyn yn newid yn yr ysgol arfaethedig ehangedig.<br><br>Gweler gwybodaeth bellach ynglŷn â gweithgareddau a gynhelir yn y Gymraeg yn yr Asesiad Effaith Cymunedol isod.</td></tr>
<tr><td>Gallu staff addysgu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg</td><td><table><tr><th>Talwrn</th><th>Y Graig</th></tr><tr><td>Mae pob aelod o staff addysgu yn rhugl yn y Gymraeg</td><td>Mae pob aelod o staff addysgu yn rhugl yn y Gymraeg</td></tr></table></td><td>Niwtral</td><td>Mae Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig yn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, ac ni fydd unrhyw newid yn statws ieithyddol y ddarpariaeth newydd.</td></tr>
<tr><td>Gallu Llywodraethwyr i siarad Cymraeg</td><td><table><tr><th>Talwrn</th><th>Y Graig</th></tr><tr><td>90% o Lywodraethwyr yn rhugl yn y Gymraeg (9 allan o 10)</td><td>Mae pob Llywodraethwr yn rhugl yn y Gymraeg (13 allan o 13)</td></tr></table></td><td>Niwtral</td><td>Mae’r ddwy set o Lywodraethwyr yn rhugl yn y Gymraeg felly ni fydd newid yn natur ieithyddol y Llywodraethwyr os gwireddir y cynnig.</td></tr>
<tr><td>Pryderon gyflwynwyd yn ystod y cyfnod</td><td>“Mae rhywfaint o'r data sydd wedi'i gynnwys yn yr Asesiad Effaith wedi dyddio, yn enwedig cyrhaeddiad yn erbyn dangosyddion Cymru. Oni fyddai'n decach defnyddio data mwy diweddar?”</td><td>Niwtral</td><td>Mae'n debyg y daw'r data a grybwyllir gan y rhanddeiliad, ac a ddefnyddiwyd yn yr Asesiad Effaith yw data o 2015 i 2017 Defnyddiwyd y data hwn oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r gorau i gyhoeddi'r data ar gyfer pob ysgol ar ôl yr amser hwn. Fodd bynnag, cafodd</td></tr>
</table>

| Meini Prawf Iaith | Arsylwadau | Effaith | Mesurau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| *ymgynghori statudol* | | | *data ar gyfer 2018 a 2019 ei gynnwys yn y ddogfen ymgynghori ynghylch safonau a gyrhaeddwyd gan ddisgyblion yn yr ysgol dan sylw mewn Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth.*<br><br>*Pan ofynnwyd i randdeiliaid wneud sylwadau ynglŷn â'r cynnig (drwy'r Arolwg Deallus), derbyniwyd 5 (9%) o sylwadau ynglŷn â'r effaith y byddai'r cynnig yn ei gael ar y Gymraeg.* |
| | Effaith gyfunol ar yr iaith Gymraeg | **+3 Cadarnhaol** | |

**Casgliad – byddai’r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg.**

Tudalen 113

## 4. ASESIAD EFFAITH CYMUNEDOL

Mae'r asesiad hwn yn ystyried effaith bosib y cynnig i "Gynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn a chau Ysgol Talwrn" ar y gymuned leol.

Mae'r tablau isod yn dangos y nifer o ddisgyblion yn Ysgol Talwrn ac yn Ysgol y Graig dros y 5 mlynedd ddiwethaf a rhagolygon niferoedd disgyblion am y 5 mlynedd nesaf ynghyd â rhagamcanion disgyblion os aiff y cynnig yn ei flaen:

### 4.1 Niferoedd disgyblion yn y gorffennol

| Ysgol | Capasiti - heb gynnwys y Meithrin | Niferoedd Disgyblion ym mis Ionawr: | | | | | % llefydd gweigion Ionawr 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | |
| Talwrn | 49 | 44 | 47 | 47 | 43 | 45 | 8% |
| Y Graig | 330 | 333 | 333 | 335 | 326 | 339 | -3%* |

*Dros gapasiti

### 4.2 Rhagolygon Pum Mlynedd

| **Ysgol** | **Capasiti - heb gynnwys y Meithrin** | **Nifer o ddisgyblion Medi 2019** | **Rhagolygon niferoedd ar y gofrestr ym Medi:** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **2020** | **2021** | **2022** | **2023** | **2024** |
| Talwrn | 49 | 40 | 47 | 46 | 41 | 39 | 37 |
| Y Graig | 330 | 324 | 329 | 331 | 326 | 320 | 334 |

Rhwng 2019 a 2024, rhagwelir y bydd nifer y disgyblion yn Ysgol Talwrn yn gostwng o 40 i 37 sy'n ostyngiad o 8%. Yn ystod yr un cyfnod amser, rhagwelir y bydd nifer y disgyblion yn Ysgol y Graig yn cynyddu o 324 i 334 sy'n gynnydd o 3%. Mae'r rhagolygon yn cadarnhau y bydd nifer y disgyblion yn cynyddu i gyfanswm o 371 yn y ddwy ysgol erbyn 2024.

### 4.3 Rhagamcanion Disgyblion os aiff y cynnig yn ei flaen

Mae angen ystyried datblygiadau tai newydd yn y dalgylch a'r plant oed ysgol gynradd a fydd yn codi o'r rhain. Dangosir nifer y plant oed ysgol gynradd sy'n deillio o'r datblygiadau tai newydd yn y tabl isod:

| Ysgol | Datblygiadau tai arfaethedig yn y dalgylch hyd at 2026 | Nifer cyfatebol y plant * |
|---|---|---|
| Y Graig | 397 | 67 - 143 |
| Talwrn | 6 | 1 - 2 |

* Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gan bob tŷ yn Ynys Môn 0.17 o blant o oedran ysgol gynradd ar gyfartaledd. Mae lluosi nifer y datblygiadau tai â 0.17, yn rhoi amcangyfrif o nifer y plant ychwanegol y bydd angen eu haddysgu yn yr ysgol benodol honno. Fodd bynnag, yn ward Tudur, mae 0.36 o blant oed ysgol gynradd ar gyfartaledd ym mhob tŷ a gall hyn arwain at gyfanswm o 145 o ddisgyblion yn deillio o'r datblygiadau tai newydd.

Er bod y datblygiadau tai arfaethedig yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, mae yna nifer o ffactorau sy'n effeithio ar os bydd y datblygiadau arfaethedig hyn yn symud ymlaen yn y broses gynllunio fel a nodir i ddilyn.

Yn gyntaf, byddai angen eu hasesu i benderfynu a fyddai'r datblygiad (au) arfaethedig yn cwrdd â'r gofynion er mwyn gallu ceisio caniatâd cynllunio ac yna a fyddai caniatâd cynllunio (sy'n ddilys am 5 mlynedd) yn cael ei roi. Hynny yw, amcangyfrif yw nifer y tai yn y tabl uchod ac nid yw'n sicrwydd y bydd yr holl dai hyn yn cael eu hadeiladu erbyn 2027. Pe bai'r datblygiadau tai arfaethedig hyn yn cael eu hadeiladu, byddai'r datblygwr yn debygol iawn o'u hadeiladu fesul cam. Byddai hyn yn golygu y byddai nifer y disgyblion yn cynyddu'n raddol ac NI fyddai'n golygu y byddai'r nifer uchaf o ddisgyblion h.y 145 yn dechrau mynychu'r ysgol ar yr un pryd.

Mae'r tabl isod yn dangos y niferoedd disgwyliedig o ddisgyblion yn Ysgol estynedig arfaethedig y Graig hyd at Fedi 2027 gan ystyried y nifer uchaf o ddatblygiadau tai arfaethedig a grybwyllir uchod.

| | Nifer rhagamcanol ar y gofrestr Medi 2023 | Nifer rhagamcanol ar y gofrestr Medi 2024 | Nifer rhagamcanol ar y gofrestr Medi 2025 | Nifer rhagamcanol ar y gofrestr Medi 2026 | Nifer rhagamcanol ar y gofrestr Medi 2027 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Y Graig Estynedig | 383 | 404 | 407 | 418 | 419 |

Gall rhieni hefyd ddewis anfon eu plentyn / plant i ba bynnag ysgol y maent yn dymuno.

Mae'n bwysig nodi bod rhagamcanion yn anodd gan fod nifer o ddisgyblion yn mynychu'r ysgolion o ddalgylchoedd eraill. Ym mis Hydref 2019, roedd gan Ysgol Talwrn 14% o leoedd dros ben, er bod 17% o'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Talwrn yn dod o ddalgylch Corn Hir, ac mae 31% o'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Talwrn yn dod o ddalgylch Ysgol Y Graig.

**4.4 Darpariaeth Gyn-ysgol**

Mae'r ddarpariaeth gyn-ysgol ganlynol ar gael yn ardal Graig / Talwrn yn Llangefni:

- Ysgol y Graig wedi'i chofrestru ar gyfer plant 3-11 oed ac mae'n darparu addysg blynyddoedd cynnar i blant sydd wedi troi'n 3 oed cyn 1 Medi mewn unrhyw flwyddyn. Ei chapasiti yw 24 y sesiwn ond ym mis Medi 2019, mae 50 o blant yn defnyddio'r cyfleuster.

Mae'r rhagolygon ar gyfer darpariaeth meithrinfa plant 3-4 oed yn Ysgol Y Graig fel a ganlyn:

| Meithrin | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Y Graig | 50 | 47 | 47 | 47 | 47 | 47 | 47 |

- **Darpariaeth Dechrau'n Deg.** Rhan o raglen blynyddoedd cynnar Llywodraeth Cymru i deuluoedd sydd â phlant dan 4 oed. Mae'n anelu at ddarparu gwasanaethau cefnogaeth ddwys i blant 0-4 oed a'u teuluoedd. Ffocws y rhaglen yw hyrwyddo sgiliau iaith, gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol, datblygiad corfforol ac adnabod anghenion dwys yn fuan. Gwneir hyn drwy ddarparu cefnogaeth ac arweiniad iechyd, cefnogaeth a grwpiau rhiantu, cefnogaeth iaith a chyfathrebu a gofal plant rhan amser o ansawdd i blant 2-3 oed. Tîm amlddisgyblaethol yw Dechrau'n Deg sy'n cynnwys Gweithwyr Teulu, Staff Gofal Plant, Therapydd Iaith a Lleferydd, Athrawon Blynyddoedd Cynnar, Cymorthyddion Iechyd a thîm o staff cefnogi.

- **Meithrinfa Medra**. Mae'r feithrinfa ddydd hon yn cynnig gofal ac addysg blynyddoedd cynnar i fabanod a phlant hyd at oed ysgol, dan ofal staff cymwysedig a phrofiadol.

- **Cylch Meithrin Stryd y Bont** Sefydliad elusennol nas cynhelir yw **Cylch Meithrin Stryd y Bont** a gaiff ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg. Fe'i comisiynir ar hyn o bryd i ddarparu addysg gynnar am 10 awr yr wythnos yn ystod tymor yr ysgol yn unig. Ei gapasiti yw 24, ac roedd 18 o blant yn defnyddio'r cyfleuster ym Medi 2019.

- **Meithrinfa Sêr Bach** wedi ei leoli ar safle Parc Bryn Cefni, Llangefni. Gall y gwasanaeth ddarparu gofal ar gyfer uchafswm o 55 o blant o'u genedigaeth hyd at wyth oed ac mae ar agor rhwng 7:30yb a 6:00yh, o ddydd Llun i ddydd Gwener.

- Mae **Cylch Meithrin Talwrn** yn neuadd bentref Talwrn sy'n gweithredu 4 bore'r wythnos. Ei gapasiti yw 16 ac ym mis Medi 2019, roedd 5 o blant yn defnyddio'r cyfleuster. Nid oes darpariaeth feithrin yn Ysgol Talwrn.

Rhagwelir y byddai'r ddarpariaeth ym Meithrinfa Medra, Meithrinfa Sêr Bach a Dechrau'n Deg yn parhau pe bai'r cynnig yn dwyn ffrwyth. Efallai y bydd y niferoedd sy'n mynychu Cylch Meithrin Stryd y Bont a'r Cylch Meithrin yn Neuadd Bentref Talwrn mewn perygl os aiff y cynnig yn ei flaen.

**Digonolrwydd Lleoedd**
Nifer y lleoedd meithrin yn yr Ysgol y Graig ehangedig fydd 68. Byddai nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Y Graig, ehangedig, (capasiti o 68) yn ddigonol ar gyfer y nifer rhagamcanol o blant fyddai'n defnyddio'r cyfleuster.

**Lefel y galw (Ardal Llangefni - Wardiau, Cefni, Cyngar, Tudur)**
Nododd yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant a gwblhawyd gan y Cyngor ym mis Ebrill 2017, nad oedd darpariaeth ar ôl ysgol gofrestredig ar safleoedd ysgol yn ardal Llangefni na darpariaeth gofrestredig ddigonol ar gyfer gwyliau. Dim ond yn y meithrinfeydd dydd preifat yn unig oedd darpariaeth.

Roedd lleoedd gofal plant mewn meithrinfeydd dydd yn Ynys Môn yn ddigonol yn 2017 i ateb galw rhieni. Fodd bynnag, ers cyflwyno'r Cynnig Gofal Plant, mae lleoedd yn gyfyngedig. Yn draddodiadol, mae'r sector yn cynnig gofal i blant rhwng 6 mis a 4 oed.

Darpariaeth yn ardal Llangefni ym mis Ebrill 2019

| Gwarchodwyr plant | Gofal Dydd Llawn (Darparwr preifat) | Sesiynol e.e. Cylch Meithrin | Dechrau'n Deg | Ar ôl Ysgol Cofrestredig (Darparwr preifat) | Gwyliau (Darparwr preifat) |
|---|---|---|---|---|---|
| 4 | 3<br><br>Meithrinfa Blodyn Tatws,<br>Meithrinfa Medra,<br>Meithrinfa Sêr Bach. | 4<br><br>Cylch Meithrin Bodffordd,<br>Corn Hir,<br>Talwrn,<br>Stryd Y Bont. | 1<br><br>Wedi'i leoli ar safle Ysgol Y Graig. | 3<br><br>Meithrinfa Blodyn Tatws,<br>Meithrinfa Medra,<br>Meithrinfa Sêr Bach. | 3<br><br>Meithrinfa Blodyn Tatws,<br>Meithrinfa Medra,<br>Meithrinfa Sêr Bach. |

Mae diffyg darpariaeth gofal plant yn yr ardal ar gyfer plant 3 – 11 oed. Mae nifer y gwarchodwyr plant yn yr ardal wedi aros yn ei unfan ac ar draws y Sir mae mwy o ddadgofrestru na chofrestiadau. Mae'r duedd hon yn parhau.

**Galw am fath penodol o addysg Feithrin**
Mae'r holl wasanaethau sesiynol cyfredol yn y maes hwn yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r meithrinfeydd preifat yn darparu gwasanaethau dwyieithog. Yn yr ardal mae darpariaeth addysgol yng Nghanolfan Y Bont, sy'n gofalu ac yn addysgu plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Ar hyn o bryd nid yw'r Ganolfan yn darparu unrhyw ddarpariaeth gofal plant ar ôl ysgol neu yn ystod gwyliau. Pe bai uned gofal plant ar gael yn yr Ysgol Y Graig ehangedig byddai hefyd yn ddarpariaeth o fewn cyrraedd plant sy'n mynychu Canolfan Addysg Y Bont .

**Effaith y cynnig ar sefydliadau eraill**
Bwriad Ysgol Y Graig ehangedig yw ategu'r ddarpariaeth bresennol o warchodwyr plant a meithrinfeydd dydd preifat yn yr ardal. Disgwylir y bydd y gwasanaeth yn gystadleuol ac iddo godi'r cyfraddau lleol a godir gan y darparwyr preifat a fydd yn darparu dewis a digonolrwydd gofal plant yn yr ardal i rieni.

**Y graddau y bydd y cynnig yn integreiddio addysg blynyddoedd cynnar â gwasanaethau gofal plant**

Mae'r awdurdod lleol yn gwerthuso'r cynnig bod gan Ysgol Y Graig uned gofal plant a all ddarparu gofal plant i blant 2 - 11 oed ar un safle ysgol. Ar hyn o bryd nid oes digon o ddarpariaeth gofal plant yn yr ardal benodol honno sy'n rhwystr i rieni sy'n dechrau gweithio. Byddai darparu'r holl wasanaethau ar un safle ysgol gan ddarparwr ag enw da hefyd yn sicrhau cynaliadwyedd ariannol y ddarpariaeth ac yn cynnig oriau gwaith ychwanegol i staff ac yn creu swyddi newydd.

Byddai cynnig darpariaeth addysg blynyddoedd cynnar, gofal plant, darpariaeth ar ôl ysgol a gwyliau yn darparu gwasanaeth di-dor i rieni ac yn sicrhau parhad gofal i blant. Byddai'r ddarpariaeth ar gael rhwng 8am a 6pm bob dydd, gan gynnwys gwyliau ysgol ac o bosibl diwrnodau hyfforddi athrawon. Bydd y ddarpariaeth wedi'i chofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru fel gofal plant trwy'r dydd ac o ganlyniad yn caniatáu i rieni hawlio'r Cynnig Gofal Plant ar gyfer plant rhwng 3 a 4 oed, talebau gofal plant neu gredydau treth plant i elwa o gymorth ariannol i leihau'r costau gofal plant. Bydd argaeledd gofal plant cofrestredig trwy'r dydd ar safleoedd ysgolion yn ei gwneud hi'n haws i rieni ailddechrau gweithio, cynyddu eu horiau gwaith a bod yn fodlon bod eu plant yn derbyn y safonau gofal gorau.

Felly, y bwriad yw y bydd y cynnig yn ategu'r cyfleusterau gofal plant presennol yn yr ardal ac nid cystadlu â hwy nac yn wir eu rhoi allan o fusnes.

***Pwynt godwyd gan randdeiliad yn ystod yr ymgynghori***

*"Mae'n debygol y byddai'r Cylch Meithrin Talwrn yn cau / lleihau, ac y byddai'r staff yn colli eu swyddi. Ni hysbyswyd Cylch Meithrin Talwrn am gyhoeddi'r ddogfen ymgynghori"*

***Ymateb y Cyngor***

*Cydnabyddir hyn yn adran 4.4. o'r Asesiad Effaith:*

***"4.4 Darpariaeth Cyn-ysgol***

*Rhagwelir y byddai'r ddarpariaeth yn Meithrinfa Medra, Meithrinfa Sêr Bach a Dechrau'n Deg yn parhau pe bai'r cynnig yn cael ei wireddu. Efallai y bydd y niferoedd sy'n mynychu Cylch Meithrin Stryd y Bont a'r Cylch Meithrin yn Neuadd Bentref Talwrn mewn perygl os bydd y cynnig yn mynd rhagddo."*

*Nod yr Asesiad Effaith yw edrych ar risgiau fel yr un a grybwyllir a lliniaru neu leihau ei effaith. Fe* ***gafodd*** *Cylch Meithrin Talwrn eu hysbysu am y ddogfen ymgynghori mewn e-bost ar 6 Chwefror 2020 anfonwyd am 13:06."*

***Dywedodd rhanddeiliad arall***

*"Effaith negyddol ar feithrinfeydd gofal plant preifat, bydd staff yn colli swyddi, ac mae'r pris ar gyfer disgyblion o dan 2 oed yn debygol o gynyddu i dalu am golli incwm gan ddisgyblion 2 oed a hŷn"*

***Ymateb y Cyngor***

*Mae'r Asesiad Effaith yn adran 5.5 ar dudalen 16 yn trafod effaith bosibl y cynnig ar gyfleusterau gofal plant yn yr ardal. Mae'r Asesiad yn nodi:*

***"Effaith y cynnig ar sefydliadau eraill***

*Bwriad Ysgol y Graig ehangedig yw ategu'r ddarpariaeth bresennol o warchodwyr plant a meithrinfeydd dydd preifat yn yr ardal. Disgwylir y bydd y gwasanaeth yn gystadleuol â'r cyfraddau lleol a godir gan y darparwyr preifat a fydd yn rhoi dewis a digonolrwydd gofal plant yn yr ardal hon i rieni."*

**4.5 Cyfleusterau a gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgolion**
Cafwyd manylion o gyfleusterau a gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol o holiaduron a gwblhawyd gan Benaethiaid Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig. Darparodd Cyngor Cymunedol Llanddyfnan hefyd fanylion ynglŷn â gweithgareddau lleol a gynhelir.

**Gweithgareddau allgyrsiol sydd ar gael i ddisgyblion yn Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig:**

| **Gweithgaredd**<br>**Ysgol Talwrn** | **Yn ystod y tymor ynteu'r gwyliau?** | **Amlder – fesul blwyddyn academaidd** |
|---|---|---|
| Yr Urdd | Tymor | 20 |
| Clwb pêl-droed ar ôl ysgol | Tymor | Yn wythnosol, yn ystod tymor yr Hydref, ar ôl ysgol |
| Clwb Pêl-rwyd | Tymor | Yn wythnosol, yn ystod tymor yr Haf, ar ôl ysgol |
| Clwb STEM | Term | Yn wythnosol, yn ystod tymor yr Hydref a'r Gwanwyn, ar ôl ysgol |
| Aelodau o'r gymuned yn darllen â disgyblion | Tymor | 2 awr yr wythnos |

| **Gweithgaredd**<br>**Ysgol y Graig** | **Yn ystod y tymor ynteu'r gwyliau?** | **Amlder – fesul blwyddyn academaidd** |
|---|---|---|
| Clwb Celf | Tymor | 30 |
| Clwb Pêl-droed (Merched) | Tymor | 20 |
| Clwb Pêl-droed | Tymor | 20 |
| Clwb Rygbi | Tymor | 20 |
| Golff | Tymor | 10 |
| Badminton | Tymor | 10 |
| Yr Urdd | Tymor | 20 |

**4.5.2 Cyfleusterau ysgol yn Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig a ddefnyddir gan grwpiau lleol:**

| **Ysgol Talwrn**<br>**Defnyddiwr a chyfleuster** | **Yn ystod y tymor**<br>**ynteu'r gwyliau?** | **Amlder – fesul blwyddyn academaidd** |
|---|---|---|
| Guides | | 9 |
| Clwb Cinio Pensiynwyr | | 15 |
| Hyfforddiant Cyfrifiadurol Pensiynwyr | | 8 |

| **Ysgol y Graig**<br>**Defnyddiwr a chyfleuster** | **Yn ystod y tymor**<br>**ynteu'r gwyliau?** | **Amlder – fesul blwyddyn academaidd** |
|---|---|---|
| Clwb Yoga Dydd Llun | Tymor | 34 |
| Clwb Yoga Dydd Mercher | Tymor | 34 |
| Clwb Judo | Tymor | 34 |
| Eisteddfod Môn (Offerynnol) | Tymor | 1 |
| Pwyllgor yr Urdd (Dalgylch Cefni) | Tymor | 3 |
| Côr Ieuenctid Môn | Tymor | 2 |

**4.5.3 Cyfleusterau lleol a ddefnyddir gan Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig:**

| **Ysgol Talwrn**<br><br>**Gwasanaeth** | **Yn ystod y tymor**<br>**ynteu'r gwyliau?** | **Amlder** |
|---|---|---|
| Neuadd Bentref Talwrn – Disco Santes Dwynwen | Tymor | 1 |
| Capel Talwrn | Tymor | 1 |
| Neuadd Bentref Talwrn – ymarfer Eisteddfod | Gwyliau | 1 |
| Neuadd Bentref Talwrn – Eisteddfod Talwrn | Gwyliau | 1 |
| Neuadd Bentref Talwrn – Ffair Nadolig (Brecwast gyda Siôn Corn) | Tymor | 1 |
| Neuadd Bentref Talwrn – Cyngerdd Nadolig | Tymor | 1 |
| Neuadd Bentref Talwrn – cylch Meithrin – Ffair Nadolig | Tymor | 1 |
| Neuadd Bentref Talwrn – gweithgareddau ar y cyd rhwng yr Ysgol a'r Cylch Meithrin | Tymor | 3 |
| Plas Arthur – Canolfan Hamdden | Tymor | Bob wythnos yn ystod yr Hydref a'r Gwanwyn |
| Clwb Gymnasteg | Tymor | Defnydd wythnosol |
| Oriel Môn | Tymor | 3 |

| Ysgol y Graig<br><br>Gwasanaeth | Yn ystod y tymor<br>ynteu'r gwyliau? | Amlder |
|---|---|---|
| Plas Arthur (Canolfan Hamdden)- Nofio | Tymor | 30 |
| Plas Arthur (Canolfan Hamdden)- Cystadlaethau nofio a chwaraeon | Tymor | 10 |
| Clwb Rygbi Llangefni | Tymor | 2 |
| Clwb Pêl-droed Llangefni | Tymor | 1 |
| Oriel Môn | Tymor | 10 |
| Llyfrgell Llangefni | Tymor | 10 |
| Capel Moreia Llangefni | Tymor | 2 |
| Eglwys Cyngar Sant, Llangefni | Tymor | 1 |
| Archifau Llangefni | Tymor | 2 |

**4.5.4 Cyfleusterau cymunedol wedi eu lleoli ger Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig (gan gynnwys busnesau preifat).**

| Enw'r Cyfleuster / Busnes ger Ysgol Talwrn | Dwyieithog / Cyfrwng Saesneg neu Gyfrwng y Gymraeg | Dyddiad cychwyn |
|---|---|---|
| Siop Bodeilio | Dwyieithog | |
| Cylch Meithrin Talwrn | Cymraeg | |

| Enw'r Cyfleuster / Busnes ger Ysgol y Graig | Dwyieithog / Cyfrwng Saesneg neu Gyfrwng y Gymraeg | Dyddiad cychwyn |
|---|---|---|
| Becws Mefus | Dwyieithog | |
| Cae chwarae | | |
| Capel | Dwyieithog | |
| Capel Lôn y Felin | Cymraeg | |
| Canolfan Gymuned Ebeneser | Dwyieithog | |
| Canolfan Dechrau'n Deg | Dwyieithog | |
| Meithrinfa Medra | Dwyieithog | |
| Coleg Menai (AB) | Dwyieithog | |

**4.5.4 Gweithgareddau cymuned sydd ar gael ger Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig:**

| Enw'r Cyfleuster / Busnes ger Ysgol Talwrn | Dwyieithog / Cyfrwng Saesneg neu Gyfrwng y Gymraeg | Dyddiad cychwyn |
|---|---|---|
| Eisteddfod y Talwrn | Cymraeg | |
| Clwb Gymnasteg | Dwyieithog | |

| Enw'r Cyfleuster / Busnes ger Ysgol y Graig | Dwyieithog / Cyfrwng Saesneg neu Gyfrwng y Gymraeg | Dyddiad cychwyn |
|---|---|---|
| Merched y Wawr | Cymraeg | |
| Slimming World | Dwyieithog | |
| Karate | Dwyieithog | |
| Clwb Rygbi | Dwyieithog | |
| Clwb Pêl-droed | Dwyieithog | |
| Undeb y Merched | Dwyieithog | |
| Dechrau'n Deg (Hyfforddiant rhianta) | Dwyieithog | |

**4.5.5 Gofal plant a gofal cyn ysgol sydd ar gael yn Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig:**

| Ysgol Talwrn | Iaith | Annibynnol o'r ysgol | Lleoliad y Ddarpariaeth | Amlder |
|---|---|---|---|---|
| Clwb Brecwast | Cymraeg | Na | Neuadd yr Ysgol | Bob dydd yn ystod y flwyddyn ysgol |
| Clwb gwarchod boreol | Cymraeg | Na | Neuadd yr Ysgol | Bob dydd yn ystod y flwyddyn ysgol |

| Ysgol y Graig | Iaith | Annibynnol o'r ysgol | Lleoliad y Ddarpariaeth | Amlder |
|---|---|---|---|---|
| Clwb gwarchod boreol | Cymraeg | Na | Neuadd yr Ysgol | Bob dydd yn ystod y flwyddyn ysgol |
| Clwb brecwast | Cymraeg | Na | Neuadd yr Ysgol | Bob dydd yn ystod y flwyddyn ysgol |
| Clwb ar ôl ysgol | Cymraeg | Na | Neuadd yr Ysgol | Bob dydd yn ystod y flwyddyn ysgol |
| Clwb ar ôl ysgol | Cymraeg | Ydy | Adeilad Dechrau'n Deg | Bob dydd yn ystod y flwyddyn ysgol |

Os awdurdodir y cynnig, rhagwelir y byddai rhieni a disgyblion Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig yn cefnogi ac yn ymgysylltu â'r Ysgol y Graig ehangedig. Ni fyddai'r disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim (Ysgol Talwrn 18% ac Ysgol y Graig 27%) yn cael eu trin yn wahanol i'r rhai nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim a byddent yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol yn yr ysgol ehangedig megis y rhai a nodwyd uchod.

Pe gwireddwyd y cynnig, byddai'r ysgol gynradd ehangedig yn Ysgol Gymuned ac felly'n cynnwys neuadd fwy ar gyfer gweithgareddau cymunedol ac ystafell gyfarfod gymunedol. Pe gwireddwyd y cynnig, byddai'r rhan fwyaf os nad pob cyfleuster a gwasanaeth a ddarperir gan Ysgol y Graig yn gallu cael eu darparu gan yr ysgol gynradd ehangedig.

#### 4.5.6 Gweithgareddau cymunedol a gynhelir yn lleol yn Nhalwrn
Mae Cyngor Cymuned Llanddyfnan hefyd wedi darparu manylion o weithgareddau a gynhelir yn lleol, a chyfleusterau a ddefnyddir yn lleol:

Neuadd y pentre

Cae chwarae

Siop y pentre

Merched y wawr

Eisteddfod Talwrn

Guides

Ysgol Feithrin

Bingo

Whist

Capel Methodist

Capel Annibynnwyr

Eglwys Llanffinan

Cyfarfodydd archeoleg

### 4.6 Pellter ac amser teithio
Pe awdurdodir y cynnig, byddai'n golygu mwy o bellter teithio i rai disgyblion. Ar sail y nifer presennol o ddisgyblion ar gofrestr Ysgol Talwrn (Gorffennaf 2019), byddai 33% yn teithio llai i'r safle ysgol arfaethedig a 67% yn gorfod teithio ymhellach. Gan y barnir bod y llwybr rhwng Talwrn a Llangefni ar hyd y B5109 yn ffordd beryglus, byddai'r Awdurdod yn darparu cludiant i'r disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Talwrn, sy'n golygu na fyddent yn debygol o gerdded neu feicio i'r ysgol.

Ym mis Gorffennaf 2019, roedd 20 o ddisgyblion neu 53% o ddisgyblion Ysgol Talwrn yn dod o du allan i'r dalgylch. Mae ffigyrau mis Gorffennaf 2019 yn dangos bod 30 o ddisgyblion neu 9% yn Ysgol y Graig yn dod o du allan i'r dalgylch.

Gan y cynigir y bydd y bloc ysgol newydd (estyniad) yn cael ei leoli llai na milltir oddi wrth adeilad yr ysgol bresennol, bydd disgyblion o'r ysgol yn parhau i allu cerdded i'r bloc cyfnod sylfaen newydd. Mae Asesiad Effaith Traffig ar effaith y bloc arfaethedig newydd ar drefniadau teithio staff a disgyblion wedi ei baratoi.

Oni bai am drafnidiaeth ychwanegol o Dalwrn i'r Ysgol y Graig ehangedig arfaethedig, nid yw'n debygol o gwbl y byddai'r cynnig yn cael effaith ar gludiant cyhoeddus.

Noda Llywodraeth Cymru na ddylai plant oed cynradd orfod teithio am fwy na 45 munud bob ffordd i'r ysgol. Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion cynradd dan 16 oed sy'n byw **2 filltir** neu fwy oddi wrth yr ysgol sydd yn y dalgylch y maent yn byw ynddi. Mae'r un polisi hefyd yn nodi "na ddarperir cludiant i blant meithrin rhan amser."

### *4.7a Ystyriaethau staffio*
*Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, ni fydd unrhyw newidiadau i staff Ysgol y Graig, ond bydd staff Ysgol Talwrn mewn perygl o gael eu diswyddo a byddai'r Polisi Ailstrwythuro a Diswyddo ar gyfer ysgolion a Pholisi Adleoli ar gyfer ysgolion yn cael ei weithredu.*
*Dyma ddolen i'r polisi:*
*https://www.anglesey.gov.uk/statutory-consultation-ysgol-y-graig-and-ysgol-talwrn*

**4.8 Asesiad Effaith Cymunedol**

| Meini Prawf | Arsylwadau | Effaith | Mesurau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| Disgyblion sy'n mynychu'r ysgol o du allan i'r dalgylch | Disgyblion o du allan i'r dalgylch:<br>• Ysgol Talwrn –<br>20 disgybl neu 53%<br>• Ysgol y Graig –<br>30 disgybl neu 9%<br>• (Data Gorffennaf 2019) | Cadarnhaol | Os gwireddir y cynnig, mae'n debyg y byddai dalgylchoedd Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig yn cael eu cyfuno. Yn ôl ffigyrau presennol, golyga hyn y byddai llai o ddisgyblion yn yr ysgol gynradd ehangedig yn dod o du allan i'w dalgylchoedd. |
| Gwasanaethau a ddarperir i'r gymuned gan yr ysgol gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol | Mae'r ddwy ysgol yn darparu nifer o weithgareddau a gwasanaethau. Rhagwelir y byddai'r ddarpariaeth hon yn parhau. Rhagwelir y bydd defnydd cymunedol o'r ysgol arfaethedig ehangedig. | Niwtral | Gan y byddai Ysgol y Graig yn cael ei hehangu i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, bydd gweithgareddau a gwasanaethau a ddarperir o Ysgol y Graig yn parhau i gael eu darparu yn yr Ysgol y Graig ehangedig.<br>Gellir cynnal gwasanaethau a ddarperir i'r gymuned gan Ysgol Talwrn yn neuadd bentref Talwrn fel opsiwn arall. |
| Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol | Defnyddir capel neu eglwys leol gan y ddwy ysgol ac os byddai'r ysgol ehangedig yn cael ei hadeiladu, byddai ei chynulleidfaoedd yn parhau i ddefnyddio'r addoldai hynny. | Niwtral | Os yw Ysgol Talwrn yn cau, efallai bydd cyfle i'r gymuned (Guides, Clwb Cinio Pensiynwyr a hyfforddiant cyfrifiadurol i bensiynwyr) ddefnyddio neuadd bentref Talwrn fel opsiwn arall. |
| Cyfleusterau cymunedol a ddarperir gan yr ysgol a gweithgareddau a gynhelir ar dir yr ysgol | Gan mai ysgolion cymunedol yw Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig, mae'r gymuned yn gwneud cryn dipyn o ddefnydd o adeiladau a thir yr ysgolion. | Niwtral | Gan y bydd Ysgol y Graig yn cael ei hehangu, bydd cyfleusterau a ddarperir gan yr ysgol yn cael eu darparu yn yr ysgol gynradd ehangedig.<br>Gellid ymgymryd â chyfleusterau cymuned a ddarperir gan yr ysgol yn Nhalwrn yn yr Ysgol y Graig ehangedig, neu o safleoedd eraill yn Nhalwrn megis neuadd y dref neu eglwys Talwrn. |
| Effeithiau eraill Cludiant + cyhoedd | Os cymeradwyir y cynnig, bydd rhaid trefnu cludiant i'r ysgol gynradd ehangedig gydag arian yr Awdurdod.<br>Mae'n annhebygol iawn y byddai'r cynnig yn cael effaith ar gludiant gyhoeddus. | Negyddol | Os gwireddir y cynnig, trefnir cludiant i'r ysgol gynradd ehangedig gan yr Awdurdod. |

| Meini Prawf | Arsylwadau | Effaith | Mesurau Lliniaru |
| --- | --- | --- | --- |
| Arall<br>Effaith ar y gymuned | Gallai cau Ysgol Talwrn gael effaith ar ba mor ddeniadol yw'r ardal leol i ddarpar brynwyr tai, yn enwedig y rhai sydd â phlant neu sy'n bwriadu cael plant. Ar y llaw arall, gallai trigolion lleol ystyried cau neu adleoli ysgol i ffwrdd o'r ardal i fod yn beth defnyddiol a gwneud yr ardal fod yn fwy deniadol i brynwyr tai sy'n edrych am ardal fwy tawel. Fodd bynnag, cydnabyddir y posibilrwydd o newid yng nghyfansoddiad preswylwyr dros amser. | Niwtral | Mae gan Dalwrn siop a gaiff ei chynnal gan y gymuned (Siop Bodeilio), neuadd bentref a chapel ar gael i'r holl breswylwyr lleol.<br><br>***Pwynt godwyd gan randdeiliad yn ystod yr ymgynghori Ymateb y Cyngor*** |
| *Pryderon gyflwynwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol* | *Mae cymuned Talwrn yn debygol o heneiddio oherwydd cau'r ysgol.* | *Niwtral* | *Mae'n bosibl y gall oedran cyfartalog poblogaeth Talwrn gynyddu os bydd y cynnig yn dwyn ffrwyth. Yn yr un modd, efallai na fydd yn newid.* |
| | Effaith gyfunol ar y gymuned | **Niwtral** | |

Tudalen 124

**Casgliad – Byddai'r cynnig i weld yn cael effaith niwtral ar y gymuned.**

## 5. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi pwrpas cyffredinol cyfreithiol-rwym o saith Nod Llesiant a phum Ffordd o Weithio sydd wedi'u cynllunio i gefnogi a darparu gwasanaeth cyhoeddus sy'n diwallu anghenion y presennol heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

### 5.1 Sut y mae'r cynnig yn diwallu gofynion ffordd o weithio?

| Ffordd o weithio | Diffiniad | Sut y mae'r cynnig yn cwrdd â gofynion ffordd o weithio |
|---|---|---|
| **Hirdymor** | | |
|  | Pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr gyda'r angen hefyd i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor. | Sicrhau bod addysg yn y gymuned yn cael ei chynnal a sicrhau bod lleoedd digonol mewn ysgolion i gwrdd ag anghenion heddiw a'r dyfodol. Sicrhau bod y sefydliad ysgol yn addas i bwrpas ac yn cydymffurfio â chanllawiau 21ain Ganrif. |
| **Atal** | | |
|  | Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu rhag mynd yn waeth gynorthwyo cyrff cyhoeddus i gwrdd â'u nod | Diogelu dyfodol hirdymor addysg yn yr ardal. |
| **Integreiddio** | | |
|  | Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill | Mae integreiddio cymuned yn ffocws i bob ysgol newydd sy'n creu amgylchedd i gefnogi diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg. Mae darparu lleoedd digonol yn sicrhau y gellir cyflwyno'r cwricwlwm ac mae'n diwallu amcanion cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. |
| **Cydweithio** | | |
|  | Cydweithio ag unrhyw unigolyn arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a all helpu'r corff i gwrdd â'i amcanion llesiant. | Cynyddu cydweithrediad rhwng gwasanaethau a chymunedau i sicrhau bod addysg yn cael ei chyflwyno'n barhaus i bob disgybl. Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys ymgysylltiad ac ymglymiad dwys â disgyblion, staff, Llywodraethwyr a'r gymuned. Bydd hyn yn ymwneud â chydweithredu â rhanddeiliaid yn ystod ac ar ôl y broses ymgynghori i sicrhau dyfodol hirdymor hir i addysg yn yr ardal. Mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion, Estyn, GwE, cynghorau cymuned a nifer o bartneriaid mewnol ac allanol i sicrhau y bydd yr adeilad yn diwallu anghenion tymor byr ac anghenion y dyfodol o ran defnyddwyr a'r gymuned y bydd yn eu gwasanaethu. |
| **Ymglymiad** | | |
|  | Pwysigrwydd ymglymu pobl sydd â diddordeb yng nghyflawniad y nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu. | Mae'r cynnig yn amodol ar ymgynghoriad statudol ffurfiol. Bydd hyn yn galluogi ymglymiad rhanddeiliaid yn y cynnig. |

**5.2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

Er mwyn gwireddu'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion a gan ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) byddwn yn canolbwyntio ar greu cymunedau mwy gwydn ac ymgysylltu â'n cymunedau ar sefydlu partneriaeth leol ac ar gynnwys ein cymunedau yn y cynllunio hirdymor. Drwy ddilyn proses o'r fath, anelwn at alluogi cyflenwyr a chymunedau i ddatblygu gwasanaethau yn ôl yr angen, i annog rhannu adnoddau ac i arwain at wariant mwy effeithlon yn y tymor hir.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithio tuag at gyflawni amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015). Fel dilyniant i'r asesiad llesiant a gynhaliwyd, mae cynllun llesiant wedi'i ddatblygu, sy'n cael ei arwain gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cyd rhwng Gwynedd ac Ynys Môn. Bydd y trefniadau ymgynghori ac ymgysylltu ar gyfer moderneiddio ysgolion yn cael eu cynllunio i ddiwallu anghenion y cynllun.

Mae'r tabl isod yn amlinellu sut y rhagwelir bydd y cynnig i **Gynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn a chau Ysgol Talwrn** yn cyfrannu at y 7 nod llesiant:

| 7 nod llesiant | Sut fydd y cynnig yn cyfrannu at y 7 nod llesiant |
|---|---|
| Llewyrchus | Bydd y prosiect yn sicrhau bod yr Ysgol y Graig ehangedig arfaethedig yn addas i bwrpas ac yn sicrhau y gwireddir capasiti a photensial bob disgybl i lwyddo. |
| Cyfartal | *Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i sicrhau'r gwerth mwyaf posibl o bob punt y mae'r Awdurdod Lleol yn ei gwario, a gellir gwireddu hyn gyda buddion cymunedol. Bydd Manteision Cymunedol yn galluogi pobl i gyrraedd eu potensial. Bydd yr Awdurdod yn ymgorffori buddion cymunedol ym mhob prosiect, gan gynnwys, os caiff ei gymeradwyo, prosiect estynedig Ysgol y Graig. Bydd yr Awdurdod hefyd yn sicrhau cyfle cyfartal beth bynnag yw gallu a chefndir disgybl. Mae sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a gwireddu eu potensial hirdymor yn un o flaenoriaethau pwysicaf yr Awdurdod fel y crybwyllwyd yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir Ynys Môn 2020-2024 a Chynllun y Cyngor 2017-2022.* |
| Cydnerth | Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn bolisi a sefydlwyd ar y cyd â siroedd eraill Gogledd Cymru ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid. Seilir y polisi ar egwyddorion cenedlaethol dros ymgysylltiad cyhoeddus.<br>Os cymeradwyir y cynnig gan y Pwyllgor Gwaith, bydd proses ymgynghori statudol yn cael ei chynnal i gasglu barn y rhanddeiliaid. Yn dilyn yr ymgynghoriad, gellir sefydlu grŵp o randdeiliaid er mwyn cynnal gwaith ar y cyd gyda'r Awdurdod.<br>Bydd hefyd cyfleoedd i blant gyfrannu at y broses.<br>Yn ogystal â hyn, os gwireddir y cynnig, bydd y Corff Llywodraethu'n datblygu cyllideb a strwythur staffio'r ysgol ehangedig arfaethedig. Bydd hefyd yn penderfynu sut i ddarparu addysg i'r holl ddisgyblion a bydd yn gwneud yr ysgol yn fwy gwydn i newidiadau yn nhrosiannau staff yn y dyfodol.<br>Bydd gan yr ysgol ehangedig osodiadau dŵr effeithiol. Bydd yr estyniad arfaethedig ar Ysgol y Graig yn ystyried cyfleoedd tyfu bwyd sy'n cefnogi meysydd ar gyfer bywyd gwyllt ac sy'n hygyrch i bob disgybl, a bydd yn hyrwyddo ac yn cefnogi mentrau ecogyfeillgar megis ysgolion-eco. |
| Iachach | Mae'r Asesiad Effaith Cymunedol sy'n rhan o'r asesiad hwn yn cadarnhau bod yr ysgolion sy'n bodoli eisoes yn Nhalwrn a'r Graig yn gweithredu fel ysgolion cymunedol. |

| 7 nod llesiant | Sut fydd y cynnig yn cyfrannu at y 7 nod llesiant |
|---|---|
| | Yn ogystal â hyn, bydd yr ysgol arfaethedig ehangedig yn cael ei defnyddio fel canolfan gymunedol sy'n hybu cymunedau iachach e.e. drwy gynnig gweithgareddau chwaraeon i aelodau o'r gymuned. Bydd yr Awdurdod yn ymdrechu ei gwneud mor hawdd â phosib i gyrraedd yr ysgol drwy gerdded neu feicio. |
| Cymunedau cydlynus | Fel rhan o'r ymgynghoriad statudol, bydd gan randdeiliaid gyfle i leisio'u barn ac i gynnig sylwadau ar y cynnig i "Gynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, a chau Ysgol Talwrn."<br>Bydd yr Ysgol y Graig ehangedig yn cyfrannu at isadeiledd cymunedol yr ardal. Mae gan y cynnig botensial i ffurfio cymuned newydd o amgylch Talwrn a dalgylch Ysgol y Graig. |
| Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Amgaeir yr Asesiad Effaith Iaith. Mae Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig yn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Bydd y cynnig yn cryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal.<br>Bydd y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn cydweithredu â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn i hybu defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned ac yn cyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.<br>Mae'r Gwasanaeth Dysgu yn adrodd yn chwarterol i Fforwm Iaith y Cyngor Sir ar ddefnydd o'r Gymraeg yn ysgolion yr Awdurdod. Caiff Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) yr Awdurdod ei fonitro'n chwarterol gan Fforwm Iaith y Cyngor Sir. Mae perfformiad Cymraeg y disgyblion yn y ddwy ysgol h.y. y ganran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r safon ofynnol yn dda yn y ddwy ysgol. |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Mae'r rhaglen moderneiddio ysgolion a'r prosiectau cysylltiedig yn cyd-fynd â strategaethau corfforaethol, lleol a chenedlaethol. Mae'r rhaglen wedi gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid a phartneriaid i sicrhau bod y prosiectau'n cael eu cefnogi a bod y cyfeiriad strategol yn cael ei ddeall. Golyga hyn bod rhanddeiliaid yn deall sut y bydd y cynllun arfaethedig yn cynorthwyo i gyflawni nodau busnes, amcanion strategol a chynlluniau'r Awdurdod.<br>Bydd gwelliannau i'n hysgolion yn arwain at welliannau mewn effeithlonrwydd ynni e.e. drwy gynhyrchu trydan gyda phaneli ffotofoltaidd. Bydd hyn hefyd yn arwain at leihad yng nghynhyrchiad carbon deuocsid ac yn cynorthwyo i addysgu'r disgyblion ar sut i ddefnyddio adnoddau naturiol yn ddoeth. |

**6. CASGLIAD**

Aseswyd y cynnig ar ei effaith bosib ar:

- Gydraddoldeb
- Iaith h.y. yr iaith Gymraeg
- Cymuned

Roedd yr effaith a geir ar bob rhan fel a ganlyn:

| **Effaith gyfunol ar:** | **Effaith:** |
|---|---|
| Cydraddoldeb | +2 Cadarnhaol |
| Iaith | +3 Cadarnhaol |
| Cymuned | Niwtral |

Ar ôl ystyried y cynnig (cynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn) o ran ei effaith bosib ar gydraddoldeb, yr iaith Gymraeg a'r gymuned, byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol.

Dangosa'r ddogfen yn Adran 5 sut y mae'r cynnig yn cwrdd â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## 7 – Hawliau Dynol

Hawliau a rhyddid i bob unigolyn yw hawliau dynol, waeth beth yw eu cenedligrwydd na'u dinasyddiaeth. Mae yna 16 o hawliau sylfaenol yn y Ddeddf Hawliau Dynol - oll wedi'u cymryd o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. At bwrpas y Ddeddf, fe gyfeirir atynt fel 'Hawliau'r Confensiwn'. Fe'u rhestrir isod:

(Cyflwyniad yw Erthygl 1 – nid yw wedi'i ymgorffori yn y Ddeddf Hawliau Dynol)
Erthygl 2: Yr hawl i fywyd
Erthygl 3: Gwahardd artaith
Erthygl 4: Gwahardd caethwasiaeth a llafur gorfodol
Erthygl 5: Yr hawl i ryddid a diogelwch
Erthygl 6: Yr hawl i dreial teg
Erthygl 7: Dim cosb heb gyfraith
Erthygl 8: Hawl i barch at fywyd preifat a theuluol
Erthygl 9: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd
Erthygl 10: Rhyddid mynegiant
Erthygl 11: Rhyddid cymdeithasiad ac ymgynnull
Erthygl 12: Yr hawl i briodi
Erthygl 14: Gwahardd gwahaniaethu
Erthygl 1 o Brotocol 1: Diogelu eiddo
Erthygl 2 o Brotocol 1: Hawl i gael addysg
Erthygl 3 o Brotocol 1: Hawl i etholiadau rhydd
Erthygl 1 o Brotocol 13: Diddymu'r gosb eithaf

## 8 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae angen i gyrff cyhoeddus wneud yn siŵr eu bod yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r ddeddf yn pennu saith nod llesiant:

| Nod | Disgrifiad o'r nod |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. |
| **Cymru gydnerth** | Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). |
| **Cymru iachach** | Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** | Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial gwaeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). |

| | |
|---|---|
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. |
| **Cymru â diwylliant bywiog le mae'r Gymraeg yn ffynnu** | Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **17 Rhagfyr 2020** |
| **Pwnc / Testun:** | **Adroddiad ar ganfyddiadau'r Ymgynghoriad Statudol yn Ardal Llangefni -Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir** |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | **Cynghorydd R. Meirion Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **Rhys H Hughes**<br>**Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**E-bost:** | **Carol Sorahan**<br>**carolsorahan@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Cynghorydd Bob Parry**<br>**Cynghorydd Dylan Rees**<br>**Cynghorydd Nicola Roberts** |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau**

**Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cytuno i :**

- **Adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae. (**Gweler rhan 7.4 o Atodiad 1 Adroddiad Ymgynghoriad – Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir).
- Awdurdodi swyddogion i roi'r penderfyniad ar waith cyn gynted â phosibl a nodi bod ei weithredu y tu allan i ddisgwyliadau'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018)
- Awdurdodi swyddogion i ailgyhoeddi'r Asesiad Effaith ar y cynnig fel rhan o asesu effaith barhaus y cynnig ar gydraddoldeb, yr iaith Gymraeg a'r gymuned.

**Cefndir**

Rhwng y 6 Chwefror 2020 a 20 Mawrth 2020 cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ar ddyfodol y ddwy ysgol dan sylw. Awdurdodwyd swyddogion i ymgymryd â'r ymgynghoriad ar ôl i'r Pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith ystyried y 'papur cynnig' ym mis Ionawr, 2020. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar ddiwrnod olaf yr ysgolion cyn i'r cyfnod clo cyntaf ddigwydd o ganlyniad i'r pandemig byd eang a drawsnewidiodd y ddarpariaeth addysg am gyfnod.

Mae'n bwysig nodi bod y Cyngor wedi derbyn llythyr gan Lywodraeth Cymru (Y Gangen Trefniadaeth a Derbyniadau Ysgolion)yn datgan bod Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn rhoi estyniad hyd at 19 o Fawrth 2021 i'r Cyngor gyhoeddi unrhyw gynnig. Mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) drwy gydol y cyfnod pandemig.

Fel rhan o'r ymgynghoriad statudol, cafodd y cynnig gwreiddiol sef **"Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir"** ynghyd â nifer o gynigion eraill eu hystyried mewn manylder .

Rhai enghreifftiau o’r cynigion eraill oedd:

- Ffedereiddio Ysgol Bodffordd gydag Ysgol Corn Hir;
- Cynnal y Meithrin a Blynyddoedd 0-1 yn Ysgol Bodffordd a Blynyddoedd 2-6 yn Ysgol Corn Hir ar gyfer disgyblion y ddwy ysgol;
- Adeiladu llawr arall yn Ysgol Bodffordd.

Cafwyd 823 o ymatebion ar- lein ac ar bapur i’r ymgynghoriad. Derbyniwyd ymatebion hefyd gan Lywodraethwyr, Penaethiaid, Staff a phlant y ddwy ysgol ynghyd ag ymatebion eraill gan fudiadau ac unigolion. (Gweler dadansoddiad manwl o’r ymatebion yn adran 5 o Atodiad 1 - Adroddiad Ymgynghoriad Ardal Llangefni - Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir).

Mae’r adborth sylweddol gan fwyafrif y rhanddeiliaid sy’n gysylltiedig â’r ddwy ysgol yn nodi eu bod yn:

- Cytuno â’r cynnig (gwreiddiol) bod adeilad Ysgol Corn Hir yn rhy fach, a bod angen adeiladu ysgol newydd;
- Cytuno bod angen ysgol newydd ar gyfer Corn Hir, ond cwestiynir pam gwneud hynny ar draul cau Ysgol Bodffordd?

Fel rhan o’r broses, derbyniwyd amryw o fodelau addysgol pellach hefyd gan randdeiliaid lle bu swyddogion yn eu hystyried yn erbyn y meini prawf a gyrwyr y strategaeth moderneiddio ysgolion gyfredol wrth baratoi’r adroddiad ymgynghoriad. (Gweler adran 6.4 o Atodiad 1- Adroddiad Ymgynghoriad Ardal Llangefni -Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir).

Enghreifftiau o’r math o fodelau addysgol pellach a gyflwynwyd :

- Adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Bodffordd ym Modffordd. Byddai hyn yn sicrhau twf parhaus yr ysgol a’r gymuned wrth i’r boblogaeth dyfu;
- Ysgol newydd ar gyfer Corn Hir - moderneiddio / ymestyn Ysgol Bodffordd gydag un ystafell ddosbarth ychwanegol (ar gyfer 30 o ddisgyblion ychwanegol) neu ddwy ystafell ddosbarth ychwanegol (ar gyfer 60 o ddisgyblion ychwanegol);
- Adeiladu Ysgol Bodffordd newydd ym Modffordd gydag Ysgol Corn Hir yn uno â hi ar y safle hwnnw ym Modffordd;
- Adeiladu Ysgol newydd i Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae.

Pam mae’r cynnig wedi newid?

Ystyriwyd yr holl ymatebion a bu dadansoddiad cynhwysfawr o’u gwendidau a’u cryfderau yn erbyn gyrwyr y strategaeth moderneiddio ysgolion sy’n cynnwys :

- gwella safonau addysgol;
- sicrhau bod adeiladau ysgol yn addas i’r diben;
- sicrhau digon o gapasiti yn ardal Llangefni i’r dyfodol;
- cynnal a gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg a ;
- chynyddu defnydd cymunedol o adeiladau ysgol.

Credir mai’r opsiwn amgen rhesymol arall a gynigwyd gan randdeiliad fyddai’r ffordd fwyaf priodol ymlaen sef “**Adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae”.**

Mae’r Cyngor yn credu bod yr opsiwn amgen rhesymol arall hwn o adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae, yn cwrdd â’r mwyafrif o’r heriau allweddol

a wynebir gan Ysgol Bodffordd, fel y trafodir isod ac yn adran 6.5 o Atodiad 1- Adroddiad Ymgynghoriad Ardal Llangefni - Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir .

Byddai hyn felly'n cyfateb i weithredu'r cynnig gwreiddiol yn rhannol, h.y. darparu adeilad newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir, ond nid yw'n golygu cau Ysgol Bodffordd a symud disgyblion Ysgol Bodffordd i'r adeilad ysgol newydd.

Rhesymau

- Safonau yn Ysgol Bodffordd - Mae categori Ysgol Bodffordd wedi gwella o Oren yn 2015 i Felyn (B) yn 2019.
- Cyflwyno'r Cwricwlwm - Mae Ysgol Bodffordd **mewn sefyllfa gref i gydweithredu** ag ysgolion eraill yr ardal leol i gyflwyno'r cwricwlwm.
- Yr Iaith Gymraeg - Gyda 60 o ddisgyblion yn Ysgol Bodffordd (85%) a 138 o ddisgyblion yn Ysgol Corn Hir (61%) yn siarad Cymraeg adref, (CYBLD 2019) mae gan **Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir y potensial i gynnal a datblygu ymhellach y ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg** bresennol.
- Capasiti – mae'r opsiwn amgen rhesymol arall yn diwallu'r anghenion capasiti gwreiddiol oedd dan ystyriaeth fel rhan o'r cynnig gwreiddiol ac mae felly'n **diwallu'r disgwyliad o gynnydd mewn niferoedd plant i'r dyfodol.**
- Trefniadau teithio - Mae'r opsiwn amgen rhesymol arall hwn yn annhebygol o newid trefniadau teithio presennol disgyblion. Mae disgyblion o Fodffordd sydd ar hyn o bryd yn cerdded neu'n beicio i'r ysgol yn debygol o allu parhau i wneud hynny, **heb newidiadau tebygol i'r ôl troed carbon**.
- Canolfan Gymuned Bodffordd - Ni fydd unrhyw newid. O ganlyniad gellir **parhau i ddefnyddio canolfan gymunedol Ysgol Bodffordd fel y gwneir ar hyn o bryd**
- Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) - Yn y Cod, mae Ysgol Bodffordd yn cael ei nodi fel **Ysgol Wledig**, ac o ganlyniad mae'r Cyngor wedi dilyn cyfres fanylach o weithdrefnau a gofynion wrth lunio'r opsiwn amgen rhesymol arall hwn.

**B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?**

Gweler rhan 6.2 o Atodiad 1 Adroddiad Ymgynghoriad – Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir sy'n datgan ba opsiynau amgen rhesymol ystyriwyd gan y Cyngor fel rhan o'r ymgynghoriad .

Hefyd rhan 6.4 o Atodiad 1 Adroddiad Ymgynghoriad – Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir sef, ystyriaeth y Cynor o'r opsiynau amgen rhesymol arall gyflwynwyd gan randdeiliad yn ystod yr ymgynghoriad.

**C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Y Pwyllgor Gwaith sy'n gyfrifol am faterion trefniadaeth ysgolion.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson a'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydyw. Mae'n cadw at ac yn gyson â Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Môn 2018 (a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Gwaith yn Hydref 2018) a Dogfen Gyflenwi Blynyddol 2019/20 (a fabwysiadwyd gan y Cyngor Llawn).

| D – A yw’r penderfyniad hwn oddi fewn i’r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|

Ydyw – yn rhan o Raglen Moderneiddio Ysgolion Band ‘A’.

**Adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir**

Amcangyfrifir mai cost adeiladu ysgol newydd i Ysgol Corn Hir fyddai oddeutu £9-10m. Os cymeradwyir y cynnig, fe’i hariannir 50/50 gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru drwy raglen Band ‘A’ Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Os bydd adeilad presennol Ysgol Corn Hir yn cael ei werthu, rhagdybir y gallai hyn gyfrannu tua £160,000 tuag at gyfraniad y Cyngor.

Ariannir cyfraniad y Cyngor tuag at y prosiect trwy fenthyca digefnogaeth. Rhagdybir y byddai’r ad-daliadau blynyddol yn costio tua £208,000.

Bydd adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir yn golygu y bydd angen i’r Cyngor ychwanegu £36,000 i’r gyllideb ysgolion, oherwydd bydd costau rhedeg yr adeilad newydd tua £36,000 yn uwch. Mae hyn oherwydd cynnydd yng nghostau trethi a chostau glanhau’r adeilad newydd.

Pe bai’r Cyngor yn gwneud dim, rhagdybir y byddai Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd dros eu capasiti ac felly byddai’n rhaid i’r Cyngor dalu i gludo disgyblion i ysgolion gyda llefydd gweigion. Mae’r cynnig hwn yn creu capasiti ychwanegol yn yr ardal, felly ni fydd yn rhaid cludo disgyblion allan o’r dalgylch, ac yn sgil hyn bydd y Cyngor yn osgoi tua £90,000 o gostau cludiant, y byddai wedi eu talu yn y dyfodol pe bai’n gwneud dim.

Felly'r gost net flynyddol i’r Cyngor fyddai tua £154,000 (£208,000 + £36,000 - £90,000)

Bydd y cynnig hefyd yn dileu gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol i’r dyfodol o £234,000 yn Ysgol Corn Hir, ond bydd y costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol i’r dyfodol o £134,000 yn Ysgol Bodffordd yn parhau.

Pe byddai’r Cyngor yn ariannu’r gost o £234,000 drwy fenthyciad digefnogaeth (dros 20 mlynedd), byddai hynny’n costio tua £18,000 y flwyddyn i’w gyllido. Gellir dadlau bod y swm hwn felly’n arbediad.

**Adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgolion Bodffordd a Corn Hir (cynnig gwreiddiol)**

Amcangyfrifir mai cost adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgolion Bodffordd a Corn Hir fyddai oddeutu £9-10m, wedi ei ariannu 50/50 gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru drwy raglen Band ‘A’ Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Pe byddai’r Cyngor wedi parhau hefo’r cynnig gwreiddiol, amcangyfrifir y byddai £320,000 o dderbyniadau cyfalaf i gyfrannu at gyfraniad y Cyngor tuag at ycostau.

Ar ôl cymryd hyn i ystyriaeth, rhagdybir y byddai’r costau i ad-dalu’r benthyciad tua £213,000.

Byddai’r dyraniad cyllideb i’r ysgolion yn lleihau £15,000 (£51,000 yn is na’r cynnig newydd), gan y byddai un adeilad yn llai i’w gynnal a’i gadw.

Byddai costau o tua £70,000 y flwyddyn i gludo disgyblion o ddalgylch Bodffordd i’r Ysgol Corn Hir newydd, gan nad oes llwybr cerdded diogel, felly byddai’r arbediad yn erbyn y pennawd cludiant tua £20,000 (£70,000 yn llai na’r cynnig newydd).

Felly'r gost Net flynyddol i'r Cyngor fyddai tua £178,000 (£213,000 - £15,000 - £20,000).

Byddai'r cynnig hwn wedi dileu gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol i'r dyfodol o £368,000 (Ysgol Bodffordd £134,000 ac Ysgol Corn Hir £234,000). Pe byddai'r Cyngor yn ariannu'r gost o £368,000, drwy fenthyciad digefnogaeth (dros 20 mlynedd), byddai hynny'n costio tua £29,000 y flwyddyn i'w gyllido. Gellir dadlau bod y swm hwn felly'n arbediad.

**Crynodeb**

| | |
|---|---|
| Adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir | Y gost net flynyddol i'r Cyngor fyddai tua £154,000.<br>Dileu gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol i'r dyfodol o £234,000 yn Ysgol Corn Hir, sydd yn cyfateb i arbediad o tua £18,000 y flwyddyn am 20 mlynedd. |
| Adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgolion Bodffordd a Corn Hir (cynnig gwreiddiol) | Y gost net flynyddol i'r Cyngor fyddai tua £178,000.<br>Dileu gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol i'r dyfodol o £368,000 yn Ysgol Bodffordd (£134,000) ac Ysgol Corn Hir (£234,000), sydd yn cyfateb i arbediad o tua £29,000 y flwyddyn am 20 mlynedd. |

Mae Balansau Ysgolion wedi gostwng yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, o £2,089,338 ar 31 Mawrth 2017 i £197,315 ar 31 Mawrth 2020. Ar 31 Mawrth 2017, roedd 4 Ysgol Gynradd ac 1 Ysgol Uwchradd mewn diffyg. Ar 31 Mawrth 2020, roedd 9 Ysgol Gynradd, 3 Ysgol Uwchradd ac 1 Ysgol Arbennig mewn diffyg. Mae Ysgol Bodffordd wedi gorffen y ddwy flwyddyn gyllidol diwethaf mewn sefyllfa ddiffygiol, ond mae wedi dod allan o'r diffyg wrth gydbwyso Cyllideb 2020/21.

| **DD – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys** | Mae'r cynnig yn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor addysg yn rhan o ardal Llangefni ac yn sicrhau bod lleoedd ysgol digonol i gwrdd ag anghenion ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Bydd hefyd yn sicrhau bod cael adeilad newydd i Ysgol Corn Hir yn ffit i bwrpas ac yn cwrdd â safonau BREEAM a safonau Ysgolion 21ain Ganrif. |
| **2** | **A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-** | Ydyw - Cafodd ardal Llangefni ei blaenoriaethu fel rhan o'r rhaglen foderneiddio ysgolion, oherwydd diffyg capasiti ysgolion. Mae unrhyw gynnig i greu capasiti ychwanegol yn debygol o arwain at gostau ychwanegol, ond bydd yr adeilad newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir yn galluogi plant yn y dalgylch i fynd i ysgol leol ar gyfer y dyfodol rhagweladwy.<br><br>Bydd y cynnig yn datblygu adeilad ysgol newydd fydd yn cyfrannu at yr ysgol yn dod yn "Sefydliad sy'n Dysgu" (Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl 2017-2021). |

| DD – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| | | Dylai disgyblion gael budd o brofiadau yn yr ysgol maes o law a fydd yn eu cefnogi i ddod yn oedolion ifanc sy'n:<br>- uchelgeisiol, yn ddysgwyr galluog, yn barod i ddysgu drwy gydol eu bywydau<br>- fentrus, yn gyfranwyr creadigol, yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith<br>- unigolion iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywydau llawn fel aelodau gwerthfawr o'r gymuned.<br><br>Bydd y cynnig yn cael ei ariannu 50/50 gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru trwy'r rhaglen ysgolion yr 21ain ganrif.<br><br>Bydd buddsoddiad y Cyngor trwy fenthyciad 50 mlynedd, wedi'i ariannu'n rhannol trwy'r derbyniadau cyfalaf.<br>Bydd y cynnig yn dileu'r gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol yn y dyfodol yn Ysgol Corn Hir ac yn cyfrannu at arbedion refeniw. |
| **3** | **A ydym wedi bod yn cyd-weithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy-** | Mae'r cydweithrediad sydd wedi digwydd a'r wybodaeth a gafwyd gan Estyn, GwE, Cynghorau Cymunedol a'r Ysgolion wedi bod yn rhan o'r cynnig hwn.<br><br>Mae'r rhanddeiliaid canlynol wedi cael cyfle i gyfrannu yn ystod y broses ymgynghori statudol:<br>• Aelodau Etholedig Lleol<br>• Aelod Seneddol lleol<br>• Aelod lleol y Senedd<br>• Aelodau Rhanbarthol o'r Senedd<br>• GwE<br>• Estyn<br>• Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd<br>• Llywodraeth Cymru<br>• Y Comisiynydd Iaith<br>• Awdurdod Lleol cyfagos<br>• Cynghorau Cymuned a Thref lleol<br>• Undebau dysgu a staff sy'n cynrychioli athrawon a staff eraill yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir<br>• Cylch Meithrin Bodffordd a Corn Hir<br>• Pennaeth Ysgol Gyfun Llangefni<br>• Uwch swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn<br>• Prif swyddog Ieuenctid Cyngor Sir Ynys Môn<br>• Partïon eraill â diddordeb |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'u rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Ydyw- mae'r argymhelliad yn deillio o ymatebion y rhanddeilwyr i'r ymgynghoriad statudol gynhaliwyd rhwng y 6 Chwefror 2020-20 Mawrth 2020.<br>Mae dinasyddion Ynys Môn wedi cael cyfle i wneud sylwadau fel rhan o'r broses yn ystod y cyfnod ymgynghori a nodwyd uchod. |

| DD – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| | | Mae dinasyddion Ynys Môn wedi cael cyfle i roi sylwadau fel rhan o'r broses yn ystod y cyfnod ymgynghori a nodwyd uchod. |
| 5 | **Pa effaith, os o gwbl, y mae'r penderfyniad hwn yn ei chael ar yr agenda cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg** | Bydd yr Awdurdod yn sicrhau cyfleoedd cyfartal i'r holl ddisgyblion a staff gwaeth beth eu gallu a'u cefndir.<br>Mae gan y cynnig y cyfle i gryfhau defnydd o'r iaith Gymraeg yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir ( ar ei safle newydd). Bydd gan adeilad newydd Ysgol Corn Hir ystafell fydd ar gael i'r gymuned, ble gellid cynnal gweithgareddau drwy'r Gymraeg. Rhagwelir hefyd y bydd Ysgol Corn Hir ar ei safle newydd yn gallu cynnig mwy o weithgareddau ar ôl ysgol nad ar y safle presennol ,fydd hefyd yn cryfhau'r defnydd o'r iaith Gymraeg. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif-weithredwr / Uwch Dim Arwain (UDA)** (gorfodol) | Wedi'i ymgorffori yn yr adroddiad hwn. |
| 2 | **Cyllid / Swyddog 151** (gorfodol) | Wedi'i ymgorffori yn yr adroddiad hwn. |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro**(gorfodol) | Wedi'i ymgorffori yn yr adroddiad hwn. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Dylid ymdrin ag unrhyw fater Adnoddau Dynol sy'n codi o'r argymhellion yn unol â phrosesau ymgynghori ac AD eraill cydnabyddedig. |
| 5 | **Eiddo** | Wedi'i ymgorffori yn yr adroddiad hwn. |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth (TG)** | Mae safon yr offer TGCh megis taflunyddion a byrddau gwyn rhyngweithiol yn isel yn y ddwy ysgol, byddai adeilad newydd yn manteisio o is-adeiledd TGCh o safon, ynghyd ag offer clyweled modern sy'n cwrdd â safonau digidol addysg Llywodraeth Cymru - https://hwb.gov.wales/canolfan-cymorth/safonau-digidol-addysg<br><br>Mae'r offer rhwydwaith yn yr ysgolion hyn wedi ei leoli mewn dosbarthiadau a swyddfeydd sy'n amharu ar staff a disgyblion oherwydd y sŵn a gynhyrchir gan yr offer, byddai adeilad newydd yn cynnig gofod diogel i gartrefu'r offer hwn heb amharu ar ddefnyddwyr yr adeilad.<br><br>Byddai adeilad newydd sydd wedi ei geblo i safon CAT6A yn caniatáu cysylltedd gwell.<br><br>Nid yw'r cyflenwad trydan i'r isadeiledd rhwydwaith yn yr ysgolion na lleoliad y cabinetau yn caniatáu defnydd o offer UPS i sicrhau rhediad y systemau creiddiol os oes toriad yn y cyflenwad trydan. Byddai cabinet priodol mewn storfa yn caniatáu gosod UPS addas yn yr ysgol newydd.<br><br>Byddai disgwyl plethu unrhyw ddatblygiad neu newid yng nghyfansoddiad / strwythur ysgolion i mewn i'r cynllun HWB |

| | | |
|---|---|---|
| | | sydd yn grant Llywodraeth Cymru i drawsnewid TGCh mewn ysgolion.<br><br>O bosib gwelwn arbedion yng nghostau cysylltedd a chaledwedd rhwydwaith mewn sefydliad newydd ond mae'r gwrthwyneb hefyd yn bosib, os oes cynnydd yn y defnydd o dechnolegau newydd oherwydd adnoddau'r adeilad, gwelwn alw am gysylltedd cynt sydd yn gost ychwanegol. |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Cofnodion Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gynhaliwyd am 1y.p ar 17 Rhagfyr 2020 i ddilyn. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad 1 - Adroddiad Ymgynghoriad – Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir ac
Asesiad Effaith gan gynnwys Cydraddoldeb, Iaith, Cymuned a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):**

Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.

Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Môn (diwygiedig) – Hydref 2018.

Dogfen Cyflawni'r Cyngor Sir - 2019/20

Llythyr gan Lywodraeth Cymru i Gyngor Sir Ynys Môn dyddiedig 7 Mai 2020 yn rhoi estyniad tan 19 Mawrth 2021 i gyhoeddi unrhyw gynnig.

Dogfen gan Lywodraeth Cymru - Diweddariad Addysg Covid-19 - **Newidiadau i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion mewn ymateb i argyfwng y coronafeirws** (oedd yn rhoi arweiniad ar ymgynghori ar gynigion trefniadaeth ysgolion yn ystod argyfwng y coronafeirws).

# ADRODDIAD YMGYNGHORIAD

## MODERNEIDDIO YSGOLION – ARDAL LLANGEFNI

## Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir

## Canlyniad yr ymgynghoriad a gynhaliwyd o

## 6 Chwefror 2020 hyd at 20 Mawrth 2020

**Ar y cynnig i:**

**“Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir”**

| | |
|---|---|
| **Protocol ar gyfer Siarad cyhoeddus mewn cyfarfodydd Rhithiol o’r Pwyllgorau Sgriwtini** | **Gall y cyhoedd gofrestru eu diddordeb ymlaen llaw gan ddefnyddio'r ffurflen berthnasol, i siarad mewn Cyfarodydd Pwyllgorau Sgriwtini.**<br>**Gweler y Protocol ar gyfer siarad cyhoeddus yng nghyfarfodydd rhithiol y Pwyllgorau Sgriwtini :**<br>**Protocol ar gyfer Siarad Cyhoeddus mewn Cyfarfodydd Rhithiol o’r Pwyllgorau Sgriwtini** |

**Rhagfyr 2020**

**Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English**

**Mae copïau caled o'r adroddiad hwn ar gael ar gais trwy anfon e-bost at ysgolionmon@ynysmon.gov.uk**

## CYNNWYS


**1.CYFLWYNIAD** ........ **3**

**2.DOSBARTHIAD YR ADRODDIAD YMGYNGHORI** ........ **3**

**3.Y CYNNIG** ........ **4**

**3.1 Manylion Arfaethedig yr Ysgol Corn Hir Newydd** ........ 4

**4.TREFNIADAU YMGYNGHORI** ........ **6**

**4.1 Methodoleg** ........ 6

**4.2 Cyfarfodydd Ymgynghori** ........ 7

**4.3 Ymgynghori â Phlant a Phobl Ifanc** ........ 7

**5.YMATEBION A SYLWADAU** ........ **8**

**5.1 Crynodeb o’r ymatebion o’r ffurflen ymateb ar-lein a’r ffurflen bapur** ........ 8

**5.2 Crynodeb o’r sylwadau o’r ffurflen ymateb ar-lein a’r ffurflen bapur** ........ 11

**5.3 Crynodeb o ymatebion a dderbyniwyd drwy e-bost neu’r post** ........ 17

**5.4 Ymateb gan Gymdeithas Yr Iaith** ........ 20

**5.5 Ymateb Corff Llywodraethu Ysgol Bodffordd i’r Cynnig** ........ 24

**5.6 Ymateb Corff Llywodraethu Ysgol Corn Hir i’r Ymgynghoriad** ........ 29

**5.7 Arolwg Dros y Ffôn - Ysgol Bodffordd** ........ 31

**5.8 Ymateb gan Bennaeth Ysgol Bodffordd** ........ 33

**5.9 Ymateb gan Bennaeth Ysgol Corn Hir** ........ 42

**5.10 Ymateb gan Staff Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir** ........ 45

**5.11 Barnau plant a phobl ifanc yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir** ........ 52

**5.12 Ymateb Estyn** ........ 58

**6. SYLWADAU A DDERBYNIWYD MEWN PERTHYNAS Â’R OPSIYNAU AMGEN RHESYMOL A YSTYRIWYD** ........ **61**

**6.1 Heriau Allweddol a Wynebir gan Ysgol Bodffordd** ........ 61

**6.2 Opsiynau Amgen Rhesymol a Ystyriwyd yn Lle Cau Ysgol Bodffordd** ........ 64

**6.3 Rhagdybiaeth yn Erbyn Cau Ysgolion Gwledig** ........ 72

**6.4 Opsiynau Amgen Rhesymol Eraill a Awgrymwyd yn Ystod y Cyfnod Ymgynghori** ........ 76

**6.5 Casgliad – Opsiynau Amgen Rhesymol Eraill** ........ 87

**7.CASGLIAD** ........ **92**

**7.1 Eglurhad o’r asesiad o’r cynnig** ........ 92

**7.2 Ym mha fodd y mae’r asesiad o’r cynnig yn wahanol (os o gwbl) i’r asesiad cynharach** ........ 92

**7.3 Asesiad o unrhyw opsiynau amgen rhesymol eraill** ........ 92

**7.4 Cadarnhad o ran p’un ai i weithredu’r cynnig gwreiddiol (yn llawn neu’n rhannol)** ........ 92

**7.5 Argymhellion i’r Pwyllgor Gwaith** ........ 94

## 1. CYFLWYNIAD

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn ddyletswydd statudol i ddiogelu digon o leoedd addas i blant o fewn ysgolion y sir.

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) i ymgynghori â rhanddeiliaid wrth ystyried cynigion ar gyfer ad-drefnu sy'n cyflawni meini prawf penodol.

Rhwng 6 Chwefror 2020 a 20 Mawrth 2020 cynhaliodd y Cyngor broses ymgynghori statudol mewn perthynas â'r cynnig a ganlyn:

> **"Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir"**

Diben cynnal ymgynghoriad statudol oedd ceisio barnau rhanddeiliaid/partïon â diddordeb am y cynnig.

Bellach mae'r adroddiad hwn ar yr ymgynghoriad yn cynrychioli cyfrifoldebau'r Cyngor yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) i lunio adroddiad i hysbysu rhanddeiliaid/partïon â diddordeb am ganlyniad yr ymgynghoriad statudol trwy:

- Grynhoi pob un o'r materion a godwyd gan randdeiliaid/partïon â diddordeb.
- Ymateb i'r materion drwy roi eglurhad, diwygio'r cynnig neu wrthod y pryderon gyda rhesymau i gefnogi hynny.
- Cyflwyno barn Estyn ar y cynnig, gydag ymateb y Cyngor.
- Mynegi barnau plant a phobl ifanc a effeithir gan y cynnig

Bu oedi cyn cyhoeddi'r adroddiad hwn o ganlyniad i Bandemig y Coronafeirws.

## 2. DOSBARTHIAD YR ADRODDIAD YMGYNGHORI

Cyhoeddwyd yr adroddiad ymgynghoriad ar wefan y Cyngor www.ynysmon.gov.uk ac fe gafodd y rhanddeiliaid/partïon â diddordeb a ganlyn wybod yn uniongyrchol am gyhoeddiad yr adroddiad ymgynghori.

- Staff (Addysgu ac Atodol) Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir
- Llywodraethwyr a Rhieni/Gwarcheidwaid Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir
- Aelodau Etholedig Lleol
- Yr Aelod Seneddol Lleol
- Aelod lleol Senedd Cymru
- Aelodau Rhanbarthol o'r Senedd
- GwE
- Estyn
- Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
- Llywodraeth Cymru
- Comisiynydd yr Iaith Gymraeg
- Awdurdod Lleol Cyfagos
- Cynghorau Tref a Chymuned Lleol
- Undebau llafur addysgu a staff Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir

- Cylch Meithrin Bodffordd a Chorn Hir
- Meithrinfa Blodyn Tatws
- Pennaeth Ysgol Gyfun Llangefni
- Canolfan Addysg y Bont
- Cyngor Sir Ynys Môn – Uwch Swyddogion
- Cyngor Sir Ynys Môn – Prif Swyddog Ieuenctid

## 3. Y CYNNIG

Ymgynghorodd y Cyngor ar y cynnig i **"Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir**"

Byddai'r adeilad ysgol newydd yn cymryd yr holl ddisgyblion o'r Ysgol Corn Hir a'r Ysgol Bodffordd presennol ac yn cwrdd â holl amcangyfrif galw'r dyfodol gan gynnwys darpariaeth feithrin. Byddai Ysgol Bodffordd yn cau.

At ddibenion yr adroddiad hwn, enw'r adeilad ysgol newydd fydd yr Ysgol Corn Hir newydd.

### 3.1 Manylion Arfaethedig yr Ysgol Corn Hir Newydd

Nodir manylion arfaethedig yr Ysgol Corn Hir newydd isod:

| Manylion arfaethedig yr Ysgol Corn Hir newydd | |
|---|---|
| Ystod oedran | 3-11 oed |
| Lleoedd Disgyblion (4-11 oed) | 360 ( 4-11 oed) |
| Lleoedd Meithrin ( 3-4 oed, rhan amser) | 51 |
| Rhif mynediad fesul blwyddyn academaidd | 51 |
| Lleoliad | Tir ger Ystâd Bryn Meurig, Llangefni |
| Categori | Cymunedol |
| Categori Iaith | Cyfrwng Cymraeg |
| Cyfleusterau Arfaethedig | Cyfleuster Ysgol 21ain Ganrif i wireddu'r Cwricwlwm i Gymru (CIG) newydd, gan gynnwys darpariaeth feithrin a chymunedol. |
| Y Gost a Ragwelir ar gyfer y Prosiect | Tua £9-10m, wedi ei ariannu 50/50 drwy gyfalaf y Cyngor a rhaglen ysgolion 21ain ganrif Llywodraeth Cymru. |
| Uned Gofal Plant | Darpariaeth gofal cofleidiol ar gyfer plant 2-4 oed wedi ei hariannu gyda grant o £640k gan Lywodraeth Cymru. |

Cynigir y bydd dyluniad yr Ysgol Corn Hir newydd yn cynnwys:

<u>Uned gofal plant</u>
2 ofod/ystafell ddosbarth gofal plant

<u>Darpariaeth feithrin</u>
1 Ystafell Ddosbarth Meithrin
1 Ystafell Newid i Ddisgyblion ger yr Ystafelloedd Dosbarth Meithrin
1 Set o Doiledau ac Ystafelloedd Cotiau ger yr Ystafelloedd Dosbarth Meithrin
1 Storfa ger yr Ystafelloedd Dosbarth Meithrin

<u>Darpariaeth derbyn</u>
5 Ystafell Ddosbarth Cyfnod Sylfaen
2 Set o Doiledau ac Ystafelloedd Cotiau ger yr Ystafelloedd Dosbarth Derbyn
2 Storfa ger yr Ystafelloedd Dosbarth Derbyn

<u>Darpariaeth Iau</u>
7 Ystafell Ddosbarth Cyfnod Allweddol 2 / 1 Set o Doiledau i'r Disgyblion Iau

<u>Darpariaeth Gyffredinol</u>
1 Neuadd
1 Stiwdio Weithgareddau
1 Ystafell Adnoddau Dysgu
1 Ystafell Adnoddau Dysgu / Gofod Llyfrgell
1 Ystafell Grŵp Anogaeth / Ystafell Ymarfer Cerddoriaeth
1 Ystafell Grŵp Bach Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
2 Ystafell Grŵp Bach
1 Swyddfa Pennaeth
1 Ystafell Staff / Ystafell Waith
1 Swyddfa Gyffredinol
1 Copïwr / Reprograffeg
1 Ystafell Salwch
1 Mynedfa / Derbynfa
1 Ystafell Cefnogaeth Disgyblion
1 Ystafell Archwiliad Meddygol / Therapi AAA
1 Ystafell Gymuned / Storfa a Thoiledau
1 Cegin gyda storfeydd, man arlwyo, ardal glanhau, swyddfa a thoiled
1 Storfa YC a Llwyfan
1 Storfa Glanhawr/Storfa Gyffredinol/Stoc Ganolog
1 Ystafell Gweinydd TG
1 Cyfleuster Hylendid
1 set o Doiledau Staff

Byddai ardaloedd allanol yn cynnwys – cae chwarae, Ardal Gemau Aml-ddefnydd, mannau chwarae caled, mannau chwarae meddal a gardd. Byddai'r mannau chwarae ar gyfer y meithrin a phlant meithrin cyn-ysgol ar wahân. O ganlyniad i gynnwys yr uchod rydym yn cynnig y -

- Byddai gan yr Ysgol Corn Hir newydd ddigon o leoedd i gwrdd â'r galw.
- Byddai'r Ysgol Corn Hir newydd wedi ei hadeiladu'n bwrpasol i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (CIG) newydd.
- Byddai'r Ysgol Corn Hir newydd mewn sefyllfa i gynnal ei graddfeydd Estyn Da a Rhagorol a disgwylir iddi gadw ei statws Gwyrdd (A) sydd gan yr Ysgol Corn Hir bresennol.
- Byddai'r Ysgol Corn Hir newydd yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010
- Byddai lleihad yng nghyfartaledd y gost fesul disgybl yn yr Ysgol Corn Hir newydd
- Yn yr Ysgol Corn Hir newydd, rhagwelir na fyddai gan y Pennaeth ymrwymiad addysgu penodol.
- Byddai adeilad yr Ysgol Corn Hir newydd yn adeilad 21ain ganrif newydd wedi'i ddylunio i fod â chostau cynnal a chadw isel gyda gradd BREEAM Ardderchog.

Mae'r Cyngor yn cynnig darparu cludiant am ddim i ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Bodffordd i'r Ysgol Corn Hir newydd, ar gyfer plant sy'n gymwys yn unol â pholisi cludiant y Cyngor i ysgolion.
Byddai'r Cyngor yn ymrwymo i weithio â'r gymuned ym Modffordd i sicrhau hyfywedd hirdymor y Ganolfan Gymuned bresennol.

Byddai'r Cyngor yn darparu cymorth priodol i ddisgyblion Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Pe bai gan rieni sydd â phlant sy'n ddisgyblion ADY cofrestredig unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r gefnogaeth a gynigir, gellir trefnu cyfarfodydd unigol â'r Rheolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol, E-bost: einirthomas@gwynedd.llyw.cymru, rhif ffôn 01286 679007.

## 4. TREFNIADAU YMGYNGHORI

Ar 20 Ionawr 2020, rhoddodd Pwyllgor Gwaith y Cyngor awdurdod i swyddogion gynnal ymgynghoriad statudol yn unol â'r gofynion a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).

### 4.1 Methodoleg

Cynhaliwyd yr Ymgynghoriad rhwng 6 Chwefror 2020 a 20 Mawrth 2020. Yn ystod y cyfnod hwn, gwahoddwyd rhanddeiliaid/partïon â diddordeb i fynegi eu barnau ar y cynnig i:

**"Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir."**

Roedd dolen i'r ddogfen ymgynghori ar gael i'r holl randdeiliaid/partïon â diddordeb a restrwyd yn adran 2, ac fe gyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori ar wefan y Cyngor.

Roedd y Cyngor wedi codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad drwy rwydweithiau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor. Hefyd, rhoddwyd gwybod i'r ymgyngoreion am y cyfleoedd a ganlyn i ymateb i gynnig yr ymgynghoriad, neu i ofyn cwestiynau, drwy:

- Anfon e-bost at ysgolionmon@ynysmon.gov.uk neu
- Gwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein neu
- Gwblhau'r ffurflen ymateb ar bapur a'i phostio'n ôl at y Rheolwr Rhaglen (Moderneiddion Ysgolion), Gwasanaeth Adnoddau Dynol a Thrawsnewid, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni,LL77 7TW

Roedd copïau caled o'r ddogfen ymgynghori, neu fformatau amgen, ar gael ar gais.

### 4.2 Cyfarfodydd Ymgynghori

Cynhaliwyd y cyfarfodydd/sesiynau a ganlyn i gyflwyno'r dogfennau ymgynghori ac i egluro'r broses ymgynghori i Staff, Llywodraethwyr, Rhieni/Gwarcheidwaid a'r holl bartïon eraill sydd â diddordeb a oedd yn bresennol. Rhoddwyd gwybod i'r mynychwyr am bwysigrwydd ymateb i'r ymgynghoriad fel y disgrifiwyd yn adran 4.1, gan na chymerwyd unrhyw gofnodion ffurfiol yn y cyfarfodydd ymgynghori.

| Dyddiad | Ysgol/Lleoliad | Rhanddeiliaid | Amser |
|---|---|---|---|
| 12 Chwefror 2020 | Ysgol Bodffordd | Staff | 4:00 yh - 5:00 yh |
| | Ysgol Bodffordd | Llywodraethwyr | 5:15 yh - 6:15 yh |
| | Ysgol Bodffordd | Rhieni/ Gwarcheidwaid | 6:30 yh - 7:30 yh |
| **Dyddiad** | **Ysgol/Lleoliad** | **Rhanddeiliaid** | **Amser** |
| 11 Chwefror 2020 | Ysgol Corn Hir | Staff | 4:00 yh - 5:00 yh |
| | Ysgol Corn Hir | Llywodraethwyr | 5:15 yh - 6:15 yh |
| | Ysgol Corn Hir | Rhieni/ Gwarcheidwaid | 6:30 yh - 7:30 yh |

### 4.3 Ymgynghori â Phlant a Phobl Ifanc

Cynhaliwyd y broses ymgynghori gyda Phlant a Phobl Ifanc yn unol ag Adran 3.5 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.

Roedd disgyblion o Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir wedi cymryd rhan yn y broses ymgynghori. Bu swyddogion o'r Cyngor yn cyfarfod â'r ddau Gyngor Ysgol a disgyblion eraill yn ystod y cyfnod ymgynghori. Cyflwynwyd y wybodaeth a ddarparwyd i'r cyfranogwyr mewn modd perthnasol i'w hoedran a'u lefel o ddealltwriaeth, ac yn unol â'r arfer a gytunwyd â'r ddau Bennaeth ymlaen llaw.

Datblygodd y Cyngor ffurflen ymateb A3 oedd yn hawdd i'r plant ei chwblhau . Cwblhaodd y disgyblion y ffurflen ymateb mewn grwpiau, a rhoddwyd y cyfle iddynt siarad yn rhydd a gofyn cwestiynau.

Gellir gweld crynodeb o'r adborth a dderbyniwyd gan y plant a'r bobl ifanc yn adran 5.11 o'r adroddiad hwn.

## 5. YMATEBION A SYLWADAU

Mae’r adran a ganlyn yn crynhoi’r holl ymatebion a sylwadau mewn perthynas â’r ymgynghoriad a dderbyniwyd gan randdeiliaid.

### 5.1 Crynodeb o’r ymatebion o’r ffurflen ymateb ar-lein a’r ffurflen bapur

Derbyniodd y Cyngor y niferoedd o ymatebion a ganlyn i’r ymgynghoriad gan y rhanddeiliaid a ganlyn drwy’r ffurflen ymateb ar-lein a’r ffurflen bapur:

| Categorïau’r Ymatebwyr | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Llywodraethwyr Ysgol | 9 |
| Staff | 35 |
| Rhieni / Gwarcheidwaid | 442 |
| Aelodau Etholedig | 0 |
| Cynghorwyr Tref / Cymuned | 9 |
| Preswylwyr Lleol | 125 |
| Arall e.e. Teidiau a Neiniau | 193 |
| Heb nodi | 10 |
| **Cyfanswm** | **823*** |

*Ymatebodd rhai rhanddeiliaid o dan fwy nag un categori e.e. wedi ymateb fel rhiant a llywodraethwr

| Yr ysgol yr oedd yr ymatebwyr yn gysylltiedig â hi | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Ysgol Bodffordd | 344 (42%) |
| Ysgol Corn Hir | 457(56%) |
| Heb nodi | 22 (2%) |
| **Cyfanswm** | **823** |

**Niferoedd disgwyliedig yr ymatebion:**

Yn Ionawr 2019, roedd 70 o ddisgyblion yn Ysgol Bodffordd a 226 o ddisgyblion yn Ysgol Corn Hir. Rhoddwyd gwybod i'r holl rieni/gwarcheidwaid am y Ddogfen Ymgynghori, a rhoddwyd cyflwyniad ar ei chynnwys a'r broses ymgynghori i'r ddwy ysgol.

Roedd nifer ddisgwyliedig yr ymatebion y rhagwelodd y Cyngor y byddai'n ei derbyn, o ystyried niferoedd presennol y plant yn y ddwy ysgol, fel a ganlyn:

| Ysgol Bodffordd | Ysgol Corn Hir |
|---|---|
| 140 (gan dybio y ceid dau ymateb gan bob aelwyd) | 452 (gan dybio y ceid dau ymateb gan bob aelwyd) |
| 9 o staff | 21 o staff |
| 10 llywodraethwyr ysgol | 14 llywodraethwr ysgol |
| Cyfanswm 159 | Cyfanswm 487 |

O nifer yr ymatebion a dderbyniwyd gan randdeiliaid, mae niferoedd yr ymatebion sy'n gysylltiedig ag Ysgol Bodffordd, sef 344, yn ddwbl y nifer ddisgwyliedig, tra bo nifer yr ymatebion sy'n gysylltiedig ag Ysgol Corn Hir yn unol â'r disgwyliad.

**Ymatebion i'r Cwestiynau ar y ffurflen ymateb ar-lein a'r ffurflen bapur**

| Ymateb i'r cwestiwn "A ydych yn cytuno â'r cynnig i "Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir?" " | |
|---|---|
| YDW – o blaid y cynnig<br>463 (56%) | NAC YDW – yn erbyn y cynnig<br>347(42%) |
| Heb nodi | 13 (2%) |

| Nifer y sylwadau ynghylch y cynnig i "Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir?" " |
|---|
| Derbyniwyd 448 o sylwadau, a grynhoir yn 5.2 isod. |
| Heb ateb 375 |

| Nifer yr opsiynau amgen rhesymol eraill a dderbyniwyd ar gyfer parhad Ysgol Bodffordd sy'n mynd i'r afael â'r heriau allweddol y mae Ysgol Bodffordd yn eu hwynebu? |
|---|
| Derbyniwyd 319 o sylwadau – gweler adran 6.4 o'r adroddiad hwn.<br><br>Ar ôl dadansoddi'r ymatebion, daethom i'r casgliad bod 7 opsiwn amgen rhesymol arall wedi'u hawgrymu. |
| Heb ateb 504 |

| Nifer y materion eraill y dylai'r Cyngor eu hystyried fel rhan o'r Asesiad Effaith |
|---|
| Derbyniwyd 338 o sylwadau – cyfeiriwch at yr Asesiad Effaith yn Atodiad 1. |
| Heb ateb 485 |

### 5.2 Crynodeb o'r sylwadau o'r ffurflen ymateb ar-lein a'r ffurflen bapur

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid mewn perthynas â'r cynnig, a gyflwynwyd drwy ymatebion ar-lein ac ar bapur (y coladwyd hwy i gyd yn ôl themâu) ynghyd ag ymateb y Cyngor yn erbyn bob thema.

| | Thema | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| **5.2.1** | Yn cytuno efo'r cynnig gan fod adeilad Ysgol Corn Hir yn rhy fach. Adeiladu ysgol newydd.<br>*(Awgrymwyd gan tua 137 o randdeiliaid o dros 450 o ymatebion)* | Dyma'r cynnig. |
| **5.2.2** | Yn cytuno bod angen ysgol newydd ar gyfer Corn Hir, ond pam gwneud hynny er anfantais i Ysgol Bodffordd drwy ei chau?<br>*(Awgrymwyd gan tua 63 o randdeiliaid o dros 450 o ymatebion)* | Nododd y Cyngor yn y ddogfen ymgynghori pam fod newid yn angenrheidiol a sut y byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â'r heriau a wynebir gan Ysgol Bodffordd. |
| **5.2.3** | Byddai cau Ysgol Bodffordd yn cael effaith niweidiol ar y gymuned.<br>*(Awgrymwyd gan tua 60 o randdeiliaid o dros 450 o ymatebion)* | Nododd y Cyngor yn y ddogfen ymgynghori, er mwyn lliniaru unrhyw effaith niweidiol ar y gymuned, y byddai eisiau gweithio gyda'r gymuned ym Modffordd i sicrhau hyfywedd hirdymor y Ganolfan Gymuned. |
| **5.2.4** | Byddai cau Ysgol Bodffordd yn cael effaith niweidiol ar y Gymraeg.<br>*(Awgrymwyd gan tua 21 o randdeiliaid o dros 450 o ymatebion)* | Ysgol cyfrwng Cymraeg fydd yr Ysgol Corn Hir newydd. Felly ni fydd unrhyw newid yng nghategori iaith yr Ysgol Corn Hir newydd gan fod Ysgol Bodffordd a'r Ysgol Corn Hir bresennol wedi'u dynodi'n ysgolion cyfrwng Cymraeg.<br><br>Byddai gwireddu'r cynnig yn cefnogi Deilliannau 1, 2 a 5 o Gynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg 2017-2020 y Cyngor (a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ym Mawrth 2018), sef:<br><br>Deilliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.<br>Deilliant 2: Mwy o ddisgyblion yn parhau i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg wrth drosglwyddo o addysg gynradd i'r uwchradd.<br>Deilliant 5: Mwy o ddisgyblion a myfyrwyr â lefel uwch o sgiliau yn y Gymraeg. |

| | Thema | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| | | Mae Fforwm Iaith Gymraeg y Cyngor yn monitro cynnydd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) y Cyngor yn chwarterol.<br><br>Mae Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir hefyd wedi bod yn llwyddiannus wrth weithredu Siarter yr Iaith Gymraeg; disgwylir y bydd yr Ysgol Corn Hir newydd yn adeiladu ar y sylfaen gadarn hon i sicrhau y defnyddir y Gymraeg y tu allan i'r dosbarth.<br><br>Disgwylir hefyd y byddai disgyblion yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol a gynhelir drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| **5.2.5** | Cadw Ysgol Bodffordd ar agor – pam na ellir ymestyn / moderneiddio Ysgol Bodffordd? *(Awgrymwyd gan tua 46 o randdeiliaid o 450 o ymatebion)* | Byddai'r gost o ymestyn Ysgol Bodffordd drwy ychwanegu un neu ddwy ystafell ddosbarth fel a ganlyn:<br><br>I ddarparu **<u>un</u> ystafell ddosbarth ychwanegol** byddai angen estyniad yn Ysgol Bodffordd (90m² ychwanegol ar gyfer 30 o blant gydag ystafell ddosbarth / ystafell gotiau / toiledau). **Cost £738,030.**<br><br>**<u>Dadansoddiad o'r costau</u>**<br>Gwariant Cynnal a Chadw Cyfredol a Rhagamcanol = £150,000. (Cegin, toiledau, maes parcio, ffensys newydd)<br><br>Estyniad 90m² x £2,775/m² (yn seiliedig ar safonau costau presennol cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd (2019), o dan y rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif) = £249,750<br><br>Costau TG a Gosodiadau, Ffitiadau ac Offer ar gyfer estyniad i 30 o blant x £1,776/plentyn (yn seiliedig ar safonau costau presennol cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd (2019), o dan y rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif) = £53,280<br><br>Gwaith adnewyddu i ddod â'r adeilad i safon 21ain Ganrif = £210,000 (Ffenestri a drysau newydd, goleuadau LED, gorffeniadau lloriau, nenfydau, paentio).<br><br>Estyniad i'r man chwarae caled allanol yn dilyn adeiladu'r estyniad = £75,000<br><br>**Nid oes digon o le o fewn y safle presennol i gynnwys estyniad, man parcio, mannau** |

| | Thema | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| | | **chwarae ac addysgol yn yr awyr agored ac i gyflawni'r canllawiau y mae'r rhaglen moderneiddio ysgolion yn gweithredu oddi mewn iddynt. Nid oes unrhyw dir cyfagos ar gael i'w brynu**. Mae gan y safle presennol arwynebedd allanol o 2,578m². Mae Bwletin Adeiladu 103 – Canllawiau Arwynebedd ar gyfer Ysgolion Prif Ffrwd 2014 (sy'n nodi'r arwynebedd ar gyfer adeiladau a safleoedd a fynnir wrth ddylunio ysgolion newydd) yn gofyn am arwynebedd allanol o 2,750m² o leiaf ar gyfer ysgol o'r maint hwn. Byddai estyniad 90m² yn lleihau'r arwynebedd allanol i 2,488m².<br><br>I ddarparu **dwy ystafell ddosbarth ychwanegol newydd** byddai angen estyniad yn Ysgol Bodffordd (estyniad 180m² ychwanegol i 60 o blant gydag ystafelloedd dosbarth / ystafelloedd cotiau / toiledau).<br>**Cost £1,116,060.**<br><br>**<u>Dadansoddiad o'r costau</u>**<br><br>Gwariant Cynnal a Chadw Cyfredol a Rhagamcanol = £150,000. (Cegin, toiledau, maes parcio, ffensys newydd)<br><br>Estyniad 180m² x £2,775/m² (yn seiliedig ar safonau costau presennol cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd (2019), o dan y rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif) = £499,500<br><br>Costau TG a Gosodiadau, Ffitiadau ac Offer ar gyfer estyniad i 60 o blant x £1,776/plentyn (yn seiliedig ar safonau costau presennol cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd (2019), o dan y rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif) = £106,560<br><br>Gwaith adnewyddu i ddod â'r adeilad i safon 21ain Ganrif = £210,000 (Ffenestri a drysau newydd, goleuadau LED, gorffeniadau lloriau, nenfydau, paentio).<br><br>Estyniad i'r man chwarae caled allanol yn dilyn adeiladu'r estyniad = £150,000<br><br>**Nid oes digon o le o fewn y safle presennol i gynnwys estyniad, man parcio, mannau chwarae ac addysgol yn yr awyr agored ac i gyflawni'r canllawiau y mae'r rhaglen moderneiddio ysgolion yn gweithredu oddi** |

| | Thema | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| | | **mewn iddynt. Nid oes unrhyw dir cyfagos ar gael i'w brynu.** Mae gan y safle presennol arwynebedd allanol o 2,578m². Mae Bwletin Adeiladu 103 – Canllawiau Arwynebedd ar gyfer Ysgolion Prif Ffrwd 2014 (sy'n nodi'r arwynebedd ar gyfer adeiladau a safleoedd a fynnir wrth ddylunio ysgolion newydd) yn gofyn am arwynebedd allanol o 2,975m² o leiaf ar gyfer ysgol o'r maint hwn. Byddai estyniad 180m² yn lleihau'r arwynebedd allanol i 2,398m².<br><br>**Felly daw'r Cyngor i'r casgliad nad oes digon o le o fewn safle presennol Ysgol Bodffordd i gynnwys estyniad, man parcio, mannau chwarae a mannau addysgol yn yr awyr agored fel y cynigir o dan y thema hon.** |
| **5.2.6** | Pam na ellir ymestyn Ysgol Corn Hir?<br>*(Awgrymwyd gan tua 5 o randdeiliaid o dros 450 o ymatebion)* | I fynd i'r afael â'r diffyg lleoedd byddai angen estyniad ar gyfer 3 dosbarth yn yr Ysgol Corn Hir bresennol ynghyd â neuadd a thoiledau newydd. (Cynyddu'r capasiti i 300 o ddisgyblion). **Cost £1,558,400**<br><br><u>Dadansoddiad o'r Costau</u><br>Yr arwynebedd a fynnir = 504m² x £2,775 = £1,398,600 (yn seiliedig ar safonau costau presennol cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd (2019), o dan y rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif).<br><br>Costau TG a Gosodiadau, Ffitiadau ac Offer ar gyfer estyniad i 90 o blant x £1,776/plentyn (yn seiliedig ar safonau costau presennol cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd (2019), o dan y rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif) =<br>£159,840<br><br>**Nid oes digon o le o fewn y safle presennol i gynnwys estyniad, man parcio, mannau chwarae ac addysgol yn yr awyr agored ac i gyflawni'r canllawiau y mae'r rhaglen moderneiddio ysgolion yn gweithredu oddi mewn iddynt. Nid oes unrhyw dir cyfagos ar gael i'w brynu.** Mae gan y safle presennol arwynebedd allanol o 5,795m². Mae Bwletin Adeiladu 103 – Canllawiau Arwynebedd ar gyfer Ysgolion Prif Ffrwd 2014 (sy'n nodi'r arwynebedd ar gyfer adeiladau a safleoedd a fynnir wrth ddylunio ysgolion newydd) yn gofyn am arwynebedd allanol o 6,000m² o leiaf ar |

| | Thema | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| | | gyfer ysgol o'r maint hwn. Byddai estyniad o 504m² yn lleihau'r arwynebedd allanol i 5,291m².<br><br>**Daw'r Cyngor i'r casgliad nad oes digon o le o fewn safle presennol Ysgol Corn Hir i gynnwys estyniad, man parcio, mannau chwarae a mannau addysgol yn yr awyr agored fel y cynigir o dan y thema hon.** |
| **5.2.7** | Mae'r cynnig yn annheg i Fodffordd. Byddai'n decach cau'r ddwy ysgol ac adeiladu ysgol newydd i gynnwys disgyblion o'r ddwy.<br>*(Awgrymwyd gan tua 61 o randdeiliaid o dros 450 o ymatebion)* | Yn y ddogfen ymgynghori, rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i adeiladu ysgol 21ain ganrif newydd a chau Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir.<br><br>Gwrthododd y Cyngor yr opsiwn amgen rhesymol hwn gan y:<br>• Gallai bod risg na fydd y safonau da a welir ar hyn o bryd yn yr Ysgol Corn Hir gyfredol yn trosglwyddo i'r Ysgol Corn Hir newydd. (Mae'r Ysgol Corn Hir gyfredol wedi'i chategoreiddio fel Gwyrdd A. (Categori cymorth Gwyrdd, a dyfarniad A am y gallu i wella yn ôl y drefn categoreiddio ysgolion)<br>• Dylid cynnal statws y categori "Gwyrdd A" sy'n cael ei ddal gan yr Ysgol Corn Hir bresennol yn yr ysgol newydd.<br><br>Hefyd, ymatebodd Pennaeth Ysgol Corn Hir i'r ymgynghoriad fel a ganlyn:<br>• Byddai'r cynnig yn diogelu swyddi staff Ysgol Corn Hir, ac yn dileu misoedd o ansicrwydd posib iddynt ynghylch eu cyflogaeth.<br>• Mae'r cynnig hwn yn lleihau'r risg o golli staff yr ysgol os cyflwynir unrhyw gynnig arall. Yn syml, bydd sicrwydd o ran swyddi yn cynnal y tîm sydd wedi llwyddo dros y blynyddoedd i brofi eu bod yn gallu cynnal a pharhau i godi safonau.<br>• Yn ôl y ffigurau a'r rhif mynediad ar gyfer yr ysgol newydd, mae'n debygol y bydd angen staff ychwanegol. Fel ysgol a Chorff Llywodraethu, rydym yn barod i sicrhau cyfleoedd i staff o ysgolion cyfagos a fydd yn cau allu ymgeisio am swyddi yn unol â threfniadau arferol y Cyngor.<br>**Daw'r Cyngor i'r casgliad na fydd yr opsiwn amgen rhesymol hwn yn cael ei ystyried ymhellach gan ei fod wedi'i ystyried eisoes yn y ddogfen ymgynghori ac wedi'i wrthod. Mae'r Cyngor hefyd yn cytuno ag ymateb Ysgol Corn Hir.** |

| | Thema | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| **5.2.8** | Mae rhai disgyblion yn ei chael yn anodd dygymod ag ysgol fawr – byddai ysgol fwy yn golygu y byddai'r berthynas rhwng staff a disgyblion yn dod yn fwy amhersonol.<br>*(Awgrymwyd gan tua 10 o randdeiliaid o dros 450 o ymatebion)* | Mae'r Cyngor wedi agor tair ysgol gynradd newydd ym Môn ers 2017, sef Ysgol Cybi, Ysgol Rhyd y Llan ac Ysgol Santes Dwynwen. Yn eu profiad hwy, nododd y penaethiaid bod disgyblion wedi dygymod yn dda â'r trefniadau newydd.<br><br>Hefyd, ymatebodd Pennaeth Ysgol Corn Hir i'r ymgynghoriad drwy nodi:<br>"Rydym hefyd yn sylweddoli bod disgyblion Ysgol Bodffordd yn wynebu newid sylweddol ac rydym yn llawn werthfawrogi hyn. Mae staff Ysgol Corn Hir eisiau sicrhau trosglwyddiad mor llyfn â phosib i'r plant hyn, ac rydym yn deall y bydd rhaid iddynt addasu i ddulliau newydd a gwahanol.<br>I hwyluso hyn, byddem yn fodlon, gyda chytundeb Ysgol Bodffordd, i sicrhau eu bod yn cael y cyfle i ymuno â disgyblion Ysgol Corn Hir i gymryd rhan yn ein hwythnos weithgareddau flynyddol, mabolgampau, mynd ar dripiau ar y cyd; ac ar lefel staff, sicrhau bod staff o Ysgol Corn Hir yn ymweld ag Ysgol Bodffordd i roi gwersi. Gallai disgyblion o Ysgol Bodffordd hefyd ddod i Ysgol Corn Hir i gael gwersi ar y cyd o bryd i'w gilydd - byddai hyn oll yn sicrhau trosglwyddiad llyfn i bob disgybl o'r ddwy ysgol. Byddem yn edrych i gynnal gweithdai i ddisgyblion gael dod i adnabod ei gilydd, e.e. côr cymysg gyda disgyblion o'r ddwy ysgol." |

**5.3 Crynodeb o ymatebion a dderbyniwyd drwy e-bost neu'r post**

Derbyniwyd saith ymateb i'r ymgynghoriad drwy'r e-bost neu'r post.
Gellir gweld crynodeb o'r sylwadau yn y tabl isod, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

| Ysgol | Crynodeb o ymatebion a dderbyniwyd drwy'r e-bost neu'r post | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| **5.3.1** Bodffordd – Parti a chanddo fuddiant | Yn galw ar y Cyngor Sir i ddiddymu'r cynnig hwn, ac yna ryddhau Ysgol Bodffordd o'r cysgod sy'n cael ei daflu dros ddyfodol addysg yng nghymuned wledig fywiog Bodffordd. | Mae gadael Ysgol Bodffordd fel y mae yn cael ei ystyried o fewn yr opsiynau amgen rhesymol yn adran 6.4.2 |
| **5.3.2** Bodffordd - Rhiant | Rydym, fel erioed, eisiau canfod modd o symud ymlaen i weithio gydag Ysgol Corn Hir. Mae'n bosib canfod datrysiad o ran gweithio gyda'n gilydd, rhannu adnoddau i wella addysg a diogelu adeiladau addas, ond mewn modd sy'n gwneud pawb yn hapus. | Ffederasiwn – mae ysgol aml-safle wedi'i hystyried eisoes gan y Cyngor yn y ddogfen ymgynghori ac wedi'i gwrthod. |
| **5.3.3** Bodffordd - Rhiant | Beth am ddefnyddio'r arian hwn (Ysgolion 21ain Ganrif) i adeiladu estyniad yn Ysgol Bodffordd. Mae digon o le i adnewyddu ac ymestyn yr ysgol i gynnwys hyd yn oed rhagor o blant. Estyniad ar yr iard gefn, lle mae digon o le i greu dwy ystafell ddosbarth newydd. | Nid oes digon o le o fewn y safle presennol i gynnwys estyniad, man parcio, a mannau chwarae a mannau addysgol yn yr awyr agored. Nid oes unrhyw dir cyfagos ar gael i'w brynu. (Gweler 5.2.5) |
| **5.3.4** Bodffordd - Rhiant | Dros flynyddoedd diweddar, rwy'n teimlo nad yw'r Cyngor wedi gwario digon, na rhoi digon o sylw i Ysgol Bodffordd. Mae hyn yn golygu bod ansawdd yr adeilad wedi dirywio'n sylweddol.<br><br>Byddai'n llawer haws i blant Ysgol Bodffordd ddygymod â'r ysgol newydd gyda'u hathrawon presennol yno, ac wyneb cyfarwydd yn eu disgwyl. Pam na ellir diogelu'r swyddi hyn? | Gweler adran 5.5.7 am ymateb manwl. I grynhoi, gellir cymharu'r gwariant cynnal a chadw presennol a rhagamcanol yn Ysgol Bodffordd ag adeiladau ysgolion eraill o faint tebyg. Dengys hyn nad yw Ysgol Bodffordd wedi'i thrin yn llai ffafriol nag ysgolion eraill.<br><br>Os cymeradwyir y cynnig, ni fydd unrhyw newidiadau i staff Ysgol Corn Hir, fodd bynnag bydd staff Ysgol Bodffordd mewn perygl o'u diswyddo, a byddai'r Polisi Ailstrwythuro a Diswyddo ar gyfer ysgolion yn cael ei ddefnyddio.<br>Hefyd, mewn ymateb i'r ymgynghoriad, nododd Corff Llywodraethu Corn Hir |

| Ysgol | Crynodeb o ymatebion a dderbyniwyd drwy'r e-bost neu'r post | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| | | (adran 5.5.3) "Yn yr un modd ag y mae sicrhau cyflogaeth staff Ysgol Corn Hir yn bwysig i'r Corff Llywodraethu, os bydd Ysgol Bodffordd yn cau, yna credwn ei bod yr un mor bwysig, ar y cyfle cyntaf bosib, i gynnig sicrwydd o ran swyddi i staff Ysgol Bodffordd a fydd yn colli eu swyddi. Gan y bydd yr Ysgol Corn Hir newydd yn fwy na'r ysgol bresennol, gall fod angen rhagor o staff. Rydym yn awyddus i weithio gyda'r Awdurdod Lleol i sefydlu strwythur staffio'r ysgol newydd, ac i benodi staff yn ôl y strwythur hwnnw, cyn gynted ag y bo modd. Mae rhoi sicrwydd i staff o ran diogelwch eu swyddi yn flaenoriaeth i'r Corff Llywodraethu yn Ysgol Corn Hir". |
| | Rwy'n mawr obeithio na fydd yr ysgol newydd yn cael ei galw'n Corn Hir Newydd - mae angen cydnabod yn llwyr y bydd dalgylch yr ysgol newydd yn llawer ehangach na dim ond dalgylch presennol Ysgol Corn Hir, a bod angen ymdeimlad o berchnogaeth o'r ysgol newydd gan y gymuned a dalgylch Ysgol Bodffordd. I sicrhau perchnogaeth, mae'n hanfodol cael logo newydd ar gyfer ysgol newydd sy'n ymgorffori'r dalgylch ehangach, ynghyd â gwisg ysgol newydd. | Mater i Gorff Llywodraethu Ysgol Corn Hir fydd hyn. Gweler eu hymateb isod: "Mae Corff Llywodraethu Ysgol Corn Hir yn gwbl ymwybodol nad dim ond dyfodol ein hysgol ni sy'n cael ei drafod yn y papur cynnig. Os bydd y Pwyllgor Gwaith yn penderfynu cau Ysgol Bodffordd yna mae Llywodraethwyr Ysgol Corn Hir wedi trafod a chytuno ei bod yn hanfodol cynnwys llais Ysgol Bodffordd mewn unrhyw benderfyniadau sy'n ymwneud â'r ysgol newydd. Un syniad a drafodwyd oedd addasu aelodaeth Corff Llywodraethu Corn Hir i gynnwys cynrychiolwyr o Gorff Llywodraethu Ysgol Bodffordd ". |

| Ysgol | Crynodeb o ymatebion a dderbyniwyd drwy'r e-bost neu'r post | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| **5.3.5**<br>Bodffordd - Rhiant | Nid yw dibynnu ar dystiolaeth a data o bedair blynedd yn ôl yn adlewyrchiad teg o'r camau sylweddol a wnaed gan staff i godi safonau dros flynyddoedd diweddar.<br><br>Meddyliwch am yr effaith, nid yn unig ar y gymuned a'r pentref, ond ar y plant eu hunain. | Darparwyd data 2019 gan GwE yn y ddogfen ymgynghori.<br><br>Nododd y Cyngor yn y ddogfen ymgynghori, er mwyn lliniaru'r effaith niweidiol ar y gymuned, y byddant eisiau gweithio gyda'r gymuned ym Modffordd i sicrhau hyfywedd hirdymor y Ganolfan Gymuned. |
| **5.3.6**<br>Cadeiryddion llywodraethwyr - Bodffordd, Y Graig a Thalwrn | Cafodd tri chadeirydd y llywodraethwyr gyfarfod â'r Aelod Senedd Lleol, Rhun ap Iorwerth.<br><br>Ymateb yr y cyd yw hwn gan gadeiryddion y tair ysgol oedd yn nodi:<br>• Bod taer angen ysgol newydd ar gyfer Corn Hir.<br>• Yr egwyddor nad oes rhaid cau ysgolion eraill er mwyn i hyn ddigwydd.<br>• Roedd angen ymgynghoriad gwirioneddol dryloyw wrth fynd ati i geisio ymateb amgen.<br>• Rydym yn barod i helpu i ddatblygu syniadau all olygu bod cau ysgolion yn anochel.<br>• Roedd cydymdeimlad â sefyllfa'r Cyngor yn nhermau cyllid a chyfeiriad polisi cenedlaethol. | Bydd eu hymateb yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses benderfynu gyffredinol ac yn cael ei ychwanegu at ymatebion eraill a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn nhermau:<br>• Cytuno bod angen am ysgol newydd ar gyfer Corn Hir (gweler 5.2.1)<br>• Pam fod rhaid adeiladu ysgol newydd er anfantais o ran gorfod cau un arall? (gweler 5.2.2) |

## 5.4 Ymateb gan Gymdeithas Yr Iaith

Yn yr adran hon, ceir crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd gan Gymdeithas yr Iaith mewn ymateb i'r ymgynghoriad, ynghyd ag ymateb y Cyngor lle bo angen.

### 5.4.1 Sylwadau Cymdeithas Yr Iaith

Crynodeb o wrthgynnig gan Grŵp Ymgyrch Addysg Cymdeithas yr Iaith

- Fel mater o frys, Adleoli ac ymestyn Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol mewn ymateb uniongyrchol er mwyn ymateb ar unwaith i ddiffygion amlwg (yn nhermau lle ac adnoddau) safle Corn Hir trwy gynllunio, yn y lle cyntaf, ysgol ag iddi gapasiti ar gyfer hyd at 300 o blant.
- Trafodaeth gynnar â llywodraethwyr Ysgol Gymunedol Bodffordd ynghylch y modd gorau o gynnal gwaith angenrheidiol ar yr adeilad presennol gyda chynnydd rhesymol mewn capasiti, unwaith eto fel rhan o gais i'r Gronfa Ysgolion 21ain Ganrif.
- Comisiynu adroddiad yn ystod y flwyddyn bresennol ar y broses bosib ar gyfer sefydlu Ffederasiwn sy'n cynnwys Corn Hir, Y Graig, Bodffordd, Talwrn ac Ysgol Gyfun Llangefni, gan nodi'r arbedion posib yn nhermau gweinyddu a chaffael fel uned gyfan ar gyfer y ffederasiwn yn ei gyfanrwydd, ynghyd â nodi'r potensial o ran gwella profiadau dysgwyr a chodi safonau academaidd o ganlyniad i gydlynu'r defnydd o'r gronfa gyfan o athrawon ac adnoddau.

**Ymateb y Cyngor**

- Mae'r opsiwn amgen rhesymol o ran adleoli Ysgol Corn Hir yn cael ei ystyried yn adran 6.4.2 o'r adroddiad hwn.
- Mae'r sefyllfa o ran y gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol mewn ymateb i sylwadau Corff Llywodraethu Ysgol Bodffordd yn cael ei hegluro'n fanwl yn adran 5.5.7.
- Mae'r opsiwn amgen rhesymol o ran ffederasiwn i gynnwys yr ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd yn Llangefni wedi'i ystyried yn y ddogfen ymgynghori a'i ddiystyru fel opsiwn amgen anhyfyw.

### 5.4.2 Sylwadau Cymdeithas Yr Iaith

Nid oedd Cyngor Sir Ynys Môn wedi ufuddhau i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (argraffiad 2018) wrth lunio'r cynnig sy'n destun yr ymgynghoriad, sef Cau Ysgol Gymunedol Bodffordd.

- Mae'r Cyngor eisoes wedi torri gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (argraffiad 2018) yn llwyr o ran nad oes rhagdybiaeth o blaid cadw ysgol wledig (yn achos Bodffordd sydd ar y rhestr ffurfiol)
- Nid yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cyn cyflwyno'r Cynnig
- Yn ymarferol, mae'r Cyngor yn rhagdybio yn erbyn creu ffederasiynau
- Nid yw'r Cyngor wedi mynd ati'n gydwybodol i werthuso'r opsiynau amgen i gau'r ysgolion gwledig

**Ymateb y Cyngor**

**Mae'r Cyngor yn gwrthwynebu'n gryf i sylwadau Cymdeithas Yr Iaith fel y dangosir isod:**

- Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn gwneud trefniadau arbennig ar gyfer ysgolion gwledig gan sefydlu rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn eu cau. Mae'r Cod yn nodi "mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gynigwyr ddilyn cyfres fanylach o weithdrefnau a gofynion wrth lunio cynnig i gau ysgol wledig, ac wrth ymgynghori ar benderfyniad ynghylch a ddylid gweithredu cynnig i gau ysgol wledig ac wrth wneud y penderfyniad."
  Mae'r Cyngor yn fodlon ei fod wedi cyflawni gofyniad y cod.
- Yn ôl Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018, nid oes unrhyw ofyn statudol i gynigwyr gynnal ymgynghoriadau anffurfiol. Dilynwyd canllawiau statudol a chyfansoddiadol ar gyfer trafod y papur cynnig yn y Pwyllgor Sgriwtini ar 14 Ionawr 2020, a gan y Pwyllgor Gwaith ar 20 Ionawr 2020.
  Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn nodi: "O bryd i'w gilydd, bydd cynigwyr wedi cynnal ymgynghoriad 'anffurfiol' gyda rhai rhanddeiliaid penodol ynghynt yn y broses o ddatblygu cynigion. **Rhaid peidio ag** ystyried bod ymgynghoriad o'r fath yn disodli unrhyw ran o'r prosesau ymgynghori ffurfiol a amlinellir isod."
  Yn adran 3.3. o'r Cod, mae'n nodi: "Nid yw'n ofynnol i gynigwyr gynnal cyfarfodydd ymgynghori er y bydd amgylchiadau lle y bydd cynigwyr o'r farn y bydd cyfarfod â grwpiau penodol o ymgyngoreion o gymorth mawr wrth ledaenu gwybodaeth ac yn rhoi llwyfan addas i ymgyngoreion leisio eu barn."
  Felly, nid oes angen i'r Cyngor gynnal "ymgynghoriad anffurfiol" cyn cynnal ymgynghoriad "ffurfiol" neu statudol. Ac nid oes angen ychwaith i'r Awdurdod "gynnal cyfarfodydd ymgynghori" ond gwnaed hyn yn y ddwy ysgol i hwyluso lledaenu gwybodaeth a rhoi llwyfan addas i ymgyngoreion gael lleisio eu barn.
- Ar 25 Tachwedd 2019, penderfynodd Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn fel a ganlyn: "cadarnhau'n derfynol y cynnig i ffederaleiddio Ysgol Goronwy Owen ac Ysgol Moelfre", i ffurfio ffederasiwn Gwêl y Glannau. Dechreuodd y ffederasiwn hwn weithredu yn Ionawr 2020. Nid yw'r Awdurdod yn rhagfarnu yn erbyn ffederasiynau, fel y dangosir gan ffederasiwn Gwêl y Glannau.
- Ystyriodd y Cyngor ddeuddeg o opsiynau amgen rhesymol i gau Ysgol Bodffordd, yr aseswyd pob un ohonynt yn erbyn y gyrwyr moderneiddio ysgolion, sef Safonau, Arweinyddiaeth a Rheolaeth, Adeilad Ysgol, Lleoedd Ysgol, Ariannol, Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg a Defnydd Cymunedol.

**5.4.3 Sylwadau Cymdeithas Yr Iaith**

GWENDIDAU AMLWG YNG NGHYNNIG YR AWDURDOD

- Yn ôl rhagamcanion y Cyngor, gallai'r ysgol newydd fod bron yn llawn mewn llai na phum mlynedd o'i hagor - 345 o ddisgyblion erbyn Medi 2026 mewn ysgol ag iddi gapasiti ar gyfer 360. Ac mae'r Cyngor bron yn sicr o fod yn amcangyfrif yn rhy isel nifer bosib y disgyblion pe gwireddir amcanion y Cynllun Datblygu Lleol.
- O fewn yr "anfanteision" o gadw Ysgol Gymunedol Bodffordd, cyfeirir at yr amrywiaeth oedran mewn dosbarth, ynghyd â'r ffaith bod pennaeth yn treulio cyfran o'i amser yn dysgu. Dadleuon generig yw'r rhain yn erbyn POB ysgol wledig neu ysgolion sydd â llai na 100 o ddisgyblion.
- Ceir rhagdybiaeth yn erbyn Bodffordd ac ysgolion gwledig yn y detholiad gofalus o ffeithiau a ddehonglir, e.e. yn adran (6.2) penderfynwyd pwysleisio y bu safonau

academaidd yn is ym Modffordd – yn hytrach na phwysleisio y bu safonau'n codi'n gyson dros 3 blynedd.

- Yn adran 6.3.3 - wrth ddelio â threfniant ffederasiwn rhwng ysgolion Corn Hir a Bodffordd, dim ond y model o ffedereiddio'r ddwy ysgol HEB fuddsoddi mewn adeilad newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir sy'n cael ei ddadansoddi. Wrth gwrs mae'n anfantais peidio â buddsoddi £9miliwn+! Pam nad oes dadansoddiad o fuddion ffedereiddio Ysgol Corn Hir mewn adeilad newydd, gydag Ysgol Gymunedol Bodffordd yn cael ei huwchraddio hefyd.
- Mae'r adrannau sy'n ymwneud ag ymestyn / gwella Ysgol Gymuned Bodffordd yn dangos y gellir cyflawni llawer am gost isel iawn. Ond dylid eu gosod yng nghyd-destun adeilad newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir, ynghyd â chais cyfunol i'r gronfa ysgolion 21ain ganrif er mwyn diogelu digonedd o leoedd ysgol yn yr ardal i'r dyfodol, ac yng nghyd-destun gweithio tuag at ffederasiwn uchelgeisiol a fyddai'n rhesymoli costau gweinyddu a pholisi caffael yn sylweddol. Nid yw hyn yn cael ei drafod o gwbl. Ac nid yw'n amlwg ohono'i hun pam fod cyfeiriad at greu 60 o leoedd ychwanegol yn Ysgol Gymuned Bodffordd - gan y byddai estyniad llawer llai, ac felly llai drud, yn darparu capasiti digonol.

**Ymateb y Cyngor**

- Yn y ddogfen ymgynghori, rhoddodd y Cyngor adroddiad manwl am niferoedd rhagamcanol y disgyblion pe gweithredir y cynnig, ac mae wedi ystyried datblygiadau tai posib i'r dyfodol – fel y cynghorwyd gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (Gwynedd a Môn). Mae'r Cyngor yn fodlon bod yr asesiad yn drylwyr.
- Tra bo'r Cyngor yn cytuno bod gan ysgolion cynradd llai rai ffactorau yn gyffredin, mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud ag Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir.
- Wrth gyfeirio at y safonau yn Ysgol Bodffordd, cynhwysodd y Cyngor wybodaeth categoreiddiad GwE sy'n dangos yn glir y gwelliant o'r categori Oren yn 2015 i Felyn yn 2019. Bu'r safonau cymharol ar gyfer Ysgol Corn Hir yn Wyrdd ers 2015, sy'n dangos y bu'r safonau'n is ym Modffordd dros y 5 mlynedd diwethaf, er y gwelliant a nodwyd dros y 3 blynedd diwethaf.
- Roedd ffurflen ymateb yr ymgynghoriad yn gwahodd rhanddeiliaid i ddarparu opsiynau amgen eraill a fyddai'n mynd i'r afael â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Bodffordd.
  Yn adran 6.4.2 lle rhoddir ystyriaeth i opsiynau amgen eraill, mae'r Cyngor yn ystyried adeilad newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir, a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae. Pe bai'r Pwyllgor Gwaith yn penderfynu gweithredu'r cynnig hwn, yna gellid ystyried y mater o ffedereiddio gan gyrff llywodraethu'r ysgolion yn nes ymlaen.
- Yn adran 6.4.1, rhoddir ystyriaeth i ystafell ddosbarth ychwanegol ar gyfer Ysgol Bodffordd. Fodd bynnag, nid oes digon o le o fewn y safle presennol i gynnwys estyniad, man parcio, a mannau chwarae ac addysgol yn yr awyr agored. Nid oes unrhyw dir cyfagos arall ar gael i'w brynu. Cafodd hyn ei drafod yn fanwl eisoes ym mhwynt 5.2.5, a daethpwyd i'r casgliad nad oes digon o le o fewn safle presennol Ysgol Bodffordd i gynnwys estyniad, man parcio, a mannau chwarae ac addysgol yn yr awyr agored fel y cynigir o dan y thema hon.

### 5.4.4 Casgliad Cymdeithas Yr Iaith

Erys 3 ffaith syml

- Bod taer angen ysgol newydd ar gyfer Corn Hir. Felly nid yw darparu ysgol newydd yn ddibynnol ar gau Ysgol Gymuned Bodffordd.
- Mae'r ffaith bod nifer y disgyblion ym Modffordd yn codi'n gyson, er y bygythiad i ddyfodol yr ysgol ers rhai blynyddoedd, yn dangos cryfder ymlyniad y rhieni a'r gymuned i'r ysgol. Dylid trysori hyn, a'i gynnwys mewn cynllun datblygu a chynnig i'w cyflwyno i weinyddwyr y Gronfa Ysgolion 21ain Ganrif.

**Ymateb y Cyngor i'r casgliad**

- Ystyrir ysgol newydd ar gyfer Corn Hir yn 6.2.2.
- Nododd y Cyngor yn y ddogfen ymgynghori pam fod newid yn angenrheidiol a sut y byddid yn mynd i'r afael â'r heriau a wynebir gan Ysgol Bodffordd yn y cynnig. Nid yw'r Cyngor wedi bod yn gweithio yn ôl yr egwyddor bod rhaid cau Ysgol Bodffordd er mwyn caniatáu adeilad newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir.
- Mae'r Cyngor yn cytuno gyda'r ffaith y bu niferoedd y disgyblion yn codi yn Ysgol Bodffordd. Bu niferoedd y disgyblion yn codi yn Ysgol Corn Hir hefyd, ac yn Ionawr 2019 roedd y ddwy ysgol 11% dros eu capasiti.

## 5.5 Ymateb Corff Llywodraethu Ysgol Bodffordd i'r Cynnig

Yn yr adran hon, cyflwynir y sylwadau llawn a dderbyniwyd gan Lywodraethwyr Ysgol Bodffordd mewn ymateb i'r ymgynghoriad, ynghyd ag ymateb y Cyngor lle bo angen.

### 5.5.1 Ymateb y Corff Llywodraethu

Ein prif ddadl – Rydym yn cefnogi cais Ysgol Corn Hir am ysgol newydd ond nid oes rhaid cyflawni hyn ar draul cau Ysgol Gymuned Bodffordd.

**Ymateb y Cyngor**

Nodir yr ymateb hwn ac fe'i hawgrymwyd gan randdeiliaid eraill hefyd, gweler adran 5.2.2.

### 5.5.2 Ymateb y Corff Llywodraethu

Annhegwch – Mae'r cynnig yn mynd yn groes i 'Ddeddf Cydraddoldeb 2010' ac yn gwbl unochrog ac annheg tuag at Ysgol Gymuned Bodffordd. Os derbynnir y cynnig hwn, mae'n debygol y bydd holl staff dysgu Bodffordd yn colli eu swyddi, bydd Llywodraethwyr yr ysgol yn colli eu swyddi a bydd enw a hunaniaeth ein hysgol yn diflannu.

**Ymateb y Cyngor**

Mae'r Cyngor yn gwrthod yr honiad bod y cynnig yn groes i Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori, pe cymeradwyir y cynnig, bydd staff Ysgol Bodffordd mewn perygl a byddai'r Polisi Ailstrwythuro a Diswyddo ar gyfer ysgolion yn cael ei ddefnyddio.

Y Corff Llywodraethu ar gyfer yr Ysgol Corn Hir newydd fyddai Corff Llywodraethu presennol Ysgol Corn Hir. Bydd y Cyngor yn ystyried naill ai sefydlu grŵp ymgysylltu â rhanddeiliaid neu'n edrych i gyfethol cynrychiolwyr o Ysgol Bodffordd ar Gorff Llywodraethu Ysgol Corn Hir (gyda chytundeb Corff Llywodraethu presennol Ysgol Corn Hir). Bydd materion fel enw'r ysgol ac ati yn rhai i'w hystyried gan Gorff Llywodraethu Ysgol Corn Hir.

Hefyd, mae Corff Llywodraethu Ysgol Corn Hir wedi nodi'r canlynol yn eu hymateb i'r ymgynghoriad, "Os bydd y Pwyllgor Gwaith yn penderfynu cau Ysgol Bodffordd, yna mae Llywodraethwyr Ysgol Corn Hir wedi trafod a chytuno ei bod yn hanfodol cynnwys llais Ysgol Bodffordd mewn unrhyw benderfyniadau ynghylch yr ysgol newydd. Un syniad a drafodwyd yw addasu aelodaeth Corff Llywodraethu Corn Hir i gynnwys cynrychiolwyr o Gorff Llywodraethu Ysgol Bodffordd.

Yn yr un modd ag y mae sicrhau cyflogaeth staff Ysgol Corn Hir yn bwysig i'r Corff Llywodraethu, os bydd Ysgol Bodffordd yn cau, yna credwn ei bod yr un mor bwysig, ar y cyfle cyntaf, i gynnig sicrwydd o ran swyddi i staff Ysgol Bodffordd a fydd yn colli eu swyddi. Gan y bydd yr Ysgol Corn Hir newydd yn fwy na'r ysgol bresennol, efallai y bydd angen mwy o staff. Rydym yn awyddus i weithio gyda'r Awdurdod Lleol i sefydlu strwythur staffio'r ysgol newydd ac i benodi yn ôl y strwythur hwnnw cyn gynted ag y bo modd. Mae rhoi sicrwydd i staff o ran swyddi yn flaenoriaeth i'r Corff Llywodraethu yn Ysgol Corn Hir.

**5.5.3 Ymateb y Corff Llywodraethu**

Pam adleoli? – Wrth gyflwyno'r cynnig hwn, mae'r Cyngor wedi penderfynu 'adleoli' Ysgol Corn Hir ond 'cau' Bodffordd. Dyma'r pedwerydd tro i YGB fynd trwy broses ymgynghori gyda'r Cyngor. Pa effaith a gaiff hyn ar les ein plant, teuluoedd, a'r gymuned a staff yr ysgol? Mae safbwynt negyddol yr agenda, o ran hoelio sylw ar gau, yn groes i 'Ddeddf Lles Plant 2015'.

**Ymateb y Cyngor**

Mae'r Cyngor yn cydymdeimlo o ran effaith y broses ymgynghori ar randdeiliaid. Fodd bynnag, er mwyn cynllinio a datblygu cynigion effeithiol o ran trefniadaeth ysgolion ledled yr ynys ar gyfer y genhedlaeth bresennol o blant a chenedlaethau'r dyfodol, mae'n rhaid i'r Cyngor ymgynghori â rhanddeiliaid er mwyn cadw at y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Mae'n bwysig nodi hefyd, yn ystod y 3 blynedd diwethaf y bu dyfodol yr ysgol dan sylw, ei bod wedi gweld gwelliant mewn safonau, sy'n dangos deilliant cadarnhaol er budd plant. Nodir y pwynt hwn gan Gymdeithas yr Iaith yn ei hymateb i'r ymgynghoriad hwn, ac fe'i hadlewyrchir yn y ddogfen ymgynghori.

**5.5.4 Ymateb y Corff Llywodraethu**

Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 – Mae'r Cyngor yn torri gofynion y cod yn nhermau rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig (Ysgol Gymuned Bodffordd yw rhif 1 ar y rhestr ffurfiol). Mae'r cynnig ei hun yn seiliedig ar ragdybiaeth y dylai ysgol bentref / wledig gau i sicrhau bod problem drefol yn cael ei datrys. Os yw mynd yn groes i god Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg, yn bosib drwy gau YGB, yna nid yw yr un ysgol wledig yng Nghymru'n ddiogel, ac felly mae'r cod hwn yn ddiystyr.

**Ymateb y Cyngor**

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) yn gwneud trefniadau arbennig ar gyfer ysgolion gwledig gan sefydlu rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn eu cau. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddilyn cyfres fanylach o weithdrefnau a gofynion wrth lunio cynnig i gau ysgol wledig, y mae'r Cyngor wedi'i dilyn. Mae'r Cyngor yn gwrthod yr honiad ei fod wedi torri gofynion y cod. Nid yw'r cynnig yn seiliedig ar orfod cau ysgol bentref er mwyn datrys problem drefol, fe'i haseswyd yn unol â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Bodffordd, ac mae'n cyd-fynd â'r gyrwyr o ran Moderneiddio Ysgolion. Mae'r ysgolion yn y rhestr o ysgolion gwledig yn Atodiad F o'r Cod Moderneiddio Ysgolion (011/2018) wedi'u cynnwys yn ôl trefn eu cyfeirnod rhifiadol ac nid yn ôl unrhyw drefn flaenoriaeth. Asesir pob ysgol a restrir yn Atodiad F yn yr un modd.

### 5.5.5 Ymateb y Corff Llywodraethu

Safonau – Mae'r adroddiad yn nodi bod safonau'n uwch yng Nghorn Hir ac felly mai hwn yw'r rheswm am adleoli Ysgol Corn Hir hyn hytrach na'i chau, fel y mae yn achos YGB. Mewn gwirionedd, mae'r safonau hyn yn 'hanesyddol' gan eu bod yn seiliedig ar Adroddiad Estyn yn 2013, ac roedd gan yr ysgol bennaeth gwahanol ar y pryd. Nid ydynt yn gyfredol o gwbl.

**Ymateb y Cyngor**

Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), rhaid i'r Cyngor ddarparu gwybodaeth o adroddiadau mwyaf diweddar Estyn ar gyfer pob ysgol sy'n debygol o gael ei heffeithio. Mae'r Cyngor yn cydnabod mai adroddiadau hanesyddol yw'r rhain, ac o ran hyn, darparodd hefyd wybodaeth o ran categoreiddiad GwE a gyhoeddwyd yn Nhachwedd 2019 ar gyfer Ysgol Bodffordd. Dengys gwybodaeth GwE bod categoreiddiad Ysgol Bodffordd wedi gwella o Oren yn 2015 i Felyn yn 2019, tra bo gwybodaeth Ysgol Corn Hir dros yr un cyfnod amser yn dangos y cyflawnwyd statws Gwyrdd yn gyson.

### 5.5.6 Ymateb y Corff Llywodraethu

Rhoddir i ni giplun hanesyddol arall drwy ddefnyddio hen adroddiadau Estyn. Ers yr arolwg diwethaf, ac yn dilyn y cynnydd a wnaed ar ôl yr arolwg, mae safonau yn YGB wedi datblygu a gwella, ac mae'r capasiti o ran arweinyddiaeth wedi datblygu ac aeddfedu'n sylweddol. Mae ystadegau cyfredol ar gael sy'n adlewyrchu hyn.

**Ymateb y Cyngor**

Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), rhaid i'r Cyngor ddarparu gwybodaeth o adroddiadau mwyaf diweddar Estyn ar gyfer pob ysgol sy'n debygol o gael ei heffeithio. Mae'r Cyngor yn cydnabod mai adroddiadau hanesyddol yw'r rhain, ac o ran hyn, darparodd hefyd wybodaeth o ran categoreiddiad GwE a gyhoeddwyd yn Nhachwedd 2019 ar gyfer Ysgol Bodffordd. Dengys gwybodaeth GwE bod categoreiddiad Ysgol Bodffordd wedi gwella o Oren yn 2015 i Felyn yn 2019.

### 5.5.7 Ymateb y Corff Llywodraethu

Adeilad YGB - Bu diffyg buddsoddiad o ran cynnal a chadw gan y Cyngor mewn blynyddoedd diweddar - ac nid yr ysgol sydd ar fai am hyn. Mae digon o le y tu allan i adeiladu estyniad i greu lle ac i fodloni gofynion Ysgolion 21ain Ganrif.

**Ymateb y Cyngor**

Nid oes gan y Cyngor yr adnoddau ariannol i gynnal 40 o ysgolion cynradd, 5 ysgol uwchradd ac 1 ysgol arbennig i'r lefel a ddymunir yn yr hinsawdd bresennol ac yn dilyn blynyddoedd o gyni.
Mae'r Cyngor yn cynnal arolwg o gyflwr pob ysgol yn flynyddol, a threfnir y gwaith a fynnir ym mhob ysgol yn ôl categorïau (A-D) yn ôl blaenoriaeth y gwaith dan sylw, gan ystyried agweddau fel cyflwr yr ased, ac ystyriaethau o ran iechyd a diogelwch. Bydd gwaith a nodir ar gyfer categorïau D a C yn cael blaenoriaeth, tra na fydd gwaith a nodwyd sy'n dod o fewn categorïau B ac A ond yn cael ei wneud os oes cyllid yn weddill ar ôl cwblhau'r holl waith yng nghategorïau D a C. Cyfanswm y gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol ar gyfer pob ysgol yw tua £22m.

Cyfanswm y gost cynnal a chadw gyfredol a rhagamcanol ar gyfer Ysgol Bodffordd yw £134,000 - tua 0.609% (1/164) o'r cyfanswm.
Mae'r tabl isod yn amlygu'r gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol ar gyfer yr 8 adeilad ym Môn sydd ag arwynebedd o lai na 600m$^2$ (at ddibenion y tabl hwn, nid yw'r gost sy'n gysylltiedig â'r 'Portacabin' yn Ysgol Talwrn wedi'i gynnwys).

| Ysgol | Niferoedd Disgyblion CYBLD 2019 | Arwynebedd | Gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol £ |
|---|---|---|---|
| Bodffordd | 70 | 470 | 134,000 |
| Talwrn | 45 | 302 | 110,500 |
| Carreglefn | 23 | 224 | 46,500 |
| Llanbedrgoch | 24 | 320 | 168,500 |
| Llangoed | 69 | 572 | 114,000 |
| Henblas | 86 | 533 | 138,000 |
| Pencarnisiog | 69 | 575 | 98,000 |
| Rhosybol | 58 | 551 | 96,500 |
| Cyfartaledd | 56 | 443 | 113,250 |

Mae'r ffigurau ar gyfer 'Gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol' a gynhwysir o fewn y tabl hwn yn cynnwys gwariant fel a ganlyn, ond nid yw wedi'i gyfyngu i hyn:

Ailwynebu iardiau ysgol / meysydd parcio
Gwaith ail-baentio mewnol ac allanol
Gosod drysau a ffenestri newydd
Adnewyddu ceginau, ystafelloedd dosbarth, toiledau ac ati
Ffensys, giatiau a systemau mynediad newydd eraill
Gosod goleuadau newydd
Ailweirio
Gosod toeau newydd

Dengys y tabl uchod bod y gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol yn Ysgol Bodffordd yn cymharu ag adeiladau ysgol eraill o faint tebyg. Dengys hyn na chafodd Ysgol Bodffordd ei thrin yn llai ffafriol nag ysgolion eraill.

Mae'r pwynt mewn perthynas â'r lle sydd ar gael i ymestyn yr ysgol bresennol wedi'i drafod yn flaenorol ym mhwynt 5.2.5, a daeth y Cyngor i'r casgliad nad oes digon o le o fewn safle presennol Ysgol Bodffordd i gynnwys estyniad, man parcio, mannau chwarae ac addysgol yn yr awyr agored fel y cynigiwyd gan y Llywodraethwyr.

**5.5.8 Ymateb y Corff Llywodraethu**

Lleoedd Gweigion – Mae Ysgol Gymuned Bodffordd yn boblogaidd iawn ymhlith rhieni ac felly nid oes unrhyw leoedd gweigion yma.
Cyllid a chostau y pen – Mae'r gost y pen ar gyfer yr holl ddisgyblion yn cymharu'n ffafriol â llawer o ysgolion gwledig eraill ledled yr ynys, ac mewn rhai achosion, maent hyd yn oed yn well!

**Ymateb y Cyngor**

Mae'r Cyngor yn cytuno nad oes gan Ysgol Bodffordd unrhyw leoedd gweigion. Mae Ysgol Bodffordd yn 11% dros ei chapasiti.

Er bod y gost fesul disgybl yn Ysgol Bodffordd (£4,274) yn uwch na'r cyfartaledd cynradd ym Môn (£3,988) ar gyfer 2019/20, mae'r Cyngor yn cytuno â'r datganiad bod y gost fesul disgybl yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion gwledig eraill ar yr ynys. Y gost fesul disgybl yn Ysgol Bodffordd yw'r 4 isaf (2019/20) o blith yr 17 ysgol a nodwyd fel ysgolion gwledig o fewn Atodiad F o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).

**5.5.9 Ymateb y Corff Llywodraethu**

Yr effaith ar y Gymraeg – Rhaid cwestiynu asesiad/data'r Cyngor o ran effaith cau ar y Gymraeg. Bydd plant gwledig YGB yn symud a chyfeillachu â phlant trefol lle mai Saesneg a siaredir yn y maes chwarae. Mae'r cynnig wir yn fygythiad i Gymreictod a defnydd disgyblion o'r Gymraeg.

**Ymateb y Cyngor**

Mae'r Cyngor yn anghytuno bod y cynnig yn fygythiad i ddefnydd y disgyblion o'r Gymraeg. Daw 41% o'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Bodffordd o'r tu allan i'r dalgylch. Yn Hydref 2019, nodwyd bod 10% o ddisgyblion Ysgol Bodffordd yn dod o ddalgylch Ysgol Corn Hir, a bod 12% o ddisgyblion Ysgol Bodffordd yn dod o ddalgylch Ysgol Y Graig, sy'n dangos bod disgyblion Ysgol Bodffordd eisoes yn cymysgu efo 'plant trefol' o Langefni.

**5.5.10 Ymateb y Corff Llywodraethu**

Yr Effaith ar y Gymuned – Unwaith eto, a gynhaliwyd asesiad llawn? Ar ba sail y mae'r ymgynghoriad yn cynnig na fydd unrhyw effaith ar y gymuned? Defnyddir y Ganolfan (canolfan gymuned) yn ystod y dydd a gyda'r nos gan y gymuned. Pe byddai'r safle'n cael ei gau, a wnaiff y bobl hyn deithio i sefydliadau eraill yn Llangefni i gynnal gweithgareddau / cyfarfodydd sy'n adlewyrchu gweithgareddau a threftadaeth leol? – Ymateb y bobl leol yw "na". Felly mae'n bwysig ystyried effaith cau YGB ar y Ganolfan a thrigolion Bodffordd a'r cyffiniau. Unwaith eto, mae'r cynnig hwn yn ymateb negyddol i les preswylwyr lleol.

**Ymateb y Cyngor**

Nodir mai dogfennau gweithio yw'r asesiadau effaith. Bydd yr Asesiad Effaith yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd drwy gydol y cyfnod datblygu fel y gall y Cyngor (os bydd risg arall yn codi) fynd ati i sicrhau mesurau lliniaru i oroesi'r risg neu'r mater sydd yn codi mewn partneriaeth gyda'r gymuned leol.
Roedd yr asesiadau i'w cwblhau ar ôl i randdeiliaid gael cyfle i ymateb yn dilyn yr ymgynghoriad. Mae'r Cyngor wedi nodi o'r cychwyn cyntaf, er mwyn lliniaru effaith y posibilrwydd o gau Ysgol Bodffordd, ei fod yn dymuno gweithio gyda chymuned Bodffordd i sicrhau hyfywedd hirdymor Y Ganolfan.

## 5.6 Ymateb Corff Llywodraethu Ysgol Corn Hir i'r Ymgynghoriad

Yn yr adran hon, mae'r sylwadau a dderbyniwyd gan Lywodraethwyr Ysgol Corn Hir mewn ymateb i'r ymgynghoriad yn cael eu cyflwyno'n llawn ynghyd ag ymateb y Cyngor lle bo angen.

### 5.6.1 Corff Llywodraethu Ysgol Corn Hir

Mae Corff Llywodraethu Ysgol Corn Hir yn cefnogi'r cynnig i:

*'Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir'*

Mae'r Corff Llywodraethu wedi astudio'r 'Papur Cynnig' yn fanwl ac wedi rhoi ystyriaeth o ddifrif i'r 11 opsiwn amgen rhesymol ar gyfer yr ysgol a restrir yn y papur. Mae'r Corff Llywodraethu'n ystyried nad yw'r un o'r opsiynau amgen a gynigir yn darparu canlyniad gwell i'r plant, yr athrawon, a chymuned ehangach Ysgol Corn Hir na'r cynnig uchod. Mae'r rhesymau a restrir isod yn egluro pam.

Bydd y cynnig uchod yn:

- Sicrhau y caiff yr holl blant yr adeilad newydd, modern y maent yn ei haeddu, ar safle addas newydd gydag ystafelloedd dosbarth o faint digonol a chyfleusterau addas ar eu cyfer hwy a chenedlaethau'r dyfodol.
- Diogelu'r safonau uchel o ran addysgu a dysgu yn Ysgol Corn Hir.
- Diogelu swyddi staff Ysgol Corn Hir, a dileu misoedd o ansicrwydd posib iddynt o ran eu cyflogaeth.
- Darparu sicrwydd i blant a rhieni Ysgol Corn Hir y bydd y trefniadau addysgu presennol yn parhau yn y dyfodol ac yn sicrhau trosglwyddiad llyfn i'r disgyblion o'r hen ysgol i'r ysgol newydd. Yr unig newid iddynt hwy fyddai'r safle a'r adeilad newydd.
- Sicrhau na fydd blynyddoedd o waith caled staff yr ysgol i wneud Corn Hir yn ysgol lwyddiannus yn mynd yn ofer. Gall y staff barhau i adeiladu ar eu gwaith a gallant edrych ymlaen at weithio mewn adeilad modern a fydd yn hwyluso yn hytrach na rhwystro eu gwaith.
- Sicrhau y gall Ysgol Corn Hir fodloni gofynion y Cwricwlwm newydd ac na fydd yr adeilad yn rhwystro hyn.
- Caniatáu i'r Tîm Arweinyddiaeth gynllunio i'r dyfodol gyda sicrwydd.

Mae Corff Llywodraethu Ysgol Corn Hir yn gwbl ymwybodol nad dim ond dyfodol ein hysgol ni a drafodir yn y papur cynnig. Os bydd y Pwyllgor Gwaith yn penderfynu cau Ysgol Bodffordd, yna mae Llywodraethwyr Ysgol Corn Hir wedi trafod a chytuno ei bod yn hanfodol cynnwys llais Ysgol Bodffordd mewn unrhyw benderfyniadau ynghylch yr ysgol newydd. Un syniad a drafodwyd yw addasu aelodaeth Corff Llywodraethu Corn Hir i gynnwys cynrychiolwyr o Gorff Llywodraethu Ysgol Bodffordd.

Yn yr un modd ag y mae sicrhau cyflogaeth staff Ysgol Corn Hir yn bwysig i'r Corff Llywodraethu, os bydd Ysgol Bodffordd yn cau, yna credwn ei bod yr un mor bwysig, ar y cyfle cyntaf, i gynnig sicrwydd o ran swyddi i staff Ysgol Bodffordd a fydd yn colli eu swyddi. Gan y bydd yr Ysgol Corn Hir newydd yn fwy na'r ysgol bresennol, efallai y bydd angen mwy o staff. Rydym yn awyddus i weithio gyda'r Awdurdod Lleol i sefydlu strwythur staffio'r ysgol newydd ac i benodi yn ôl y strwythur hwnnw cyn gynted ag y bo modd. Mae rhoi sicrwydd i staff o ran swyddi yn flaenoriaeth i'r Corff Llywodraethu yn Ysgol Corn Hir.

I gloi ein hymateb i'r ymgynghoriad, hoffwn atgoffa Aelodau'r Pwyllgor Gwaith o ddifrifoldeb yr amgylchiadau sy'n wynebu Plant a Staff Ysgol Corn Hir. Mae'r cynnydd yn niferoedd y disgyblion dros y saith mlynedd diwethaf wedi gorlenwi adeilad yr ysgol. Bydd y cynnydd pellach yn niferoedd y disgyblion a ddisgwylir dros yr ychydig flynyddoedd nesaf yn gwneud gwaith y staff yn amhosib. Heb ddatrysiad, bydd yn effeithio safonau addysgu a dysgu ac yn rhoi iechyd a diogelwch pawb sy'n defnyddio'r adeilad mewn perygl. Gofynnwn i'r Aelodau am eu cymorth ac i gefnogi'r cynnig i adeiladu Ysgol Corn Hir newydd. Mae hwn yn gyfle prin i ddiogelu buddsoddiad ac adnodd arbennig a fydd yn gwasanaethu'r gymuned leol ac Ynys Môn am ddegawdau i ddod.

### 5.6.2 Ymateb y Cyngor

Mae'r Cyngor yn cytuno gyda Chorff Llywodraethu Ysgol Corn Hir y gallai'r cynnig ddatrys yr heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Corn Hir yn nhermau:

- Mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael – bydd gan yr Ysgol Corn Hir newydd ddigon o leoedd i gwrdd â'r galw.
- Lle cyfyngedig i gyflwyno'r cwricwlwm newydd – bydd yr Ysgol Corn Hir newydd wedi'i hadeiladu'n bwrpasol i gyflwyno'r cwricwlwm newydd.
- Cyflwr adeilad yr ysgol ac iechyd a diogelwch a lles pawb sy'n ei mynychu.
- Perygl o fethu cynnal safonau uchel yn y safle presennol.

## 5.7 Arolwg Dros y Ffôn - Ysgol Bodffordd

Cynhaliwyd arolwg dros y ffôn gan Is-gadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Gymuned Bodffordd (Y.G.B.) a chyflwynwyd y canfyddiadau isod i'r Cyngor eu hystyried fel ymateb i'r ymgynghoriad.

### 5.7.1 Methodoleg yr Arolwg Ffôn

Roedd cyfanswm o 50 set o rieni wedi dychwelyd ffurflenni caniatâd yn rhoi caniatâd i gysylltu â hwy o fewn y cyfnod amser oedd ar gael. Cysylltwyd â 47. Anogwyd yr holl rieni y cysylltwyd â hwy i fynegi eu barnau'n rhydd, a rhoddwyd sicrwydd iddynt y byddai eu sylwadau'n cael eu cyflwyno'n ddienw. Mae'r 47 o rieni y cysylltwyd â hwy yn cynrychioli 64 o'r plant sy'n mynychu Y.G.B. Cyfanswm nifer y plant sy'n mynychu'r ysgol yw 70.

### 5.7.2 Canlyniadau'r Arolwg Ffôn

**1.** ***Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig yn y ddogfen ymgynghori?***

***(a) Ydw (b) Nac ydw (c) Ddim yn gwybod***

Dywedodd cyfanswm o 42 (89%) o rieni eu bod yn anghytuno â'r cynnig. Roedd 4 o rieni'n cytuno â'r cynnig ac 1 wedi ateb "ddim yn gwybod".

**2.** ***Pa mor fodlon ydych chi gyda safon yr addysgu a dderbynnir gan eich plentyn yn yr ysgol?***

***(a) bodlon iawn (b) bodlon (c) ddim yn fodlon na'n anfodlon (d) anfodlon (e) anfodlon iawn.***

Dywedodd cyfanswm o 39 o rieni (83%) eu bod yn "fodlon iawn" â safon yr addysgu a dderbyniwyd gan eu plant yn yr ysgol. Atebodd 3 eu bod yn "fodlon", 2 oedd "ddim yn fodlon na'n anfodlon", 2 yn "anfodlon" ac 1 yn "anfodlon iawn".

**3.** ***Pe bai'r ysgol yn cau, i le ydych yn debygol o anfon eich plentyn/plant wedyn?***

Cafwyd ystod o ymatebion i'r cwestiwn. O'r ymatebion, dywedodd cyfanswm o 18 (38%) eu bod yn debygol o anfon eu plant i'r Ysgol Corn Hir newydd (er yn anfodlon mewn sawl achos). Fodd bynnag, dywedodd 11 (23%) eu bod yn debygol o anfon eu plant i ysgolion eraill, e.e. Henblas, Gwalchmai, Llanerchymedd. Dywedodd 14 (30%) eu bod yn ansicr neu heb benderfynu, a dywedodd 4 (9%) nad oedd y sefyllfa'n berthnasol gan y byddai eu plentyn eisoes wedi symud i addysg uwchradd erbyn yr adeg y byddai'r ysgol newydd yn barod.

***4. Daw'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned i'r casgliad "Ymddengys y caiff y cynnig effaith niwtral ar y gymuned". Ydych chi'n: (a) Cytuno (b) Anghytuno (c) Ddim yn gwybod***

Roedd cyfanswm o 43 o rieni (91.5 %) yn anghytuno â'r casgliad y byddai'r cynnig yn cael "effaith niwtral ar y gymuned". Roedd 3 yn cytuno â'r casgliad ac 1 ddim yn gwybod.

Mae'r canlynol yn giplun o'r sylwadau a dderbyniwyd gan y rheiny a oedd yn anghytuno:

"Y ganolfan gymuned yw calon bywyd y pentref ac mae'n sownd i'r ysgol felly dwi ddim yn gweld sut y gallan nhw ddweud y byddai'r effaith yn niwtral pe bai'r ysgol yn cau".

"Yn anghytuno'n gryf – yr ysgol ydi calon y gymuned".

"Maen nhw'n byw mewn byd ffantasi os mai dyna beth maen nhw'n ei feddwl".

"Mae'n chwerthinllyd dweud y byddai'r effaith yn niwtral".

"Mae'n mynd i ladd y gymuned os bydd yr ysgol yn cau".

"Mi fydd y pentref fel pentref anghyfannedd os bydd yr ysgol yn cau".

"Yr unig reswm dwi'n adnabod rhieni yn y pentref ydi trwy'r ysgol".

"Dwi'n anghytuno'n llwyr gyda hynny, does dim byd ar ôl ym Modffordd ar ôl cau'r ysgol".

**5.7.3 Ymateb y Cyngor**

Bydd yr adborth gan y rhieni o'r arolwg hwn, fel yr amlygwyd uchod, yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses benderfynu gyffredinol, ac yn cael ei ychwanegu at yr ymatebion eraill a dderbyniwyd yn nhermau cytuno gyda'r cynnig, safon yr addysgu, lle bydd plant Ysgol Bodffordd yn debygol o fynychu os bydd yr ysgol yn cau, ynghyd â'r effaith ar y gymuned.

## 5.8 Ymateb gan Bennaeth Ysgol Bodffordd

Yn yr adran hon, cyflwynir ymateb llawn Pennaeth Ysgol Bodffordd i'r ymgynghoriad, ynghyd ag ymateb y Cyngor lle bo angen.

Cyflwynodd Pennaeth Ysgol Bodffordd ei ymateb mewn ymateb i'r cwestiwn a ganlyn ar y ffurflen ymateb:

***C: A ydych yn dymuno gwneud unrhyw sylwadau ynglŷn â'r cynnig i "Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir"?***

### 5.8.1 Ymateb y Pennaeth

Mae'n eithriadol o siomedig nad yw enw llawn Ysgol Gymuned Bodffordd (YGB) yn cael ei defnyddio wrth gyfeirio ati ledled y ddogfennaeth ymgynghori. Ystyriwn mai diffyg yw hyn wrth ysgrifennu'r ddogfennaeth ac mae'n dangos diffyg parch tuag at yr ardal, ei threftadaeth a'i hanes. Mae gan YGB gefnogaeth lawn a llwyr ei rhieni, ei theuluoedd a'i disgyblion. Mae'r ysgol yn fawr ei pharch. Mae'r gefnogaeth i'w gweithgareddau'n ardderchog, ac mae gan yr ysgol statws o fewn ei chymuned.

**Ymateb y Cyngor**

O dan Adran 20 o'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, newidiwyd categoreiddiadau ysgolion oedd yn golygu y daeth y mwyafrif o ysgolion cynradd ar Ynys Môn i fod yn ysgolion cymuned, gan gynnwys Ysgol Bodffordd. Gan fod mwyafrif yr ysgolion cynradd yn ysgolion cymuned, nid yw'r term Cymuned yn enw'r ysgol yn cael ei ddefnyddio fel arfer yn nogfennaeth y Cyngor (e.e. yn Llawlyfr Gwybodaeth i Rieni 202/2021). Nid yw hyn mewn unrhyw fodd yn dangos diffyg parch tuag at Fodffordd, ei dreftadaeth neu'r gymuned.

### 5.8.2 Ymateb y Pennaeth

Mae'r cynnig cyfan yn seiliedig ar RAGDYBIAETH i gau YGB fel ysgol wledig. Mae hefyd yn diystyru gwerth, statws, profiad a hygrededd holl staff YGB. Nid yw'r cynnig na'r modd o gynnal yr ymgynghoriad yn dda o gwbl i les ac iechyd meddwl staff, rhieni a thrigolion Bodffordd. Mae'r rhagdybiaeth i gau'r ysgol yn negyddol, yn ailadroddus ac yn parhau i anwybyddu barnau, safbwyntiau a lleisiau pobl leol. Gallaf eich sicrhau bod gweithredoedd y Cyngor, ymateb uwch swyddogion a rhai cynghorwyr yn cael effaith ar iechyd meddwl ac yn amlygu pryderon staff, disgyblion, rhieni, ac yn wir, trigolion y pentref.

Er hyn, mae staff YGB yn brofiadol ac yn bwyllog o ran eu dulliau o feithrin a hyrwyddo ethos o gydweithredu. Ychydig iawn o achosion o gwynion ac anfodlonrwydd a geir ymhlith rhieni o ran beth mae YGB yn ei wneud. Mae bob ysgol a phennaeth yn wynebu heriau y mae'n rhaid delio â hwy o bryd i'w gilydd, ond mae yma wydnwch a sensitifrwydd o ran y modd yr ydym yn delio â materion sy'n codi o fewn YGB.

**Ymateb y Cyngor**

Mae’r Cyngor yn anghytuno bod y cynnig yn seiliedig ar y rhagdybiaeth i gau Ysgol Bodffordd. Ffurfiwyd y cynnig ar sail yr heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Bodffordd, sy’n cyd-fynd â’r gyrwyr newid o ran Moderneiddio Ysgolion.

Mae’r Cyngor yn cydymdeimlo o ran effaith y broses ymgynghori ar randdeiliaid. Fodd bynnag, er mwyn cynllunio a datblygu cynigion effeithiol ar gyfer trefniadaeth ysgolion ledled yr ynys ar ar gyfer y genhedlaeth bresennol o blant a chendelaethau’r dyfodol , rhaid i’r Cyngor ymgynghori â rhanddeiliaid er mwyn cadw at y Cod Trefniadaeth Ysgolion.

**5.8.3 Ymateb y Pennaeth**

Nid yw’r data a ddefnyddir i gymharu YGB ac YCH yn gyfredol na’n gyfoes. Data hanesyddol yw’r data a’r wybodaeth a ddefnyddir. Ni ddylid seilio barn ar ddata sydd bellach yn hen ac nad yw’n adlewyrchu’r sefyllfa bresennol. Arolygwyd YGB 5 mlynedd yn ôl, ac ers hynny cafodd sawl adroddiad cadarnhaol iawn ei gyflwyno gan GwE ac Estyn. Nid yw Ysgol Corn Hir wedi cael arolwg o dan y Pennaeth presennol. Arolygwyd yr ysgol honno 7 mlynedd yn ôl.

**Ymateb y Cyngor**

Yn unol â’r Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), rhaid i’r Cyngor ddarparu gwybodaeth o adroddiadau mwyaf diweddar Estyn ar gyfer pob ysgol sy’n debygol o gael ei heffeithio. Yr adroddiadau mwyaf diweddar oedd ar gael oedd y rheiny ar gyfer Ysgol Bodffordd (Mehefin 2015) ac Ysgol Corn Hir (Mai 2013). Mae’r Cyngor yn cydnabod mai adroddiadau hanesyddol yw’r rhain, ac yn hyn o beth darparodd wybodaeth categoreiddiad GwE a gyflwynwyd yn Nhachwedd 2019 ar gyfer Ysgol Bodffordd. Mae gwybodaeth GwE yn dangos bod categoreiddiad Ysgol Bodffordd wedi gwella o Oren yn 2015 i Felyn yn 2019.

**5.8.4 Ymateb y Pennaeth**

Mae pob addysgwr yn gwybod nad yw pob ysgol yn dygymod â phob plentyn. Mae gan bob plentyn ei anghenion ei hun. Felly rhaid derbyn nad yw ysgol fawr yn dygymod â natur pob plentyn. Rwy’n gwybod am achosion lle mae plant yn ei chael yn anodd ymdopi mewn ysgol fawr oherwydd y lle / amgylchedd a geir yno. Gall cyflwr meddygol / angen emosiynol a thrawma olygu nad ydynt yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol. Dangosir hyn yn eu hymddygiad. Mae’n ffaith bod nifer y plant sy’n dangos ymddygiad heriol yn ein hysgolion yn cynyddu, ac mae angen darpariaeth ychwanegol ar gyfer y plant, sy’n ddarpariaeth gostus. Gwelwn fod plant mewn ysgolion bach yn ymdopi’n well. Mae’r amgylchedd tawelach, yr ystafelloedd llai, a llai o fwrlwm, yn eu helpu i deimlo’n ddiogel, sy’n golygu bod angen llai o ddarpariaeth ychwanegol. Wrth ystyried dyfodol ADDYSG ar Ynys Môn, rhaid rhoi blaenoriaeth i’r hyn sydd orau i holl blant yr ynys.

**Ymateb y Cyngor**

Ni soniwyd am hyn yn benodol ond mae’r ymateb uchod yn awgrymu na fyddai pob plentyn yn ymdopi mewn ysgol fwy (a fyddai’n cael ei hadeiladu o dan y cynnig yr ymgynghorir yn ei gylch). Yn achos bod disgybl yn ei chael yn anodd dygymod â’r Ysgol Corn Hir newydd, byddai’r uwch dîm arweinyddiaeth yn Ysgol Corn Hir, o dan oruchwyliaeth y Corff Llywodraethu, yn gyfrifol am oruchwylio’r dulliau addysgu, ac am

sicrhau bod gan bob athro ddealltwriaeth dda o'r broblem a lefelau datblygu'r disgybl, er mwyn i bob disgybl allu dygymod â'i amgylchedd newydd.

Hefyd, nododd Pennaeth Ysgol Corn Hir yn ei ymateb yr angen am drosglwyddiad llyfn pe gwireddir y cynnig. "Gan fod gan yr ysgol fwy na 230 o ddisgyblion, ynghyd â nifer o ddisgyblion bregus, nifer o ddisgyblion ADY a phlant sy'n derbyn gofal, mae'n bwysig i ni sicrhau'r sefydlogrwydd a gynigir i'r disgyblion gan y cynnig hwn. Sylweddolwn hefyd y bydd disgyblion Ysgol Bodffordd yn wynebu newid sylweddol ac rydym yn llwyr werthfawrogi hyn. Mae staff Ysgol Corn Hir eisiau sicrhau trosglwyddiad mor llyfn â phosib i'r plant hyn ac rydym yn deall y bydd rhaid iddynt addasu i ddulliau newydd a gwahanol. I hwyluso hyn, byddem yn fodlon, gyda chytundeb Ysgol Bodffordd, i sicrhau eu bod yn cael y cyfle i ymuno â disgyblion Ysgol Corn Hir i gymryd rhan yn ein hwythnos weithgareddau flynyddol, mabolgampau, mynd ar dripiau ar y cyd; ac ar lefel staff, sicrhau bod staff o Ysgol Corn Hir yn ymweld ag Ysgol Bodffordd i roi gwersi. Gallai disgyblion o Ysgol Bodffordd hefyd ddod i Ysgol Corn Hir i gael gwersi ar y cyd o bryd i'w gilydd - byddai hyn oll yn sicrhau trosglwyddiad llyfn i bob disgybl o'r ddwy ysgol ".

**5.8.5 Ymateb y Pennaeth**

Mae'r papurau ymgynghori / asesiad effaith yn seiliedig ar ragfarn yn hytrach na ffeithiau, ynghyd â hen ddata. Mae'n glir o'r papur cynnig bod rhagfarn yn bodoli o ran bod ysgolion mawr yn cynnig addysg o safon uwch a gwell nag ysgolion bach. Yn ddiweddar iawn, daethom yn ymwybodol o ysgol fawr newydd yng Nghonwy'n mynd i fesurau arbennig, yn dilyn arolwg Estyn, oherwydd ei harweinyddiaeth. Fodd bynnag, ar ben arall y raddfa, yma ym Môn ceir ysgolion bach sydd wedi'u barnu'n rhagorol yn eu harolygon Estyn, er bod y plant yn cael eu haddysgu mewn hen adeilad. Nid yw safon yr ADDYSG yn seiliedig ar adeilad. Y staff a'r ethos sy'n cael ei greu a'i gynnal sy'n darparu'r ADDYSG. Mae staff Ysgol Gymuned Bodffordd wedi profi llwybr datblygiadol tuag at gynnig safon dda o addysg i'r plant.

**Ymateb y Cyngor**

Mae'r Cyngor wedi cyflwyno'r data yn y ddogfen ymgynghori yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Yn nhermau safonau, dengys y data a'r ffeithiau a ddarperir mewn perthynas ag Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir bod Ysgol Corn Hir wedi perfformio'n well nag Ysgol Bodffordd. Gweler isod gategoreiddiad GwE:

Categoreiddiad – Ffynhonnell: GwE, Tachwedd 2019

| Blwyddyn | Ysgol Bodffordd | Ysgol Corn Hir |
|---|---|---|
| 2019 | Melyn ( B) | Gwyrdd (A) |
| 2018 | Melyn | Gwyrdd |
| 2017 | Oren | Gwyrdd |
| 2016 | Oren | Gwyrdd |
| 2015 | Oren | Gwyrdd |

Mae'r tabl uchod yn cydnabod bod Ysgol Bodffordd wedi gwella o Oren yn 2015 i Felyn yn 2019.

**5.8.6 Ymateb y Pennaeth**

Mae'n gamarweiniol i nodi bod plant sy'n mynychu Ysgol Gymuned Bodffordd o ddalgylch Corn Hir / Llangefni yn gwneud hynny oherwydd diffyg lleoedd iddynt mewn ysgolion trefol. Yn achos y mwyafrif o ddisgyblion o'r tu allan i'r dalgylch, mae'r rhieni wedi dewis anfon eu plant i YGB yn seiliedig ar eu dymuniadau, profiad blaenorol o'r ysgol a'i chymorth, enw da'r ysgol ac oherwydd rhwydwaith deuluol leol a darpariaeth gofal plant preifat leol. Dylid cymryd gofal i beidio â defnyddio data i ystumio'r gwir.

**Ymateb y Cyngor**

Dywedodd Cyngor yn y ddogfen ymgynghori, o ran y sefyllfa ym mis Hydref 2019, bod 41% o ddisgyblion Ysgol Bodffordd yn dod o'r tu allan i ddalgylch yr ysgol. Yn y ddogfen ymgynghori, nid oedd y Cyngor yn nodi bod hyn oherwydd diffyg lleoedd iddynt mewn ysgolion trefol.

**5.8.7 Ymateb y Pennaeth**

Mae adroddiad thematig Estyn "Ysgolion Cynradd Bach yng Nghymru (2006)" yn nodi nad oes gwir wahaniaeth rhwng safonau addysg mewn ysgolion bach a mawr, ond "Gall fod yn anoddach i athrawon mewn ysgolion bach gyfateb y gwaith ag anghenion y disgyblion gan y gall disgyblion mewn dosbarth amrywio'n fawr yn nhermau oedran a chamau datblygiad". Mae hyn yn wir am ysgolion trefol mawr hefyd. Mae'n rheidrwydd, ac yn un o ffeithiau bywyd a gwaith mewn ysgolion mawr, fod rhaid i athrawon baratoi gwaith ar gyfer ystod o lefelau ac ar gyfer nifer o oedrannau gwahanol mewn dosbarthiadau, er mwyn ymateb i anghenion addysgol y plant yn y dosbarthiadau, yn yr un modd ag y mae athrawon mewn ysgolion llai yn llwyddo i ddarparu ar gyfer gwahanol ystodau oedran. Mae'r plant yn cael llawer o fudd o gyfeillachu a chyd-ddysgu â phlant o wahanol oedrannau.

**Ymateb y Cyngor**

Mae'r Cyngor yn cytuno â sylwadau'r Pennaeth.

**5.8.8 Ymateb y Pennaeth**

Rhoddir sylw i'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Byddai darparu addysg blwyddyn gynnar, gofal plant, darpariaeth ar ôl ysgol a gwyliau yn darparu gwasanaeth di-dor i rieni ac yn sicrhau parhad gofal i blant. Byddai'r ddarpariaeth ar gael rhwng 8yb a 6yh bob dydd, gan gynnwys gwyliau ysgol ac efallai diwrnodau hyfforddiant mewn swydd i athrawon. Mae hwn yn wasanaeth y gallai YGB ei ddarparu, ac y byddem yn wir yn falch o'i gynnig. Mae'r sylw hwn unwaith eto'n rhagfarnu yn erbyn ysgolion bach.

**Ymateb y Cyngor**

Mae'r Cyngor yn croesawu cynnig y Pennaeth o ran darparu addysg blynyddoedd cynnar, gofal plant, darpariaeth ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau ynghyd â gwasanaeth cofleidiol i rieni er mwyn sicrhau parhad gofal plant. Byddai'r ddarpariaeth ar gael

rhwng 8yb a 6yh bob dydd, gan gynnwys gwyliau ysgol ac efallai diwrnodau hyfforddiant mewn swydd i athrawon.

Nid yw’r ddarpariaeth hon ar gael ar hyn o bryd yn Ysgol Bodffordd. Mae’r Cyngor yn gwrthod yr honiad ei fod yn rhagfarnu yn erbyn ysgolion bach.

**5.8.9 Ymateb y Pennaeth**

Mae YGB yn bryderus iawn am y disgwyliad a’r gofyniad i blant deithio i dref Llangefni (safle’r ysgol newydd) ac efallai gorfod teithio ar fws. Mae gan rieni YGB bryderon am y mater hwn hefyd. Byddai teuluoedd o Fodffordd ac YGB yn cael eu gorfodi i deithio. O ganlyniad, byddai cynnydd mewn trefniadau teithio i rieni'r ddwy ysgol, er y soniwyd am ddulliau teithio sy’n gyfeillgar i’r amgylchedd ar fysiau ac ar droed. Nid oes unrhyw lwybr cerdded diogel rhwng Bodffordd a Llangefni. Mae ardal Corn Hir yn eithriadol o brysur yn ystod amseroedd agor a chau’r ysgol. Cafwyd sawl damwain dros y blynyddoedd lle cafodd plant eu taro gan fysiau/ceir. Byddai cau YGB a gorfodi plant i deithio i Langefni yn cynyddu traffig yn yr ardal hon ac yn cynyddu’r posibilrwydd o ddamwain.

**Ymateb y Cyngor**

Pe cymeradwyir y cynnig, byddai’n golygu y byddai rhai disgyblion yn gorfod teithio’n bellach. Yn seiliedig ar nifer bresennol y disgyblion sydd wedi’u cofrestru yn Ysgol Bodffordd (Mehefin 2019), byddai 34% yn teithio llai o bellter i safle’r Ysgol Corn Hir newydd, tra byddai 66% yn gorfod teithio’n bellach.

Gan fod y llwybr o Fodffordd i Langefni ar y B5109 wedi’i ddosbarthu’n llwybr peryglus, byddai’r Cyngor yn darparu cludiant i’r disgyblion hyn (yn unol â pholisi cludiant y Cyngor i ysgolion), a fyddai’n golygu na fyddent yn debygol o gerdded neu feicio i’r ysgol. Yr amser teithio o Ysgol Bodffordd ar fws i’r safle newydd arfaethedig ar gyfer yr Ysgol Corn Hir newydd yw tua 8 munud.

Mae’r Cyngor wedi edrych yn ôl bum mlynedd i Ebrill 2015, ac ni chofnodwyd unrhyw ddamweiniau lle cafodd plant Ysgol Bodffordd neu Ysgol Corn Hir eu taro gan geir/bysiau. (Ffynhonnell: Adroddiad digwyddiadau o ran damweiniau neu ddifrod - cofnodion ADIR)

Paratowyd Asesiad Effaith Traffig o effaith yr Ysgol Corn Hir newydd posib ar drefniadau teithio staff a disgyblion. O ganlyniad i hyn, bydd y rhodfa o gyffordd y B4422 â’r B5109 hyd at y fynedfa i’r Ysgol Corn Hir newydd arfaethedig yn cael ei lledu, a darperir man croesi dros y B5109 i’r ysgol gynradd newydd arfaethedig.

**5.8.10 Ymateb y Pennaeth**

Meintiau dosbarthiadau – nid oes gwarant y gall unrhyw ysgol / adeilad newydd gadw at uchafswm o 30 disgybl y dosbarth. Ystyrir bod ysgolion mwy mewn gwell sefyllfa i gael dosbarthiadau o feintiau effeithlon, h.y. bod nifer y disgyblion mewn dosbarthiadau unigol yn agos at 30. Gellir herio hyn gan ei bod yn arferol bellach i ysgolion mawr gael dosbarthiadau o dros 30 o blant, yn flynyddol.

**Ymateb y Cyngor**

Mae’r Cyngor yn cytuno â sylwadau’r Pennaeth nad oes gwarant y gall unrhyw ysgol / adeilad gadw at uchafswm o 30 disgybl y dosbarth. Fodd bynnag, nododd y Cyngor yn

y ddogfen ymgynghori bod "ysgolion mwy mewn gwell sefyllfa i gyflawni meintiau dosbarthiadau sy'n agosach at y gymhareb disgybl athro/athrawes orau bosib, gan sicrhau meintiau dosbarthiadau effeithlon."

**5.8.11 Ymateb y Pennaeth**

Mae'r ddogfen ymgynghori'n nodi bod cytundebau clwstwr/cydweithredu yn araf o ran eu datblygu yng Nghymru ac yn dal i fod yn y cyfnod peilot. Nodir hefyd na fyddai ffederasiwn yn gwella safonau. Mae'n deg nodi bod holl ysgolion dalgylch Llangefni yn cydweithredu'n agos iawn a bod pob ysgol o ganlyniad yn rhannu arferion da ac arbenigedd a bod safonau wedyn yn gwella ym mhob ysgol. Yn ogystal, mae pob ysgol yn y dalgylch yn datblygu sgiliau arweinyddiaeth ymhlith ei staff, gydag athrawon ym mhob ysgol yn cael y cyfle i arwain staff o'u hysgol eu hunain ac ysgolion eraill. Mae'r cydweithrediad agos hwn yn golygu bod yr ysgolion yn cydweithredu ar flaenoriaethau eu Cynlluniau Datblygu Ysgol. Mae'r cydweithredu hwn wedi arwain at enwi Dalgylch Llangefni mewn cynhadledd GwE fel enghraifft o arfer da y dylid ei rannu. Ar hyn o bryd, ac am y ddwy flynedd ddiwethaf, Pennaeth YGB sydd yn cadeirio Fforwm Penaethiaid Dalgylch Llangefni ac mae'n gyrru'r cydweithrediad hwn yn ei flaen. Yn anffodus, nid yw pob ysgol yn y dalgylch mor barod i gyfranogi ac yn agored, onid yw'r syniad / maes dan sylw o fudd i Bennaeth yr ysgol honno. Mae gofyn i rai ysgolion a phenaethiaid aeddfedu ymhellach yn nhermau'r gofyniad i gydweithredu - er hyn mae penaethiaid yn Nalgylch Llangefni yn arwain ar yr agwedd hon. Nid yw'r ddogfen ymgynghori'n cydnabod hyn o gwbl ac felly mae'n ddiffygiol yn hyn o beth.

**Ymateb y Cyngor**

Mae'r Cyngor yn croesawu'r cydweithrediad rhwng ysgolion yn nalgylch Llangefni.

**5.8.12 Ymateb y Pennaeth**

Cefais y cyfle i ymweld â Dyfnaint gyda phenaethiaid a swyddogion y Cyngor i arsylwi arfer da yn nhermau ffedereiddio ysgolion. Roedd hyd at 13 o ysgolion yn rhan o 1 ffederasiwn. Canlyniad hyn oedd bod 1 corff llywodraethu proffesiynol, a barnwyd fod pob ysgol yn 'Rhagorol' yn eu harolwg OFSTED, wrth gadw ysgolion bach gwledig ar agor ac yn addysgu plant yn eu cymunedau lleol. Mae'n gywilydd o beth nad yw Ynys Môn wedi gweithredu ar ôl gweld yr arfer da iawn hwn. Mae'n drist bod gan CSYM gynllun moderneiddio rhagfarnllyd - nid yw'r opsiwn o ddatblygu ffederasiwn ysgolion wedi'i ystyried na'i weithredu. Byddai hyn yn arwain at fodd gwahanol iawn a mwy aeddfed o weithredu a rheoli a darparu arweinyddiaeth. Byddai hefyd yn arwain at greu corff llywodraethu mwy aeddfed sy'n fwy effeithiol a chanddo statws proffesiynol. Byddai hyn hefyd yn cadw addysg o fewn cymunedau ac yn cefnogi dyfodol cymunedau bregus Ynys Môn. Yn anffodus, nid oes unrhyw beth ond cau ysgolion o fewn cynlluniau'r Cyngor. Ymarfer i leihau gwariant. Yn ei hanfod, mae hwn yn ymarfer camarweiniol gan fod costau adeiladu a darparu cyllid cyfatebol ar gyfer unrhyw grant yn mynd i gynyddu gwariant ac ad-daliadau llog benthyciadau.

**Ymateb y Cyngor**

Mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth ddyledus i ffedereiddio o fewn yr opsiynau amgen rhesymol a gyflwynir yn y ddogfen ymgynghori. Gwerthuswyd yr holl opsiynau amgen dyledus yn erbyn 7 o feini prawf a nodwyd o fewn y Strategaeth Moderneiddio

Ysgolion, sef Safonau, Arweinyddiaeth a Rheoli, Lleoedd Disgyblion, Adeilad Ysgol, Cyllid, Defnydd Cymunedol a Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg.

**5.8.13 Ymateb y Pennaeth**

Ni roddir unrhyw ystyriaeth i sefydlu Safle Addysgu GYDOL OES. Mae'r Cyngor yn colli cyfle a cheir diffyg menter yn ei gynlluniau moderneiddio. Nid yw'n ymddangos bod ewyllys neu awydd o fewn y Cyngor i resymoli lleoedd gweigion yn ysgolion uwchradd y sir. Mae'r sector cynradd ar yr ynys wedi profi llawer o bwysau / addasiadau dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'n hen bryd rhoi sylw i foderneiddio'r sector uwchradd ac i hynny ddigwydd ar frys. Rhaid gofyn pam nad yw Ysgol Gyfun Llangefni yn rhan o unrhyw gynnig ar gyfer ardal Llangefni, yn enwedig o ystyried adroddiad mwyaf diweddar Estyn, ynghyd â chyflwr yr adeilad, lleoedd gweigion, costau cynnal a chadw, defnydd cymunedol o'r adeilad a darpariaeth cyfrwng Cymraeg?

**Ymateb y Cyngor**

Ystyrir yr awgrym hwn yn adran 6.4.7 o'r adroddiad hwn.

**5.8.14 Ymateb y Pennaeth**

Mae'n gamarweiniol i dybio na allai safle / adeilad YGB ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hyrwyddo dysgu annibynnol y disgyblion. Gellir derbyn arian i uwchraddio ysgolion presennol iddynt fod yn addas ar gyfer yr 21ain Ganrif. Yn ôl Kirsty Williams, nid oes angen cau ysgolion i dderbyn cyllid i adeiladu ysgol newydd.

**Ymateb y Cyngor**

Mae'r Cyngor yn gwrthod yr honiad hwn ac yn cynnig nad oedd yr asesiad yn gamarweiniol. Nododd y Cyngor yn y ddogfen ymgynghori "bod posibilrwydd na allai safle'r ysgol ddarparu'r amgylchedd dysgu angenrheidiol i hyrwyddo dysgu annibynnol disgyblion, ac felly i sefydlu'r amodau i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn y tymor canolig i dymor hir."

**5.8.15 Ymateb y Pennaeth**

'Does dim gwadu'r ffaith bod llawer o bwysau yn nhermau arweinyddiaeth a dysgu ar ysgolion bach pentref / gwledig, ond mae yna lawer o ffactorau cadarnhaol pwysig sy'n ei gwneud yn swydd ddiddorol, sy'n hogi'r meddwl – ceir amrywiaeth yng ngwaith y staff, mae'r gofynion a'r disgwyliadau'n heriol ac yn amrywiol, caiff pob aelod staff ei ddatblygu yn nhermau rolau arweinyddol a rheoli mewn ysgol fechan. Mae'n llawer haws sicrhau bod pawb yn symud i'r un cyfeiriad mewn ysgol fechan. Mae staff mewn ysgolion bach yn sympathetig ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o faterion sy'n dylanwadu ar blant a theuluoedd. Mae'r dasg o osod a chynnal ethos a chyfeiriad yn llawer haws.

**Ymateb y Cyngor**

Mae'r Cyngor yn croesawu sylwadau'r Pennaeth o ran arweinyddiaeth a dysgu mewn ysgol bentref/wledig fechan.

**5.8.16** Dyma sylwadau'r Pennaeth mewn ymateb i'r cwestiwn a ganlyn ar y ffurflen ymateb:

***C: A ydych am awgrymu opsiynau amgen rhesymol eraill ar gyfer parhad Ysgol Bodffordd sy'n mynd i'r afael â'r heriau allweddol y mae Ysgol Bodffordd yn eu hwynebu?***

- Adeiladu ysgol newydd ar gyfer Corn Hir ac addasu adeilad YGB drwy adeiladu 1 ystafell ddosbarth ychwanegol.
- Addasu Ysgol Corn Hir, nad yw'n hen adeilad, ac addasu YGB drwy adeiladu 1 ystafell ddosbarth.
- Ffederasiwn
- Adeiladu 3ydd ysgol gynradd yn Llangefni, addasu Ysgol Corn Hir ac ymestyn YGB.

***Ymateb y Cyngor***

Ystyrir yr opsiynau amgen a awgrymwyd uchod ymhellach yn Adran 6.4

**5.8.17** Dyma sylwadau'r Pennaeth mewn ymateb i'r cwestiwn a ganlyn ar y ffurflen ymateb:

***C: A oes unrhyw faterion eraill y dylai'r Cyngor eu hystyried fel rhan o'u hasesiadau effaith cyn dod i benderfyniad?***

Rwy'n anghytuno â'r farn y byddai cau Ysgol Gymuned Bodffordd yn cael effaith niwtral ar y pentref. Mae'r ddogfen yn seiliedig ar farn/rhagfarn yn hytrach na'r ffeithiau moel ac yn codi cwestiynau am ddyfnder yr ymchwil i'r effeithiau.
Mae'r ddogfen Asesiad Effaith yn seiliedig ar farnau a rhagfarnau – wrth gwrs, byddai cau ysgol bentref yn cael effaith yn y tymor byr a'r tymor canolig, ond byddai effaith hirdymor colli ysgol fel YGB yn negyddol, a byddai'n amddifadu'r ardal o'r gweithgaredd sy'n cael ei greu gan bobl ifanc. Gellir gweld hyn ledled Cymru yn y pentrefi bychain hynny lle mae'r ysgol leol wedi cau a'r pentref wedi marw. Mae'r effaith negyddol hon yn ddiymwad.

Mae'r ddogfen Asesiad effaith yn nodi "Cymru sy'n fwy cyfartal - Bydd y prosiect yn sicrhau bod yr Ysgol Corn Hir newydd yn ffit i bwrpas a bydd yn sicrhau bod capasiti a photensial bob disgybl i lwyddo'n cael ei wireddu." Mae hyn yn awgrymu na fyddai hyn yn digwydd pe bai Ysgol Gymuned Bodffordd yn parhau i fod ar agor. Mae hyn yn gamarweiniol ac yn rhagfarnu yn erbyn ysgolion gwledig bach. Mae pob plentyn mewn ysgol lai yn cael y cyfle i fod yn rhan o bob gweithgaredd cwricwlaidd ac allgwricwlaidd - timau rygbi, grwpiau canu ar gyfer eisteddfodau, cymryd rhan mewn cyngherddau yng Nghapel y Gad ac ati. Gwelsom ein plant yn ffynnu ac yn magu hyder o ganlyniad i'r gweithgareddau hyn. Fel ysgol, rydym yn pryderu na fydd sawl un o'r plant yn cael y cyfleoedd hyn mewn ysgol fawr. Dim ond y rhai gorau a mwyaf hyderus fydd yn cael y cyfleoedd hyn - canran llawer is o gymharu â chanran y disgyblion mewn ysgolion llai.

Byddai cau'r ysgol yn sicr o gael effaith negyddol ar y Gymraeg - Trwy gau ysgolion mewn pentrefi Cymraeg eu hiaith mae perygl i'r Gymraeg ddod yn iaith ysgol / dosbarth a byddwn yn colli'r iaith ar yr ynys. Nid yw'r polisi hwn yn cyd-fynd ag ymgyrch y Llywodraeth i gael 1 filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae gwir berygl y bydd pobl yn yr ardal hon yn cymryd y Gymraeg yn ganiataol. Rhaid i ni

weithio'n galed i'w chefnogi, ac mae ysgolion gwledig a phentref yn ymdrechu ac yn llwyddo. Fel ysgol, ymfalchïwn yn y ffaith bod ein disgyblion yn cymdeithasu ac yn chwarae'n naturiol drwy gyfrwng y Gymraeg. Daw disgyblion sy'n dysgu Cymraeg yn yr ysgol hon yn ddwyieithog yn gyflym iawn a defnyddiant y Gymraeg i siarad â'u ffrindiau. Er ymdrechion ysgolion trefol mawr, mae Saesneg yn ennill tir ar iard yr ysgol ac mae siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf yn siarad â'i gilydd yn Saesneg. Byddai cau YGB yn peryglu dyfodol y Gymraeg yn yr ardal hon fel y mae ein plant yn cael eu llethu mewn ysgolion mawr.

***Ymateb y Cyngor***

Ystyrir sylwadau'r Pennaeth fel rhan o'r Asesiad Effaith a fydd wedi'i ddiwygio a'i ddiweddaru (gweler Atodiad 1) .

**5.9 Ymateb gan Bennaeth Ysgol Corn Hir**

Yn yr adran hon, cyflwynir sylwadau llawn Pennaeth Ysgol Corn Hir i'r ymgynghoriad, ynghyd ag ymateb y Cyngor lle bo angen.

**5.9.1** Hoffwn gynnig y sylwadau a ganlyn mewn ymateb i'r Ymgynghoriad ar y cynnig i: "Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir"

Mae'n amlwg bellach bod adeilad Ysgol Corn Hir yn annigonol ar gyfer darparu addysg 21ain ganrif, yn enwedig pan ystyriwn yr holl newidiadau cyffrous sydd o'n blaenau yn y dyfodol agos – dyfodiad y cwricwlwm newydd, y trefniadau ADY newydd, safonau proffesiynol newydd ac ati.

Fel Pennaeth yr ysgol, rwy'n awyddus iawn i ddiogelu'r adnoddau gorau ar gyfer plant a staff yr ysgol hon, ac rwy'n cefnogi'r cynnig yn llawn.

Bydd y cynnig uchod yn:

- Sicrhau y caiff yr holl blant yr adeilad newydd, modern y maent yn ei haeddu, ar safle addas gydag ystafelloedd dosbarth o faint digonol a chyfleusterau addas iddynt hwy a chenedlaethau'r dyfodol. Ar hyn o bryd, mae'r ystafelloedd dosbarth yn llawer rhy fach ac mae'r adeilad yn anaddas ar gyfer nifer y plant sy'n mynychu'r ysgol. Ceir tystiolaeth gref sy'n dangos bod niferoedd y disgyblion yn dal i gynyddu, sy'n golygu y bydd meintiau dosbarthiadau'n dal i gynyddu, ac o ganlyniad yn amlygu ymhellach y broblem o ran diffyg lle. Fel y mae'r niferoedd yn cynyddu, mae'r cyfleusterau fel y toiledau yn annigonol ar gyfer nifer y disgyblion a'u hanghenion. Mae gennym ddyletswydd i ddiogelu adeilad addas i'r plant.

- Diogelu safonau uchel yr addysgu a'r dysgu yn Ysgol Corn Hir. Bu perfformiad yr ysgol yn ardderchog dros gyfnod cyson ac mae'r cynnig hwn yn sicrhau'r cyfle i ni barhau i gyflawni safonau uchel ac i'w gwella ymhellach. Caiff safonau eu cynnal a'u gwella gan y bydd yr holl drefniadau, systemau, ynghyd â dulliau addysgu a dysgu yn dal i gael eu darparu gan staff arbennig yr ysgol.

- Diogelu swyddi staff Ysgol Corn Hir, a dileu misoedd o ansicrwydd posib iddynt ynghylch eu cyflogaeth. Mae'r cynnig hwn yn lleihau'r risg o golli staff yr ysgol os cyflwynir unrhyw gynnig arall. Yn syml, bydd sicrwydd o ran swyddi yn cynnal y tîm sydd wedi llwyddo dros y blynyddoedd i brofi eu bod yn gallu cynnal a pharhau i godi safonau. Yn ôl y ffigurau a'r rhif mynediad ar gyfer yr ysgol newydd, mae'n debygol y bydd angen staff ychwanegol. Fel ysgol a Chorff Llywodraethu, rydym yn barod i sicrhau cyfleoedd i staff o ysgolion cyfagos a fydd yn cau allu ymgeisio am swyddi yn unol â threfniadau arferol y Cyngor.

- Darparu sicrwydd i blant a rhieni Ysgol Corn Hir y bydd y trefniadau addysgu presennol yn parhau yn y dyfodol ac yn sicrhau trosglwyddiad llyfn i'r disgyblion o'r hen ysgol i'r ysgol newydd. Yr unig newid iddynt hwy fyddai'r safle a'r adeilad newydd. Gan fod gan yr ysgol fwy na 230 o ddisgyblion, ynghyd â nifer o ddisgyblion bregus, nifer o ddisgyblion ADY a phlant sy'n derbyn gofal, mae'n

bwysig i ni sicrhau'r sefydlogrwydd a gynigir i'r disgyblion gan y cynnig hwn. Sylweddolwn hefyd y bydd disgyblion Ysgol Bodffordd yn wynebu newid sylweddol ac rydym yn llwyr werthfawrogi hyn. Mae staff Ysgol Corn Hir eisiau sicrhau trosglwyddiad mor llyfn â phosib i'r plant hyn ac rydym yn deall y bydd rhaid iddynt addasu i ddulliau newydd a gwahanol. I hwyluso hyn, byddem yn fodlon, gyda chytundeb Ysgol Bodffordd, i sicrhau eu bod yn cael y cyfle i ymuno â disgyblion Ysgol Corn Hir i gymryd rhan yn ein hwythnos weithgareddau flynyddol, mabolgampau, mynd ar dripiau ar y cyd; ac ar lefel staff, sicrhau bod staff o Ysgol Corn Hir yn ymweld ag Ysgol Bodffordd i roi gwersi. Gallai disgyblion o Ysgol Bodffordd hefyd ddod i Ysgol Corn Hir i gael gwersi ar y cyd o bryd i'w gilydd - byddai hyn oll yn sicrhau trosglwyddiad llyfn i bob disgybl o'r ddwy ysgol. Byddwn yn edrych i gynnal gweithdai i ddisgyblion gael dod i adnabod ei gilydd a'r staff, e.e. côr cymysg gyda disgyblion o'r ddwy ysgol.

- Sicrhau na fydd blynyddoedd o waith caled staff yr ysgol i wneud Corn Hir yn ysgol lwyddiannus yn mynd yn ofer. Mae'r staff a'r plant wedi gweithio'n galed iawn dros nifer o flynyddoedd i gyflawni cyfres o wobrau cydnabyddedig e.e. Ysgolion Iach, Ysgolion Gwyrdd, Ysgol UNICEF, Eco Ysgol, Masnach Deg, a gwnaed hyn oll i hyrwyddo addysg y disgyblion a'u helpu i ddatblygu i fod yn ddinasyddion cyfrifol sy'n gweithio'n galed. Nid yw'n deg i ofyn i'r disgyblion orfod ail-wneud yr holl waith da sydd wedi'i wneud eisoes ac i ddyblygu camau sydd eisoes wedi golygu buddsoddi amser, cydweithredu effeithiol a deilliannau sydd wedi diogelu newidiadau effeithiol i ethos a bywyd yr ysgol.

- Sicrhau y gall Ysgol Corn Hir barhau i fodloni gofynion y Cwricwlwm newydd ac na fydd yr adeilad yn rhwystro hyn. Ar hyn o bryd, ni fydd yn bosib datblygu'r cwricwlwm newydd ar y safle presennol oherwydd y diffyg lle a'r ffaith ei bod yn amhosib darparu lle y tu allan ar gyfer yr adran iau.

- Caniatáu i'r Tîm Arweinyddiaeth gynllunio ymlaen gyda sicrwydd. Byddwn yn edrych i sicrhau bod clwb gofal yn ystod y gwyliau, ynghyd â darpariaeth y tu allan ar gyfer Cyfnod Allweddol 2, y posibilrwydd o gael uned ABC ar y safle newydd a fydd yn caniatáu i Ganolfan Addysg y Bont dderbyn disgyblion meithrin ac yn caniatáu i'r Uned ABC ganolbwyntio ar asesu disgyblion sydd ar y ffin. Mae'r posibiliadau o ran cael gwir effaith ar y gymuned ehangach yn sylweddol. Byddem yn awyddus i ddatblygu defnydd cymunedol a fyddai'n ganolbwynt ar gyfer gwasanaethu'r gymuned gyfan, a fydd yn addas i gynnal digwyddiadau hyfforddiant a chymunedol.

- Datblygu staff a chyfleoedd CPD – gyda chynnydd yn nifer y staff, bydd cynnydd mewn cyfleoedd arweinyddiaeth a rheolaeth a rhagor o gyfleoedd i gydweithredu a rhannu arbenigedd. Gall hyn arwain at godi safonau ymhellach a darparu arweinyddion y dyfodol.

Mae Corff Llywodraethu Ysgol Corn Hir yn gwbl ymwybodol nad dim ond dyfodol ein hysgol ni a drafodir yn y papur cynnig. Os bydd y Pwyllgor Gwaith yn penderfynu cau Ysgol Bodffordd, yna mae Llywodraethwyr Ysgol Corn Hir wedi trafod a chytuno ei bod yn hanfodol cynnwys llais Ysgol Bodffordd mewn unrhyw benderfyniadau ynghylch yr ysgol newydd. Un syniad a drafodwyd yw addasu aelodaeth Corff Llywodraethu Corn Hir i gynnwys cynrychiolwyr o Gorff Llywodraethu Ysgol Bodffordd i sicrhau bod llais pawb sy'n gysylltiedig â'r ysgol yn cael ei glywed.

I gloi ein hymateb i'r ymgynghoriad, hoffwn atgoffa Aelodau'r Pwyllgor Gwaith o ddifrifoldeb yr amgylchiadau sy'n wynebu Plant a Staff Ysgol Corn Hir. Mae'r cynnydd yn niferoedd y disgyblion dros y saith mlynedd diwethaf wedi gorlenwi adeilad yr ysgol. Bydd y cynnydd pellach yn niferoedd y disgyblion a ddisgwylir dros yr ychydig flynyddoedd nesaf yn gwneud gwaith y staff yn amhosib. Heb ddatrysiad, bydd yn effeithio safonau addysgu a dysgu ac yn rhoi iechyd a diogelwch pawb sy'n defnyddio'r adeilad mewn perygl. Gofynnwn i'r Aelodau am eu cymorth ac i gefnogi'r cynnig i adeiladu Ysgol Corn Hir newydd. Mae hwn yn gyfle prin i ddiogelu buddsoddiad ac adnodd arbennig, a bydd yn gwasanaethu'r gymuned leol ac Ynys Môn am ddegawdau i ddod.

**5.9.2 Ymateb y Cyngor**

Mae'r Cyngor yn cytuno â'r Pennaeth y gallai'r cynnig gwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Corn Hir yn nhermau:

- Mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael – bydd gan yr Ysgol Corn Hir newydd ddigon o leoedd i gwrdd â'r galw.
- Lle cyfyngedig i gyflwyno'r cwricwlwm newydd – bydd yr Ysgol Corn Hir newydd wedi'i hadeiladu'n bwrpasol i gyflwyno'r cwricwlwm newydd.
- Cyflwr adeilad yr ysgol ac iechyd a diogelwch a lles pawb sy'n ei mynychu.
- Perygl o fethu cynnal safonau uchel yn y safle presennol.

**5.10 Ymateb gan Staff Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir**

Yn yr adran hon, mae ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd gan staff y ddwy ysgol yn cael eu crynhoi yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion ( 011/2018), gydag ymateb y Cyngor lle bo angen.

**5.10.1 STAFF YSGOL BODFFORDD**

Cyflwynodd staff Ysgol Bodffordd sylwadau mewn ymateb i'r cwestiynau ar y ffurflen ymateb sy'n cael eu crynhoi isod.

***C: A ydych yn dymuno gwneud unrhyw sylwadau ynglŷn â'r cynnig i "Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir"?***

- Staff – Mae staff Ysgol Gymuned Bodffordd (YGB) yn brofiadol o ran eu dulliau o feithrin a hyrwyddo ethos o gydweithrediad. Ychydig iawn o enghreifftiau o gwynion ac anfodlonrwydd a geir ymhlith rhieni ynghylch gwaith YGB.
- Disgyblion yn mynychu ysgol fawr – Nid yw pob plentyn yn gallu dygymod ag ysgol fawr. Cafwyd achosion o blant yn ei chael yn anodd ymdopi mewn ysgol fawr oherwydd y lle / amgylchedd. O ganlyniad i drawma / cyflwr, nid ydynt yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a gellir dangos hyn yn eu hymddygiad. Mae nifer y gwaharddiadau'n cynyddu oherwydd hyn, er y camau a'r cymorth a gynigir i'r plant. Gwelwn fod plant yn ymdopi'n well mewn ysgolion bach.
- Yr Iaith Gymraeg – Mae'n debygol y bydd rhaid i blant YGB fynychu ysgol fawr, lle byddant yn chwarae a chymdeithasu trwy gyfrwng y Saesneg. Yn anffodus, ac yn gynyddol, Saesneg yw'r dewis iaith i blant wrth chwarae, er bod ysgolion Llangefni'n ceisio hybu'r defnydd o'r Gymraeg.
- Lleoedd Ysgol - Mae'n gamarweiniol nodi bod plant sy'n mynychu Ysgol Gymuned Bodffordd o ddalgylch Corn Hir / Llangefni yn gwneud hynny o ganlyniad i ddiffyg lleoedd iddynt mewn ysgolion yn y dref. Yn achos mwyafrif y disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch, mae'r penderfyniad i ddod i YGB yn seiliedig ar ddymuniadau'r rhieni, profiad blaenorol o'r ysgol a'i chymorth, enw da'r ysgol ac ar rwydwaith teuluol lleol a darpariaeth gofal plant preifat lleol.
- Cymharu Ysgolion - Mae adroddiad thematig Estyn "Ysgolion Cynradd Bach yng Nghymru (2006)" yn nodi nad oes gwir wahaniaeth rhwng safonau addysg mewn ysgolion bach a mawr, ond "Gall fod yn anoddach i athrawon mewn ysgolion bach gyfateb y gwaith ag anghenion y disgyblion gan y gall disgyblion mewn dosbarth amrywio'n fawr yn nhermau oedran a chamau datblygiad". Mae hyn yn wir am ysgolion trefol mawr hefyd. Mae'n rheidrwydd, ac yn un o ffeithiau bywyd a gwaith mewn ysgolion mawr, fod rhaid i athrawon baratoi gwaith ar gyfer ystod o lefelau ac ar gyfer nifer o oedrannau gwahanol mewn dosbarthiadau, er mwyn ymateb i anghenion addysgol y plant yn y dosbarthiadau, yn yr un modd ag y mae athrawon mewn ysgolion llai yn llwyddo i ddarparu ar gyfer gwahanol ystodau oedran. Mae'r plant yn cael llawer o fudd o gyfeillachu a chyd-ddysgu â phlant o wahanol oedrannau.
- Data – Nid yw'r data a ddefnyddir i gymharu YGB ac Ysgol Corn Hir yn gyfredol neu'n gyfoes. Data hanesyddol yw'r data a'r wybodaeth a ddefnyddir. Ni ddylid seilio barn ar ddata sydd bellach yn hen ac nad yw'n adlewyrchu'r sefyllfa bresennol. Mae adroddiad Estyn ar Ysgol Gynradd Bodffordd yn 5

oed ac mae'r ysgol wedi gwneud llawer o gynnydd ers hynny. Mae adroddiad Estyn yn dilyn yr ymweliad dilynol, ynghyd ag adroddiadau GwE, yn cadarnhau hyn. Nid yw Ysgol Corn Hir wedi'i harolygu ers 2013, pan oedd gan yr ysgol bennaeth gwahanol.

- Darpariaeth blynyddoedd cynnar - Byddai addysg blynyddoedd cynnar yn cael ei darparu, ynghyd â gofal plant, darpariaeth ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau i ddarparu gwasanaeth cofleidiol i rieni ac yn sicrhau parhad o ran gofal plant, Byddai'r ddarpariaeth ar gael rhwng 8yb a 6yh bob dydd, gan gynnwys gwyliau ysgol ac efallai diwrnodau hyfforddiant mewn swydd i athrawon. Gellid cynnig y ddarpariaeth hon yn YGB.
- Meintiau dosbarthiadau – Nid oes gwarant y gall unrhyw ysgol / adeilad newydd gadw at uchafswm o 30 disgybl y dosbarth. Ystyrir bod ysgolion mwy mewn gwell sefyllfa i gael dosbarthiadau o feintiau effeithlon, h.y. bod nifer y disgyblion mewn dosbarthiadau unigol yn agos at 30. Gellir herio hyn gan ei bod yn arferol bellach i ysgolion mawr gael dosbarthiadau o dros 30 o blant, yn flynyddol.
- Trefniadau clwstwr/cydweithredu – Mae'n deg nodi bod holl ysgolion dalgylch Llangefni yn cydweithredu'n agos iawn a bod pob ysgol o ganlyniad yn rhannu arferion da ac arbenigedd a bod safonau wedyn yn gwella ym mhob ysgol. Mae'r cydweithredu hwn wedi arwain at enwi Dalgylch Llangefni mewn cynhadledd GwE fel enghraifft o arfer da y dylid ei rannu.
- Arweinyddiaeth a dysgu – Ni ellir gwadu'r ffaith bod llawer o bwysau yn nhermau arweinyddiaeth a dysgu ar ysgolion bach pentref / gwledig, ond mae yna lawer o ffactorau cadarnhaol pwysig sy'n ei gwneud yn swydd ddiddorol, sy'n hogi'r meddwl – ceir amrywiaeth yng ngwaith y staff, mae'r gofynion a'r disgwyliadau'n heriol ac yn amrywiol, caiff pob aelod staff ei ddatblygu yn nhermau rolau arweinyddol a rheoli mewn ysgol fechan.
- Enw'r ysgol – Mae'n eithriadol o siomedig nad yw enw llawn Ysgol Gymuned Bodffordd yn cael ei ddefnyddio wrth gyfeirio ati drwy'r holl ddogfennaeth ymgynghori. Ystyriwn mai diffyg yw hyn wrth ysgrifennu'r ddogfennaeth ac mae'n dangos diffyg parch tuag at yr ardal, ei threftadaeth a'i hanes.

**Ymateb y Cyngor**

Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a ddarparwyd gan staff Ysgol Bodffordd, y cyflwynwyd sawl un ohonynt gan y Pennaeth, ac fe'u hystyrir fel rhan o'r ymgynghoriad. Gweler adran 5.8 am ymateb y Cyngor.

***C: A ydych am awgrymu opsiynau amgen rhesymol eraill ar gyfer parhad Ysgol Bodffordd sy'n mynd i'r afael â'r heriau allweddol y mae Ysgol Bodffordd yn eu hwynebu?***

- Nid oes angen cau ysgol er mwyn adeiladu ysgol newydd.
- Addasu Ysgol Corn Hir ac adeiladu 3ydd ysgol gynradd yn nhref Llangefni i dynnu'r pwysau oddi ar Ysgol Corn Hir ac Ysgol y Graig a sicrhau addysg gynaliadwy i dref sy'n dal i dyfu.
- Sefydlu Safle Addysgu GYDOL OES yn Llangefni.

**Ymateb y Cyngor**

Mae'r opsiynau amgen rhesymol eraill a awgrymwyd yn cael eu hystyried ymhellach yn Adran 6.4

***C: A oes unrhyw faterion eraill y dylai'r Cyngor eu hystyried fel rhan o'u hasesiadau effaith cyn dod i benderfyniad?***

- Mae'r ddogfen Asesiad Effaith yn seiliedig ar farn – wrth gwrs byddai cau ysgol bentref yn cael effaith yn y tymor byr a'r tymor canolig, ond byddai effaith hirdymor colli ysgol fel YGB yn negyddol, a byddai'n amddifadu'r ardal o'r gweithgaredd sy'n cael ei greu gan bobl ifanc. Nid ydym yn cytuno o gwbl gyda'r farn y byddai cau YGB yn cael effaith NIWTRAL ar Fodffordd.

- Gwneir defnydd rheolaidd o'r Neuadd Gymuned / Neuadd yr Ysgol (ac weithiau adeilad yr ysgol) gyda'r nos yn YGB. Mae nifer o sefydliadau cymunedol, grwpiau a chlybiau'n defnyddio'r adeilad. Mae'n annhebygol y byddai'r gweithgareddau hyn yn trosglwyddo i'w cynnal mewn gwahanol ardal oherwydd bod eu cysylltiad â phentref Bodffordd yn hanesyddol, ac yn anhepgor. Mae natur y diwylliant yn y ddwy ardal yn wahanol iawn.

- Byddai cau ysgol bentref yn cael effaith niweidiol ar unrhyw bentref, ond yn achos Bodffordd, byddai'r perygl o golli'r ysgol a mynediad i gymorth ar gyfer disgyblion / plant lleol yn gwanio statws a gweithgareddau'r Eisteddfod.

- Mae dogfen yr Asesiad Effaith yn nodi – ""Cymru sy'n fwy cyfartal – Bydd y prosiect yn sicrhau bod yr Ysgol Corn Hir newydd yn ffit i bwrpas a bydd yn sicrhau bod capasiti a photensial bob disgybl i lwyddo'n cael ei wireddu." Mae hyn yn awgrymu na fyddai hyn yn digwydd pe bai Ysgol Gymuned Bodffordd yn parhau i fod ar agor. Ceir camargraff bod plant yn cael mwy o gyfleoedd mewn ysgolion mawr. Defnyddir y camargraff hwn gan bobl nad oes ganddynt unrhyw brofiad o weithio mewn ysgol fechan neu o anfon eu plant i un. Mewn ysgol fechan, mae pob plentyn yn gorfod bod yn y tîm pêl-droed/rygbi/côr ac ati. Os nad oes unrhyw arbenigedd ar gael yn yr ysgol, gwneir trefniadau fel arfer i aelod o'r gymuned ddod i mewn i roi cymorth/hyfforddi. Mewn ysgol fawr, dim ond y disgyblion mwyaf hyderus/abl sy'n cael y cyfleoedd hyn. Yn YGB, gallwn dystio bod llawer o blant yn cael profiadau na fyddai ond y plant mwyaf amlwg yn eu cael mewn ysgolion mwy. Mae cydraddoldeb cyfle yn fwy amlwg mewn ysgolion llai, yn nhermau ein profiadau ni fel staff.

- Nododd yr Asesiad Effaith y byddai gweithgareddau cyfrwng Cymraeg yn parhau yn yr ysgol newydd. Ond ceir pryder o ran pwy fyddai'n agor a chau'r ysgol gyda'r nos / y tu allan i oriau ysgol gan fod hyn eisoes yn achosi anawsterau. Ar hyn o bryd, mae Pennaeth YGB yn sicrhau bod Y Ganolfan a'r ysgol ar agor i ddefnyddwyr o'r ardal leol a thu hwnt. Mae'n gamarweiniol i ddweud y byddai effaith y cynnig ar y Gymraeg yn "gadarnhaol". Barn ac nid ffaith yw hon. Rydym yn sicr y caiff y cynnig effaith negyddol ar y Gymraeg yn ein cymunedau.

- Mae YGB yn bryderus iawn am y disgwyliad a'r gofyniad i blant deithio i dref Llangefni (safle'r ysgol newydd) ac efallai gorfod teithio ar fws. Mae gan rieni YGB bryderon am y mater hwn hefyd. Byddai teuluoedd o'r ddwy ysgol yn cael eu gorfodi i deithio, er y soniwyd am ddulliau teithio sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd ar fysiau ac ar droed. Mae llawer o draffig eisoes yn ardal Corn

Hir yn y boreau, gyda phobl yn mynd â'u plant i ddwy ysgol fawr arall yn yr ardal (Canolfan y Bont ac Ysgol Gyfun Llangefni). Mae sawl damwain wedi digwydd eisoes yn yr ardal ar ddiwedd y diwrnod ysgol, lle cafodd plant eu taro gan gerbydau.

**Ymateb y Cyngor**

Ystyrir sylwadau'r staff fel rhan o'r Asesiad Effaith a fydd wedi'i ddiwygio a'i ddiweddaru( gweler Atodiad 1).

**5.10.2 STAFF YSGOL CORN HIR**

Derbyniwyd ymatebion unigol gan staff Ysgol Corn Hir. Dyma grynodeb o rai darnau o'u hymatebion.

Darn 1

Rwy'n cefnogi'r cynnig i:

***'Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir".***

Rwyf wedi astudio'r 'Papur Cynnig' yn ofalus ac o'r farn na fydd yr un o'r opsiynau amgen a gynigir yn darparu canlyniad gwell i'r plant, yr athrawon a chymuned ehangach Ysgol Corn hir na'r cynnig uchod. Mae'r rhesymau a restrir isod yn egluro pam.

Bydd y cynnig uchod yn:

- Sicrhau y bydd yr holl blant yn cael yr adeilad modern newydd y maent yn ei haeddu, ar safle newydd addas gydag ystafelloedd dosbarth o faint digonol a chyfleusterau priodol ar eu cyfer hwy a chenedlaethau'r dyfodol.
- Sicrhau bod lle dynodedig ar gyfer cyfnodau CPA oherwydd bod athrawon ar hyn o bryd yn gorfod gweithio yn yr ystafell staff lle mae staff yn cael eu hegwyliau ar wahanol amseroedd, a lle mae'r unig ffotogopïwr yn yr ysgol gyfan, gan gynnwys y swyddfa, wedi'i leoli.
- Sicrhau y bydd yr holl blant yn yr ysgol yn gwybod y gallant fynychu clybiau allgyrsiol drwy gydol y flwyddyn. Ceir cyfyngiad ar hyn o bryd ar nifer y clybiau y gallwn eu cynnig gan nad yw'r neuadd ar gael oherwydd y cynhelir y clwb ar ôl ysgol yno o 3pm i 5.30pm.
- Diogelu safonau addysgu a dysgu uchel yr ysgol. Er y diffyg lle, nid effeithiwyd ar safonau dysgu'r plant hyd yma. Er hyn, gyda gofynion y Cwricwlwm newydd, byddai'n eithriadol o anodd i ni gynnig yr holl gyfleoedd i'n disgyblion o dan yr amodau presennol. Byddai adeilad newydd yn sicrhau y gallem gyflawni gofynion y Cwricwlwm newydd.
- Sicrhau bod y strategaethau addysgu a dysgu y buom yn eu treialu yn cael eu trosglwyddo i'r ysgol newydd, a fydd yn sicrhau bod disgyblion yn parhau i gyflawni'r safonau uchel a gyflawnir ganddynt ar hyn o bryd.
- Sicrhau bod nifer y disgyblion mewn dosbarth yn 30 neu lai. Nid yw gorfod dysgu 35 o ddisgyblion mewn dosbarth yn deg ar y disgyblion na'r athro. Mae pob dosbarth yn orlawn ar hyn o bryd, ac nid yw yr un ohonynt yn cydymffurfio â'r gofynion o ran lle ar gyfer pob dosbarth.
- Sicrhau bod digon o le i ddisgyblion dderbyn ystod lawn o brofiadau yn y celfyddydau mynegiannol a'r Cwricwlwm yn ei gyfanrwydd.
- Sicrhau parhad o ran gwaith plant o flwyddyn i flwyddyn, gan y byddai'r cynlluniau gwaith sydd eisoes yn eu lle yn trosglwyddo i'r ysgol newydd.

- Sicrhau na fydd blynyddoedd o waith caled a wnaed gan staff yr ysgol i droi Corn Hir yn ysgol lwyddiannus yn mynd yn ofer. Nid oes dwywaith y gallwn barhau i adeiladu ar ein gwaith da drwy edrych ymlaen at weithio mewn adeilad modern a fydd yn hwyluso yn hytrach na rhwystro ein gwaith.
- Sicrhau na fydd rhieni'n wynebu costau ychwanegol drwy orfod prynu gwisg ysgol wahanol.
- Sicrhau bod y gwobrau arbennig y gweithiodd y plant mor galed i'w cyflawni yn parhau, fel Gwobr Aur Siarter yr Iaith Gymraeg, y Wobr Ysgolion Iach, Eco Ysgol, Ysgol Unicef, Marc Ansawdd a Masnach Deg.

<u>Darn 2</u>

Ysgrifennaf atoch i fynegi fy nghefnogaeth i adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir. Mae'r pwyntiau a ganlyn yn amlinellu'r angen brys yn glir:

**<u>EFFAITH AR Y PLANT</u>**

- Diffyg lle ar gyfer gweithgareddau / targedu disgyblion / amser cwnsela.
- Diffyg lle i ddarparu mannau ar gyfer amryw weithgareddau.
- Chwarae ar yr iard – mae diffyg lle yn broblem eisoes – ni wnaiff hyn wella gyda mwy o ddisgyblion – mae'n arwain at anafiadau a dadleuon.
- Lle ar gyfer athrawon peripatetig – nid oes lle ar gyfer athrawon peripatetig, e.e. cerdd – rhaid iddynt addysgu mewn coridorau a defnyddio'r neuadd, sy'n atal gwneud defnydd arall o'r neuadd.

**<u>IECHYD A DIOGELWCH</u>**

- **Gwasanaethau** - mae'r neuadd yn orlawn pan gynhelir gwasanaeth ar gyfer yr ysgol gyfan - ni allwn sicrhau y gall yr ysgol gyfan gael gwasanaethau ar y cyd yn ddiogel.
- **Addysg Gorfforol** yn y neuadd – nid yw'n ddiogel nac yn ymarferol i gynnal gwers addysg gorfforol i fwy na 30 o ddisgyblion yn y neuadd.
- **Cinio** - ar hyn o bryd, gallwn gael dau eisteddiad amser cinio, fodd bynnag, os bydd yr ysgol yn parhau i dyfu, byddai rhaid ystyried 3 eisteddiad, fyddai'n golygu gorfod cychwyn amser cinio am 11.30 a gorffen am 13.00 neu 12.00 tan 13.30. Ni fydd rhaid i ni gyflwyno 3 eisteddiad cinio tan y bydd gan yr ysgol 250 o ddisgyblion. Fodd bynnag, rydym eisoes wedi gwahanu dosbarthiadau ar gyfer cinio, h.y. nid yw pawb yn yr un dosbarth yn cael cinio ar yr un pryd. Byddai 3 eisteddiad cinio yn golygu gorfod cyflogi mwy o oruchwylwyr, am gost ychwanegol i'r ysgol.
- **Chwarae ar yr iard** – mae'r iard eisoes yn rhy fach, a bu sawl digwyddiad lle cafodd disgyblion eu hanafu o ganlyniad i ormod o blant yn chwarae ar yr iard – nid oes unrhyw fodd o reoli hyn ymhellach.
- **Cyngherddau** - rydym eisoes yn gorfod defnyddio Capel Moreia gan nad yw'r ysgol yn ddigon mawr i gynnal cyngherddau ar gyfer yr ysgol gyfan. Trwy orfod

symud i Gapel Moreia, rhaid talu costau cludiant i'r disgyblion (ar gyfer ymarferion a pherfformiadau) a thalu costau llogi.

**Lobïau** – nid oes digon o begiau i'r holl ddisgyblion er ein bod wedi gosod mwy dros y blynyddoedd. Mae'r ysgol eisoes wedi buddsoddi mewn mannau storio addas ar gyfer bocsys cinio yng nghaban blynyddoedd 5 a 6, i sicrhau bod y lobi mor daclus â phosib i leihau risgiau. Nid yw'n bosib defnyddio'r math hwn o ddatrysiad yn y lobïau eraill.

- **Toiledau** - ceir un set o doiledau yn yr adran fabanod ar gyfer y dosbarth derbyn (i enethod a bechgyn) gyda 5 toiled, ceir un set o doiledau ar gyfer y bechgyn (2 wrinal ac 1 toiled) ynghyd ag un set o doiledau (2 doiled) ar gyfer blynyddoedd 1 a 2. Yn yr adran iau, ceir un toiled a 3 wrinal ar gyfer blynyddoedd 3 a 4. Ceir hefyd set o doiledau yng nghaban blynyddoedd 5 a 6 gyda 3 thoiled. I'r genethod, nid oes ond un set o doiledau yn yr adran iau, sydd yn y prif adeilad, a cheir yno gyfanswm o 3 thoiled.

- **Toiled i'r Anabl**: Mae gan yr ysgol un toiled i'r anabl sy'n cyflawni'r gofynion ac fe'i lleolir yn y caban. Nid yw'r un yn y lobi blaen yn cyflawni'r gofynion gan nad oes digon o le yno ar gyfer cadair olwyn a dau gymhorthydd ar yr un pryd. Mae hyn yn golygu, pe bai'r ysgol yn derbyn disgybl mewn cadair olwyn, byddai'n golygu gorfod defnyddio'r toiled yn y caban, h.y. mynd allan i'r toiled, a'r unig fodd o wneud hynny yw trwy fynd allan trwy ran blaen yr adeilad, ac yna trwy ddwy giât allanol.

- **Lleoedd newid i'r plant**: Nid oes unrhyw ystafell newid ddynodedig ar gyfer plant sydd wedi gwlychu eu hunain - mae'r staff yn gorfod delio â hyn yn y toiledau cyffredinol, gan geisio bod mor sensitif â phosib i breifatrwydd y plentyn. Mae gan yr ysgol 12 mynedfa / allanfa dân ond dim ond 3 o'r rhain sydd â mynedfa wastad.

- **Hygyrchedd i'r anabl** – nid yw'r adeilad yn gwbl hygyrch i unrhyw ddisgybl anabl. Nid yw'r drysau'n ddigon llydan ac nid yw pob mynedfa'n addas ar gyfer cadair olwyn. Os bydd disgyblion anabl yn mynychu'r ysgol yn y dyfodol, gyda chymaint o blant ym mhob dosbarth, ni fyddant yn gallu mynd i mewn i'r ystafell ddosbarth.

- **Cyflwr cyffredinol yr ysgol** – mae'r adran eiddo wedi arolygu'r safle yn y gorffennol ac wedi nodi agweddau penodol sydd angen eu gwella.

**Ymateb y Cyngor**

Mae'r Cyngor yn nodi'r ymatebion a ddarparwyd gan staff Ysgol Corn Hir, y cyflwynwyd sawl un ohonynt gan y Pennaeth, ac fe'u hystyrir fel rhan o'r ymgynghoriad. Gweler adran 5.9 am ymateb y Cyngor.

### 5.11 Barnau plant a phobl ifanc yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir

Cynhaliwyd y broses ymgynghori gyda Phlant a Phobl Ifanc yn unol ag Adran 3.5 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.

Ymwelodd swyddogion y Cyngor â'r ddwy ysgol i ganfod eu barnau ar y cynnig. Eglurodd y swyddogion bod y Cyngor yn gyfrifol am ysgolion ym Môn a'u bod yn gweithio fel rhan o dîm i roi cymorth i ysgolion, gyda'r nodau a ganlyn:

- Rhoi'r cyfle gorau i bob plentyn ddysgu mewn ysgolion rhagorol ar yr ynys.
- Sicrhau adeiladau ysgol diogel a chryf.
- Sicrhau bod arian ar gyfer plant ac ysgolion ym Môn yn cael ei wario'n deg.
- Rhoi'r cyfle i bawb gael llais mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, a sicrhau bod y lleisiau hynny'n cael eu clywed.

Atgoffwyd y plant am Erthygl 12: Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. 'Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried'.

Eglurwyd y bydd yr wybodaeth a gyflwynir ganddynt yn cael ei throsglwyddo i adroddiad a'i chyflwyno i Gynghorwyr fel rhan o'r Ymgynghoriad Statudol, a fydd wedyn yn gwneud penderfyniad.

Eglurodd y swyddogion beth fyddai efallai'n newid, a gofynnwyd y cwestiynau a ganlyn i'r plant:

- Beth ydych yn ei hoffi am eich ysgol bresennol?
- Oes yna unrhyw beth yr hoffech ei newid / wella yma yn eich ysgol bresennol?
- Sut ydych yn cyrraedd eich ysgol bresennol?
- Sut ydych chi'n teimlo am y cynnig?
- Beth fyddech chi'n ei hoffi am y cynnig?
- Beth fyddech chi ddim yn ei hoffi am y cynnig?
- Oes gennych chi rywbeth arall yr hoffech ei ddweud?

Nodir eu hymatebion isod. Yn ystod rhai sesiynau, ysgrifennodd rhai plant eu sylwadau ar bapur, ac fe'u cyflwynir yn iaith y plant.

## 5.11.1 YSGOL BODFFORDD

| **Ysgol Bodffordd 26.02.2020** | **Y Cyngor Ysgol ac eraill** |
|---|---|
| Faint o blant? | 24 o blant (6-11 oed) 12 Geneth / 12 Bachgen |
| Beth fyddai'n newid? | Efallai y bydd Ysgol Bodffordd yn cau ac y bydd disgyblion Ysgol Bodffordd yn symud i'r Ysgol Corn Hir newydd. |
| Cwestiwn | Ateb |
| Beth ydych yn ei hoffi am Ysgol Bodffordd? | • Gweithgareddau ar ôl ysgol (fel dartiau, bingo, yr Urdd, celf).<br>• Mae pawb yn adnabod ei gilydd oherwydd bod yr ysgol yn fach.<br>• Ysgol fach felly'n haws datrys problemau bwlio'n gynt.<br>• Yn hawdd gwneud ffrindiau a chymysgu.<br>• Wedi tyfu i fyny yn y pentref ac mae gen i lawer o ffrindiau.<br>• Teimlo'n saff – fel teulu / tîm ac yn gwmni i'n gilydd.<br>• Yn cydweithredu / cymysgu efo pawb yn yr ysgol, e.e. mae'r plant mawr yn yr ysgol yn gallu helpu'r plant bach yn yr ysgol.<br>• Ysgol iach, cadw'n heini / ymarfer, bwyd da.<br>• Amser chwarae.<br>• Athrawon caredig / neis / cwrtais rydym yn gallu dibynnu arnyn nhw.<br>• Mae'r athrawon yn eu hadnabod ac yn barod i wrando.<br>• Cael hwyl yn yr ysgol.<br>• Mae pawb yn cael y cyfle i gymryd rhan, e.e. cystadlaethau, chwaraeon.<br>• Iard fawr.<br>• Mae pawb yn garedig.<br>• Mae Ysgol Bodffordd yn hoffi gweithio y tu hwnt i beth sy'n gyfforddus i chi.<br>• Mae gennym glwb brecwast ac rydym yn chwarae cardiau a gemau tan y gloch a dyna pryd mae'r ysgol yn dechrau.<br>• Mae'r ysgol yng nghanol pentref – yn gallu cerdded i'r ysgol.<br>• Cysylltiadau teuluol – aelodau hŷn o'r teulu wedi bod yn yr ysgol.<br>• Offer hen a newydd sbon.<br>• Yn hoffi popeth. |
| Oes yna unrhyw beth yr hoffech ei newid / wella yma yn Ysgol Bodffordd? | • Estyniad i'r adeilad – moderneiddio'r adeilad.<br>• Dim llawer o lefydd i chwarae allan.<br>• Dim pethau i chwarae efo nhw ar yr iard.<br>• Dim digon o le yn yr ystafell ddosbarth.<br>• Mae'r toiledau'n gorlifo drwy'r amser.<br>• Eisiau gwneud mwy o bethau yn y clwb brecwast.<br>• Mwy o athrawon.<br>• Llai o blant.<br>• Dim byd.<br>• Bwlio / cecru / ffraeo.<br>• Mae'r offer yn hen. |

| Ysgol Bodffordd 26.02.2020 | Y Cyngor Ysgol ac eraill |
|---|---|
| | |
| Sut ydych yn cyrraedd Ysgol Bodffordd? | • Cerdded<br>• Beicio / sgwter / sgrialfwrdd – gan fod yr ysgol mor agos.<br>• Car<br>• Tacsi |
| Sut fyddech chi'n teimlo am gau Ysgol Bodffordd a symud i'r Ysgol Corn Hir newydd? | • Pryderus<br>• Swil<br>• Anhapus – byddai'r athrawon yn stopio gweithio yma.<br>• Ofnus<br>• Blin<br>• Trist<br>• Yn casáu hynny<br>• Siomedig<br>• Nerfus<br>• Teimladau cymysg<br>• Rhai'n hapus i weld ffrindiau o Ysgol Corn Hir / gwneud ffrindiau newydd. |
| Beth fyddech chi'n ei hoffi am symud i'r Ysgol Corn Hir newydd? | • Gwneud ffrindiau newydd a chael hwyl efo nhw.<br>• Cymysgu mwy gyda phlant eraill.<br>• Mwy o le.<br>• Mwy o bethau i chwarae efo nhw – ffrâm ddringo, parc.<br>• Cae rygbi a phêl-droed.<br>• Cymysgu gwisg ysgol Corn Hir a'n un ni.<br>• Ysgol fodern<br>• Trio pethau newydd<br>• Dim byd<br>• Offer newydd<br>• Ystafell gerdd<br>• Gweld ffrindiau<br>• Doedd rhai ddim eisiau newid lliw'r wisg ond efallai gellid cael logo newydd.<br>• Gweld pobl newydd<br>• Yn nes at fy nhŷ<br>• Llyfrgell fawr |
| Beth fyddech chi ddim yn ei hoffi am symud i'r Ysgol Corn Hir newydd? | • Ysgol fawr – dim llawer o sylw.<br>• Mwy o fwlio.<br>• Athrawon ddim yn rhoi sylw i blant sydd angen sylw.<br>• Llai o gyfleoedd gan fod mwy o blant.<br>• Dim cymysgedd o blant mewn dosbarth – ddim yn cael cymysgu efo plant eraill.<br>• Gorfod teithio'n bellach.<br>• Dim ond y plant gorau fyddai'n cael y cyfle i wneud chwaraeon, e.e. rygbi, pêl-droed – ddim yn deg ar bobl sydd eisiau cyfle.<br>• Cost o symud tŷ – gall rhai ddim ond cerdded i'r ysgol / byddai rhaid i'r rhain orfod meddwl am symud tŷ.<br>• Ddim eisiau gwneud ffrindiau newydd / cymysgu efo plant eraill. |

| **Ysgol Bodffordd 26.02.2020** | **Y Cyngor Ysgol ac eraill** |
|---|---|
| | • Ddim eisiau athrawon newydd.<br>• Sŵn mewn ysgol fawr.<br>• Yn gallu effeithio iechyd meddwl plant. |
| Oes gennych chi rywbeth arall yr hoffech ei ddweud? | • Yn bwysig i blant gael dweud eu dweud.<br>• Ddim yn gallu canolbwyntio mewn ysgol fwy gan fod cymaint o blant yn y dosbarth.<br>• I le fyddai'r Cylch Meithrin yn mynd?<br>• Ddim yn deg bod Ysgol Bodffordd yn cau ac Ysgol Corn Hir ddim – yn teimlo ein bod wedi'n gadael allan.<br>• Rhoi estyniad bach ar yr adeilad presennol a'i foderneiddio.<br>• Ysgol Bodffordd i aros ar agor ac Ysgol Corn Hir i gael adeilad newydd.<br>• Tydi'r Cynghorwyr fydd yn gwneud y penderfyniad i gau'r ysgol ddim yn gwybod pa mor arbennig ydi'r ysgol.<br>• Ddim yn deall pam maen nhw eisiau cau'r ysgol oherwydd ei bod yn fach.<br>• Yn poeni am y bobl fydd yn colli eu swyddi – staff o'r ysgol yma ddim yn symud i'r ysgol newydd.<br>• Fydd rhai o'n ffrindiau ddim yn mynd i'r ysgol newydd ac yn mynd i ysgolion eraill yn ei lle.<br>• Teithio'n bellach.<br>• Ystafell i siarad os ydych chi'n teimlo'n ofnus / trist neu'n flin am rywbeth, 'chill zone'.<br>• Gadael i'r plant ddylunio'r logo.<br>• Cael snac ar ôl bob amser cinio.<br>• Mae'r Cylch Meithrin yn dda. |

## 5.11.2 YSGOL CORN HIR

| **Ysgol Corn Hir 25.02.2020** | **Y Cyngor Ysgol ac eraill** |
|---|---|
| Faint o blant? | 20 o blant (6-11 oed) 10 Geneth / 10 Bachgen |
| Beth fyddai'n newid? | Efallai y bydd hyn yn golygu y byddwn yn adeiladu ysgol newydd ar gyfer Corn Hir.<br><br>Ac efallai y bydd disgyblion o Ysgol Bodffordd yn symud i'r ysgol Corn Hir newydd gan fod Ysgol Bodffordd yn cau. |
| Cwestiwn | Ateb |
| Beth ydych yn ei hoffi am Ysgol Corn Hir? | • Mae'r ysgol yn lle saff a diogel sydd ddim yn agos i'r ffordd fawr.<br>• Mae Nant y Pandy yn agos i safle'r ysgol.<br>• Rydym yn cefnogi elusennau.<br>• Rydym yn cefnogi ein hiaith.<br>• Rydym yn cynrychioli'r ysgol mewn chwaraeon.<br>• Rydym yn dysgu am dafodiaith Ynys Môn.<br>• Mae gennym 'gwt cysurus' ar gyfer plant sy'n poeni am bethau.<br>• Rydym yn defnyddio eitemau masnach deg.<br>• Mae plant yn cael cyfle i fynegi eu barnau, e.e. Y Cyngor Ysgol. |
| Oes yna unrhyw beth yr hoffech ei newid / wella yma yn Ysgol Corn Hir? | • 'Does dim toiledau i'r genethod yn y caban.<br>• Tydi'r neuadd ddim yn ddigon mawr ar gyfer rhai gweithgareddau.<br>• 'Does dim digon o le yn yr ysgol.<br>• Mae dŵr yn gollwng i mewn i'r dosbarth derbyn.<br>• Rydym angen mwy o le i gadw ein cotiau.<br>• Mae'r ffrâm ddringo'n beryglus gan ei bod wedi torri.<br>• Mae'r pegiau yn y caban wedi torri.<br>• 'Does dim digon o ddiogelwch yn yr ysgol.<br>• Mae teils to'r neuadd yn torri. |
| Sut ydych yn cyrraedd Ysgol Corn Hir? | • Sgwteri<br>• Beics<br>• Cerdded<br>• Car |
| Sut fyddech chi'n teimlo am symud i adeilad newydd gydag Ysgol Bodffordd yn ymuno â chi? | • Yn braf cael mwy le.<br>• Wedi cyffroi.<br>• Swil<br>• Nerfus<br>• Hyderus<br>• Yn anghyfforddus i ddechrau.<br>• Mentrus<br>• Mwy o ffrindiau.<br>• Yn pryderu am ymddygiad disgyblion o Ysgol Bodffordd. |
| Beth fyddech chi'n ei hoffi am symud i adeilad newydd gydag | • Cael lle ar gyfer sioe Nadolig.<br>• Cael mwy o le i wneud ymarfer corff.<br>• Cael mwy o ffrindiau. |

| **Ysgol Corn Hir 25.02.2020** | **Y Cyngor Ysgol ac eraill** |
|---|---|
| Ysgol Bodffordd yn ymuno â chi? | • Cael offer newydd (offer ymarfer / offer TG).<br>• Cadw'r enw 'Ysgol Corn Hir'.<br>• Bydd mwy o ystafelloedd gweigion (ar gyfer clwb ar ôl ysgol a chyfarfodydd / ystafell gelf ac ati).<br>• Cadw ein gwobrau aur.<br>• Cael ystafell gerdd.<br>• Cadw ein dillad ysgol / neu ddim. |
| Beth fyddech chi ddim yn ei hoffi am symud i adeilad newydd gyda disgyblion Ysgol Bodffordd yn ymuno efo chi? | • Bydd mwy o geir yn dod i'r ysgol.<br>• Bydd rhaid i ni brynu offer newydd.<br>• Bydd rhai plant yn swil o amgylch athrawon a disgyblion newydd.<br>• Fydd Nant y Pandy ddim mor agos. |
| Oes gennych chi rywbeth arall yr hoffech ei ddweud? | • Cael bws mini i'r ysgol.<br>• Lot o le parcio.<br>• Loceri i gadw cotiau a bagiau.<br>• Cael sgwter a chwt i storio beics.<br>• Fydd rhai o blant Bodffordd ddim yn gallu cerdded i'r ysgol.<br>• Cyfle i ddylunio logo newydd gyda phlant Bodffordd. |

**5.11.3 Ymateb y Cyngor**

Bydd yr ymateb i'r ymgynghoriad a ddarparwyd gan y plant a'r bobl ifanc yn y ddwy ysgol yn cael ei ystyried gyda'r ymatebion eraill a dderbyniwyd gan randdeiliaid.

### 5.12 Ymateb Estyn

Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) nodir isod ymateb llawn Estyn i'r ymgynghoriad (cynhwyswyd y llythrennau mewn print trwm gan y Cyngor).

**Ymateb Estyn i'r cynnig gan Gyngor Ynys Môn i Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir.**

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i God cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori at Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion yng nghyswllt trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn darparu ei farn yn unig ar rinweddau'r cynigion o ran trefniadaeth ysgolion.

Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgol y cynnig ac wedi llunio'r ymateb a ganlyn i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

**Cyflwyniad**

Cynnig yw hwn gan Gyngor Ynys Môn i Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir.

Mae'r cynigiwr yn nodi y bydd adeilad yr ysgol newydd yn cymryd yr holl ddisgyblion o'r Ysgol Corn Hir a'r Ysgol Bodffordd presennol ac yn cwrdd â holl amcangyfrif galw'r dyfodol, gan gynnwys darpariaeth feithrin. Byddai Ysgol Bodffordd yn cau.

**Mae'r cynigiwr yn egluro'n glir y rhesymeg y tu ôl i'r cynnig, a osodir yn erbyn y gyrwyr newid allweddol yn Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Ynys Môn**. Mae'r rhain yn cynnwys safonau addysg; sicrhau bod adeiladau ysgol yn addas i'r pwrpas; gwella Arweinyddiaeth a Rheolaeth; lleihau nifer y lleoedd gweigion; lleihau cost gyffredinol addysg a'r amrywiaeth yn y gost y disgybl; cynnal a gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chynyddu defnydd cymunedol adeiladau ysgol.

**Crynodeb/Casgliad**

**Mae Estyn o'r farn bod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau presennol o leiaf yn nhermau addysg, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth ar gyfer plant yn yr ardal.**

**Disgrifiad a buddion**

**Mae'r cynigiwr wedi nodi rhesymeg glir ar gyfer y cynnig ac yn rhoi rhesymau o ran pam mae newid yn angenrheidiol, gan gynnwys cryfderau a gwendidau parhau â'r trefniadau presennol**. Mae'r cynigiwr wedi nodi pum prif risg o ran y cynnig ac wedi amlinellu'n glir sut y byddent yn cael eu rheoli.

Mae'r cynigiwr yn rhestru nifer o fanteision i'r cynnig a osodir yn erbyn y gyrwyr newid allweddol, fel mwy o gyfle i staff ddatblygu arbenigedd mewn pynciau penodol ar draws y cwricwlwm ynghyd â mynd i'r afael ag anghenion yr holl ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion ag ADY a'r disgyblion mwy abl a thalentog. Ni fyddai gan y Pennaeth unrhyw ymrwymiad addysgu penodol, byddai hyn yn helpu i gefnogi a chynyddu capasiti o ran arweinyddiaeth. Byddai'r cynnig hefyd yn mynd i'r afael â'r angen i wella'r adeiladau ysgol presennol i gyflawni safonau ysgolion 21ain ganrif.

Mae'r cynigiwr hefyd yn rhestru anfanteision posib y cynnig, fel y ffaith na fyddai'r safonau da sy'n bodoli eisoes yn yr Ysgol Corn Hir bresennol o reidrwydd yn trosglwyddo drosodd i'r ysgol newydd, ynghyd â'r mwyafrif o ddisgyblion Ysgol Bodffordd yn gorfod teithio'n bellach.

**Mae cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth addas i opsiynau eraill,** er enghraifft, sefydlu ffederasiwn ffurfiol, adeiladu un ysgol gynradd fawr, ac adeiladu ysgol pob oed. Tra bo'r cynigiwr yn cydnabod manteision ac anfanteision pob opsiwn, daw i'r casgliad nad yw yr un o'r opsiynau hyn yn hyfyw. Hefyd, nid yw'r cynigion yn cwrdd â gyrwyr y strategaeth moderneiddio neu'n wir yr heriau a wynebir gan yr ysgolion ar hyn o bryd.

**Agweddau addysgol y cynnig**

**Mae cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth briodol i effeithiau'r cynnig ar ansawdd deilliannau, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth**. Nododd y bydd amrywiaeth ehangach o gyfleusterau ar gael, yn ychwanegol i well mynediad at adnoddau a staffio. Mae'r rhain yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar les ac agweddau tuag at ddysgu pob disgybl yn yr Ysgol Corn Hir newydd. Mae'n nodi y gall tîm mwy o staff ddarparu ystod ehangach o arbenigedd mewn agweddau o'r cwricwlwm ac yn nhermau arwain mentrau ysgol gyfan. Mae'n nodi y gall ddarparu mwy o gyfleoedd i staff ddatblygu eu sgiliau i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion mwy bregus a rhai mwy abl a thalentog.

**Mae'r cynnig wedi rhoi ystyriaeth resymol i adroddiadau arolygiadau diweddaraf Estyn ar gyfer y ddwy ysgol.** Mae adroddiad Estyn ar Ysgol Bodffordd yn nodi bod perfformiad presennol yr ysgol yn gwella. Mae'r adroddiadau ar gyfer Ysgol Corn Hir yn nodi bod perfformiad cyffredinol yr ysgol ar hyn o bryd yn dda.

Mae'r cynigiwr wedi cynnal asesiad effaith llawn ar gyfer pob ysgol o ran yr effaith bosib ar y gymuned, y trefniadau teithio i ddisgyblion ac ansawdd yr addysg. Er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau niweidiol, mae'r awdurdod wedi ymrwymo i ddarparu cludiant i'r mwyafrif o'r disgyblion o Ysgol Bodffordd i'r Ysgol Corn Hir newydd, yn unol â pholisi cludiant y Cyngor ar gyfer ysgolion. Mae'r cynigiwr wedi ymrwymo i weithio gyda'r gymuned ym Modffordd i sicrhau hyfywedd hirdymor y ganolfan gymuned bresennol. Hefyd, o ran y ddwy ysgol, rhagwelir y byddai effaith gadarnhaol ar ansawdd a safonau addysg, gan y byddai athrawon yn gallu rheoli dosbarthiadau'n well oherwydd y byddai'r holl ddisgyblion yn cael eu haddysgu o fewn yr un cyfnod allweddol.

**Mae'r cynigiwr wedi ymgymryd ag asesiad effaith cynhwysfawr o effaith bosib y cynnig ar gydraddoldeb, yr Iaith Gymraeg a'r gymuned.** Dengys y casgliad y byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb a'r Gymraeg**, mae felly'n rhesymol i gredu na fydd unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg neu ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal.** Mae'r cynigiwr yn dangos hefyd sut y mae'r cynnig yn cyflawni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2015.

**Ymateb y Cyngor**

Ni chafodd unrhyw faterion eu nodi o fewn ymateb Estyn yr oedd angen i'r Cyngor ymateb iddynt neu eu hegluro ymhellach.

## 6. SYLWADAU A DDERBYNIWYD MEWN PERTHYNAS Â'R OPSIYNAU AMGEN RHESYMOL A YSTYRIWYD

Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) rhoddwyd cyfle i randdeiliaid wneud sylwadau ynghylch yr opsiynau amgen yn lle cau a nodwyd gan y Cyngor (6.2), yn ogystal â'r prif gynnig. Rhoddwyd cyfle i randdeiliaid hefyd awgrymu opsiynau amgen eraill yn lle cau, a fyddai'n cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Bodffordd y mae'r Cyngor yn ceisio mynd i'r afael â hwy.

### 6.1 Heriau Allweddol a Wynebir gan Ysgol Bodffordd

Cyflwynwyd disgrifiad o'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Bodffordd a sut yr eir i'r afael â hwy gan y cynnig yn y ddogfen ymgynghori, ac fe'u gwelir yn y tabl a ganlyn.

| Ffactorau Penodol | Heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Bodffordd | Sut yr eir i'r afael â hwy gan y cynnig? |
|---|---|---|
| Niferoedd Disgyblion | Capasiti annigonol yn Ysgol Bodffordd:<br>• Mae Ysgol Bodffordd dros ei chapasiti o tua 11% ar hyn o bryd.<br>• Ym mis Hydref 2019: roedd gan Ysgol Bodffordd 69 o ddisgyblion ar y gofrestr a 41 o ddisgyblion yn mynychu o'r tu mewn i'r dalgylch (59%).<br>• 10% o'r tu allan i ddalgylch Ysgol Bodffordd yn dod o ddalgylch Ysgol Corn Hir [7 o ddisgyblion]<br>• Disgwylir i ragamcaniad niferoedd y disgyblion yn Ysgol Bodffordd gynyddu erbyn Medi 2024.<br>• Ysgol Bodffordd - Capasiti ac eithrio'r Meithrin 63 / Rhagamcanir 77 yn 2024. | Bydd gan yr Ysgol Corn Hir newydd ddigon o leoedd i gwrdd â'r galw. Yn ogystal â hyn, bydd disgyblion Bodffordd yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau ag ystodau oedran agosach. Bydd hefyd llai o ddisgyblion yn symud ar draws dalgylchoedd. |
| Cyflwyno'r cwricwlwm | • Gofod cyfyngedig sydd gan Ysgol Bodffordd i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (CIG) yn y tymor canolig/hirdymor. | Bydd yr Ysgol Corn Hir newydd wedi ei hadeiladu'n bwrpasol i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (CIG) newydd. Bydd â gwell cyfarpar i allu cyflwyno'r cwricwlwm mewn modd priodol, gwahaniaethol, eang ac amrywiol a fydd o fudd i'r holl ddisgyblion. |
| Cost y disgybl | Amrywiad yn y gost fesul disgybl:<br>▪ Ysgol Bodffordd 2019/20=£4,274<br>▪ Cyfartaledd y gost fesul disgybl ar gyfer ysgolion cynradd Môn yn 2019/20 yw £3,988<br><br>Mae angen lleihau'r amrywiad yn y gost fesul disgybl ar draws y Cyngor. Gellir dadlau bod ysgolion llai yn derbyn yr hyn sy'n gyfwerth â chyllid ychwanegol i gynnal isafswm o lefelau | Byddai lleihad yng nghyfartaledd y gost fesul disgybl yn yr Ysgol Corn Hir newydd.<br><br>Byddai'r gost fesul disgybl a ragamcanir ar gyfer yr Ysgol Corn Hir newydd yn tua £3,736. Byddai hyn yn arwain at |

<table>
<tr><th>Ffactorau Penodol</th><th>Heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Bodffordd</th><th>Sut yr eir i’r afael â hwy gan y cynnig?</th></tr>
<tr><td></td><td>staffio a bod yr ysgolion mwy dan anfantais o ganlyniad.</td><td>arbedion refeniw i’r Cyngor.</td></tr>
<tr><td>Yr adeilad ysgol</td><td>Mae gan Ysgol Bodffordd gostau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol o £134,000 (2019) a gradd cyflwr B (Boddhaol, perfformio fel y dylai ond yn arddangos ychydig o ddirywiad).<br><br>Mae gan Ysgol Bodffordd rai problemau hygyrchedd i bobl ag anableddau. Maent yn cydymffurfio’n rhannol yn unig â’r gofynion a ddisgwylir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.</td><td>Bydd adeilad 21ain ganrif newydd wedi’i ddylunio i fod â chostau cynnal a chadw isel gyda gradd BREEAM ardderchog.<br>Byddai gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol Ysgol Bodffordd, sef £134,000 (2019) yn cael ei ddileu.<br>Bydd yr Ysgol Corn Hir newydd yn cydymffurfio’n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010.</td></tr>
<tr><td>Safonau</td><td>Mae ysgolion yn derbyn cymorth gan GwE, y Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion ar gyfer Gogledd Cymru).<br><br>Mae’r tabl isod yn amlygu’r categorïau GwE o 2015-2019
<table>
<tr><th>Blwyddyn</th><th>Ysgol Bodffordd</th></tr>
<tr><td>2019</td><td>Melyn ( B)</td></tr>
<tr><td>2018</td><td>Melyn</td></tr>
<tr><td>2017</td><td>Oren</td></tr>
<tr><td>2016</td><td>Oren</td></tr>
<tr><td>2015</td><td>Oren</td></tr>
</table>
Mae Ysgol Bodffordd wedi’i chategoreiddio’n felyn ar hyn o bryd (gall ysgol yn y categori hwn dderbyn hyd at 10 diwrnod o gefnogaeth).<br>Mae categori Ysgol Bodffordd wedi gwella o Oren yn 2015 i Felyn (B) yn 2019.<br>Gellir cynnal y safonau hyn yn y tymor byr. Categori Melyn B (categori cefnogaeth Melyn, a dyfarniad B am y gallu i wella yn ôl y weithdrefn gategoreiddio ysgolion).</td><td>Bydd yr Ysgol Corn Hir newydd mewn sefyllfa i gynnal ei graddfeydd Estyn Da a Rhagorol a disgwylir iddi gadw ei statws Gwyrdd (A) sydd gan yr Ysgol Corn Hir bresennol.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Ffactorau Penodol</th><th>Heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Bodffordd</th><th>Sut yr eir i'r afael â hwy gan y cynnig?</th></tr>
<tr><td></td><td>Dengys y tabl grynodeb o arolygiadau Estyn ar gyfer Ysgol Bodffordd<br><br><table><tr><th>Dyddiad yr arolwg</th><th>Mehefin 2015</th></tr><tr><td>Safonau</td><td>Boddhaol</td></tr><tr><td>Lles ac agweddau at ddysgu</td><td>Da</td></tr><tr><td>Addysgu a phrofiadau dysgu</td><td>Boddhaol</td></tr><tr><td>Gofal, cymorth ac Arweiniad</td><td>Da</td></tr><tr><td>Arweinyddiaeth a Rheolaeth</td><td>Boddhaol</td></tr></table></td><td></td></tr>
<tr><td>Ymrwymiad Addysgu'r Pennaeth</td><td>Ysgol Bodffordd – cyfartaledd o ymrwymiad addysgu 80% (cadarnhad y Pennaeth – Medi 2019)<br><br>Mae'r angen i gydbwyso'r 80% o ymrwymiad yn Ysgol Bodffordd gyda gofynion arweinyddiaeth dydd i ddydd yn her.</td><td>Yn yr Ysgol Corn Hir newydd, rhagwelir na fydd gan y Pennaeth ymrwymiad addysgu penodol. Mae'n bosib adeiladu ymhellach ar yr uwch dîm rheoli, a'i ddatblygu, a gallai hyn wella arweinyddiaeth a rheolaeth.</td></tr>
<tr><td>Cyllidol</td><td>Ysgol Bodffordd - 3% dros ei chyllideb (2019/20) ac ni fydd yn ad-dalu'r diffyg tan 2021/22 pan ddisgwylir i niferoedd disgyblion gynyddu.<br>Mae'r sefyllfa uchod yn bodoli ar adeg pan fo'r Cyngor yn edrych i arbed tua £8.5m dros y 3 blynedd i ddod.</td><td>Mae ysgolion mwy mewn gwell sefyllfa i gyflawni meintiau dosbarthiadau sy'n agosach at y gymhareb disgybl athro/athrawes orau bosib, gan sicrhau meintiau dosbarthiadau effeithlon.</td></tr>
</table>

### 6.2 Opsiynau Amgen Rhesymol a Ystyriwyd yn Lle Cau Ysgol Bodffordd

Yn yr adran hon, yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), mae'r Cyngor yn ystyried sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad fel opsiynau amgen i'r cynnig ac i gau Ysgol Bodffordd, ac yn rhoi ei ymateb drwy ddarparu eglurhad, diwygio'r cynnig neu wrthod pryderon gyda rhesymau i gefnogi hynny.

Cyflwynwyd yr opsiynau amgen rhesymol a welir isod gan y Cyngor i randdeiliaid yn y ddogfen ymgynghori. Darparodd dros 450 o randdeiliaid sylwadau yn ystod y cyfnod ymgynghori.

| Opsiynau Amgen Rhesymol a gyflwynwyd gan y Cyngor | Sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb y Cyngor (eglurhad, diwygio'r cynnig neu wrthod pryderon gyda rhesymau i gefnogi hynny) |
|---|---|---|
| **Adeiladu ysgol gynradd 21ain Ganrif newydd ar gyfer Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir a chau'r ddwy ysgol.**<br><br>Yn seiliedig ar gost o tua £9.5m. | Mae'r opsiwn hwn yn decach na chynnig y Cyngor. Mae'n decach cau'r ddwy ysgol ac adeiladu ysgol newydd i gymryd disgyblion o'r ddwy. Mae cynnig y Cyngor yn annheg i Ysgol Bodffordd.<br><br>*(Awgrymwyd gan tua 61 o randdeiliaid o dros 450 o ymatebion)* | Mae'r opsiwn o adeiladu ysgol gynradd 21ain Ganrif newydd ar gyfer Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir a chau'r ddwy ysgol yn cael ei wrthod gan y Cyngor gan fod risg na fydd y safonau da a welir ar hyn o bryd yn yr Ysgol Corn Hir gyfredol yn trosglwyddo i'r Ysgol Corn Hir newydd. Mae'r Ysgol Corn Hir gyfredol wedi'i chategoreiddio fel "Gwyrdd A". (Categori cymorth Gwyrdd, a dyfarniad A am y gallu i wella yn ôl y drefn categoreiddio ysgolion). Mae'n hanfodol i'r categoreiddiad "Gwyrdd A" hwn gael ei gynnal yn yr Ysgol Corn Hir newydd. |
| **Parhau â'r trefniadau presennol - Gadael Ysgol Bodffordd fel y mae.**<br><br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf. | Darparu ysgol newydd ar gyfer Corn Hir – Ond gadael Ysgol Bodffordd fel y mae (Cadw Bodffordd ar Agor)<br><br>*(Awgrymwyd gan tua 40 o randdeiliaid o dros 450 o ymatebion)* | **Yn 6.4.2 mae'r Cyngor yn ystyried yr opsiwn amgen arall hwn o ysgol newydd ar gyfer Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae, fel yr awgrymir gan randdeiliaid.** |

| **Opsiynau Amgen Rhesymol a gyflwynwyd gan y Cyngor** | **Sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad** | **Ymateb y Cyngor (eglurhad, diwygio'r cynnig neu wrthod pryderon gyda rhesymau i gefnogi hynny)** |
|---|---|---|
| **Ffedereiddio Ysgol Bodffordd gydag Ysgol Corn Hir**<br><br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf. | Awgrymodd yr ymatebwyr y byddai'n well ganddynt yr opsiwn o ffedereiddio yn lle'r cynnig. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif ohonynt yn awyddus i ffedereiddio ag ysgol debyg arall yn hytrach nag Ysgol Corn Hir, fel Ysgol Henblas. | Mae'r opsiwn o ffedereiddio Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir yn cael ei wrthod gan y Cyngor. Nid yw'r opsiwn amgen rhesymol hwn ei hun yn mynd i'r afael â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Bodffordd neu Ysgol Corn Hir. Ni fyddai capasiti digonol o fewn ardal Bodffordd/Corn Hir i gymryd niferoedd y disgyblion a ragamcanir yn y dyfodol. Yn ogystal, penderfynodd y Cyngor ar 25 Mawrth 2019, y byddai Ysgol Henblas yn cael ei dileu o gynnig ardal Llangefni, gan y derbyniwyd sicrwydd o ran gwelliant mewn safonau a chynnydd yn niferoedd y disgyblion. Felly nid yw Ysgol Henblas yn rhan o'r cynnig hwn. |
| **Trefniant clwstwr / cydweithrediad – Ysgol Bodffordd gydag Ysgol Corn Hir**<br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf. | Cafwyd rhai'n crybwyll y cydweithredu da rhwng ysgolion yn ardal Llangefni ar hyn o bryd. | Mae'r Cyngor yn gwrthod yr opsiwn o ran trefniant clwstwr / cydweithrediad – Ysgol Bodffordd gydag Ysgol Corn Hir. Nid yw'r opsiwn amgen rhesymol hwn ei hun yn mynd i'r afael â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Bodffordd neu Ysgol Corn Hir. Ni fyddai digon o gapasiti o fewn ardal Bodffordd/Corn Hir i gymryd niferoedd y disgyblion a ragamcanir yn y dyfodol. |
| **Sefydlu ysgol aml-safle, Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir**<br><br>Yn seiliedig ar gost o tua £3.4m i ymestyn y ddwy ysgol. **(Byddai angen estyniad gan fod y ddwy ysgol dros eu capasiti)** | Derbyniwyd sylwadau mewn perthynas ag ymestyn y ddwy ysgol ar eu safleoedd presennol.<br><br>*(Awgrymwyd gan tua 50 o randdeiliaid o dros 450 o ymatebion)* | Rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiwn o ymestyn ôl-troed Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir yn y ddogfen ymgynghori ond fe'i gwrthodwyd.<br>Nid oes digon o le o fewn y safleoedd i gymryd estyniad, mannau parcio, a mannau chwarae ac addysgol eraill yn yr awyr agored. Nid oes unrhyw dir cyfagos ger y safleoedd ar gael i'w brynu. |
| **Ymgymryd â gwaith cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol** | Cafwyd diffyg buddsoddiad mewn gwaith cynnal a chadw gan y Cyngor mewn | Nid oes gan y Cyngor yr adnoddau ariannol i gynnal 40 o ysgolion cynradd, 5 ysgol uwchradd ac 1 ysgol arbennig i'r lefel a ddymunir yn yr hinsawdd bresennol, ac yn dilyn blynyddoedd o gyni.<br>Mae'r Cyngor yn cynnal arolwg o gyflwr pob ysgol yn flynyddol, a threfnir y gwaith a fynnir ym mhob ysgol yn ôl |

<table>
<tr><th>Opsiynau Amgen Rhesymol a gyflwynwyd gan y Cyngor</th><th>Sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad</th><th>Ymateb y Cyngor (eglurhad, diwygio’r cynnig neu wrthod pryderon gyda rhesymau i gefnogi hynny)</th></tr>
<tr><td>yn Ysgol Bodffordd<br><br>Yn seiliedig ar fenthyciad o £134k dros 20 mlynedd.</td><td>blynyddoedd diweddar – nid yr ysgol sydd ar fai am hyn.<br><br>(Sylw a wnaed gan Lywodraethwyr Ysgol Bodffordd)</td><td>categorïau (A-D) yn ôl blaenoriaeth y gwaith dan sylw, gan ystyried agweddau fel cyflwr yr ased, ac ystyriaethau o ran iechyd a diogelwch. Bydd gwaith a nodir ar gyfer categorïau D a C yn cael blaenoriaeth, tra na fydd gwaith a nodwyd sy’n dod o fewn categorïau B ac A ond yn cael ei wneud os oes cyllid yn weddill ar ôl cwblhau’r holl waith yng nghategorïau D a C.<br>Cyfanswm y gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol ar gyfer pob ysgol yw tua £22m. Cyfanswm y gost cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol ar gyfer Ysgol Bodffordd yw £134,000 – tua 0.609% (1/164) o’r cyfanswm.<br><br>Mae’r tabl isod yn amlygu’r gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol ar gyfer yr 8 adeilad ym Môn sydd ag arwynebedd o lai na $600m^2$ (at ddibenion y tabl hwn, nid yw’r gost sy’n gysylltiedig â’r ‘Portacabin’ yn Ysgol Talwrn wedi’i gynnwys).<br><br>
<table>
<tr><th>Ysgol</th><th>Niferoedd Disgyblion CYBLD 2019</th><th>Arwynebedd</th><th>Gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol £</th></tr>
<tr><td>Bodffordd</td><td>70</td><td>470</td><td>134,000</td></tr>
<tr><td>Talwrn</td><td>45</td><td>302</td><td>110,500</td></tr>
<tr><td>Carreglefn</td><td>23</td><td>224</td><td>46,500</td></tr>
<tr><td>Llanbedrgoch</td><td>24</td><td>320</td><td>168,500</td></tr>
<tr><td>Llangoed</td><td>69</td><td>572</td><td>114,000</td></tr>
<tr><td>Henblas</td><td>86</td><td>533</td><td>138,000</td></tr>
<tr><td>Pencarnisiog</td><td>69</td><td>575</td><td>98,000</td></tr>
<tr><td>Rhosybol</td><td>58</td><td>551</td><td>96,500</td></tr>
<tr><td>Average</td><td>56</td><td>443</td><td>113,250</td></tr>
</table>
<br>Mae’r ffigurau ar gyfer ‘Gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol’ a gynhwysir o fewn y tabl hwn yn cynnwys gwariant fel a ganlyn, ond nid yw wedi’i gyfyngu i hyn:<br>• Ailwynebu iardiau ysgol / meysydd parcio<br>• Gwaith ail-baentio mewnol ac allanol<br>• Gosod drysau a ffenestri newydd<br>• Adnewyddu ceginau, ystafelloedd dosbarth, toiledau ac ati<br>• Ffensys, giatiau a systemau mynediad newydd eraill<br>• Gosod goleuadau newydd<br>• Ailweirio<br>• Gosod toeau newydd</td></tr>
</table>

| **Opsiynau Amgen Rhesymol a gyflwynwyd gan y Cyngor** | **Sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad** | **Ymateb y Cyngor (eglurhad, diwygio'r cynnig neu wrthod pryderon gyda rhesymau i gefnogi hynny)** |
|---|---|---|
| | | Dengys y tabl uchod bod y gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol yn Ysgol Bodffordd yn cymharu ag adeiladau ysgol eraill o faint tebyg.<br><br>Dengys hyn na chafodd Ysgol Bodffordd ei thrin yn llai ffafriol nag ysgolion eraill.<br><br>Gwrthodwyd yr opsiwn amgen rhesymol hwn gan y Cyngor, fel y gwelir yn y ddogfen ymgynghori 6.3.9. |
| **Ehangu ôl troed Ysgol Bodffordd er mwyn gwneud yr ysgol yn amgylchedd dysgu ehangach**<br>Yn seiliedig ar estyniad i gymryd 60 o ddisgyblion ychwanegol.<br><br>Yn seiliedig ar gost o tua £1.7m | Ymestyn yr ysgol bresennol ym Modffordd drwy ychwanegu un neu ddwy ystafell ddosbarth.<br><br>*(Awgrymwyd gan tua 61 o randdeiliaid o dros 450 o ymatebion)* | Rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiwn o ehangu ôl troed Bodffordd yn y ddogfen ymgynghori ac fe'i gwrthodwyd.<br><br>I wneud Ysgol Bodffordd yn amgylchedd dysgu mwy i gymryd 60 o ddisgyblion ychwanegol, byddai angen estyniad 180m².<br><br>Mae gan y safle presennol arwynebedd allanol o 2,578m². Mae Bwletin Adeiladu 103 – Canllawiau Arwynebedd ar gyfer Ysgolion Prif Ffrwd 2014 (sy'n nodi'r arwynebedd ar gyfer adeiladau a safleoedd a fynnir wrth ddylunio ysgolion newydd) yn gofyn am arwynebedd allanol o 2,975m² o leiaf ar gyfer ysgol o'r maint hwn. Byddai estyniad 180m² yn lleihau'r arwynebedd allanol i 2,398m².<br><br>Mae'r Cyngor o'r farn nad oes digon o le o fewn y safle presennol i gymryd estyniad, man parcio, a mannau chwarae ac addysgol eraill yn yr awyr agored. Nid oes unrhyw dir cyfagos ar gael i'w brynu. |
| **Gosod ystafelloedd dosbarth dros dro yn Ysgol Bodffordd**<br><br>Yn seiliedig ar fenthyca £550k dros 10 mlynedd. | Beth am gael 'Portacabin' ar safle Ysgol Bodffordd er mwyn mynd i'r afael â'r ffaith ei bod dros ei chapasiti.<br><br>*(Awgrymwyd gan tua 5 o randdeiliaid allan o dros 450 o ymatebion)* | Mae'r Cyngor yn gwrthod yr opsiwn i osod dosbarthiadau dros dro yn Ysgol Bodffordd.<br><br>Nid oes digon o le ar safle Ysgol Bodffordd i leoli ystafell ddosbarth dros dro heb effeithio'r mannau chwarae allanol sydd ar gael yno. |

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i opsiynau amgen rhesymol ar gyfer ardal Llangefni hefyd, cyn penderfynu ar y cynnig ar gyfer yr ymgynghoriad.

Dyma rai o'r opsiynau amgen rhesymol a gyflwynwyd i randdeiliad yn y ddogfen ymgynghori, gyda'u sylwadau ac ymateb y Cyngor.

| Opsiynau Amgen Rhesymol a gyflwynwyd gan y Cyngor | Sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb y Cyngor (eglurhad, diwygio'r cynnig neu wrthod pryderon gyda rhesymau i gefnogi hynny) |
|---|---|---|
| **Ffedereiddio Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir, Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn gydag Ysgol Gyfun Llangefni (Ysgol Uwchradd).**<br>Yn seiliedig ar ddim gwariant cyfalaf. | Awgrymodd yr ymatebwyr y byddai'n well ganddynt yr opsiwn o ffedereiddio yn lle'r cynnig. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif ohonynt yn awyddus i ffedereiddio ag ysgol debyg arall yn hytrach nag Ysgol Corn Hir, fel Ysgol Henblas. | Mae'r Cyngor yn gwrthod yr opsiwn o ffedereiddio'r pedair ysgol gynradd gyda'r ysgol uwchradd yn Llangefni, fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori yn 6.3.13.<br>Yn ogystal, penderfynodd y Cyngor ar 25 Mawrth 2019, y byddai Ysgol Henblas yn cael ei dileu o gynnig ardal Llangefni, gan y derbyniwyd sicrwydd o ran gwelliant mewn safonau a chynnydd yn niferoedd y disgyblion. Felly nid yw Ysgol Henblas yn rhan o'r cynnig hwn. |
| **Ffedereiddio Ysgol y Graig (YYG) ac Ysgol Corn Hir (Symud Ysgol Corn Hir (YCH) i ysgol newydd a chynyddu capasiti Corn Hir)**<br>**Ehangu'r ffederasiwn ymhellach ymlaen i gynnwys Ysgol Bodffordd, Ysgol Talwrn ac Ysgol Gyfun Llangefni dan un corff llywodraethu.**<br>Yn seiliedig ar gost o oddeutu £9.5m. | Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau penodol. | Byddai'r opsiwn hwn yn golygu gadael Ysgol y Graig, Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn fel y maent.<br><br>Ni fyddai'r opsiwn amgen rhesymol hwn yn mynd i'r afael â'r:<br>• Angen am ragor o leoedd ysgol yn Llangefni – dengys rhagamcanion disgyblion sy'n cynnwys disgyblion o ddatblygiadau tai newydd ei bod yn debygol y bydd 764 o ddisgyblion yn y 4 ysgol gynradd (Bodffordd, y Corn Hir newydd, Talwrn a'r Graig) tra bo capasiti presennol y pedair ysgol gynradd yn darparu 742 o leoedd, sy'n golygu diffyg o 22 o leoedd.<br>• Ni fyddai cyflwr yr adeiladau ysgol yn cael eu gwella.<br>• Gwrthodir yr opsiwn amgen rhesymol hwn ac ni chaiff ei ystyried ymhellach fel y nodwyd |

| Opsiynau Amgen Rhesymol a gyflwynwyd gan y Cyngor | Sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb y Cyngor (eglurhad, diwygio'r cynnig neu wrthod pryderon gyda rhesymau i gefnogi hynny) |
|---|---|---|
| | | yn y ddogfen ymgynghori yn 6.3.14. |
| **Ysgol Pob Oed newydd yn Llangefni ar gyfer Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir, Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn**<br>Ysgol Pob Oed yw ysgol sy'n cyfuno addysg gynradd ac uwchradd mewn un sefydliad. Yn seiliedig ar gost o oddeutu £22.46m. | Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau penodol. Fodd bynnag, cafwyd dau yn awgrymu ysgol pob oed aml-safle ar gyfer Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir | Mae ysgol pob oed aml-safle ar gyfer Ysgol Gyfun Llangefni , Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir yn cael ei hystyried yn 6.4.7 |
| **Ehangu'r holl ysgolion cynradd**<br>Yn seiliedig ar amcan o fenthyca £7m dros 50 mlynedd. | Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau penodol. | Cafodd yr opsiwn amgen rhesymol hwn ei asesu a'i wrthod fel y gwelir yn y ddogfen ymgynghori yn 6.3.16.<br>• Nid oes digon o le o fewn safle presennol Ysgol Bodffordd i gymryd estyniad, man parcio, a mannau chwarae ac addysgol eraill yn yr awyr agored. Nid oes unrhyw dir cyfagos ar gael i'w brynu.<br>• Byddai angen caffael tir ychwanegol o amgylch safle Ysgol Talwrn er mwyn i'r ysgol gynradd gael digon o le i barcio a man chwarae addysgiadol digonol y mae ei hangen ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru newydd er mwyn dod â'r ysgol yn agos i safon Ysgol 21ain Ganrif.<br>• Nid oes digon o le o fewn safle presennol Ysgol Corn Hir i gymryd estyniad, man parcio, a mannau chwarae ac addysgol eraill yn yr awyr agored. Nid oes unrhyw dir cyfagos ar gael i'w brynu.<br>• Ni fyddai ymestyn Ysgol y Graig i ddarparu cynnydd o 60 o ran ei chapasiti yn creu capasiti digonol yn ysgolion cynradd ardal Llangefni. |
| **Clystyru, cydweithrediad rhwng ysgolion yn ardal Llangefni.** | Dywedodd Pennaeth Ysgol Bodffordd "bod holl ysgolion dalgylch Llangefni yn | Mae'r Cyngor yn croesawu'r cydweithrediad agos rhwng ysgolion Llangefni. Nid yw'r |

| **Opsiynau Amgen Rhesymol a gyflwynwyd gan y Cyngor** | **Sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad** | **Ymateb y Cyngor (eglurhad, diwygio’r cynnig neu wrthod pryderon gyda rhesymau i gefnogi hynny)** |
|---|---|---|
| Yn seiliedig ar ddim gwariant cyfalaf. | cydweithredu’n agos iawn a bod pob ysgol o ganlyniad yn rhannu arferion da ac arbenigedd a bod safonau wedyn yn gwella ym mhob ysgol”.<br>“Mae’r cydweithrediad agos hwn yn golygu bod yr ysgolion yn cydweithredu ar flaenoriaethau eu Cynlluniau Datblygu Ysgol. Mae’r cydweithredu hwn wedi arwain at enwi Dalgylch Llangefni mewn cynhadledd GwE fel enghraifft o arfer da y dylid ei rannu” | opsiwn amgen rhesymol hwn ei hun yn mynd i’r afael â sawl un o’r heriau allweddol i ysgolion o fewn ardal Llangefni. Ni fyddai capasiti digonol o fewn ysgolion Llangefni i gymryd niferoedd y disgyblion a ragamcanir yn y dyfodol. Gwrthodwyd yr opsiwn amgen rhesymol hwn gan y Cyngor fel y gwelwyd yn y ddogfen ymgynghori yn 6.3.17. |

Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau penodol gan randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori ynghylch yr opsiynau amgen rhesymol a ganlyn a gyflwynwyd gan y Cyngor.

| **Opsiynau Amgen Rhesymol a gyflwynwyd gan y Cyngor – Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau penodol** |
|---|
| **Cynnal y Meithrin a Blynyddoedd 0-1 yn Ysgol Bodffordd a Blynyddoedd 2-6 yn Ysgol Corn Hir i ddisgyblion y ddwy ysgol**<br>Yn seiliedig ar gost o £3.4m i ymestyn y ddwy ysgol. |
| **Defnyddio Ysgol Bodffordd fel hwb cymunedol i letya/cefnogi gwasanaethau cymunedol**<br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf. |
| **Cyd-leoli gwasanaethau lleol yn Ysgol Bodffordd**<br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf. |
| **Adeiladu llawr arall yn Ysgol Bodffordd**<br>Yn seiliedig ar gost o tua £1.7m. |

### 6.3 Rhagdybiaeth yn Erbyn Cau Ysgolion Gwledig

Mae'r cod trefniadaeth ysgolion (011/2018) yn gwneud trefniadau arbennig yng nghyswllt ysgolion gwledig, sy'n sefydlu rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn eu cau.

Gan fod y cynnig yn cynnwys y posibilrwydd o gau Ysgol Bodffordd, sydd ar y rhestr o ysgolion gwledig, cafodd pob opsiwn amgen rhesymol a ystyriwyd gan y Cyngor ar gyfer Ysgol Bodffordd ei asesu hefyd o ran yr effaith bosib ar:

- Ansawdd a Safonau mewn Addysg
- Y gymuned, a
- Threfniadau teithio i ddisgyblion

**6.3.1** Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, darparodd rhanddeiliaid wybodaeth/sylwadau pellach mewn perthynas â'r cynnig ynghyd ag opsiynau amgen rhesymol eraill a ystyriwyd (adran 6.2) o ran eu heffeithiau ar ansawdd a safonau addysg, y gymuned, a threfniadau teithio i ddisgyblion.

**6.3.2** Mae'r Cyngor wedi asesu'r wybodaeth/sylwadau pellach gan randdeiliaid o ran eu heffeithiau ar ansawdd a safonau addysg, y gymuned, a threfniadau teithio i ddisgyblion yng nghyswllt y cynnig a'r opsiynau amgen rhesymol yn (6.2) ac yn nodi ei ymateb yn unol â'r cod trefniadaeth ysgolion (011/2018) yn y tabl isod. Mae'r tabl yn crynhoi sylwadau'r rhanddeiliaid.

<table>
<tr><th>Effeithiau</th><th>Gwybodaeth / sylwadau pellach gan Randdeiliaid</th><th>Asesiad / ymateb pellach y Cyngor</th></tr>
<tr><td>Effaith ar Ansawdd a Safonau</td><td><ul><li>Mae adroddiad thematig Estyn "Ysgolion Cynradd Bach yng Nghymru (2006)" yn nodi nad oes gwir wahaniaeth rhwng safonau addysg mewn ysgolion bach a mawr, ond "Gall fod yn anoddach i athrawon mewn ysgolion bach gyfateb y gwaith ag anghenion y disgyblion gan y gall disgyblion mewn dosbarth amrywio'n fawr yn nhermau oedran a chamau datblygiad". Mae hyn yn wir am ysgolion trefol mawr hefyd. Mae'n rheidrwydd, ac yn un o ffeithiau bywyd a gwaith mewn ysgolion mawr, fod rhaid i athrawon baratoi gwaith ar gyfer ystod o lefelau ac ar gyfer nifer o oedrannau gwahanol mewn dosbarthiadau er mwyn ymateb i anghenion addysgol y plant yn y dosbarthiadau, yn yr un modd ag y mae athrawon mewn ysgolion llai yn llwyddo i ddarparu ar gyfer gwahanol ystodau oedran. Mae'r plant yn cael llawer o fudd o gyfeillachu a chyd-ddysgu â phlant o wahanol oedrannau.</li></ul></td><td>Yn ei asesiad gwreiddiol, ystyriodd y Cyngor, oherwydd bod safonau yn Ysgol Corn Hir yn uwch na'r safonau yn Ysgol Bodffordd, y byddai hyn yn arwain at effaith gadarnhaol ar ansawdd a safonau yn nhermau'r cynnig, ynghyd â'r posibilrwydd o effaith niwtral/negyddol ar Ansawdd a Safonau yn nhermau'r opsiynau amgen rhesymol eraill.<br>Ar ôl adolygu'r wybodaeth/sylwadau pellach gan randdeiliaid, daw'r Cyngor i'r casgliad, oherwydd bod safonau yn Ysgol Bodffordd wedi gwella o Oren yn 2015 i Felyn yn 2019 (fel y gwelir yn y tabl isod), y gallai gadael Ysgol Bodffordd fel y mae arwain at effaith gadarnhaol ar ansawdd a safonau addysg wrth fynd ymlaen. (Gweler yr opsiwn amgen rhesymol arall yn 6.4.2).<br><br><u>Categoreiddiad–Ffynhonnell GwE Tach19</u><table><tr><th>Blwyddyn</th><th>Ysgol Bodffordd</th><th>Ysgol Corn Hir</th></tr><tr><td>2019</td><td>Melyn (B)</td><td>Gwyrdd(A)</td></tr><tr><td>2018</td><td>Melyn</td><td>Gwyrdd</td></tr></table></td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Effeithiau</th><th>Gwybodaeth / sylwadau pellach gan Randdeiliaid</th><th>Asesiad / ymateb pellach y Cyngor</th></tr>
<tr><td></td><td><ul><li>Mae’n deg nodi bod holl ysgolion dalgylch Llangefni yn cydweithredu’n agos iawn a bod pob ysgol o ganlyniad yn rhannu arferion da ac arbenigedd a bod safonau wedyn yn gwella ym mhob ysgol.</li></ul></td><td><table><tr><td>2017</td><td>Oren</td><td>Gwyrdd</td></tr><tr><td>2016</td><td>Oren</td><td>Gwyrdd</td></tr><tr><td>2015</td><td>Oren</td><td>Gwyrdd</td></tr></table><br>Mae’r ysgolion yn cael cymorth gan GwE. Mae Ysgol Bodffordd yng nghategori Melyn B (categori cymorth melyn, a dyfarniad B am y gallu i wella yn ôl y weithdrefn gategoreiddio ysgolion).</td></tr>
<tr><td>Effaith ar y Gymuned</td><td>Wrth gwrs, byddai cau ysgol bentref yn cael effaith yn y tymor byr a’r tymor canolig, ond byddai effaith hirdymor colli ysgol fel YGB yn negyddol a byddai’n amddifadu’r ardal o’r gweithgaredd sy’n cael ei greu gan bobl ifanc. Gellir gweld hyn ledled Cymru yn y pentrefi bychain hynny lle mae’r ysgol leol wedi cau a’r pentref wedi marw. Mae’r effaith negyddol hon yn ddiymwad.</td><td>Yn ei asesiad gwreiddiol, ystyriodd y Cyngor y byddai effaith cau Ysgol Bodffordd yn cael effaith niwtral ar y gymuned, gan y byddai’r Cyngor eisiau gweithio gyda’r gymuned i sicrhau parhad y ganolfan gymuned. Byddai’r cyfleusterau yn yr Ysgol Corn Hir newydd ar gael hefyd i gymuned Bodffordd os oedd angen capasiti ychwanegol.<br><br>Daw’r Cyngor i’r casgliad na fyddai gadael Ysgol Bodffordd fel y mae yn cael unrhyw effaith ar y ganolfan gymuned. (Gweler yr opsiwn amgen rhesymol arall yn 6.4.2).</td></tr>
<tr><td>Effaith ar wahanol drefniadau teithio</td><td>Mae Ysgol Gymuned Bodffordd (YGB )yn bryderus iawn am y disgwyliad a’r gofyniad i blant deithio i dref Llangefni (safle’r ysgol newydd) ac efallai gorfod teithio ar fws. Mae gan rieni YGB bryderon am y mater hwn hefyd. Byddai teuluoedd o Fodffordd ac YGB yn cael eu gorfodi i deithio. O ganlyniad, byddai cynnydd mewn trefniadau teithio i rieni'r ddwy ysgol, er y soniwyd am ddulliau teithio sy’n gyfeillgar i’r amgylchedd ar fysiau ac ar droed. Nid oes unrhyw lwybr cerdded diogel rhwng Bodffordd a Llangefni.</td><td>Yn ei asesiad gwreiddiol, ystyriodd y Cyngor y byddai’r effaith o gau Ysgol Bodffordd yn cael effaith negyddol ar y gwahanol drefniadau teithio i rai disgyblion, ac roedd yn cydnabod y bydd rhywfaint o amser teithio ychwanegol i rai disgyblion.<br>Roedd ffigurau Hydref 2019 yn awgrymu y byddai ⅓ yn byw’n nes at y safle arfaethedig [ger Corn Hir] ac felly’n manteisio yn nhermau trefniadau teithio. Byddai angen i tua ⅔ o’r disgyblion, y mwyafrif o Fodffordd, deithio’n bellach i’r safle newydd arfaethedig ger ardal Corn Hir.<br>Yn Hydref 2019, roedd 41% o ddisgyblion Ysgol Bodffordd yn dod o’r tu allan i’r dalgylch, fyddai’n awgrymu bod rhai rhieni’n barod i’w plant orfod teithio i’r ysgol.<br><br>Mae ein cyfrifiadau, yn ôl ffigurau Hydref 2019, yn awgrymu bod 27 o</td></tr>
</table>

| Effeithiau | Gwybodaeth / sylwadau pellach gan Randdeiliaid | Asesiad / ymateb pellach y Cyngor |
|---|---|---|
| | Nid oes unrhyw lwybr cerdded diogel rhwng Bodffordd a Llangefni. | blant sy'n mynychu Ysgol Bodffordd yn cerdded i'r ysgol (yn seiliedig ar bellter o ½ milltir o'r ysgol i'w cartref). Gan fod y llwybr o Fodffordd i Langefni ar y B5109 wedi'i ddosbarthu'n llwybr peryglus, byddai'r Cyngor yn darparu cludiant i'r disgyblion hyn, a fyddai'n golygu na fyddent yn debygol o gerdded neu feicio i'r ysgol. Yr amser teithio o Ysgol Bodffordd ar fws i'r safle newydd arfaethedig ar gyfer yr Ysgol Corn Hir newydd yw tua 8 munud. |
| | Cafwyd sawl damwain mewn blynyddoedd diweddar pryd cafodd plant eu taro gan fysiau/ceir.<br>Byddai cau YGB a gorfodi plant i deithio i Langefni yn cynyddu traffig yn yr ardal hon ac yn cynyddu'r posibilrwydd o ddamwain. | Yn ôl system adrodd am ddamweiniau a digwyddiadau (ADIR) y Cyngor, ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau o ran plant yn cael eu taro gan fysiau/ceir, yn achos plant o Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir, ers Ebrill 2015.<br><br>Daw'r Cyngor i'r casgliad na fyddai gadael Ysgol Bodffordd fel y mae yn cael unrhyw effaith ar y trefniadau teithio presennol. (Gweler yr opsiwn amgen rhesymol arall yn 6.4.2). |

**6.3.3** Pe cymeradwyir y cynnig gwreiddiol i gau Ysgol Bodffordd, er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau niweidiol, byddai'r Cyngor yn ymrwymo i:

- Weithio gyda'r gymuned ym Modffordd i sicrhau hyfywedd hirdymor y Ganolfan Gymuned bresennol [gan dynnu ar brofiad blaenorol mewn ardal arall o'r ynys], ac yn
- Darparu cludiant i ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Bodffordd i'r Ysgol Corn HIr newydd yn unol â pholisi cludiant y Cyngor i ysgolion.

**6.3.4** Fodd bynnag, os bydd y Cyngor yn penderfynu peidio â chau Ysgol Bodffordd, ac yn ei gadael fel y mae, yna daw i'r casgliad yn ei asesiad pellach y:

- Gallai gadael Ysgol Bodffordd fel y mae arwain at effaith gadarnhaol ar ansawdd a safonau addysg wrth fynd ymlaen.
- Byddai gadael Ysgol Bodffordd fel y mae yn cael llai o effaith ar y ganolfan gymuned bresennol.
- Byddai gadael Ysgol Bodffordd fel y mae yn cael llai o effaith ar y trefniadau teithio presennol.

### 6.4 Opsiynau Amgen Rhesymol Eraill a Awgrymwyd yn Ystod y Cyfnod Ymgynghori

Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) rhoddwyd y cyfle i'r rhanddeiliaid awgrymu opsiynau amgen eraill yn lle cau Ysgol Bodffordd, a fyddai'n mynd i'r afael â'r rhesymau dros gau (h.y. yr heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Bodffordd y mae'r Cyngor yn ceisio mynd i'r afael â hwy, fel y nodir yn adran 6.1 o'r adroddiad hwn).

Mae'r tabl a ganlyn yn cynnwys awgrymiadau gan randdeiliaid (dros 320 o ymatebion) fel opsiynau amgen yn lle cau Ysgol Bodffordd (na chawsant eu hystyried eisoes gan y Cyngor yn 6.2).
Ystyrir yr awgrymiadau o ran p'un a ydynt yn cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Bodffordd ai peidio, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

| **Opsiynau amgen rhesymol eraill a awgrymwyd gan randdeiliaid yn lle cau Ysgol Bodffordd** | **A ydyw'r opsiwn amgen rhesymol arall a awgrymwyd yn cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Bodffordd?** | **Ymateb y Cyngor (eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon, gyda rhesymau'r Cyngor i'w cefnogi)** |
|---|---|---|
| **6.4.1** Ysgol newydd ar gyfer Corn Hir - moderneiddio / ymestyn Ysgol Bodffordd gydag un ystafell ddosbarth ychwanegol (ar gyfer 30 o ddisgyblion ychwanegol) neu ddwy ystafell ddosbarth ychwanegol (ar gyfer 60 o ddisgyblion ychwanegol)<br><br>*Awgrymodd tua 140 o randdeiliaid yr opsiwn amgen hwn neu debyg, o dros 320 o ymatebion* | Gallai'r opsiwn amgen hwn fynd i'r afael â'r:<br>• Capasiti annigonol yn Ysgol Bodffordd, a hefyd<br>• Cydymffurfiaeth adeilad Ysgol Bodffordd gyda Deddf Cydraddoldeb 2010. | Cost ddiwygiedig adeiladu Ysgol Corn Hir newydd gyda chapasiti uwch ar gyfer 300 o ddisgyblion fyddai **£9,293,600**, sydd o fewn y gyllideb Moderneiddio Ysgolion.<br><br>**I ddarparu estyniad ar gyfer <u>un</u> ystafell ddosbarth ychwanegol newydd byddai angen estyniad yn Ysgol Bodffordd** (90m² ychwanegol ar gyfer 30 o blant gydag ystafell ddosbarth / ystafell gotiau / toiledau) **byddai'r gost yn £738,030.**<br><br><u>Dadansoddiad o'r costau</u><br>Gwariant Cynnal a Chadw Cyfredol a Rhagamcanol = £150,000. (Cegin, toiledau, maes parcio, ffensys newydd)<br><br>Estyniad 90m² x £2,775/m² (yn seiliedig ar safonau costau presennol cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd (2019), o dan y rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif) = £249,750<br><br>Costau TG a Gosodiadau, Ffitiadau ac Offer ar gyfer estyniad i 30 o blant x £1,776/plentyn (yn seiliedig ar safonau costau presennol cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion |

| Opsiynau amgen rhesymol eraill a awgrymwyd gan randdeiliaid yn lle cau Ysgol Bodffordd | A ydyw'r opsiwn amgen rhesymol arall a awgrymwyd yn cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Bodffordd? | Ymateb y Cyngor<br>(eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon, gyda rhesymau'r Cyngor i'w cefnogi) |
|---|---|---|
| | | sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd (2019), o dan y rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif) = £53,280<br><br>Gwaith adnewyddu i ddod â'r adeilad i safon 21ain Ganrif = £210,000 (Ffenestri a drysau newydd, goleuadau LED, gorffeniadau lloriau, nenfydau, paentio).<br><br>Estyniad i'r man chwarae caled allanol yn dilyn adeiladu'r estyniad = £75,000<br><br>Mae gan y safle presennol arwynebedd allanol o 2,578m². Mae Bwletin Adeiladu 103 – Canllawiau Arwynebedd ar gyfer Ysgolion Prif Ffrwd 2014 (sy'n nodi'r arwynebedd ar gyfer adeiladau a safleoedd a fynnir wrth ddylunio ysgolion newydd) yn gofyn am arwynebedd allanol o 2,750m² o leiaf ar gyfer ysgol o'r maint hwn. Byddai estyniad 90m² yn lleihau'r arwynebedd allanol i 2,488m².<br>**Gwrthodir yr opsiwn amgen rhesymol hwn oherwydd:**<br>• Nid oes digon o le o fewn y safle presennol i gynnwys estyniad, man parcio, mannau chwarae ac addysgol yn yr awyr agored. Nid oes unrhyw dir cyfagos ar gael i'w brynu.<br>• Cyfanswm y gost o adeiladu ysgol newydd ar gyfer Corn Hir ynghyd ag estyniad ar gyfer un ystafell ddosbarth yn Ysgol Bodffordd fyddai £10,032m, sy'n uwch na chost y cynnig ar gyfer yr Ysgol Corn Hir Newydd, sef £9.527m.<br><br>**I ddarparu estyniad ar gyfer <u>dwy</u> ystafell ddosbarth ychwanegol newydd byddai angen estyniad yn Ysgol Bodffordd** (estyniad 180m² ychwanegol i 60 o blant gydag ystafelloedd  dosbarth / ystafelloedd |

| Opsiynau amgen rhesymol eraill a awgrymwyd gan randdeiliaid yn lle cau Ysgol Bodffordd | A ydyw'r opsiwn amgen rhesymol arall a awgrymwyd yn cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Bodffordd? | Ymateb y Cyngor (eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon, gyda rhesymau'r Cyngor i'w cefnogi) |
|---|---|---|
| | | cotiau / toiledau) byddai'r gost yn **£1,116,060.**<br><br>**<u>Dadansoddiad o'r costau</u>**<br><br>Gwariant Cynnal a Chadw Cyfredol a Rhagamcanol = £150,000. (Cegin, toiledau, maes parcio, ffensys newydd)<br><br>Estyniad 180m² x £2,775/m² (yn seiliedig ar safonau costau presennol cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd (2019), o dan y rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif) = £499,500<br><br>Costau TG a Gosodiadau, Ffitiadau ac Offer ar gyfer estyniad i 60 o blant x £1,776/plentyn (yn seiliedig ar safonau costau presennol cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd (2019), o dan y rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif) = £106,560<br><br>Gwaith adnewyddu i ddod â'r adeilad i safon 21ain Ganrif = £210,000 (Ffenestri a drysau newydd, goleuadau LED, gorffeniadau lloriau, nenfydau, paentio).<br><br>Estyniad i'r man chwarae caled allanol yn dilyn adeiladu'r estyniad = £150,000<br><br>Mae gan y safle presennol arwynebedd allanol o 2,578m². Mae Bwletin Adeiladu 103 – Canllawiau Arwynebedd ar gyfer Ysgolion Prif Ffrwd 2014 (sy'n nodi'r arwynebedd ar gyfer adeiladau a safleoedd a fynnir wrth ddylunio ysgolion newydd) yn gofyn am arwynebedd allanol o 2,975m² o leiaf ar gyfer ysgol o'r maint hwn. Byddai estyniad 180m² yn lleihau'r arwynebedd allanol i 2,398m². |

| Opsiynau amgen rhesymol eraill a awgrymwyd gan randdeiliaid yn lle cau Ysgol Bodffordd | A ydyw'r opsiwn amgen rhesymol arall a awgrymwyd yn cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Bodffordd? | Ymateb y Cyngor (eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon, gyda rhesymau'r Cyngor i'w cefnogi) |
|---|---|---|
| | | **Gwrthodir yr opsiwn amgen hwn oherwydd:**<br>• Nid oes digon o le o fewn y safle presennol i gynnwys estyniad, man parcio, mannau chwarae ac addysgol yn yr awyr agored. Nid oes unrhyw dir cyfagos ar gael i'w brynu.<br>• Cyfanswm y gost o adeiladu ysgol newydd ar gyfer Corn Hir ynghyd ag estyniad ar gyfer dwy ystafell ddosbarth yn Ysgol Bodffordd fyddai £10,409,660, sy'n uwch na chost y cynnig ar gyfer yr Ysgol Corn Hir Newydd, sef £9,527,360 |
| **6.4.2** Ysgol Newydd ar gyfer Corn Hir – Gadael Ysgol Bodffordd fel y mae (Cadw Bodffordd Ar Agor)<br><br>*Awgrymodd tua 40 o randdeiliaid yr opsiwn amgen hwn o dros 320 o ymatebion* | Gallai'r opsiwn amgen hwn fynd i'r afael â'r heriau allweddol.gweler sylwadau isod:<br><br>• Capasiti annigonol yn Ysgol Bodffordd. Roedd yr ysgol dros ei chapasiti o tua 11% (CYBLD Ionawr 2019). Fodd bynnag, dengys ffigurau CYBLD Ionawr 2020 bod y ffigur hwn wedi gostwng i 5%. Nododd rhai rhanddeiliaid hefyd y dymunent anfon eu plant i'r Ysgol Corn Hir newydd, ac efallai y dymunent barhau i wneud hynny, hyd yn oed os bydd Ysgol Bodffordd yn dal i fod ar agor.<br>• Gallai Ysgol Bodffordd gydweithredu ag ysgolion cyfagos i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (CIG).<br>• Safonau – Fel y nodwyd gan GwE, mae categori Ysgol Bodffordd wedi gwella o Oren yn 2015 i Felyn (B) yn 2019. Hefyd, dywed Pennaeth Ysgol Bodffordd, "bod holl ysgolion dalgylch Llangefni yn cydweithredu'n agos iawn a bod pob ysgol o ganlyniad yn rhannu arferion da ac arbenigedd a bod | • Cost ddiwygiedig adeiladu Ysgol Corn Hir newydd gyda chapasiti uwch ar gyfer 300 o ddisgyblion fyddai **£9,293,600**, sydd o fewn y gyllideb Moderneiddio Ysgolion.<br>• **Mae'r Cyngor yn ystyried y gallai'r opsiwn amgen rhesymol hwn fynd i'r afael â'r mwyafrif o'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Bodffordd, sef ei bod dros ei chapasiti,cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, safonau ysgol, arweinyddiaeth a rheolaeth, cyllid yr ysgol, fel y nodir yn y golofn gyfochrog.** |

| Opsiynau amgen rhesymol eraill a awgrymwyd gan randdeiliaid yn lle cau Ysgol Bodffordd | A ydyw'r opsiwn amgen rhesymol arall a awgrymwyd yn cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Bodffordd? | Ymateb y Cyngor (eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon, gyda rhesymau'r Cyngor i'w cefnogi) |
|---|---|---|
| | safonau wedyn yn gwella ym mhob ysgol."<br>• Arweinyddiaeth a Rheolaeth -Yn ôl Pennaeth Ysgol Bodffordd, "'Does dim gwadu'r ffaith bod llawer o bwysau yn nhermau arweinyddiaeth a dysgu ar ysgolion bach pentref / gwledig, ond mae yna lawer o ffactorau cadarnhaol pwysig sy'n ei gwneud yn swydd ddiddorol, sy'n hogi'r meddwl – ceir amrywiaeth yng ngwaith y staff, mae'r gofynion a'r disgwyliadau'n heriol ac yn amrywiol, caiff pob aelod staff ei ddatblygu yn nhermau rolau arweinyddol a rheoli mewn ysgol fechan".<br>• Er yr oedd Ysgol Bodffordd yn dal i fod mewn sefyllfa o ddiffyg ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2019/20 (fel y rhagamcanwyd), mae'r ysgol wedi dangos y bydd ganddynt arian dros ben erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2020/21.<br>• Byddai'r opsiwn hwn yn golygu y byddai'r Cyngor yn osgoi cost o £90k yn y dyfodol yn erbyn y pennawd cludiant. O dan y trefniadau presennol, oherwydd y rhagamcanir y bydd Bodffordd ac Ysgol Corn Hir dros eu capasiti, byddai angen 3 bws i gludo disgyblion i ysgolion y tu allan i'w dalgylchoedd, lle ceir capasiti sbâr. O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai angen cludo disgyblion i ysgolion y tu allan i'w dalgylchoedd. | |
| **6.4.3** Adolygu dalgylchoedd Ysgol Corn Hir ac Ysgol y Graig i liniaru'r pwysau ar Ysgol Y Graig. Adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir | Gallai'r opsiwn amgen hwn:<br>• Gynnal y safonau presennol ac arweinyddiaeth a rheolaeth yn Ysgol Bodffordd yn y tymor byr. | **Gwrthodir yr opsiwn amgen hwn oherwydd:**<br>• Y gost o adeiladu Ysgol Corn Hir newydd i 420 o blant fyddai £10,966,371. Cost y cynnig ar gyfer ysgol i 360 o ddisgyblion fyddai |

| **Opsiynau amgen rhesymol eraill a awgrymwyd gan randdeiliaid yn lle cau Ysgol Bodffordd** | **A ydyw'r opsiwn amgen rhesymol arall a awgrymwyd yn cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Bodffordd?** | **Ymateb y Cyngor (eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon, gyda rhesymau'r Cyngor i'w cefnogi)** |
|---|---|---|
| gyda chapasiti ar gyfer 420 o ddisgyblion, gadael Ysgol Bodffordd ac Ysgol Y Graig fel y maent.<br><br>*Awgrymodd tua 20 o randdeiliaid yr opsiwn amgen hwn neu debyg o dros 320 o ymatebion.* | | £9,527,360, sef gwahaniaeth o £1,439,011 i'r Cyngor ei ariannu.<br>• Gallai fod yn anodd newid y dalgylchoedd fel y byddai'r nifer ofynnol o ddisgyblion yn trosglwyddo o Ysgol Y Graig i'r Ysgol Corn Hir newydd.<br>• Byddai angen i'r Cyngor ystyried pa ysgol sydd agosaf yn ddaearyddol i gartref disgybl wrth adolygu'r dalgylchoedd.<br>• Mae Deddf Fframwaith Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn caniatáu i rieni ddewis pa ysgol y bydd eu plentyn yn ei mynychu. |
| **6.4.4** Adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Bodffordd ym Modffordd. Byddai hyn yn sicrhau twf parhaus yr ysgol ar gymuned fel y mae'r boblogaeth yn tyfu.<br><br>*Awgrymodd tua 3 rhanddeiliad yr opsiwn amgen hwn neu debyg, o dros 320 o ymatebion* | Gallai fynd i'r afael â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Bodffordd. Fodd bynnag, nid yw'r opsiwn amgen, sef adeiladu ysgol newydd i 90 o blant, yn hyfyw yn ariannol. | Byddai'r gost o adeiladu ysgol newydd ar gyfer Bodffordd, mewn lleoliad yn y pentref / ar ei gyrion, fel a ganlyn:<br><br>Amcangyfrifir y byddai adeiladu ysgol newydd i 90 o ddisgyblion yn costio £3,041,400 (yn seiliedig ar safonau costau presennol cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd (2019), o dan y rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif).<br><br>Prynu tir a ffioedd =£ 310,000<br>Arolygon archeolegol ac ecolegol = £150,000<br>Costau TG a GFfO (Gosodiadau, Ffitiadau ac Offer) ar gyfer 90 o blant x £1,776 = £159,840 (yn seiliedig ar safonau costau presennol cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd (2019), o dan y rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif)<br>**Cyfanswm costau = £3,661,240**<br><br>**Gwrthodir yr opsiwn amgen hwn gan y Cyngor gan nad yw'n hyfyw yn ariannol yn yr hinsawdd bresennol i adeiladu ysgol newydd ar gyfer 90 o blant.** |

| Opsiynau amgen rhesymol eraill a awgrymwyd gan randdeiliaid yn lle cau Ysgol Bodffordd | A ydyw'r opsiwn amgen rhesymol arall a awgrymwyd yn cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Bodffordd? | Ymateb y Cyngor (eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon, gyda rhesymau'r Cyngor i'w cefnogi) |
|---|---|---|
| **6.4.5** Adeiladu Ysgol Bodffordd newydd ym Modffordd gydag Ysgol Corn Hir yn uno â hi ar y safle hwnnw ym Modffordd.<br>*Awgrymwyd gan 1 rhanddeiliad o dros 320 o ymatebion.* | Gallai fynd i'r afael â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Bodffordd, fodd bynnag nid yw'r opsiwn amgen yn hyfyw yn economaidd o ran gorfod cludo plant Ysgol Corn Hir i ysgol newydd ym Modffordd. | Y gost o adeiladu ysgol newydd i 360 o ddisgyblion fyddai £9.527m (h.y. byddai'r gost yr un fath a'r cynnig).<br>• Fodd bynnag, byddai costau ychwanegol o ran cludo plant o Ysgol Corn Hir i Fodffordd. Y gost ychwanegol o wneud hyn o gymharu â'r trefniadau presennol fyddai £90k.<br><br>**Mae'r Cyngor yn gwrthod yr opsiwn amgen hwn gan nad yw'n hyfyw yn economaidd i gludo holl blant Ysgol Corn Hir i safle ym Modffordd.** |
| **6.4.6** Adeiladu 3ydd ysgol gynradd yn Llangefni, addasu Ysgol Corn Hir ac ymestyn Ysgol Bodffordd (un ystafell ddosbarth).<br><br>*Awgrymwyd yr opsiwn amgen hwn neu debyg gan tua 8 o randdeiliaid o dros 320 o ymatebion.* | Gallai hyn fynd i'r afael â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Bodffordd, fodd bynnag, nid oes digon o le ar safle Ysgol Bodffordd i gymryd estyniad ar gyfer un ystafell ddosbarth. | **Byddai 3ydd ysgol gynradd yn Llangefni** ar gyfer 150 o ddisgyblion yn costio **£4,163,000** (Yn seiliedig ar ddogfen safonau costau a meintiau Llywodraeth Cymru, ond wedi'i addasu ar gyfer costau annormal fel y posibilrwydd o brynu tir, a chostau ychwanegol gwasanaethau ac arolygon, ar gyfer ysgolion sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd o dan y rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif).<br>Byddai **addasu'r Ysgol Corn Hir bresennol ar gyfer 300 o ddisgyblion** yn gofyn am adeiladu estyniad ar gyfer 3 dosbarth ynghyd â neuadd a thoiledau newydd.<br>504m² x £2,775 = £1,398,600<br>Costau TG a GFfO (Gosodiadau, Ffitiadau ac Offer) ar gyfer 90 o blant x £1,776 = £159,840<br>**Cyfanswm costau = £1,558,440**<br><br>Nid oes digon o le o fewn y safle presennol i gymryd estyniad, man parcio, mannau chwarae ac addysg yn yr awyr agored. Nid oes unrhyw dir cyfagos ar gael i'w brynu.<br><br>**I ddarparu estyniad ar gyfer <u>un</u> ystafell ddosbarth ychwanegol byddai angen estyniad yn Ysgol Bodffordd** (90m² ychwanegol ar gyfer 30 o blant gydag ystafell |

| Opsiynau amgen rhesymol eraill a awgrymwyd gan randdeiliaid yn lle cau Ysgol Bodffordd | A ydyw'r opsiwn amgen rhesymol arall a awgrymwyd yn cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Bodffordd? | Ymateb y Cyngor (eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon, gyda rhesymau'r Cyngor i'w cefnogi) |
|---|---|---|
| | | ddosbarth / ystafell gotiau / toiledau) **byddai'r gost yn £738,030.**<br><br><u>Dadansoddiad o'r costau</u><br>Gwariant Cynnal a Chadw Cyfredol a Rhagamcanol = £150,000. (Cegin, toiledau, maes parcio, ffensys newydd)<br><br>Estyniad 90m² x £2,775/m² (yn seiliedig ar safonau costau presennol cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd (2019), o dan y rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif) = £249,750<br><br>Costau TG a Gosodiadau, Ffitiadau ac Offer ar gyfer estyniad i 30 o blant x £1,776/plentyn (yn seiliedig ar safonau costau presennol cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd (2019), o dan y rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif) = £53,280<br><br>Gwaith adnewyddu i ddod â'r adeilad i safon 21ain Ganrif = £210,000 (Ffenestri a drysau newydd, goleuadau LED, gorffeniadau lloriau, nenfydau, paentio).<br><br>Estyniad i'r man chwarae caled allanol yn dilyn adeiladu'r estyniad = £75,000<br><br>Mae gan y safle presennol arwynebedd allanol o 2,578m². Mae Bwletin Adeiladu 103 – Canllawiau Arwynebedd ar gyfer Ysgolion Prif Ffrwd 2014 (sy'n nodi'r arwynebedd ar gyfer adeiladau a safleoedd a fynnir wrth ddylunio ysgolion newydd) yn gofyn am arwynebedd allanol o 2,750m² o leiaf ar gyfer ysgol o'r maint hwn. Byddai estyniad 90m² yn lleihau'r arwynebedd allanol i 2,488m². |

| **Opsiynau amgen rhesymol eraill a awgrymwyd gan randdeiliaid yn lle cau Ysgol Bodffordd** | **A ydyw'r opsiwn amgen rhesymol arall a awgrymwyd yn cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Bodffordd?** | **Ymateb y Cyngor (eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon, gyda rhesymau'r Cyngor i'w cefnogi)** |
|---|---|---|
| | | **Cyfanswm costau'r opsiwn amgen hwn fyddai £6,459,470**<br><br>**Gwrthodir yr opsiwn amgen hwn oherwydd:**<br>• Byddai dod o hyd i dir (safle 5 erw o leiaf) i adeiladu trydedd ysgol gynradd yn Llangefni yn anodd iawn a hwnnw ddim yn rhy agos i Ysgol Y Graig, ond o fewn ffiniau datblygu Llangefni.<br>• Dim digon o le o fewn safleoedd Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd i gymryd estyniad, man parcio, mannau addysgol a chwarae yn yr awyr agored. Nid oes unrhyw dir cyfagos ar gael i'w brynu.<br>• Gallai fod yn anodd newid dalgylchoedd fel y byddai'r nifer ofynnol o ddisgyblion yn trosglwyddo i'r 3ydd ysgol gynradd newydd yn Llangefni. Byddai angen i'r Cyngor ystyried pa ysgol yw'r agosaf yn ddaearyddol i gartref disgybl wrth adolygu'r dalgylchoedd. Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn caniatáu i rieni ddewis pa ysgol y bydd eu plentyn yn ei mynychu. |
| **6.4.7** Ysgol pob oed trwy addasu Ysgol Gyfun Llangefni - addasu a moderneiddio safleoedd presennol Corn Hir a Bodffordd.<br><br>*Awgrymodd tua 2 o randdeiliaid yr opsiwn amgen hwn neu debyg, o dros 320 o ymatebion.* | Gallai fynd i'r afael â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Bodffordd, ond nid oes digon o le ar safle Ysgol Bodffordd i gymryd estyniad ar gyfer un neu ddwy ystafell ddosbarth. | Mae ymateb y Cyngor yn seiliedig ar Ysgol Pob Oed Aml-safle.<br><br>**Addasu adeilad presennol Ysgol Gyfun Llangefni ar gyfer blynyddoedd 7 – 13**<br>Yn seiliedig ar y gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol<br>= **£ 3,742,800.**<br><br>I **addasu'r Ysgol Corn Hir bresennol ar gyfer 300 o blant** byddai angen estyniad ar gyfer 3 ystafell ddosbarth ynghyd â neuadd a thoiledau newydd 504m² x £2,775 = £1,398,600<br>Costau TG a GFfO (Gosodiadau, Ffitiadau ac Offer) ar gyfer 90 o blant x £1,776 =£ 159,840 |

| Opsiynau amgen rhesymol eraill a awgrymwyd gan randdeiliaid yn lle cau Ysgol Bodffordd | A ydyw'r opsiwn amgen rhesymol arall a awgrymwyd yn cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Bodffordd? | Ymateb y Cyngor (eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon, gyda rhesymau'r Cyngor i'w cefnogi) |
|---|---|---|
| | | **Cyfanswm costau = £1,558,440**<br><br>Byddai estyniad 504m² yn lleihau'r mannau parcio, chwarae ac addysgol yn yr awyr agored o 5,795m² i 5,291m². Mae Bwletin Adeiladu 103 – Canllawiau Arwynebedd ar gyfer Ysgolion Prif Ffrwd 2014 (sy'n nodi'r arwynebedd ar gyfer adeiladau a safleoedd a fynnir wrth ddylunio ysgolion newydd) yn gofyn am arwynebedd allanol o 10,800m² o leiaf ar gyfer ysgol o'r maint hwn.<br><br>**I ddarparu estyniad ar gyfer <u>un</u> ystafell ddosbarth ychwanegol byddai angen estyniad yn Ysgol Bodffordd** (90m² ychwanegol ar gyfer 30 o blant gydag ystafell ddosbarth / ystafell gotiau / toiledau) **byddai'r gost yn £738,030.**<br><br><u>Dadansoddiad o'r costau</u><br>Gwariant Cynnal a Chadw Cyfredol a Rhagmcanol = £150,000. (Cegin, toiledau, maes parcio, ffensys newydd)<br><br>Estyniad 90m² x £2,775/m² (yn seiliedig ar safonau costau presennol cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd (2019), o dan y rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif) = £249,750<br><br>Costau TG a Gosodiadau, Ffitiadau ac Offer ar gyfer estyniad i 30 o blant x £1,776/plentyn (yn seiliedig ar safonau costau presennol cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd (2019), o dan y rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif) = £53,280<br><br>Gwaith adnewyddu i ddod â'r adeilad i safon 21ain Ganrif = £210,000 (Ffenestri a drysau newydd, goleuadau LED, gorffeniadau lloriau, nenfydau, paentio). |

| Opsiynau amgen rhesymol eraill a awgrymwyd gan randdeiliaid yn lle cau Ysgol Bodffordd | A ydyw'r opsiwn amgen rhesymol arall a awgrymwyd yn cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Bodffordd? | Ymateb y Cyngor<br>(eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon, gyda rhesymau'r Cyngor i'w cefnogi) |
|---|---|---|
| | | Estyniad i'r man chwarae caled allanol yn dilyn adeiladu'r estyniad = £75,000<br><br>Mae gan y safle presennol arwynebedd allanol o 2,578m². Mae Bwletin Adeiladu 103 – Canllawiau Arwynebedd ar gyfer Ysgolion Prif Ffrwd 2014 (sy'n nodi'r arwynebedd ar gyfer adeiladau a safleoedd a fynnir wrth ddylunio ysgolion newydd) yn gofyn am arwynebedd allanol o 2,750m² o leiaf ar gyfer ysgol o'r maint hwn. Byddai estyniad 90m² yn lleihau'r arwynebedd allanol i 2,488m².<br>**Cyfanswm costau = £6,039,270**<br><br>**Gwrthodir yr opsiwn amgen hwn oherwydd:**<br>• Diben y rhaglen moderneiddio ysgolion yw moderneiddio'r ddarpariaeth i gyflawni disgwyliadau 21ain ganrif. Nid yw mynd i'r afael â'r costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol yn gwireddu'r nod hwn ac felly mae hyn yn gynnig dadleuol yn ariannol.<br>• Nid oes digon o le o fewn safleoedd presennol Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd i gymryd estyniad, man parcio, mannau chwarae ac addysgol yn yr awyr agored. Nid oes unrhyw dir cyfagos arall ar gael i'w brynu. |

**6.5 Casgliad – Opsiynau Amgen Rhesymol Eraill**

Yn Adran 6.4, ystyriodd y Cyngor opsiynau amgen rhesymol eraill gan randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Mae’r opsiwn amgen rhesymol arall o ddarparu “ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae”, wedi derbyn ymateb ffafriol gan y rhanddeiliaid sy’n gysylltiedig â’r ddwy ysgol.

Mae’r opsiwn amgen rhesymol hwn yn darparu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir, fel yr oedd yn y cynnig gwreiddiol, ond nid yw’n golygu cau Ysgol Bodffordd a symud disgyblion Ysgol Bodffordd i’r adeilad ysgol newydd.

**Ar ôl ystyried yr ymatebion i’r ymgynghoriad ymhellach, mae’r Cyngor yn credu y gallai’r opsiwn amgen rhesymol hwn fynd i’r afael â’r mwyafrif o’r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Bodffordd, am y rhesymau a ganlyn:**

| **Ffactorau Penodol** | **Heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Bodffordd** | **Sut yr eir i’r afael â hwy gan yr opsiwn amgen rhesymol “I adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae”** |
|---|---|---|
| Niferoedd Disgyblion | Capasiti annigonol yn ysgol Bodffordd:<br>• Yn ôl ffigurau Ionawr 2019, roedd yr ysgol dros ei chapasiti o tua 11%. Fodd bynnag, erbyn Ionawr 2020, mae’r ffigur hwn wedi gostwng i 5%. | Gall rhieni ddewis anfon eu plant i ysgol arall (yn ôl eu hawl o dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998).<br>Dywedodd rhai o rieni Bodffordd y byddant yn barod i anfon eu plant i’r Ysgol Corn Hir newydd. Dywedodd un rhiant yn arbennig “Dwi’n edrych ymlaen at fy mhlant yn cael eu haddysgu efo plant o’r un oedran, a chael profiadau ychwanegol na fyddent wedi’u cael ym Modffordd.”<br><br>Bydd gan yr adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir gapasiti ar gyfer 300 o blant. Bydd capasiti cyfunol yr adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir ynghyd ag Ysgol Bodffordd yn ddigonol i gymryd niferoedd y disgyblion a ragamcanir i’r dyfodol, ac fe’i dylunnir gyda golwg ar ei ehangu ymhellach os oes angen, er mwyn diogelu’r datblygiad at y dyfodol a sicrhau capasiti digonol yn ardal Llangefni. |
| Cyflwyno’r Cwricwlwm | • Lle cyfyngedig sydd yn Ysgol Bodffordd i gyflwyno’r Cwricwlwm | Bydd yr Ysgol Corn Hir newydd wedi’i hadeiladu’n bwrpasol i |

| Ffactorau Penodol | Heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Bodffordd | Sut yr eir i'r afael â hwy gan yr opsiwn amgen rhesymol "I adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae" |
|---|---|---|
| | i Gymru (CIG) yn y tymor canolig i dymor hir. | gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (CIG) newydd. Bydd â gwell cyfarpar i allu cyflwyno'r cwricwlwm mewn modd priodol, gwahaniaethol, eang ac amrywiol a fydd o fudd i'r holl ddisgyblion.<br>Fodd bynnag, mae Ysgol Bodffordd mewn sefyllfa gref i gydweithredu ag ysgolion eraill i gyflwyno'r CIG. Dywed Pennaeth Ysgol Bodffordd, "bod holl ysgolion dalgylch Llangefni yn cydweithredu'n agos iawn a bod pob ysgol o ganlyniad yn rhannu arferion da ac arbenigedd a bod safonau wedyn yn gwella ym mhob ysgol. Yn ogystal, mae pob ysgol yn y dalgylch yn datblygu sgiliau arweinyddiaeth ymhlith i staff, gydag athrawon ym mhob ysgol yn cael y cyfle i arwain staff o'u hysgol eu hunain ac ysgolion eraill. Mae'r cydweithrediad agos hwn yn golygu bod yr ysgolion yn cydweithredu ar flaenoriaethau eu Cynlluniau Datblygu Ysgol. Mae'r cydweithredu hwn wedi arwain at enwi Dalgylch Llangefni mewn cynhadledd GwE fel enghraifft o arfer da y dylid ei rannu. Ar hyn o bryd, ac am y ddwy flynedd ddiwethaf, y Pennaeth sydd yn cadeirio Fforwm Penaethiaid Dalgylch Llangefni ac mae'n gyrru'r cydweithrediad hwn yn ei flaen." |
| Cost y disgybl | Amrywiad yn y gost fesul disgybl:<br>▪ Ysgol Bodffordd 2019/20=£4,274<br>▪ Cyfartaledd y gost fesul disgybl ar gyfer ysgolion cynradd Môn yn 2019/20 yw £3,988<br>Mae angen lleihau'r amrywiad yn y gost fesul disgybl ar draws y Cyngor. Gellir dadlau bod ysgolion llai yn derbyn yr hyn sy'n gyfwerth â chyllid ychwanegol i gynnal isafswm o lefelau staffio a bod yr ysgolion mwy dan anfantais o ganlyniad. | Ni fyddai unrhyw newid yn y gost fesul disgybl yn Ysgol Bodffordd ond amcangyfrifir y byddai'r gost ddiwygiedig fesul disgybl yn yr Ysgol Corn Hir yn tua £3,612.<br>Er bod y gost fesul disgybl yn Ysgol Bodffordd yn uwch na chyfartaledd Ynys Môn, mae'n dal i fod yn gymharol isel ar gyfer ysgol fach wledig.<br>Yn 2019/20 cafodd ei rhestru yn safle'r 4ydd isaf o'r 17 ysgol ym Môn sydd wedi'u dosbarthu'n ysgolion gwledig yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). |

<table>
<tr><th>Ffactorau Penodol</th><th>Heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Bodffordd</th><th>Sut yr eir i’r afael â hwy gan yr opsiwn amgen rhesymol “I adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae”</th></tr>
<tr><td>Adeilad Ysgol</td><td>Mae gan Ysgol Bodffordd gostau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol o £134,000 (2019) a gradd cyflwr B (Boddhaol, perfformio fel y dylai ond yn arddangos ychydig o ddirywiad).<br><br>Mae gan Ysgol Bodffordd rai problemau hygyrchedd i bobl ag anableddau. Maent yn cydymffurfio’n rhannol yn unig â’r gofynion a ddisgwylir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.</td><td>Mae’r Cyngor yn cynnal arolwg o gyflwr pob ysgol yn flynyddol, a threfnir y gwaith a fynnir ym mhob ysgol yn ôl categorïau (A-D) yn ôl blaenoriaeth y gwaith dan sylw, gan ystyried agweddau fel cyflwr yr ased, ac ystyriaethau o ran iechyd a diogelwch.<br><br>Bydd gwaith a nodir ar gyfer categorïau D a C yn cael blaenoriaeth, tra na fydd gwaith a nodwyd sy’n dod o fewn categorïau B ac A ond yn cael ei wneud os oes cyllid yn weddill ar ôl cwblhau’r holl waith yng nghategorïau D a C.<br><br>Byddai cydymffurfiaeth â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cael ei blaenoriaetho pe bai plentyn ag anghenion yn mynychu’r ysgol.</td></tr>
<tr><td>Safonau</td><td>Mae ysgolion yn derbyn cymorth gan GwE, y Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion ar gyfer Gogledd Cymru).<br>Mae’r tabl isod yn amlygu’r categorïau GwE o 2015-2019
<table>
<tr><th>Blwyddyn</th><th>Ysgol Bodffordd</th></tr>
<tr><td>2019</td><td>Melyn (B)</td></tr>
<tr><td>2018</td><td>Melyn</td></tr>
<tr><td>2017</td><td>Oren</td></tr>
<tr><td>2016</td><td>Oren</td></tr>
<tr><td>2015</td><td>Oren</td></tr>
</table>
<br>Mae Ysgol Bodffordd wedi’i chategoreiddio’n felyn ar hyn o bryd (gall ysgol yn y categori hwn dderbyn hyd at 10 diwrnod o gefnogaeth).<br>Mae categori Ysgol Bodffordd wedi gwella o Oren yn 2015 i Felyn (B) yn 2019.<br>Gellir cynnal y safonau hyn yn y tymor byr. Categori Melyn B (categori cefnogaeth Melyn, a dyfarniad B am y gallu i wella yn ôl</td><td>Mae categori Ysgol Bodffordd wedi gwella o Oren yn 2015 i Felyn (B) yn 2019.<br><br>Dywed Pennaeth Ysgol Bodffordd: ““bod holl ysgolion dalgylch Llangefni yn cydweithredu’n agos iawn a bod pob ysgol o ganlyniad yn rhannu arferion da ac arbenigedd a bod safonau wedyn yn gwella ym mhob ysgol.”<br><br>Darperir cymorth pellach i Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir gan y Cyngor lleol a GwE er mwyn sicrhau bod safonau yn y ddwy ysgol yn gwella fel y gellir gwireddu datblygiad a photensial eu plant i’r dyfodol.</td></tr>
</table>

| **Ffactorau Penodol** | **Heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Bodffordd** | **Sut yr eir i'r afael â hwy gan yr opsiwn amgen rhesymol "I adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae"** |
|---|---|---|
| | y weithdrefn gategoreiddio ysgolion). | |
| Ymrwymiad Addysgu'r Pennaeth | Ysgol Bodffordd – cyfartaledd o ymrwymiad addysgu 80% (cadarnhad y Pennaeth – Medi 2019).<br>Mae'r angen i gydbwyso'r 80% o ymrwymiad yn Ysgol Bodffordd, gyda gofynion arweinyddiaeth dydd i ddydd, yn her. | Dywed Pennaeth Ysgol Bodffordd, "'Does dim gwadu'r ffaith bod llawer o bwysau yn nhermau arweinyddiaeth a dysgu ar ysgolion bach pentref / gwledig, ond mae yna lawer o ffactorau cadarnhaol pwysig sy'n ei gwneud yn swydd ddiddorol, sy'n hogi'r meddwl - ceir amrywiaeth yng ngwaith y staff, mae'r gofynion a'r disgwyliadau'n heriol ac yn amrywiol, caiff pob aelod staff ei ddatblygu yn nhermau rolau adweinyddol a rheoli mewn ysgol fechan".<br><br>Bu modd i'r Pennaeth presennol gydbwyso'r ymrwymiad addysgu penodol wrth wella perfformiad yr ysgol. |
| Cyllid | Ysgol Bodffordd - 3% dros ei chyllideb (2019/20) ac ni fydd yn cwrdd â'r diffyg tan 2021/22 pan ddisgwyliant y bydd cynnydd yn niferoedd y disgyblion.<br>Mae'r sefyllfa uchod yn bodoli ar adeg pan fo'r Cyngor yn edrych i arbed tua £6.7m dros y 3 blynedd i ddod. | Er bod Ysgol Bodffordd yn dal i fod mewn sefyllfa o ddiffyg ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2019/20 (fel y rhagamcanwyd), mae'r ysgol wedi dangos y bydd ganddi arian dros ben erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2020/21.<br><br>Byddai'r opsiwn amgen rhesymol arall o ran codi adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a chadw Ysgol Bodffordd ar agor yn manteisio ar y cyfle i gael 50% mewn arian grant gan Lywodraeth Cymru a fydd yn gwella ein stoc o ysgolion o fewn yr ardal.<br>Mae hefyd yn ddatrysiad cost effeithiol, gan ei fod yn dileu'r costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol o £234k (2019) ar gyfer yr Ysgol Corn Hir bresennol, ac mae'n osgoi cost cludiant ychwanegol o tua £90k. |

| Ffactorau Penodol | Heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Bodffordd | Sut yr eir i'r afael â hwy gan yr opsiwn amgen rhesymol "I adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae" |
|---|---|---|
| | | O dan y trefniadau presennol, rhagamcanwyd y byddai Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir dros eu capasiti, fyddai'n golygu y byddai rhaid cludo disgyblion i ysgolion y tu allan i'w dalgylch am gost i'r Cyngor. Byddai'r cynnig hwn yn cynyddu capasiti'r ysgol yn yr Ysgol Corn Hir newydd i 300, sy'n golygu y bydd capasiti digonol, ac ni fydd angen cludo disgyblion y tu allan i'r dalgylch.<br><br>Byddai'r opsiwn amgen rhesymol arall hwn yn cynyddu capasiti'r ysgol yn yr Ysgol Corn Hir newydd i 300, sy'n golygu y bydd capasiti digonol, ac ni fydd angen cludo disgyblion y tu allan i'r dalgylch. |

Yn ychwanegol i'r uchod, daw'r Cyngor i'r casgliad hefyd y byddai'r manteision a ganlyn i'r opsiwn amgen rhesymol hwn i adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae:

- Yr Iaith Gymraeg - Mae'r Strategaeth Moderneiddio Ysgolion yn amlygu pwysigrwydd parhau i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn yr amgylchedd ysgol. Gyda 60 o ddisgyblion yn Ysgol Bodffordd (85%) a 138 o ddisgyblion yn Ysgol Corn Hir (61%) yn siarad Cymraeg adref,(CYBLD 2019) mae gan Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir y potensial i gynnal a datblygu ymhellach y ddarpariaeth gyfrwng Gymraeg bresennol.
- Trefniadau teithio - Mae'r opsiwn amgen rhesymol hwn yn annhebygol o newid trefniadau teithio presennol disgyblion. Mae disgyblion o Fodffordd sydd ar hyn o bryd yn cerdded neu'n beicio i'r ysgol yn debygol o allu parhau i wneud hynny, heb newidiadau tebygol i'r ôl-troed carbon.
- Capasiti – mae'r opsiwn amgen rhesymol arall yn diwallu'r anghenion capasiti gwreiddiol oedd dan ystyriaeth fel rhan o'r cynnig gwreiddiol ac mae felly'n diwallu'r disgwyliad o gynnydd mewn niferoedd plant i'r dyfodol.
- Canolfan Gymuned Bodffordd - Ni fyddai unrhyw newid, a fyddai'n tawelu unrhyw bryderon o ran colli'r ganolfan gymuned ar gyfer rhanddeiliaid Ysgol Bodffordd.
- Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) - Yn y Cod, mae Ysgol Bodffordd yn cael ei nodi fel Ysgol Wledig, ac o ganlyniad mae'r Cyngor wedi dilyn cyfres fanylach o weithdrefnau a gofynion wrth lunio'r opsiwn amgen rhesymol arall hwn.

## 7. CASGLIAD

Y cynnig yr ymgynghorwyd yn ei gylch oedd “Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir”.

Yn unol â’r Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), mae’r adran hon yn egluro’r asesiad o’r cynnig, ym mha fodd y mae’r asesiad yn wahanol (os o gwbl), yr asesiad o unrhyw opsiynau amgen rhesymol eraill ynghyd â chadarnhad o ran p’un ai i weithredu’r cynnig gwreiddiol (yn llawn neu’n rhannol).

### 7.1 Eglurhad o’r asesiad o’r cynnig

Cafodd y cynnig a’r opsiynau amgen rhesymol eu hasesu yn erbyn y gyrwyr allweddol a nodwyd o fewn ‘Strategaeth Moderneiddio Ysgolion’ y Cyngor. Mae’r Cyngor hefyd wedi gwerthuso sut y mae’r cynnig yn perfformio yn erbyn yr heriau allweddol sy’n wynebu Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir.

### 7.2 Ym mha fodd y mae’r asesiad o’r cynnig gwreiddiol yn wahanol (os o gwbl) i’r asesiad cynharach

Mae’r asesiad o’r cynnig gwreiddiol yn wahanol o ganlyniad i’r adborth dderbyniwyd ar ôl yr ymgynghoriad statudol. Yr opsiwn amgen rhesymol aralll, sef darparu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae (na chafodd ei ystyried yn flaenorol), yw’r ymateb mwyaf priodol erbyn hyn.

### 7.3 Asesiad o unrhyw opsiynau amgen rhesymol eraill

Mae’r asesiad o opsiynau amgen rhesymol eraill a gyflwynwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad ar gael yn adran 6.4.

### 7.4 Cadarnhad o ran p’un ai i weithredu’r cynnig gwreiddiol (yn llawn neu’n rhannol)

Ar ôl ystyried yr holl adborth o’r ymgynghoriad statudol, daw’r Cyngor i’r casgliad mai’r ymateb mwyaf priodol yw adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae.

Mae’r adborth sylweddol gan fwyafrif y rhanddeiliaid sy’n gysylltiedig â’r ddwy ysgol wedi nodi’r canlynol, eu bod yn:

- Cytuno â’r cynnig gan fod adeilad Ysgol Corn Hir yn rhy fach, ac i adeiladu ysgol newydd.
- Cytuno bod angen ysgol newydd ar gyfer Corn Hir, ond pam gwneud hynny er anfantais cau Ysgol Bodffordd?

**Mae’r Cyngor yn credu bod yr opsiwn amgen rhesymol arall hwn o adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae, yn cwrdd â’r mwyafrif o’r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Bodffordd, fel y trafodir isod ac yn adran 6.5. Byddai hyn felly’n cyfateb i weithredu’r cynnig gwreiddiol yn rhannol, o ganlyniad i’r rhesymau a ganlyn -**

- Safonau yn Ysgol Bodffordd - Mae categori Ysgol Bodffordd wedi gwella o Oren yn 2015 i Felyn (B) yn 2019.
  Dywed Pennaeth Ysgol Bodffordd hefyd: "bod holl ysgolion dalgylch Llangefni yn cydweithredu'n agos iawn a bod pob ysgol o ganlyniad yn rhannu arferion da ac arbenigedd a bod safonau wedyn yn gwella ym mhob ysgol."
  Darperir cymorth pellach i Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir gan y Cyngor lleol a GwE er mwyn sicrhau bod safonau yn y ddwy ysgol yn gwella fel y gellir gwireddu datblygiad a photensial eu plant i'r dyfodol.

- Cyflwyno'r Cwricwlwm - Mae Ysgol Bodffordd mewn sefyllfa gref i gydweithredu ag ysgolion eraill i gyflwyno'r CIG.
  Dywed Pennaeth Ysgol Bodffordd, "bod holl ysgolion dalgylch Llangefni yn cydweithredu'n agos iawn a bod pob ysgol o ganlyniad yn rhannu arferion da ac arbenigedd a bod safonau wedyn yn gwella ym mhob ysgol. Yn ogystal, mae pob ysgol yn y dalgylch yn datblygu sgiliau arweinyddiaeth ymhlith i staff, gydag athrawon ym mhob ysgol yn cael y cyfle i arwain staff o'u hysgol eu hunain ac ysgolion eraill. Mae'r cydweithrediad agos hwn yn golygu bod yr ysgolion yn cydweithredu ar flaenoriaethau eu Cynlluniau Datblygu Ysgol. Mae'r cydweithredu hwn wedi arwain at enwi Dalgylch Llangefni mewn cynhadledd GwE fel enghraifft o arfer da y dylid ei rannu. Ar hyn o bryd, ac am y ddwy flynedd ddiwethaf, y Pennaeth sydd yn cadeirio Fforwm Penaethiaid Dalgylch Llangefni ac mae'n gyrru'r cydweithrediad hwn yn ei flaen."

- Ymrwymiad Addysgu'r Pennaeth - Dywed Pennaeth Ysgol Bodffordd, "'Does dim gwadu'r ffaith bod llawer o bwysau yn nhermau arweinyddiaeth a dysgu ar ysgolion bach pentref / gwledig, ond mae yna lawer o ffactorau cadarnhaol pwysig sy'n ei gwneud yn swydd ddiddorol, sy'n hogi'r meddwl – ceir amrywiaeth yng ngwaith y staff, mae'r gofynion a'r disgwyliadau'n heriol ac yn amrywiol, caiff pob aelod staff ei ddatblygu yn nhermau rolau arweinyddol a rheoli mewn ysgol fechan". Bu modd i'r Pennaeth presennol gydbwyso'r ymrwymiad addysgu penodol wrth wella perfformiad yr ysgol.

  Yn ogystal â'r uchod, daw'r Cyngor i'r casgliad:

- Yr Iaith Gymraeg - Gyda 60 o ddisgyblion yn Ysgol Bodffordd (85%) a 138 o ddisgyblion yn Ysgol Corn Hir (61%) yn siarad Cymraeg adref, (CYBLD 2019) mae gan Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir y potensial i gynnal a datblygu ymhellach y ddarpariaeth gyfrwng Gymraeg bresennol.
- Trefniadau teithio - Mae'r opsiwn amgen rhesymol hwn yn annhebygol o newid trefniadau teithio presennol disgyblion. Mae disgyblion o Fodffordd sydd ar hyn o bryd yn cerdded neu'n beicio i'r ysgol yn debygol o allu parhau i wneud hynny, heb newidiadau tebygol i'r ôl-troed carbon.
- Capasiti – mae'r opsiwn amgen rhesymol arall yn diwallu'r anghenion capasiti gwreiddiol oedd dan ystyriaeth fel rhan o'r cynnig gwreiddiol ac mae felly'n diwallu'r disgwyliad o gynnydd mewn niferoedd plant i'r dyfodol.
- Canolfan Gymuned Bodffordd - Ni fyddai unrhyw newid, a fyddai'n tawelu unrhyw bryderon o ran colli'r ganolfan gymuned ar gyfer rhanddeiliaid Ysgol Bodffordd.
- Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) - Yn y Cod, mae Ysgol Bodffordd yn cael ei nodi fel Ysgol Wledig, ac o ganlyniad mae'r Cyngor wedi dilyn cyfres fanylach o weithdrefnau a gofynion wrth lunio'r opsiwn amgen rhesymol arall hwn.

### 7.5 Argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith

Argymhellir i'r Pwyllgor Gwaith mai'r modd mwyaf priodol o fwrw ymlaen yng ngoleuni'r ymgynghoriad a'r ymatebion sylweddol a dderbyniwyd (gweler adran 5, Ymatebion a Sylwadau), ynghyd ag asesiad y Cyngor o'r opsiynau amgen eraill a gyflwynwyd gan nifer sylweddol o randdeiliaid (gweler adran 6.4.2), yw'r canlynol:

- Adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae.
- Mae'r opsiwn amgen rhesymol hwn yn mynd ati'n rhannol i gyflawni'r cynnig gwreiddiol sef darparu adeilad newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir, ond nid yw'n golygu cau Ysgol Bodffordd a symud disgyblion Ysgol Bodffordd i'r adeilad ysgol newydd.
- Yn unol ag Adran 2.3, Newidiadau a Reoleiddir, yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), trosglwyddir disgyblion o Ysgol Corn Hir i adeilad ysgol newydd ar safle sy'n llai na milltir o'i safle presennol (mae'r safle arfaethedig ar gyfer yr adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir yn 0.3 milltir o'r Ysgol Corn Hir bresennol).
- Bydd cynnydd o lai na 25% yng nghapasiti'r ysgol newydd. Ni fydd y newid hwn yn cael ei reoleiddio ac felly ni fydd angen unrhyw ymgynghoriad statudol pellach.

CYNGOR SIR YNYS MÔN

ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# ASESIAD EFFAITH

## Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cychwyn yr asesiad** | 12 Gorffennaf 2019 |
| **Y swyddog sy'n gyfrifol am yr asesiad** | Rhys H. Hughes, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc. |
| **Dyddiad** | 17 Rhagfyr 2020<br>Diweddarwyd y ddogfen hon yn dilyn adborth o'r ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd ar y<br>6 Chwefror 2020-20 Mawrth 2020.<br>Mae'r ddogfen hon wedi'i diwygio i adlewyrchu'r adborth a gafwyd. Mae hon yn ddogfen weithio ac fe'i hadolygir yn rheolaidd. |

| | |
|---|---|
| **Protocol ar gyfer Siarad cyhoeddus mewn cyfarfodydd Rhithiol o'r Pwyllgorau Sgriwtini** | **Gall y cyhoedd gofrestru eu diddordeb ymlaen llaw gan ddefnyddio'r ffurflen berthnasol, i siarad mewn Cyfarodydd Pwyllgorau Sgriwtini.**<br>**Gweler y Protocol ar gyfer siarad cyhoeddus yng nghyfarfodydd rhithiol y Pwyllgorau Sgriwtini :**<br>**Protocol ar gyfer Siarad Cyhoeddus mewn Cyfarfodydd Rhithiol o'r Pwyllgorau Sgriwtini** |

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.**

**Mae copïau caled o'r adroddiad hwn ar gael ar gais trwy anfon e-bost at ysgolionmon@ynysmon.gov.uk**

| **Hanes adolygu**: | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **Crynodeb o'r newidiadau** |
| 12 Gorffennaf 2019 | Drafft cyntaf |
| 19 Awst 2019 | Ail ddrafft |
| 29 Awst 2019 | Trydydd ddrafft |
| 13 Tachwedd 2019 | Diweddaru data |
| 18 Rhagfyr 2019 | Wedi'i adolygu a'i ddiweddaru |
| 31 Ionawr 2020 | Wedi'i adolygu a'i ddiweddaru |
| 23 Medi 2020 | Wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r ymateb i'r ymgynghoriad statudol |

**CYNNWYS**

1. CYFLWYNIAD ... 4
2. ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB ( Cynnig Gwreiddiol) ... 6
3. ASESIAD EFFAITH IAITH GYMRAEG ( Cynnig Gwreiddiol) ... 16
4. ASESIAD EFFAITH CYMUNEDOL ( Cynnig Gwreiddiol) ... 27
5. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015 ( Cynnig Gwreiddiol) ... 41
6. CASGLIAD I'R CYNNIG GWREIDDIOL ... 44
7. ASESIAD EFFAITH AR YR OPSIWN AMGEN RHESYMOL ARALL ... 45
8. YR OPSIWN AMGEN RHESYMOL ARALL -ASESIAD EFFAITH AR GYDRADDOLDEB ... 47
9. YR OPSIWN AMGEN RHESYMOL ARALL- ASESIAD EFFAITH IAITH GYMRAEG ... 57
10. YR OPSIWN AMGEN RHESYMOL ARALL - ASESIAD EFFAITH GYMUNEDOL ... 68
11. YR OPSIWN AMGEN RHESYMOL ARALL - DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015 ... 72
12. CASGLIAD I'R OPSIWN AMGEN RHESYMOL ARALL ... 76
13. CYMHARIAETH RHWNG Y CYNNIG GWREIDDIOL A'R OPSIWN AMGEN RHESYMOL ARALL 77
14. HAWLIAU DYNOL ... 78
15. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015 ... 79

## 1. CYFLWYNIAD

Wrth gynnig unrhyw newidiadau i drefniadaeth eu hysgolion, mae gofyn i Awdurdodau Lleol, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) Llywodraeth Cymru, ymgymryd ag asesiadau o'r effaith a cânt ar gydraddoldeb, yr iaith Gymraeg ac ar y gymuned.

Y cynnig gwreiddiol yr ymgynghorwyd arno ar 6 Chwefror 2020-20 Mawrth 2020 oedd.:

**"Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir"**

Gwahoddwyd y Penaethiaid a'r Cynghorau Cymuned i gwblhau holiadur er mwyn asesu defnydd cymunedol yn yr ysgolion ac i gael manylion am unrhyw gyfleusterau sydd ar gael yn y gymuned leol neu yn y gymuned ehangach.

Casglwyd y data a'r dystiolaeth at ddibenion yr asesiadau yn seiliedig ar wybodaeth o lawer o ffynonellau, er enghraifft, Cyfrifiad Ysgol Blynyddol Lefel Disgyblion (CYBLD) Ionawr 2019 a Ionawr 2020, Cyfrifiad 2011, Penaethiaid a Chyrff Llywodraethol Ysgol, Cynghorau Tref a Chymuned , Stats Wales, ag adborth rhanddeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad.

O'r holl ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd rhwng 6 Chwefror a 20 Mawrth 2020, cyflwynodd 41% o ymatebwyr sylwadau ar gynnwys yr Asesiad Effaith. O'r rheini, cyflwynodd 56% sylwadau ar yr effaith ar y gymuned yn benodol, cyflwynodd 22% sylwadau am yr effaith ar yr iaith Gymraeg, cyflwynodd 13% sylwadau ar effeithiau teithio / traffig a chyflwynodd 9% sylwadau am lesiant meddyliol staff a disgyblion.

Yng ngoleuni'r sylwadau a dderbyniwyd, mae'r Cyngor wedi diweddaru'r Asesiad Effaith i gynnwys sylwadau rhanddeiliaid ac yn tynnu sylw at y mesurau lliniaru sydd ar waith i oresgyn y pryderon a nodwyd (Adrannau 7-12).

Ar ôl adborth a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2020-20 Mawrth 2020, argymhellir i'r Pwyllgor Gwaith mai'r ffordd fwyaf priodol ymlaen, ar ôl yr ymatebion sylweddol a gafwyd ac asesiad y Cyngor o'r opswin amgen rhesymol arall a gyflwynwyd gan nifer sylweddol o randdeiliaid, yw fel a ganlyn:

- **Adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae**
- Mae'r opsiwn amgen rhesymol arall hwn yn cwrdd yn rhannol â'r cynnig gwreiddiol o ddarparu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir, ond nid yw'n arwain at gau Ysgol Bodffordd a symud disgyblion Ysgol Bodffordd i'r adeilad ysgol newydd.
- Yn unol ag Adran 2.3 Newidiadau Rheoledig yn y Sefydliad Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), bydd disgyblion o Ysgol Corn Hir yn cael eu trosglwyddo i adeilad ysgol newydd ar safle llai na milltir o'i safle presennol. (Mae'r safle arfaethedig ar gyfer adeilad yr ysgol newydd 0.3 milltir o'r Ysgol Corn Hir bresennol.)
- Bydd capasiti'r ysgolion newydd yn cynyddu dim mwy na 25%. Ni fydd y newid hwn yn cael ei reoleiddio ac felly, ni fydd angen ymgynghori statudol pellach.

**Mae adrannau 2-6 o'r asesiad hwn yn ymwneud â'r cynnig gwreiddiol, ac mae adrannau 7-12 yn ymwneud â'r opsiwn amgen rhesymol arall a gyflwynwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad.**

Yr opsiwn amgen rhesymol arall, sef **"Adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae",** yw'r ffordd fwyaf priodol ymlaen ac argymhellir hyn i'r Pwyllgor Gwaith.

**Mae adran 13 yn cymharu'r cynnig gwreiddiol â'r opsiwn amgen rhesymol arall a gyflwynwyd gan randdeiliaid.**

## 2. ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB ( Cynnig Gwreiddiol)

Ymgymerwyd â'r asesiad effaith cydraddoldeb hwn i gwrdd â gofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) Llywodraeth Cymru.

### 2.1 Deddf Cydraddoldeb 2010

Rho Ddeddf Cydraddoldeb 2010 Ddyletswydd Gyffredinol ar gyrff cyhoeddus wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau i ystyried:

- Dileu anffafriaeth, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf.
- Gwella cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a'r rhai nad ydynt.
- Meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a'r rhai nad ydynt.

Mae'r Ddeddf yn ymwneud â sicrhau tegwch ac mae'n amddiffyn y naw nodwedd ganlynol (a adnabyddir hefyd fel 'grwpiau gwarchodedig'):

- Oed
- Anabledd
- Rhyw
- Newid rhywedd
- Priodas neu bartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred, gan gynnwys diffyg cred
- Cyfeiriadedd rhywiol

### 2.2 Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol Cymru) 2011

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r Rheoliadau uchod i gynorthwyo cyrff cyhoeddus yng Nghymru i gwrdd â'r ddyletswydd gyffredinol. Mae dyletswyddau cyffredinol yn cynnwys gofyniad i asesu effaith polisïau ac arferion ar grwpiau gaiff eu gwarchod gan y Ddeddf. Golyga hyn bod rhaid i'r Cyngor ystyried tystiolaeth berthnasol er mwyn deall effaith debygol ei bolisïau a'i ymarferion ar grwpiau gwarchodedig a rhoi 'ystyriaeth ddyledus' (*h.y. rhoi pwysau priodol*) i ganlyniadau'r fath asesiadau.

Bydd cydraddoldeb yn cael ei ystyried wrth ffurfio'r achosion busnes moderneiddio ysgolion yn ystod proses datblygu'r prosiect ac os caiff ei wireddu, bydd y gwir effaith yn cael ei monitro. Bydd yr asesiad effaith cydraddoldeb yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth deg i bawb.

## 2.3 Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb ar y Cynnig Gwreiddiol

| **2.3.1 Cefndir** | |
|---|---|
| **Beth sy'n cael ei asesu?** | Y cynnig a asesir yw **"Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir".** |
| **Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sy'n bodoli eisoes?** | Mae'r Cyngor wedi cynnal ymgynghoriad statudol o'r 6 Chwefror 2020-20 Mawrth 2020 ar y cynnig hwn. |
| **Beth yw nodau a phwrpas y cynnig yma?** | I newid a gwella darpariaeth addysg gynradd yn y rhan hon o Ynys Môn. Nodir y gyrwyr allweddol perthnasol ar gyfer ardal Llangefni isod:<br>▪ Sicrhau fod safonau addysg yn cael eu cynnal a'u gwella ar draws bob ysgol i sicrhau bod bob plentyn yn cyrraedd eu potensial.<br>▪ Sicrhau fod gan ysgolion leoedd digonol ar gyfer y nifer presennol o ddisgyblion ac ar gyfer rhagolygon niferoedd y dyfodol.<br>▪ Sicrhau fod yr amrywiadau yn y gwariant fesul disgybl yn cael eu gwneud yn unol ac yn fwy cyson ar draws yr ysgolion.<br>▪ Sicrhau bod ansawdd ystâd yr ysgolion ar sylfaen gadarn ar gyfer y nifer presennol o ddisgyblion ac ar gyfer y cynnydd yn nifer y disgyblion a ragwelir ar gyfer y dyfodol.<br>▪ Sicrhau bod strwythur arweinyddiaeth a rheolaeth ein hysgolion yn darparu sail gadarn ar gyfer arweinyddiaeth a chynllunio olyniaeth strategol ein hysgolion i'r dyfodol. |
| **Pwy sydd yn gyfrifol am y cynnig sy'n cael ei asesu?** | Rhys H. Hughes, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| **Pwy yw'r swyddog arweiniol ar gyfer cynnal yr asesiad yma?** | Carol Sorahan, Rheolwr Rhaglen |
| **Oes yna gyswllt rhwng y cynnig yma a meysydd gwaith eraill?** | Oes – mae'r cynnig yn rhan o strategaeth moderneiddio ysgolion Cyngor Sir Ynys Môn. Fodd bynnag, asesir bob cynnig ar ei rinweddau ei hun. |

| 2.3.1 Cefndir | |
|---|---|
| **Pwy fyddai'n cael ei effeithio gan y cynnig/ion (yn negyddol neu'n gadarnhaol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol)?** | Ar gyfer y ddwy ysgol sy'n rhan o'r cynnig, h.y. Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir, byddai'r canlynol yn cael eu heffeithio:<br>Staff, disgyblion, llywodraethwyr, rhieni disgyblion yr ysgol, aelodau o'r gymuned sy'n defnyddio'r ddwy ysgol. |

| 2.3.2 Casglu gwybodaeth | | |
|---|---|---|
| **A yw'r cynnig yma'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor Sir?** | Ydyw – fe'i hasesir ar wahân yn yr adran Asesiad Effaith Iaith Gymraeg o'r ddogfen hon (Adran 3). | |
| **Oes cyfle yma i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a / neu ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd?** | Os gwireddir y cynnig, bydd darn o'r ysgol Corn Hir newydd ar gael i'w ddefnyddio gan y gymuned ar gyfer gwersi Cymraeg. Bydd yr Asesiad Effaith Iaith Gymraeg yn penderfynu a fydd mwy o gyfleoedd i ddefnyddio Cymraeg yn ddyddiol. | |
| **A fydd y maes gwaith hwn yn gwneud cynnig rhagweithiol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i ddefnyddwyr?** | Bydd – asesir hwn ar wahân yn adran Asesiad Effaith Iaith y ddogfen hon (Adran 3). | |
| **A fydd y cynnig hwn yn debygol o warchod a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gymuned?** | Bydd gwireddu'r cynnig yn gwarchod ac yn hybu'r iaith Gymraeg yn yr Ysgol Corn Hir newydd ac yn yr ardal dan sylw h.y. Llangefni a Bodffordd. | |
| **Oes yna unrhyw faterion Hawliau Dynol? Os oes, beth yw'r materion yma? (**Mae'r 16 hawl sylfaenol wedi'u rhestru yn adran 14 ). | Nac oes. Dim materion Hawliau Dynol wedi eu hadnabod. | |
| **Ydi'r cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?**<br><br>(Mae disgrifiadau o'r nodau llesiant wedi'u rhestru yn adran 15) | Cymru lewyrchus | Ydyw |
| | Cymru gydnerth | Ydyw |
| | Cymru iachach | Ydyw |
| | Cymru sy'n fwy cyfartal | Ydyw |
| | Cymru o gymunedau cydlynus | Ydyw |
| | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Ydyw |
| | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Ydyw |
| | Asesir hwn hefyd ar wahân yn adran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) y ddogfen hon (Adran 5). | |

| | |
|---|---|
| **Beth sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn o ran cyfranogiad ac ymgynghoriad mewn perthynas â'r cynnig yma?** | Mae'r Cyngor wedi cynnal ymgynghoriadau statudol ac anstatudol gyda rhanddeiliaid Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir ar dri achlysur gwahanol sef Hydref – Tachwedd 2016; Ionawr – Mawrth 2017 a Chwefror – Ebrill 2018.<br>Cynhwyswyd adborth o'r ymgynghoriadau hyn mewn adroddiadau i'r Pwyllgor Gwaith ar 19 Rhagfyr 2016, 17 Gorffennaf 2017 a 30 Ebrill 2018.<br>Paratôdd y Cyngor asesiadau effaith cydraddoldeb, cymunedol ac iaith ar gyfer yr ymgynghoriadau statudol. |
| **Ydych chi wedi defnyddio unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i'r cynnig fel rhan o'ch asesiad? Os hynny, rhowch y manylion yma.** | Do – mae'r wybodaeth ganlynol ynglŷn â'r ysgolion wedi'i gynnwys:<br>Cydbwysedd rhyw, data Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), ethnigrwydd, iaith a phrydau ysgol am ddim.<br>Gyrrwyd holiaduron i Benaethiaid Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir a chynhwyswyd yr hyn a gyflenwyd ganddynt yn yr asesiad yma. |
| **Oes yna unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd hyd yma?**<br>**Os oes, sut fydd y rhain yn cael sylw?** | Nid oes unrhyw fylchau wedi eu hadnabod hyd yma. |

| **A yw'r cynnig yn berthnasol i sut y cydymffurfia'r Awdurdod â dyletswydd gyffredinol y sector cyhoeddus ynglŷn â phwy sydd wedi eu hamddiffyn dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?** | **Ydyw** | **Nac ydyw** |
|---|---|---|
| **Dileu anffafriaeth ac aflonyddu** | √ | |
| **Gwella cyfleoedd cyfartal** | √ | |
| **Meithrin cysylltiadau da** | √ | |
| **Amddiffyn a hyrwyddo hawliau dynol** | √ | |

**2.3.3 Asesu'r effaith debygol ac adnabod camau lliniaru**

Wrth ymgymryd â'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb hwn, mae'r Cyngor wedi ystyried effeithiau negyddol, niwtral a chadarnhaol y cynnig ac wedi adnabod beth y gellir ei wneud i leihau neu i wella'r effaith.

<table>
<tr><th>Y grŵp a warchodir</th><th>*Yr effaith debygol</th><th>Manylion am yr effaith</th><th>Camau i liniaru effaith negyddol</th></tr>
<tr><td>Oed</td><td>Cadarnhaol</td><td>Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i ddarparu addysg lawn amser i blant a phobl ifanc 5-16 oed. Bydd yr Ysgol Corn Hir newydd yn derbyn disgyblion yn 3 oed yn rhan amser.</td><td>Bydd disgyblion sy'n trosglwyddo i'r ysgol gynradd newydd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau uno a fydd yn cael eu trefnu ar y cyd. Bydd yn darparu cyfleoedd i'r plant ddod yn gyfarwydd â'i gilydd cyn y newid.</td></tr>
<tr><td>Anabledd</td><td>Cadarnhaol</td><td>Os gwireddir y cynnig:<ul><li>Bydd yr Ysgol Corn Hir newydd yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac yn gwbl hygyrch i bob disgybl.</li><li>Bydd disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn parhau i dderbyn cefnogaeth ychwanegol i gwrdd â'u hanghenion addysgol unigol. Fodd bynnag, mewn ysgol fwy, bydd mwy o staff yn arbenigo mewn Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae'n bosib y bydd cynnydd yn nifer y staff yn arwain at ystod fwy o arbenigeddau i allu ymdrin â sbectrwm mwy eang o ADY.</li></ul></td><td>Bydd y Cyngor yn darparu cymorth a chefnogaeth priodol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol disgyblion. Asesir anghenion unigol wrth drosglwyddo i unrhyw ysgol.<br>Bydd y Cyngor hefyd yn darparu cymorth a chefnogaeth priodol ar gyfer anghenion aelodau o staff.</td></tr>
<tr><td>Rhyw</td><td>Dim effaith</td><td>Mae'r tabl isod yn dangos y rhaniad rhyw cyfredol a'r rhaniad os gwireddir y cynnig.<table><tr><th>Rhyw</th><th>Bodffordd</th><th>Corn Hir</th><th>Ysgol Corn Hir Newydd</th></tr><tr><td>Bechgyn</td><td>56%</td><td>53%</td><td>54%</td></tr><tr><td>Merched</td><td>44%</td><td>47%</td><td>46%</td></tr></table></td><td>Caiff perfformiad bob disgybl ei asesu a'i fonitro gan gynnwys grwpiau penodol megis bechgyn a merched, prydau ysgol am ddim, disgyblion ADY, lleiafrifoedd ethnig, Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY), plant mewn gofal a'r mwy galluog a thalentog. Caiff perfformiad addysgol bechgyn a merched ei fonitro'n gyson i sicrhau nad oes gwahaniaethau mawr rhwng bechgyn a merched a'r grwpiau amrywiol cysylltiedig.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Y grŵp a warchodir</th><th>*Yr effaith debygol</th><th>Manylion am yr effaith</th><th>Camau i liniaru effaith negyddol</th></tr>
<tr><td>Newid Rhywedd</td><td>Dim effaith</td><td>Nid yw Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) Ionawr 2019 yn cadw data ar yr agwedd hon.<br>Nid oes tystiolaeth weladwy bod gwahaniaethu ar sail newid rhyw yn digwydd.</td><td>Os oes problemau yn codi, ymdrinnir â hwynt yn sensitif.</td></tr>
<tr><td>Priodas neu Bartneriaeth Sifil</td><td>Dim effaith</td><td>Nid yw’n berthnasol i ddisgyblion yr ysgol.</td><td>Nid oes unrhyw dystiolaeth o unrhyw wahaniaethu ar sail priodas/partneriaeth sifil ymysg staff yr ysgol. Os oes problemau’n codi, ymdrinnir â hwynt yn sensitif.</td></tr>
<tr><td>Beichiogrwydd a Mamolaeth</td><td>Dim effaith</td><td>Nid yw’n berthnasol i ddisgyblion yr ysgol.</td><td>Mae gan staff benywaidd sy’n dod yn feichiog hawl i gyfnod mamolaeth yn unol â Chynllun Cyfnod Mamolaeth Cyngor Sir Ynys Môn. Mae gan staff gwrywaidd hawl i gyfnod tadolaeth yn unol â’r Polisi Cyfnod Tadolaeth. Nid oes tystiolaeth bod unrhyw wahaniaethu ar sail beichiogrwydd neu gymryd cyfnod tadolaeth yn digwydd ymysg staff yr ysgolion.</td></tr>
<tr><td>Hil</td><td>Dim effaith</td><td>Data CYBLD Ionawr 2019<table><tr><th>Ysgol Bodffordd</th><th>Ysgol Corn Hir</th></tr><tr><td>Gwyn Prydeinig 96.5%</td><td>Gwyn Prydeinig 96.9%</td></tr></table></td><td>Pe byddai disgyblion o gefndiroedd ethnig eraill yn mynychu’r ysgolion, ni fyddant yn cael eu trin yn wahanol ar sail eu tarddiad ethnig. Pe byddai aelodau o staff o gefndiroedd ethnig gwahanol yn yr Ysgol Corn Hir newydd, ni fyddant yn cael eu trin yn wahanol ar sail eu tarddiad ethnig.</td></tr>
<tr><td>Crefydd neu Gred</td><td>Dim effaith</td><td>Nid yw CYBLD Ionawr 2019 yn cadw data ar yr agwedd hon.</td><td>Gall y cynnig ddarparu’r cyfle i wella dealltwriaeth disgyblion o grefydd neu gred o ganlyniad i gynnydd mewn niferoedd disgyblion wrth i ddisgyblion gymysgu â disgyblion eraill o gefndiroedd mwy amrywiol.<br>Dewis y rhieni yw rhannu gwybodaeth ynglŷn â chrefydd neu gred eu plentyn â’r ysgol.<br>Os oes problemau’n codi, ymdrinnir â hwynt yn sensitif.</td></tr>
</table>

| Y grŵp a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | Dim effaith | Nid yw Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar lefel Disgyblion (CYBLD) Ionawr 2019 yn cadw data ar yr agwedd hon. | Nid oes tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail cyfeiriadedd rhywiol ymysg staff ysgol. Dewis y rhiant yw rhannu gwybodaeth ynglŷn â chyfeiriadedd rhywiol eu plentyn â'r ysgol.<br>Os oes problemau'n codi, ymdrinnir â hwynt yn sensitif. |
| **Hawliau Dynol** | Dim effaith | Nid yw Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) Ionawr 2019 yn cadw data ar yr agwedd hon. | Nid oes tystiolaeth o unrhyw wahaniaethu ar sail hawliau dynol yn digwydd ymysg staff na disgyblion yr ysgol. Os oes problemau'n codi, ymdrinnir â hwynt yn sensitif. |
| **Cymdeithasol-economaidd arall**<br><br>**Ysgolion Bach a Gwledig**<br><br>Ystyrir ffactorau cymdeithasol-economaidd a gwledig yn yr 'Asesiad Effaith Cymunedol' isod. | Negyddol | Enwir Ysgol Bodffordd fel ysgol wledig yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).<br>Mae'r adroddiad thematig "Ysgolion Bach yng Nghymru (2006)" gan Estyn yn nodi nad oes gwir wahaniaeth rhwng safonau addysg mewn ysgolion bach a mawr, ond "gall fod yn anoddach i athrawon mewn ysgolion llai i gydweddu'r gwaith gydag anghenion y disgyblion gan y gall disgyblion mewn dosbarth amrywio'n fawr o ran oedran a chamau datblygiad". Mae hyn yn berthnasol i ysgolion bychain. Mae gwytnwch o ran staffio wedi gwella yn yr ysgolion mwy ym Môn. | Mae'r Cyngor yn cydnabod fod gan ysgolion gwledig ran allweddol i'w chwarae mewn cyfrannu at y gymuned, defnydd o'r iaith Gymraeg a ffordd o fyw. Mae gan ysgolion mwy hefyd ran allweddol i'w chwarae o ran yr agwedd hon.<br>Mewn ysgol gynradd fwy fel yr un a gynigir, mae mwy o staff yn debygol o arbenigo mewn meysydd ar draws y cwricwlwm.<br>Wrth ystyried ei opsiynau moderneiddio ysgolion, bydd y Cyngor yn ystyried y cydbwysedd rhwng anghenion addysgol ac anghenion hirdymor ein cymunedau drwy gydweithrediad.<br>Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weithio â chymunedau er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw faterion a all godi pe byddai'r ysgol yn cau.<br>Gellid lliniaru effaith negyddol bosibl cau Ysgol Bodffordd a'r Ganolfan Gymunedol trwy weithio gyda'r gymuned ym Modffordd i sicrhau hyfywedd tymor hir y Ganolfan Gymunedol bresennol. |

Tudalen 244

| Y grŵp a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| **Cymdeithasol-economaidd arall**<br>**Y nifer o ddisgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim.** | Cadarnhaol | Byddai'n darparu cyfleoedd cynyddol i ddisgyblion y ddwy ysgol i fanteisio ar yr adnoddau a'r ddarpariaeth yn yr Ysgol Corn Hir newydd.<br><br>Ffigyrau Prydau Ysgol am Ddim CYBLD 2019<br>**Bodffordd**: 15 disgybl neu 21%<br>**Corn Hir**: 14 disgybl neu 6%<br><br>Ar hyn o bryd, mae 14.4% o ddisgyblion yn ysgolion cynradd Môn â hawl i brydau ysgol am ddim. | Yn yr Ysgol Corn Hir newydd, byddai'r Cyngor yn darparu system ddi-arian parod ar gyfer prydau ysgol am ddim, a fyddai'n atal unrhyw stigma sy'n gysylltiedig â disgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim.<br>Yn ôl niferoedd presennol, tua 10% fyddai'r nifer o blant â hawl i brydau ysgol am ddim pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu.<br>Mae perfformiad y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim (PYD) yn y ddwy ysgol yn rhagorol, a disgwylir i hyn barhau yn yr Ysgol Corn Hir newydd. |
| **Cymdeithasol-economaidd arall**<br>**Cyfranogiad plant llai breintiedig mewn gweithgareddau ar ôl ysgol.** | Cadarnhaol | Potensial i ddarparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion y ddwy ysgol fanteisio ar weithgareddau ar ôl ysgol yn yr Ysgol Corn Hir newydd arfaethedig. | Disgwylir i'r ysgol Corn Hir newydd fod â darpariaeth addas a fydd o leiaf yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth bresennol o ran clybiau. Yng nghyd-destun gweithgareddau allgyrsiol, bydd pob disgybl, beth bynnag fo'u cefndir, yn cael eu hannog i gymryd rhan, a disgwylir i'r ysgol wneud trefniadau addas ar gyfer galluogi disgyblion llai ffodus i gymryd rhan. Bydd y trefniadau hyn yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, gynnal y clybiau yn ystod amser cinio, trefniadau â rhieni i godi eu plant neu drefniadau cludiant, a darparu cludiant ar ôl ysgol. |

| Effaith gyfunol ar gydraddoldeb | **+3 Cadarnhaol** |
|---|---|

**Casgliad – Byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb.**

Asesir yr effaith bosib a gaiff y cynnig ar yr iaith Gymraeg ar wahân yn yr Asesiad Effaith Iaith Gymraeg (Adran 3).

| 2.3.4 Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| **Nodwch sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol yr amlygir yn 2.3.3** | Y cynnig yw i **,"Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir".**<br>Gellid lliniaru effaith negyddol bosibl cau Ysgol Bodffordd a'r Ganolfan Gymunedol trwy weithio gyda'r gymuned ym Modffordd i sicrhau hyfywedd tymor hir y Ganolfan Gymunedol bresennol. |
| **Oes strategaeth ar gyfer ymdrin ag unrhyw effeithiau negyddol na ellir eu hosgoi ond nad ydynt yn anghyfreithlon na ellir eu lliniaru ?** | Nid oes effeithiau negyddol o'r asesiad hwn na ellir eu lliniaru. |
| **Disgrifiwch unrhyw weithredu a wnaed i wneud y mwyaf o'r cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb a/neu nodau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (cynaliadwyedd).**<br>(Rhestrir y saith nod llesiant yn adran 15 )<br><br>Asesir sut y bydd y cynnig yn cyfrannu at y 7 Nod Llesiant ymhellach ymlaen yn y ddogfen (Adran 5). | **Cymru lewyrchus** – Pe gwireddid y cynnig, byddai'n arwain at leihad mewn defnydd o ynni yn yr adeilad a lleihad mewn allyriadau carbon deuocsid. Bydd yr addysg a dderbynnir gan y disgyblion yn cynorthwyo i ddatblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig ar gyfer y dyfodol.<br>**Cymru sy'n fwy cyfartal** – Bydd y prosiect yn sicrhau bod yr Ysgol Corn Hir newydd yn addas i bwrpas a bydd yn sicrhau bod gallu a photensial bob disgybl i lwyddo'n cael ei wireddu.<br>**Cymru o gymunedau cydlynus** – Mae gan y cynnig y potensial i ffurfio cymuned newydd wedi'i lleoli o amgylch Bodffordd a dalgylch Corn Hir.<br>**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** – Bydd yr Ysgol Corn Hir newydd yn cael ei hadeiladu i safonau BREAAM ac yn cynnwys nifer o fentrau arbed ynni. Defnyddir hwn a rhannau penodol o'r cwricwlwm i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o fyw a thyfu mewn Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.<br>**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** – Gweler yr Asesiad Effaith Iaith Gymraeg yn Adran 3. Bydd yr Ysgol Corn Hir newydd yn ysgol cyfrwng Cymraeg a bydd y cynnig o leiaf yn cynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Bydd y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn cydweithredu â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn i hybu defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned ac i gyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r Gwasanaeth Dysgu yn adrodd yn chwarterol i Fforwm Iaith y Sir ar ddefnydd o'r Gymraeg yn ysgolion y Cyngor a chaiff Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) ei fonitro'n chwarterol gan Fforwm Iaith y Sir. |

| | |
|---|---|
| | Bydd gan yr Ysgol Corn Hir newydd Ardal Gemau Amlbwrpas (MUGA) a fydd yn annog cymryd rhan mewn chwaraeon a hamdden. |
| **A oes angen ail-ystyried y cynnig o ganlyniad i gynnal yr asesiad yma?** | Na. Disgwylir adborth o'r ymgynghoriad statudol yn gyntaf. |
| **A fydd y cynnig yn cael ei fabwysiadu / anfon ymlaen am gymeradwyaeth? Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad?** | Bydd papur cynnig yn cael ei drafod gan y Pwyllgor Gwaith i roi awdurdod i swyddogion symud ymlaen ag ymgynghoriad statudol. Bydd adroddiad ar yr ymgynghoriad statudol yna'n cael ei baratoi a bydd y Pwyllgor Gwaith yn trafod a ddylid mynd ymlaen â'r cynnig neu beidio. |
| **Oes yna drefniadau monitro mewn lle? Beth yw'r trefniadau hynny?** | Oes – bydd y paramedrau canlynol yn parhau i gael eu monitro:<br>Oedran disgyblion; cydbwysedd rhyw'r disgyblion; data hil/ethnigrwydd/ cenedligrwydd; yr iaith a siaredir gan ddisgyblion; % o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim.<br><br>Rhoddir ystyriaeth hefyd i fonitro'r data canlynol:<br>Canran o ddisgyblion sydd ar Ddatganiad Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).<br>Canran o ddisgyblion sydd wedi nodi anawsterau corfforol.<br>Canran o staff sydd wedi datgan anabledd. |

## 3. ASESIAD EFFAITH IAITH GYMRAEG ( Cynnig Gwreiddiol)

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu'r egwyddor na ddylai'r iaith Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylai trigolion yr ynys allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os dymunant wneud hynny. Mae'r un disgwyliad yn wir o ran y Gymraeg ym mhob ysgol, sy'n darparu cyfle i bob disgybl yn y Sir i ennill sgiliau priodol i fod yn hyderus yn ddwyieithog. Yng ngoleuni hyn, bydd unrhyw raglen newydd a gyflwynir – megis prosiectau'n deillio o'r rhaglen Ysgolion 21ain ganrif - yn amodol ar ofynion y polisi iaith.

Mae Ynys Môn yn parhau i fod yn un o gadarnleoedd yr iaith Gymraeg yng Nghymru. Mae Cyfrifiad 2011 yn dangos bod 57% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg.

Mae Polisi Iaith Gwasanaeth Dysgu Cyngor Sir Ynys Môn yn destun i'r nod a'r amcanion canlynol:

### 3.1 Nod:

Bod yr holl ddigyblion sy'n mynd drwy system addysg Môn yn ddwyieithog erbyn diwedd eu gyrfa addysgol ac yn hyderus i gyfathrebu'n gyfartal yn y ddwy iaith ym myd gwaith, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol.

### 3.2 Amcan Cyffredinol:

- Datblygu capasiti bob disgybl a myfyriwr yn y Sir i fod yn hyderus yn ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau llawn o'r gymuned ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.

- Cynyddu defnydd cymdeithasol o'r iaith ymysg y gweithlu addysg a phlant ifanc sy'n mynychu sefydliadau addysg yn y Cyngor ac fel cyfrwng dysgu.

- Bod holl sefydliadau addysgol y Sir yn adlewyrchu ac yn atgyfnerthu'r polisi iaith yn eu gweinyddiaeth, yn eu bywydau cymdeithasol ac yn eu trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd.

### 3.3 Amcanion Penodol:

- Blynyddoedd cynnar - Sicrhau darpariaeth a threfniadaeth bwrpasol ac effeithlon ,gan gynnwys trochi, ar gyfer pob disgybl beth bynnag fo'u cefndir ieithyddol er mwyn sicrhau sylfaen gadarn yn yr iaith i'w galluogi i gyflawni'r nod o ddwyieithrwydd llawn cyn gynted â bo modd.

- Cyfnod sylfaen - Adeiladu ar y sylfaeni a osodir yn y blynyddoedd cynnar drwy ddatblygu'r gafael sydd gan y disgyblion ar yr iaith, a dechrau ar y broses o ddatblygu eu sgiliau Saesneg cyn diwedd y cyfnod.

- Cyfnod Allweddol 2(CA2) - Parhau i ddatblygu medrau Cymraeg a Saesneg y plant gan roi sylw i ddatblygu eu medrau yn y ddwy iaith drwy sicrhau lefel gyfartal o ddwyieithrwydd erbyn diwedd y cyfnod gyda chynllunio pwrpasol. Ar gyfer disgyblion sy'n ddysgwyr Cymraeg yn CA2, sicrhau eu bod yn dysgu'r iaith cyn gynted â phosib drwy ganolfannau iaith cynradd.

- **Addysg arbennig**: O ran disgyblion sydd ag anawsterau dysgu dwys, mae gan Bennaeth yr hawl i ystyried bob achos yn unigol (drwy ymgynghori â'r Gwasanaeth Dysgu), gan sicrhau fod gan ddisgyblion y medrau ieithyddol angenrheidiol i ymdopi fel oedolion yn eu cymunedau.

### 3.4 Defnydd o'r iaith Gymraeg mewn ysgolion

Cymraeg yw categori iaith Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir. Categori iaith yr Ysgol Corn Hir newydd fydd Cymraeg.

Asesir effaith bosib y cynnig ar yr iaith Gymraeg isod (3.5).

### 3.5 Asesiad Effaith Iaith Gymraeg

| | |
|---|---|
| **Beth sy'n cael ei asesu?** | Y cynnig sy'n cael ei asesu yw i **"Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir".** |
| **Dyddiad cwblhau'r asesiad** | **Bydd unrhyw effeithiau ychwanegol sy'n codi o ganlyniad i'r ymgynghoriad statudol i'w gweld yn adran 9 .** |

| **3.5.1 Cydymffurfio â'r Polisi Iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| A yw'r cynnig arfaethedig yn ddylanwadol o ran delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg?<br><br>A fydd gweithgareddau megis gohebu drwy lythyr, cyfathrebu dros y ffôn, cyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd eraill yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br>A fydd unrhyw ddatblygiad Technoleg Gwybodaeth ( TG) newydd yn cydymffurfio â'r polisi? | Ydyw, effaith gadarnhaol - gweler isod.<br><br>Bydd – bydd yr holl ohebiaeth a chyfathrebiadau yn parhau i gydymffurfio â'r Polisi Iaith Gymraeg.<br><br>Bydd – bydd unrhyw ddatblygiadau TG newydd yn parhau i gydymffurfio â'r Polisi Iaith Gymraeg. |
| A yw'r cynnig yn debygol o effeithio ar wyneb cyhoeddus y sefydliad?<br><br>A fydd unrhyw arwyddion yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br>A fydd unrhyw gyhoeddiadau a ffurflenni yn cydymffurfio?<br>A fydd unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ymgyrchoedd marchnata yn cydymffurfio?<br>A fydd hysbysebion recriwtio staff yn cydymffurfio? | Gweler isod.<br><br>Bydd – bydd pob arwydd yn parhau i gydymffurfio â'r polisi iaith.<br>Bydd – bydd cyhoeddiadau a ffurflenni yn cydymffurfio.<br>Bydd – bydd unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd ac ymgyrchoedd marchnata yn cydymffurfio.<br>Bydd – bydd hysbysebion recriwtio staff yn cydymffurfio. |
| A yw'r cynnig yn debygol o gael effaith ar weithrediad y polisi iaith?<br><br>A fydd y cynnig yn creu swyddi newydd? | Gweler isod.<br><br>Bydd unrhyw swyddi athrawon newydd yn cael eu creu yn ôl y strwythur staffio a ddatblygir gan y corff llywodraethu Ysgol Corn Hir newydd. |

| **3.5.1 Cydymffurfio â'r Polisi Iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| A fydd y trefniadau staffio yn hwyluso gweithrediad y polisi iaith? | Bydd – bydd unrhyw staff newydd a benodir yn siaradwyr Cymraeg yn unol â'r polisi iaith a byddent yn parhau i roi'r polisi ar waith. |
| A fydd unrhyw hyfforddiant yn cael ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg? | Bydd – bydd staff newydd yn cael eu hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| A fydd unrhyw drefniadau gyda thrydydd parti yn cydymffurfio â'r polisi iaith? | Bydd – bydd trefniadau â thrydydd partïon yn cydymffurfio â'r polisi iaith. |
| A fydd y cynnig yn cynnwys unrhyw dargedau neu ddangosyddion ynglŷn â'r Gymraeg? | Bydd - y ganran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r lefel disgwyliedig yn y Gymraeg ar ddiwedd cyfnodau allweddol a'r ganran o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg adref. |
| Sut caiff cyrhaeddiad ei fonitro a'i fesur? | Gyda data a gesglir gan y Gwasanaeth Addysg megis y ganran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. Cesglir data arall megis y ganran o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref fel rhan o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a gynhelir bob mis Ionawr. |

| **3.5.2 Effaith ar ddefnyddwyr iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| Oes perygl i'r cynnig gam wahaniaethu yn erbyn defnyddwyr Cymraeg? | Na – bydd yr Ysgol Corn Hir newydd yn cydymffurfio â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor. |
| A yw anghenion siaradwyr Cymraeg wedi'i gynllunio mewn i'r cynnig? | Ydyw – anghenion disgyblion sy'n siarad Cymraeg yw un o'r gyrwyr allweddol ar gyfer y cynnig hwn. |
| A yw siaradwyr Cymraeg yn debygol o dderbyn yr un safon o wasanaeth a'r hyn a dderbynnir yn Saesneg? | Ydyw – darperir yr un safon o wasanaeth i bob disgybl.<br><br>Na – ni fydd trefniadau iaith Gymraeg yn arwain at oediad yn y gwasanaeth. |

| 3.5.2 Effaith ar ddefnyddwyr iaith Gymraeg | |
|---|---|
| A yw trefniadau iaith Gymraeg yn debygol o arwain at oedi yn y gwasanaeth? | |
| A fydd y cynnig yn debygol o wneud y Gymraeg yn fwy gweledol?<br><br>A yw'n debygol o gynyddu defnydd drwy gynhyrchu deunyddiau ac arwyddion Cymraeg?<br><br>A yw'n debygol o ddylanwadu ar eraill i wneud mwy o ddefnydd gweledol o'r Gymraeg ee busnesau? | Bydd – gweler isod.<br><br>Ydyw – bydd arwyddion yn yr adeilad ysgol arfaethedig yn cydymffurfio â'r polisi iaith. Bydd yr Ysgol Corn Hir newydd yn parhau i hyrwyddo ac annog defnydd o'r iaith Gymraeg ac yn defnyddio deunydd iaith Gymraeg.<br><br>Ydyw – bydd gwireddu'r polisi yn sicrhau y gwelir arwyddion dwyieithog gan lawer yn yr ardal. |
| A fydd y gwasanaeth Cymraeg ynghlwm â'r cynnig yn hygyrch?<br><br>A fydd gwasanaeth yr un mor hawdd i'w gael yn Gymraeg nag ydyw yn Saesneg?<br><br>A fydd gwasanaethau ar gael yr un pryd? | Bydd – gweler isod.<br><br>Bydd – bydd disgyblion yn derbyn addysg mewn Cymraeg a Saesneg. Bydd gwasanaethau eraill sy'n ymwneud â'r cynnig ar gael yn ddwyieithog e.e. darpariaeth cludiant a gofal plant.<br><br>Byddant – bydd plant yn derbyn addysg gan staff dwyieithog. |

| 3.5.3 Effaith ar Gymunedau Cymraeg | |
|---|---|
| A yw'r cynnig yn debygol o gyfrannu at ddiogelu'r Gymraeg mewn cymunedau?<br><br>A yw'n debygol o gyfrannu tuag at ymdrechion i fynd i'r afael a heriau newid demograffeg a mudo - fel cynnig cyfleoedd i bobl ifanc aros yn eu cymunedau?<br><br>A yw'n debygol o gyfrannu tuag at yr economi leol mewn cymunedau Cymraeg? | Bydd y Cyngor eisiau gweithio gyda'r gymuned ym Modffordd i sicrhau dyfodol tymor hir y ganolfan gymunedol.<br><br>Ydyw - bydd y cynnig yn darparu lleoedd digonol ar gyfer disgyblion presennol yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir a hefyd yn darparu lleoedd digonol ar gyfer y disgyblion sy'n dod o ddatblygiadau tai newydd yn y dalgylch.<br><br>Ydyw – gallai ddarparu mwy o swyddi yn ardal yr Ysgol Corn Hir newydd arfaethedig o Langefni. |

| **3.5.3 Effaith ar Gymunedau Cymraeg** | |
|---|---|
| A fydd yn darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg – megis gwarchod plant? | Bydd – mae'r cynnig hefyd yn cynnwys uned Feithrin ar gyfer plant cyn-ysgol. |
| A yw'r cynnig yn cymryd camau i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg?<br><br>A yw'r cynnig yn cyfrannu at fywyd cymdeithasol cyfrwng Cymraeg?<br><br>A yw'n cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i oriau'r ysgol?<br><br>A yw'n darparu gwasanaeth newydd fydd hefyd ar gael yn Gymraeg? Ee darpariaeth neu weithgaredd hamdden neu chwaraeon?<br><br>A yw'n cyfrannu neu'n ychwanegu gwerth at weithgareddau eraill yn y maes iaith - ee gwaith y Fenter Iaith Leol, yr Urdd ayyb? | Ydyw – gweler isod.<br><br>Ydyw – os gwireddir y cynnig, bydd gweithgareddau cymunedol cyfrwng Cymraeg yn parhau yn yr Ysgol Corn Hir newydd.<br>Ydyw – bydd yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio Cymraeg mewn clybiau ar ôl ysgol.<br><br>Ydyw – bydd gwireddu'r cynnig hwn yn darparu Ardal Gemau Aml-ddefnydd (MUGA) i'w defnyddio gan ddisgyblion a'r gymuned.<br><br>Ydyw – os gwireddir y cynnig, bydd gweithgareddau Urdd yn parhau yn yr Ysgol Corn Hir Newydd. |

| **3.5.4 Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisïau iaith, strategaethau a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| Polisïau iaith mudiadau partner neu gyrff cyhoeddus cyfagos:<br><br>A yw'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth ar y cynnig?<br><br>Pa sefydliadau eraill sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y datblygiad?<br><br>Oes gan y sefydliadau hynny safonau iaith neu bolisïau iaith? | <br><br>Ydyw – Llywodraeth Cymru a fydd yn cyllido'r prosiect yn rhannol.<br><br>Llywodraeth Cymru.<br><br>Oes – mae gan Lywodraeth Cymru ei safonau neu bolisïau iaith Gymraeg ei hun. |

| 3.5.4 **Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisïau iaith, strategaethau a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| A yw'r cynnig yn cyfrannu at yr uchod? | Ydyw – bydd y cynnig hefyd yn cydymffurfio â gofynion Llywodraeth Cymru. |
| Strategaethau iaith Gymraeg perthnasol:<br>A fydd y cynnig yn cyfrannu tuag at Strategaeth Iaith Gymraeg 2016 – 2021 Fforwm Strategol Iaith Ynys Môn<br><br>Sut mae'r cynnig yn cyfrannu tuag at weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050? | Mae'r cynnig yn cyfrannu at yr adrannau canlynol o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Ynys Môn 2017-2020 yn y ffyrdd canlynol:<br>**Deilliant 1** – Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg<br>**Deilliant 2** – Sicrhau bod cynigion Ysgolion 21ain Ganrif yn cryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg.<br>Drwy gael Uned Gofal Plant a fydd yn darparu gofal cofleidiol i blant cyn-ysgol, a byddai'n darparu sylfaen gadarn i'r plant yno cyn iddynt drosglwyddo i'r cynradd. Felly byddai'n cyfrannu at gynyddu'r nifer o blant saith oed a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai'n cyfrannu at gyflawni Deilliant 1 uchod.<br><br>Drwy weithredu'r strategaeth Blynyddoedd Cynnar a thrwy gyflawni cynllun moderneiddio ysgolion y Sir, bydd yn helpu i sicrhau bod cynigion Ysgolion 21ain Ganrif yn rhoi ystyriaeth lawn i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant hyd at 11 oed.<br><br>Mae polisi iaith newydd y Cyngor yn cyfeirio at yr amcan i gynyddu'r gyfran o ddisgyblion sy'n cwrdd â thargedau Cymraeg fel Iaith Gyntaf yn y Cyfnod Sylfaen hyd at ddiwedd eu hamser yn yr ysgol. Bwriedir defnyddio model gofal plant fel yr un dan ystyriaeth yn y prosiect hwn i gynyddu capasiti gofal plant cyfrwng Cymraeg ym Môn.<br><br>Mae gan y model partneriaeth gofal plant y potensial i gyfrannu'n allweddol at uchelgais Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. |

Mae'r ddwy ysgol ar hyn o bryd yn darparu gweithgareddau drwy'r Urdd (gweler Asesiad Effaith Cymunedol – Adran 4) a byddai hyn yn wir hefyd yn yr Ysgol Corn Hir newydd.

**NODER** – Nid yw unrhyw un o'r ysgolion yn cynnig gwersi Cymraeg i'r gymuned – mae'n debyg iawn bod hyn oherwydd nad oes llawer o alw am wersi Cymraeg yn yr ardal gan fod dros 75% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag, mae gan y ddwy ysgol gyfleuster ar gyfer cynnig gwersi Cymraeg a byddai gan yr Ysgol Corn Hir newydd ystafell gymunedol y gellir ei defnyddio ar gyfer gwersi Cymraeg neu ar gyfer unrhyw weithgaredd arall a gynhelir drwy gyfrwng y Gymraeg. Pe byddai Canolfan Gymunedol Bodffordd yn aros yn y pentref ar ôl agor yr Ysgol Corn Hir newydd, byddai'r gwasanaethau a'r darpariaethau a ddarperir yno yn parhau.

### 3.5.5 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Ysgolion cyfrwng Cymraeg yw Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir ac ysgol cyfrwng Cymraeg fydd yr Ysgol Corn Hir, wedi ei hadleoli a'i hehangu, hefyd. Felly ni fydd newid yn y categori iaith os bydd y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r cynnig.

Byddai gwidderu'r cynnig yn cefnogi Deilliannau 1, 2 a 5 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020 y Cyngor (a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ym Mawrth 2018):

**Deilliant 1:** Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Deilliant 2:** Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

**Deilliant 5:** Mwy o ddisgyblion a myfyrwyr gyda sgiliau uwch yn y Gymraeg.

Mae'r Gwasanaeth Addysg yn adrodd yn chwarterol i Fforwm Iaith y Cyngor Sir ar ddefnydd o'r iaith Gymraeg yn ysgolion y Cyngor. Mae Fforwm Iaith y Cyngor Sir yn monitro Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) y Cyngor yn chwarterol.

### 3.5.6 Effaith bosib y cynnig ar yr iaith Gymraeg

| Meini Prawf Iaith | Arsylwadau | **Effaith** Negyddol/ Niwtral/ Cadarnhaol | Mesurau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| Yr iaith a siaredir yn y cartref | Siaradwyr Cymraeg rhugl yn y cartref (pob oedran):<br>• Ysgol Bodffordd – 85%<br>• Ysgol Corn Hir – 61%<br>Data (CYBLD Ion 2019) | Niwtral | Pe gwireddid y cynnig, byddai cyfle i ddisgyblion wella eu sgiliau dwyieithog drwy gyfathrebu â chanran uwch o ddisgyblion (mewn cymhariaeth â'r nifer presennol o ddisgyblion yn y ddwy ysgol). |
| Categori iaith yr ysgolion presennol | Bodffordd – Cymraeg<br>Corn Hir – Cymraeg | Cadarnhaol | Addysgir disgyblion y ddwy ysgol yn Gymraeg. Fodd bynnag, bydd datblygu disgyblion dwyieithog yn ffocws parhaol ac arwyddocaol yn y Cynllun Gweithredu Ysgol.<br>• Gall trefniadau dosbarth dargedu datblygiad anghenion iaith penodol y garfan<br>• Wrth dracio disgyblion, bydd eu cynnydd wrth ddatblygu dwyieithrwydd yn cael ei ystyried.<br>• Bydd adroddiad y Pennaeth i'r llywodraethwyr yn cynnwys canrannau'r disgyblion ym mhob carfan iaith.<br>• Cynnydd ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol<br>Bydd yr Ysgol Corn Hir newydd yn ysgol gymunedol, cyfrwng Cymraeg. Bydd yn flaenoriaeth i'r Cyngor gryfhau a diogelu'r iaith Gymraeg ac addysg ddwyieithog. |
| Defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned | Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae 57% o bobl Môn yn siarad Cymraeg. Mae'r canran wedi lleihau dros y degawdau diwethaf – roedd | Cadarnhaol | Angen hybu defnydd o'r Gymraeg (Asesiad Lles Ynys Môn 2017). Bydd addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn cynorthwyo i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned. |

| Meini Prawf Iaith | Arsylwadau | Effaith Negyddol/ Niwtral/ Cadarnhaol | Mesurau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| | 62% o bobl Môn yn gallu siarad Cymraeg yn 1981. | | Bydd y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn cydweithio â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn i hybu defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned, ac i gyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.<br><br>Mae'r Adran Addysg yn adrodd yn chwarterol i Fforwm Iaith y Sir ar ddefnydd o'r Gymraeg yn ysgolion y Cyngor a chaiff Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) ei fonitro'n chwarterol gan Fforwm Iaith y Cyngor Sir.<br><br>Bydd yr Ysgol Corn Hir newydd yn parhau i hyrwyddo ac annog defnydd o'r Gymraeg a bydd yn hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r Gymraeg gan ddisgyblion yn ystod oriau ysgol ac mewn gweithgareddau ar ôl ysgol ar y safle. |
| Cyfrwng iaith disgyblion ar yr iard, yn y clwb brecwast ac mewn clybiau ar ôl ysgol | Cyfrwng iaith disgyblion ar yr iard, yn y clwb brecwast ac mewn clybiau ar ôl ysgol yw dwyieithog. | Niwtral | Ni fydd hyn yn newid yn yr Ysgol Corn Hir newydd. Gellid gwella hyn drwy ddarparu mwy o le i chwarae a thrwy gynllunio chwarae strwythuredig ar yr iard.<br><br>Bydd yr Ysgol Corn Hir newydd yn parhau i hyrwyddo ac annog defnydd o'r Gymraeg ac yn hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r iaith gan ddisgyblion. |
| Ymglymiad yr ysgol mewn gweithgareddau cyfrwng Cymraeg | Mae'r ddwy ysgol wedi'u hymrwymo mewn gweithgareddau cyfrwng Cymraeg. | Niwtral | Ni fydd hyn yn newid yn yr Ysgol Corn Hir newydd.<br><br>Gweler gwybodaeth bellach ynglŷn â gweithgareddau a gynhelir yn y Gymraeg yn yr Asesiad Effaith Cymunedol isod. |

<table>
<tr><th>Meini Prawf Iaith</th><th>Arsylwadau</th><th>Effaith<br>Negyddol/<br>Niwtral/<br>Cadarnhaol</th><th>Mesurau Lliniaru</th></tr>
<tr><td>Gallu staff addysgu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg</td><td><table><tr><th>Bodffordd</th><th>Corn Hir</th></tr><tr><td>Mae pob aelod o staff addysgu yn rhugl yn y Gymraeg</td><td>Mae pob aelod o staff addysgu yn rhugl yn y Gymraeg</td></tr></table></td><td>Niwtral</td><td>Mae Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir yn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, ac ni fydd unrhyw newid yn statws ieithyddol yr Ysgol Corn Hir newydd .</td></tr>
<tr><td>Gallu Llywodraethwyr i siarad Cymraeg</td><td><table><tr><th>Bodffordd</th><th>Corn Hir</th></tr><tr><td>Mae pob Llywodraethwr yn rhugl yn y Gymraeg (8 allan o 8)</td><td>Mae pob Llywodraethwr yn rhugl yn y Gymraeg (12 allan o 12)</td></tr></table></td><td>Niwtral</td><td>Mae’r ddwy set o Lywodraethwyr yn rhugl yn y Gymraeg felly ni fydd newid yn natur ieithyddol y Llywodraethwyr os gwireddir y cynnig.</td></tr>
<tr><td></td><td>Effaith gyfunol ar yr iaith Gymraeg</td><td>+2<br>Cadarnhaol</td><td></td></tr>
</table>

**Casgliad – byddai’r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg.**

## 4. ASESIAD EFFAITH CYMUNEDOL ( Cynnig Gwreiddiol)

Mae'r asesiad hwn yn ystyried effaith bosib y cynnig i "Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, a chau Ysgol Bodffordd" ar y gymuned leol.

Mae'r tablau isod yn dangos y nifer o ddisgyblion yn Ysgol Bodffordd ac yn Ysgol Corn Hir dros y 5 mlynedd ddiwethaf a rhagolygon niferoedd disgyblion am y 5 mlynedd nesaf ynghyd â rhagamcanion disgyblion os aiff y cynnig yn ei flaen:

### 4.1 Niferoedd disgyblion yn y gorffennol

| Ysgol | Capasiti – heb y Meithrin | Niferoedd Disgyblion Ionawr 2015 | Niferoedd Disgyblion Ionawr 2016 | Niferoedd Disgyblion Ionawr 2017 | Niferoedd Disgyblion Ionawr 2018 | Nifer presennol o ddisgyblion ar y gofrestr Ionawr 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Bodffordd | 63 | 61 | 55 | 68 | 63 | 70 |
| Corn Hir | 204 | 200 | 207 | 221 | 224 | 226 |

**Ar hyn o bryd, mae'r ddwy ysgol 11% dros eu capasiti .**

### 4.2 Rhagolygon Pum Mlynedd 2020-2024

| | Capasiti – heb y Meithrin | Rhagolygon niferoedd Medi 2020 | Rhagolygon niferoedd Medi 2021 | Rhagolygon niferoedd Medi 2022 | Rhagolygon niferoedd Medi 2023 | Rhagolygon niferoedd Medi 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Bodffordd | 63 | 74 | 76 | 77 | 79 | 74 |
| Corn Hir | 204 | 238 | 242 | 242 | 241 | 243 |

### 4.3 Rhagamcanion Disgyblion os aiff y cynnig yn ei flaen

Mae'r rhagamcanion yn cadarnhau y bydd nifer y disgyblion yn cynyddu i 320 gyda'i gilydd erbyn 2024. O ganlyniad, mae'r cynnig i adeiladu Ysgol capasiti 360 newydd yn realistig ac yn rhan o Raglen Buddsoddi Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae'r capasiti newydd yn darparu ar gyfer datblygiadau tai arfaethedig yn yr ardal fel y gwelir yn y tabl isod:

| Ysgol | Datblygiadau tai arfaethedig yn y dalgylch (2018-2026) | Nifer cyfatebol y plant * |
|---|---|---|
| Bodffordd | 18 | 3 - 5 |
| Corn Hir | 219 | 37 - 59 |

* Mae tystiolaeth o ffigurau'r cyfrifiad yn dangos bod gan bob tŷ yn Ynys Môn 0.17 o blant oed ysgol gynradd ar gyfartaledd. Mae lluosi nifer y datblygiadau tai â 0.17, yn rhoi amcangyfrif o nifer y plant ychwanegol y bydd angen eu haddysgu yn yr ysgol benodol honno. Fodd bynnag, yn hen ward Cyngar, mae cyfartaledd plant oed ysgol gynradd ym mhob tŷ yn uwch, sef oddeutu 0.27 plentyn o oedran ysgol gynradd i bob tŷ. Defnyddiwyd y ffigwr uwch hwn o 0.27 ar gyfer y cyfrifiad hwn. Gallai'r datblygiadau arfaethedig hyn arwain at gyfanswm o 64 o ddisgyblion yn deillio o'r datblygiadau tai newydd.

Er bod y datblygiadau tai arfaethedig yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, mae yna nifer o ffactorau sy'n effeithio ar os bydd y datblygiadau arfaethedig hyn yn symud ymlaen yn y broses gynllunio.

Yn gyntaf, byddai angen eu hasesu i benderfynu a fyddai'r datblygiad (au) arfaethedig yn cwrdd â'r gofynion er mwyn gallu ceisio caniatâd cynllunio ac yna a fyddai caniatâd cynllunio (sy'n ddilys am 5 mlynedd) yn cael ei roi. Hynny yw, amcangyfrif yw nifer y tai yn y tabl uchod ac nid yw'n sicrwydd y

bydd yr holl dai hyn yn cael eu hadeiladu erbyn 2027. Pe bai'r datblygiadau tai arfaethedig hyn yn cael eu hadeiladu, byddai'r datblygwr yn debygol iawn o'u hadeiladu fesul cam. Byddai hyn yn golygu y byddai nifer y disgyblion yn cynyddu'n raddol ac NI fyddai'n golygu y byddai'r nifer uchaf o ddisgyblion h.y. 64 yn dechrau mynychu'r ysgol ar yr un pryd.

Mae'r tabl isod yn dangos y niferoedd disgwyliedig o ddisgyblion yn yr Ysgol Corn Hir newydd arfaethedig hyd at Fedi 2027 gan ystyried y datblygiadau tai arfaethedig y soniwyd amdanynt uchod.

| | Nifer rhagamcanol ar y gofrestr Medi 2023 | Nifer rhagamcanol ar y gofrestr Medi 2024 | Nifer rhagamcanol ar y gofrestr Medi 2025 | Nifer rhagamcanol ar y gofrestr Medi 2026 | Nifer rhagamcanol ar y gofrestr Medi 2027 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Corn Hir Newydd | 339 | 340 | 339 | 345 | 342 |

Gall rhieni hefyd ddewis anfon eu plentyn / plant i ba bynnag ysgol y maent yn dymuno.

Mae'n bwysig nodi bod rhagamcanion yn anodd gan fod nifer o ddisgyblion yn mynychu'r ysgolion o ddalgylchoedd eraill. Ym mis Hydref 2019:

- Roedd gan Ysgol Bodffordd 69 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 41 o ddisgyblion yn mynychu o fewn y dalgylch (59%).
- Mae 10% nad ydynt yn nalgylch Ysgol Bodffordd yn dod o ddalgylch Ysgol Corn Hir [7 Disgybl].
- Roedd gan Ysgol Corn Hir 230 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 166 o ddisgyblion yn mynychu o fewn dalgylch (72%).
- Mae 3% nad ydynt yn nalgylch Ysgol Corn Hir yn dod o ddalgylch Ysgol Bodffordd [6 Disgybl].

**4.4 Darpariaeth Gyn-Ysgol**

Mae’r ddarpariaeth gyn-ysgol ganlynol ar gael yn ardal Bodffordd / Corn Hir, Llangefni:

- Mae Ysgol Bodffordd wedi ei chofrestru ar gyfer plant 3-11 oed ac yn darparu addysg blynyddoedd cynnar i blant sydd wedi troi’n 3 oed cyn 1 Medi mewn unrhyw flwyddyn. Ei chapasiti yw 11 ac ym Medi 2019, roedd 15 o blant yn defnyddio’r cyfleuster hwn. Bydd y ddarpariaeth hon yn trosglwyddo i’r Ysgol Corn Hir newydd os gwireddir y cynnig.

Mae’r rhagolygon ar gyfer darpariaeth feithrin i blant 3-4 oed yn Ysgol Bodffordd fel a ganlyn:

| Meithrin | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Bodffordd | 15 | 10+ | 10+ | 10+ | 10+ | 10+ | 10+ |

- Mae Cylch Meithrin yng Nghanolfan Gymuned Bodffordd sy’n annibynol yn ariannol ar Ysgol Bodffordd. Mae’r gwasanaeth wedi’i gofrestru â’r Cyngor i ddarparu addysg blynyddoedd cynnar am 10 awr yr wythnos, tymor ysgol yn unig. Ym Medi 2019, roedd 16 o blant yn defnyddio’r cyfleuster hwn. (Mae’r ffigwr hwn yn cynnwys plant sydd eisoes yn derbyn addysg blynyddoedd cynnar yn Ysgol Bodffordd).

  Rhan o’r cynnig yw cau Ysgol Bodffordd, y gall fod â goblygiadau i’r Cylch Meithrin. Mae’r Cylch Meithrin hefyd yn agored am oriau ychwanegol i ddarparu elfen gofal plant. Efallai y bydd niferoedd yn lleihau wrth i’r plant 3-4 oed yn Ysgol Bodffordd drosglwyddo drosodd i’r Ysgol Corn Hir newydd.

- Mae Meithrinfa Blodyn Tatws wedi ei lleoli ym Mharc Cefni, Bodffordd. Cofrestrir y gwasanaeth yn breifat i ofalu am uchafswm o 37 o blant rhwng 3 mis oed a 12 oed. Ni chomisiynir y gwasanaeth hwn

i ddarparu addysg blynyddoedd cynnar. Gan fod galw am ddarpariaeth feithrin yn yr ardal, ychydig o effaith fydd gan y cynnig ar y ddarpariaeth breifat hon. (Nid yw'r uned gofal plant yn yr Ysgol Corn Hir newydd yn darparu ar gyfer plant dan 2 oed).

- Mae Cylch Meithrin ar dir Ysgol Corn Hir, sy'n annibynnol yn ariannol ar Ysgol Corn Hir. Cofrestrir y gwasanaeth â'r Cyngor i ddarparu addysg blynyddoedd cynnar am 10 awr yr wythnos, tymor ysgol yn unig. Derbynia'r gwasanaeth blant rhwng 2-4 oed a chynhalia ddwy ½ sesiwn bob diwrnod. Ym Medi 2019, roedd 30 o blant yn mynychu'r sesiwn foreol a 27 o blant yn mynychu'r sesiwn brynhawn.

**Digonolrwydd Lleoedd**

Bydd gan yr Ysgol Corn Hir newydd ddigon o le i blant 3 oed yn y dosbarth a thu allan. Bydd ar gyfer plant 3-11 oed.

Mae bwriad hefyd i'r Ysgol Corn Hir newydd fod ag uned gofal plant gyda chapasiti o hyd at 50 i blant 2-4 oed, ynghyd â chapasiti meithrin o 51 i gwrdd â'r galw.

**Lefel y galw (Ardal Llangefni - Ward Cefni, Cyngar, Tudur)**

Ni adnabyddodd yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant a gynhaliwyd gan y Cyngor yn Ebrill 2017 unrhyw ddarpariaeth ar ôl ysgol gofrestredig yn ardal Llangefni na darpariaeth wyliau gofrestredig ddigonol o fewn y meithrinfeydd dydd preifat. Roedd lleoedd gofal plant mewn meithrinfeydd dydd ym Môn yn ddigon yn 2017 i gwrdd â galw rhieni. Fodd bynnag, ers cyflwyno'r Cynnig Gofal Plant, mae lleoedd yn gyfyngedig. Yn draddodiadol, mae'r sector yn cynnig gofal i blant rhwng 6 mis a 4 oed**.**

Darpariaeth yn ardal Llangefni yn Ebrill 2019

| Gwarchodwr plant | Gofal Drwy'r Dydd | Sesiynol e.e. Cylch Meithrin | Dechra u'n Deg | Ar Ôl Ysgol Cofrestredig (Darparwr preifat) | Gwyliau (Darparwr preifat) |
|---|---|---|---|---|---|
| 4 | 3<br>Meithrinfa Blodyn Tatws<br>Meithrinfa Medra<br>Meithrinfa Sêr Bach | 4<br>Cylch meithrin Bodffordd<br>Corn Hir<br>Talwrn<br>Stryd Y Bont | 1<br>Ar safle Ysgol y Graig | 3<br>Meithrinfa Blodyn Tatws<br>Meithrinfa Medra<br>Meithrinfa Sêr Bach | 3<br>Meithrinfa Blodyn Tatws<br>Meithrinfa Medra<br>Meithrinfa Sêr Bach |

Mae diffyg darpariaeth gofal plant yn yr ardal ar gyfer plant 3-11 oed. Mae nifer y gwarchodwyr plant yn yr ardal wedi aros yn ei unfan ac ar draws y Sir mae mwy o ddadgofrestru na chofrestiadau.

**Galw am fath penodol o addysg Feithrin**

Mae'r holl wasanaethau sesiynol yn yr ardal hon yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r meithrinfeydd preifat yn darparu gwasanaethau dwyieithog. Bydd yr uned gofal plant yn yr Ysgol Corn Hir newydd yn darparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae grant iaith Gymraeg wedi ei dderbyn i sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Yn yr ardal mae darpariaeth addysgol yng Nghanolfan Addysg y Bont sy'n gofalu am ac yn addysgu plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Nid yw'r Ganolfan yn darparu unrhyw fath o ddarpariaeth ar ôl ysgol a gwyliau ar hyn o bryd. Bydd yr uned gofal plant arfaethedig yn yr Ysgol Corn Hir newydd hefyd yn darparu ar gyfer plant Canolfan Addysg y Bont.

**Effaith y cynnig ar sefydliadau eraill**

Bwriada sefydlu'r uned ofal plant arfaethedig yn yr Ysgol Corn Hir newydd ategu'r ddarpariaeth bresennol gan ofalwyr plant a meithrinfeydd dydd preifat yn yr ardal. Disgwylir y bydd y gwasaneth yn gystadleuol â'r cyfraddau lleol a godir gan y darparwyr preifat, a fydd yn darparu dewis a digonolrwydd gofal plant yn yr ardal i rieni.

**Y graddau y bydd y cynnig yn integreiddio addysg blynyddoedd cynnar gyda gwasanaethau gofal plant**

Bydd gwasanaethau gofal plant yn yr uned gofal plant arfaethedig yn yr Ysgol Corn Hir newydd yn integreiddio gofal plant traddodiadol, darpariaeth addysgol blynyddoedd cynnar a gofal plant drwy'r dydd o 8yb tan 6yh bob dydd, gyda darpariaeth wyliau drwy'r flwyddyn i blant 3-11 oed. Gall y ddarpariaeth ar gyfer plant 2 oed fod yn ofal dydd sesiynol. Bydd y ddarpariaeth wedi'i chofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru fel gofal plant drwy'r dydd ac felly'n caniatáu i rieni hawlio'r Cynnig Gofal Plant i blant 3-4 oed, talebau gofal plant neu gredyd treth plant er mwyn cael budd o gefnogaeth ariannol er mwyn lleihau costau gofal plant. Bydd argaeledd gofal plant drwy'r dydd ar safleoedd ysgol yn hwyluso'r broses o rieni'n ailddechrau yn y gwaith, cynyddu eu horiau gwaith a bod yn fodlon bod eu plant yn derbyn gofal o'r radd flaenaf.

## 4.5 Gwybodaeth ynglŷn â'r ysgolion

**Ysgol Bodffordd (**Bodffordd, Ynys Môn LL77 7LZ**)**
Codwyd Ysgol Bodffordd yn 1880 ac adeiladwyd rhan gymunedol yr adeilad yn 1986.
Mae'n adeilad to pig un llawr. Mae tair ystafell ddosbarth gan gynnwys ystafell a arferai fod yn ystafell adnoddau yn ogystal â neuadd / ffreutur [107.5 $m^2$, ystafell staff a swyddfa ar gyfer y Pennaeth.
Mae man chwarae caled a maes chwarae ar y safle. Mae'r neuadd hefyd yn cael ei defnyddio gan y gymuned.

Yn Hydref 2019, roedd gan Ysgol Bodffordd 69 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 41 o ddisgyblion yn mynychu o fewn y dalgylch (59%). Mae 10% o ddisgyblion nad ydynt yn nalgylch Ysgol Bodffordd yn dod o ddalgylch Ysgol Corn Hir [ 7 Disgybl].

Mae'r ystodau oedran blwyddyn ysgol sy'n cael eu haddysgu ym mhob ystafell ddosbarth fel a ganlyn:

| Ysgol Bodffordd<br>3<br>Ystafell Ddosbarth | Ystod oedran yn cael eu dysgu<br>fesul ystafell ddosbarth |
|---|---|
| | Meithrin, Derbyn a Blwyddyn 1 |
| | Blwyddyn 1, 2 and 3 (Targedu) |
| | Blwyddyn 3, 4, 5, a 6 |

**Ysgol Corn Hir** (Llangefni**,** Ynys Môn LL77 7JB)
Adeiladwyd Ysgol Corn Hir yn 1986. Mae wyth ystafell ddosbarth sy'n cynnwys yr ystafell ddosbarth symudol. Mae ystafelloedd dosbarth wedi disodli'r ganolfan adnoddau a'r llyfrgell a oedd ar y safle. Yn ogystal â'r neuadd / ystafell fwyta [102.4m2], mae ystafell staff a swyddfa i'r Pennaeth.
Mae man chwarae caled a maes chwarae ar y safle.

Yn Hydref 2019, roedd gan Ysgol Corn Hir 230 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 166 o ddisgyblion yn mynychu o fewn y dalgylch. (72%). Mae 3% o ddisgyblion nad ydynt yn nalgylch Ysgol Corn Hir yn dod o ddalgylch Ysgol Bodffordd [6 Disgybl].

Mae'r ystodau oedran blwyddyn ysgol sy'n cael eu dysgu ym mhob ystafell ddosbarth fel a ganlyn:

| Ysgol Corn Hir<br>9<br>Ystafell Ddosbarth | Ystod oedran yn cael eu dysgu<br>fesul ystafell ddosbarth |
|---|---|
| | Derbyn |
| | Derbyn a Blwyddyn 1 |
| | Blwyddyn 1 a 2 |
| | Blwyddyn 2 |
| | Blwyddyn 3 a 4 |
| | Blwyddyn 3 a 4 |
| | Blwyddyn 3 a 4 |
| | Blwyddyn 5 |
| | Blwyddyn 6 |

### 4.6 Cyfleusterau a gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgolion

Cafwyd manylion y cyfleusterau a gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol o holiaduron a gwblhawyd gan Benaethiaid Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir. Darparodd Cyngor Cymunedol Bodffordd hefyd fanylion ynglŷn â gweithgareddau lleol a gynhelir.

### 4.7 Gweithgareddau allgyrsiol sydd ar gael i ddisgyblion yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir:

| Ysgol Bodffordd<br>Gweithgaredd | Yn ystod y tymor ynteu'r gwyliau? | Amlder |
|---|---|---|
| Clwb Chwaraeon yr Urdd | 3.30-4.30 | Unwaith yr wythnos yn ystod tymor yr haf |
| Clwb Rygbi ar ôl ysgol | 3.30-4.30 | Pan mae'r cae yn briodol i'w ddefnyddio |
| Clwb Plant (gofalu am blant sydd â brodyr neu chwiorydd yn CA2 rhwng 3:00 a 3:30) | Tymor | Bob dydd am 3yh yn ystod y tymor |
| Gweithgareddau'r Urdd (achlysurol)<br>• Sinema<br>• Cwis<br>• Celf a Chrefft | 3.30-5.00 | Anelu at unwaith y mis |
| Cae'r ysgol ar gael i blant lleol drwy'r flwyddyn – ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau | Drwy'r flwyddyn | Fel bod angen |

| Ysgol Corn Hir<br>Gweithgaredd | Yn ystod y tymor ynteu'r gwyliau? | Amlder |
|---|---|---|
| Ar ôl ysgol – clwb hanner awr | Tymor | Dyddiol |
| Clwb gofal ar ôl ysgol | Tymor | Dyddiol |
| Clwb pêl-droed | Tymor | Wythnosol |
| Clwb pêl-rwyd | Tymor | Wythnosol |
| Urdd - Dosbarthiadau amrywiol | Tymor | Wythnosol |
| Clwb rygbi | Tymor | Wythnosol |

### 4.8 Cyfleusterau ysgol yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir a ddefnyddir gan grwpiau lleol:

| Ysgol Bodffordd<br><br>Defnyddiwr a chyfleuster | Yn ystod y tymor ynteu'r gwyliau? | Amlder |
|---|---|---|
| Pwyllgor Drama Charles Williams | | Cwrdd fel bod angen |
| Gŵyl Ddrama Charles Williams | | Bob blwyddyn, tuag Ebrill |
| Gŵyl Bêl-droed Osian Roberts | | Bob blwyddyn, tua Mai / Mehefin |
| Celf a Chrefft Eisteddfod, Arlwyo a Gwaith Llaw, Eisteddfod Bodffordd | | Bob blwyddyn. Defnyddio'r Ganolfan ac adnoddau ysgol am 2 ddiwrnod - Mehefin |
| Pwyllgor Eisteddfod Bodffordd | | Yn ôl y gofyn a'r angen |

| | | |
|---|---|---|
| Eisteddfod Bodffordd (ers 1986) | | Bob blwyddyn. Defnyddio'r Ganolfan, yr Ysgol, yr Iard a'r Cae - Gorffennaf |
| Agor y Llyfr | | |
| Meithrinfa Bodffordd (ers 1986) | | Dydd Llun, Mawrth, Mercher ac Iau bob wythnos |
| Merched Bodffordd | Yn ystod y tymor a'r gwyliau | Unwaith y mis (3ydd ddydd Llun o bob mis) |
| Clwb Pensiynwyr | Yn ystod y tymor a'r gwyliau | Unwaith y mis (Ail ddydd Mawrth o bob mis) |
| Gyrfa Chwist | Yn ystod y tymor a'r gwyliau | Dwywaith y mis (weithiau 3) Nos Iau – bob pythefnos |
| Ysgol Ddawns | Yn ystod y tymor | Unwaith yr wythnos ar ddyddiau Mercher |
| Cylch Llenyddol Bodffordd | Yn ystod y tymor a'r gwyliau | Unwaith y mis (4ydd ddydd Llun o'r mis) |
| Partïon Pen-blwydd | Yn ystod y tymor, y gwyliau a'r penwythnos | Yn ôl y gofyn |
| Clwb Rygbi Llangefni – defnydd o'r Ganolfan ar gyfer Hyfforddiant Cymorth Cyntaf bob blwyddyn(ers 2018) | | Unwaith y flwyddyn – dros 2 ddiwrnod |

| **Ysgol Corn Hir**<br><br>**Defnyddiwr a chyfleuster** | **Yn ystod y tymor ynteu'r gwyliau?** | **Amlder** |
|---|---|---|
| Neuadd yr ysgol ar gyfer gweithgareddau amrywiol | Yn ystod y tymor a'r gwyliau | |
| Tir yr ysgol ar gyfer gweithgareddau amrywiol | Yn ystod y tymor a'r gwyliau | |

Yn ôl yr wybodaeth a gyflwynwyd gan y Penaethiaid, defnyddir y cyfleusterau yn Ysgol Bodffordd, h.y. Canolfan Gymuned Bodffordd gan nifer o grwpiau o'r gymuned leol.

### 4.9 Cyfleusterau lleol a ddefnyddir gan Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir:

| **Ysgol Bodffordd**<br><br>**Gwasanaeth** | **Yn ystod y tymor ynteu'r gwyliau?** | **Amlder** |
|---|---|---|
| Capel Sardis | Tymor | Dwywaith y flwyddyn (ac eithrio ymarferion) |

| **Ysgol Bodffordd**<br><br>**Gwasanaeth** | **Yn ystod y tymor ynteu'r gwyliau?** | **Amlder** |
|---|---|---|
| Capel Sardis – fel hafan ddiogel mewn achos o argyfwng | Tymor | |
| Eglwys Sant Llwydian | Tymor | |
| Canolfan Gymuned – nosweithiau cymdeithasol<br>Rhieni ac Athrawon – e.e. Bingo | Term / yn ôl yr angen | |
| Canolfan Gymuned – disgos / gweithgareddau hwylus a drefnir gan rieni ac athrawon | Tymor | |
| Iard / adeilad yr ysgol – ffeiriau ysgol / Ffair Nadolig / noswaith siopa Nadolig (cefnogi busnesau cartref a lleol) | Tymor | |
| Gweithgareddau chwaraeon hwylliog (Wedi ei drefnu gan rieni) | Tymor | |

| **Ysgol Corn Hir**<br><br>**Gwasanaeth** | **Yn ystod y tymor ynteu'r gwyliau?** | **Pa mor aml bob wythnos?** |
|---|---|---|
| Capel Lleol – Moreia | Tymor ysgol | Achlysurol |
| Capel Lleol – Cildwrn | Tymor ysgol | Achlysurol |
| Plas Arthur, Llangefni | Tymor ysgol | Achlysurol |
| Nant y Pandy | Tymor ysgol | Achlysurol |
| Eglwys St. Cyngar | Tymor ysgol | Achlysurol |
| Oriel Môn | Tymor ysgol | Achlysurol |
| Cwrs Golff Llangefni | Tymor ysgol | Achlysurol |
| Cyngor Sir | Tymor ysgol | Achlysurol |
| Llyfrgell | Tymor ysgol | Achlysurol |
| Tesco Bangor | Tymor ysgol | Achlysurol |

**4.10 Cyfleusterau cymunedol wedi eu lleoli ger Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir (gan gynnwys busnesau lleol).**

| **Enw'r Cyfleuster / Busnes ger Ysgol Bodffordd** | **Dwyieithog / Cyfrwng Saesneg neu Gyfrwng y Gymraeg** | **Dyddiad cychwyn** |
|---|---|---|
| Ysgol Feithrin Bodffordd | Cymraeg | Ers 1986 |
| Cae chwarae'r ysgol | Ar gael i bawb | |
| Iard – defnyddir fel maes parcio ar gyfer gweithgareddau cymunedol gyda'r nos ac ar y penwythnos | Ar gael i bawb sy'n defnyddio'r Ganolfan fel canolfan weithgareddau | |

| **Enw’r Cyfleuster / Busnes ger Ysgol Bodffordd** | **Dwyieithog / Cyfrwng Saesneg neu Gyfrwng y Gymraeg** | **Dyddiad cychwyn** |
|---|---|---|
| Roberts Radio | Dwyieithog | |
| Garej Tŷ Crwn / Atgyweirio Cyfrifiadurol | Dwyieithog | |
| Dolphin Travel (Bysiau) | Dwyieithog | |
| Siop Baent / Addurno | Dwyieithog | |
| Hamdden Parc Cefni | Dwyieithog | |
| Blodyn Tatws | Dwyieithog | |
| Inch-Less / Modfedd Llai | Dwyieithog | |
| Creative Hair Salon | Dwyieithog | |
| Serenity Beauty and Skin Care | Dwyieithog | |
| Physio Môn | Dwyieithog | |

| **Enw’r Cyfleuster / Busnes ger Ysgol Corn Hir** | **Dwyieithog / Cyfrwng Saesneg neu Gyfrwng y Gymraeg** | **Dyddiad cychwyn** |
|---|---|---|
| Llangefni – nifer fawr o fusnesau | Dwyieithog | Sefydledig |
| Canolfan Plas Arthur | Dwyieithog | Ers agor |
| Parc Sglefrio | Dwyieithog | Ers agor |
| Capel Cildwrn | Cymraeg | Ers agor |

**4.11 Gweithgareddau cymuned sydd ar gael ger Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir:**

| Enw'r Cyfleuster / Busnes ger Ysgol Bodffordd | Dwyieithog / Cyfrwng Saesneg neu Gyfrwng y Gymraeg | Dyddiad cychwyn |
|---|---|---|
| Bodffordd Cyf | Dwyieithog | |
| Cyngor Cymuned | Dwyieithog | |

| Enw'r Cyfleuster / Busnes ger Ysgol Corn Hir | Dwyieithog / Cyfrwng Saesneg neu Gyfrwng y Gymraeg | Dyddiad cychwyn |
|---|---|---|
| Clwb Rygbi Llangefni | Dwyieithog | Medi – Gorffennaf |
| Clwb Pêl-droed Llangefni | Dwyieithog | Medi – Gorffennaf |
| Park Run | Dwyieithog | |

**4.12 Gofal plant a gofal cyn ysgol sydd ar gael yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir:**

| Ysgol Bodffordd | Iaith | Annibynnol o'r ysgol | Lleoliad y Ddarpariaeth | Dyddiau a Gynhelir |
|---|---|---|---|---|
| Clwb Cyn Ysgol | Dwyieithog | Na | Dosbarthiadau ysgol | Llun-Gwener |
| Clwb Brecwast Cyn Ysgol | Dwyieithog | Na | Dosbarthiadau ysgol | Llun-Gwener |
| Clwb Plant (Gofalu am ddisgyblion sydd â brodyr neu chwiorydd yn CA2 o 3.00 tan 3.30) | Dwyieithog | Na | Dosbarthiadau Cyfnod Sylfaen am 3yh | Llun-Gwener |

| Ysgol Corn Hir | Iaith | Annibynnol o'r ysgol | Lleoliad y Ddarpariaeth | Dyddiau a Gynhelir |
|---|---|---|---|---|
| Clwb Brecwast | Dwyieithog | Na | Neuadd Ysgol | Bob diwrnod ysgol |
| Clwb ar ôl Ysgol | Dwyieithog | Na | Neuadd Ysgol | Bob diwrnod ysgol |
| Clwb Hanner Awr | Dwyieithog | Na | Neuadd Ysgol | Bob diwrnod ysgol |

Os awdurdodir y cynnig, rhagwelir y byddai rhieni a disgyblion Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir yn cefnogi ac yn ymgysylltu â'r Ysgol Corn Hir newydd. Er bod y ganran o ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn isel (Ysgol Bodffordd 5%, Ysgol Corn Hir 7%, Môn 14%), ni fyddai'r disgyblion hyn yn cael eu trin yn wahanol i'r rhai nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim a byddent yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol yn yr Ysgol Corn Hir Newydd megis y rhai a nodwyd eisoes.

Pe gwireddwyd y cynnig, byddai'r Ysgol Corn Hir newydd yn Ysgol Gymuned ac felly'n cynnwys neuadd fwy ar gyfer gweithgareddau cymunedol ac ystafell gyfarfod gymunedol yn ogystal ag Uned Feithrin Cyn-Ysgol i blant sydd rhwng 2 a 4 oed. Pe gwireddwyd y cynnig, byddai'r rhan fwyaf os nad pob cyfleuster a gwasanaeth a ddarperir gan Ysgol Corn Hir yn cael eu darparu gan yr ysgol gynradd newydd.

### 4.13 Gweithgareddau sydd ar gael yn lleol a gynhelir ym Modffordd

**Mae Cyngor Cymuned Bodffordd hefyd wedi darparu manylion o weithgareddau a gynhelir yn lleol:**

| Gweithgaredd | Pa mor aml? | Ymhle? |
|---|---|---|
| Clwb Pensiynwyr | Unwaith y mis | Canolfan Gymuned |
| Cylch Llenyddiaeth | Unwaith y mis<br>Rhwng Hyd – Mawrth | Canolfan Gymuned |
| Merched Bodffordd | Unwaith y mis | Canolfan Gymuned |
| Gŵyl Ddrama | Unwaith y flwyddyn | Canolfan Gymuned |
| Eisteddfod | Unwaith y flwyddyn | Canolfan Gymuned |
| Arddangosfa Celf a Chrefft | Unwaith y flwyddyn | Canolfan Gymuned |
| Ffair Haf a Gŵyl Bêl-droed | Unwaith y flwyddyn | Canolfan gymuned a'r cae chwarae |
| Gyrfa Chwist | Bob pythefnos | Canolfan Gymuned |
| Bingo | Yn achlysurol | Canolfan Gymuned |
| Gwersi Dawnsio i Blant | Bob wythnos | Canolfan Gymuned |
| Ymarferion Tân | Yn achlysurol | Canolfan Gymuned |
| Pwyllgor Eisteddfod | Fel bod angen | Canolfan Gymuned |
| Pwyllgor Gŵyl Ddrama | Fel bod angen | Canolfan Gymuned |
| Cyngherddau at Achosion Da | Yn achlysurol | Canolfan Gymuned |
| Ymarferion Urdd | Fel bod angen | Canolfan Gymuned |
| Partïon Pen-blwydd | Fel bod angen | Canolfan Gymuned |
| Sefydliadau Allanol | Yn achlysurol | Canolfan Gymuned |
| Cyngor Cymuned | Bob mis | Canolfan Gymuned |

**Sylwadau pellach gan Gyngor Cymuned Bodffordd**

Fel y gwelir uchod, mae'r Ganolfan Gymuned, yr ysgol a'r cae chwarae i gyd yn hanfodol i sicrhau dyfodol y gymuned a'r iaith.

Mae'n bosib y byddai cau Ysgol Bodffordd yn annog rhai teuluoedd i adael y gymuned a hyd yn oed yn rhwystro teuluoedd ifanc rhag symud i'r gymuned. Gall hyn o bosib gael ychydig o effaith ar yr economi leol. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, mae adeilad arall yn y pentref, h.y. Capel y Gad a all gynnal rhai o'r digwyddiadau sydd ar hyn o bryd yn cael eu cynnal yn y Ganolfan Gymuned sydd ynghlwm ag Ysgol Bodffordd. Mae'n bosib y gall cau'r ysgol a symud y gweithgareddau a gynhelir yn y Ganolfan Gymuned

arwain at leihau'r gweithgareddau cymunedol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn ymrwymedig i weithio â'r gymuned ym Modffordd i sicrhau hyfywedd hirdymor y Ganolfan Gymuned bresennol.

### 4.14 Pellter ac amser teithio

Mae'r safle arfaethedig ar gyfer yr Ysgol Corn Hir newydd oddeutu 1.4 milltir o Ysgol Bodffordd a 0.3 milltir o'r Ysgol Corn Hir bresennol (Ffynhonnell - mapiau Gogle).

Pe awdurdodir y cynnig, byddai'n golygu mwy o bellter teithio i rai disgyblion. Ar sail y nifer presennol o ddisgyblion ar gofrestr Ysgol Bodffordd (Mehefin 2019), byddai 34% yn teithio llai i'r safle Ysgol Corn Hir newydd a 66% yn gorfod teithio ymhellach. Gan y barnir bod y llwybr rhwng Bodffordd a Llangefni ar y B5109 yn ffordd beryglus, byddai'r Cyngor yn darparu cludiant i'r disgyblion hyn, sy'n golygu na fyddent yn debygol o gerdded neu feicio i'r ysgol. Mae'r amser teithio o Ysgol Bodffordd ar fws i'r safle arfaethedig newydd ar gyfer yr Ysgol Corn Hir newydd oddeutu 8 munud.

Yn Hydref 2019: Roedd gan Ysgol Bodffordd 69 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac roedd 41 ohonynt yn mynychu o fewn y dalgylch (59%).

- Roedd 10% nad ydynt o ddalgylch Ysgol Bodffordd o ddalgylch Ysgol Corn Hir [7 disgybl].

Yn Hydref 2019: Roedd gan Ysgol Corn Hir 230 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac roedd 166 ohonynt yn mynychu o fewn y dalgylch (72%).

- Roedd 3% nad ydynt o ddalgylch Ysgol Corn Hir o ddalgylch Ysgol Bodffordd [6 disgybl].

Gan y cynigir y bydd Ysgol Corn Hir yn adleoli i safle sydd llai na milltir oddi wrth adeilad yr ysgol bresennol, bydd disgyblion o'r ysgol yn parhau i allu cerdded i'r Ysgol Corn Hir newydd. Fodd bynnag, gan fod safle'r Ysgol Corn Hir newydd ochr arall i'r B5109, rhagwelir y byddai'n rhaid i 15% o ddisgyblion Corn Hir groesi'r B5109. Gallai bob disgybl dal gerdded neu feicio i'r Ysgol Corn Hir newydd. Mae Asesiad Effaith Traffig wedi'i baratoi ar yr effaith a fyddai'r Ysgol Corn Hir newydd yn ei chael ar drefniadau teithio staff a disgyblion. O ganlyniad i hyn, bydd y rhodfa o gyffordd y B4422 â'r B5109 at fynedfa'r Ysgol Corn Hir newydd arfaethedig yn cael ei lledu, a darperir man croesi dros y B5109 i'r Ysgol Corn Hir newydd.

Oni bai am drafnidiaeth ychwanegol o Fodffordd i'r Ysgol Corn Hir newydd, nid yw'n debygol o gwbl y byddai'r cynnig yn cael effaith ar gludiant cyhoeddus.

Noda Llywodraeth Cymru na ddylai plant oed cynradd orfod teithio am fwy na 45 munud bob ffordd i'r ysgol. Mae'r Cyngor yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion cynradd dan 16 oed sy'n byw **2 filltir** neu fwy oddi wrth yr ysgol sydd yn y dalgylch y maent yn byw ynddi. Mae'r un polisi hefyd yn nodi "na ddarperir cludiant i blant meithrin rhan amser."

## 4.15 Asesiad Effaith Cymunedol

| Meini Prawf | Arsylwadau | **Effaith** Negyddol/ Niwtral/ Cadarnhaol | Mesurau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| Disgyblion sy'n mynychu'r ysgol o du allan i'r dalgylch | Yn Hydref 2019: Roedd gan Ysgol Bodffordd 69 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac roedd 41 ohonynt yn mynychu o fewn y dalgylch (59%).<br>Roedd 10 % nad ydynt o ddalgylch Ysgol Bodffordd o ddalgylch Ysgol Corn Hir [7 disgybl].<br><br>Yn Hydref 2019: Roedd gan Ysgol Corn Hir 230 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac roedd 166 ohonynt yn mynychu o fewn y dalgylch (72%).<br>• Roedd 3% nad ydynt o ddalgylch Ysgol Corn Hir o ddalgylch Ysgol Bodffordd [6 disgybl]. | Cadarnhaol | Os gwireddir y cynnig, mae'n debyg y byddai dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir yn cael eu cyfuno. Yn ôl ffigyrau presennol, golyga hyn y byddai llai o ddisgyblion yn yr Ysgol Corn Hir newydd yn dod o du allan i'w dalgylchoedd. |
| Gwasanaethau a ddarperir i'r gymuned gan yr ysgol gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol | Mae'r ddwy ysgol yn darparu nifer o weithgareddau a gwasanaethau. Rhagwelir y byddai'r ddarpariaeth hon yn parhau. Rhagwelir y bydd defnydd cymunedol o'r Ysgol Corn Hir newydd. | Niwtral | Drwy weithio gyda'r gymuned, gellir sicrhau dyfodol tymor hir Canolfan Gymuned Bodffordd. Os mai dyma'r achos, byddai gweithgareddau a gwasanaethau a ddarperir o'r Ganolfan Gymuned yn parhau.<br>Gan y byddai Ysgol Corn Hir yn cael ei hadleoli, byddai'r gweithgareddau a'r gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol yn cael eu darparu gan yr Ysgol Corn Hir newydd. |
| Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn | Defnyddir capel neu eglwys leol gan y ddwy ysgol ac os byddai'r Ysgol Corn Hir newydd yn cael ei hadeiladu, byddai ei | Niwtral | Bydd cyfleusterau cymuned e.e. capel neu eglwys leol yn parhau beth bynnag yw penderfyniad y Pwyllgor Gwaith. |

Tudalen 271

| Meini Prawf | Arsylwadau | Effaith Negyddol/ Niwtral/ Cadarnhaol | Mesurau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| rheolaidd gan yr ysgol | chynulleidfaoedd yn parhau i ddefnyddio'r addoldai hynny. | | Ysgol gymuned fydd yr ysgol Corn Hir newydd. |
| Cyfleusterau cymunedol a ddarperir gan yr ysgol a gweithgareddau a gynhelir ar dir yr ysgol | Gan mai ysgolion cymunedol yw Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir, mae'r gymuned yn gwneud cryn dipyn o ddefnydd o'r adeiladau a thir yr ysgolion. | Niwtral | Drwy weithio gyda'r gymuned, gellir sicrhau dyfodol tymor hir Canolfan Gymuned Bodffordd. Os mai dyma'r achos, byddai gweithgareddau a gwasanaethau a ddarperir yn y Ganolfan Gymuned ac ar ei thiroedd yn parhau. |
| Effeithiau eraill<br>Cludiant + cyhoeddus | Os cymeradwyir y cynnig, bydd rhaid trefnu cludiant i'r Ysgol Corn Hir newydd gydag arian y Cyngor.<br>Mae'n annhebygol iawn y byddai'r cynnig yn cael effaith ar gludiant cyhoeddus. | Negyddol | Os gwireddir y cynnig, trefnir cludiant i'r Ysgol Corn Hir newydd gan y Cyngor. |
| Arall<br>Effaith ar y gymuned | Gall cau Ysgol Bodffordd gael effaith ar ba mor ddeniadol yw'r ardal leol i ddarpar brynwyr tai, yn enwedig y rhai sydd â phlant neu sy'n bwriadu cael plant. Fodd bynnag, gall yr ardal fod yn fwy deniadol i brynwyr tai sy'n edrych am ardal fwy tawel. Cydnabyddir y gall demograffeg yr ardal newid dros amser. | Niwtral | Drwy weithio gyda'r gymuned, gellir sicrhau dyfodol hirdymor Canolfan Gymuned Bodffordd. Os mai dyma'r achos, byddai'n lliniaru'r effaith bosib o gau Ysgol Bodffordd. |
| | Effaith gyfunol ar y gymuned | **4 Niwtral** | |

**Casgliad – Byddai'r cynnig i weld yn cael effaith niwtral ar y gymuned.**

## 5. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015 ( Cynnig Gwreiddiol)

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi pwrpas cyffredinol cyfreithiol-rwym o saith Nod Llesiant a phum Ffordd o Weithio sydd wedi'u cynllunio i gefnogi a darparu gwasanaeth cyhoeddus sy'n diwallu anghenion y presennol heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

### 5.1 Sut y mae'r cynnig gwreiddiol yn diwallu gofynion ffordd o weithio?

| Ffordd o weithio | Diffiniad | Sut y mae'r cynnig yn cwrdd â gofynion ffordd o weithio |
|---|---|---|
| **Hirdymor** | | |
|  | Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd | Sicrhau bod addysg yn y gymuned yn cael ei chynnal a sicrhau bod lleoedd digonol mewn ysgolion i gwrdd ag anghenion heddiw a'r dyfodol. Sicrhau bod y sefydliad ysgol yn addas i bwrpas ac yn cydymffurfio â chanllawiau 21ain Ganrif. |
| **Atal** | | |
|  | Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu rhag mynd yn waeth gynorthwyo cyrff cyhoeddus i gwrdd â'u nod | Diogelu dyfodol tymor hir addysg yn yr ardal. |
| **Integreiddio** | | |
|  | Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill | Mae integreiddio cymuned yn ffocws i bob ysgol newydd sy'n creu amgylchedd i gefnogi diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg. Mae darparu lleoedd digonol yn sicrhau y gellir cyflwyno'r cwricwlwm ac mae'n diwallu amcanion cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. |
| **Cydweithio** | | |
|  | Cydweithio ag unrhyw unigolyn arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a all helpu'r corff i gwrdd â'i amcanion llesiant. | Cynyddu cydweithrediad rhwng gwasanaethau a chymunedau i sicrhau bod addysg yn cael ei chyflwyno'n barhaus i bob disgybl. Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys ymgysylltiad ac ymglymiad dwys â disgyblion, staff, Llywodraethwyr a'r gymuned. Bydd hyn yn ymwneud â chydweithredu â rhanddeiliaid yn ystod ac ar ôl y broses ymgynghori i sicrhau dyfodol tymor hir i addysg yn yr ardal. Mae'r Cyngor yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion, Estyn, GwE, cynghorau cymuned a nifer o bartneriaid mewnol ac allanol i sicrhau y bydd yr adeilad yn diwallu anghenion tymor byr ac |

| Ffordd o weithio | Diffiniad | Sut y mae'r cynnig yn cwrdd â gofynion ffordd o weithio |
|---|---|---|
| | | anghenion y dyfodol o ran y defnyddwyr a'r gymuned y byddai'n gweini arnynt. |
| **Ymglymiad** | | |
|  | Pwysigrwydd ymglymu pobl sydd â diddordeb yng nghyflawniad y nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu. | Mae'r cynnig yn amodol ar ymgynghoriad statudol ffurfiol. Bydd hyn yn galluogi ymglymiad rhanddeiliaid yn y cynnig. |

**5.2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

Er mwyn gwireddu'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion a gan ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) byddwn yn canolbwyntio ar greu cymunedau mwy gwydn, ar ymgysylltu â'n cymunedau, ar sefydlu partneriaeth leol ac ar gynnwys ein cymunedau yn y cynllunio tymor hir. Drwy ddilyn proses o'r fath, anelwn at alluogi cyflenwyr a chymunedau i ddatblygu gwasanaethau yn ôl yr angen, i annog rhannu adnoddau ac i arwain at wariant mwy effeithlon yn y tymor hir.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithio tuag at gyflawni amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015). Fel dilyniant i'r asesiad llesiant a gynhaliwyd, mae cynllun llesiant wedi'i ddatblygu, sy'n cael ei arwain gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cyd rhwng Gwynedd ac Ynys Môn. Bydd y trefniadau ymgynghori ac ymgysylltu ar gyfer moderneiddio ysgolion yn cael eu cynllunio i ddiwallu anghenion y cynllun.

Mae'r tabl isod yn amlinellu sut y rhagwelir bydd y cynnig i **"Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir"** yn cyfrannu at y 7 nod llesiant:

| 7 nod llesiant | Sut fydd y cynnig yn cyfrannu at y 7 nod llesiant |
|---|---|
| Llewyrchus | Bydd y prosiect yn sicrhau bod yr Ysgol Corn Hir newydd sydd wedi'i hadleoli a'i hehangu yn addas i bwrpas ac yn sicrhau y gwireddir gallu ti a photensial bob disgybl i lwyddo. |
| Cyfartal | Mae'r Cyngor wedi'i ymrwymo i sicrhau'r gwerth mwyaf posibl o bob punt y mae'r Cyngor yn ei gwario, gellir gwireddu hyn â buddion cymunedol. Bydd y Cyngor yn ymgorffori buddion cymunedol ym mhob prosiect gan gynnwys y cynnig os cmeradwyir yr Ysgol Corn Hir newydd. Bydd y Cyngor hefyd yn sicrhau cydraddoldeb waeth beth yw gallu a chefndir disgyblion. |

| 7 nod llesiant | Sut fydd y cynnig yn cyfrannu at y 7 nod llesiant |
|---|---|
| Cydnerth | Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn bolisi a sefydlwyd ar y cyd â siroedd eraill Gogledd Cymru ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid. Seilir y polisi ar egwyddorion cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd .<br>Os cymeradwyir y cynnig gan y Pwyllgor Gwaith, bydd proses ymgynghori statudol yn cael ei chynnal i gasglu barn y rhanddeiliaid. Yn dilyn yr ymgynghoriad, gellid sefydlu grŵp o randdeiliaid er mwyn cynnal gwaith ar y cyd gyda'r Cyngor.<br>Bydd hefyd cyfleoedd i blant gyfrannu at y broses.<br>Bydd gan yr ysgol ehangedig osodion dŵr effeithlon. Bydd yr Ysgol Corn Hir newydd yn ystyried cyfleoedd i dyfu bwyd a fydd yn cefnogi ardaloedd ar gyfer bywyd gwyllt ac yn hygyrch i bob disgybl. Byddai hefyd yn hybu ac yn cefnogi mentrau ecogyfeillgar megis ysgolion eco. |
| Iachach | Mae'r Asesiad Effaith Cymunedol sy'n rhan o'r asesiad hwn yn cadarnhau bod yr ysgolion sy'n bodoli eisoes yng Nghorn Hir a Bodffordd yn gweithredu fel ysgolion cymunedol.<br>Yn ogystal â hyn, defnyddir yr Ysgol Corn Hir newydd sydd wedi'i hadleoli a'i hehangu fel hwb cymunedol sy'n hybu cymunedau iachach e.e. drwy gynnig gweithgareddau chwaraeon i aelodau o'r gymuned. Bydd y Cyngor yn ymgeisio i'w gwneud mor hawdd â phosib i gyrraedd yr ysgol drwy gerdded neu feicio. |
| Cymunedau cydlynus | Fel rhan o'r ymgynghoriad statudol, bydd gan randdeiliaid gyfle i leisio'u barn ac i gynnig sylwadau ar y cynnig. Bydd yr Ysgol Corn Hir newydd yn cyfrannu at isadeiledd cymunedol yr ardal. Mae gan y cynnig botensial i ffurfio cymuned newydd o amgylch Bodffordd a dalgylch Corn Hir. |
| Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Amgaeir yr Asesiad Effaith Iaith. Mae Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir yn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Bydd y cynnig yn cryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal.<br>Bydd y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn cydweithredu â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn i hybu defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned ac yn cyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.<br>Mae'r Gwasanaeth Dysgu yn adrodd yn chwarterol i Fforwm Iaith y Sir ar ddefnydd o'r Gymraeg yn ysgolion y Cyngor ei fonitro'n chwarterol gan Fforwm Iaith y Sir. Mae perfformiad Cymraeg y disgyblion yn y ddwy ysgol h.y. y ganran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r safon ofynnol yn dda yn y ddwy ysgol. |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Mae'r rhaglen moderneiddio ysgolion a'r prosiectau cysylltiedig yn cyd fynd â strategaethau corfforaethol, lleol a chenedlaethol. Mae'r rhaglen wedi gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid a phartneriaid i sicrhau bod y prosiectau'n cael eu cefnogi a bod y cyfeiriad strategol yn cael ei ddeall. Golyga hyn bod rhanddeiliaid yn deall sut y bydd y cynllun arfaethedig yn cynorthwyo i gyflawni nodau busnes, amcanion strategol a chynlluniau'r Cyngor.<br>Bydd gwelliannau i'n hysgolion yn arwain at welliannau mewn effeithlonrwydd ynni e.e. drwy gynhyrchu trydan gyda phaneli ffotofoltaidd. Bydd hyn hefyd yn arwain at leihad yng nghynhyrchiad carbon deuocsid ac yn cynorthwyo i addysgu'r disgyblion ar sut i ddefnyddio adnoddau naturiol yn ddoeth. |

## 6. CASGLIAD I'R CYNNIG GWREIDDIOL

Y cynnig gwreiddiol oedd i ""Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir"

Aseswyd y cynnig gwreiddiol ar ei effaith bosib ar:

- Gydraddoldeb
- Iaith h.y. yr iaith Gymraeg
- Cymuned

Roedd yr effaith a geir ar bob rhan fel a ganlyn:

| Effaith gyfunol ar: | Effaith: Cadarnhaol neu Negyddol |
|---|---|
| Cydraddoldeb | **+3 Cadarnhaol** |
| Iaith | **+2 Cadarnhaol** |
| Cymuned | **4 Niwtral** |

Ar ôl ystyried y cynnig o ran ei effaith bosib ar gydraddoldeb, yr iaith Gymraeg a'r gymuned, byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol.

Dangosa'r ddogfen yn Adran 5 sut y mae'r cynnig gwreiddiol yn diwallu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## 7. ASESIAD EFFAITH AR YR OPSIWN AMGEN RHESYMOL ARALL

Ar ôl ystyried yr holl adborth o'r ymgynghoriad statudol daw'r Cyngor i'r casgliad mai'r ymateb mwyaf priodol yw "**Adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae"**.

Mae'r adborth sylweddol gan fwyafrif y rhanddeiliaid sy'n gysylltiedig â'r ddwy ysgol wedi nodi'r canlynol:

• Cytuno bod adeilad Ysgol Corn Hir yn rhy fach ac adeiladu ysgol newydd

• Cytuno bod angen ysgol newydd ar Corn Hir ond pam ar draul cau Ysgol Bodffordd?

**Cred y Cyngor fod yr opsiwn amgen rhesymol arall hwn o adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae, yn cwrdd â'r rhan fwyaf o'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Bodffordd fel y trafodir isod.**

• Safonau yn Ysgol Bodffordd - Mae categori Ysgol Bodffordd wedi gwella o Oren yn 2015 i Felyn (B) yn 2019. Mae Pennaeth Ysgol Bodffordd hefyd yn nodi: "Mae cydweithredu agos iawn rhwng pob ysgol yn nalgylch Llangefni ac o ganlyniad mae pob ysgol yn rhannu arfer da ac arbenigedd ac o ganlyniad mae safonau'n gwella ym mhob ysgol." Bydd cefnogaeth bellach yn cael ei darparu i Ysgol Bodffordd gan y Cyngor Lleol a GwE i sicrhau bod safonau'n cael eu gwella fel y gellir gwireddu datblygiad a photensial ei phlant yn y dyfodol.

• Cyflwyno'r Cwricwlwm - Mae Ysgol Bodffordd mewn sefyllfa gref i gydweithio ag ysgolion eraill i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Dywed Pennaeth Ysgol Bodffordd "Mae cydweithredu agos iawn rhwng pob ysgol yn nalgylch Llangefni ac o ganlyniad mae pob ysgol yn rhannu arfer da ac arbenigedd. Yn ogystal, mae pob ysgol yn y dalgylch yn datblygu sgiliau arwain ymhlith ei staff, gydag athrawon ym mhob ysgol yn cael cyfle i arwain staff o'u hysgol eu hunain ac ysgolion eraill. Mae'r cydweithredu agos hwn wedi arwain at ysgolion yn cydweithredu ar flaenoriaethau'r Cynllun Datblygu Ysgol. Mae'r cydweithrediad wedi arwain at enwi Dalgylch Llangefni mewn cynhadledd GwE fel enghraifft o arfer da y dylid ei rannu. Ar hyn o bryd, ac am y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r Fforwm Penaethiaid Ardal Dalgylch wedi'i gadeirio gan y Pennaeth ac mae'n gyrru'r cydweithrediad hwn."

• Ymrwymiad Addysgu'r Pennaeth - Mae Pennaeth Ysgol Bodffordd yn nodi "Does dim gwadu bod yna lawer o bwysau o ran arweinyddiaeth a dysgu ar ysgolion pentref / gwledig bach, ond mae yna lawer o ffactorau cadarnhaol pwysig sy'n ei gwneud hi'n swydd ddiddorol sydd yn miniogi'r meddwl - mae amrywiaeth yng ngwaith y staff, mae'r gofynion a'r disgwyliadau yn heriol ac yn amrywiol, mae pob aelod o staff yn cael ei ddatblygu o ran rolau arwain a rheoli mewn ysgol fach". Mae'r Pennaeth presennol wedi gallu cydbwyso ymrwymiad dysgu penodol wrth wella perfformiad yr ysgol.

Yn ogystal â'r uchod, daw'r Cyngor i'r casgliad:

- Iaith Gymraeg - Gyda disgyblion yn Ysgol Bodffordd (85%) ac Ysgol Corn Hir (61%) sy'n siarad Cymraeg gartref, mae gan y ddwy Ysgol y potensial i gynnal a datblygu ymhellach y ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg gyfredol.
- Teithio - Mae'r opsiwn amgen rhesymol arall hwn yn annhebygol o newid trefniadau teithio cyfredol disgyblion. Mae disgyblion o Fodffordd sy'n cerdded neu'n beicio i'r ysgol ar hyn o bryd yn debygol o allu parhau i wneud hynny, heb unrhyw newidiadau tebygol i'r ôl troed carbon.
- Capasiti – mae'r opsiwn amgen rhesymol arall yn diwallu'r anghenion capasiti gwreiddiol oedd dan ystyriaeth fel rhan o'r cynnig gwreiddiol ac mae felly'n diwallu'r disgwyliad o gynnydd mewn niferoedd plant i'r dyfodol.
- Canolfan Gymunedol Bodffordd - Ni fyddai unrhyw newid, a byddai'n tawelu unrhyw bryder o golli'r ganolfan gymunedol ar gyfer rhanddeiliaid Ysgol Bodffordd.
- Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) - Yn y Cod, mae Ysgol Bodffordd yn cael ei nodi fel Ysgol Wledig, ac o ganlyniad mae'r Cyngor wedi dilyn cyfres fanylach o weithdrefnau a gofynion wrth lunio'r opsiwn amgen rhesymol arall hwn.

**Mae adrannau 8-12 sy'n dilyn, yn asesu'r effaith ar yr opsiwn amgen rhesymol arall sef "Adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae".**

**Diweddariwyd y dystiolaeth yn adrannau 8-12 a gasglwyd er pwrpas yr asesiadau ar Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) Ionawr 2020.**

## 8. YR OPSIWN AMGEN RHESYMOL ARALL -ASESIAD EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

| **8.1 Cefndir** | |
|---|---|
| **Beth sy'n cael ei asesu?** | Yr opsiwn amgen rhesymol arall sy'n cael ei asesu yw**:"Adeiladu Ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae".** |
| **Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sy'n bodoli eisoes?** | Awgrymwyd yr opsiwn amgen rhesymol arall hwn yn dilyn yr ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd rhwng 6 Chwefror 2020-20 Mawrth 2020. Mae'r cynnig hwn yn cwrdd yn rhannol â'r cynnig gwreiddiol o ddarparu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir, ond nid yw'n arwain at gau Ysgol Bodffordd a symud disgyblion Ysgol Bodffordd i adeilad newydd. |
| **Beth yw nodau a phwrpas y cynnig yma?** | I newid a gwella darpariaeth addysg gynradd yn y rhan hon o Ynys Môn. Nodir y gyrwyr allweddol perthnasol ar gyfer ardal Llangefni isod:<br>▪ Sicrhau fod safonau addysg yn cael eu cynnal a'u gwella ar draws bob ysgol i sicrhau bod bob plentyn yn cyrraedd eu potensial.<br>▪ Sicrhau fod gan ysgolion leoedd digonol ar gyfer y nifer presennol o ddisgyblion ac ar gyfer rhagolygon niferoedd y dyfodol.<br>▪ Sicrhau fod yr amrywiadau yn y gwariant fesul disgybl yn cael eu gwneud yn unol ag yn fwy cyson ar draws yr ysgolion.<br>▪ Sicrhau bod ansawdd ystâd yr ysgolion ar sylfaen cadarn ar gyfer y nifer presennol o ddisgyblion ac ar gyfer y cynnydd yn nifer y disgyblion a ragwelir ar gyfer y dyfodol.<br>▪ Sicrhau bod strwythur arweinyddiaeth a rheolaeth ein hysgolion yn darparu sail gadarn ar gyfer arweinyddiaeth a chynllunio olyniaeth strategol ein hysgolion i'r dyfodol.<br>▪ Sicrhau y gellir cyflawni'r Cwricwlwm i Gymru yn effeithiol.<br>▪ Sicrhau bod y Ddarpariaeth Iaith Gymraeg yn cael ei chynnal neu ei gwella.<br>▪ Sicrhau bod y defnydd cymunedol o adeiladau ysgol a chyfleusterau cysylltiedig yn cael ei gynnal neu ei gynyddu lle bo hynny'n bosibl. |
| **Oes yna gyswllt rhwng y cynnig yma a meysydd gwaith eraill?** | Oes – mae'r cynnig yn rhan o strategaeth moderneiddio ysgolion Cyngor Sir Ynys Môn. |

Tudalen 279

| 8.1 Cefndir | |
|---|---|
| **Pwy fyddai'n cael ei effeithio gan y cynnig/ion (yn negyddol neu'n gadarnhaol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol)?** | Y ddwy ysgol sy'n rhan o'r cynnig, h.y. Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir, byddai'r canlynol yn cael eu heffeithio:<br>Staff, disgyblion, llywodraethwyr, rhieni disgyblion yr ysgol, aelodau o'r gymuned sy'n defnyddio'r ddwy ysgol. |

| 8.2 Casglu gwybodaeth | | |
|---|---|---|
| **A yw'r cynnig yma'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor Sir?** | Ydyw – fe'i hasesir ar wahân yn yr adran Asesiad Effaith Iaith Gymraeg o'r ddogfen hon (Adran 9). | |
| **Oes cyfle yma i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a / neu ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd?** | Os gwireddir yr opsiwn amgen rhesymol arall hwn, bydd lle yn yr adeilad newydd i Ysgol Corn Hir ar gyfer defnydd cumunedol ar gyfer gwersi Cymraeg. Bydd yr Asesiad Effaith Iaith Gymraeg yn penderfynu a fydd mwy o gyfleoedd i ddefnyddio Cymraeg yn ddyddiol. | |
| **A fydd y maes gwaith hwn yn gwneud cynnig rhagweithiol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i ddefnyddwyr?** | Bydd – asesir hwn ar wahân yn adran Asesiad Effaith Iaith y ddogfen hon (Adran 9). | |
| **A fydd y cynnig hwn yn debygol o warchod a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gymuned?** | Bydd gwireddu'r opsiwn amgen rhesymol arall hwn yn amddiffyn ac yn hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymuned lle bydd adeilad newydd arfaethedig Ysgol Corn Hir a'r Ysgol Bodffordd bresennol. | |
| **Oes yna unrhyw faterion Hawliau Dynol? Os oes, beth yw'r materion yma? (**Mae'r 16 hawl sylfaenol wedi'u rhestru yn adran 14 ). | Nac oes. Dim materion Hawliau Dynol wedi ei adnabod. | |
| **A yw'r cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?**<br><br>(Mae disgrifiadau o'r nodau llesiant wedi'u rhestru yn adran 15) | Cymru lewyrchus | Ydyw |
| | Cymru gydnerth | Ydyw |
| | Cymru iachach | Ydyw |
| | Cymru sy'n fwy cyfartal | Ydyw |
| | Cymru o gymunedau cydlynus | Ydyw |
| | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Ydyw |
| | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Ydyw |
| | Asesir hwn hefyd ar wahân yn adran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) y ddogfen hon (Adran 5) | |

| **8.2 Casglu gwybodaeth** | |
|---|---|
| | |
| **Beth sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn o ran cyfranogiad ac ymgynghoriad mewn perthynas â'r cynnig yma?** | Mae'r Cyngor wedi cynnal ymgynghoriadau statudol ac anstatudol gyda rhanddeiliaid Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir ar dri achlysur gwahanol sef Hydref – Tachwedd 2016; Ionawr – Mawrth 2017 a Chwefror – Ebrill 2018.<br>Cynhwyswyd adborth o'r ymgynghoriadau hyn mewn adroddiadau i'r Pwyllgor Gwaith ar 19 Rhagfyr 2016, 17 Gorffennaf 2017 a 30 Ebrill 2018.<br>Paratôdd y Cyngor asesiadau effaith cydraddoldeb, cymunedol ac iaith ar gyfer yr ymgynghoriadau statudol. |
| **Ydych chi wedi defnyddio unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i'r cynnig fel rhan o'ch asesiad? Os hynny, rhowch y manylion yma.** | Do – mae'r wybodaeth ganlynol ynglŷn â'r ysgolion wedi'i gynnwys:<br>Cydbwysedd rhywedd, data Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), ethnigrwydd, iaith a phrydau ysgol am ddim. |
| **Oes yna unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd hyd yma?<br>Os oes, sut fydd y rhain yn cael sylw?** | Nid oes unrhyw fylchau wedi eu hadnabod hyd yma. |

| **A yw'r cynnig yn berthnasol i sut y cydymffurfia'r Awdurdod â dyletswydd gyffredinol y sector cyhoeddus ynglŷn â phwy sydd wedi eu gwarchod dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?** | **Ydyw** | **Nac ydyw** |
|---|---|---|
| **Dileu anffafriaeth ac aflonyddu** | √ | |
| **Gwella cyfleoedd cyfartal** | √ | |
| **Meithrin cysylltiadau da** | √ | |
| **Amddiffyn a hyrwyddo hawliau dynol** | √ | |

## 8.3 Asesu'r effaith debygol ac adnabod camau lliniaru

Wrth ymgymryd â'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb hwn, mae'r Cyngor wedi ystyried effeithiau negyddol, niwtral a chadarnhaol y cynnig newydd a argymellir i "**Adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae"**, ac wedi adnabod beth y gellir ei wneud i leihau neu wella'r effaith.

<table>
<tr><th>Y grŵp a warchodir</th><th>*Yr effaith debygol</th><th>Manylion am yr effaith</th><th>Camau i liniaru effaith negyddol</th></tr>
<tr><td>Oed</td><td>Cadarnhaol</td><td>Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i ddarparu addysg lawn amser i blant a phobl ifanc 5-16 oed.<br><br>Bydd adeilad newydd Ysgol Corn Hir yn gallu derbyn disgyblion yn 3 oed yn rhan amser.<br><br>Gan y bydd Ysgol Bodffordd yn aros fel y mae, ni fydd unrhyw effaith.</td><td>Ni ragwelir unrhyw effaith negyddol.</td></tr>
<tr><td>Anabledd</td><td>Cadarnhaol</td><td>Os gwireddir y cynnig:<ul><li>Bydd adeilad yr Ysgol Corn Hir newydd yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac yn gwbl hygyrch i bob disgybl.</li><li>Bydd disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn parhau i dderbyn cefnogaeth ychwanegol i gwrdd â'u hanghenion addysgol unigol.</li><li>Mae gan adeilad Ysgol Bodffordd rai problemau mynediad i'r anabl a dim ond yn rhannol y maent yn cydymffurfio â'r gofynion a ddisgwylir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.</li></ul></td><td>Byddai cydymffurfio â'r gofynion a ddisgwylir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn cael ei flaenoriaethu os yw plentyn ag anghenion yn mynychu Ysgol Bodffordd.</td></tr>
<tr><td>Rhyw</td><td>Dim effaith</td><td>Mae'r tabl isod yn dangos y rhaniad rhyw gyfredol ( CYBLD 2020 )<table><tr><th>Rhyw</th><th>Bodffordd</th><th>Corn Hir</th></tr><tr><td>Bechgyn</td><td>60%</td><td>53%</td></tr><tr><td>Merched</td><td>40%</td><td>47%</td></tr></table></td><td>Caiff perfformiad bob disgybl ei asesu a'i fonitro gan gynnwys grwpiau penodol megis bechgyn a merched, prydau ysgol am ddim, disgyblion ADY, lleiafrifoedd ethnig, Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY), plant mewn gofal a'r mwy galluog a thalentog. Caiff perfformiad addysgol</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Y grŵp a warchodir</th><th>*Yr effaith debygol</th><th>Manylion am yr effaith</th><th>Camau i liniaru effaith negyddol</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td><td>bechgyn a merched ei fonitro’n gyson i sicrhau nad oes gwahaniaethau mawr rhwng bechgyn a merched a’r grwpiau amrywiol cysylltiedig.</td></tr>
<tr><td>Newid Rhywedd</td><td>Dim effaith</td><td>Nid yw Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) Ionawr 2020 yn cadw data ar yr agwedd hon.<br>Nid oes tystiolaeth weladwy bod gwahaniaethu ar sail newid rhyw yn digwydd.</td><td>Os oes problemau yn codi, ymdrinnir â hwynt yn sensitif.</td></tr>
<tr><td>Priodas neu Bartneriaeth Sifil</td><td>Dim effaith</td><td>Nid yw’n berthnasol i ddisgyblion yr ysgol.</td><td>Nid oes unrhyw dystiolaeth o unrhyw wahaniaethu ar sail priodas/partneriaeth sifil ymysg staff yr ysgol. Os oes problemau’n codi, ymdrinnir â hwynt yn sensitif.</td></tr>
<tr><td>Beichiogrwydd a Mamolaeth</td><td>Dim effaith</td><td>Nid yw’n berthnasol i ddisgyblion yr ysgol.</td><td>Mae gan staff benywaidd sy’n dod yn feichiog hawl i gyfnod mamolaeth yn unol â Chynllun Cyfnod Mamolaeth Cyngor Sir Ynys Môn. Mae gan staff gwrywaidd hawl i gyfnod tadolaeth yn unol â’r Polisi Cyfnod Tadolaeth. Mae staff gwrywaidd a benywaidd hefyd yn gymwys i gael absenoldeb rhiant a rennir yn unol â'r Polisi Absenoldeb Rhiant a Rennir. Nid oes tystiolaeth bod unrhyw wahaniaethu ar sail beichiogrwydd neu gymryd cyfnod tadolaeth yn digwydd ymysg staff yr ysgolion.</td></tr>
<tr><td>Hil</td><td>Dim effaith</td><td>Data CYBLD Ionawr 2020<table><tr><th>Ysgol Bodffordd</th><th>Ysgol Corn Hir</th></tr><tr><td>Gwyn Prydeinig 96.5%</td><td>Gwyn Prydeinig 96.9%</td></tr></table></td><td>Pe byddai disgyblion o gefndiroedd ethnig eraill yn mynychu’r ysgolion, ni fyddant yn cael eu trin yn wahanol ar sail eu tarddiad ethnig. Os byddai aelodau o staff o gefndiroedd ethnig gwahanol yn yr Ysgol Corn Hir newydd, ni fyddent yn cael eu trin yn wahanol ar sail eu tarddiad ethnig.</td></tr>
</table>

| Y grŵp a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| **Crefydd neu Gred** | Dim effaith | Nid yw CYBLD Ionawr 2020 yn cadw data ar yr agwedd hon. | Gall y cynnig ddarparu'r cyfle i wella dealltwriaeth disgyblion o grefydd neu gred o ganlyniad i gynnydd mewn niferoedd disgyblion wrth i ddisgyblion gymysgu â disgyblion eraill o gefndiroedd mwy amrywiol.<br>Dewis y rhieni yw rhannu gwybodaeth ynglŷn â chrefydd neu gred eu plentyn â'r ysgol.<br>Os oes problemau'n codi, ymdrinnir â hwynt yn sensitif. |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | Dim effaith | Nid yw CYBLD Ionawr 2020 yn cadw data ar yr agwedd hon. | Nid oes tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail cyfeiriadedd rhywiol ymysg staff ysgol. Dewis y rhiant yw rhannu gwybodaeth ynglŷn â chyfeiriadedd rhywiol eu plentyn â'r ysgol.<br>Os oes problemau'n codi, ymdrinnir â hwynt yn sensitif. |
| **Hawliau Dynol** | Dim effaith | Nid yw Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) Ionawr 2020 yn cadw data ar yr agwedd hon. | Nid oes tystiolaeth o unrhyw wahaniaethu ar sail hawliau dynol yn digwydd ymysg staff na disgyblion yr ysgol. Os oes problemau'n codi, ymdrinnir â hwynt yn sensitif. |
| **Cymdeithasol - economaidd arall**<br><br>**Ysgolion Bach a Gwledig** | Niwtral | Enwir Ysgol Bodffordd fel ysgol wledig yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).<br>Mae'r adroddiad thematig "Ysgolion Bach yng Nghymru (2006)" gan Estyn yn nodi nad oes gwir wahaniaeth rhwng safonau addysg mewn ysgolion bach a mawr, ond "gall fod yn anoddach i athrawon mewn ysgolion llai i gydweddu'r gwaith gydag anghenion y disgyblion gan y gall disgyblion mewn dosbarth amrywio'n fawr o ran oedran a chamau datblygiad".<br>Mae hyn yn berthnasol i ysgolion bychain. Mae gwytnwch o ran staffio wedi gwella yn yr ysgolion mwy ym Môn. | Mae'r Cyngor yn cydnabod fod gan ysgolion gwledig ran allweddol i'w chwarae mewn cyfrannu at y gymuned, defnydd o'r iaith Gymraeg a ffordd o fyw. Mae gan ysgolion mwy hefyd ran allweddol i'w chwarae o ran yr agwedd hon.<br>Ymateb Pennaeth Ysgol Bodffordd i'r ymgynghoriad statudol oedd "Does dim gwadu bod yna lawer o bwysau o ran arweinyddiaeth a dysgu ar ysgolion pentref / gwledig bach, ond mae yna lawer o ffactorau cadarnhaol pwysig sy'n ei gwneud hi'n swydd ddiddorol sy'n miniogi'r meddwl. - mae amrywiaeth yng ngwaith y staff, mae'r gofynion a'r disgwyliadau |

Tudalen 284

| Y grŵp a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| | | | yn heriol ac yn amrywiol, mae pob aelod o staff yn cael ei ddatblygu o ran rolau arwain a rheoli mewn ysgol fach. "<br>Mae'r Pennaeth presennol wedi gallu cydbwyso ymrwymiad dysgu penodol wrth wella perfformiad yr ysgol. |
| **Cymdeithasol-economaidd arall**<br>**Y nifer o ddisgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim.** | Cadarnhaol | Byddai'n darparu cyfleoedd cynyddol i ddisgyblion y ddwy ysgol ac yn arbennig i ddisgyblion Ysgol Corn Hir fanteisio ar yr adnoddau a'r ddarpariaeth yn yr adeilad newydd.<br><br>Ffigyrau Prydau Ysgol am Ddim CYBLD 2020<br>**Bodffordd**: 10 disgybl neu 15%<br>**Corn Hir**: 17 disgybl neu 7%<br><br>Ar hyn o bryd, mae 16% o ddisgyblion yn ysgolion cynradd Môn â hawl i brydau ysgol am ddim. | Bydd y system ddi-arian ar gyfer prydau ysgol, sy'n atal unrhyw stigma posibl sy'n gysylltiedig â disgyblion yn cael pryd ysgol am ddim, yn parhau yn y ddwy ysgol.<br>Mae perfformiad y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYD) yn rhagorol yn y ddwy ysgol a byddai disgwyl i hyn barhau. |
| **Cymdeithasol-economaidd arall**<br>**Cyfranogiad plant llai breintiedig mewn gweithgareddau ar ôl ysgol.** | Cadarnhaol | Potensial i ddarparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion Ysgol Corn Hir fanteisio ar weithgareddau ar ôl ysgol yn adeilad newydd yr ysgol. | Disgwylir i'r ddwy ysgol gario ymlaen gyda'r ddarpariaeth bresennol o ran clybiau. Yng nghyd-destun gweithgareddau allgyrsiol, bydd pob disgybl, beth bynnag fo'u cefndir, yn cael eu hannog i gymryd rhan, a disgwylir i'r ysgol wneud trefniadau addas i alluogi disgyblion llai breintiedig i gymryd rhan. Bydd y trefniadau hyn yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, gynnal y clybiau yn ystod amser cinio, trefniadau â rhieni i godi eu plant neu drefniadau cludiant, a darparu cludiant ar ôl ysgol. |
| **Arall - ymatebion yn ystod yr ymgynghoriad** | Cadarnhaol | Y risg o staff Ysgol Bodffordd golli eu swydd | Gan y bydd Ysgol Bodffordd yn aros ar agor os cymeradwyir yr opsiwn amgen rhesymol arall, |

| Y grŵp a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| | | Iechyd a diogelwch a lles:<br>• Staff a disgyblion cyfredol Ysgol Hir Corn oherwydd gorlenwi ar y safle presennol<br>• Iechyd meddwl disgyblion Ysgol Bodffordd os yw Ysgol Bodffordd yn cau.<br>(Ymatebodd 9% yr uchod mewn ymateb i'r ymgynghoriad). | ni fydd unrhyw risg i staff Ysgol Bodffordd golli eu swyddi.<br><br>Mae'r opsiwn amgen rhesymol arall yn darparu adeilad newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a fydd â digon o le ac a fydd yn addas at y diben.<br>Bydd cadw Ysgol Bodffordd ar agor yn lliniaru yn erbyn unrhyw faterion iechyd meddwl posib y mae disgyblion Ysgol Bodffordd yn eu dioddef. |

| | |
|---|---|
| Effaith gyfunol ar gydraddoldeb | **+5 Cadarnhaol** |

**Casgliad –Byddai'r opsiwn amgen rhesymol arall i "Adeiladu Ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae" yn cael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb.**

Asesir yr effaith bosib a gaiff y cynnig ar yr iaith Gymraeg ar wahân yn yr Asesiad Effaith Iaith Gymraeg (Adran 9).

| 8.4 Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| **Nodwch sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol a amlygir uchod.** | Yr opsiwn amgen rhesymol arall yw: "Adeiladu Ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae".<br><br>Ni ragwelir unrhyw effeithiau negyddol. |
| **Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nac eu lliniaru?** | Nid oes effeithiau negyddol o'r asesiad hwn na ellir eu lliniaru. |
| **Disgrifiwch unrhyw weithredu a wnaed neu a fwriedir i wneud y mwyaf o'r cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb a/neu nodau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (cynaliadwyedd).**<br>(Rhestrir y saith nod llesiant yn Adran 15)<br><br>Asesir sut y bydd y cynnig yn cyfrannu at y 7 Nod Llesiant ymhellach ymlaen yn y ddogfen (Adran 11). | **Cymru lewyrchus** – Pe gwireddid yr opsiwn amgen rhesymol arall i "Adeiladu Ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae"., byddai'n arwain at leihad mewn defnydd o ynni yn yr adeilad a lleihad mewn allyriadau carbon deuocsid. Bydd yr addysg a dderbynnir gan y disgyblion yn cynorthwyo i ddatblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig ar gyfer y dyfodol.<br>**Cymru sy'n fwy cyfartal** – Bydd adeilad yr Ysgol Corn Hir newydd yn addas i bwrpas a bydd yn sicrhau bod gallu a photensial bob disgybl i lwyddo'n cael ei wireddu.<br>**Cymru o gymunedau cydlynus** – Mae gan y cynnig y potensial i ffurfio cymuned newydd wedi'i lleoli o amgylch Bodffordd a dalgylch Corn Hir.<br>**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** – Bydd yr adeilad newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir yn cael ei adeiladu i safonau BREAAM ac yn cynnwys nifer o fentrau arbed ynni. Defnyddir hwn a rhannau penodol o'r cwricwlwm i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o fyw a thyfu mewn Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.<br>**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** – Bydd yr opsiwn amgen rhesymol arall hwn o leiaf yn cynnal darpariaeth cyfrwng Gymraeg yn yr ardal.<br><br>Bydd y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn cydweithredu â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned, a chyfrannu tuag at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.<br>Mae'r Gwasanaeth Dysgu yn adrodd bob chwarter i Fforwm Iaith y Sir ar ddefnyddio Cymraeg yn ysgolion y Cyngor ac mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) y Cyngor yn cael ei fonitro bob chwarter gan Fforwm Iaith y Sir. |

| | |
|---|---|
| | Bydd gan yr adeilad / safle newydd arfaethedig Ysgol Corn Hir Ardal Gemau Aml - ddefnydd (MUGA) a fydd yn annog cyfranogiad mewn chwaraeon a hamdden. |
| **A oes angen ail-ystyried yr opsiwn rhesymol arall o ganlyniad i gynnal yr asesiad yma?** | Na. Mae'r opsiwn amgen rhesymol arall hwn i "Adeiladu Ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae" , bellach yn cael ei argymell i'r Pwyllgor Gwaith. |
| **A fydd y cynnig yn cael ei fabwysiadu / anfon ymlaen am gymeradwyaeth? Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad?** | Adroddir ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad statudol ynghyd ag argymhelliad i'r Pwyllgor gwaith i gymeradwyo'r opsiwn amgen rhesymol arall i "Adeiladu Ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae".<br><br>Penderfyniad y Pwyllgor gwaith fydd cymeradwyo'r cynnig hwn yn lle'r cynnig gwreiddiol ai peidio. |
| **Oes yna drefniadau monitro mewn lle? Beth yw'r trefniadau hynny?** | Oes – bydd y paramedrau canlynol yn parhau i gael eu monitro:<br>Oedran disgyblion; cydbwysedd rhyw'r disgyblion; data hil/ethnigrwydd/ cenedligrwydd; yr iaith a siaredir gan ddisgyblion; % o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim.<br><br>Rhoddir ystyriaeth hefyd i fonitro'r data canlynol:<br>Canran o ddisgyblion sydd ar Ddatganiad Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).<br>Canran o ddisgyblion sydd wedi nodi anawsterau corfforol.<br>Canran o staff sydd wedi datgan anabledd.<br><br>Bydd y cynnig i "Adeiladu Ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae", yn parhau i gael ei asesu am effaith wrth iddo ddatblygu. Os caidd ei gymeradwyo, defnyddir prosesau monitro i sicrhau bod yr effaith wirioneddol yn cyd-fynd â'r effaith a ragwelwyd a bod y camau perthnasol wedi'u rhoi ar waith. Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, sefydlir grŵp monitro i fonitro ac asesu effaith y cynnig gan ddefnyddio'r paramedrau a restrir uchod, bob 6 mis o bosibl. Yna bydd y data'n cael ei fwydo i ddata monitro'r Gwasanaeth Dysgu. |

## 9. YR OPSIWN AMGEN RHESYMOL ARALL- ASESIAD EFFAITH IAITH GYMRAEG

Nid yw'r gwaith o hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg wedi'i gynnwys yn Neddf Cydraddoldeb 2010 gan fod yr agwedd hon yn dod o dan y gofynion a nodir ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. O dan y Mesur, rhaid i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Egwyddorion sylfaenol y Safonau yw na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ac y dylid hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, gan ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd.

Mae'r Safonau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus "sicrhau bod craffu mewnol yn digwydd yn ystod y broses gyda phwyntiau her cyson ar lefel rheoli". Mae uwch swyddogion, gan gynnwys swyddogion cyfreithiol, yn craffu ar ddogfennau fel yr Asesiad hwn a'r holl ddogfennau a gyflwynir i'r Pwyllgor Gwaith. Fodd bynnag, trafodir yr Adroddiad Ymgynghori a'r Asesiad Effaith gan Bwyllgor Sgriwtini Corfforaethol y Cyngor cyn i'r penderfyniad terfynol gael ei wneud gan y Pwyllgor Gwaith. Prif Weithredwr y Cyngor yw arweinydd strategol y Cyngor ar y Gymraeg.

| | |
|---|---|
| **Beth sy'n cael ei asesu?** | Y cynnig sy'n cael ei asesu yw:"**Adeiladu Ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae".** |

| **9.1 Cydymffurfio â'r Polisi Iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| A yw'r cynnig arfaethedig yn ddylanwadol o ran delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg?<br><br>A fydd gweithgareddau megis gohebu drwy lythyr, cyfathrebu dros y ffôn, cyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd eraill yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br>A fydd unrhyw ddatblygiad Technoleg Gwybodaeth ( TG) newydd yn cydymffurfio â'r polisi? | Ydyw, effaith gadarnhaol - gweler isod.<br><br>Bydd – bydd yr holl ohebiaeth a chyfathrebiadau yn parhau i gydymffurfio â'r Polisi Iaith Gymraeg.<br><br>Bydd – bydd unrhyw TG newydd yn cael ei ddatblygu yn unol â disgwyliadau 'r Polisi Iaith Gymraeg. |
| A yw'r cynnig yn debygol o effeithio ar wyneb cyhoeddus y sefydliad? | Gweler isod. |

| 9.1 Cydymffurfio â'r Polisi Iaith Gymraeg | |
|---|---|
| A fydd unrhyw arwyddion yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br>A fydd unrhyw gyhoeddiadau a ffurflenni yn cydymffurfio?<br>A fydd unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ymgyrchoedd marchnata yn cydymffurfio?<br>A fydd hysbysebion recriwtio staff yn cydymffurfio? | Bydd – bydd pob arwydd yn parhau i gydymffurfio â'r polisi iaith.<br>Bydd – bydd cyhoeddiadau a ffurflenni yn cydymffurfio.<br>Bydd – bydd unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd ac ymgyrchoedd marchnata yn cydymffurfio.<br>Bydd – bydd hysbysebion recriwtio staff yn cydymffurfio. |
| A yw'r cynnig yn debygol o gael effaith ar weithrediad y polisi iaith?<br><br>A fydd y cynnig yn creu swyddi newydd?<br><br>A fydd y trefniadau staffio yn hwyluso gweithrediad y polisi iaith?<br><br>A fydd unrhyw hyfforddiant yn cael ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg?<br><br>A fydd unrhyw drefniadau gyda thrydydd parti yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br><br>A fydd y cynnig yn cynnwys unrhyw dargedau neu ddangosyddion ynglŷn â'r Gymraeg?<br><br>Sut caiff cyrhaeddiad ei fonitro a'i fesur? | Gweler isod.<br><br>Bydd unrhyw swyddi addysgu newydd yn cael eu creu yn unol â'r strwythur staffio a ddatblygir gan gorff llywodraethu priodol. Os cymeradwyir yr opsiwn amgen rhesymol arall bydd gan adeilad newydd Ysgol Corn Hir fwy o gapasiti, a allai ddenu mwy o ddisgyblion ac yn ei dro gynyddu'r gofynion staffio y bydd gofyn iddynt fod yn siaradwyr Cymraeg.<br><br>Bydd – bydd unrhyw staff newydd a benodir yn siaradwyr Cymraeg yn unol â'r polisi iaith .<br><br>Bydd – bydd staff newydd yn cael eu hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Bydd - bydd trefniadau â thrydydd parti yn cydymffurfio â'r polisi iaith.<br><br>Bydd - y ganran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r lefel disgwyliedig yn y Gymraeg ar ddiwedd cyfnodau allweddol a'r ganran o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg adref.<br><br>Gyda data a gesglir gan y Gwasanaeth Addysg yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. Cesglir data arall megis y ganran o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref fel rhan o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a gynhelir bob mis Ionawr. |

| 9.1 Cydymffurfio â'r Polisi Iaith Gymraeg | |
|---|---|
| | Hefyd monitro bob chwe mis gan y gwasanaeth trawsnewid a bwydo data i Fforwm Iaith y Cyngor Sir yn unol â monitro'r polisi iaith Gymraeg gan y Cyngor. |

| 9.2 - Effaith ar ddefnyddwyr iaith Gymraeg | |
|---|---|
| A fydd y maes gwaith yma'n cynnig dewis iaith i ddefnyddwyr?<br><br>A fydd modd i ddefnyddwyr ddewis unrhyw elfen o'r gwasanaeth yn Gymraeg? | Bydd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir yn parhau i fod yn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Ni fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>Bydd y gwasanaeth cyfan ar gael yn Gymraeg – fodd bynnag, bydd disgyblion yn cael dysgu rhai pynciau trwy gyfrwng y Saesneg.e.e gwersi Saesneg. |
| Oes perygl i'r cynnig gam wahaniaethu yn erbyn defnyddwyr Cymraeg?<br><br>A yw anghenion siaradwyr Cymraeg wedi'i gynllunio mewn i'r cynnig?<br>A yw siaradwyr Cymraeg yn debygol o dderbyn yr un safon o wasanaeth a'r hyn a dderbynnir yn Saesneg?<br><br>A yw trefniadau iaith Gymraeg yn debygol o arwain at oedi yn y gwasanaeth? | Na – bydd yr Ysgol Corn Hir newydd yn cydymffurfio â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor.<br><br>Ydyw – anghenion disgyblion sy'n siarad Cymraeg yw un o'r gyrwyr allweddol ar gyfer y cynnig hwn.<br><br>Ydyw – darperir yr un safon o wasanaeth i bob disgybl.<br><br>Na – ni fydd trefniadau iaith Gymraeg yn arwain at oediad yn y gwasanaeth. |
| A fydd y cynnig yn debygol o wneud y Gymraeg yn fwy gweledol?<br><br>A yw'n debygol o gynyddu defnydd drwy gynhyrchu deunyddiau ac arwyddion Cymraeg? | Bydd – gweler isod.<br><br>Ydyw - bydd arwyddion yn yr adeilad ysgol newydd arfaethedig ar gyfer Ysgol Corn Hir yn cydymffurfio â'r polisi iaith. Bydd y ddwy |

Tudalen 291

| 9.2 - Effaith ar ddefnyddwyr iaith Gymraeg | |
|---|---|
| A yw'n debygol o ddylanwadu ar eraill i wneud mwy o ddefnydd gweledol o'r Gymraeg ee busnesau? | ysgol yn parhau i hyrwyddo ac annog defnyddio'r Gymraeg a byddant yn defnyddio deunyddiau Cymraeg.<br><br>Ydyw – bydd gwireddu'r polisi yn sicrhau y gwelir arwyddion dwyieithog gan lawer yn yr ardal. |
| A fydd y gwasanaeth Cymraeg ynghlwm â'r cynnig yn hygyrch?<br><br>A fydd gwasanaeth yr un mor hawdd i'w gael yn Gymraeg nag ydyw yn Saesneg?<br><br>A fydd gwasanaethau ar gael yr un pryd? | Bydd – gweler isod.<br><br>Bydd – bydd disgyblion yn derbyn addysg yn y Cymraeg a'r Saesneg. Bydd gwasanaethau eraill sy'n ymwneud â'r cynnig ar gael yn ddwyieithog e.e. gofal plant.<br><br>Byddant – bydd plant yn derbyn addysg gan staff dwyieithog. |

| 9.3 – Effaith ar Gymunedau Cymraeg | |
|---|---|
| A yw'r maes gwaith yma'n cynnig camau fydd yn debygol o ddiogelu'r Gymraeg mewn cymunedau? | Ydyw - yng nghymuned Bodffordd gan mai'r cynnig yw cadw'r ysgol ar agor, ac yn ardal Corn Hir lle mai'r cynnig yw symud disgyblion Ysgol Corn Hir i adeilad newydd oddeutu 0.3 milltir o adeilad presennol yr ysgol. |
| A yw'n debygol o gyfrannu tuag at ymdrechion i ddelio gyda heriau newid demograffeg a mudo - fel cynnig cyfleoedd i bobl ifanc aros yn eu cymunedau? | Ydyw - bydd y cynnig yn parhau i ddarparu lleoedd digonol i ddisgyblion presennol yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir a hefyd yn darparu lleoedd digonol i ddisgyblion sy'n dod o ddatblygiadau tai newydd yn y dalgylch. |
| A yw'n debygol o gyfrannu tuag at yr economi leol mewn cymunedau Cymraeg? | Ydyw – gallai ddarparu mwy o swyddi yn adeilad newydd Ysgol Corn Hir gan y bydd ei chapasiti yn cynyddu o'i gymharu ag adeilad presennol yr ysgol.<br><br>Ydyw - mae'r cynnig hefyd yn cynnwys uned Feithrin ar gyfer plant oed cyn -ysgol yn yr adeilad newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir. |

| 9.3 – Effaith ar Gymunedau Cymraeg | |
|---|---|
| A fydd yn darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg – megis gwarchod plant? | Mae gan Ysgol Bodffordd ddarpariaeth feithrin eisoes a fydd yn parhau. |
| A yw'r cynnig yn cymryd camau i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg?<br><br>A yw'r cynnig yn cyfrannu at fywyd cymdeithasol cyfrwng Cymraeg?<br><br>A yw'n cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i oriau'r ysgol?<br><br>A yw'n darparu gwasanaeth newydd fydd hefyd ar gael yn Gymraeg? Ee darpariaeth neu weithgaredd hamdden neu chwaraeon?<br><br>A yw'n cyfrannu neu'n ychwanegu gwerth at weithgareddau eraill yn y maes iaith - ee gwaith y Fenter Iaith Leol, yr Urdd ayyb? | Ydyw – gweler isod.<br><br>Ydyw - os gwireddir y cynnig, bydd gweithgareddau cymunedol cyfrwng Cymraeg yn parhau yn adeilad newydd i Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd.<br><br>Ydyw - bydd yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg mewn clybiau ar ôl ysgol yn y ddwy ysgol. Efallai y bydd cyfleoedd yn adeilad newydd Ysgol Corn Hir i ddarparu cyfleoedd ychwanegol y tu allan i oriau ysgol oherwydd y cynnydd yn ei maint.<br><br>Ydyw - bydd gwireddu'r cynnig hwn yn darparu Ardal Gemau Aml -ddefnydd (MUGA) i'w defnyddio gan ddisgyblion a'r gymuned.<br><br>Ydyw – os gwireddir y cynnig, bydd gweithgareddau Urdd yn parhau yn y ddwy ysgol. |

| 9.4 - Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisïau iaith, strategaethau a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg | |
|---|---|
| Polisïau iaith mudiadau partner neu gyrff cyhoeddus cyfagos:<br><br>A yw'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth ar y cynnig?<br><br>Pa sefydliadau eraill sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y datblygiad? | <br><br>Ydyw – Llywodraeth Cymru a fydd yn cyllido'r prosiect yn rhannol.<br><br>Llywodraeth Cymru. |

| **9.4 - Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisïau iaith, strategaethau a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| Oes gan y sefydliadau hynny safonau iaith neu bolisïau iaith?<br><br>A yw'r cynnig yn cyfrannu at yr uchod? | Oes – mae gan Lywodraeth Cymru ei safonau neu bolisïau iaith Gymraeg ei hun.<br><br>Ydyw – bydd y cynnig hefyd yn cydymffurfio â gofynion Llywodraeth Cymru. |
| Strategaethau iaith Gymraeg perthnasol:<br>A fydd y cynnig yn cyfrannu tuag at Strategaeth Iaith Gymraeg 2016 – 2021 Fforwm Strategol Iaith Ynys Môn<br><br>Sut mae'r cynnig yn cyfrannu tuag at weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050? | Mae'r cynnig yn cyfrannu at yr adrannau canlynol o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Ynys Môn 2017-2020 yn y ffyrdd canlynol:<br>**Deilliant 1** – Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg<br>**Deilliant 2** – Sicrhau bod cynigion Ysgolion 21ain Ganrif yn cryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg.<br>Drwy gael Uned Gofal Plant a fydd yn darparu gofal cofleidiol i blant cyn -ysgol ,byddai'n darparu sylfaen gadarn i'r plant yno cyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol gynradd newydd. Felly byddai'n cyfrannu at gynyddu'r nifer o blant saith oed a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai'n cyfrannu at gyflawni Deilliant 1 uchod.<br>Drwy weithredu'r strategaeth Blynyddoedd Cynnar a thrwy gyflawni cynllun moderneiddio ysgolion y Sir, bydd yn helpu i sicrhau bod cynigion Ysgolion 21ain Ganrif yn rhoi ystyriaeth lawn i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer hyd at 11 oed.<br>Mae polisi iaith newydd y Cyngor yn cyfeirio at yr amcan i gynyddu'r gyfran o ddisgyblion sy'n cwrdd â thargedau Cymraeg fel Iaith Gyntaf yn y Cyfnod Sylfaen hyd at ddiwedd eu hamser yn yr ysgol. Bwriedir defnyddio model gofal plant fel yr un dan ystyriaeth yn y prosiect hwn i gynyddu capasiti gofal plant cyfrwng Cymraeg ym Môn.<br><br>Mae gan y model partneriaeth gofal plant y potensial i gyfrannu'n allweddol at uchelgais Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. |

**NODER** - Nid yw unrhyw un o'r ysgolion yn cynnig gwersi Cymraeg i'r gymuned - mae'n debyg iawn bod hyn oherwydd nad oes llawer o alw am wersi Cymraeg yn yr ardal gan fod dros 75% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag, mae gan y ddwy ysgol gyfleuster i gynnig gwersi Cymraeg a byddai gan yr adeilad newydd Ysgol Corn Hir ystafell gymunedol y gellir ei defnyddio ar gyfer gwersi Cymraeg neu ar gyfer unrhyw weithgaredd arall a gynhelir drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg**
Mae Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir yn gyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd. Felly, ni fydd unrhyw newid yn y categori iaith os bydd y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r opsiwn amgen rhesymol arall i: "Adeiladu Ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae".

Byddai gwireddu'r y cynnig yn cefnogi Deilliannau 1, 2 a 5 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020 y Cyngor (a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ym Mawrth 2018):
**Deilliant 1:** Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
**Deilliant 2:** Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.
**Deilliant 5:** Mwy o ddisgyblion a myfyrwyr gyda sgiliau uwch yn y Gymraeg.

Mae'r Gwasanaeth Addysg yn adrodd yn chwarterol i Fforwm Iaith y Cyngor Sir ar ddefnydd o'r iaith Gymraeg yn ysgolion y Cyngor. Mae Fforwm Iaith y Cyngor Sir yn monitro Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) y Cyngor yn chwarterol.



**9.5 Effaith bosib y cynnig ar yr iaith Gymraeg**

| **Meini Prawf Iaith** | **Arsylwadau** | **Effaith** Negyddol/ Niwtral/ Cadarnhaol | **Mesurau Lliniaru** |
|---|---|---|---|
| Yr iaith a siaredir yn y cartref | Siaradwyr Cymraeg rhugl yn y cartref (pob oedran):<br>• Ysgol Bodffordd – 76%<br>• Ysgol Corn Hir – 52%<br>Data (CYBLD Ion 2020) | Cadarnhaol | Bydd yr opsiwn amgen rhesymol arall i "Adeiladu Ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae", yn cyfrannu at ddiogelu nifer sy'n siarad Cymraeg gartref. |

| Meini Prawf Iaith | Arsylwadau | Effaith<br>Negyddol/<br>Niwtral/<br>Cadarnhaol | Mesurau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| Categori iaith yr ysgolion presennol | Bodffordd – Cymraeg<br>Corn Hir – Cymraeg | Cadarnhaol | Mae'r ddwy ysgol yn gyfrwng Cymraeg.<br>Fodd bynnag, bydd datblygu disgyblion dwyieithog yn ffocws parhaol ac arwyddocaol yn y Cynllun Gweithredu Ysgol.<br>• Gall trefniadau dosbarth dargedu datblygiad anghenion iaith penodol y garfan.<br>• Wrth dracio disgyblion, bydd eu cynnydd wrth ddatblygu dwyieithrwydd yn cael ei ystyried.<br>• Bydd adroddiad y Pennaeth i'r llywodraethwyr yn cynnwys canrannau'r disgyblion ym mhob carfan iaith.<br>• Cynnydd ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol<br>• Cynnydd o ran y Siarter Iaith<br><br>Bydd yn flaenoriaeth i'r Cyngor gryfhau a diogelu'r iaith Gymraeg ac addysg ddwyieithog. |
| Defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned | Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae 57% o bobl Môn yn siarad Cymraeg. Mae'r ganran wedi lleihau dros y degawdau diwethaf – roedd 62% o bobl Môn yn gallu siarad Cymraeg yn 1981. | Cadarnhaol | Angen hybu defnydd o'r Gymraeg (Asesiad Lles Ynys Môn 2017). Bydd addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn cynorthwyo i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned.<br>Bydd y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn cydweithio â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn i hybu defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned, ac i gyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.<br>Mae'r Adran Addysg yn adrodd yn chwarterol i Fforwm Iaith y Sir ar ddefnydd o'r Gymraeg yn ysgolion y Cyngor |

<table>
<tr><th>Meini Prawf Iaith</th><th>Arsylwadau</th><th>Effaith<br>Negyddol/<br>Niwtral/<br>Cadarnhaol</th><th>Mesurau Lliniaru</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td><td>a chaiff Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) ei fonitro’n chwarterol gan Fforwm Iaith y Cyngor Sir.<br><br>Bydd gan yr adeilad newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir ystafell bwrpasol ar gyfer defnydd cymunedol lle gellir annog defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.</td></tr>
<tr><td>Cyfrwng iaith disgyblion ar yr iard, yn y clwb brecwast ac mewn clybiau ar ôl ysgol</td><td>Cyfrwng iaith disgyblion ar yr iard, yn y clwb brecwast ac mewn clybiau ar ôl ysgol yw dwyieithog.</td><td>Niwtral</td><td>Ni fydd unrhyw newid yn Ysgol Bodffordd nac Ysgol Corn Hir. Yn adeilad newydd arfaethedig Ysgol Corn Hir, gellid gwella hyn trwy ddarparu mwy o le i chwarae a chynllunio chwarae strwythuredig ar yr iard. Bydd y ddwy ysgol yn parhau i hyrwyddo ac annog defnyddio'r Gymraeg a byddant yn hyrwyddo'r defnydd anffurfiol o'r iaith gan y disgyblion.</td></tr>
<tr><td>Ymglymiad yr ysgol mewn gweithgareddau cyfrwng Cymraeg</td><td>Mae’r ddwy ysgol wedi’u hymrwymo mewn gweithgareddau cyfrwng Cymraeg.</td><td>Niwtral</td><td>Bydd hyn yn parhau yn y ddwy ysgol.</td></tr>
<tr><td>Gallu staff addysgu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg</td><td><table><tr><th>Bodffordd</th><th>Corn Hir</th></tr><tr><td>Mae pob aelod o staff addysgu yn rhugl yn y Gymraeg</td><td>Mae pob aelod o staff addysgu yn rhugl yn y Gymraeg</td></tr></table>CYBLD 2020</td><td>Niwtral</td><td>Mae Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir yn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, ac ni fydd unrhyw newid yn statws ieithyddol yr Ysgol Corn Hir newydd .</td></tr>
<tr><td>Gallu Llywodraethwyr i siarad Cymraeg</td><td><table><tr><th>Bodffordd</th><th>Corn Hir</th></tr></table></td><td>Niwtral</td><td>Mae'r ddwy set o Lywodraethwyr yn rhugl yn y Gymraeg ac felly ni fydd unrhyw newid yn natur ieithyddol y Llywodraethwyr gan y bydd y ddwy ysgol yn parhau i</td></tr>
</table>

| **Meini Prawf Iaith** | **Arsylwadau** | **Effaith**<br>Negyddol/<br>Niwtral/<br>Cadarnhaol | **Mesurau Lliniaru** |
|---|---|---|---|
| | Mae pob Llywodraethwr yn rhugl yn y Gymraeg (8 allan o 8) \| Mae pob Llywodraethwr yn rhugl yn y Gymraeg (12 allan o 12)<br>CYBLD 2020 | | weithredu. Cynhelir cyfarfodydd llywodraethwyr hefyd trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. |
| Pryderon /adborth a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol | Mewn ymateb i gais y Cyngor i randdeiliaid gyflwyno unrhyw fater arall y dylai'r Cyngor ei ystyried cyn dod i benderfyniad mynegodd 22% eu pryder am yr effaith ar yr Iaith Gymraeg ym Modffordd pe bai Ysgol Bodffordd yn cau.<br><br>Dyma rai sylwadau y rhanddeiliaid isod:<br>• Bydd Bodffordd ar ei cholled .Plant sydd yn rhoi bywyd i'n pentrefi. Mae Bodffordd yn bentref sydd yn un o gadarn leoedd yr iaith Gymraeg hefyd.<br>• Bydd effaith ar yr iaith Gymraeg yn y pentref gan fydd y plant yn cymysgu mwy gyda plant y dref.<br>• Mae cadw ysgolion gwledig Cymru ar agor yn cadw'r iaith yn fyw.<br>• Rhaid gwarchod pentrefi gwledig Cymreig. Sut mae hyn yn cyd-fynd â sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050? | Cadarnhaol | Tra bod yr asesiad gwreiddiol yn nodi effaith gadarnhaol o safbwynt iaith, ymddengys fod yr ymatebion i'r asesiad effaith yn anghytuno gyda'r asesiad hynny.<br><br>Mae ymdeimlad cryf o'r pryder ar yr effaith ar yr Iaith Gymraeg ym Modffordd pe bai Ysgol Bodffordd yn cau yn cael eu mynegi.<br><br>Gan mai'r opsiwn amgen rhesymol arall i gadw Ysgol Bodffordd ar agor bellach sydd yn cael ei ystyried, dylai'r teimlad negyddol o effaith andwyol ar y Gymraeg leihau. |

| Meini Prawf Iaith | Arsylwadau | **Effaith**<br>Negyddol/<br>Niwtral/<br>Cadarnhaol | Mesurau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| | Effaith gyfunol ar yr iaith Gymraeg | **+4**<br>**Cadarnhaol** | |

**Casgliad – byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg.**

## 10. YR OPSIWN AMGEN RHESYMOL ARALL - ASESIAD EFFAITH GYMUNEDOL

| **Beth sy'n cael ei asesu?** | Y cynnig sy'n cael ei asesu yw:"**Adeiladu Ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae".** |
|---|---|

| **Meini Prawf** | **Arsylwadau** | **Effaith** Negyddol/ Niwtral/ Cadarnhaol | **Mesurau Lliniaru** |
|---|---|---|---|
| Disgyblion sy'n mynychu'r ysgol o du allan i'r dalgylch | Yn Hydref 2019: Roedd gan Ysgol Bodffordd 69 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac roedd 41 ohonynt yn mynychuo fewn y dalgylch (59%).<br><br>Roedd 10 % nad ydynt o ddalgylch Ysgol Bodffordd o ddalgylch Ysgol Corn Hir [7 disgybl].<br><br>Yn Hydref 2019: Roedd gan Ysgol Corn Hir 230 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac roedd 166 ohonynt yn mynychu o fewn y dalgylch (72%).<br><br>• Roedd 3% nad ydynt o ddalgylch Ysgol Corn Hir o ddalgylch Ysgol Bodffordd [6 disgybl]. | Cadarnhaol | Os cymeradwyir yr opsiwn amgen rhesymol arall i"Adeiladu Ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae", ni fyddai unrhyw newidiadau a ragwelir i'r sefyllfa bresennol yn Ysgol Bodffordd.<br><br>Gan y byddai'r safle adeiladu newydd arfaethedig ar gyfer Ysgol Corn Hir oddeutu 0.3 milltir o'r safle presennol, ni fyddai unrhyw effaith ar symudiad plant ar draws dalgylchoedd.<br><br>Oherwydd y gorgapasiti yn yr Ysgol Corn Hir bresennol, os na ddarperir adeilad newydd gyda mwy o gapasiti, byddai'n rhaid cludo plant o ddalgylch Corn Hir i ysgolion eraill y tu allan i'r dalgylch am gost uwch i'r Cyngor. |
| Gwasanaethau a ddarperir i'r gymuned gan yr ysgol gan | Mae'r ddwy ysgol yn darparu nifer o weithgareddau a gwasanaethau. Rhagwelir y byddai'r ddarpariaeth hon yn | Cadarnhaol | Byddai'r gwasanaethau a ddarperir gan Ysgol Bodffordd a Chanolfan Gymunedol Bodffordd yn parhau.<br>Wrth i Ysgol Corn Hir gael ei hadleoli, bydd gweithgareddau a gwasanaethau a ddarperir o'r ysgol yn cael eu darparu yn |

| Meini Prawf | Arsylwadau | **Effaith** Negyddol/ Niwtral/ Cadarnhaol | Mesurau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| gynnwys gweithgareddau allgyrsiol | parhau. Rhagwelir y bydd defnydd cymunedol o'r Ysgol Corn Hir newydd. | | adeilad newydd Ysgol Corn Hir a fydd yn cynnwys mwy o le a chyfleusterau gwell. |
| Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol | Defnyddir capel neu eglwys leol gan y ddwy ysgol ac os byddai'r Ysgol Corn Hir newydd yn cael ei hadeiladu, byddai ei chynulleidfaoedd yn parhau i ddefnyddio'r addoldai hynny. | Negyddol | Bydd Ysgol Bodffordd yn parhau i ddefnyddio cyfleusterau cymunedol, ond mae'n annhebygol y bydd Ysgol Corn Hir yn defnyddio Capel Moreia ar gyfer gwasanaethau a chyngherddau Nadolig yn y dyfodol, oherwydd bydd gan adeilad newydd Ysgol Corn Hir ddigon o le i ddarparu ar gyfer y gweithgareddau hynny. |
| Cyfleusterau cymunedol a ddarperir gan yr ysgol a gweithgareddau a gynhelir ar dir yr ysgol | Gan mai ysgolion cymunedol yw Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir, mae'r gymuned yn gwneud cryn dipyn o ddefnydd o'r adeiladau a thir yr ysgolion. | Cadarnhaol | Bydd cymuned Bodffordd yn gallu parhau i ddefnyddio adeilad Ysgol Bodffordd a'r Ganolfan Gymunedol.<br>Mae potensial i'r gymuned ddefnyddio mwy o adeilad newydd Ysgol Corn Hir a manteisio ar y cyfleusterau ychwanegol sydd ar gael. E.e. Ardal Gemau Aml- ddefnydd (MUGA) a fydd yn annog cyfranogiad mewn chwaraeon a hamdden yn y gymuned |
| Effeithiau eraill<br>Cludiant a cyhoeddus | Os cymeradwyir y cynnig, ni fyddai unrhyw newid i'r trefniadau teithio cyfredol.<br>Mae'n annhebygol iawn y byddai'r cynnig yn cael effaith ar gludiant cyhoeddus.<br>Cyflwynodd 13% o randdeiliaid y sylwadau canlynol mewn ymateb i'r asesiad effaith. | Cadarnhaol | Ni ragwelir unrhyw newidiadau i'r trefniadau cyfredol.<br>Gan mai'r opsiwn amgen rhesymol arall yw i "Adeiladu Ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae", ni fyddai unrhyw effeithiau ychwanegol o ran teithio a diogelwch ar y ffyrdd fel y nodwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad. |

| Meini Prawf | Arsylwadau | Effaith<br>Negyddol/<br>Niwtral/<br>Cadarnhaol | Mesurau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| | • Ni fydd disgyblion Ysgol Bodffordd yn gallu cerdded na reidio beic i'r ysgol<br>• Dim llwybr cerdded diogel o Fodffordd i'r safle ysgol newydd arfaethedig<br>•Pryder ynghylch yr amser teithio ychwanegol i ddisgyblion Ysgol Bodffordd i safle newydd yr ysgol<br>• Diogelwch ar y ffyrdd ar safle newydd yr ysgol | | Oherwydd y gorgapasiti yn yr Ysgol Corn Hir bresennol, os na ddarperir adeilad newydd gyda mwy o gapasiti, byddai'n rhaid cludo plant o ddalgylch Corn Hir i ysgolion eraill y tu allan i'r dalgylch am gost uwch i'r Cyngor. |
| Arall<br>Effaith ar y gymuned – gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol | Cyflwynodd 56% o randdeiliaid y sylwadau canlynol mewn ymateb i'r asesiad effaith:<br><br>• Effaith ar Eisteddfod Bodffordd a Gŵyl Bodffordd<br>• Effaith ar Gylch Meithrin Bodffordd a meithrinfeydd preifat yn yr ardal<br>• Newid demograffig Bodffordd - llai o deuluoedd ifanc yn symud i mewn<br>• Lles preswylwyr Bodffordd gyda cholli canolfan gymunedol | Cadarnhaol | Rhagwelir y bydd yr opsiwn amgen rhesymol arall yn cael effaith gadarnhaol ar yr effeithiau ychwanegol a ddarperir gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad. |
| | Effaith gyfunol ar y gymuned | **+5 Cadarnhol** | |

**Casgliad – Byddai'r cynnig i weld yn cael effaith Gadarnhaol ar y gymuned.**

## 11. YR OPSIWN AMGEN RHESYMOL ARALL - DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi pwrpas cyffredinol cyfreithiol-rwym o saith Nod Llesiant a phum Ffordd o Weithio sydd wedi'u cynluinio i gefnogi a darparu gwasanaeth cyhoeddus sy'n diwallu eu anghenion y presennol heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain.

### 11.1 Sut y mae'r opsiwn amgen rhesymol arall yn diwallu gofynion ffordd o weithio?

| Ffordd o weithio | Diffiniad | Sut y mae'r opsiwn yn cwrdd â gofynion ffordd o weithio |
|---|---|---|
| **Hirdymor** | | |
|  | Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd | Sicrhau bod addysg yn y gymuned yn cael ei chynnal a sicrhau bod lleoedd digonol mewn ysgolion i gwrdd ag anghenion heddiw a'r dyfodol. Sicrhau bod y sefydliad ysgol yn ffit i bwrpas ac yn cydymffurfio â chanllawiau 21ain Ganrif. |
| **Atal** | | |
|  | Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu rhag mynd yn waeth gynorthwyo cyrff cyhoeddus i gwrdd â'u nod | Diogelu dyfodol tymor hir addysg yn yr ardal. |
| **Integreiddio** | | |
|  | Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill | Mae integreiddio cymuned yn ffocws i bob ysgol newydd sy'n creu amgylchedd i gefnogi diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg. Mae darparu lleoedd digonol yn sicrhau y gellir cyflwyno'r cwricwlwm ac mae'n diwallu amcanion cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. |
| **Cydweithio** | | |
|  | Cydweithio ag unrhyw unigolyn arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a all helpu'r corff i gwrdd â'i amcanion llesiant. | Er mwyn adeiladu adeilad newydd ar gyfer disgyblion Ysgol Corn Hir bydd angen cydweithredu â rhanddeiliaid yn ystod ac ar ôl y broses adeiladu i sicrhau dyfodol tymor-hir addysg yn yr ardal.Mae'r Cyngor yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion, Estyn, GwE, cynghorau cymuned a nifer o bartneriaid mewnol ac allanol i sicrhau y bydd yr adeilad yn diwallu anghenion tymor byr ac anghenion y dyfodol o ran y defnyddwyr a'r |

| Ffordd o weithio | Diffiniad | Sut y mae'r opsiwn yn cwrdd â gofynion ffordd o weithio |
|---|---|---|
| | | gymuned y bydd yn gwasanaethu arnynt. |
| **Ymglymiad** | | |
|  | Pwysigrwydd ymglymu pobl sydd â diddordeb yng nghyflawniad y nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu. | Os bydd y opsiwn amgen rhesymol arall hwn i "Adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae, yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith, bydd grŵp rhanddeiliaid yn cael ei ffurfio fydd â diddordeb yng nghyflawniad y nodau llesiant. |

## 11.2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Er mwyn gwireddu'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion a gan ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) byddwn yn canolbwyntio ar greu cymunedau mwy gwydn , ar ymgysylltu â'n cymunedau, ar sefydlu partneriaeth leol ac ar gynnwys ein cymunedau yn y cynllunio tymor hir. Drwy ddilyn proses or fath, anelwn at alluogi cyflenwyr a chymunedau i ddatblygu gwasanaethau yn ôl yr angen, i annog rhannu adnoddau ac i arwain at wariant mwy effeithlon yn y tymor hir.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithio tuag at gyflawni amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015). Fel dilyniant i'r asesiad llesiant a gynhaliwyd, mae cynllun llesiant wedi'i ddatblygu, sy'n cael ei arwain gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cyd rhwng Gwynedd ac Ynys Môn. Bydd y trefniadau ymgynghori ac ymgysylltu ar gyfer moderneiddio ysgolion yn cael eu cynllunio i ddiwallu anghenion y cynllun.

Mae'r tabl isod yn amlinellu sut y rhagwelir bydd yr opsiwn amgen rhesymol arall i "**Adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae"** ,yn cyfrannu at y 7 nod llesiant:

| 7 nod llesiant | Sut fydd yr opsiwn amgen rhesymol arall yn cyfrannu at y 7 nod llesiant |
|---|---|
| Llewyrchus | Bydd y prosiect yn sicrhau bod cael adeilad newydd i Ysgol Corn Hir yn addas i bwrpas ac yn sicrhau y gwireddir gallu a photensial bob disgybl i lwyddo. |
| Cyfartal | Mae'r Cyngor wedi'i ymrwymo i sicrhau'r gwerth mwyaf posibl o bob punt y mae'r Cyngor yn ei gwario, a gellir gwireddu hyn â buddion cymunedol. Bydd y Cyngor yn ymgorffori buddion cymunedol ym mhob prosiect gan gynnwys yr opsiwn hwn os cmeradwyir adeilad newydd i Ysgol Corn Hir. Bydd y Cyngor hefyd yn sicrhau cyfle cyfartal waeth beth yw gallu a chefndir disgybl yn unol ag egwyddorion ei Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a'i Gynllun Cydraddoldeb Strategol. Sicrhau bod |

| 7 nod llesiant | Sut fydd yr opsiwn amgen rhesymol arall yn cyfrannu at y 7 nod llesiant |
|---|---|
| | pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a gwireddu eu potensial hirdymor yw un o flaenoriaethau pwysicaf y Cyngor fel y crybwyllwyd yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir Ynys Môn 2020-2024 a Chynllun y Cyngor 2017-2022. |
| Cydnerth | Bydd yr adeilad ar gyfer Ysgol Corn Hir yn cael ei ddylunio i fod â chostau cynnal a chadw isel gyda sgôr BREEAM rhagorol. (Mae BREEAM yn ddull asesu cynaliadwyedd ar gyfer prosiectau uwchgynllunio, seilwaith ac adeiladau). Bydd gan yr adeilad osodiadau dŵr effeithlon a lle i ystyried cyfleoedd i dyfu bwyd. Bydd hyn yn ei dro yn cefnogi ardaloedd ar gyfer bywyd gwyllt a fydd yn hygyrch i bob disgybl a bydd yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r defnydd o fentrau eco-gyfeillgar fel ysgolion-eco. |
| Iachach | Mae'r ddwy ysgol yn gweithredu fel ysgolion cymunedol.<br>Ar ben hynny, bydd gan yr adeilad newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir,<br>ystafell gymunedol y gellid ei defnyddio fel canolbwynt cymunedol sy'n hyrwyddo cymunedau iachach e.e. trwy gynnig gweithgareddau chwaraeon i aelodau'r gymuned. Bydd gan y safle arfaethedig ar gyfer Ysgol Corn Hir Ardal Gemau Aml-ddefnydd (MUGA) a fydd yn annog cyfranogiad mewn chwaraeon a hamdden. |
| Cymunedau cydlynus | Byddai'r gwasanaethau a ddarperir gan Ysgol Bodffordd a Chanolfan Gymunedol Bodffordd yn parhau. Wrth i Ysgol Corn Hir gael ei hadleoli, bydd gweithgareddau a gwasanaethau a ddarperir o'r ysgol yn cael eu darparu yn adeilad newydd Ysgol Corn Hir a fydd â mwy o le a gyda gwell cyfleusterau.<br>Byddai amodau lle gall pobl a chymunedau wneud y pethau sy'n bwysig iddynt yn parhau ac yn cael eu creu ymhellach. |
| Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Mae Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir yn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Bydd yr opsiwn amgen rhesymol arall hwn yn cynnal y ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg yn yr ardal.<br><br>Bydd y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn cydweithredu â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn i hybu defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned ac yn cyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Dysgu yn adrodd yn chwarterol i Fforwm Iaith y Sir ar ddefnydd o'r Gymraeg yn ysgolion y Cyngor. Caiff Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) y Cyngor ei fonitro'n chwarterol gan Fforwm Iaith y Sir. Mae perfformiad Cymraeg y disgyblion yn y ddwy ysgol h.y. y |

| 7 nod llesiant | Sut fydd yr opsiwn amgen rhesymol arall yn cyfrannu at y 7 nod llesiant |
|---|---|
| | ganran o ddisgyblion sy’n cyflawni’r safon ofynnol yn dda yn y ddwy ysgol. |
| Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Mae’r rhaglen moderneiddio ysgolion a’r prosiectau cysylltiedig yn cyd-fynd â strategaethau corfforaethol, lleol a chenedlaethol. Mae’r rhaglen wedi gweithio’n agos â Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid a phartneriaid i sicrhau bod y prosiectau’n cael eu cefnogi a bod y cyfeiriad strategol yn cael ei ddeall. Golyga hyn bod rhanddeiliaid yn deall sut y bydd y cynllun arfaethedig yn cynorthwyo i gyflawni nodau busnes, amcanion strategol a chynlluniau’r Cyngor.<br>Bydd gwelliannau i’n hysgolion yn arwain at welliannau mewn effeithlonrwydd ynni e.e. drwy gynhyrchu trydan gyda phaneli ffotofoltaidd. Bydd hyn hefyd yn arwain at leihad yng nghynhyrchiad carbon deuocsid ac yn cynorthwyo i addysgu’r disgyblion ar sut i ddefnyddio adnoddau naturiol yn ddoeth. |

## 12. CASGLIAD I'R OPSIWN AMGEN RHESYMOL ARALL

Aseswyd yr opsiwn amgen rhesymol arall i "**Adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae"**, am ei effaith bosibl ar:

- Cydraddoldeb
- Iaith h.y. y Gymraeg
- Cymuned.

Roedd yr effaith ar bob rhan fel a ganlyn:

| **Effaith gyfunol ar:** | **Effaith:** **Cadarnhaol neu Negyddol** |
|---|---|
| Cydraddoldeb | **+5 Cadarnhaol** |
| Iaith | **+4 Cadarnhaol** |
| Cymuned | **+5 Cadarnhaol** |

Ar ôl ystyried yr opsiwn amgen rhesymol arall am ei effaith bosibl ar Gydraddoldeb, yr Iaith Gymraeg a'r Gymuned, byddai'r opsiwn amgen rhesymol arall yn cael effaith gadarnhaol.

Mae'r ddogfen hefyd yn dangos yn Adran 11 sut mae'r opsiwn amgen rhesymol arall yn diwallu gofynion Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## 13. CYMHARIAETH RHWNG Y CYNNIG GWREIDDIOL A'R OPSIWN AMGEN RHESYMOL ARALL

Y cynnig gwreiddiol oedd i **“**Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir”

Yr opsiwn amgen rhesymol arall a argymhellir yn awr i'r Pwyllgor Gwaith ar ôl yr ymgynghoriad statudol yw **“Adeiladu Ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae” .**

Mae'r tabl isod yn cymharu'r cynnig gwreiddiol â'r opsiwn amgen rhesymol arall.

| | ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB | ASESIAD EFFAITH IAITH | ASESIAD EFFAITH CYMUNED |
|---|---|---|---|
| **Cynnig Gwreiddiol**<br><br>**Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir”** | +3 Cadarnhaol (Adran 2) | +2 Cadarnhaol ( Adran3) | 4 Niwtral ( Adran 4) |
| **Opsiwn amgen rhesymol arall**<br><br>**Adeiladu Ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae.** | +5 Cadarnhaol (Adran 8) | +4 Cadarnhaol (Adran 9) | +5 Cadarnhaol (Adran 10) |

Mae'r tabl uchod yn nodi bod yr opsiwn amgen rhesymol arall i “**Adeiladu Ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae”,** yn sgorio'n uwch o ran yr effaith Cydraddoldeb, yr Iaith Gymraeg a'r Gymuned na'r cynnig gwreiddiol.

## 14. HAWLIAU DYNOL

Hawliau a rhyddid i bob unigolyn yw hawliau dynol, waeth beth yw eu cenedligrwydd na'u dinasyddiaeth. Mae yna 16 o hawliau sylfaenol yn y Ddeddf Hawliau Dynol -oll wedi'u cymryd o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. At bwrpas y Ddeddf, fe gyfeirir atynt fel 'Hawliau'r Confensiwn'. Fe'u rhestrir isod:

(Cyflwyniad yw Erthygl 1 – nid yw wedi'i ymgorffori yn y Ddeddf Hawliau Dynol)
Erthygl 2: Yr hawl i fywyd
Erthygl 3: Gwahardd artaith
Erthygl 4: Gwahardd caethwasiaeth a llafur gorfodol
Erthygl 5: Yr hawl i ryddid a diogelwch
Erthygl 6: Yr hawl i dreial teg
Erthygl 7: Dim cosb heb gyfraith
Erthygl 8: Hawl i barch at fywyd preifat a theuluol
Erthygl 9: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd
Erthygl 10: Rhyddid mynegiant
Erthygl 11: Rhyddid cymdeithasiad ac ymgynnull
Erthygl 12: Yr hawl i briodi
Erthygl 14: Gwahardd gwahaniaethu
Erthygl 1 o Brotocol 1: Diogelu eiddo
Erthygl 2 o Brotocol 1: Hawl i gael addysg
Erthygl 3 o Brotocol 1: Hawl i etholiadau rhydd
Erthygl 1 o Brotocol 13: Diddymu'r gosb eithaf

## 15. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae angen i gyrff cyhoeddus wneud yn siŵr eu bod yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r ddeddf yn pennu saith o nodau llesiant:

| Nod | Disgrifiad o'r nod |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. |
| **Cymru gydnerth** | Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). |
| **Cymru iachach** | Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** | Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. |
| **Cymru â diwylliant bywiog le mae'r Gymraeg yn ffynnu** | Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. |

This page is intentionally left blank

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

**Caffael tir ar gyfer adeiladu ysgol gynradd newydd /**
**The acquisition of land for the construction of a new primary school**

<table>
<tr><td colspan="2">Paragraff(au) 14 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraph(s) 14 Schedule 12A Local Government Act 1972<br>(Information relating to the financial or business affairs of any particular person (including the authority holding that information)).</td></tr>
<tr><td colspan="2">Y PRAWF – THE TEST</td></tr>
<tr><td>Mae yna fudd i'r cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-<br><br>Mae budd i'r cyhoedd o ran tryloywder mewn perthynas â chyllid cyhoeddus, gan gynnwys prynu tir ac asedau eraill. / There is an identified public interest in transparency concerning the public finances, including the purchase of land and other assets.</td><td>Y budd i'r cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wybodaeth, a fydd, os caiff ei datgelu ar hyn o bryd, yn debygol o niweidio materion ariannol a busnes y Cyngor a pharti arall. / The report refers to information, which if disclosed at this stage is likely to prejudice the financial and business affairs of the Council and another party.<br><br>Mae budd cyhoeddus cryf mewn sicrhau nad yw materion busnes a thrafodaethau'r Cyngor gyda thrydydd partïon yn cael eu tanseilio er anfantais bosib i'r Cyngor. /<br>There is a strong public interest in ensuring that the business affairs and negotiations of the Council with third parties are not undermined to the potential detriment of the Council.<br><br>Cydnabyddir bod budd cyhoeddus cryf mewn sicrhau bod y Cyngor yn gallu prynu a datblygu tir ac asedau ar y telerau mwyaf manteisiol. / It is recognised that there is a strong public interest in ensuring that the Council is able to purchase and develop land and assets at the most advantageous terms.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Argymhelliad - Mae'r budd i'r cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na'r budd i'r cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth. Recommendation - The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information.</td></tr>
</table>

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank